

BERKELEY
LIBRARY
UNIVERSITY OF
CALIFORNIA

Boston, Thomas, 1677-1732.

# PEDWAR CYFLWR DYN:

SEF,

EI GYFLWR O

DDINIWEIDRWYDD,

YN EIN RHIENI CYNTAF YN MHARADWYS;

*Ei Gyflwr Natur;*

SEF EI HOLLAWL LYGREDIGAETH TRWY Y CWYMP.

CYFLWR ADFEREDIG

Y RHAI A DDYCHWELWYD TRWY RAS;

**Cyflwr Tragywyddol**

HOLL DDYNOLRYW YN Y BYD A DDAW.

Ar ddull Pregethau ar wahanol destunau.

GAN Y PARCHEDIG A'R DYSGEDIG T. BOSTON,
Gweinidog yr Efengyl yn Ettrick, yn Scotland.

*Wedi ei gyfieithu o'r Saesoneg*

GAN I. PARRY.

Caerlleon:

ARGRAFFWYD DROS I. PARRY, GAN I. FLETCHER.

MDCCCXXI.

1821

X139
331A

BT700
B6819
1821
MAIN

# CYNNWYSIAD.

## I. Y CYFLWR O DDINIWEIDRWYDD, YN YR HWN Y CREWYD DYN.


| | TU DAL. |
|---|---|
| Cyfiawnder gwreiddiol Dyn . . . . . | 3 |
| Dedwyddwch gwreiddiol Dyn . . . . | 9 |
| Cymhwysiad o athrawiaeth y Cyflwr o Ddiniweidrwydd | 16 |


## II. CYFLWR NATUR, NEU HOLLOL LYGREDIGAETH.


| | | |
|---|---|---|
| PEN I. | *Pechadurusrwydd Dyn yn ei Gyflwr Natur* . | 20 |
| | Llwgr Natur Dyn yn cael ei brofi . . . | 25 |
| | Llygredigaeth y Deall . . . . . | 38 |
| | ——— Ewyllys . . . . . | 54 |
| | ——— Serchiadau . . . . . | 82 |
| | ——— Cydwybod . . . . . | 83 |
| | ——— Corph . . . . . | 85 |
| | Y modd y llygrwyd Natur Dyn . . | 86 |
| | Cymhwysiad o Athrawiaeth Llygredigaeth Natur | 89 |
| | Fod Duw yn sylwi yn fanwl ar ein Llygredigaeth | 94 |
| | Fod Dynion heb sylwi ar bechod eu Natur . | 95 |
| | Golwg neillduol ar lwgr Natur . . | 97 |
| | Pa ham y dylid sylwi yn neillduol ar bechod natur | 98 |
| | Y modd i gael golwg ar lwgr Natur . . | 101 |
| PEN II. | *Trueni Cyflwr Dyn wrth Natur* . . . | 102 |
| | Fod Cyflwr Dyn wrth Natur yn Gyflwr o Ddigofaint | 104 |
| | Cadarnhâd ac Amddiffyniad yr Athrawiaeth uchod | 114 |
| | Cymhwysiad o'r Athrawiaeth am Druenusrwydd Dyn | 119 |
| | Rhybydd effro i'r Diadgenedledig . . | 122 |
| | Cynghorion i ffoi rhag y llid a fydd . . | 130 |
| | Dyledswydd y rhai a waredwyd rhag y Digofaint | ib. |
| PEN III. | *Hollawl anallu Dyn i waredu ei hun* . . | 134 |
| | Gwrthddaleuon yn erbyn anallu Dyn i waredu ei hun | 142 |


## III. CYFLWR ADFERREDIG TRWY RAS.


| | | |
|---|---|---|
| PEN I. | *Am Ail-enedigaeth* . . . . . | 148 |
| | Am Natur Ail enedigaeth . . . . . | 149 |
| | Y Meddwl yn cael ei oleuo . . . | 154 |
| | Yr Ewyllys yn cael ei adnewyddu . . . | 158 |
| | Cyfnewidiad y Serchiadau . . . . | 161 |
| | Y Gydwybod yn cael ei hadnewyddu . . | 164 |


0504

Y Cof yn cael ei wellhâu . . . 164
Cyfnewidiad yn cael ei wneuthur ar y Corph . 166
Cyfnewidiad yn yr Ymarweddiad . . . ib.
Y Cyffelybrwydd sydd rhwng Genedigaeth naturiol a Genedigaeth Ysprydol . . . 169
Cymhwysiad o Athrawiaeth Ailenedigaeth . 173
Amheuon y Saint o'u hâil-enedigaeth yn cael eu hatteb . . . . . 177
Angheurheidrwydd yr ail-enedigaeth . . 185
Cynghorion i'r rhai adenedig . . . 193
PEN II. *Yr undeb dirgeledig rhwng Crist a Chredinwyr* 195
Golygiad cyffredinol ar yr Undeb Dirgeledig . 197
Am ein Cyff naturiol a'n Cyff goruwchnaturiol 200
Adda y Cyff naturiol . . . . 201
——— Cyff dirywiedig . . . . . 202
——— Cyff marw . . . . . . 204
——— Cyff yn lladd . . . . . 206
Crist ein Cyff goruwch naturiol—Fel Cyfryngwr . 208
——— Yr Etholedigion . . . . . 209
——— Y modd y cymmerir y Canghenau o'r Bon-cyff Naturiol . . . . . 210
——— Y modd yr impir Pechadur yn Nghrist . 222
——— Ymaflyd yn y Pechadur . . . . 223
——— Casgliadau . . . . . 224
Y Budd sydd yn deilliaw trwy Undeb a Christ—Cyfiawnhâd 228
——— Heddwch â Duw . . . . 232
——— Heddwch Cydwybod . . . . 233
——— Mabwysiad . . . . . . 235
——— Sancteiddhâd . . . . . . 237
——— Cynnydd mewn Grâs . . . . 241
——— Ffrwythlondeb . . . . . . 244
——— Cymmeradwyaeth . . . . . 248
——— Sicrhâd . . . . . . 250
——— Cynnaliaeth . . . . . . 253
——— Gofal y Gwinllanydd . . . . 256
——— Dyledswydd y Saint a unwyd felly . . 259
——— Nad yw Pechaduriaid yn cyfranogi o honynt 262

IV. CYFLWR TRAGYWYDDOL; NEU, CYFLWR O GYFLAWN DRUENI NEU DDEDWYDDWCH.

PEN I. *Marwolaeth* . . . . . 263
Sicrwydd Marwolaeth . . . . . 264
Gwagedd bywyd dyn . . . . 267
Marwolaeth—Drych i weled Gwagedd y byd . 271
——— Ystor-dŷ o foddlonrwydd ac Amynedd . . 272
——— Ffrwyn i attal Chwantau . . . . 272

PEN II. *Y Rhagor rhwng y Cyfiawn a'r Drygionus yn angau* 280
Cyflwr anobeithiol y Drygionus wrth farw . 282
Gocheliadau rhag gau obaith am y nefoedd . 290
Gobeithiol gyflwr y Duwiol wrth farw . 294
Attebiad i Wrthddadl . . . . 299
Attebiad i Wrthddadleuon y Saint yngwyneb Marw 302
Ystyriaethau tu ag ddwyn y Saint i gymmodi ag Angau . . . . . . 306
Cyfarwyddiadau i barotoi erbyn Angau . 309
PEN III. *Am yr Adgyfodiad* . . . . . 314
Athrawiaeth yr Adgyfodiad yn cael ei chadarnhâu 315
Sicrwydd yr Adgyfodiad . . . 319
Natur yr Agyfodiad . . . . 321
Ansoddau Cyrph y Duwiolion yn yr Adgyfodiad 328
Ansoddau Cyrph y rhai Drygionus yn yr Adgyfodiad 331
Cysur i bobl Dduw . . . . . 333
Dychryn i'r Diadgenedledig . . 334
PEN IV. *Y Farn Gyffredinol* . . . . 337
Disgyniad Crist y Barnwr o'r Nef . . 342
Gwŷs i'r Farn . . . 343
Cyd-ymddangosiad y Pleidiau . . . 346
Y Didoliad rhwng y Cyfiawn a'r Drygionus . 347
Prawf y Pleidiau . . . . . 349
Agoriad y Llyfrau . . . . . 352
Cyhoeddiad Dyfarniad y Saint . . . 355
Y Saint yn barnu y Byd . . . 357
Collfarn yr Annwiolion . . . 358
Y Cydlosgiad cyffredinol . . . . . 362
Cysur i'r Saint . . . . . 365
Dychryn i'r Anghredinwyr . . . . 366
Annogaeth i barotoi erbyn y Farn . . 368
PEN V. *Teyrnas Nefoedd* . . . . . 370
Cwbl ddedwyddwch y Saint . . . . 371
Natur Teyrnas Nefoedd . . . 372
Brenindod y Saint . . . ib.
Y Nefoedd yn cael ei darlunio megys Gwlad . 379
Y Ddinas Freninol . . . 380
Y Palas Breninol . . . . ib.
Gardd y Palas . . . . 381
Y Trysorau Breninol . . . 382
Y Deml . . . . ib.
Y Gymdeithas yn nheyrnas Nefoedd . . 383
Presennoldeb Duw a'r Oen . . . 386
Derbyniad y Saint i'w Teyrnas . . . 397
Yr Ansawdd y dygir hwynt i mewn . . 398
Prawf eu Hawl i'r Deyrnas . . . 400
Dyledswydd a Chysur ei Hetifeddion . . 403

Annogaeth i'r rhai na's meddant hawl i'r Deyrnas . . . 405
PEN VI. *Am Uffern* . . . . . 406
Y Felldith dan yr hon y cauir y Colledigion . . . 407
Eu Trueni yn Uffern . . . . . 411
Y Gosp o Golled yno . . . . . ib.
Y Gosp o Deimlad yno . . . . . 418
Cymdeithas y Cythreuliaid . . . . . 427
Tragywyddoldeb Trueni y Colledigion . . . 428
Corsen Fesur . . . . . 434
Clorian y Cyssegr . . . . . 435
Annogaethau i ffoi rhag y llid a fydd . . . 437

## BEIAU YR ARGRAFF.

| *T. d.* | *llin.* | *yn lle.* | *darllen.* |
|---|---|---|---|
| 11 | 14 | *o farwolaeth* | *farwolaeth* |
| 13 | 30 | wei | wedi |
| 15 | 30 | goryh | gorph |
| 21 | 30 | yn y'mhlith | y'mhlith |
| 26 | 21 | cyfranogi | cyfranu |
| 43 | 21 | Esay lviii | Esay liii |
| 53 | 4 | ddfysgu | ddysgu |
| — | 5 | yn rawr | yn fawr |
| — | 6 | dy nod | dyrnod |
| 65 | 36 | ie | ei |
| 69 | 41 | gweu | nyddu |
| 76 | 3 | y'ngwaed | â gwaed |
| 92 | 40 | dillad yn | dilledyn. |
| 95 | 13 | Arglwyd dyn | Arglwydd yn |
| 152 | 1 | serchiadau, | ar serchiadau |
| 163 | 8 | oddiar | trwy |
| 166 | 2 | llygaid | llygad |
| 178 | 24 | edifarhant | edifarhâont |
| 199 | 4 | amgeu | angeu |
| 200 | 20 | yr | yn |
| 207 | 27 | fol | fel |
| 208 | 22 | an | ar |
| 304 | 17 | | dilëer (:) |
| 319 | 1 | gyartal | gyf[illegible]l |
| 333 | 21 | gwech | gewch |

# Y
# CYFLWR CYNTAF.

SEF,

Y CYFLWR O DDINIWEIDRWYDD YN YR HWN Y CREWYD DYN.

PREG. 7. 29.

*Wele, hyn yn unig a gefais; wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn; ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygion.*

---

MAE pedwar peth yn dra angenrheidiol eu gwybod gan bawb a fynont fyned i'r nef: *Yn gyntaf*, yr hyn oedd dyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, fel y *gwnaeth* Duw ef. *Yn ail*, yr hyn ydyw mewn cyflwr o lygredigaeth, fel y *dadwnaeth* efe ei hun. *Yn drydydd*, yr hyn a raid iddo fod mewn cyflwr o ras, wedi ei greu yn Nghrist Jesu i weithredoedd da, os byth y gwneir ef yn gyfranog o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Ac, *yn olaf*, yr hyn a fydd efe yn ei gyflwr tragywyddol, fel y gwneir ef gan Farnwr pawb, naill ai 'n berffaith ddedwydd, neu yn llwyr druenus, a hyny am byth. Mae y rhai hyn yn hyngciau pwysfawr, y'nglyn wrth fywyd crefydd ymarferol, i'r hwn y mae y rhan fwyaf o ddynion, ïe lawer o grefyddwyr, yn yr oes lygredig hon, yn hollawl ddieithr. Yr wyf yn bwriadu, gan hyny, trwy gymmorth Duw, agoryd y pethau hyn, a'u cymhwyso

Dechreuaf gyd â'r cyntaf, sef, y cyflwr o ddiniwedrwydd: fel, wrth ganfod dyn wedi ei addurno yn ol cyffelybrwydd palas, y byddo i'r dinystr gael mwy o effaith arnom; y gwerthfawrogom fwy ar y person anghydmarol, yr hwn a ordeiniodd y Tad yn adgyweiriwr y rhwygiad; ac fel yr ymroddom, yn ddiysgog, i rodio'r ffordd sydd yn arwain i'r ddinas y mae iddi sylfaeni disigl.

Yn y testun gwelwn dri pheth:

I. Y cyflwr o ddiniweidrwydd yn yr hwn y crewyd dyn "Wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn." Wrth ddyn yma y

mae i ni ddeall ein rhieni cyntaf; y ddau gynllun, gwreiddyn dynolryw, crynodeb y byd, a'r ffynnonell o'r hon y tarddodd yr holl genedlaethau; fel y gwelir trwy gymharu Gen. v. 1. 2. "Yn y dydd y creodd Duw ddyn, ar lun Duw y gwnaeth efe ef, Yn wrryw ac yn fanyw y creodd efe hwynt; ac efe a'u bendithiodd hwynt," (fel gwreiddyn dynolryw) "ac a alwodd eu henw hwynt, Adda." Yr un yw 'r gair gwreiddiol yn y testun. Yn yr ystyr hwn, gwnaed dyn yn uniawn, (yn gyfattebol i nattur Duw yr hwn y mae ei waith yn berffaith.) heb ddim anmherffeithrwydd, llygredd, nac egwyddor lygredig yn ei gorph na'i enaid. Fe'i "gwnaed yn uniawn," hyny yw, uniawn yn ol ewyllys a chyfraith Duw, heb ddim anwastadrwydd yn ei enaid. Yn ei duedd creadigol, cyfeiriodd at Dduw yn union gyrchol fel ei ddyben pénaf; yr hwn dueddiad oedd yn cael ei ddangos yn agwedd uniawn a syth ei gorph, ffurf nad oes un creadur arall yn feddiannol arni. Yr hyn oedd Dafydd mewn ystyr efengylaidd, hyny oedd efe mewn ystyr ddeddfol: Un "yn ol calon Duw," Yn hollawl gyfiawn, pur, a sanctaidd. Fel hyn y gwnaeth Duw ef: nid ei greu yn gyntaf, a thrachefn ei wneyd yn uniawn; ond yr oedd yn uniawn yn ei wneuthuriad. Yr oedd cyfiawnder gwreiddiol yn gydgreedig âg ef; y munud y daeth yn ddyn, yr oedd yn ddyn cyfiawn, yn foesol dda; â'r un anadl yr anadlodd Duw ynddo enaid byw, yr anadlodd efe ynddo enaid cyfiawn.

2. Wele yma gyflwr cwympiedig dyn: "Ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygion." Syrthiasant o'u gorphwysfa yn Nuw, ac ymroisant i chwilio dychymygion o'u heiddo eu hunain, i wellha eu cyflwr; a hwy a'i llwyr ddyfethasant ef. Yr oedd eu cwymp yn hollawl o'u priodol chwant eu hunain, ni fynent aros fel y gwnaeth Duw hwynt; ond hwy a chwiliasant ddychymygion i anharddu ac i andwyo eu hunain.

3. Sylwn yma sicrwydd a phwysfawrogrwydd y pethau hyn; "Wele, *hyn yn unig a gefais*," Cred hwynt, maent yn ffrwyth olrheiniad manwl, a difrifol ymofyniad, a wnaed gan y doethaf o ddynion. Yn y ddwy adnod flaenorol, mae Solomon yn ymddangos fel un yn ymofyn am ddaioni yn y byd: ond y canlyniad oedd, ni allai gael un boddlondeb yn ei ymofyniad am dano, a hyny nid o ddiffyg llafur, oblegyd efe a "chwiliodd o'r naill beth i'r llall i gael y rheswm." Wele hyn a gefais (medd y pregethwr,) "Yr hyn beth y chwilia fy enaid am dano, ac ni chefais." Ni allai wneuthur amlygiad boddhaol o honaw, i beri attal ei ymofyniad. Yr oedd efe yn gweled dynion da

yn anaml iawn, fel pe buasai un, yn mysg mil; a gwragedd da yn fwy anaml, heb un dda yn mysg ei fil gwragedd a'i ordderchwragedd, 1 Bren. xi 3.

Ond a allai hyny atteb y gofyniad ardderchog "Pa le y ceir doethineb?" Na allai; ac er y gall profiadau eraill fod yn groes i Solomon yn hyn, ni fydd hyny yn un bai ar ei graffder ef; canys ni allai efe benderfynu y gofyniad, yr hwn ni therfynir hyd y dydd olaf. Ond yn mysg yr holl bethau ansicr hyn, mae un pwngc wedi ei gael allan, a'i sefydlu: "Hyn a gefais." Gellwch hyderu arno fel gwir tra sicr, a llawn foddloni ynddo: "Wele hyn;" tremiwch arno, fel matter teilwng o'r ystyriaeth dyfnaf a difrifaf: sef, bod natur dyn yn awr wedi ei llygru, ond nid o Dduw y llygrwyd hi, canys efe a wnaeth ddyn yn uniawn; ond o honynt eu hunain, "hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygion."

Athrawiaeth, *gwnaeth Duw ddyn yn gwbl gyfiawn.*

Dyma 'r cyflwr o ddiniweidrwydd yn yr hwn y gosododd Duw ddyn yn y byd. Mae 'r darluniad o honaw yn dra byr, yn yr ysgrythyrau, mewn cymhariaeth i'r cyflyrau dilynol; gan nad oedd o fawr barhad, ond fe aeth heibio fel cysgod, trwy anmharch dyn ar ryddid ei ewyllys. Myfi a gaf,

Yn gyntaf, Chwilio i uniondeb y cyflwr yn yr hwn y crewyd dyn.

Yn ail, Gosod o'ch blaen rai o'r pethau dedwyddol oedd ynglyn âg ef.

Yn olaf, Cymhwyso 'r cwbl.

## *Am Gyfiawnder Gwreiddiol Dyn.*

Yn gyntaf, Am gyfiawnder y cyflwr hwn, ystyriwn, gan mai cyfiawnder digrëedig, cyfiawnder Duw, yw y rheol oruchaf; felly fod pob cyfiawnder crëedigol dynion neu angylion, yn dwyn perthynas a deddf fel ei reol. Ni all creadur fod yn annibynol ar Dduw yn ei weithredoedd a'i alluoedd mewn ystyr foesol, mwy nag y gall fod felly yn natturiol Rhaid i greadur, fel creadur gydnabod ewyllys ei Greawdwr fel ei oruchaf ddeddf; fel na all fod hebddo, ni ddylai fod ond iddo, ac yn ol ei ewyllys: Eto nid oes un ddeddf mewn grym, nes ei dadguddio. Felly y canlyn fod deddf i'r hon yr oedd dyn, fel creadur rhesymol, yn rhwymedig yn ei greadigaeth; a bod y ddeddf hon wedi ei dadguddio iddo. "Wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn" medd y testun. Mae hyn yn dangos fod

deddf, â'r hon yr oedd dyn yn gyd-ffurf yn ei greadigaeth; canys pan wneir unrhyw beth wrth reol, rhaid i'r rheol fod yn gyntaf. O'r hyn gallwn gasglu, nad oedd y ddeddf hon ddim amgen na'r dragywyddol, a'r anhepgorol ddeddf cyfiawnder a gadwyd yn mhob pwngc gan yr ail Adda: a wrthwynebir gan syniad y cnawd; ychydig weddillion o'r hon sy'n aros yn mhlith y Paganiaid; y rhai "heb fod y ddeddf ganddynt ydynt ddeddf iddynt eu hunain." Mewn gair, yr un yw'r ddeddf hon, a hono a grynhöwyd i fynu yn y deg gorchymyn, ac a gyhoeddwyd ar fynydd Sinai i'r Israeliaid, a elwir genym ni y ddeddf foesol; ac y mae cyfiawnder dyn yn gynnwysedig yn ei gydymffurfiad â'r ddeddf, neu y rheol hon. Yn fwy neillduol, y mae cydymffurfiad deublyg yn ofynedig gan ddyn: cydymffurfiad galluoedd ei enaid â'r ddeddf, yr hyn a elwir cyfiawnder greddfol; a chyd-ymffurfiad ei holl weithredoedd â hi, yr hyn a elwir cyfiawnder gweithredol. Yn awr, fe wnaeth Duw ddyn yn *reddfol* gyfiawn; dyn oedd i wneuthur ei hun yn *weithredol* gyfiawn: y cyntaf oedd yr ystôr a roddes Duw yn ei law: yr olaf, y defnydd a ddylasai wneyd o honaw. Swm yr hyn a ddywedais yw, mai y cyfiawnder yn yr hwn y crewyd dyn, oedd cyd-ymffurfiad holl gynneddfau ei enaid â'r ddeddf foesol. Dyma yr hyn a alwn ni yn gyfiawnder gwreiddiol, yr hwn y cynnysgaeddwyd dyn yn wreiddiol âg ef. Gellir ei gynnwys yn y tri pheth hyn.

*Yn gyntaf,* Yr oedd deall dyn yn llusern o oleuni. Yr oedd ganddo wybodaeth berffaith o'r ddeddf, ac o'i ddyledswydd yn gyfattebol: fe'i crewyd ar ddelw Duw; ac yn ganlynol, ni allasai fod mewn pall o wybodaeth, yr hon, sydd ran o'r ddelw, Col. iii. 10. "Y dyn newydd a adnewyddir mewn gwybodaeth, yn ol delw yr hwn a'i creodd ef." Ac, yn wir, yr oedd hyn yn angenrheidiol i'w addasu i ufudd-dod perffaith; gan na ellir ufuddhau yn ôl y ddeddf, os na fydd yr ufudd-dod yn tarddu oddiar ystyriaeth fod gorchymmyn Duw yn ei ofyn: Mae'n wir, na chafodd Adda y ddeddf yn ysgrifenedig ar lechi cerig: Ond fe'i hysgrifenwyd yn ei feddwl, gan fod gwybodaeth o honi ynddo o'i grëedigaeth. Duw a'i hargraffodd ar ei enaid, ac a'i gwnaeth yn ddeddf iddo ei hun, fel y mae y gweddillion o honi yn mhlith y Paganiaid yn profi, Rhuf. ii. 14, 15. Gan fod dyn wedi ei wneyd i fod yn enau tros y greadigaeth, i ogoneddu Duw yn ei waith; mae genym sail i gredu fod ganddo yn naturiol wybodaeth ragorol am waith Duw. Mae genym brawf o hyn yn ei waith yn rhoddi enwau ar anifeiliaid

y maes ac ehediaid yr awyr, y cyfryw sy'n dangos eu nattur. "A pha fodd bynag yr enwodd y dyn bob peth byw, hyny a fu ei enw ef," Gen. ii. 19. Mae y llywodraeth a roddes Duw iddo ar y creaduriaid, i'w trefnu a'u defnyddio yn gymmedrol yn ol ei ewyllys, (eto mewn israddoliaeth i ewyllys Duw) yn dangos ei wybodaeth o'u nattur. Heblaw hyn oll, y mae ei wybodaeth berffaith o ddeddf Duw, yn profi ei wybodaeth berffaith i drefnu achosion gwladol, canys "dyn da, wrth farn (sef wrth ddeddf Duw) y llywodraetha efe ei achosion," Psal. cxii 5.

*Yn ail,* Yr oedd ei ewyllys yn union wrth ewyllys Duw, Ephes. iv. 24. Nid oedd un llwgr yn ei ewyllys, na dim gogwyddiad na thuedd at ddrwg; oblegyd y mae hyny yn bechod dan ei enw priodol ei hun; felly y dywed yr apostol, Rhuf vii. 7. "Eithr nid adnabum i bechod, ond wrth y ddeddf: Canys nid adnabuaswn i drachwant, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, na thrachwanta." Tueddiad at ddrwg yn wir, yw ffynonell pechod, ac ni chydwedda â'r uniondeb y mae 'r testun yn dweyd y cynnysgaeddwyd dyn âg ef yn ei greadigaeth. Yr oedd ewyllys dyn y pryd hyny yn cyfeirio, ac yn tueddu yn natturiol, at Dduw a daioni, er yn newidiadwy. Yr oedd yn tueddu, trwy ei wneuthuriad gwreiddiol, i ddilyn ewyllys ei Greawdwr, fel y mae'r cysgod yn dilyn y corph; ac ni adawyd ef ar y fantol i ddrwg a dâ; oblegyd felly ni buasai yn uniawn, nac yn reddfol gydffurf â'r ddeddf; yr hon ni all oddef am funud i'r creadur beidio a chyfeirio at Dduw fel ei ddyben penaf, mwy nag y gall hi oddef dyn i fod yn dduw iddo ei hun. Yr oedd y ddeddf wedi ei hargraffu ar enaid Adda; Y mae hyn, yn ol y cyfammod newydd trwy yr hwn y mae delw Duw yn cael ei hadgyweirio, yn gynnwysiedig mewn dau beth.

1. Rhoddi y ddeddf yn y meddwl, yn dangos y wybodaeth o honi: 2. Ei hysgrifenu yn y galon, yn dangos tueddiad yn yr ewyllys, yn gyfattebol i orchymmynion y ddeddf, Heb. viii. 10. Fel y mae yr ewyllys, pan ystyriom ef wedi ei gyfnewid trwy ras, yn cael ei dueddu yn naturiol trwy y gras hwnw i'r un sancteiddrwydd yn ei holl ranau ag y mae y ddeddf yn ofyn; Felly 'r oedd ewyllys dyn fel y gwnaeth Duw ef ar y cyntaf, wedi ei gynnysgaeddu â thueddiadau naturiol i bob peth gorchymmynedig yn y ddeddf. Oblegyd os yw y rhai adgenedledig yn gyfranogion o'r dduwiol anian, fel mae 'n ddiamheuol eu bod, fel y dywed yr ysgrythyr, 2 Pedr. 1. 4. ac os cynnwys yr anian dduwiol hon dueddiadau yn y galon at sancteiddrwydd;

yna 'n ddiau nid oedd ewyllys Adda mewn diffyg o'r tuedd hwn; canys yr oedd delw Duw ynddo ef yn berffaith. Mae'n wir fel y dywedir, Rhuf ii. 14, 15 "Bod y cenedloedd yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau:" Nid yw hyn yn dangos ond eu gwybodaeth, y fath ag ydyw, o'r ddeddf; Ond y mae yr apostol at yr Hebreaid, yn y geiriau a grybwyllwyd, yn cymmeryd y gair calon mewn ystyr arall, yn ei wahaniaethu yn eglur oddiwrth y meddwl Rhaid caniatau, pan y mae 'r Arglwydd yn y cyfammod newydd, yn addo ysgrifenu ei gyfraith yn nghalonau ei bobl, ei fod yn arwyddo peth hollawl wahanol i'r hyn sydd gan y cenedloedd: er fod ganddynt ddychymmyg o honi yn eu meddyliau, etto y mae eu calonau yn myned fiordd arall: y mae tuedd a gogwyddiad yn eu hewyllys, hollawl groes i'r gyfraith hono; am hyny rhaid i'r ymadrodd perthynol i'r achos presennol yn ddiau arwyddo, heblaw y tybiau hyn yn y meddwl, dueddiadau yn yr ewyllys yn cyd-fyned â hyny: yr hyn dueddiadau er yn gymmysgedig â llygredd yn y rhai adgenedledig, oedd yn bur ac yn ddigymmysg yn Adda gyfiawn. Mewn gair, fel yr oedd Adda yn gwybod ewyllys ei feistr o ran ei ddyledswydd, felly yr oedd ei ewyllys yn tueddu at yr hyn oedd yn ei wybod.

*Yn drydydd*, yr oedd ei serchiadau yn gymmedrol, yn bur, ac yn sanctaidd; yr hyn sydd ran angenrheidiol o'r uniondeb yn yr hwn y crewyd dyn. Y mae gan yr apostol erfyniad, 2 Thess. iii. 5. "Yr Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at gariad Duw" hyny yw, yr Arglwydd a uniawno eich calonau, neu a'ch gwnelo yn uniawn at gariad Duw Dywaid y testun, fod dyn wedi ei wneuthur fel hyn yn *uniawn*. Mae y dyn newydd yn cael ei greu mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd, Eph. iv. 24. Yn awr y sancteiddrwydd hwn, fel y mae yn cael ei wahaniaethu oddiwrth gyfiawnder, a arwydda burdeb a threfnusrwydd ei serchiadau. Felly Paul, 1 Tim. ii. 8. a ewyllysiai y "gwyr i weddïo, gan dderchafu dwylaw sanctaidd, heb na digter na dadl." Oblegyd, fel y mae dwfr aflonydd yn anghymmwys i dderbyn delw yr haul; felly 'r galon lawn o serchiadau anmhur ac afreolus, nid yw'n gymmwys i dderbyn dim gan Dduw. Mae 'n wir fod awydd teimladol dyn yn tueddu yn naturiol at withrychau boddhaol i'w deimladau. Gan fod gan ddyn gorph ac enaid, a Duw wedi ei wneuthur i'w ogoneddu a'i fwynhau ef, ac i'r dyben hwn i ddefnyddio ei greaduriaid daionus yn îsraddol iddo ei hun; mae yn amlwg ei fod ef yn cael ei dueddu yn naturiol at ddai-

oni ysprydol, a thymhorol; eto at ddaioni ysprydol, y daioni penaf, fel ei brif ddyben. Am hyny yr oedd ei ysgogiadau teimladol, a'i dueddiadau, yn ddarostyngedig i'w reswm a'i ewyllys, y rhai oedd yn cyd-agweddu âg ewyllys Duw, ac nid yn groes iddo yn y radd leiaf. Oni bai hyny, buasai ynddo wrthwynebiadau; ei enaid yn tueddu yn naturiol at Dduw fel ei ddyben penaf, yn y rhan odidocaf o hono; a'r un enaid yn tueddu at y creadur fel y dyben penaf mewn îs ran o hono; yr hyn sydd anmhosibl; canys ni all fod gan ddyn, ar yr un amser ddau brif ddyben. Yr oedd serchiadau dyn y pryd hwnw, yn ei gyflwr cyntaf, yn bur oddiwrth halogedigaeth, yn rhydd oddiwrth bob aunbrefn ac anhwyl, oblegyd yn eu holl ysgogiadau, yr oeddynt oll yn ddarostyngedig i'w reswm goleu a'i ewyllys sanctaidd. Yr oedd ganddo hefyd allu gorchwyliaethol yn atteb i'w ewyllys; gallu i wneyd y da a wyddai y dylai ei wneuthur, a'r hyn yr oedd yn cael ei dueddu i'w wneuthur, sef, i gwblhau holl ddeddf Duw. Pe ni buasai felly, ni ofynasai Duw ganddo berffaith ufudd-dod; nid yw dweyd fod yr "Arglwydd yn casglu lle ni wasgarodd," ond cabledd calon ddrwg yn erbyn Duw da a haelionus, Math xxv. 24 26 Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gellid casglu fod y cyfiawnder a soniwyd, yn gyffredinol, ac yn naturiol, er yn newidiadwy.

*Yn gyntaf,* Yr oedd yn gyffredinol, mewn perthynas i'w ddeiliad, *yr holl ddyn;* a'i wrthrych, *yr holl ddeddf.* Gyffredinol wy'n feddwl, mewn perthynas i'w ddeiliad; canys yr oedd y cyfiawnder hwn trwy yr holl ddyn yn gyfan; lefain bendigaid ydoedd yn lefeinio yr holl does. Nid oedd hoel o'i lle yn mhabell y natur ddynol pan osododd Duw hi i fynu, er mor *ddrylliog* yw hi'n awr. Yr oedd dyn y pryd hwnw yn sanctaidd mewn corph, enaid, ac yspryd. Tra parhaodd yr enaid heb lygru, yr oedd ei letty yn bur ac yn ddilwgr; yr oedd aelodau y corph yn llestri cyssegredig, ac yn arfau cyfiawnder. Ymryson rhwng cnawd ac yspryd, rheswm a chwant; ïe y tueddiad lleiaf at bechod, neu chwant y cnawd yn îs-ran yr enaid, oedd hollawl anghytunol â'r uniondeb, yn yr hwn y crewyd dyn; barnu i Dduw greu dyn â'r tueddiad hwn ynddo sy ddyfais i orchuddio llygredd y natur ddynol, ac i gymmylu gras Duw yn Jesu Grist: mae'n dra thebyg i iaith Adda gwympiedig, yn bwrw ei bechod ei hun wrth ddrws ei Greawdwr, "Y wraig a roddaist gyda mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a mi a fwyteais." Ac fel yr oedd y cyfiawnder hwn yn gyffredinol mewn perthynas i'w ddeiliaid, am ei fod yn gyff-

redin, drwy'r holl ddyn; felly yr oedd yn gyffredinol mewn perthynas i'w wrthrych, y ddeddf sanctaidd.

Nid oedd dim yn y ddeddf ond oedd yn un â'i reswm a'i ewyllys, fel y gwnaeth Duw ef: er fod pechod yn awr wedi ei osod mewn ymrafael â hi; Yr oedd ei enaid wedi ei lunio, mewn hyd a lled, at y gorchymmyn, er ei fod yn dra ehang. Felly yr oedd ei gyfiawnder gwreiddiol yn berffaith yn ei ranau, ac hefyd yn ei raddau.

*Yn ail,* fel yr oedd yn gyffredinol, felly yn y cyflwr hwnw, yr oedd yn *naturiol* iddo ef, ac nid yn *oruwchnaturiol* Nid oedd yn hanfodol i ddyn fel dyn, pe felly ni allasai ei golli, heb golli ei fôd; ond greddfol oedd ef iddo. Cafodd ei greu gydag ef; ac yr oedd yn angenrheidiol i berffeithrwydd dyn fel y daeth allan o law Duw: angenrheidiol i'w osod mewn cyflwr o ddiniweidrwydd. Eto,

*Yn drydydd,* yr oedd yn newidiadwy; cyfiawnder oedd a ellid ei golli, fel y mae'n amlwg wrth y canlyniad alaethus. Nid oedd ei ewyllys heb ddewis da na drwg; ond gosododd Duw ef i ddewis da yn unig: eto ni ddarfu iddo sefydlu a sicrhau ei dueddiadau fel na allesid eu newid. Na ddo, yr oeddynt yn symudadwy at ddrwg; a hyny yn unig gan ddyn ei hun; gan i Dduw roddi iddo ddigon o allu i sefyll yn yr uniondeb hwn, pe dewisasai. Na fydded i neb ffreuo â gwaith Duw yn hyn, canys pe buasai Adda yn anghyfnewidiol gyfiawn, rhaid fuasai iddo fod felly wrth naturiaeth, neu trwy rad rodd: ni allasai fod felly wrth naturiaeth, canys i Dduw mae hyny yn briodol, ac nid yw gyfranogol i un creadur; os trwy rad-rodd, yna ni wnaed un cam âg ef, wrth attal oddiwrtho yr hyn ni allasai hóni. Anghyfnewidioldeb mewn cyflwr cyfiawn sydd wobr o ras, yn cael ei roddi oddiar ddilyn cyfiawnder, tra parhâi y cyflwr o brawf: ac a roddasid i Adda, pe safasai efe dros amser y prawf a bennodwyd gan ei Grëawdwr: ac felly sydd yn cael ei roddi i'r saint, ar gyfrif teilyngdod Crist, yr hwn a fu yn ufudd hyd angeu. Yn hyn y mae y saint yn rhagori ar Adda, fel na allant byth syrthio yn gwbl ac yn hollawl oddiwrth ras.

Fel hyn gwnaed dyn yn wreiddiol gyfiawn wedi "ei greu ar ddelw Duw," Gen. 1. 27. yr hon sy'n cynnwys y pur rinweddau o "wybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd," Col. iii. 10 Eph. iv. 24. Yr oedd yr hyn oll a wnaeth Duw yn dda iawn, yn ol eu gwahanol naturiaethau, Gen. 1. 31. Ac felly yr oedd dyn yn foesol dda wedi ei greu yn ol *delw yr hwn sydd* dda ac uniawn. Ps. xxv. 8. Heb hyn, ni

allasai atteb dyben mawr ei greadigaeth, yr hyn oedd i adnabod, caru, a gwasanaethu Duw yn ol ei ewyllys. Ie, ni allasai gael ei greu yn amgen; canys rhaid oedd iddo naill ai bod yn gyd-ffurf â'r ddeddf yn ei alluoedd, ei gynheddfau, a'i dueddaidau, neu beidio; os oedd, yr oedd yn gyfiawn; os nad oedd, yr oedd yn bechadur, yr hyn sy'n afresymol a dychrynllyd i feddwl.

## *Am ddedwyddwch gwreiddiol dyn.*

Yn ail, Caf osod o'ch blaen rai o'r pethau oedd yn cydfyned â, neu yn tarddu o gyfiawnder dyn yn ei gyflwr cyntaf. Dedwyddwch yw canlyniad sancteiddrwydd; ac fel yr oedd hwn yn gyflwr sanctaidd, felly yr oedd yn gyflwr dedwydd.

*Yn gyntaf*, yr oedd dyn y pryd hwnw yn greadur gogoneddus iawn. *M*ae genym le i feddwl, mai fel yr oedd wyneb Moses yn dysgleirio pan ddaeth i lawr o'r mynydd; fod gan ddyn wyneb-pryd goleu-deg a hyfryd; a chorph prydferth, pan nad oedd un math o dywyllwch pechod ynddo. Gan fod Duw ei hun yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, Exod xv.11. mae'n sicr fod y prydferthwch ysprydol, â'r hwn yr addurnodd efe ddyn yn ei greadigaeth yn ei wneyd yn greadur gogoneddus iawn. O fel yr oedd goleuni yn dysglaerio yn ei ymarweddiad sanctaidd, er gogoniant y Creawdwr! Pan ydoedd pob gweithred yn tarddu oddiar ddysgleirdeb y goleuni gogoneddus a digymmysg a roddodd Duw yn ei enaid; pan oedd y llusern cariad, a oleuwyd o'r nef, yn parhaus losgi yn ei galon fel yn y lle sanctaidd; a deddf yr Arglwydd a roed yn ei ranau tufewnol â bys Duw, yn cael ei chadw ganddo yno fel yn y lle sancteiddiolaf. Nid oedd anmhuredd i'w ganfod oddiallan; na gwyrni yn ei lygaid at ddim aflan; na'i dafod yn llefaru dim ond iaith y nef; yn fyr, yr oedd Mab y Brenin oll yn ogoneddus o fewn, gemwaith aur oedd ei wisg ef.

*Yn ail*, Anwylyd y nef ydoedd efe. Yr oedd yn dysglaerio ar ddelw Duw, yr hwn sy'n caru ei ddelw ei hun, lle bynag ei gwelir. Pan oedd wrtho ei hun yn y byd, nid oedd yn unig, canys yr oedd Duw gydag ef Ei gyfeillach a'i gymdeithas oedd gyda'i Greawdwr, a hyny yn ddigyfrwng: canys eto nid oedd dim i droi ymaith wyneb Duw oddiwrth waith ei ddwylaw; gan fod pechod eto heb ddyfod i mewn; yr hwn yn unig a allai wneyd y rhwyg.

Trwy ewyllys da Duw, fe'i derchafwyd i fod mewn cyngrair

a'r nefoedd, yn y cyfammod cyntaf, yr hwn a elwir *cyfammod gweithredoedd.* Fe drefnodd Duw y ddeddf, a roddwyd iddo yn ei greadigaeth, yn ffurf cyfammod, o'r hwn ufudd-dod perffaith oedd yr ammod; bywyd oedd yr hyn a addawyd, a marwolaeth y gosp. Am yr ammod, un gangen fawr o ddeddf natur oedd, fod i iddyn gredu beth bynag a ddatguddio Duw, a gwneyd yr hyn oll a orchyminyno efe: yn ganlynol, Duw wrth wneuthur y cyfammod hwn â dyn, a ehangodd ei ddyledswydd, i beidio bwyta o bren gwybodaeth da a drwg; a'r ddeddf yn y modd hwn wedi ei ehangu oedd rheol ufudd-dod cyfammodol dyn. Mor hawdd oedd yr ammodau hyn iddo ef, yr hwn yr oedd y ddeddf naturiol yn ysgrifenedig ar ei galon, a hyny yn ei dueddu i ufuddhau i'r ddeddf bendant hon, a ddatguddiwyd iddo, mae'n debyg, mewn llais, Gen. ii 17. cynnwysiad yr hon oedd mor esmwyth. Ac, yn wir, yr oedd yn dra rhesymol i reol a defnydd ei ufudd dod cyfammodol, gael ei ehangu fel hyn; yr hyn a chwanegwyd, ynddo ei hun yn beth o leied pwys, fel y byddai ei ufudd-dod i droi ar y pwynt pennodol o ewyllys Duw, y prawf egluraf o wir ufudd-dod; a chan ei fod yn beth allanol, y byddai ei ufudd-dod neu ei anufudd-dod yn dra eglur a hysbys.

Yn awr, ar yr ammod hwn, addawodd Duw iddo fywyd, parhâd o fywyd naturiol, mewn undeb corph ac enaid; ac o fywyd ysprydol, yn heddwch Duw. Addawodd hefyd iddo fywyd tragywyddol yn y nefoedd, i gael myned iddo, pan ddarfyddai amser ei brawf ar y ddaear, ac y gwelai yr Arglwydd yn addas ei drosglwyddo i'r Baradwys uchod. Yr oedd yr addewid hon o fywyd yn gynnwysedig yn y bygythiad o farwolaeth, a grybwyllwyd, Gen. ii. 17. Canys pan ddywedodd Duw, "Yn y dydd y bwytai o hono, gan farw y byddi farw;" Y mae o ganlyniad, "Os na fwytâi o honaw, gan fyw y byddai fyw." Cadarnhawyd hyn yn sacramentawl trwy bren arall yn yr ardd, a elwir o herwydd hyny, *pren y bywyd*, yr hwn yr attaliwyd ef oddiwrtho, pan bechodd: Gen. iii. 22. 23. "Rhag iddo estyn ei law, a chymmeryd hefyd o bren y bywyd, a bwyta, a byw'n dragywydd. Am hyny yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden." Eto nid oes lle i feddwl fod bywyd a marwolaeth dyn yn ymddibynu yn unig ar yr achos hwn o'r ffrwyth gwaharddedig, ond ar yr holl ddeddf; canys felly y dywaid Paul, Gal. iii. 10. "Ysgrifenwyd, melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau, a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Rhan

ddatguddiedig o grefydd Adda oedd yr hyn ynghylch y ffrwyth gwaharddedig; ac felly yn gweddu yn bennodol i'w osod o'i flaen ef; ond am y ddeddf naturiol, gwyddai 'n Adda mai marwolaeth oedd cyflog anufudd-dod; canys nid oedd hyd yn nod y cenhedloedd, yn anwybodus o hyn, "Y rhai yn gwybod cyfiawnder Duw, fod y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth," Rhuf. 1. 32 ac, hefyd, yr oedd yr addewid gynnwysiedig yn y bygythiad, yn sicrhau bywyd Adda, yn ol y cyfammod, cyhyd ag yr ufuddhâi i'r ddeddf naturiol, gyda chwanegiad o'r gorchymmyn pendant hwnw; fel nad oedd eisieu pennodi dim iddo yn y cyfammod, ond mewn perthynas i fwyta 'r ffrwyth gwaharddedig yn unig. Bod *bywyd tragywyddol* yn y nefoedd wedi ei addaw yn y cyfammod, sy'n amlwg oddiwrth hyn, fod yn y bygythiad *o farwolaeth dragywyddol* yn uffern; i'r hon pan wnaeth dyn ei hun yn agored, Crist a addawyd, trwy ei farwolaeth, i bwrcasu bywyd tragywyddol: a Christ ei hun sy'n egluro addewid y cyfammod gweithredoedd am fywyd tragywyddol, pan y mae 'n cynnyg yr ammod o'r cyfammod hwnw. i wr ieuangc balch, yr hwn, er nad oedd gallu Adda ganddo, eto a ewyllysiai fyned i'r bywyd trwy weithio, fel yr oedd Adda i wneuthur tan y cyfammod hwn. Math. xix. 17 "Os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd (hyny yw bywyd tragywyddol trwy weithio ad 16) "Cadw y gorchymmynion."

Y gosp oedd marwolaeth, Gen. ii. 17. "Yn y dydd y bwytai o honaw, gan farw y byddi farw." Y oedd y farwolaeth a fygythiwyd, yn gyfryw a'r bywyd a addawyd; a hyny yn dra chyfiawn, *sef* marwolaeth *dymhorol, ysprydol,* a *thragywyddol.* Mae'r *canlyniad* yn eglurhad o hyn: oblegyd y dydd y bwytaodd o honaw, yr oedd yn ddyn marwol wrth y gyfraith: ond attaliwyd y dienyddiad, o achos ei hiliogaeth oedd yn ei lwynau; a bod cyfammod arall wedi ei barotoi. Pa fodd bynag, cafodd ei gorph glwyf angeuol y dydd hwnw, ac a ddaeth yn farwol. Daliodd marwolaeth ei enaid hefyd: Collodd ei gyfiawnder gwreiddiol a ffafr Duw; tyst, cnofa a gwewyr ei gydwybod yn peri iddo ymguddio o wydd Duw. A daeth yn agored i farwolaeth dragywyddol, yr hon fuasai 'n canlyn yn weithredol, pe na buasai Cyfryngwr wedi ei ddarparu, yr hwn a'i gwelodd yn rhwym gan angeu, fel drwg weithredwr, parod i'r dienyddiad. Fel hyn cawsoch ddarluniad byr o'r cyfammod, i'r hwn y dygodd Duw ddyn yn ei ddiniweidrwydd.

A ydyw 'n ymddangos i chwi yn beth bychan, ddarfod i'r

nefoedd fel hyn gael ei dwyn i gyngrair â'r ddaear? Ni allesid gwneuthur hyn â neb, ond â'r hwn yr oedd Brenin y nefoedd yn chwenych ei anrhydeddu. Gweithred o ras oedd, teilwng i'r Duw trugarog, anwylyd yr hwn ydoedd ef; canys yr oedd gras ac ewyllys da yn y cyfammod cyntaf, er hyny, "rhagorol olud ei ras ef (fel mae'r Apostol yn ei alw Eph. ii. 7.) oedd yn nghadw yn yr ail. Mae'n sicr mai gweithred o ras, ewyllys da, a rhyfedd ymostyngiad yn Nuw, oedd myned i gyfryw gyfammod â'i greadur ei hun. Nid oedd dyn i fod wrth ei reol ei hun ond wrth reol Duw. Ac nid oedd ganddo ddim i weithio âg ef, ond yr hyn a dderbyniasai gan Dduw. Nid oedd dim cyfartalwch rhwng y gwaith â'r gwobr addewedig. Cyn y cyfammod hwnw, yr oedd dyn yn rhwym i ufudd-dod perffaith, oherwydd ei ymddibyniad naturiol ar Dduw; a marwolaeth oedd cyflog naturiol pechod; yr hyn a allasai ac a fuasai cyfiawnder Duw yn ei ofyn, pe na buasai gyfammod rhwng Duw a dyn: ond yr oedd Duw yn rhydd; ni allasai dyn byth ofyn bywyd tragywyddol fel gwobr ei waith, pe na buasai y cyfryw gyfammod. Yr oedd Duw yn rhydd i drefnu ei greadur fel y gwelai yn dda; a phe safasai yn ei uniondeb tra parhasai 'r byd, ac heb fod cyfammod yn addo bywyd tragywyddol iddo am ei ufudd-dod, gallasai Duw dynu yn ol ei law gynhaliol oddiwrtho yn y diwedd, a gwneyd iddo lithro yn ol i groth dim, o'r lle y tynodd gallu dwyfol ef allan. A pha gam yn yr Arglwydd fuasai cymmeryd ymaith yr hyn a rad roddodd efe? Ond yn awr wedi gwneyd y cyfammod, daeth Duw yn ddyledwr i'w ffyddlondeb ei hun. Os gweithia dyn, gall ofyn y gwobr ar sail y cyfammod. Gallasai yr angylion y pryd hwnw, wedi ei dderchafu i'r bri hwn, ei gyfarch fel hyn, "Henffych well yr hwn a gefaist ras; yr Arglwydd sydd gyda thi!"

*Yn drydydd,* Gwnaeth Duw ef yn *arglwydd y byd,* tywysog yr îs-greaduriaid, arglwydd ac ymerawdwr yr holl ddaear. Ei Greawdwr a roes iddo lywodraeth ar bysg y môr, ar ehediaid yr awyr, ar yr holl ddaear, ar bob peth a ymlusgai ar y ddaear: ïe, "efe a osododd bob peth dan ei draed ef," Ps. viii. 6, 7, 8. Fe roes iddo awdurdod yn gymmedrol i ddefnyddio a threfnu y creaduriaid ar dir, mor, ac awyr. Felly dyn oedd îs-lywiawdwr Duw yn y byd isod. Y llywodraeth hon oedd gyffelybiaeth o ben-arglwyddiaeth Duw. Yr oedd hyn yn gyffredinol i'r gwr a'r wraig; ond yr oedd gan y gwr un peth neillduol, sef llywodraeth ar y wraig hefyd, 1 Cor. xi. 17.

Gwelwn fel y daeth y creaduriaid ato, i addef eu hymddarostyngiad, ac i wneuthur anrhydedd iddo fel eu harglwydd; safasant yn llonydd o'i flaen ef, nes iddo roddi enwau arnynt fel ei eiddo ei hun, Gen. ii. 19. Parai wyneb y dyn arswyd arnynt. Safodd y creaduriaid dewraf yn syn, dofion, a llonydd, gan ei addef ef fel eu harglwydd a'u llywydd. Fel hyn coronwyd dyn "â gogoniant ac â harddwch," Ps viii. 5. Ymddygodd yr Arglwydd yn dra haelionus tuag ato ef. Gosododd "bob peth dan ei draed ef;" yn unig cadwodd un peth, un pren yn yr ardd, allan o'i ddwylaw; sef, pren gwybodaeth da a drwg.

Ond, fe allai y dywedwch, *a warafunodd efe hwn iddo?* Rwy'n atteb, naddo; Ond wedi ei wneuthur fel hyn yn sanctaidd a dedwydd, o'i ras, rhoes iddo y gwaharddiad hwn, yr hwn ynddo ei hun oedd gynnalydd iddo, rhag syrthio. Tri pheth a wiria hyn. (1.) Fel yr oedd yn oreu er anrhydedd Duw, yr hwn a wnaethai ddyn yn arglwydd y byd isod, hóni ei ben-arglwyddiaeth ar bob peth trwy ryw arwydd gweledig neillduol, felly yr oedd yn oreu er diogelwch dyn. Wedi gosod y dyn mewn Paradwys hyfryd, gweithred o ddoethineb anfeidrol, a gras hefyd, oedd ei gadw oddiwrth un pren; fel tystiolaeth weledig mai ei Greawdwr bioedd y cwbl, fel ei Arglwydd tir goruchel; fel pan welai ei hun yn arglwydd ar y creaduriaid, y cofiai yn wastad ei fod yn ddeiliad i Dduw. (2) Yr oedd yn goffadwriaeth o'i gyflwr newidiadwy, yr hwn a roddwyd iddo o'r nef, i'w ystyried er ei ocheliad. Canys crewyd dyn âg ewyllys rhydd at dda, o'r hyn yr oedd *pren y bywyd yn brawf:* ond yr oedd ei ewyllys hefyd yn rhydd at ddrwg, a'r *pren gwaharddedig* oedd iddo yn gofiaeth o hyny. Yr oedd mewn dull yn arwydd-air parhaus iddo rhag drwg, gochel-dŵr wedi ei osod o'i flaen i'w rybuddio rhag myned yn llongddrylliad ar graig pechod. (3.) Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn, yn cyfeirio at Dduw, fel ei ddyben penaf. Gosododd ef, fel Moses, ar ben y bryn, yn dal ei ddwylaw i fynu i'r nefoedd; ac fel y cynnaliodd Aaron a Hur ddwylaw Moses i fynu, (Exod. 17. 10, 11, 12,) felly rhoes Duw gorph syth ac uniawn iddyn, ac a waharddodd iddo fwyta o'r pren hwn, i'w gadw yn yr agwedd hon o uniondeb yn yr hwn y crewyd ef.

Gwnaeth Duw yr anifeiliaid yn edrych i lawr tu a'r ddaear, i ddangos y byddai i'w cynnaliaeth gael ei ddwyn oddi yno; ac, yn gyfattebol, mae'n rhoddi iddynt eu porthiant: ond y mae agwedd syth corph dyn, yr hwn sy'n edrych i fynu, yn dangos iddo fod ei ddedwyddwch yn trigo uwchlaw iddo, yn

Nuw; a'i fod i'w ddysgwyl o'r nefoedd, ac nid o'r ddaear. Yn awr yr oedd y pren teg hwn, o'r hwn y gwaharddwyd ef i fwyta, yn dysgu yr un wers iddo; nad oedd ei ddedwyddwch yn aros yn y mwynhad o'r creaduriaid, canys yr oedd diffyg hyd yn nod yn Mharadwys: felly yr oedd y pren gwaharddedig, mewn effaith, yn llaw i'r holl greadnriaid, yn cyfeirio y dyn oddi wrthynt hwy at Dduw am ddedwyddwch. Arwydd o wagder oedd, yn cael ei osod o flaen drws y greadigaeth, a'r argraff hwn arno, *nid dyma dy orphwysfa.*

*Yn bedwarydd,* Fel yr oedd ganddo berffaith lonyddwch o'i fewn, felly yr oedd ganddo berffaith dawelwch oddi allan. Nid oedd dim i warthruddo ei galon; nid oedd gan gydwybod ddim i wneyd ond ei arwain ef, ei gymmeradwyo, a'i wledda: ac oddi-allan, nid oedd dim i'w flino ef: yr oedd y ddau gymmar dedwydd yn byw mewn perffaith gariad; ac er bod eu gwybodaeth yn helaeth, cywir, ac eglur, ni wyddent oddiwrth gywilydd. Er eu bod yn noethion, nid oedd yswildod ar eu hwynebau; canys yr oedd pechod, had cywilydd, heb ei hau eto, Gen. ii. 25. nid oedd eu cyrph prydferth yn ddarostyngedig i niwaid o'r awyr; felly nid oedd raid iddynt wrth ddillad, y rhai yn wreiddiol ydynt arwyddion o'n cywilydd. Nid oeddynt yn ddarostyngedig i unrhyw glefydau, neu boenau; ac er nad oeddynt i fyw yn segur, eto nid oedd poen, blinder, na chwys y wyneb yn adnabyddus yn y cyflwr hwn.

*Yn bummed,* Yr oedd gan ddyn fywyd o hyfrydwch pur, a difyrwch disothach, yn y cyflwr hwn. Afonydd o hyfrydwch pur oedd yn rhedeg trwyddo. Yr oedd y ddaear, a'i chyflawnder, yn awr yn ei gogoniant; nid oedd dim wedi dyfod i mewn i anurddo harddwch y creaduriaid. Gosododd Duw ef, nid mewn lle cyffredin o'r ddaear ond yn *Eden*; lle enwog am hyfrydwch, fel mae ei enw yn arwyddo: ïe, nid yn unig *Eden,* ond yn *Ngardd Eden;* y llannerch hyfrydaf o'r lle hyfryd hwnw; Gardd blannedig gan Dduw ei hun, i fod yn breswylfod i'w anwylyd. Pan wnaeth Duw y creaduriaid eraill dywedodd, "Heigied y dyfroedd ymlusgiad byw, Gen. i. 20. A "dyged y ddaear bob peth byw wrth ei rywogaeth," adn. 24. ond, pan oedd dyn i gael ei greu, dywedodd "Gwnawn ddyn", adn. 26. Felly, pan oedd y rhan arall o'r ddaear i gael ei dodrefnu gyda llysicu a phreniau, Duw a ddywedodd, "egined y ddaear egin sef llysieu yn hadu had, a phrenau ffrwythlon," &c. Gen. i. 11. Ond am Baradwys dywedir," *Duw a'i plannodd hi,*" Gen. ii. 8 yr hyn sy'n dangos enwog-

rwydd neillduol yn yr ardd hono, tu hwnt i bob rhan arall o'r ddaear, er ei bod oll yn brydferth. Nid oedd arno eisieu dim cynnaliaeth na hyfrydwch; canys yr oedd "pob pren dymunol i'r golwg a daionus yn fwyd." adn. 9. Ni wyddai ddim am y dyfyrwch hwnw, a ddyfeisiodd gloddest i foddio 'r blys. ond yr oedd ei ddyfyrwch y cyfryw ag a ddaeth o law Duw; heb dreiglo trwy ddwylaw pechadurus, y rhai a osodant eu hol aflan ar yr hyn y cyffyrddont ag ef. Felly yr oedd ei hyfrydwch yn bur, a'i ddyfyrwch yn goethedig Ac eto yr wyf *yn dangos i chwi ffordd mwy rhagorol, yr oedd doethineb wedi myned i mewn i'w galon:* Sicr gan hyny fod gwybodaeth yn hyfrydwch i'w enaid. Llawer o ddyfyrwch mae rhai yn ei gael wrth chwilio i'r greadigaeth, trwy yr ychydig wybodaeth sydd ganddynt! Ond yr oedd hyfrydwch Adda yn llawer rhagorach, tra 'r oedd ei lygaid treiddgar, yn darllen llyfr gweithredoedd Duw; yr hwn a osododd Duw o'i flaen ef, i'r dyben iddo ei ogoneddu ynddo; a diau ei fod yn addas i'r gorchwyl. Ond uwchlaw'r cwbl, ei wybodaeth am Dduw, a hyny fel ei Dduw ef; a'i gymdeithas ag ef, ni allai lai na gweini yr hyfrydwch mwyaf i gilfachau pellaf ei galon. Mawr hyfrydwch y mae'r saint yn ei gael yn y golygiadau hyny ar ogoniant Duw, ag y mae eu heneidiau weithiau yn eu mwynhau er eu bod wedi eu hamgylchu â llawer o wendid; ond gellir credu fod Adda ddibechod yn cael llawer mwy. Diau archwaethu o honaw ef o'r hyfrydwch hwn yn helaethach.

*Yn olaf,* yr oedd yn anfarwol. Ni buasai byth yn marw, pe na phechasai; yn achos pechod y bygythiwyd marwolaeth, Gen. ii. 17. Yr hyn sy'n dangos mai perthynu i bechod y mae, ac nid i'r natur ddynol ddibechod. Yr oedd ansawdd perffaith ei gorph, yr hwn a ddaeth o law Duw yn *dda iawn;* a chyfiawnder a sancteiddrwydd ei enaid, yn attal pob achosion tu fewnol o farwolaeth; nid oes dim yn barod i safn ddinystriol y bedd, ond y *corph gwael,* Phil. iii. 21. a'r *rhai a bechasant,* Job. xxiv. 19. A gofal neillduol Duw am ei greadur diniwaid, a'i cadwodd rhag unrhyw drais allanol. Mae yr Apostol yn hysbysu, Rhuf v. 12. "Mai trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod." Wele y drws trwy yr hwn y daeth pechod i mewn! Gweithiodd Satan â'i gelwyddau nes ei gael yn agored, ac felly daeth marwolaeth i mewn; ac am hyny y dywedir ei fod yn "lleiddiad dyn o'r dechreuad," Joan, viii. 44.

o'u mewn, nac o'u blaen, i weled eu heisieu, yr hyn yn ddiau a'u darostyngai hwynt; oblegyd fe ddwg gwir wybodaeth ddynion i weled y peth a fuont unwaith, a'r peth ydynt yn awr; ac a'u darostwng hwynt, ac ni oddef iddynt foddloni ar y gras a gawsant; ond fe bair iddynt wasgu y'mlaen, "Gan anghofio y pethau o'r tu ol." Phil. iii. 13. 14. Ond mae y dynion hyny y fath wrthrychau o dosturi, a dyn a fyddai wedi rhoi ei balas ar dân, yn ymffrostio mewn bwthyn a godasai iddo ei hun o'i faiurion, er iddo fod yn dra gwael, na allai sefyll yn wyneb storm.

DEFNYDD III. Er galar. Dyma'r lle'r oedd adeilad uchelwych, *dyn* wedi ei gerfio fel palas teg, yn awr yn gorwedd yn y lludw: safwn ac edrychwn ar y distryw, a diferwn ddagrau. Dyma alar, ac a fydd yn achos galar. A allem ni beidio wylo, pe gwelem ein gwlad wedi ei dinystrio, a'i throi yn anialwch gan y gelyn? Pe gwelem ein tai ar dân, a'n teulu'n trengu yn y fflamiau? Ond y mae hyn yn fyr iawn wrth yr olwg erchyll sy ar ddyn wedi syrthio fel seren o'r nef. O! oni allem ddywedyd yn awr, O na buasem fel yn y misoedd o'r blaen, pan nad oedd un ystaen yn ein natur, un cwmmwl ar ein meddyliau, na dim halogrwydd yn ein calonau! pe na buasem erioed mewn gwell cyflwr, buasai 'r achos yn llai; ond y rhai a feithrinwyd mewn ysgarled, a gofleidiasant y tomenydd. Pa le mae'n gogoniant cyntaf yn awr? Unwaith heb dywyllwch yn y meddwl, heb wrthryfel yn yr ewyllys, nac annhrefn yn y serchiadau. Ond och! "Pa wedd yr aeth y ddinas ffyddlon yn buttain! llettyodd cyfiawnder ynddi; ond yr awr hon lleiddiaid! Ein harian a aeth yn sothach, ein gwin sydd wedi ei gymmysgu â dwfr." Y galon a fu unwaith yn dŷ i Dduw, a drowyd yn awr yn ogof lladron. Bydded ein henw ICHABOD, canys y gogoniant a ymadawodd. Gwynfydedig oeddit, O ddyn, pwy oedd megis ti! ni allai poen na chlefyd effeithio arnat, na marwolaeth nesau atat, nid oedd un ochenaid i glywed genit, nes tynu o honot y ffrwythau chwerwon hyn oddiar y pren gwaharddedig. Yr oedd y nef yn tywynu arnat, a'r ddaear yn gwenu: Oeddit gydymaith angylion, a chas gan gythreuliaid. Ond mor isel mae efe yn awr wedi myned, yr hwn a grewyd i lywodraethu, ac a wnaed yn arglwydd y byd! Syrthiodd y goron oddiar ein pen: gwae ni yn awr bechu o honom. Y creaduriaid a wnaed i'w wasanaethu, sydd er y cwymp mewn gwrthryfel i'w erbyn, a'r lleiaf o honynt, ond cael gorchymmyn, sydd ry drech iddo. Dwfr a

orchuddiodd yr hen fyd; tân a ddifaodd Sodom; y ser yn eu graddau a ymladdasant yn erbyn Sisera; llyffaint, ednogiaid, llau, &c. a droisant yn ddïaleddwyr i Pharao a'r Aiphtiaid; llau a ysodd Herod: ïe, nid yw dyn mewn cyngrair â'r anifeiliaid nac â cherrig y maes," Job v. 23. Mae mewn perygl y bydd i bwy bynag a'i caffo, ei ladd. Och! fel y syrthiasom! Fel y soddasom i lyngc-lyn trueni! yr haul a fachludodd arnom, angeu a ddringodd i'n ffenestri; a'n gelynion a dynasant ein dan lygad, ac a orfoleddant yn ein trueni. Ymgrymwn i lawr, a bydded i'n annhrefn ein toi ni â chywilydd. Eto, y mae gobaith yn Israel yn achos y peth hwn. Tyred gan hyny, o bechadur, edrych at Jesu Grist, yr ail Adda; gad yr Adda cyntaf a'i gyfammod; tyred at Gyfryngwr a Meichiafydd y cyfammod newydd a gwell: a dyweded eich calon iu, "bydd dywysog i ni, a bydded y cwymp hwn dan dy law di!" "A dyfered ein llygad ac na pheidied, am nad oes gorphwysdra: hyd oni edrycho, ac oni ystyrio, yr Arglwydd o'r nefoedd." Galar. iii. 49, 50.

# YR AIL GYFLWR.

SEF,

## CYFLWR NATUR, NEU HOLLAWL LYGREDIGAETH.

# PEN I.

## PECHADURUSRWYDD DYN YN EI GYFLWR NATUR.

GENESIS. VI. 5.

*A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser.*

GWELSOM yr hyn oedd dyn fel y gwnaeth Duw ef, yn greadur hawddgar a dedwydd; golygwn ef yn awr fel y dadwnaeth efe ei hun; a cheir ei weled yn greadur pechadurus a thruenus. Dyma'r cyflwr gresynol y dygwyd ni iddo trwy'r cwymp; cyflwr morddu ac alaethus ag oedd y llall yn ogoneddus; a hwn a alwn ni'n gyffredin, yn gyflwr natur, neu gyflwr dyn wrth natur; fel y dywaid yr Apostol, Eph. ii. 3. "Ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megis eraill." Yma mae dau beth i'w hystyried · 1af Y pechadurusrwydd; 2il. Trueni y cyflwr hwn, yn yr hwn y mae'r holl rai diadgenedledig yn byw. Dechreuaf gyda phechadurusrwydd cyflwr dyn wrth natur, o'r hyn mae'r testun yn rhoi cyflawn ddarluniad, er yn fyr; "A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn," &c.

Amcan a bwriad y geiriau hyn yw, cyfiawnhau 'r Arglwydd yn ei waith yn dwyn diluw ar yr hen fyd. Mae dau beth neillduol i sylwi arnynt yn yr adnodau blaenorol. (1.) Priodasau cymmysgedig, ad. 2. *Meibion Duw*, cenedlaeth Seth ac Enos, proffeswyr y wir grefydd, yn prïodi gyda merched dynion, halogedig a melldigedig hiliogaeth Cain.

Ni ddygasant eu hachos o flaen Duw, fel y byddai iddo ef *ddewis iddynt*, Ps. xlvii. 4. Ond heb barchu ewyllys Duw, dewisasant, nid yn ol rheolau eu cred, ond yn ol eu dychym-

mygion: gwelsant mai teg oeddynt; a'u priodas â hwy a barodd eu hysgariaeth oddiwrth Dduw. Dyma un o achosion y diluw, yr hwn a foddodd yr hen fyd. O na allai holl broffeswyr ein hoes ddadleu,—dieuog. Ond er i'r pechod hwn ddwyn diluw ar y byd; eto ni ysgubodd y diluw y pechod hwn o'r byd, yr hwn megis cynt, sydd yr awr hon, fel un achos o adfeiliad crefydd. Peth cyffredin yn mysg y Paganiaid oedd newid eu duwiau, wrth newid i sefyllfa briodasol: A llawer siampl alaethus o'r un peth a geir yn mhlith cristionogion, fel pe byddai dynion o'r un farn a Pharao, nad yw crefydd yn perthynu ond i'r rhai nad oes ganddynt ddim arall i ofalu am dano, Exod. v. 17. (2.) Gorthrymder mawr, ad 4. "Cawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny," dynion mawrion, nerthol, a drygionus iawn, "Yn llenwi y ddaear â thrawsedd," ad. 11. Ond ni thyciodd eu cryfder na thrysorau drygioni iddynt, yn nydd digofaint. Eto mae eiw anghyfiawnder yn denu llawer yn ddiofn yn wyneb y siampl ddychrynllyd hon. Cymmaint a hyn am gyfeillach annuwiol, a phechodau neillduol yr oedd yr oes hono yn euog o honynt. Ond nid oedd pob un a foddwyd yn y diluw yn euog o'r pethau hyn, ac oni wna Barnydd yr holl ddaear farn? Gan hyny, yn y testun hwn, y mae cyhuddiad cyffredin yn cael ei roi yn eu herbyn, "aml oedd drygioni dyn ar y ddaear," &c. Mae hyn yn wir, canys gwelodd Duw ef. Mae dau beth yn cael eu rhoi yn eu herbyn yma.

*Yn gyntaf*, Llygredigaeth buchedd, drygioni, aml ddrygioni. Wrth hyn rwy'n deall eu bucheddau; oblegyd y mae'n cael ei wahaniaethu yn amlwg oddiwrth ddrygioni eu calonau. Yr oedd pechod eu hymarweddiad yn fawr yn ei natur, ac yn cynnyddu yn ddirfawr trwy yr amgylchiadau a enwyd; a hyn, nid yn unig y'mhlith hiliogaeth felldigedig Cain, ond hil Seth dduwiol hefyd: yr oedd drygioni dyn yn aml. Dywedir y'mhellach, *ar y ddaear,* (1.) I gyfiawnhau llymder yr Arglwydd, nid yn unig yn tori pechaduriaid ymaith, ond yn anffurfio tegwch y ddaear; ac yn ysgubo y creaduriaid direswm o honi trwy 'r diluw; gan fod dynion wedi gosod nodau eu hannuwioldeb, cyfiawn oedd i'r Arglwydd osod nodau o'i ddigofaint, ar y ddaear. (2) I ddangos echryslondeb eu pechod, yn gwneyd y ddaear a addurnasai yr Arglwydd at wasanaeth dyn, yn geuffos pechod, ac yn chwareule i gyflawni eu drygioni arni, er gwaetha'r nefoedd. Gwelodd Duw y llygriad hwn; nid yn unig fe'i gwybu, ac a sylwodd arno; ond gwnaeth

nefoedd fel hyn gael ei dwyn i gyngrair â'r ddaear? Ni allesid gwneuthur hyn â neb, ond â'r hwn yr oedd Brenin y nefoedd yn chwenych ei anrhydeddu. Gweithred o ras oedd, teilwng i'r Duw trugarog, anwylyd yr hwn ydoedd ef; canys yr oedd gras ac ewyllys da yn y cyfammod cyntaf, er hyny, "rhagorol olud ei ras ef (fel mae'r Apostol yn ei alw Eph. ii. 7.) oedd yn nghadw yn yr ail. Mae'n sicr mai gweithred o ras, ewyllys da, a rhyfedd ymostyngiad yn Nuw, oedd myned i gyfryw gyfammod â'i greadur ei hun. Nid oedd dyn i fod wrth ei reol ei hun ond wrth reol Duw. Ac nid oedd ganddo ddim i weithio âg ef, ond yr hyn a dderbyniasai gan Dduw. Nid oedd dim cyfartalwch rhwng y gwaith â'r gwobr addewedig. Cyn y cyfammod hwnw, yr oedd dyn yn rhwym i ufudd-dod perffaith, oherwydd ei ymddibyniad naturiol ar Dduw; a marwolaeth oedd cyflog naturiol pechod; yr hyn a allasai ac a fuasai cyfiawnder Duw yn ei ofyn, pe na buasai gyfammod rhwng Duw a dyn: ond yr oedd Duw yn rhydd; ni allasai dyn byth ofyn bywyd tragywyddol fel gwobr ei waith, pe na buasai y cyfryw gyfammod. Yr oedd Duw yn rhydd i drefnu ei greadur fel y gwelai yn dda; a phe safasai yn ei uniondeb tra parhasai 'r byd, ac heb fod cyfammod yn addo bywyd tragywyddol iddo am ei ufudd-dod, gallasai Duw dynu yn ol ei law gynhaliol oddiwrtho yn y diwedd, a gwneyd iddo lithro yn ol i groth dim, o'r lle y tynodd gallu dwyfol ef allan. A pha gam yn yr Arglwydd fuasai cymmeryd ymaith yr hyn a rad roddodd efe? Ond yn awr wedi gwneyd y cyfammod, daeth Duw yn ddyledwr i'w ffyddlondeb ei hun. Os gweithia dyn, gall ofyn y gwobr ar sail y cyfammod. Gallasai yr angylion y pryd hwnw, wedi ei dderchafu i'r bri hwn, ei gyfarch fel hyn, "Henffych well yr hwn a gefaist ras; yr Arglwydd sydd gyda thi!"

*Yn drydydd,* Gwnaeth Duw ef yn *arglwydd y byd,* tywysog yr îs-greaduriaid, arglwydd ac ymerawdwr yr holl ddaear. Ei Greawdwr a roes iddo lywodraeth ar bysg y môr, ar ehediaid yr awyr, ar yr holl ddaear, ar bob peth a ymlusgai ar y ddaear: ïe, "efe a osododd bob peth dan ei draed ef," Ps. viii. 6, 7, 8. Fe roes iddo awdurdod yn gymmedrol i ddefnyddio a threfnu y creaduriaid ar dir, mor, ac awyr. Felly dyn oedd îs-lywiawdwr Duw yn y byd isod. Y llywodraeth hon oedd gyffelybiaeth o ben-arglwyddiaeth Duw. Yr oedd hyn yn gyffredinol i'r gwr a'r wraig; ond yr oedd gan y gwr un peth *neillduol,* sef *llywodraeth* ar y wraig hefyd, 1 Cor. xi. 17.

Gwelwn fel y daeth y creaduriaid ato, i addef eu hymddarostyngiad, ac i wneuthur anrhydedd iddo fel eu harglwydd; safasant yn llonydd o'i flaen ef, nes iddo roddi enwau arnynt fel ei eiddo ei hun, Gen. ii. 19. Parai wyneb y dyn arswyd arnynt. Safodd y creaduriaid dewraf yn syn, dofion, a llonydd, gan ei addef ef fel eu harglwydd a'u llywydd. Fel hyn coronwyd dyn "â gogoniant ac â harddwch," Ps viii. 5. Ymddygodd yr Arglwydd yn dra haelionus tuag ato ef. Gosododd "bob peth dan ei draed ef;" yn unig cadwodd un peth, un pren yn yr ardd, allan o'i ddwylaw; sef, pren gwybodaeth da a drwg.

Ond, fe allai y dywedwch, *a warafunodd efe hwn iddo?* Rwy'n atteb, naddo; Ond wedi ei wneuthur fel hyn yn sanctaidd a dedwydd, o'i ras, rhoes iddo y gwaharddiad hwn, yr hwn ynddo ei hun oedd gynnalydd iddo, rhag syrthio. Tri pheth a wiria hyn. (1.) Fel yr oedd yn oreu er anrhydedd Duw, yr hwn a wnaethai ddyn yn arglwydd y byd isod, hóni ei ben-arglwyddiaeth ar bob peth trwy ryw arwydd gweledig neillduol, felly yr oedd yn oreu er diogelwch dyn. Wedi gosod y dyn mewn Paradwys hyfryd, gweithred o ddoethineb anfeidrol, a gras hefyd, oedd ei gadw oddiwrth un pren; fel tystiolaeth weledig mai ei Greawdwr bioedd y cwbl, fel ei Arglwydd tir goruchel; fel pan welai ei hun yn arglwydd ar y creaduriaid, y cofiai yn wastad ei fod yn ddeiliad i Dduw. (2.) Yr oedd yn goffadwriaeth o'i gyflwr newidiadwy, yr hwn a roddwyd iddo o'r nef, i'w ystyried er ei ocheliad. Canys crewyd dyn âg ewyllys rhydd at dda, o'r hyn yr oedd *pren y bywyd yn brawf:* ond yr oedd ei ewyllys hefyd yn rhydd at ddrwg, a'r *pren gwaharddedig* oedd iddo yn gofiaeth o hyny. Yr oedd mewn dull yn arwydd-air parhaus iddo rhag drwg, gochel-dŵr wedi ei osod o'i flaen i'w rybuddio rhag myned yn llongddrylliad ar graig pechod. (3.) Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn, yn cyfeirio at Dduw, fel ei ddyben penaf. Gosododd ef, fel Moses, ar ben y bryn, yn dal ei ddwylaw i fynu i'r nefoedd; ac fel y cynnaliodd Aaron a Hur ddwylaw Moses i fynu, (Exod. 17. 10, 11, 12,) felly rhoes Duw gorph syth ac uniawn i ddyn, ac a waharddodd iddo fwyta o'r pren hwn, i'w gadw yn yr agwedd hon o uniondeb yn yr hwn y crewyd ef.

Gwnaeth Duw yr anifeiliaid yn edrych i lawr tu a'r ddaear, i ddangos y byddai i'w cynnaliaeth gael ei ddwyn oddi yno; ac, yn gyfattebol, mae'n rhoddi iddynt eu porthiant: ond y mae agwedd syth corph dyn, yr hwn sy'n edrych i fynu, yn dangos iddo fod ei ddedwyddwch yn trigo uwchlaw iddo, yn

Nuw; a'i fod i'w ddysgwyl o'r nefoedd, ac nid o'r ddaear. Yn awr yr oedd y pren teg hwn, o'r hwn y gwaharddwyd ef i fwyta, yn dysgu yr un wers iddo; nad oedd ei ddedwyddwch yn aros yn y mwynhad o'r creaduriaid, canys yr oedd diffyg hyd yn nod yn Mharadwys: felly yr oedd y pren gwaharddedig, mewn effaith, yn llaw i'r holl greaduriaid, yn cyfeirio y dyn oddi wrthynt hwy at Dduw am ddedwyddwch. Arwydd o wagder oedd, yn cael ei osod o flaen drws y greadigaeth, a'r argraff hwn arno, *nid dyma dy orphwysfa.*

*Yn bedwarydd,* Fel yr oedd ganddo berffaith lonyddwch o'i fewn, felly yr oedd ganddo berffaith dawelwch oddi allan. Nid oedd dim i warthruddo ei galon; nid oedd gan gydwybod ddim i wneyd ond ei arwain ef, ei gymmeradwyo, a'i wledda: ac oddi-allan, nid oedd dim i'w flino ef: yr oedd y ddau gymmar dedwydd yn byw mewn perffaith gariad; ac er bod eu gwybodaeth yn helaeth, cywir, ac eglur, ni wyddent oddiwrth gywilydd. Er eu bod yn noethion, nid oedd yswildod ar eu hwynebau; canys yr oedd pechod, had cywilydd, heb ei hau eto, Gen. ii. 25. nid oedd eu cyrph prydferth yn ddarostyngedig i niwaid o'r awyr; felly nid oedd raid iddynt wrth ddillad, y rhai yn wreiddiol ydynt arwyddion o'n cywilydd. Nid oeddynt yn ddarostyngedig i unrhyw glefydau, neu boenau; ac er nad oeddynt i fyw yn segur, eto nid oedd poen, blinder, na chwys y wyneb yn adnabyddus yn y cyflwr hwn.

*Yn bummed,* Yr oedd gan ddyn fywyd o hyfrydwch pur, a difyrwch disothach, yn y cyflwr hwn. Afonydd o hyfrydwch pur oedd yn rhedeg trwyddo. Yr oedd y ddaear, a'i chyflawnder, yn awr yn ei gogoniant; nid oedd dim wedi dyfod i mewn i anurddo harddwch y creaduriaid. Gosododd Duw ef, nid mewn lle cyffredin o'r ddaear ond yn *Eden*; lle enwog am hyfrydwch, fel mae ei enw yn arwyddo: ie, nid yn unig *Eden*, ond yn *Ngardd Eden;* y llannerch hyfrydaf o'r lle hyfryd hwnw; Gardd blannedig gan Dduw ei hun, i fod yn breswylfod i'w anwylyd. Pan wnaeth Duw y creaduriaid eraill dywedodd, "Heigied y dyfroedd ymlusgiad byw, Gen. 1. 20. A "dyged y ddaear bob peth byw wrth ei rywogaeth," adn. 24. ond, pan oedd dyn i gael ei greu, dywedodd "Gwnawn ddyn", adn. 26. Felly, pan oedd y rhan arall o'r ddaear i gael ei dodrefnu gyda llysieu a phreniau, Duw a ddywedodd, "egined y ddaear egin sef llysieu yn hadu had, a phrenau ffrwythlon," &c. Gen. 1. 11. Ond am Baradwys dywedir," *Duw a'i plannodd hi,*" Gen. ii. 8 yr hyn sy'n dangos enwog-

rwydd neillduol yn yr ardd hono, tu hwnt i bob rhan arall o'r ddaear, er ei bod oll yn brydferth. Nid oedd arno eisieu dim cynnaliaeth na hyfrydwch; canys yr oedd "pob pren dymunol i'r golwg a daionus yn fwyd." adn. 9. Ni wyddai ddim am y dyfyrwch hwnw, a ddyfeisiodd gloddest i foddio 'r blys: ond yr oedd ei ddyfyrwch y cyfryw ag a ddaeth o law Duw; heb dreiglo trwy ddwylaw pechadurus, y rhai a osodant eu hol aflan ar yr hyn y cyffyrddont âg ef. Felly yr oedd ei hyfrydwch yn bur, a'i ddyfyrwch yn goethedig. Ac eto yr wyf *yn dangos i chwi ffordd mwy rhagorol, yr oedd doethineb wedi myned i mewn i'w galon:* Sicr gan hyny fod gwybodaeth yn hyfrydwch i'w enaid. Llawer o ddyfyrwch mae rhai yn ei gael wrth chwilio i'r greadigaeth, trwy yr ychydig wybodaeth sydd ganddynt! Ond yr oedd hyfrydwch Adda yn llawer rhagorach, tra 'r oedd ei lygaid treiddgar, yn darllen llyfr gweithredoedd Duw; yr hwn a osododd Duw o'i flaen ef, i'r dyben iddo ei ogoneddu ynddo; a diau ei fod yn addas i'r gorchwyl. Ond uwchlaw'r cwbl, ei wybodaeth am Dduw, a hyny fel ei Dduw ef; a'i gymdeithas ag ef, ni allai lai na gweini yr hyfrydwch mwyaf i gilfachau pellaf ei galon. Mawr hyfrydwch y mae'r saint yn ei gael yn y golygiadau hyny ar ogoniant Duw, ag y mae eu heneidiau weithiau yn eu mwynhau er eu bod wedi eu hamgylchu â llawer o wendid; ond gellir credu fod Adda ddibechod yn cael llawer mwy. Diau archwaethu o hono ef o'r hyfrydwch hwn yn helaethach.

*Yn olaf,* yr oedd yn anfarwol. Ni buasai byth yn marw, pe na phechasai; yn achos pechod y bygythiwyd marwolaeth, Gen. ii. 17. Yr hyn sy'n dangos mai perthynu i bechod y mae, ac nid i'r natur ddynol ddibechod. Yr oedd ansawdd perffaith ei gorph, yr hwn a ddaeth o law Duw yn *dda iawn;* a chyfiawnder a sancteiddrwydd ei enaid, yn attal pob achosion tu fewnol o farwolaeth; nid oes dim yn barod i safn ddinystriol y bedd, ond y *corph gwael,* Phil. iii. 21. a'r *rhai a bechasant,* Job. xxiv. 19. A gofal neillduol Duw am ei greadur diniwaid, a'i cadwodd rhag unrhyw drais allanol. Mae yr Apostol yn hysbysu, Rhuf v. 12. "Mai trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod." Wele y drws trwy yr hwn y daeth pechod i mewn! Gweithiodd Satan â'i gelwyddau nes ei gael yn agored, ac felly daeth marwolaeth i mewn; ac am hyny y dywedir ei fod yn "lleiddiad dyn o'r dechreuad," Joan, viii. 44.

Wele, dangosais i chwi sancteiddrwydd a dedwyddwch dyn yn y cyflwr hwn. Os dywaid neb, beth yw hyn oll i ni, y rhai na phrofasom erioed o'r cyflwr sanctaidd a dedwydd hwnw? Gwybyddent ei fod yn perthyn i ni mor belled a bod Adda yn wreiddyn holl ddynolryw, ein pen cyffredin a'n cynddrychiolwr; yr hwn a dderbyniodd gan Dduw ein hetifeddiaeth a'n golud i'w gadw iddo ei hun a'i blant, a'i drosglwyddo iddynt. Gosododd yr Arglwydd holl olud dynol ryw (fel pe buasai) mewn un llong; ac fel y gwnaethem ein hunain, gwnaeth ein tad cyffredinol y llong-lywydd. Rhododd fendith yn y gwreiddyn, i gael, pe trinasid ef yn iawn, ei wasgaru i'r holl gangenau. Yn ol y testun, gwneuthur Adda yn uniawn, efe a wnaeth ddyn yn uniawn; ac yr oedd holl ddynol ryw yn uniawn ynddo ef. Canys "os sanctaidd y gwreiddyn y mae y cangenau hefyd felly." Chwanegir ar hyn eto. Pe safasai Adda ni fuasai neb yn ffreuo â'r drefn.

## CYMHWYSIAD

*O thrawiaeth Y Cyflwr o Ddiniweidrwydd.*

Defnydd I, Er addysg. Mae hyn y dangos i ni (1.) Mai nid Duw, ond dyn ei hun, fu'r achos o'i ddinystr. Gwnaeth Duw ef yn uniawn. Gosododd ei Greawdwr ef i fynu, ond taflodd efe ei hun i lawr. Ai gwaith Duw yn ei gyfeirio ef a'i dueddu at dda, fu'r achos o'i ddewisiad gresynol? Neu a ymddygodd y nef mor grintach tu ag ato, fel y gwasgwyd ef gan eisieu i'w yru i Uffern i ofyn cymmorth? Na ddo, dyn oedd, ac yw, yr achos o'i ddinystr ei hun. (2.) Gall Duw yn dra chyfiawn ofyn ufudd-dod perffaith gan ddynion i'w ddeddf, a'u collfarnu am beidio ufudd-hau yn berffaith iddi, er nad oes ganddynt yn awr, ddim gallu i'w chadw. Wrth wneuthur felly, nid yw ond casglu lle y gwasgarodd. Rhoes allu i ddyn i gadw yr holl ddeddf. Collodd dyn ef trwy ei fai ei hun; ond ni allai ei bechod ef byth gymmeryd ymaith yr hawl sydd gan Dduw i ofyn ufudd-dod gan ei greadur, ac i gospi am anufudd-dod (3.) Gwelwn y rhwymedigaeth anfeidrol sydd arnom i Jesu Grist yr ail Adda; yr hwn trwy ei werthfawr waed ei hun a ennillodd ein rhagorfraint yn ol, ac y mae yn ei chynnyg yn rhad i ni, Hosea xiii. 9 yn nghyd â sicrwydd tragywyddol na ellir ei llwyr golli byth mwy, Joan x. 28. 29.

Gras a ddiogela y rhai y darfu i ewyllys rhydd ollwng i lyngclyn trueni.

DEFNYDD II. Mae hyn yn argyhoeddiad i dri math o ddynion, (1) I'r rhai sy'n casau grym duwioldeb, lle bynag y byddo; y rhai nid ymhyfrydant mewn dim ond yn y byd a'i chwantau. Mae'n sicr fod y rhai hyny yn mhell oddiwrth gyfiawnder, yn gas ganddynt Dduw, Rhuf. 1. 30 gan eu bod yn casau ei ddelw. Buasai Adda uniawn yn Mharadwys yn ddolur llygaid mawr i'r cyfryw ddynion, fel yr oedd i'r sarph, had yr hon ydynt, fel y tystia eu pechodau (2) Mae n argyhoeddiad i'r rhai sy'n gwawdio crefydd, a'r rhai sydd gywilydd ganddynt ei harddel ger bron y byd diras. Mae cenedlaeth yn gwneyd mor hyf ar y Duw a'u gwnaeth, yr hwn a ddichon eu dryllio mewn munud. fel y dirmygant dduwioldeb, ac y gwawdiant symlrwydd. "Yn erbyn pwy yr ymddigrifwch? Yn erbyn pwy y lledwch safn, ac yr estynwch dafod?" Esay lvii. 4. Ai nid yn erbyn Duw ei hun, delw yr hwn, wedi ei hadferu i ryw radd ar ei greaduriaid, sy'n eu gwneyd yn ffyliaid yn eich golwg chwi? Ond, "Yn awr na watworwch, rhag cadarnhau eich rhwymau." Esay xxviii 22. Sancteiddrwydd oedd y gogoniant a roddodd Duw ar ddyn pan greodd efe ef. Ond yn awr y mae meibion dynion yn troi y gogoniant i gywilydd, o herwydd eu bod hwy eu hunain yn ymogoneddu yn eu cywilydd. Eraill a gymmeradwyant grefydd yn ddirgel, ac yn mysg cyfeillion crefyddol a'i harddelant hi; y rhai brydiau eraill, i fod fel eu cymmydogion, a'i gwadant hi. Mor weiniaid ydynt, fel y chwythir hwy o amgylch âg anadl y drygionus.

Chwerthiniad dirmygus, cellwair annuwiol, a gwawd ffol allan o enau halogedig, sydd i lawer yn rheswm anwrthwynebol yn erbyn crefydd a sobrwydd; canys mewn perthynas i grefydd, maent fel colomenod ynfyd heb galon. O nad ystyriai y cyfryw y geiriau pwysfawr hyny, Marc. viii. 38, "Canys pwy bynag a fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, yn yr odinebus a'r bechadurus genedlaeth hon; bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddel yn ngogoniant ei Dad, gyda'r angylion sanctaidd." (3.) Mae'n argyhoeddiad i'r proffeswr balch hunan-dybus, yr hwn sy'n mawrygu ei hun mewn gwisg glytiog o fratiau. Mae llawer, wedi iddynt gasglu ychydig wybodaeth am grefydd, a chwedi diwygio ychydig yn ei bywyd, yn ymchwyddo mewn tybiau mawr am danynt eu hunain. Arwydd alarus fod effaith y codwm yn aros yn drwm arnynt, ac na ddaethant eto atynt eu hunain, Luc xv. 17. Mae ganddynt lygaid tu ol, i weled eu doniau, ond heb lygaid

# YR AIL GYFLWR.

SEF,

## CYFLWR NATUR, NEU HOLLAWL LYGREDIGAETH.

# PEN I.

## PECHADURUSRWYDD DYN YN EI GYFLWR NATUR.

GENESIS. vi. 5.

*A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser.*

GWELSOM yr hyn oedd dyn fel y gwnaeth Duw ef, yn greadur hawddgar a dedwydd; golygwn ef yn awr fel y dadwnaeth efe ei hun; a cheir ei weled yn greadur pechadurus a thruenus. Dyma'r cyflwr gresynol y dygwyd ni iddo trwy'r cwymp; cyflwr morddu ac alaethus ag oedd y llall yn ogoneddus; a hwn a alwn ni'n gyffredin, yn gyflwr natur, neu gyflwr dyn wrth natur; fel y dywaid yr Apostol, Eph. ii. 3. "Ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megis eraill." Yma mae dau beth i'w hystyried · 1af Y pechadurusrwydd; 2il. Trueni y cyflwr hwn, yn yr hwn y mae'r holl rai diadgenedledig yn byw. Dechreuaf gyda phechadurusrwydd cyflwr dyn wrth natur, o'r hyn mae'r testun yn rhoi cyflawn ddarluniad, er yn fyr; "A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn," &c.

Amcan a bwriad y geiriau hyn yw, cyfiawnhau 'r Arglwydd yn ei waith yn dwyn diluw ar yr hen fyd. Mae dau beth neillduol i sylwi arnynt yn yr adnodau blaenorol (1.) Priodasau cymmysgedig, ad. 2. *Meibion Duw*, cenedlaeth Seth ac Enos, proffeswyr y wir grefydd, yn prïodi gyda merched dynion, halogedig a melldigedig hiliogaeth Cain.

Ni ddygasant eu hachos o flaen Duw, fel y byddai iddo ef *ddewis iddynt*, Ps. xlvii. 4. Ond heb barchu ewyllys Duw, dewisasant, nid yn ol rheolau eu cred, ond yn ol eu dychym-

mygion: gwelsant mai teg oeddynt; a'u priodas â hwy a barodd eu hysgariaeth oddiwrth Dduw. Dyma un o achosion y diluw, yr hwn a foddodd yr hen fyd. O na allai holl broffeswyr ein hoes ddadleu,—dieuog. Ond er i'r pechod hwn ddwyn diluw ar y byd; eto ni ysgubodd y diluw y pechod hwn o'r byd, yr hwn megis cynt, sydd yr awr hon, fel un achos o adfeiliad crefydd. Peth cyffredin yn mysg y Paganiaid oedd newid eu duwiau, wrth newid i sefyllfa briodasol: A llawer siampl alaethus o'r un peth a geir yn mhlith cristionogion, fel pe byddai dynion o'r un farn a Pharao, nad yw crefydd yn perthynu ond i'r rhai nad oes ganddynt ddim arall i ofalu am dano, Exod. v. 17. (2.) Gorthrymder mawr, ad 4. " Cawri oedd ar y ddaear y dyddiau hyny," dynion mawrion, nerthol, a drygionus iawn, " Yn llenwi y ddaear â thrawsedd," ad. 11. Ond ni thyciodd eu cryfder na thrysorau drygioni iddynt, yn nydd digofaint. Eto mae eiw anghyfiawnder yn denu llawer yn ddiofu yn wyneb y siampl ddychrynllyd hon. Cymmaint a hyn am gyfeillach annuwiol, a phechodau neillduol yr oedd yr oes hono yn euóg o honynt. Ond nid oedd pob un a foddwyd yn y diluw yn euog o'r pethau hyn, ac oni wna Barnydd yr holl ddaear farn? Gan hyny, yn y testun hwn, y mae cyhuddiad cyffredin yn cael ei roi yn eu herbyn, " aml oedd drygioni dyn ar y ddaear," &c. Mae hyn yn wir, canys gwelodd Duw ef. Mae dau beth yn cael eu rhoi yn eu herbyn yma.

*Yn gyntaf*, Llygredigaeth buchedd, drygioni, aml ddrygioni. Wrth hyn rwy'n deall eu buchedd au; oblegyd y mae'n cael ei wahaniaethu yn amlwg oddiwrth ddrygioni eu calonau. Yr oedd pechod eu hymarweddiad yn fawr yn ei natur, ac yn cynnyddu yn ddirfawr trwy yr amgylchiadau a enwyd; a hyn, nid yn unig y'mhlith hiliogaeth felldigedig Cain, ond hil Seth dduwiol hefyd: yr oedd drygioni dyn yn aml. Dywedir y'mhellach, *ar y ddaear*, (1.) I gyfiawnhau llymder yr Arglwydd, nid yn unig yn tori pechaduriaid ymaith, ond yn anffurfio tegwch y ddaear; ac yn ysgubo y creaduriaid direswm o honi trwy 'r diluw; gan fod dynion wedi gosod nodau eu hannuwioldeb, cyfiawn oedd i'r Arglwydd osod nodau o'i ddigofaint, ar y ddaear. (2) I ddangos echryslondeb eu pechod, yn gwneyd y ddaear a addurnasai yr Arglwydd at wasanaeth dyn, yn geuffos pechod, ac yn chwareule i gyflawni eu drygioni arni, er gwaetha'r nefoedd. Gwelodd Duw y llygriad hwn; nid yn unig fe'i gwybu, ac a sylwodd arno; ond gwnaeth

iddynt hwythau wybod, iddo sylwi arno, ac nadanghofiodd efe y ddaear, er iddynt hwy anghofio y nefoedd.

*Yn ail*, llygredigaeth natur, "holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser." Mae holl ddrygioni eu bucheddau, yn cael ei ddilyn yma i'r ffynnonell a'r gwreiddyn: calon ddrwg oedd gwreiddyn y cwbl. Yr enaid, yr hwn a wnaed yn uniawn yn ei holl gynneddfau, sy'n awr yn hollawl ddidrefn. Y galon, a wnaed yn ol calon Duw, sy'n awr yn groes iddi, yn weith-dŷ pob annuwioldeb, Marc. vii. 21.22. Gwelwch galon dyn wrth natur, fel y mae'r testun yn ei ddangos. Mae'r meddwl yn llygredig, meddyliau'r galon yn ddrygionus, yr ewyllys a'r serchiadau wedi eu llygru; bwriad meddylfryd y galon, h. y. pob peth a ddychymmygo'r galon trwy feddwl, megis barnu, dewis, bwriadu, dyfeisio, chwenychu, a phob ysgogiad tu fewnol; ïe, mae'r galon ei hun, yn yr hon y llunir yr holl ddychymmygion a'r meddyliau, yn ddrwg, 1 Cron. xxix. 18. Mae'r galon bob amser yn dychymmygu rhyw beth, ond nid dim da; Mae meddyliau y galon yn dra amrywiol; ond maent oll yn ŵyrgam. Ie, maent yn ddrwg digymmysg; nid oes dim ynddynt yn gymmeradwy ger bron Duw; ac ni all dim da ddyfod o'r gweith-dŷ hwnw lle mae "tywysog llywodraeth yr awyr" yn gweithio, Eph. ii. 2. ac nid yr Yspryd Glân. Nid yw pob cyfnewidiad ynddynt, ond o'r naill ddrwg i'r llall. Y mae meddyliau calon dyn wrth natur, bob amser yn ddrygionus. O'r dydd cyntaf, hyd y diweddaf yn y cyflwr hwn, y maent mewn tywyllwch dudew; nid oes y radd leiaf o lewyrch sancteiddrwydd ynddynt; ni all un meddwl sanctaidd ddyfod o galon ansanctaidd, O mor ddrygionus yw calon dyn! O mor lygredig yw ei natur! Y pren a ddyru ffrwyth drwg yn mha dir bynag y dodir ef, a pha drafferth bynag a gymmerir gydag ef, sydd yn bren drwg wrth natur; a pheth a all y galon hono fod, sydd a phob meddwl o'i mewn yn ddrygionus bob amser? Mae'n sicr fod llygredigaeth wedi gwreiddio yn ein calonau, wedi ymgymmysgu â'n natur, ac wedi greddfu trwy ein holl enaid; ac ni all dim ein meddyginiaethu ond gwrthiol ras Duw. Y cyfryw yw calon dyn wrth natur, cyn ei chyfnewid trwy ras! Duw yr hwn sy'n chwilio'r calonau, a welodd mai felly yr oedd calon dyn, cymmerodd sylw neillduol o honi; ac ni all y tyst ffyddlon a chywir gamgymmeryd ein hachos; er ein bod ni yn dra thueddol i gamgymmeryd yn y pwngc hwn, ac yn gyffredin i'w esgeuluso.

Gochelwch na byddo un meddwl yn eich calon ddrwg, yn

dywedyd, beth yw hyny i ni? Boed rhyngddynt hwy a'r pethau. Oblegyd gosododd yr Arglwydd y cynddiluwiaid yn esiampl; fel drych i'r holl genedlaethau ar ol hyny: lle y caent weled llygredigaeth eu calonau eu hunain, a pheth fuasai eu bywyd hwythau hefyd, oni buasai i'r Arglwydd eu hattal; "oblegyd megis mewn dwfr y mae wyneb yn atteb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn," Diar. xxvii. 19. Gwnaeth cwymp Adda galonau pawb yr un fath yn yr achos hwn. Mae'r Apostol yn Rhuf. iii. 10. 18. yn profi llygredigaeth natur, calonau, a bywydau, pawb, oddiwrth yr hyn mae'r Psalmydd yn ei ddywedyd am y drygionus yn ei oes ef, Ps. xiv. 1 2. 3. a v. 9 a cxl. 3 a x. 7. a xxxvi. 1. ac oddiwrth yr hyn mae Jeremiah yn ei ddywedyd am yr annuwiol yn ei ddydd ef, Jer. ix. 3. ac oddiwrth yr hyn a ddywaid Esay yn ei ddyddiau yntau, lvii. 7. 8. ac yn penderfynu, gan ddywedyd, Rhuf. iii. 19. "Ni a wyddom hefyd am ba bethau bynag y mae y ddeddf yn eu dywedyd, mai wrth y rhai sydd dan y ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd, fel y caner pob genau, ac y byddo'r holl fyd dan farn Duw." Pe buasai hanes y diluw wedi cael ei drosglwyddo i ni, heb ddweyd yr achos o honaw yn y testun, gallasem gasglu fod holl natur dyn yn llygredig; canys heb hyny ni fuasai yr Arglwydd yn distrywio y babanod yn y diluw, gan nad oeddynt hwy yn euog o bechodau gweithredol. Pe gwelem wr doeth, yr hwn wedi gwneyd gwaith cywrain, a'i gymmeradwyo yn fawr, wrth ei ddodi o'i law, fel yn gymmwys i'r gorchwyl ei bwriadwyd: ac wrth edrych arno drachefn yn cael ei lenwi â digllonedd ato, ac yn ei dori yn chwilfriw; oni chasglem oddiwrth hyny, fod y gwaith hwnw wedi llygru 'n hollawl er pan wnaed ef, ac nad yw yn atteb y dyben y bwriadwyd ef ar y cyntaf? Pa faint mwy, pan edrychom ar y Duw doeth a sanctaidd yn dyfetha gwaith ei ddwylaw ei hun, yr hwn y dywedodd unwaith am dano, ei fod yn dda iawn; oni chasglwn ei fod wedi cwbl lygru, rhagor y gwnaed ef ar y cyntaf, ac na ellir ei drwsio? rhaid ei ail wneyd, neu ei ddinystrio byth, Gen vi. 6. 7. "Ac edifarhaodd ar yr Arglwydd wneuthur o honaw ef ddyn ar y ddaear, ac efe a ymofidiodd yn ei galon; a'r Arglwydd a ddywedodd, dileaf ddyn yr hwn a greais, oddiar wyneb y ddaear;" fel gwr yn dileu ymadrodd o lyfr, yr hwn ni ellir ei ddiwygio trwy dynu allan rai llythyrenau, silliadau, neu eiriau, ac ysgrifenu rhwng y llinellau yma ac acw; ond rhaid ei wneyd oll o newydd. Ond a ddarfu i'r diluw olchi ymaith lygredigaeth natur dyn, a well-

baodd efe'r achos? Naddo, Duw yn ei ddoeth ragluniaeth, "fel y cauer pob genau, ac y byddo yr holl fyd, (ar ol y diluw yn gystal a'r hen fyd,) dan farn Duw," a oddefodd i lygredigaeth natur dori allan yn Noah, tad y byd newydd, ar ol i'r diluw fyned heibio. Gwelwn ef, fel Adda arall yn pechu trwy ffrwyth pren, Gen. ix 20. 21. "Efe a blannodd winllan, ac a yfodd o'r gwin, ac a feddwodd, ac a ymnoethodd yn nghanol y babell." Mwy na hyny, mae Duw yn rhoi yr un rheswm am attal diluw newydd, ag y mae efe yn ei roi yn y testun a ddygodd y diluw ar yr hen fyd: "ni chwanegaf (medd ef) felldithio'r ddaear mwy er mwyn dyn: o herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuengctyd," Gen. viii. 21. Trwy yr hyn mae'n dangos, na ddiwygid dynion trwy y moddion hyn; a phe ymddygai 'n barhaus tu ag atynt fel y gwnaeth, byddai yn anfon diluw o hyd ar y ddaear, o herwydd fod llygredd dyn yn parhau yr un wedi'r cwbl. Ond er na allai 'r diluw ddwyn ymaith lygredigaeth dyn, eto mae'n cyfeirio at y llwybr i wneyd hyny, sef fod yn rhaid geni dyn o ddwfr ac o'r yspryd, a'i godi o farwolaeth pechod, trwy ras Crist, yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed; allan o'r hon y mae byd newydd *o saint* yn codi yn yr ailenedigaeth, fel y cododd byd newydd *o bechaduriaid* allan o'r dyfroedd, lle gorweddasant yn hir wedi eu claddu (mewn cyffelybiaeth) yn yr arch. Gallwn gasglu oddiwrth 1 Pedr. iii. 20. 21. lle mae'r Apostol yn dweyd am arch Noe, "yn yr hon ychydig, sef wyth enaid, a achubwyd trwy ddwfr. Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awr hon yn ein hachub ninnau, sef bedydd." Gan fod y dwfr diluw yn gyffelybiaeth gyfattebol i fedydd; yna y canlyn ei fod yn arwyddo (fel mae bedydd) 'golchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân." I ddiweddu, gall y dyfroedd hyn, er eu bod yn awr wedi sychu i fynu, fod yn ddrych i ni, yn yr hwn y gallwn weled hollawl lygredigaeth ein natur, a'r angenrheidrwydd am adenedigaeth.

Oddiwrth y testun, gellir casglu y pwngc athrawiaeth pwysig a ganlyn, fel y rhedo yr hwn a'i darlleno, sef, *bod natur dyn yn awr wedi cwbl lygru.* Onid oes cyfnewidiad galarus a dadymchweliad rhyfedd yn awr yn natur dyn? Ar y cyntaf, nid oedd ynddo ddim drwg; 'yn awr nid oes ynddo ddim da.

Wrth ddilyn yr athrawiaeth hon, caf

*Yn gyntaf*, ei chadarnhau.

*Yn ail*, dangos y llygredigaeth hwn yn ei amrywiol ranau.

*Yn drydydd,* dangos pa fodd y llygrwyd natur dyn.
*Ac yn olaf,* gwneyd cymhwysiad.

## *Bod Natur Dyn wedi ei llygru.*

YN GYNTAF, Yr wyf i gadarnhau yr athrawiaeth o lygredigaeth dyn; i ddangos y drych ger bron eich llygaid, fel y galloch weled pechadurusrwydd eich natur. Ac er fod Duw yn gwneyd sulw mawr o honaw, y mae llawer heb ei ganfod.—Ymgynghorwn yma—1. A Gair Duw. 2. A phrofiadau ac amgylchiadau dynion.

I. Er prawf ysgrythyrol, ystyriwn,

*Yn gyntaf,* Fel mae'r ysgrythyrau yn sylwi yn neillduol ar gyfranogiad delw Adda wedi 'r cwymp i'w hiliogaeth, Gen. v. 3. "Adda a genhedlodd fab ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac a alwodd ei enw ef Seth." Cydmarwch hon â'r adnod gyntaf yn y bennod, "Yn y dydd y creodd Duw ddyn, ar lun Duw y gwnaeth efe ef." Gwelwn yma fel y mae y ddelw ar yr hon y crewyd dyn, yn wrthwyneb i'r ddelw ar yr hon y cenhedlwyd ef. Gwnaed dyn ar ddelw Duw; hyny yw, gwnaeth Duw sanctaidd a chyfiawn, greadur sanctaidd a chyfiawn; ond cenhedlodd Adda, wedi 'r cwymp, fab, nid ar ddelw Duw, ond ar ei ddelw ei hun; hyny yw, Adda bechadurus a genhedlodd fab pechadurus. Canys, fel yr oedd delw Duw yn cynnwys cyfiawnder ac anfarwoldeb, fel y dangoswyd o'r blaen, felly yr oedd delw Adda wedi'r cwymp yn cynnwys llygredigaeth a marwolaeth. Cydmarwch 1 Cor. xv. 49, 50. â'r 22 adn. Gan fod Moses, yn y bummed bennod o Genesis, yn dwyn i'r byd yr ysgrifen marwolaeth cyntaf, mae'n ei ddechreu, drwy ddweyd fod Adda farwol yn cenhedlu marwolion. Trwy bechu, daeth yn farwol, yn ol y bygythiad; ac felly cenhedlodd fab ar ei ddelw ei hun, yn bechadurus, ac o ganlyniad yn farwol; felly daeth pechod a marwolaeth ar bawb. Diau iddo genhedlu Cain ac Abel ar ei ddelw ei hun, yn gystal a Seth. Ond ni ddywedir yn bendant am Abel; o herwydd na adawodd efe had ar ei ol, ac am mai efe oedd y cyntaf a fu farw, fod hyn yn ddigon o brawf o'r peth; ac ni ddywedir am Cain, o herwydd yr oedd ei ddrygioni ef yn profi y peth yn amlwg; ac heb law hyn, boddwyd ei holl hiliogaeth ef yn y diluw. Ond sonir am Seth, o herwydd mai efe oedd tad yr had sanctaidd; ac o honaw ef yr hanoedd yr holl genedlaethau ar ol y diluw, a delw Adda ei hun gyda hwynt.

*Yn ail,* Fe'i profir trwy y geiriau hyny yn Job xiv. 4. "Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Neb." Yr oedd ein rhieni cyntaf yn aflan, pa fodd y gallwn ni fod yn lân? Pa fodd y gallai ein rhieni naturiol fod yn lân? Neu pa fodd y gall ein plant fod felly?" Aflendid pechadurus a feddylir yma; oblegyd y mae yn gyfryw ag sy'n gwneyd dyddiau dyn yn llawn o helbul; ac y mae yn naturiol, gan ei fod yn deilliaw o rieni aflan; "Dyn a aned o wraig," adn. 1. "A pha fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân?" Job xxv. 4. Ni chynnwysir yma allu yr hollalluog Dduw, canys efe a ddichon ddwyn peth glân allan o beth aflan, ac efe a wnaeth hefyd, mewn perthynas i'r dyn Crist Iesu; ond ni ddichon neb arall. Mae pob dyn sy'n cael ei eni yn ol trefn natur, yn cael ei eni yn aflan. Os bydd y gwreiddyn yn llygredig, rhaid i'r cangenau fod felly. Ac ni wellheir yr achos er fod y rhieni wedi eu sancteiddio; oblegyd nid ydynt ond sanctaidd o ran, a hyny trwy ras, nid wrth natur; ac y maent yn cenhedlu plant fel *dynion,* ac nid fel *dynion sanctaidd.* Oblegyd, fel y mae rhieni enwaededig yn cenhedlu plant dienwaededig, ac ar ol i'r hedyn puraf gael ei hau, yr ydym yn medi yr ŷd gydag ûs; felly mae y rhieni duwiolaf yn cenedlu plant annuwiol, ac ni allant gyfranogi eu *gras* iddynt fel y gwnant eu *natur;* fel y gwirla profiad galarus llawer o rieni duwiol.

*Yn drydydd,* Ystyriwch gyfaddefiad Dafydd, Psalm li. 5, "Wele, mewn anwiredd i'm lluniwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Mae efe yma yn olrhain ei bechod gweithredol i'w wreiddyn, sef natur lygredig. Yr oedd efe yn wr yn ol calon Duw; ond nid oedd felly wrth natur. Fe'i cenhedlwyd trwy briodas gyfreithlon; ond pan luniwyd ei gorph yn y bru, yr oedd yn gorph pechadurus. Oddi yma y gelwir llygredigaeth ein natur yn hen ddyn; mae mor hen â ni ein hunain, yn hŷn na gras, hyd yn nod yn y rhai a sancteiddiwyd o'r bru.

*Yn bedwerydd,* Dyma benderfyniad ein Harglwydd ar y mater, Joan iii. 6. "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd;" Gwelwch lygredigaeth cyffredinol dynolryw—*cnawd* yw pawb. Nid mae pawb yn *freulyd,* er mae gwir galarus yw hyny; ac y mae ein breuolder naturiol yn dangos ein llygredigaeth naturiol: nid hyny yw ystyr y testun hwn; ond ei ystyr yw hyn, fod pawb yn llygredig a phechadurus, a hyny wrth natur; ac y mae ein Harglwydd yn dangos yma, gan eu bod yn *gnawd,* fod yn rhaid eu hail eni, heb yr hyn "ni ddichon iddynt weled

teyrnas Dduw," adn. 3, 5. Ac fel y mae llygredigaeth ein natur yn dangos yr angenrheidrwydd anhepgorol o ailenedigaeth; felly y mae yr angenrheidrwydd o ailendigaeth yn dangos llygredigaeth ein natur. Oblegyd pa ham y rhaid i ddyn gael ei *ail eni*, oddieithr fod ei natur yn llygredig yn yr *enedigaeth gyntaf?* Rhaid i fabanod gael eu haileni, oblegyd y mae y gair *dyn*, Ioan iii. 3. yn cymmeryd pawb i mewn heb lysu neb. Yr oeddynt yn cael eu henwaedu dàn yr Hen Destament fel rhai a chanddynt gorph pechodau y cnawd (yr hwn a drosglwyddir iddynt trwy genhedliad naturiol, i'w ddïosg," Col. ii. 11. Ac yn awr trwy ordeinhad Jesu Grist, y maent i gael eu bedyddio; yr hyn sy'n dangos eu bod yn aflan, ac nad oes iechydwriaeth iddynt, ond "trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glân," Tit. iii. 5.

*Yn bummed*, Mae dyn yn awr wedi myned yn dra isel, mewn cydmariaeth i'r hyn a fu. Gwnaeth Duw ef "Ychydig îs na'r angylion;" ond yn awr y mae'n debyg i'r anifeiliaid a ddyfethir. Trwy wrandaw ar fwystfil, daeth yn debyg i un o honynt. Fel Nebuchodonozor, ei ran ef wrth natur sydd gyda'r bwystfilod, "Yn synied dim ond pethau daearol," Phil. iii. 19 Ië, y mae yr anifeiliaid, ar ryw olygiad, yn rhagori ar ddyn anianol, yr hwn a suddodd radd yn îs na hwynt. Mae yn fwy disynwyr am y pethau mwyaf eu pwys, na'r ciconia, y durtur, yr aran, a'r wennol, am eu pethau eu hunain, Jer. viii. 7. Mae yn fwy anneallus na'r ych neu'r asyn, Esay i. 3. Mae'n cael ei yru i'r ysgol at y morgrugyn, yr hwn nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, na'i feistroli, gall wneyd fel y myno. nid yw dan lywodraeth neb; eto y mae yn parotoi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynhauaf, Diar. vi. 6, 7, 8. Er fod y manteision hyn gan ddyn anianol, eto y mae yn gwneyd ei hun yn agored i dragywyddol newyn. Ië a mwy na hyn oll, mae yr Ysgrythyrau yn dangos dyn wrth natur, nid yn unig mewn diffyg o gynneddfau da y creaduriaid hyn; ond fel un cymmysg o gynneddfau drwg y creaduriaid gwaethaf, yn yr hwn y cyd-gyferfydd, greulondeb y llew, cyfrwysdra y llwynog, annyddysgedd yr asen wyllt, budreddi y ci a'r hwch, gwenwyn yr asp, a'r cyffelyb. Mae y gwirionedd ei hun yn eu galw "Seirph, hiliogaeth gwiberod;" ïe, mwy, "Plant diafol," Math. xxiii. 33. Ioan viii. 44. Diau gan hyny, mae natur dyn yn llygredig iawn.

*Yn olaf*, "Yr ydym wrth naturiaeth yn blant digofaint," Eph. ii. 3. Yr ydym yn haeddiannol o, ac yn ddarostyngedig

i ddigofaint Duw; a hyn wrth natur: ac felly yn ddiammeu yr ydym wrth natur yn bechadurus. Yr ydym wedi ein condemnio, cyn gwneuthur o honom dda na drwg; dan y felldith, cyn gwybod beth ydyw. "A rua y llew yn y goedwig heb ganddo ysglyfaeth?" Amos iii. 4, hyny yw, a rua y Duw sanctaidd a chyfiawn yn ei ddigofaint yn erbyn dyn, heb iddo fod, trwy ei bechod, yn ysglyfaeth i'w ddigofaint? Na wna, ac ni all efe. Penderfynwn gan hyny, fod natur dyn, yn ol gair Duw, yn llygredig.

II, Os chwiliwn i'n profiad, ac os ystyriwn gyflwr y byd yn y pethau hyn sydd amlwg, i bob dyn na chauo ei lygaid yn erbyn y goleuni; cawn weled yn fuan y cyfryw ffrwythau sy'n dangos y gwreiddyn chwerwedd hwn. Caf ystyried ychydig bethau a ddengys y pwngc hwn.

*Yn gyntaf,* Pwy sy heb weled diluw o drueni yn gorlifo tros y byd? Ac i ba le y gall dyn fyned, na fydd iddo drochi ei droed, os nad â tros ei ben a'i glustiau ynddo? Mae pob un gartref ac oddi cartref, mewn tref a gwlad, palas a bwthyn, yn gruddfan dan y naill ofid neu 'r llall. Rhai a wesgir gan dlodi, rhai a geryddir âg afiechyd a phoen, rhai a gwynant am eu colledion; nid oes neb heb ei groes; nid oes sefyllfa gan neb heb ddraen anesmwyth ynddi. Ac o'r diwedd mae angeu, cyflog pechod, yn dilyn ei rag-redegwyr hyn, ac yn ysgubo pawb ymaith.

Yn awr, beth ond pechod a agorodd y ddyfr-ddôr? Nid oes un cwyn nac ochenaid yn y byd, nac un deigryn yn syrthio o'r llygaid, nad yw'n dyst o gwymp dyn fel seren o'r nef. Oblegyd, "Duw a ran ofidiau yn ei ddig," Job. xxi. 17. Mae hyn yn brawf eglur o lygredigaeth natur, yn gymmaint a bod y rhai sydd heb bechu yn weithredol yn cael eu rhan o ofidiau; ïe, yn tynu eu hanadl cyntaf yn y byd mewn wylofain; fel ped adwaenent y byd ar yr olwg gyntaf, mai *Bochim* yw, lle'r galarwyr. Mae beddau i'r rhai lleiaf, yn gystal a'r rhai mwyaf yn y fonwent; ac nid yw'r byd byth heb rai fel Rachel yn wylo am eu plant am nad ydynt, Matth. ii. 18.

*Yn ail,* Ystyriwch mor fore y mae y llwgr hwn yn ymddangos mewn rhai ieuaingc. Fe ddywaid Solomon, "Bachgen a adwaenir wrth ei waith," Diar. xx. 11. Buan y canfyddir tueddiad y galon. Onid yw plant Adda gwympiedig, cyn y gallont gerdded eu hunain, yn dilyn camrau eu tad? Gymmaint o frith-falchder, uchel-gais, chwant am newydd-beth, gwagedd, ystyfnigrwydd, croesineb i ddaioni, sy'n ymddangos

ynddynt? A phan dyfont o'u babandod, rhaid arfer gwialen cerydd, i yru ymaith y ffolineb sy'n rhwym yn eu calonau, Diar. xxii. 15 Yr hyn sy'n dangos, oni ragflaena gras, y bydd y plentyn fel Ishmael, yn *ddyn gwyllt*, fel y dywaid y gair, Gen. xvi. 12.

*Yn drydydd*, Bwriwch olwg ar bechod yn ei amrywiol ffrydiau ffiaidd yn tori allan yn y byd: Mae *drygioni dyn yn aml* eto ar y ddaear. Gwelwch ffrwythau chwerwedd ein natur lygredig, Hos. iv. 2. "Trwy dyngu, a dywedyd celwydd, a lladd celain, a lladrata, a thori priodas, y maent yn tori allan, (fel dyfroedd yn ffrydio allan,) a gwaed a gyffwrdd â gwaed." Mae'r byd yn llawn o aflendid, anlladrwydd, drygioni, a halogedigaeth. O ba le y tardd y diluw pechod hwn ar y ddaear, ond oddiar doriad allan ffynnonau y *dyfnder mawr*, calon dyn? Allan o'r hon y daw drwg-feddyliau, torpriodasau, puteindra, llofruddiaeth, lladradau, cybydd-dod, drygioni, &c. Marc vii. 21. 22. Fe allai, y diolchwch i Dduw â chalon gyfan, "nad ydych chwi fel dynion eraill," Ac yn wir mae genych fwy o achos i ddiolch nag ydych yn ystyried fe allai; canys "megis mewn dwfr, y mae wyneb yn atteb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn," Diar. xxvii. 19. Megis wrth edrych i ddwfr gloyw, y gwelwch eich wyneb eich hun; felly, wrth edrych i'ch calon eich hun, gellwch weled calonau eraill yno; ac wrth edrych i galonau eraill, gellwch weled eich calon eich hun. Felly gall y trueiniaid mwyaf drygionus ac aflanaf yn y byd, fod yn ddrych i chwi, i ganfod llygredigaeth eich natur eich hun; a phe gwnaech felly, diolchech i Dduw mewn gwirionedd, ac nid i chwi eich hunain, nad ydych fel dynion eraill, yn eich bywyd; gan fod llygredigaeth ynoch chwi fel hwythau.

*Yn bedwerydd*, Tremiwch ar yr annrhefn dychrynllyd y dygwyd y byd iddo trwy bechod dyn. Nid yw y llewod yn gwneyd ysglyfaeth o lewod, na bleiddiaid o fleiddiaid; ond trodd dynion yn fleiddiaid i'w gilydd, gan gnoi a thraflyngcu eu gilydd. Hynod ar leied achos y brath dynion gleddyf yn ymysgaroedd eu gilydd. Anialwch yw'r byd, lle ni all y tân dysglaeriaf a gynneuo dynion, gadw draw y creaduriaid gwylltion sy'n ei gyfaneddu, (am mai dynion ydynt ac nid anifeiliaid direswm,) na chlwyfir hwy ryw ffordd neu gilydd.

Er pan dywalltodd Cain waed Abel, mae'r byd wedi ei droi yn gigydd-dy; ac y mae yr erlyniad yn para er pan ddechreuodd Nimrod ei helwriaeth; ar y tir, fel yn y mor, mae'r mwyaf

yn [illegible] y lleiaf. [illegible] pob un yn [illegible] en [illegible] à [illegible] fynu [illegible] Mae [illegible] creulon [illegible] yn [illegible] y pen yn [illegible] [illegible] achos [illegible] sydd yn [illegible] yn eich [illegible].

[illegible] Ymrwymo yr angenrhei[illegible] dynol, [illegible] y [illegible] 1 Tim. 1. 9. "Gan [illegible] y gyfraith, eithr i'r rhai [illegible] phechaduriaid." &c. [illegible] Duw [illegible] grewdef, nid [illegible] Ond [illegible] gymdeithas, [illegible] Er [illegible] llygredigaeth natur dyn yn [illegible] Mae pob dyn wrth naturiaeth yn [illegible] bod yn [illegible]; a chwedi en [illegible] i'r [illegible] pob cyfraith, Duw a dynion. [illegible] hyd eithaf eu gallu, yn [illegible] ac [illegible] cyfreithiau; yn ol [illegible] ar y [illegible], i *fod megis duwiau*, Gen. iii. 5. Er hyny, [illegible] nid [illegible] mewn cymdeithas o gyfraith. Am hyny mae gan bob un nod y morladron, a'r ysbeilwyr, gyfreithiau yn eu plith eu hunain, er fod eu bod gymdeithas yn hollawl ddibarch i gyfraith ac iawnder. Fel hyn, mae dynion yn dangos eu bod yn wybyddus o lygredigaeth eu natur; nad ymddiriedant i'w gilydd heb eithaf sicrwydd. (3.) Er mor beryglus yw tori dros y terfynau; eto, mae gryn chwantau yn mynych anturio yn wyneb pob perygl. Nid yn unig aberthant eu henwau da a'u cydwybod yr hyn sy mewn bri mawr yn y byd; ond am funudyn o bleser, wrth sawdl yr hwn y mae dychrynfeydd tufewnol, gosodant eu hunain yn agored i farwolaeth greulon, gan gyfraith y wlad y preswyliant ynddi. (4.) Mynych y mae chwantau dynion yn sathru y cyfreithiau tan eu traed. Weithiau mae cymdeithas gyfan yn myned mor afresymol, ag i dori y llyfetheiriau fel llu o garcharorion, ac yn gyru eu ceidwad i ffoi; ac ni wrandewir ar lais cyfraith, gan swn arfau. Mynych y mae dynion mor fawr ac eofn, na faidd y gyfraith edrych yn wyneb eu chwantau ffromwyllt; yr hyn a wnaeth i Dafydd ddywedyd am Ioab,

yr hwn a laddodd Abner, "Y gwyr hyn, meibion Serfiah, sy ry galed i mi," 2 Sam. iii. 39. Mae chwantau weithiau yn myned yn rhy gryf i gyfraith, fel y mae y gyfraith yn gorfod llaccau fel gwythïen dyn marw, Hab. i. 3. 4. (5.) Ystyriwch y mynych angenrheidrwydd sydd am ddiwygio hen gyfreithiau, a gwneyd rhai newydd; a hyny o achos troseddiadau newyddion, sy'n tarddu o lwgr natur dyn. Ni byddai angenrheidrwydd gwellau y cae, oni bai fod dynion fel bwystfilod direol, yn ei dori i lawr. Syn yw gweled y llwybrau gŵyrgeimion oedd Israel yn eu cerdded, y rhai a neillduwyd i Dduw, o blith holl genedlaethau y ddaear :· gymmaint o derfysg blin oedd yn eu mysg pan nad oedd brenin yn Israel, fel y gwelwn, Barn. xviii. xix. xx. xxi. Mor anhawdd eu diwygio, er cael y barnwr goreu; ac mor fuan y tröent ymaith wedi hyn, pan gaent farnwr drwg. Yr wyf yn meddwl mai un o ddybenion mawr yr hanes hwn yw dangos llygredigaeth natur dyn, yr angenrheidrwydd anhepgorol am y Messia, a'i ras: a dylem wrth ei ddarllen, ei ddefnyddio i'r dyben hwnw. Mor effeithiol yw y gair hwnw mae'r Arglwydd yn ddweyd wrth Samuel, am Saul, 1 Sam. ix. 17. "Hwn a lywodraetha ar (neu fel mae'r gair yn arwyddo *a ettyl)* fy mhobl." O lygredigaeth natur dyn! Nid yw ofn a dychryn Duw y nefoedd yn eu hattal; ond rhaid iddynt gael duwiau (neu swyddwyr) ar y ddaear i wneyd hyny, "ac i'w gyru i gywilydd."—Barn. xviii. 7.

*Yn chweched,* Ystyriwch weddillion y llwgr hwn sy'n aros yn y saint. Er fod gras ynddynt, eto mae llygredigaeth heb ei lwyr fwrw ymaith; er fod ynddynt greadur newydd, eto mae llawer o'r hen natur lygredig yn aros: ac y mae y rhai hyn yn ymwthio ynddynt, fel y ddau efaill yn nghroth Rebeca Gal. v. 17. Mae'n wastad yn bresennol gyda hwynt, yn mhob lle, ïe yn y lle dirgelaf. Os bydd gan wr gymmydog drwg, gall symud oddiwrtho: os bydd ganddo weinidog drwg, gall ei droi ymaith yn mhen ei dymhor: os bydd ei gymhares priodasol yn ddrwg, gall weithiau fyned oddi cartref, a bod felly o gyrhaedd y gofid. Ond er i'r duwiol fyned i'r anialwch, neu babell mewn craig bellenig yn y mor, lle ni chyffyrddodd troed dyn, anifail nac aderyn erioed, dilyna ef yno. Pe cymmerid ef gyda Paul, i fynu i'r drydedd nef, canlynai ef wedi hyny, 2. Cor. xii. 7. Mae'n ei ddilyn fel mae'r cysgod yn dilyn y corph. Mae'n gwneuthur ei ol ar y gwaith glanaf a wnelo. Mae fel y ffigysbren ar y mur, yr hon, er mor isel y torwyd, sy'n parhau i dyfu nes taflu y mur i lawr: canys y mae ei

wreiddyn y'nglyn yn y galon, tra mae'r saint yn y byd hwn, fel mewn rhwymyn haiarn a phres. Mae yn dra gweithgar pan ewyllysiont wneuthur da, Rhuf. vii. 21. Y pryd hwn mae'r adar yn disgyn ar y celaneddau, Gen. xv. 11. A thrwy hyny mynych mae ysprydoedd y saint, mewn dyledswyddau crefyddol yn cael eu cymmylu; ac y maent yn cael eu gadael fel Michael, gyda delw yn y gwely yn lle ei gwr, 1 Sam. xix. 13. Nid rhaid i mi brofi fod llygredd yn y saint, er eu mwyn hwy, canys y maent yn gruddfan dano; ac i brofi iddynt hwy ei fod, sydd fel pe daliwn ganwyll i ddangos yr haul: ac y mae yr annuwiolion yn barod i farnu pridd y wadd yn y saint, gymmaint a mynyddoedd; os na chyfrifant hwynt oll yn rhagrithwyr. Ond ystyriwn yr ychydig bethau hyn ar y pen yma: (1.) Os fel hyn y mae yn y pren îr, pa fodd y bydd yn y crin? Nid yw'r saint wedi eu *geni* yn *saint*, ond hwy a wnaed felly trwy eu *hail eni*. A oes ganddynt hwy anian newydd, a chymmaint o lygredd eto yn aros ynddynt? Gymmaint raid i'r llygredd hwnw fod yn y rhai diras. (2.) Mae'r saint yn gruddfan dan ei weddillion, fel baich trwm. Felly yr oedd Paul, Rhuf. vii. 24. "Ys truan o ddyn wyf fi! Pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon?" Er fod yr annuwiol yn dawel a llonydd, ac nid yw llwgr ei natur yn faich iddo ef; a ydyw efe gan hyny yn lân oddiwrtho? Nac ydyw, dim ond ei fod yn farw, heb deimlo ei bwys dirfawr. Clywir aml ochenaid o glaf wely, ond ni chlywir yr un o'r bedd. Yn y saint, fel mewn dyn claf, mae terfysg mawr; mae bywyd ac angeu yn ymladd am yr oruchafiaeth: Ond yn yr annuwiol, fel mewn corph marw, nid oes y cynnwrf lleiaf; o herwydd fod marwolaeth mewn llawn rwysg. (3.) Mae'r duwiol yn gwrthwynebu yr hen ddyn; mae efe yn ymdrechu i'w farweiddio, eto mae'n aros: mae'n ceisio ei newynu a thrwy hyny ei wanhau, eto mae'n gweithredu. Pa mor fyw a chryf gan hyny raid iddo fod yn yr enaid hwnw, lle nad yw yn cael ei newynu ond ei borthi. Ac fel hyn y mae yn yr holl rai diadgenedledig, "Yn rhagddarbod tros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef." Os oes gwaith beunyddiol yn ngwinllan y diwyd, i'w thrin a'i llafurio; mae'n sicr y bydd drain yn tyfu dros wyneb gwinllan y diog.

*Yn olaf,* Ni chwanegaf ond un sulwad eto; sef, fod delw Adda bechadurus, i'w gweled yn amlwg yn mhob dyn wrth natur. Mae rhai plant yn eu pryd a'u gwedd yn dangos pwy yw eu tad: ac felly yr ydym ninnau yn tebygu i'n rhieni, cyn-

taf. Mae pob un o honom yn dwyn delw ac argraff y cwymp arnom: ac i brofi gwirionedd hyn, yr wyf yn apelio at gydwybodau pawb yn y pethau canlynol.

1af. Onid yw manylgais pechadurus yn naturiol i ni? Ac onid yw hyn yn argraff o ddelw Adda? Gen. iii. 6. Onid yw dyn wrth natur yn llawer mwy awyddus i wybod pethau newydd, nag i ymarfer â hen wirionedd amlwg? Mor debyg i hen Adda ydym yn yr ysfa hwn am newydd-bethau, a diflasu ar hen athrawiaeth safadwy! Yr ydym yn ymgais mwy am wybodaeth na sancteiddrwydd; ac yn astudio fwyaf i wybod y pethau sydd leiaf er ein hadeiladaeth. Mae ar ein dychymmygion gwylltion a chwyddedig eisieu ffrwyn i'w hattal, tra mae'n angenrheidiol ein symbylu at waith da.

2il. Os bydd i'r Arglwydd, drwy ei gyfraith a'i ragluniaeth ddoeth, attal unrhyw beth oddiwrthym; oni fydd i hyny ennyn ein tueddiadau naturiol, a'n gwneyd yn fwy awchus yn ein hawyddfryd? Ac yn hyn, onid ydym ni yn dangos yn eglur ein bod yn blant Adda, Gen. iii. 2, 3, 6. Yr wyf yn meddwl na ellir gwadu hyn; canys y mae profion beunyddiol yn sicrhau, "fod dyfroedd lladrad yn felus, a bara cudd yn beraidd," Diar. ix. 17. Yr oedd y cenhedloedd yn canfod hyn, sef, fod dyn wedi ei lenwi âg yspryd gwrthryfelgar, er na wyddent o ba le y tarddodd. Mynych y mae dynion yn gollwng eu hunain yn *benrhydd* mewn pethau, yn y rhai, pe rhoddai yr Arglwydd *ryddid* iddynt, hwy a *gadwynent* eu hunain. Ond y mae natur lygredig yn ymbleseru i dori tros y terfynau. Ac onid ydym yn ail gyflawni ffolineb ein tad Adda, trwy ddringo at ffrwythau gwaharddedig, yn hytrach na chasglu yr hyn a ysgydwir oddiar bren rhagluniaeth ddaionus, er fod Duw yn caniatau hyny i ni?

3ydd. Pwy o holl blant Adda sydd heb fod yn tueddu yn naturiol i wrandaw ar athrawiaeth a bar iddo gyfeiliorni? Ac onid dyma y graig ar yr hon y drylliwyd ein rhieni cyntaf? Gen. iii. 4, 6. Mor dueddol yw dyn, byth wedi hyny, i gellwair â themtasiwn! "Canys y mae Duw yn llefaru unwaith; ie, ddwywaith, ond ni ddeall dyn," Job. xxxiii. 14. Ond buan y gwrendy ar satan. Gallai dynion ochelyd profedigaeth, pe gwrthwynebent hi ar ei hymddangosiad cyntaf; pe gwrthwynebent hwynt yn eu tarddiad; trengent yn fuan. Ond Och! er i ni weled y powdr wedi ei osod, a'r tân yn ymgymeryd ynddo, eto ni a safwn yn llonydd, hyd oni chyneuo, a'n chwythu i fynu gan ei fflamiad.

4ydd. Onid yw llygaid naturiol ein cyrph, yn mynych dywyllu llygaid ein meddwl? Ac onid felly y bu gyda'n rhieni cyntaf? Gen. iii. 6. Pan fo dyn yn edrych ar y gwrthddrychau hyfrydaf i natur, y mae efe ddallaf. Er pan agorwyd llygaid ein rhieni cyntaf i ganfod y ffrwyth gwaharddedig, bu llygaid dynion yn foddion i ddinystrio eu heneidiau. A thrwy y pyrth hyn y mae dychymmygion ansanctaidd, a dymuniadau pechadurus yn myned i'r galon, er clwyf i'r enaid, nychdod i'r gydwybod, ac weithiau effeithiau galarus ar gymdeithasau cyfain; fel yn achos Achan, Jos. vii. 21. Yr oedd Job dduwiol yn gwybod am y perygl oddiwrth y ddau globyn bychain hyn; y rhai y gall ysgyren fechan o bren eu gwneyd yn ddiddefnydd; fel y darfu iddo (yn gyffelyb i'r brenin yr hwn ni feiddiai â'i ddeng mil, gyfarfod â'r hwn a ddaeth ag ugain mil yn ei erbyn, Luc xiv. 31, 32) anfon i ddeisyf ammodau heddwch; Job xxxi. 1, "gwneuthum ammod â'm llygaid," &c.

5ed. Onid yw yn naturiol i ni ofalu am y corph, ïe, er colli ein henaid? Felly y gwnaeth ein rhieni cyntaf, Gen. iii. 6. O mor ddedwydd fyddem, pe trafferthem hanner cymmaint gyda'n heneidiau ag ydym gyda'n cyrph! Pe rhedai y gofyniad hwnw, "Beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" (Act xvi. 30.) yn agos mor fynych trwy ein meddyliau, ag y mae gofyniadau eraill, "Pa beth a fwytawn? pa beth a yfwn? neu â pha beth yr ymddilladwn?" Math. vi. 31. byddai arwyddion gobeithiol am amryw. Ond y gwirionedd yw, mae llawer yn byw, fel pe na byddent ond clamp o gnawd; neu megis pe na byddai eu heneidiau dda i ddim, ond fel halen i gadw eu cyrph rhag llygru. "Cnawd ydynt," Joan iii. 6; "am bethau y cnawd y maent yn syniad," Rhuf viii. 4. "Maent yn byw yn ol cnawd," adn. 13. Os ceir cydsyniad y cnawd i gyflawni unrhyw weithred, anfynych yr arosir am gydsyniad y gydwybod; ïe, mae'r cnawd yn aml yn cael ei wasanaethu, er i'r gydwybod anghydsynio â'r weithred.

6ed. Onid yw pob un, wrth natur, yn anfoddlon i'w sefyllfa yn y byd, neu i ryw beth neu gilydd ynddi? Felly yr oedd Adda, Gen. iii. 5, 6. Mae rhyw beth beunydd o'i le; felly mae dyn yn agored i gyfnewidiadau. Ac os amheua rhyw un hyn, edrychent ar eu holl fwyniant; ac ar ol taflu golwg ar hyny, gwrandawent ar eu colonau, a chânt glywed grwgnachrwydd dirgel o eisieu rhyw beth; er, fe allai, ped ystyrient y peth yn iawn, y gwelent mai gwell fyddai iddynt fod mewn

eisieu o'r peth hwnw, na'i gael. Er pan ehedodd calonau ein rhieni cyntaf trwy eu llygaid, at y ffrwyth gwaharddedig, a thrwy hyny ddyfod nos o dywyllwch ar y byd; mae clefyd naturiol ar eu hiliogaeth, yr hyn a eilw Solomon, "Ymdaith yr enaid," Preg. vi. 9. Mae hwn fel rhyw lesmair diefig, yn yr hwn y mae yr enaid yn croes ymdeithio ar hyd y byd; yn ymborthi ar filoedd o bethau disylwedd; yn ymgyrhaedd at wahanol bethau ardderchawg y greadigaeth, yn ei ddychymygion a'i wange; yn gwibio yma a thraw, i bob man, ond y lle y dylai fyned. Ac ni wellheir yr enaid byth o'r clefyd hwn, nes y dygir ef yn ol trwy ras, i gael gorphwysfa dragywyddol yn Nuw trwy Grist: ac heb hyn, pe gosodid dyn drachefn yn Mharadwys, gardd yr Arglwydd, ni wnai yr holl bleserau fyddai yno, ei gadw rhag edrych dros y mur, ïe, rhag neidio trosto yr ail waith.

7ed, Onid yw cynghorion a siamplau drwg, yn effeithio mwy arnom na rhai da? Gellwch weled mai hyn oedd dinystr Adda, Gen. iii. 6. Siamplau drwg, hyd y dydd hwn, yw un o brif ddyfais satan i ddistrywio dynion. Er ein bod ni wrth natur yn debycach i'r llwynog nag i'r oen; eto mae'r anian wirion-ffol hóno, a ddywaid rhai sydd yn yr oen, sef, mai os neidia un oen i'r dwfr, y neidia y lleill fyddai'n agos yn ddioed ar ei ol, yn briodol hefyd i dueddiad meibion dynion, y rhai sy'n dra thueddol i ddilyn ffordd ddrwg, o herwydd eu bod yn gweled eraill arni o'u blaen hwynt. Mae siampl ddrwg yn fynych fel llifddyfroedd yn ein llusgo allan o lwybrau ein dyledswydd: yn enwedig os rhoir y siampl gan y rhai ydym yn eu mawr serchu, am fod ein serch yn dallu ein deall; a'r peth a ffieiddiem yn eraill, a gyflawnwn er mwyn eu boddio. Ac nid oes dim yn fwy amlwg, na bod dynion yn gyffredinol yn dewis gwneyd fel y gwna y *rhan fwyaf*, yn fwy na gwneyd fel y gwna y *rhai goreu*.

8ed. Ar bwy o holl feibion Adda y mae eisieu eu dysgu yn y gelfyddyd o *wnïo dail ffigys yn nghyd*, i guddio eu noethni? Gen iii. 7. Ar ol i ni ddistrywio ein hunain, a myned yn noeth, er ein cywilydd; yr ydym yn ymgais yn naturiol am gynnorthwyo ein hunain, o honom ein hunain; ac y mae llawer dyfais wan yn cael ei gwneyd mor wirionffol a diles a *dail ffigys* Adda. Fel y mae dynion yn ymboeni i guddio eu pechodau oddiwrth eu cydwybodau, ac i roi y lliw goreu a allont arnynt. A phan argyhoedder hwynt i weled eu noethni, mae mor naturiol iddynt geisio nyddu gorchudd iddo allan

o'u hymysgaroedd eu hunain, ag yw i bysgod nofio yn yr afon, neu adar ehedeg yn yr awyr. Gan hyny, gofyniad cyntaf yr argyhoeddedig yw, pa beth a wnaf? Act. ii. 27. Pa fodd yr ymlanhawn? Beth a gyflawnwn? Heb feddwl mai gwaith Duw yw y *creadur newydd,* (Eph. ii. 10,) mwy nag y meddyliodd Adda y cai ei wisgo â chrwyn yr aberthau, Gen. iii. 21.

9ed. Onid yw plant Adda o naturiaeth yn dilyn ei lwybrau ef, trwy ymguddio o ŵydd yr Arglwydd? Gen. iii. 8. Yr ydym mor dywyll bob tipyn yn y mater hwn ag yntau. Yr hwn a amcanodd ymguddio o ŵydd Duw yn mysg prenau cysgodol yr Ardd. Yr ydym yn dra thneddol i addaw mwy diogelwch i ni ein hunain mewn pechod dirgel, nag mewn pechod cyhoeddus. "Llygaid y godinebwr sydd yn dysgwy am y cyfnos, gan ddywedyd, ni chaiff llygaid fy ngweled," Job xxiv. 15. Ac fe gyflawna dynion bechod yn y dirgel, ag y byddai arnynt gywilydd ei wneyd yn ngwydd plentyn; fel pe bai tywyllwch yn cuddio o olwg y Duw hollwybodol. Onid ydym ni yn naturiol i fod yn ddiofal am gymdeithas â Duw; ïe yr ydym yn elynol iddo. Ni bu cymdeithas erïoed rhwng Duw a phlant Adda, heb iddo ef gael y gair cyntaf. Pe gadawai hwynt yn llonydd, ni cheisiant ef byth, Esay lvii. 17. *Ymguddiais.* A geisiodd ef Dduw wedi iddo ymguddio? Na ddo yn wir. *Efe a aeth rhagddo yn gildynus ar hyd ffordd ei galon.*

10ed. Mor anhawdd gan ddynion gyfaddef pechod, i gymmeryd euogrwydd a chywilydd arnynt eu hunain? Ac onid fel hyn yr oedd gyda'n rhieni cyntaf? Gen. iii. 10. Cyffesodd Adda ei noethni, am na allai ei wadu; ond nid yw yn dweyd un gair am ei bechod: dyma yr achos o hyny, efe a'i cuddiasai pe gallasai. Mae mor naturiol i ni guddio pechod a'i gyflawni. Mae genym siamplau galarus o hyn yn y byd yma; ond fe'i profir yn amlycach o lawer yn nydd y farn, "Yn y dydd y barno Duw ddirgeloedd dynion," Rhuf. ii. 16. Gwelir llawer genau halogedig y pryd hwnw, y rhai sy'n awr yn cael eu sychu, ac yn dywedyd, "Ni wneuthum i anwiredd," Diar. xxx. 20.

*Yn olaf,* Onid yw yn naturiol i ni wneuthur esgus am ein pechodau, a bwrw y bai ar eraill? A phan holodd Duw ein rhieni cyntaf, oni roddes Adda y bai ar y wraig? ac oni roddes y wraig y bai ar y sarph? Gen. iii. 12. 13. Yn awr, nid oes eisieu dysgu y ddichell uffernol hon i blant Adda; oblegyd cyn y gallont siarad yn iawn, (os na allant wadu y peth)

gwnant ryw fwngial i leihau eu trosedd, a rhoi y bai ar ryw un arall. Ie, mor naturiol yw hyn i ddynion, fel yn eu pechodau mwyaf rho'nt y bai ar Dduw ei hun; melldithiant ei ragluniaeth sanctaidd, dan yr enw cyfeiliornus *aflwydd* neu *ddamwain ddrwg*, a thrwy hyny yn bwrw y bai wrth ddrws y nefoedd. Ac onid oedd hyn yn un o ystrywiau Adda ar ol ei gwymp? Gen. iii. 12. "Ac Adda a ddywedodd, y wraig a roddaist gyda mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a mi a fwyteais." Sylwch ar ddull yr ymadrodd. Mae'n dweyd ei esgus yn gyntaf; a chwedi hyny mae ei gyfaddefiad: mae yr esgus yn faith; ond y cyfaddefiad yn fyr iawn; mae oll yn gynnwysedig yn y geiriau hyny, *ac mi a fwyteais.* Mor bendant ac uniongyrchol yw ei esgus, fel pe buasai arno ofn i'w feddwl gael ei gam-ddeall; *y wraig*, meddai ef, neu'r *wraig yna*, fel pe buasai yn cyfeirio y Barnwr at ei waith ei hun, fel y gwelwn yn Gen. ii. 22. Nid oedd ond un wraig yn y byd y pryd hwn; fel y gallasid meddwl nad oedd angenrheidrwydd iddo fod mor fanwl i gyfeirio ati; eto y mae mor ofalus yn ei phennodi hi allan er ei amddiffyn ei hun, fel pe buasai yno ddeng mil. *Y wraig a roddaist i mi:* Mae'n dadleu fel pe buasai rhodd Duw wedi ei ddinystrio ef. Ac i ddüo y rhodd, fe ddywaid yn mhellach, y *wraig a roddaist gyda mi*, fel fy nghydymaith beunyddiol, i fod yn gynnorthwy i mi. Mae hyn yn ymddangos fel pe buasai Adda yn bwrw fod gan yr Arglwydd amcan drwg wrth roddi iddo y rhodd hon. Ac ar ol y cwbl, mae yma beth arall cyn y byddo yr ymadrodd yn gyflawn; nid yw yn dywedyd, *y wraig a roddodd i mi*, ond, *y wraig, hi a roddodd i mi;* Yn arbennodol y dywedodd *hi*, ie *hyhi* a roddodd i mi o'r ffrwyth. Hyn am ei esgus. Ond y mae ei gyfaddefiad trosodd yn dra buan, mewn gair, (fel y llefarodd ef,) *a mi a fwyteais*. Ac nid oes yma ddim yn cyfeirio ato ei hun, na dim i ddangos beth a fwytaodd. Mor naturiol yw y gelfyddyd ddu hon i hiliogaeth Adda! Gall yr hwn a fo yn rhedeg ei ddarllen. Gwir yw sylwad Solomon, Diar. xix. 3, "Ffolineb dyn a wyra ei ffordd, a'i galon a ymddigia yn erbyn yr Arglwydd." Felly bydded i ni alw Adda, *yn dad;* na wadwn y berthynas, gan ein bod yn dwyn ei ddelw.

Ac yn awr, i benderfynu y pwngc hwn, wedi ei brofi trwy dystiolaethau o air Duw, ein profiadau ein hunain, a sylwadau eraill; ennilled ni i gredu yr athrawiaeth o lygredigaeth ein natur; ac i edrych at yr ail Adda, Iesu Grist, am gymhwysiad o'i waed, i symud euogrwydd y pechod hwn: a gallu ei Yspryd

Glân, i'n gwneyd yn greaduriaid newydd, gan wybod, "oddieithr geni dyn drachefn, na ddichon ef weled teyrnas Dduw."

## *Am Lygriad y Deall.*

YN AIL, Caf chwilio i lygredigaeth ein natur, yn ei amrywiol ranau. Ond pwy a all ei amgyffred? Pwy a all ei iawn fesur, yn ei led, a'i hyd, ei uchder, a'i ddyfnder? "Mae'r galon yn fwy ei thwyll na dim, ac yn ddrwg ddiobaith; pwy a'i hedwyn?" Jer. xvii. 9. Ond fodd bynag, gallwn ganfod cymmaint o honi, ag i fod yn achos o'n hymostyngiad mwyaf, ac i fod yn ddigon i ddangos i ni yr angenrheidrwydd anhepgorol am ailenedigaeth. Mae dyn yn ei gyflwr natur yn gwbl lygredig. Corph ac enaid wedi eu llygru, fel mae'r Apostol yn profi yn helaeth yn Rhuf. iii. 10, 18. Mae y llwgr hwn wedi ymdaenu trwy holl gynneddfau yr enaid; ac i'w weled yn y deall, yr ewyllys, y serchiadau, y gydwybod, a'r cof.

I. Mae y deall, y gynneddf arweiniol hono, wedi ei hymddifadu o'i gogoniant gwreiddiol, ac wedi ei llenwi âg annhrefn. Yr ydym wedi syrthio i ddwylaw ein prif elyn, fel Sampson i ddwylaw y Philistiaid, ac wedi cael tynu ein dau lygad, "Nid oes neb yn deall," Rhuf. iii. 11. "Halogedig yw hyd yn nod eu meddwl a'u cydwybod hwy," Tit. i. 15. Mae amgyffrediadau dyn am bethau ysprydol wedi llygru, Ps. l. 21. "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun." Mae ei farn yn llygredig, ac ni all fod yn amgen gan fod ei lygaid yn ddrwg: gan hyny mae yr Ysgrythyr, er mwyn dangos fod holl waith dyn yn gyfeiliornus, yn dweyd "Pob un a wnai yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun," Barn xvii. 6; a xxi. 25. Ac y mae'n rhaid bwrw i lawr ei ddychymmygion, neu ei resymiadau, trwy nerth y gair, gan eu bod yn un â'i farn, 2 Cor. x. 5. Ond, i ddangos llygriad y meddwl neu'r deall yn fwy neillduol, ystyriwn y pethau canlynol:

*Yn gyntaf,* Mae gwendid naturiol yn meddyliau dynion, mewn perthynas i bethau ysprydol. Mae Pedr yn penderfynu am bob un sydd heb ei gynnysgaeddu â gras yr Yspryd Glân, "Mai dall ydyw heb weled yn mhell," 2 Pedr i. 9. Mae yr Yspryd Glân yn yr Ysgrythyrau, yn gwisgo, megis, y gwirionedd â ffurf ddaearol, megis rhieni yn dysgu eu plant, gan arferu cyffelybiaethau, Hos. xii. 10. Yr hyn, er nad yw yn *gwellau,* eto mae'n *dangos y gwendid* naturiol hwn yn meddyliau dynion. Mae profiadau dynion yn gwirio hyn. (1)

Mor anhawdd yw dysgu dynion yn egwyddorion cyffredin gwir grefydd, ac i wneyd y gwirionedd yn ddigon amlwg fel y gallont ei ddeall; rhaid rhoi gorchymmyn ar orchymmyn, gorchymmyn ar orchymmyn, llîn ar lîn, llîn ar lîn, Esay xxviii. 10. Profwch y dynion hyn mewn pethau eraill, chwi a'u cewch yn "gallach yn eu cenhedlaeth na phlant y goleuni." Maent yn deall eu gwaith a'u masnach yn y byd cystal a'u cymmydogion, eto maent yn dra hurt a diddysg yn mhethau Duw. Dywedwch wrthynt y modd i ychwanegu eu cyfoeth, neu i foddio eu chwantau, deallant hyny yn fuan; er fod yn dra anhawdd gwneyd iddynt ddeall y ffordd i gadw eu heuaid; neu y modd i'w heneidiau gael gorphwysdra yn Nghrist. (2.) Ystyriwch y rhai sy'n cael mwy o fanteision na'r cyffredin; y rhai sydd wedi cael dysg a chyfarwyddiadau, a chael eu bendithio â goleuni gras i ryw fesur, cyffelyb i'r hyn sy'n cael ei roddi i'r saint ar y ddaear; eto leied a wyddant hwy am bethau ysprydol! Y fath dywyllwch a chymmysgedd sy'n aros eto yn eu meddyliau! Mor fynych y maent yn cael eu dyrysu, yn y gwirioneddau mwyaf amlwg, ac yn siarad fel babanod yn y pethau hyn! Mae'n wendid gresynol, na allwn ganfod y pethau a ddatguddiodd Duw i ni; ac y mae yn wendid pechadurus, gan fod deddf Duw yn gofyn i ni eu deall a'u credu hwynt. (3,) Y fath gyfeiliornadau peryglus sydd i'w gweled yn mysg dynion, mewn perthynas i'r pethau mwyaf eu pwys! Y fath dwyll truenus sy'n eu gorchfygu! Onid ydym yn gweled y dynion callaf yn y byd mewn pethau tymhorol, yn ffyliaid mwyaf mewn perthynas i fater eu heneidiau? Math. xi. 25, "Cuddiaist y pethau hyn oddiwrth y doethion a'r deallus." Mae gan lawer lygaid eryr yn mhethau gwael amser, er hyny fel dylluanod, neu ystlumod yn mhethau Duw. Ie, yn wir, nid yw oes dyn wrth natur ond un breuddwyd a thwyll parhaus; o'r hwn nid yw byth yn deffroi, ond naill a'i trwy dywyniad goleuni o'r nef i'w enaid, i'w ddwyn ato ei hun, Luc xv. 17, neu, yn *uffern efe a gododd ei olwg,* Luc xvi. 23. Ac felly yn nghyfrif yr Ysgrythyr, bydded ef mor ddoeth ag y bo, nid yw ond hurtun ac ynfyd.

*Yn ail,* Mae deall dyn wrth natur wedi ei orchuddio â thywyllwch dudew mewn pethau ysprydol. Mae dyn, trwy hudoliaeth Satan, yn ymgais am greu goleuni newydd yn ei feddwl, (Gen. iii. 5,) ac yn lle hyny, mae'n agor drws y pydew heb waelod; a thrwy y mwg sy'n dderchafu o hono, yn cael ei gladdu mewn tywyllwch. Pan wnaeth Duw ddyn ar y

cyntaf, yr oedd ei ddeall yn llusern o oleuni; ond yn awr, pan mae Duw yn ei ail wneyd, trwy ailenedigaeth, mae yn ei gael yn dywyllwch, Eph. v. 8. "Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch." Mae pechod wedi cau ffenestr yr enaid; mae tywyllwch gorchudio yr holl ardal hono. Tir tywyllwch a chysgod angeu ydyw, lle mae goleuni fel tywyllwch. Mae tywysog y tywyllwch yn teyrnasu yno, a dim ond gweithredoedd y tywyllwch yn cael eu llunio yno. Yr ydym wedi ein geni yn ddall ysprydol, ac ni ellir ein hadfer heb wyrthiau gras. Dyma fel yr wyt ti, pwy bynag wyt, os na ail-anwyd di. Ac i'r dyben o'ch goleuo yn y mater hwn, ystyriwch y pethau canlynol:

1 *prawf*. Y tywyllwch oedd ar wyneb y ddaear, cyn ac wedi ymddangosiad Crist, yr hwn a gyfododd fel haul cyfiawnder ar y ddaear. Pan gollodd Adda, trwy bechod, ei oleuni gwreiddiol, â'r hwn y cynnysgaeddwyd ef yn ei greadigaeth, gwelodd Duw yn dda wneyd datguddiad grasol o'i feddwl a'i ewyllys iddo, y'nghylch ffordd iechydwriaeth, Gen. iii. 15. Trosglwyddwyd hyn y'mlaen ganddo ef, a dynion duwiol eraill cyn y diluw: eto yr oedd tywyllwch meddwl dyn mor gryf yn erbyn y datguddiad hwnw, fel y dilëodd bob ystyriaeth am wir grefydd o drigolion yr hen fyd, oddigerth yr hyn oedd yn aros yn nheulu Noah, y rhai a gadwyd yn yr arch. Ar ol y diluw, fel yr oedd dynion yn amlhau ar y ddaear, mae tywyllwch y meddwl yn aros fyth, a'r goleuni yn darfod, nes y bu farw yn mysg dynolryw yn gyffredin, ac ni chadwyd ef ond yn unig yn mhlith hiliogaeth Shem. Ac yr oedd, hyd yn nod yn ei mysg hwy, bron a machludo, pan alwodd Duw Abraham o wasanaethu duwiau eraill, Jos. xxiv. 15. Mae Duw yn rhoi datguddiad mwy eglur a chyflawn iddo ef, ac y mae yntau yn gorchymmyn hyny i'w dylwyth ar ei ol, Gen. xviii. 19. Eto y mae y tywyllwch naturiol hwn yn ei wisgo i ffordd cyn hir, ond yr hyn a gadwyd yn mhlith hiliogaeth Iacob. Fe'u dygwyd i waered i'r Aipht, mae'r tywyllwch hwn yn llwyddo, nes gadael iddynt ond ychydig ystyriaethau am wir grefydd: ac angenrheidiol oedd rhoi datguddiad newydd iddynt yn yr anialwch. Ac aeth llawer cwmmwl tywyll tros hwnw o bryd i bryd, o amser Moses hyd Grist. Pan ddaeth Crist, yr oedd y byd wedi ei ranu yn Iuddewon a chenedloedd. Fe gauwyd yr Iuddewon a'r gwir oleuni gyda hwynt, o fewn terfyn, Ps. cxlvii. 19, 20. Yr oedd canol-fur gwahaniaeth o waith Duw rhyngddynt hwy a'r byd cenedlig, sef, y ddeddf seremonïol; ac ar hyn yr oedd un arall wedi ei godi o waith dyn ei hun, sef

gelyniaeth gwreiddiol rhwng y pleidiau, Eph. ii. 14, 15. Os edrychwn y tu allan i'r cylch (oddieithr y proselytiaid o'r cenedloedd, y rhai trwy ryw belydr o oleuni oedd yn llewyrchu arnynt y tu allan i'r terfyn, a adawsant eilunaddoliaeth, a wasanaethasant y gwir Dduw, ond ni chyd-ymffurfiasant a defodau Moses,) ni welwn ond "tywyll leoedd y ddaear, yn llawn o drigfanau trawsder," Ps. lxxiv. 20. Tywyllwch tew a dôdd wyneb y byd cenedlig; ac yr oedd ffordd iechydwriaeth yn hollawl anhysbys iddynt. Yr oeddynt wedi ymroi i goelgrefydd ac eilunaddoliaeth; ac wedi lliosogi eu heilunod i'r fath nifer, fel y bernir fod dros ddeng mil a'r hugain o gau dduwiau yn cael eu haddoli yn Ewrop yn unig. Pa ddoethineb bynag oedd yn mysg eu Philosophyddion, nid adnabu y byd, trwy y doethineb hwn, mo Dduw, (1 Cor. 1. 21.) ac nid oedd eu holl fanyl-gais mewn crefydd, ond ymbalfalu yn y tywyllwch, Act. xvii. 27. Os edrychwn y tu fewn i'r terfyn, heblaw yr ychydig oedd yn gruddfan, ac yn dysgwyl am ddiddanwch yr Israel, cawn weled tywyllwch dudew yn toi y genhedlaeth hono. Er mai iddynt hwy yr ymddiriedwyd ymadroddion Duw, eto yr oeddynt yn dra chyfeiliornus yn eu hathrawiaeth. Yr oedd eu traddodiadau yn aml, ond yr oedd gwybodaeth o'r pethau perthynol i fywyd crefydd, wedi colli: ni wyddai *dysgawdwyr* Israel ddim am natur ac angenrheidrwydd o ailenedigaeth, Ioan iii. 10. Yr oeddynt yn adeiladu eu crefydd ar eu genedigol fraint, fel plant Abraham, Mat. iii. 9. yn ymffrostio yn eu henwaediad, ac ordeinhadau allanol eraill, Phil. iii. 2, 3. Ac yn ymorphwys yn y ddeddf, (Rhuf. ii. 17.) wedi iddynt trwy eu hesboniadau gau, ei gwneyd mor fyr, fel y gallant o fewn ychydig ei chyflawni, Math. v.

Felly yr oedd tywyllwch dros wyneb y ddaear, pan ddaeth Crist, y gwir oleuni, iddi; ac y mae tywyllwch ar bob enaid, nes iddo ef, fel y seren ddydd, godi yn y galon. Mae'r naill dywyllwch yn brawf o'r llall. Beth ond tywyllwch naturiol meddyliau dynion, a allai wisgo ymaith oleuni datguddiad allanol, mewn achos ag yr oedd dedwyddwch tragywyddol yn ymddibynu arno? Nid anghofiodd dynion y ffordd i gynnal eu bywydau, ond mor fuan y collasant wybodaeth am drefn iechydwriaeth eu heneidiau, yr hyn sydd anfeidrol fwy ei bwys a'i werth! Pan na thyciai pregethau Patrieirch a Phrophwydi, yr oedd yn rhaid i ddynion gael eu dysgu gan Dduw ei hun, yr hwn yn unig a all agoryd llygaid y meddwl. Ond er profi fod llwgr y meddwl yn ddyfnach nag y gellir ei feddyginiaethu

trwy ddatguddiad allanol yn unig, ni ddychwelwyd ond ychydig iawn trwy bregethiad Crist, yr hwn a lefarodd tu hwnt y llefarodd dyn erioed, Ioan xii. 37, 38. Yr oedd iachad y genedl i gael ei gyflawni gan Yspryd Duw, trwy bregethiad yr Apostolion; y rhai, yn ol yr addewid, oeddynt i wneyd *gwrthiau mwy*, (Ioan xiv. 12.) Ac os edrychwn i'r gwyrthiau a wnaed gan Grist, cawn, mai wrth gymhwyso meddyginiaeth i'r enaid, er mewn iachau afiechyd y corph, (megis y gwnaeth efe i'r claf o'r parlys, Mat. ix. 2) dangosodd yn amlwg, mai ei brif neges yn y byd, oedd iachau anhwyldeb yr enaid. Fe gyflawnwyd y wyrth ar y dyn dall o'i enedigaeth, yn y fath fodd, ag i ddangos i'r byd fel mewn drych, eu cyflwr a'r feddyginiaeth, Ioan ix. 11. "Efe a wnaeth glai, ac a irodd y clai ar lygaid y dall." Beth allai ddangos yn addasach, dywyllwch meddwl dynion, na llygaid wedi eu cau i fynu â chlai neu ddaear? Esay vi. 10. Cau eu llygaid hwynt; trwy eu *hiro* neu eu *gorchuddio â chlai*, fel y goddef y gair. A'r xliv. bennod, adn. 18. "Caeodd eu llygaid hwynt;" mae'r gair yn arwyddo, *priddodd eu llygaid hwynt*; fel yr oedd y tŷ a'r gwahanglwyf i gael *ei briddo*, Lef. xiv. 42. Fel hyn y mae gair yr Arglwydd yn dangos dyben y gwaith rhyfedd hwnw; a thrwy hyny yn dangos i ni, fod llygaid ein meddwl wrth natur yn gauad. A, rhaid i'r dyn dall fyned i olchi ymaith y clai hwn i lyn Siloam, nid ettyb un dwfr arall y dyben. Oni bai fod y llyn yn arddangos yr hwn a *anfonodd* y Tad i'r byd i *agoryd llygaid y deillion*, (Esay xlii. 7) yr wyf yn meddwl na buasai yr Efengylwr yn rhoi cyfieithiad i ni o'r enw, yr hwn meddai ef, sy'n arwyddo *anfonedig*, Ioan ix. 7. Ac felly gallwn farnu fod tywyllwch naturiol ein meddyliau y fath, na ellir ei wellhau, ond trwy waed ac Yspryd Crist, eli llygaid yr hwn yn unig a all roi i ni ein golwg, Dat. iii. 18.

2. *Brawf.* Mae calon a bywyd pob dyn wrth natur yn llawn o dywyllwch, annhrefn, a therfysg; pa mor lân bynag y bo yn ymddangos y'ngolwg dynion. "Canys yr oeddym ninnau hefyd, gynt," medd yr Apostol, "yn anufudd, yn cyfeiliorni, yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd," Titus iii. 3. Ac eto, yr amser y cyfeiria y testun hwn ato, yr oedd efe, "Yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf, yn ddiargyhoedd," Phil. iii. 6. Mae hyn yn brawf amlwg, "fod y llygad yn ddrwg, a bod yr holl gorph yn dywyll," Matth. vi. 23. Mae dynion diadgenedledig yn gwibio ar hyd y byd fel mintai o ddeillion; y rhai ni chymmerant arweinydd, ac ni allant

fyned eu hunain; ac felly yn syrthio tros y dibyn hwn ac arall i ddinystr. Mae rhai yn rhedeg ar ol eu cybydd-dod, nes eu trywanu â llawer o ofidiau; eraill yn ymsuddo mewn tom trythyllwch; ac eraill yn dryllio eu hunain ar graig balchder a hunan-dyb; mae pob un yn tramgwyddo wrth ryw faen tramgwydd neu gilydd: mae pob un o honynt yn rhedeg yn erbyn blaen cleddyf cyfiawnder, tra maent yn dyfal ddilyn eu trachwantau, pa le bynag yr arweiniant hwynt; a thra y mae rhai yn gorwedd ar hyd y ffordd, mae'r lleill yn syrthio bendramwnwgl ar eu traws. Am hyny, "Gwae y byd (dall) oblegyd rhwystrau," Math. xviii. 7. Mae cyfeiliornadau mewn barn yn aml yn y byd; am ei bod yn nos, "ynddi yr ymlusga pob bwystfil y coed." Mae yr holl rai diadgenedledig yn llwyr gamgymmeryd mewn perthynas i wir ddedwyddwch; canys er y gall fod Cristionogaeth wedi plannu barn gywir am hyn yn eu penau, eto ni all dim llai na gwir ras ei blannu yn y galon ar ymarferiad. Mae pawb yn cyduno mewn dymuniad i fod yn ddedwydd; ond y'mysg yr annuwiolion, mewn perthynas i ffordd i ddedwyddwch, mae agos gynnifer o dybiau ag sydd o ddynion; "troisant bawb i'w ffordd ei hun," Esay lviii 6. Maent fel y Sodomiaid deillion y'nghylch tŷ Lot, yn wastadol yn ceisio y drws: rhai yn ymbalfalu am dano mewn rhan o'r mur, rhai mewn rhân arall; ond ni allasai neb o honynt ddweyd yn sicr, ei fod wedi ei gael; ac felly gall dyn wrth natur daro wrth bob da ond y da pénaf. Edrych i'th galon ddiadgenedledig dy hun, a chai weled yno bob peth o chwith; y nef yn isaf, a'r byd yn uchaf: edrych i'th fuchedd, cai weled yno fel yr wyt yn ynfydu, yn ymgyrhaedd at gysgod, ac yn esgeuluso y sylwedd, yn ymegnïo *at yr hyn nid yw*, ac yn esgeuluso yr hyn sydd, ac a fydd byth.

3. *Prawf.* Mae dyn wrth natur yn wastad fel gweithiwr heb olew; naill ai yn ofera neu yn gwneuthur drwg. Chwilia dy galon, a thi ai cai, naill ai yn "gweu gwe y pryf copyn, neu yn dodwy wyau asp," (Esay lix. 5,) yn crwydro ar hyd y byd, neu yn cloddio mewn pydew; yn llawn o wagedd, yn ffwdanus yn nghylch dim, neu yr hyn sydd waeth na dim. Arwydd trwm o dywyllwch meddwl.

4. *Prawf.* Nid oes gan ddyn wrth natur wybodaeth iachusol am bethau ysprydol. Nid yw yn gwybod y fath Dduw y mae iddo a wnelo âg ef; y mae'n ddieithr i Grist; ac ni ŵyr beth yw pechod. Mae'r gwyr doethaf heb ras, mor dywyll a'r wadd yn y pethau hyn. Er y gall y cyfryw siarad yn

ffraeth am danynt; ac felly y gallai yr Israeliaid am y profedigaethau, yr arwyddion, a'r rhyfeddodau, a welodd eu llygaid, (Deut. xxix. 3) i'r rhai er hyny ni roddodd yr Arglwydd, "galon i wybod, na llygaid i weled, na chlustiau i glywed, hyd y dydd hwn," adnod 4. Gall llawer un sy'n myned dan yr enw Cristion, wneyd cyffes ffydd Pharaoh, Exod. v. 2. "Yr Arglwydd nid adwaen," ac ni ollyngant ymaith yr hyn a orchymmyn efe iddynt eu gadael. Mae Duw yn eu mysg hwynt fel tywysog mewn ffug yn mhlith ei ddeiliaid, yr hwn nid yw yn cael gwell triniaeth ganddynt, na phe bai un o'u cyd-radd, Ps. l. 21. A ydynt hwy yn adnabod Crist, neu yn canfod ei ogoniant ef, neu unrhyw degwch ynddo, *fel y dymunent ef?* Pe gwelent, ni ddirmygent ef mwy; golwg ar ei ogoniant ef, a dywylla bob gogoniant crëedigol, a dewisent ef yn lle y cyfan, a'i derbynient ef yn llawen, fel y mae yn ei gynnyg ei hun yn yr efengyl, Ioan iv. 10. Ps. ix. 10. Math xiii. 44, 45, 46. A ydynt hwy yn adnabod beth yw pechod, y rhai sy'n cofleidio y sarph yn eu mynwes, yn dal gafael mewn twyll, ac ni fynent ei ollwng? Rwy'n addef y gallant gael gwybodaeth naturiol o'r pethau hyny, y fath oedd gan yr Iuddewon anghrediniol am Grist, yr hwn a welsant, ac a ymddiddanasant âg ef; ond yr oedd gogoniant ysprydol ynddo, na welodd neb ond credinwyr yn unig, Ioan i. 14. Ac mewn perthynas i'r gogoniant hwn, nis adnabu y byd anghrediniol ef, adn. 10. Ni allant gael adnabyddiaeth ysprydol o honaw; mae uwchlaw cyrhaeddiad meddwl anianol, 1 Cor. ii. 14. "Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Yspryd Duw, canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegyd yn ysprydol y bernir hwynt." Gall ymddiddan am danynt; ond fel gwr yn siarad am fêl neu winegr heb brofi melusrwydd y naill, na surni y llall. Mae ganddo ryw ddychymyg am wirioneddau ysprydol, ond heb weled y pethau eu hunain, sy'n gynnwysedig yn ngeiriau Duw, 1 Tim. i. 7. "Heb ddeall na pha bethau y maent yn eu dywedyd, nac am ba bethau y maent yn taeru." Mewn gair, mae dyn wrth natur yn ofni, ceisio, a chyffesu na wyr pa beth. Gellwch weled oddiwrth hyn fod deall dyn wrth natur, wedi ei orchuddio â thywyllwch dudew mewn pethau ysprydol.

*Yn drydydd,* Mae tueddiad naturiol yn meddwl dyn at ddrwg, er mor anhawdd ganddo gyflawni yr hyn sydd dda, mae yn hyfrydwch mawr ganddo wneuthur drwg; gan ei fod yn ei elfen ei hun, Ier. iv. 22. Mae'r dyn cnawdol yn trymhau,

wrth feddwl am wneuthur daioni; ond yn fywiog am wneuthur drwg. Tra mae duwioldeb o'i flaen, mae llyffetheiriau arno; ond ar ol iddo unwaith fyned tros y clawdd, y mae fel aderyn yn diangc o'r adardŷ, ac yn dyfod yn feistr arno ei hun. Ystyriwn ychydig ar amgyffred a dychymygion y meddwl cnawdol; a chawn brawf diambeuol o'r tuedd truenus hwn at ddrwg.

1 *Prawf.* Fel y mae dyn trwy ddyrnod trwm ar ei ben, yn colli ei olwg, y mae rhyw fath o olwg tywyllodrus yn codi, fel y mae'n gweled miloedd o bethau gwag a disylwedd; felly dyn wedi cael ei daro yn ddall i bob peth sydd wir dda, ac a berthyn i'w les tragywyddol, y mae goleu o fath arall wedi dyfod i'w feddwl; mae ei lygaid yn agored i wybod drwg, ac mae hyny yn gwirio geiriau y temptiwr, Gen. iii. 5. Mae geiriau 'r prophwyd yn amlwg, "Y maent yn synhwyrol i wneuthur drwg, eithr gwneuthur da ni fedrant," Jer. iv. 22. Mae gan feddwl dyn ddeheurwydd naturiol i ddychymygu drygioni; nid oes neb mor anghall a bod heb wybod y ffordd i gyflawni ei chwantau, a dystrywio ei enaid; er nad oes gan bob un allu i gyflawni ei ddychymygion. Nid rhaid dysgu y gelfyddyd ddubon i neb; canys fel y mae chwŷn yn tyfu o honynt eu hunain, mewn tir anial, felly y mae y ddoethineb hon, yr hon sy'n ddaearol, anianol, a chythreulig," (Iago iii. 15) yn tyfu yn meddyliau dynion trwy rym llygredigaeth eu natur. Pa ham y rhyfeddwn wrth weled cynnyrch dichellion halogedig; eu dychymygion cyfrwys i anmharchu Duw, i wrthwynebu a difrïo gwirionedd a duwioldeb, ac i gyflawni eu chwantau eu hunain ac eraill? Maent yn treiglo gyda'r ffrwd, nid rhyfedd eu bod yn cynnyddu cymmaint; mae ei hystôr o'u mewn, ac yn cynnyddu wrth ei arferyd; ac y mae gweithredoedd y tywyllwch yn cael eu dychymygu gyda mwy o rwysg, gan fod y meddwl yn llwyr amddifad o oleuni ysprydol, yr hwn pe bai ynddynt, mewn unrhyw fesur, a aflwyddai y gwaith, 1 Ioan iii. 9. "Pob un a aned o Dduw nid yw yn gwneuthur pechod;" nid yw yn ei *wneuthur fel ei gelfyddyd;* "oblegyd y mae ei had ef yn aros ynddo ef." Ond o'r tu arall, "Hyfryd gan ffol wneuthur drwg; a chan wr synwyrol y mae doethineb," Diar. x. 23. "Gwneuthur drwg yn gywraint," fel mae'r gair yn arwyddo, sydd fel digrifwch neu chwarae gan y ffol; mae yn ei wneuthur yn rhwydd; a pha ham? am mai ffol ydyw, ac heb ddoethineb, yr hon a ddrylliai ddychymygion y tywyllwch. Pa mwyaf naturiol fyddo y peth, hawddaf fydd ei gyflawni.

2 *Prawf.* Dodwch ddyn o feddwl llygredig i ymaflyd mewn rhyw ran o waith Duw, neu i fod yn bresennol yn ei wasanaeth ef; er na byddo y ddyfais, ynddi ei hun, yn bechadurus, eto hi fydd yn bechadurus o herwydd ei bod allan o amser; buan y dychymyga ryw ddyfais, trwy osgoi i'r naill du; yr hyn ni ddichon pwyll ac arafwch byth feddwl am dano yn ei amser priodol ei hun. Felly Saul, yr hwn ni wyddai beth i'w wneuthur cyn i'r offeiriad ddechreu ymgynghori â Duw, yn fuan a benderfynodd pan gynted yr oedd llaw yr offeiriad i mewn; yr oedd ei galon ei hun yn rhoi atteb iddo, ac ni oddefai iddo aros am atteb gan yr Arglwydd, 1 Sam. xiv. 18, 19. Y fath ddeheurwydd dieflig sydd gan feddwl cnawdol, yn dychymygu beth fyddo fwyaf effeithiol i'w difyru oddiwrth eu dyledswydd at Dduw.

3 *Prawf.* Onid yw y meddwl cnawdol yn naturiol am grafangu pethau ysprydol yn y dychymygion; fel pe bai yr enaid wedi cael ei drochi mewn cig a gwaed, ac yn troi pob peth i'w ddelw ei hun? Bydded i'r dynion sy'n arferol o lunio y dychymygion mwyaf cywraint, edrych i'w heneidiau eu hunain, a chant weled y tuedd hwn yn eu meddyliau; o'r hwn y mae yr eilunaddoliaeth oedd o'r dechreuad ac sydd hyd yn awr yn y byd, yn brawf diamheuol. Canys y mae yn dangosyn amlwg, fod dynion o naturiaeth am gael rhyw dduwiau gweledig, a gweled y peth a addolant; a chan hyny, "hwy a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw, i gyffelybiaeth llun dyn llygredig," Rhuf. i. 23. Mae y diwygiad yn y deyrnas hon, (diolch i Dduw am hyny,) wedi dinystrio eilunaddoliaeth a delwau hefyd, allan o'n heglwysydd; ond diwygiad y galon yn unig a all dynu i lawr eilunaddoliaeth y meddwl, ac alltudio y delwaddoliaeth mwyaf cyfrwys a chuddiedig, a dychmygion am y Duwdod allan o feddyliau dynion. Ni fu y byd yn ei amser tywyllaf, erioed yn fwy chwannog i eilunaddoliaeth, nag yw meddwl ansanctaidd i ddychymygu am y Duwdod. Ac oddi yma y mae meddyliau anweddaidd ac anghenfilaidd am Dduw, a Christ, a gogoniant y nef, a phob peth ysprydol, yn tarddu.

4 *Prawf.* Mor anhawdd yw cadw meddwl cnawdol dyn ar bethau Duw. Mor wrthwynebol yw dyn cnawdol i gynnwys meddyliau da, ac i aros mewn myfyrdod ar bethau ysprydol! Os gyrir ef, ar unrhyw amser, i feddwl am ei enaid, mae mor anhawdd cadw i mewn yr anifail gwangcus a dilywodraeth, ag ydyw ei gadw yntau rhag diangc yn ei ol at bethau gwag y

byd. Pan y mae Duw yn llefaru wrth ddynion trwy ei air, neu hwy yn llefaru wrtho ef mewn gweddi, onid yw y meddwl yn aml yn eu gadael o flaen yr Arglwydd, fel cynnifer o "eilunod a llygaid ganddynt heb weled, a chlustiau heb glywed?" Mae'r corph yn cael ei adael o flaen Duw, ond mae y byd yn cael y galon: er fod y llygaid yn gauad, y mae'r dyn yn gweled miloedd o wageddau: mae y meddwl ar yr un pryd, fel aderyn wedi diangc o'i adardy, yn neidio o'r naill lwyn i'r llall; fel mewn effaith, nid yw y dyn yn dyfod ato ei hun, nes iddo fyned "o wydd yr Arglwydd." Na ddywedwch fod *yn anmhosibl* sefydlu y meddwl. Mae *yn anhawdd*, yn wir, ond nid yw *yn anmhosibl* Grâs Duw a'i gwna, Psal. cviii. 1. Fe wna gwrthrychau boddbaol hyny. Golygiad hyfrydlawn a ddeil feddwl yr ymofyngar. Nid oes fawr o berygl y crwydra meddwl y dyn bydol, pan fyddo yn trefnu ei fasnach, yn gwneuthur i fynu ei gyfrifon, neu yn rhifo ei arian: os na rydd i chwi atteb y tro cyntaf, efe a ddywaid na chlywodd efe chwi, ei fod yn brysur; yr oedd ei feddwl yn sefydledig Pe gelwid ni o flaen y brenin i erfyn am ein bywyd, ni fyddai perygl y byddai i ni dremio o amgylch yr ystafell: ond yn hyn y mae y matter yn sefyll, y mae y meddwl cnawdol wrth ymdrin â phethau ysbrydol, allan o'i elfen, ac am hyny ni all fod yn sefydlog.

5 *Prawf.* Ond er mor anhawdd yw cadw y meddwl ar bethau da, mae'n glynu fel glud yn yr hyn sydd ddrwg a llygredig fel efe ei hun, 2 Pedr. ii. 14. "A llygaid ganddynt yn llawn godineb, ac heb fedru peidio a phechod;" Y mae eu llygaid heb fedru peidio â phechod. h. y. Mae eu calonau a'u meddyliau yn bwrw allan trwy y llygaid y peth sydd y tu mewn, fel anifail ffrochwyllt, yr hwn na ellir ei gadw i mewn, pan unwaith y caffo ei ben allan. Gollynger y dychymyg cnawdol yn rhydd ar ei wrthrych priodol, ceir gweled mai anhawdd fydd ei alw yn ol drachefn er cael rheswm ac ewyllys yn blaid. Oblegyd yna y mae yn ei elfen ei hun; a'i ddwyn oddiwrth ei anmhuredd, sydd fel pe cymmerid pysgodyn allan o'r dwfr, neu rwygo aelod gwr o'r corph. Y mae yn rhedeg fel tân wedi ei osod mewn powdr, yr hwn ni orphwys hyd y gallo fyned yn mhellach.

6 *Prawf.* Ystyriwch fel y mae dychymyg cnawdol yn cadw lle gwir wrthrychau yn y galon lygredig; i'r dyben o wneyd pechaduriaid yn ddedwydd, o'r hyn lleiaf yn y mwynhad dychymygol o'u chwantau. Fel hyn mae y galon lygredig yn porthi

ei hun â phechodau dychymygol: mae'r dyn halogedig yn llawn o anmhuredd yn ei feddwl, a chanddo lygaid yn llawn godineb; mae'r cybydd yn llenwi ei galon â'r byd, er na all lanw ei ddwylaw o honaw; mae'r dyn maleisus. gyda hyfrydwch, yn cyflawni ei ddïal o fewn ei fynwes ei hun. Y dyn cynfigenus yn ei dybiau yn gweled i foddlonrwydd ei gymmydog wedi ei osod yn ddigon isel; ac y mae pob chwant yn cael dychymyg cnawdol yn gyfaill iddo wrth raid Ac nid yn unig y mae felly pan mae dynion yn effro, ond weithiau hyd yn nod pan font yn cysgu; trwy yr hyn y gweithredir y pechodau hyny mewn breuddwydion, ag y bo eu calonau yn eu dilyn pan fyddont yn effro. Mi a wn fod rhai yn ammeu y pechadurusrwydd o'r pethau hyn: ond a ellir meddwl eu bod hwy yn cyd-sefyll â natur sanctaidd ac agwedd yspryd Adda yn ei ddiniweidrwydd, a Iesu Grist, ac a ddylai fod y m'hob, dyn? Llygredigaeth natur sy'n peri fod *y breuddwydwyr hyn yn halogi y cnawd*; ac fe'u condemnir yn Iudas 8. Yr oedd Solomon yn brofiadol o weithrediadau gras yn ei gwsg: mewn breuddwyd y gweddïodd, mewn breuddwyd y gwnaeth y dewisiad goreu; cymmeradwyodd Duw y ddau, 1 Bren. v 15. Ac os gall dyn yn ei gwsg wneyd yr hyn sydd dda a chymmeradwy ger bron Duw; paham na all efe yn ei gwsg wneyd yr hyn sydd ddrwg ac anghymmeradwy ger bron Duw? Yr oedd Solomon am wneyd dynion yn hysbys o hyn, ac y mae yn darlunio y feddyginiaeth oreu rhagddo, sef, *rhwymo y gyfraith ar y galon*. Diar. vi. 20, 21. "Pan orweddych," medd efe, (adn. 22.) "hi a'th wylia," sef, rhag pechu yn dy gwsg; h. y. rhag breuddwydion pechadurus. Canys cadw un rhag pechod (ac nid rhag trallod) yw effaith priodol cyfraith Duw wedi ei hysgrifenu yn y galon, Psal. cxix. 11. Ac fel hyn y mae deall yr holl adnod, fel y gwelwn oddi wrth adn. 23. "Canys canwyll yw'r gorchymyn, a goleuni yw y gyfraith, a ffordd i fywyd yw ceryddon addysg" Yn awr, y mae'r gyfraith yn ganwyll ac yn oleuni, canys y mae'n arwain ar lwybr dyledswydd; a cheryddon addysg oddiwrth y gyfraith yw ffordd i fywyd, fel y maent yn cadw rhag pechod; ac nid ydynt yn arwain i ffordd heddwch, heb arwain i ffordd dyledswydd; ac nid ydynt yn cadw dyn rhag trallod heb yn gyntaf ei gadw rhag pechod. A hynod mor fanwl y mae Solomon yn nodi y pechod o aflendid, "i'th gadw rhag y fenyw ddrwg," &c. adn 24 yr hon sydd i'w chysylltu âg adn. 22. a chau adn. 23, mewn cromfachau, fel y gwelir

rhai i Biblau. Gall y pethau hyn fod yn ddigon i ddang-
hos [illegible] i naturiol y meddwl at [illegible].
*Pedwerydd.* Mae gwrthwynebrwydd yn meddwl cnawd
at y gwirionedd, ac anmharodrwydd i'w dderbyn [illegible]
n [illegible] gwaddo at ei Duw, mwy [illegible]
Pan y mae gwirioneddau crefydd naturiol [illegible] yn
yn ffordd i feddyliau dynion annuwiol, [illegible] yn cael eu
[illegible] mewn anghyfiawnder," Rhuf. i. 18. Ac am wir-
[illegible] crefydd ddatguddiedig, mae calon ddrwg anghredin-
yn atal eu dyfodiad i mewn; [illegible] y mae arfau nerthol yn
[illegible] i gaethiwo y meddwl i'w cael hwynt, 2 Cor. x.
Mae Duw wedi gwneuthur datguddiad o'i feddwl a'i
[illegible] i bechaduriaid, mewn perthynas i ffordd iechydwriaeth;
[illegible] i ni [illegible] sanctaidd: ond a ydyw dynion wrth natur
[illegible]? Nac ydynt; "Oblegyd yr hwn nid yw yn credu
[illegible] Duw, nid yw yn credu yn Nuw;" fel y mae yn am-
[illegible] 1 Ioan v. 10. Nid ydynt yn credu addewidion
[illegible], [illegible] yn edrych arnynt, mewn effaith, fel geiriau teg
[illegible]; canys [illegible] mae y rhai a'u derbyniant hwynt, yn cael eu
[illegible] trwyddynt yng [illegible] o'r duwiol annuw. 2 Pedr
Mae [illegible] fel rhetfynau arian, yn dyfod o'r nef-
[illegible], i [illegible] pechaduriaid at Dduw, ac i'w troi [illegible] i wir-
addewid; ond y maent hwy yn eu [illegible]. Ni [illegible]
credu bygythion y gair. Fel y mae dynion wrth deithio
y yr anialwch yn cario tân gyda hwynt, i [illegible] bwyst-
[illegible] gwylltion; felly y mae Duw wedi gwneuthur ei dderbydd
*gyfraith danllyd*, (Deut. xxxiii. 2) gan ei chylchynu â
[illegible] digofaint: ond y mae dynion wrth natur yn fwy
[illegible] na'r anifeiliaid; hwy feiddiant gyffwrdd â'r mynydd
[illegible] a thanllyd, pe gwnai hwynt [illegible] â phicell. Nid
[illegible] yn [illegible] na wna llawer, os nad pawb o honoch chwi
[illegible] yn [illegible] tywyll natur, diadieu yna, Dienog: ond
[illegible], yr oedd yr Iuddewon cnawdol yn amser Crist m[illegible]
[illegible] ag ydych chwithau, eu bod yn credu i Moses, Ioan ix.
8. 29. Ond y mae efe yn gwrthbrofi eu hyder, trwy ddywed-
d yn eglur, Ioan v. 46. "Canys pe credasech chwi i Moses,
hwi a gredasech i minnau." Pe credasech chwi wirionedd
Duw, ni allech wrthod, fel yr ydych, yr hwn sydd yn wirion-
edd ei hun. Mae yr anhawsder ydych yn ei brofi i gydsynio
â'r gwirionedd hwn, yn dangos yr anghrediniaeth yr wyf yn
eich cyhuddo o honaw. Ond ydyw hi wedi myned cyn belled y
dyddiau hyn gyda rhai, ag i galedu eu talcenau â'r fath ddi-

gywilydd-dra ac anuwioldeb, fel y maent yn cyhoeddus wadu yr holl wirionedd datguddiedig? Mae'n sicr mai o helaethrwydd y galon y llefara eu genau. Ond er nad ydych chwi yn gosod eich genau yn erbyn y nefoedd, fel y maent hwy, mae yr un gwreiddyn chwerwedd o anghrediniaeth yn mhob dyn wrth natur, ac y mae yn teyrnasu ynoch chwithau, ac a deyrnasa, nes i ras anorchfygol gaethiwo eich meddwl i gredu y gwir. I ddangos i chwi hyn, ystyriwch y tri pheth yma:

1 *Prawf.* Ychydig nifer a fendithiwyd â goleuni tufewnol, trwy waith neillduol Yspryd Crist, fel ag i ganfod gair Duw yn ei ddysgleirdeb gogoneddus a nefolaidd! Pa fodd y dysgasoch chwi wirioneddau crefydd y rhai yr ydych yn cymmeryd arnoch eu credu? Dysgasoch hwynt yn unig trwy gynnorthwy datguddiad allanol, a'ch dygiad i fynu; ac yr ydych yn Gristionogion am eich bod wedi eich geni a'ch magu mewn gwlad gristionogol, ac nid mewn gwlad baganaidd. Yr ydych yn ddieithriaid i waith tufewnol yr Ysbryd Glân, yn dwyn tystiolaeth trwy a chyd a'r gair yn eich calonau; ac felly ni ellwch gael sicrwydd ffydd mewn perthynas i'r datguddiad allanol hwnw a wnaeth Duw yn y gair, 1 Cor. ii. 10, 11, 12. Ac am hyny yr ydych yn parhau yn anghredinwyr. "Y mae yn ysgrifenedig yn y prophwydi, a phawb fyddant wedi eu dysgu gan Dduw. Pob un, gan hyny, a glywodd gan y Tâd ac a ddysgodd, sydd yn dyfod ataf fi," medd ein Harglwydd, Ioan vi. 45. Ni ddaethoch chwi at Grist, ac am hyny ni ddysgwyd chwi gan Dduw; ni ddysgwyd chwi felly, am hyny ni ddaethoch; nid ydych yn credu. Gwelwch y datguddiad o'r hwn y mae hyd yn nod ffydd yn egwyddorion sylfaenol crefydd yn tarddu, Math. xvi. 16, 17. "Ti yw Crist Mab y Duw byw. Gwyn dy fyd di Simon Mab Iona; canys nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Os daw Yspryd yr Arglwydd byth i ymdrin â thi, i weithio ynot y ffydd hon, yr hon sydd o weithrediad Duw, fe allai y treulir cymmaint o amser i chwalu yr hen sylfaen, fel y deui i weled angenrheidrwydd am *weithrediad nerth ei gadernid ef*, i'th nerthu i gredu yr egwyddorion sylfaenol, y rhai yn awr yn dy feddwl di, nid wyt yn eu hammeu, Eph i. 19.

2 *Prawf.* Gynnifer o broffeswyr a wnaethant long ddrylliad am y ffydd, o'r fath ydoedd, yn amser profedigaeth! Gwelwch fel y maent yn syrthio, fel ser o'r nefoedd, pan y mae anghrist yn llwyddo! 2 Thes. ii 11, 12. "Ac am hyny y denfyn Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd: fel y

barner yr holl rai nid oeddynt yn credu i'r gwirionedd."— Maent yn syrthio i amryfusedd damniol, am na chredasant y gwirionedd erioed, er iddynt hwy eu hunain, ac eraill hefyd, feddwl iddynt ei gredu. Mae'r tŷ hwnw wedi ei adeiladu ar y tywod, ac nid oes i'r ffydd hono sail dda, yr hon ni all sefyll ond a lwyr ddadymchwelir pan ddel ystorm.

3 *Prawf.* Ystyriwch yr hollawl anghydmariaeth sydd rhwng y rhan fwyaf o lwybrau dynion, âg egwyddorion y grefydd maent yn ei phroffesu: mae mor hawdd dwyn y Dwyrain a'r Gorllewin at eu gilydd, ag yw dwyn eu hegwyddorion a'u hymarweddiad at eu gilydd. Mae dynion yn credu y llysg y tân hwynt, a chan hyny ni fwriant eu hunain iddo: ond y gwirionedd yw, y mae y rhan fwyaf o ddynion yn byw fel pe baent yn barnu yr efengyl ddim ond ffug-chwedl; a digofaint Duw a ddatguddiwyd yn ei air yn erbyn eu hanghyfiawnder a'u hannuwioldeb ddim ond bwbach. Os ydych yn credu y gair, pa fodd yr ydych mor ddifatter yn nghylch cyflwr eich enaid rhyngoch a Duw? Pa fodd yr ydych mor ddidrafferth gyda'r pwngc mawr hwnw, a ailanwyd chwi ai peidio? Mae llawer yn byw fel y ganwyd hwynt, ac y maent yn debyg o farw fel y maent yn byw, ac eto y maent yn byw mewn heddwch. A ydyw y cyfryw yn credu pechadurusrwydd a thruenusrwydd eu cyflwr? A ydyw y cyfryw yn credu pechadurusrwydd a thruenusrwydd eu natur? A ydynt yn credu nad oes iechydwriaeth heb ailenedigaeth? Ac nad oes ailenedigaeth heb wneuthur dyn yn greadur newydd? Os ydych yn credu addewidion y gair, paham na chofleidiech hwynt, ac ymdrechu am fyned i'r orphwysfa addewedig. Pa ddiogyn na chloddiai am drysor cuddiedig, pe gwir gredai y cai efe ef wrth hyny? Fe weithia ac fe chwysa dynion am eu cynnaliaeth; am eu bod yn credu mai wrth wneuthur felly y cânt ef; etto nid ymdrafferthant yn gymhedrol am dragywyddol bwys gogoniant; pa ham? am nad ydynt yn credu gair yr addewid, Heb. iv. 1, 2. Os ydych yn credu y bygythion, pa fodd yr ydych yn byw yn eich pechodau, byw heb Grist, ac etto, yn gobeithio am drugaredd? A ydyw y cyfryw yn credu am Dduw ei fod yn sanctaidd a chyfiawn, yr hwn *ni chyfrif yr anwir yn gyfiawn?* O nac ydynt; nid oes neb, (braidd neb,) yn credu un mor gyfiawn ydyw Duw, ac mor lym y mae yn cospi.

*Yn bummed.* Mae yn meddwl dyn wrth natur dueddiad at anwiredd a thwyll, yr hyn sy'n gwneuthur er diogelwch ei chwantau. "O'r bru y cyfeiliornasant gan ddywedyd celwydd," Psal. lviii. 3. Cawsom hyn gyda llygredigaethau

eraill ein natur, oddiwrth ein rhieni cyntaf. Datguddiodd Duw y gwir iddynt; ond trwy hudoliaeth y temtiwr, yn gyntaf amheuasant ef; yna hwy a'i anghredasant, ac a gofleidiasant gelwydd yn ei le ef. Ac er prawf diamheuol o hyn, gallwn weled pwngc cyntaf credo y diafol "ni byddwch feirw ddim," Gen. iii. 4. yr hwn a wthiodd efe i'n rhieni cyntaf, ac a dderbyniwyd ganddynt; ac sydd yn cael ei gofleidio yn naturiol gan eu hiliogaeth, y rhai sydd yn dal gafael ynddo nes delo goleuni o'r nef i beri iddynt ei adael. Mae yn ymdaenu trwy fywydau dynion wrth natur; y rhai nes deffroir eu cydwybodau, sy'n rhodio yn ol eu chwantau; ac yn parhau yn yr un egwyddor, "na byddant feirw ddim." Ac y mae hwn yn cynnyddu i'r fath raddau, nes y gall y dyn ddywedyd yn wyneb cyhoeddiad o'r felldith, heddwch fydd i mi er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon, i chwanegu meddwdod at syched, Deut xxix. 19. Pa oruchafiaeth bynag y mae gwirioneddau Duw yn ei gael ar gyfeiliornadau trwy ddygiad i fynu, neu ryw ffordd arall; mae gan gyfeiliornad bob amser y fantais hon yn erbyn y gwir, gyda'r dyn anianol, sef fod rhyw beth oddi fewn iddo yn dywedyd, O na bai yn wir! fel y mae'r meddwl yn barod i gydsynied ag ef. A dyma yr achos. Y wir athrawiaeth yw, "yr Athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, 1 Tim. vi. 3, a'r gwirionedd sydd yn ol duwioldeb," Tit. i. 1, Cyfeiliornad yw'r athrawiaeth sydd yn ol annuwioldeb; canys nid oes yr un cyfeiliornad yn y meddwl, nac un anwiredd yn dyfod i'r byd, (mewn perthynas i grefydd) heb fod ganddo berthynas â rhyw chwant neu gilydd yn nghalon dyn; fel y dywaid yr Apostol, "Nid oeddynt yn credu i'r gwirionedd: ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawnder," 2 Thes. ii. 12. Os byddai i wirionedd a chyfeiliornad, gael y cyffelyb fantais am dderbyniad, cai cyfeiliornad lawer mwy o gymmeradwyaeth gan y dyn anianol na'r gwirionedd. Gan hyny nid rhyfedd fod dynion yn gwrthod gwirioneddau syml yr efengyl a'i hordeinhadau, ac yn rheibus gofleidio cyfeiliornad a gwychder allanol mewn crefydd; wrth weled eu bod yn toddhaol i chwantau y galon, a gwagder meddwl y dyn anianol. Ac oddiwrth hyn y mae, fod cynnifer yn cofleidio egwyddorion didduw: canys nid oes neb yn ei wneuthur, ond mewn cydsyniad â'u nwydau afreolaidd; neb ond y rhai hyny, y byddai yn well ganddynt pe na bai un Duw.

*Yn olaf.* Mae pob dyn wrth natur yn uchelfryd: canys pan ddelo yr efengyl yn ei gallu ato, ei gwaith fydd, "Bwrw

dychymmygion i lawr, a phob uchder ag sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw," 2 Cor. x. 5, Llysieuyn yw ysbryd gostyngedig na thyf yn maes natur; ond sy'n cael ei blannu a bys Duw yn y galon adnewyddol, ac yn cael ei ddysgu gan yr addfwyn Iesu. Mae'n naturiol i ddyn feddwl yn fawr am dano ei hun, a'r hyn a fedd efe; oblegyd y mae'r dyrnod a gafodd trwy ei gwymp yn Adda, wedi dwyn iddo flug-oleuni nes y mae yn gweled tommenydd y wadd o'i ddeutu fel myrydd-oedd; a miloedd o bethau gwag dymunol yn ymddangos i'w dybiau tywyllodrus. "Dyn gwag er hyny a gymmer arno fod yn ddoeth," (felly y mae yn ei gyfrif ei hun, ac felly y dewisai fod yn nghyfrif eraill) "er geni dyn fel llwdn asyn gwyllt," Job xi. 12, Mae ei ffordd yn uniawn, oblegyd mai ei ffordd ei hun ydyw: "pob ffordd gwr sydd uniawn yn ei olwg ei hun," Diar xxi. 2. Mae ei gyflwr yn dda, am na wyr efe am yr un gwell; *mae yn fyw heb y gyfraith*, Rhuf. vii.9.ac felly y mae ei obaith yn gadarn, a'i hyder yn gryf. Ail dŵr Babel yw, wedi ei godi yn erbyn y nefoedd; ac ni syrth tra y gallo y tywyllwch ei ddal i fynu Mae y gair yn curo arno eto y mae yn sefyll; wedi gwneuthur un rhwyg ynddo,fe'i hadgyweirir yn fuan; brydiau eraill, fe'i hysgydwir drwyddo, ond er y cwbl y mae yn sefyll i fynu; nes naill i Dduw trwy ei Ysbryd ddyfod, a chodi daear-gryn yn y galon, yr hyn a'i bwrw i lawr, ac nid yw yn gadael careg ar gareg, (2 Cor. x. 4, 5,) neu i angeu ei guro i lawr, a dynoethi ei sylfaen, Luc. xvi. 23. Ac fel y mae dyn anianol yn meddwl yn fawr am dano ei hun, felly y mae yn meddwl yn wael am Dduw, beth bynag a gymmer efe arno: "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun." Mae athrawiaeth yr efengyl, a dirgelwch Crist, yn ffolineb ganddo; ac yn ei ymarferiad, mae yn ymdrin â hwy fel y cyfryw, 1 Cor. i. 18, a ii 14. Mae yn dwyn gair a gwaith Duw, yn ei lywodraeth ar y byd, ger bron brawdle ei reswm anianol; ac yno, yn rhyfygus, fe'u bernir ac fe'u condemnir, Hôs.xiv. 9. Weithiau fe gymmerir ymaith attalfa cyffredin rhagluniaeth, ac fe oddefir i Satan gyffroi y meddwl anianol; ac yna y mae fel nyth y morgrug, yn cael ei ddynoethi a'i aflonyddu; fe gyfyd ynddo lu o amheuon, gwrthddywediadau, a rhesymau uffernol, y rhai ni ellir eu gorchfygu er yr holl resymau a ddygir i'w herbyn, nes y delo gallu Duw i gaethiwo y meddwl, a llonyddu terfysg yr egwyddorion cyfeiliornus. Dichon yr hyn a ddywedwyd am lygriad y deall, er na ddywedwyd yr hanner, ddangos i chwi yr anghenrheidrwydd anhepgorol am ailenedigaeth.

all yn awr *Ichabod; y gogoniant a ymadawodd o* eraill. Ystyriwch hyn y rhai ydych yn eich cyflwr natur, a chywelltwch eich achos ger bron yr Arglwydd, fel y byddo i haul cyfiawnder godi arnoch, cyn i chwi gael eich cau mewn tywyllwch tragywyddol. Beth a dâl eich doethineb daearol? Beth a dâl eich doniau mewn crefydd, tra mae eich deall yn aros tan ei orchudd a'i annhrefn anianol, yn hollol ymddifad o oleuni y bywyd? Beth bynag fyddo doniau a chyrhaeddiadau dyn anianol, rhaid i ni (fel yn achos y gwahanglwyfus gynt) ei gyhoeddi yn llwyr aflan, "yn ei ben y mae ei bla." Lef. xiii. 44, ond nid yno y mae y cwbl; mae yn ei galon hefyd, mae ei ewyllys wedi ei lygru, fel y dangosaf yn fuan.

## *Am Lygredigaeth yr Ewyllys.*

II. Yr ewyllys, y gynneddf awdurdodol hono, yr hon a fu yn ffyddlon, ac yn llywodraethu gyda Duw, sy'n awr wedi troi yn fradwr, ac yn llywodraethu gyda a chan y diafol. Fe'i plannodd Duw hi mewn dyn, "o'r iawn had oll." ond yn awr y mae wedi "troi yn blanhigyn afrywiog, gwinwydden ddieithr," Jer. ii. 21. Yr oedd ar y cyntaf wedi ei osod mewn israddoliaeth addas i ewyllys Duw, fel y soniwyd o'r blaen; ond yn awr y mae'n hollol i'r gwrthwyneb. Ond mae rhai yn mawrhau gallu ewyllys rhydd; Golwg ar ysprydolrwydd y ddeddf, i'r hon nid yw gweithredoedd moesawl dyn mewn un modd yn atteb, ac iawn olwg ar lwgr natur, trwy waith yr Ysbryd Glan, yn argyhoeddi o bechod, o gyfiawnder, ac o farn, a wna i ddynion weled yr angenrheidrwydd anhepgorol am allu rhad ras, i symud rhwymau anwiredd oddiar eu hewyllys rhydd. Er mwyn dangos y pla hwn yn y galon, ystyrier y pethau canlynol:

*Yn gyntaf.* Mae yn yr ewyllys diadgenedledig hollawl analluogrwydd i'r hyn sydd wir dda a chymmeradwy ger bron Duw. Mae ewyllys dyn wrth natur yn rhwymau Satan: mae efe wedi ei gau o fewn cylch drygioni, ac ni all ddyfod allan o honaw, mwy nag y gall dyn marw godi o'i fedd, Eph. ii. 1. Nid ydym yn gwadu nad oes ganddo allu i ddewis, dilyn a gweithredu, ar yr hyn sydd dda: ond er y gall ewyllysio yr hyn sydd o ran ei ddefnydd yn dda, ac uniawn, ni all efe ewyllysio dim yn dda ac uniawn, Ioan xv. 5, *Hebof fi,* h. y. ar waban oddiwrthyf fi, fel cangen oddiwrth y pren (fel y mae yr adn. a'r bennod yn dangos) *ni ellwch chwi wneuthur dim;*

sef dim gwir ac ysprydol dda. Mae byd yn nod ei ddewisiad a'i ddymuniad am bethau ysprydol, yn gnawdol a hunanol; Ioan vi. 26, "Yr ydych chwi yn fy ngheisio i —— o herwydd i chwi fwyta o'r torthau a'ch digoni." Nid yn unig y mae'n peidio dyfod at Grist, ond ni all efe ddyfod, Ioan vi. 44. A pha beth a all un wneuthur yn gymmeradwy ger bron Duw, yr hwn nid yw yn credu yn yr hwn a anfonodd y Tad? Er profi anallu y dyn diadgenedledig i'r hyn sy dda, ystyriwch y ddau beth canlynol:

1. *Prawf.* Mynych y mae goleuni yn llewyrchu o flaen llygaid dynion, fel na allant lai na gweled y daioni a ddylent ddewis, a'r drwg a ddylent wrthod; ac eto nid oes gan eu calonau fwy o allu i gydsynio â'r goleuni hwnw, mwy na phe baent yn cael eu hattal â llaw anweledig. Maent yn gweled yr hyn sy dda, eto y maent yn dilyn, ac ni allant lai na dilyn yr hyn sydd ddrwg. Mae eu cydwybod yn dangos iddynt yr iawn ffordd, ac yn ei chymmeradwyo hefyd: eto ni all eu hewyllys gydsynio; mae eu llygredd yn eu caethiwo fel na allant ei goffeidio; felly y maent yn ocheneidio ac yn myned yn ol ar draws y goleuni. Ac os nid fel hyn y mae, pa fodd y mae y gair a ffordd y bywyd yn cael y fath groesawiad gwael yn y byd? Pa fodd y mae rhesymau amlwg o blaid duwioldeb, a bywyd crefyddol, y rhai sy'n sefyll arnynt eu hunain, hyd yn nod yn meddwl yr annuwiol, heb ddwyn dynion i fyw yn dduwiol? Pe byddai ambeuaeth a oes nefoedd ac uffern yn bod; fe fyddai digon o reswm i annog yr ewyllys i ddewis duwioldeb, pe byddai rheswm yn ddigonol i droi yr ewyllys at dduwioldeb. Ond dynion, "yn gwybod cyfiawnder Duw (fod y rhai sy'n gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth) ydynt nid yn unig yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn cydymfoddloni â'r rhai sy yn eu gwneuthur hwynt." Rhuf i. 32. A pha fodd y mae y rhai sy'n dal gallu ewyllys rhydd, heb gadarnhau a phrofi eu barn yn amlwg o flaen y byd, mewn ymarweddiad, cyn belled uwchlaw eraill mewn duwioldeb, fel y mae eu barn am eu gallu naturiol uwchlaw eraill? Neu a ydyw dynion yn dal hyn yn unig er mwyn amddiffyn chwantau, y rhai a allant eu cadw hyd y mynont, a phan fyddont wedi blino arnynt, a fedrant eu bwrw ymaith mewn munud, a neidio oddi ar lin Dalilah i fynwes Abraham? Pa ddefnydd bynag y mae dynion yn wneuthur o'r farn hon, y mae hi yn ei natur ei hun yn gysgod llydan er amddiffyniad i ddrygioni calon a buchedd. A gellir sylwi, fod y cyffredinolrwydd o wrandawyr yr efengyl o bob

plaid, yn llawn o'r pla hwn: canys *gwreiddyn chwerwedd* ydyw, naturiol i bob dyn; o'r hwn y tardd y fath ddifaterwch am gyflwr tragywyddol yr enaid. Gymmaint o oedi ac esgeuluso y mater pwysfawr hwn sydd, trwy yr hyn y pentyrir cymmaint o waith erbyn gwely angeu. Dinystrir eraill trwy bwyso ar eu rhodiad dichlynaidd, yn hollol anadnabyddus o fywyd ffydd, a defnyddio Crist yn sancteiddrwydd, y cwbl yn tarddu oddiar ymddiried yn nigonolrwydd eu gallu naturiol. Mae yn cytuno yn hynod â natur lygredig.

2 *Prawf.* Bydded i'r rhai hyny, y rhai trwy yspryd caethiwed, a welsant y ddeddf yn ei hysprydolrwydd, er eu hargyhoeddi, ddywedyd os ydynt yn gweled eu hunain yn abl i dueddu eu calonau i'w chadw; ie pa mwyaf y llewyrcho y goleuni hwnw i'w heneidiau, mwyaf a welant o'u hannigonolrwydd i gydymagweddu â hi. Mae rhai "wedi eu dwyn i'r esgoreddfa," y rhai sydd eto y'ngwersyll y diafol, oddiar brofiad a allant ddywedyd, na ddichon goleuni yn y meddwl roi bywyd i'r ewyllys, i'w nerthu i gydymagweddu â'r ddeddf; ac a allant roi eu tystiolaeth yma, pe dewisant. Ond cymmerwch dystiolaeth Paul ar y matter, yr hwn yn ei gyflwr annychweledig, oedd y'mhell oddiwrth gredu ei anallu i wneuthur daioni; ond fe ddysgodd hyny trwy brofiad, Rhuf. vii. 8, 9, 10, 11, 12. Rwy'n addef y gall fod gan ddyn wrth natur ryw fath o gariad at y ddeddf: ond yn hyn y mae grym y matter yn gorphwys, mae efe yn edrych ar y ddeddf sanctaidd mewn gwisg gnawdol; ac felly, tra y mae efe yn cofleidio creadur o'i ddychymmyg ei hun, mae yn meddwl fod y ddeddf ganddo; ond mewn gwirionedd y mae efe heb y ddeddf, oblegyd ni welodd efe hi eto yn ei hysprydolrwydd; pe gwelai hi, fe ganfyddai ei bod yn hollol groes i'w natur, ac yn gyfryw na all ei ewyllys gydymagweddu â hi, cyn ei gyfnewid trwy ras.

*Yn ail.* Mae yn yr ewyllys anianol wrthwynebiad i ddaioni. Pechod yw elfen dyn wrth natur; mae mor anhawdd ganddo ymadael âg ef, a chan y pysgod ddyfod o'r dwfr i dir sych. Nid yn unig ni *all* efe ddyfod at Grist, ond ni *fyn* efe ddyfod, Ioan v. 40. Y mae yn aflan, ac yn casau cael ei olchi, Ier. xiii. 27. Oni fyni dy lanhau?—pa bryd bellach? Mae yn afiach, ond yn hollol wrthwynebol i'r feddyginiaeth: mae yn caru ei glefyd gymmaint, fel y mae yn ffieiddio y meddyg. Mae efe yn gaeth, yn garcharor, ac yn gaethwas; ond y mae yn caru ei orchfygwr, ei garcharwr a'i feistr, mae yn hoff o'i rwymau, ei garchar, a'i fudrwaith; nid yw yn dewis bod yn

rhydd. I brofi gwrthwynebrwydd ewyllys dyn i'r hyn sydd dda, sulwaf ar y pethau canlynol.

1 *Prawf.* Yr ystyfnigrwydd sydd mewn plant. Onid yw plant o naturiaeth yn caru rhyddid pechadurus? Mor anewyllysgar ydynt i gymmeryd eu rheoli. Mor wrthwynebol ganddynt gael eu hattal. Gall y byd dystio, eu bod fel ychain heb eu cynnefino â'r iau: a mwy, mae yn llawer hawddach dwyn ychain ieuaingc i gynnefino â'r iau, na dwyn plant ieuaingc dan ddysgyblaeth, a gwneuthur iddynt ymostwng, yn llonydd i'w hattal oddiwrth ryddid pechadurus. Gall pawb weled yn hyn, fel mewn drych, fod dyn wrth natur yn wyllt, ac ystyfnig, yn ol yr hyn a ddywaid Sophar (Iob xi. 12) "fod dyn wedi ei eni fel llwdn asyn gwyllt." Beth mwy a ellir ei ddywedyd? Mae efe fel llwdn, llwdn asyn, llwdn asyn gwyllt. Cymharwch Ier. ii. 24, "Asen wyllt wedi ei chynnefino â'r anialwch, wrth ddymuniad ei chalon yn yfed gwynt, wrth ei hachlysyr pwy a'i try ymaith?"

2 *Prawf.* Mor anhawdd yw i ddynion ddwyn eu calonau at ddyledswyddau crefyddol! Ac mor anhawdd yw i'r galon gnawdol aros ynddynt. Mae yn boen iddi adael y byd am ychydig, i gymdeithasu â Duw. Nid hawdd benthyca amser oddiar y llawer o bethau i ofalu am yr un peth angenrheidiol. Mae dynion yn aml yn gwasanaethu Duw, a'u wynebau ar y byd; a phan fyddo eu cyrph ar fynydd ordeinhadau, mae eu calon wrth droed y mynydd, "yn myned ar ol eu cybydd-dod," Esek. xxxiii. 31. Maent yn blino yn fuan wrth wneuthur daioni; oblegyd nid yw gwasanaeth sanctaidd yn unol â'u natur lygredig. Sulwch arnynt gyd a'u masnach bydol, gosodwch hwynt i eistedd gyd a'u cyfeillion cnawdol, neu rhowch hwynt i sugno bronau eu chwantau; mae amser yn myned heibio yn rhy fuan, ac yn darfod heb yn wybod iddynt. Ond mor anniben y mae yn myned heibio tra parhao gweddi, pregeth, neu'r dydd Sabboth! Dydd yr Arglwydd yw'r hwyaf yn yr wythnos gan lawer; a chan hyny rhaid iddynt gysgu yn hwy y bore hwnw, a myned yn gynt i'w gwelyau y nos hono, nag y byddant arferol; er mwyn gwneuthur y dydd o hyd cymhedrol; canys y mae eu calonau o'u mewn yn dywedyd, "Pa bryd yr â y Sabboth heibio?" Amos viii. 5. Oriau 'r addoliad yw'r oriau hwyaf o'r dydd hwnw; a phan elo y ddyledswydd drosodd maent fel dynion wedi tynu y baich oddiarnynt; a phan dderfydd y bregeth, mae llawer mor ddiras a difoesau fel nad allant aros diweddu yr addoliad, ond fel yr anifeiliaid

mys y mae ei fod yn grwn yn ei addasu i symud, fe wrth ei gyffwrdd. Felly hefyd, mae'n hawdd fyned ar ol pechod, pryd y mae yn swrth a marw ioldeb. Rhaid cyfrif yr achos o hyn i ogwyddiad y galon at ddrwg. Pe byddai ewyllys dyn wrth bwys at dda a drwg, gellid cofleidio y naill mor ll; ond y mae profiad yn tystio mai nid felly mae. sraeliaid, yn enwedig yn llyfr y Barnwyr, mor m yn eu cael yn gadael yr Arglwydd, y goru- ac yn myned ar ol eilunod y Cenedloedd o'u ond a ddarfu i'r cenedloedd hyn erioed ddyfod i ael, a gadael eu heilunod eu hunain? Na ddo, d dyn yn naturiol i gyfnewidiadau, eto o ddrwg ddrwg i dda, Ier. ii. 10, 11, "A newidiodd un wiau, a hwy heb fod yn dduwiau? Eithr fy idiodd eu gogoniant am yr hyn ni wna lesâd." l yw ewyllys dyn yn sefyll yn gydbwys, ond mae ad o chwith.

Ystyriwch fel y mae dynion yn myned yn mlaen od, nes eu hattal, a hyny trwy law Duw, Esay mguddiais, a digiais, ac efe a aeth rhagddo yn d ffordd ei galon." Os tyn Duw ei law attaliol, wyn ar wàr yr annuwiol, nid yw mewn amheu- d i ddewis; canys (sulwch) ffordd pechod yw n; mae ei galon yn naturiol yn tueddu at hyny; gwyddiad naturiol at bechod. Cyhyd ag y goddefo , rhodiant yn eu ffyrdd eu hunain, Act. xiv. 16. th natur wedi ei sefydlu yn ei ddewisiad gresynol, nad o angenrheidrwydd am ychwaneg i ddangos nad yw ar ffordd Duw, na dweyd ei fod ar ei ffordd ei hun.

4 *Prawf.* Pa argraffiadau daionus bynag a wneir arno, nid ydynt yn parhau. Er fod ei galon mor galed a'r garreg, ïe yn galetach na'r maen isaf i'r felin, o ran eu derbyn hwynt; mae o'r ochr arall mor ansafadwy a dwfr, ac ni all eu cadw. Mae yn ymdrechu rhag eu derbyn; a phan wnelont ychydig argraff arno, fe'u gweithia hwynt i ffordd, ac a dry i'w hen lwybrau, Hosea. vi. 4, "Eich mwynder sydd yn ymado fel cwmmwl y bore, ac fel gwlith boreol." Mae cwmmwl y bore yn addaw cawod fawr; ond pan godo yr haul y mae'n diflanu; mae'r haul yn codi yn ei wres ar y gwlith boreol, ac mae'n cilio; felly y mae dysgwyliad y llafurwr yn cael ei siomi. Y cyfryw yw daioni dyn wrth natur. Mae cystudd trwm, neu

1 *Prawf.* Ai nid ar hyd ffordd anwir y troedia meibion dynion gyntaf? Onid yw eu tueddiadau i'w gweled yn eglur ar yr ochr gyfeiliornus, tra nad ydynt eto yn ddigon cyfrwys i'w cuddio hwynt? Pan agorom gyntaf ein llygaid yn y byd, yr ydym megis yn llygad-traws, a'n golwg tu ag uffern ac nid tu a'r nefoedd. Cyn gynted ag yr ymddengys ein bod yn greaduriaid rhesymol, fe ymddengys ein bod yn greaduriaid pechadurus, Ps. lviii. 3, "O'r groth yr ymddieithrodd y rhai annuwiol; o'r bru y cyfeiliornasant, gan ddywedyd celwydd," Diar. xxii. 15. Ffolineb sydd yn rhwym yn nghalon plentyn: ond gwialen cerydd a'i gyr yn mhell oddiwrtho. Mae ffolineb yn rhwym yn y galon, y mae wedi ei gyd-wau yn ein natur. Ni ddetyd y cwlwm, rhaid ei dori yn ddarnau trwy ddyrnodau cerydd. Ni thycia geiriau, rhaid arfer y wialen i'w yru ymaith: ac os na yrir ef *y'mhell,* cyferfydd y galon ac yntau gwedi, a chylymant yn nghyd drachefn. Nid all y wialen o honi ei hun wneyd hyn: mae profiad galarus llawer o rieni yn profi i'r gwrthwyneb, ac y mae Solomon ei hun yn dywedyd, Diar. xxvii. 22, "Er i ti bwyo y ffol mewn mortar, â phestl yn mhlith gwenith; eto nid ymedy ei ffolineb âg ef;" y mae mor rwym yn ei galon ef. Ond y mae gwialen o ordinhad Duw, wedi ei threfnu i'r dyben; yr hon fel y gair, sy'n cael ei gwneyd yn effeithiol, trwy fod yr Yspryd yn bendithio ei ordinhadau ei hun. Ac y mae hyn yn dangos, y dylai rhieni wrth geryddu eu plant, yn gyntaf peth, geryddu eu nwydau drwg eu hunain, ac edrych arno fel achos tra phwysig a syml, luniaeth hefyd: yna gallant fyned i'r fân Arglwydd, a gweddeistedd yn dawel; nid yw geiriau 'r nef yn ur, effeithiol. ach na'u clustiau, Hos. iv. 17. "Ephraim a ym ed o'r iawn âg eilunod, gâd iddo." oni, ydynt

4 *Prawf.* Ystyriwn y gwrthwynebrwydd a wnaed ga edu aretholedigion, pan mae yr Ysbryd Glan ar waith i'w dwyn leb, a feddiant satan at Dduw." Nid yw Brenin Seion yn cael deiliojaid ond trwy rym y cleddyf, *yn nydd ei nerth,* Psal. cx. 2, 3. Nid oes neb yn dyfod ato ef, ond sy'n cael eu tynu gan law Duw, Ioan vi. 44. Pan mae'r Arglwydd yn dyfod at yr enaid, mae'r cryf arfog yn cadw ei neuadd, a phob peth ganddo mewn heddwch a diogelwch, a'r enaid yn cysgu yn mreichiau'r diafol. "Ond dygir y caffaeliad oddiar y cadarn, ac anrhaith y creulon a ddiangc." Am hyny mae'r Arglwydd yn deffroi y pechadur, yn agor ei lygaid, ac yn ei daro â dychryn, tra *mae'r cymmylau* yn dduon uwch ei ben ef, a chleddyf cyf-

bwysau; canys y mae ei fod yn grwn yn ei addasu i symud, fel y rhed efe wrth ei gyffwrdd. Felly hefyd, mae'n hawdd gan y galon fyned ar ol pechod, pryd y mae yn swrth a marw ar ffordd duwioldeb. Rhaid cyfrif yr achos o hyn i ogwyddiad a thueddiad y galon at ddrwg. Pe byddai ewyllys dyn wrth natur yn gydbwys at dda a drwg, gellid cofleidio y naill mor hawdd a'r llall; ond y mae profiad yn tystio mai nid felly mae. Yn hanes yr Israeliaid, yn enwedig yn llyfr y Barnwyr, mor fynych yr ydym yn eu cael yn gadael yr Arglwydd, y goruchaf Dduw, ac yn myned ar ol eilunod y Cenedloedd o'u hamgylch! ond a ddarfu i'r cenedloedd hyn erioed ddyfod i garu Duw Israel, a gadael eu heilunod eu hunain? Na ddo, na ddo; er fod dyn yn naturiol i gyfnewidiadau, eto o ddrwg i ddrwg, nid o ddrwg i dda, Jer. ii. 10, 11, "A newidiodd un genedl eu duwiau, a hwy heb fod yn dduwiau? Eithr fy mhobl i a newidiodd eu gogoniant am yr hyn ni wna lesâd." Mae'n sicr nad yw ewyllys dyn yn sefyll yn gydbwys, ond mae ganddo dueddiad o chwith.

3 *Prawf.* Ystyriwch fel y mae dynion yn myned yn mlaen yn ffordd pechod, nes eu hattal, a hyny trwy law Duw, Esay lvii. 17, "Ymguddiais, a digiais, ac efe a aeth rhagddo yn gildynus ar hyd ffordd ei galon." Os tyn Duw ei law attaliol, a gadael y ffrwyn ar wàr yr annuwiol, nid yw mewn ambeuaeth pa ffordd i ddewis; canys (sulwch) ffordd pechod yw ffordd ei galon; mae ei galon yn naturiol yn tueddu at hyny; mae ynddo ogwyddiad naturiol at bechod. Cyhyd ag y goddefo Duw hwynt, rhodiant yn eu ffyrdd eu hunain, Act. xiv. 16. Mae dyn wrth natur wedi ei sefydlu yn ei ddewisiad gresynol, fel nad oes angenrheidrwydd am ychwaneg i ddangos nad yw efe ar ffordd Duw, na dweyd ei fod ar ei ffordd ei hun.

4 *Prawf.* Pa argraffiadau daionus bynag a wneir arno, nid ydynt yn parhau. Er fod ei galon mor galed a'r garreg, ïe yn galetach na'r maen isaf i'r felin, o ran eu derbyn hwynt; mae o'r ochr arall mor ansafadwy a dwfr, ac ni all eu cadw. Mae yn ymdrechu rhag eu derbyn; a phan wnelont ychydig argraff arno, fe'u gweithia hwynt i ffordd, ac a dry i'w hen lwybrau, Hosea. vi. 4, "Eich mwynder sydd yn ymado fel cwmmwl y bore, ac fel gwlith boreol." Mae cwmmwl y bore yn addaw cawod fawr; ond pan godo yr haul y mae'n diflanu; mae'r haul yn codi yn ei wres ar y gwlith boreol, ac mae'n cilio; felly y mae dysgwyliad y llafurwr yn cael ei siomi. Y cyfryw yw daioni dyn wrth natur. Mae cystudd trwm, neu

F

argyhoeddiad llym, yn gwneuthur iddo, mewn rhyw ystyr, droi oddiwrth ei fai; ond am fod ei ewyllys heb ei gyfnewid, mae crefydd yn erbyn y graen ganddo, am hyny y mae y pethau hyn yn gwisgo ymaith, Ps. lxxviii. 34, 36, 37. Er y gall carreg wrth ei thaflu i fynu, aros yno dros ychydig amser; eto mae ei phwysa yn gwneuthur iddi ddychwelyd i'r ddaear eilwaith; ac felly y mae dynion wrth natur yn dychwelyd i'w hen dreiglfa yn y dom; er iddynt gael eu golchi, eto ni chyfnewidiwyd eu natur fochynaidd. Mae yn anhawdd gwneuthur i goed gwlybion gymmeryd tân, ac yn anhawdd peri iddynt gadw tân; ond llawer anhawddach nag un o'r ddau yw gwneuthur i ewyllys dyn annuwiol ddal gafael mewn daioni; yr hyn sy'n brawf amlwg o dueddiad yr ewyllys at ddrwg.

*Prawf olaf.* A ydyw y saint yn gwasanaethu yr Arglwydd yn awr, fel ag yr oeddynt yn gwasanaethu pechod yn eu cyflwr annychweledig? Nac ydynt, Rhuf. vi. 20, "Canys pan oeddych yn weision pechod, rhyddion oeddych oddiwrth gyfiawnder." Yr oedd pechod yn cael y cwbl yn ddi ran; ond yn awr, pan ydynt yn weision Crist, a ydynt hwy yn rhydd oddiwrth bechod? Na, y mae gweithredoedd yr hen ddyn yn eu dilyn, yn dangos nad yw efe ond yn marwhau ynddynt. Oddiyma y mae eu calon yn fynych yn eu siomi ac yn llithro at ddrwg, pan ewyllysiont wneuthur da, Rhuf. vii. 21. Mae arnynt eisieu gwibio, a chadw eu calonau yn dra diesgeulus; ac y mae eu profiadau galarus yn eu dysgu hwynt, mai y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun sydd ffol, Diar xxviii. 26. Os fel hyn y mae yn y pren îr, pa fodd y mae yn y crin?

*Yn bedwerydd,* Mae gwrthwynebrwydd a gelyniaeth naturiol yn ewyllys dyn tu ag at Dduw ei hun, a'i ewyllys sanctaidd, Rhuf. viii. 7, "Oblegyd syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; oblegyd nis gall chwaith." Bu yr ewyllys unwaith yn rhaglaw Duw yn yr enaid, wedi ei osod yno i orchymyn drosto ef; ond yn awr y mae wedi codi yn ei erbyn ef Os mynwn weled ei lun yn ei gyflwr natur, mae ei fod yn hollawl groes i ewyllys Duw yn dangos hyny. Pe byddai y ffrwyth o flaen llygaid y dyn yn unig ond *gwaharddedig,* byddai hyny yn ddigon i ddenu y galon ato. Profaf hyn oddiwrth y pechod o dyngu a rhegu, yr hwn y mae llawer yn ymffrostio o hono, yn bytheirio llwon a chableddau dychrynllyd, fel pe bai uffern yn agoryd, pan agorant eu safnau, neu yn cymmysgu eu hym-

adroddion a mân lwon parhaus; a hyn oll heb neb yn eu cyffroi: er na fyddai hyny yn un esgus iddynt. Dywedwch i mi yn (1af) Pa ennill sydd yn hyn? Mae y lleidr yn cael rhyw beth am ei boen; mae y meddwyn yn cael bol llawn; ond beth ydych chwi yn ei gael? Mae eraill yn gwasanaethu y diafol am dâl; ond yr ydych chwi yn filwyr gwirfoddol, heb ddysgwyl un wobr, ond eich gwaith yn gwrthwynebu y nefoedd. Ac oni edifarhewch, cewch eich tâl hyd yr eithaf; pan ewch i uffern eich gwaith a'ch dilyn. Ni chaiff y meddwyn ddafn o ddwfr oer i oeri ei dafod yno. Ac ni ddilyna cyfoeth y cybydd ef i'r byd arall; ond byddwch chwi yn dilyn eich hen grefft yno. A bydd tragywyddoldeb yn ddigon maith i roi lloned eich calon o honaw. (2) Pa bleser sydd yma, ond sy'n tarddu oddiar eich gwaith yn sathru y gyfraith sanctaidd? Pa un o'ch synwyrau mae tyngu a rhegu yn ei foddio? Os yw yn boddio eich clustiau, ni all wneuthur ond yn unig trwy y trwst a wna efe yn erbyn y nefoedd. Er eich bod yn awyddus i ymroddi i bob aflendid a chnawdolrwydd, mae cyn lleied o bleser yn y pechodau hyn, fel y mae'n rhaid penderfynu eich bod yn eu caru er eu mwyn eu hunain; och! gariad dieflig dibudoliaeth, heb olwg am un budd na phleser i gael oddiwrthynt. Os dywaid neb, dynion angenfilaidd yw y rhai hyn: bydded felly; eto, er galar! mae'r byd yn llawn o'r cyfryw angenfilod; maent i'w gweled braidd ymhob mân. A goddefwch i mi ddywedyd; rhaid eu cyfrif fel genau yr holl fyd diadgenedlig yn erbyn y nefoedd, Rhuf. iii. 14, "A'u genau yn llawn melldith a chwerwedd." adn. 19, "Ni a wyddom hefyd, am ba bethau bynag y mae y ddeddf yn ei ddywedyd, mai wrth y rhai sydd dan y ddeddf y mae hi yn ei ddywedyd: fel y caeer pob genau, ac y byddo yr holl fyd dan farn Duw." Y mae genyf beth yn erbyn pob dyn a dynes annuwiol, hen ac ieuangc, yr hwn a gadarnheir trwy dystiolaethau gair y gwirionedd, a thystiolaethau eu cydwybodau eu hunain; sef, pa un bynag ai proffesedig ai dihroffes fyddont, pa beth bynag fyddont, os byddant heb eu haileni, y maent yn elynion calon i Dduw, i Fab Duw, i'r Yspryd Glan, ac i ddeddf Duw.— Clywch hyn O eneidiau esgeulus, sy'n byw yn dawel yn eu cyflwr natur.

1af. Yr ydych yn elynion i Dduw *mewn meddwl,* Col. i. 21. Yr ydych eto heb eich cymmodi âg ef, y mae y gelyniaeth naturiol eto heb ei ladd, er fe allai, ei fod yn guddiedig, ac nad ydych chwi yn ei weled. (1) Yr ydych yn elynion i

banfod Duw, Ps. xiv. 1, "Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon, nid oes un Duw." Ni fynai y dyn balch, fod neb uwchlaw ei hun; ac ni fynai y gwrthryfelwr fod yr un brenin; a'r dyn diadgenedledig yr hwn sy'n llawn o falchder a gwrthryfel, a ddymunai na byddai Duw mewn bod. Mae yn dywedyd hyny yn ei galon, mae yn dymuno ei bod felly, er fe allai fod arno gywilydd ac ofn dywedyd hyny mewn geiriau. A bod holl ddynolryw wrth natur yn gyfryw ynfydion sydd amlwg oddiwrth fod yr Apostol yn codi gair o'r Psalm hon, "Fel y cauer pob genau," Rhuf. iii. 10, 11, 12, 19. Rwyf yn addef, tra mae'r annuwiol yn edrych ar Dduw fel Creawdwr a Chynnaliwr y byd, o herwydd ei fod yn ei garu ei hun, am hyny nid yw ei galon yn gwrthryfela yn erbyn Duw fel ei Gynnalydd haelionus: ond ymddengys y gelyniaeth hwn yn fuan, pan edrycho ar Dduw fel Llywydd a Barnwr y byd; yn ei rwymo dan boen y felldith i sancteiddrwydd eithaf, ac yn ei gylchynu â rhwymau angeu, o achos ei bechod. Gwrandewch yn hyn ar lais y galon, a'i llais fydd, *nid oes un Duw.* (2) Yr ydych yn elynion i natur Duw, Iob xxi. 14, "Dywedant hefyd wrth Dduw, cilia oddiwrthym; canys nid ydym yn chwenych gwybod dy ffyrdd." Mae dynion yn gosod i fynu ddelw o'u dychymygion eu hunain yn lle Duw, ac yna yn syrthio i lawr ac yn ei addoli. Nid ydynt yn ei garu yn amgen nag y carodd Iacob Leah, tra yr oedd yn ei chymmeryd am Rahel. Mae pob dyn wrth natur yn elyn i Dduw fel y mae efe yn cael ei ddatguddio yn ei air. Nid Bôd *anfeidrol sanctaidd, cyfiawn, a galluog* yw yr hwn y mae efe yn ei garu, ond yr hwn y mae efe yn ei gasau. Mewn effaith, mae dynion wrth natur yn "gas ganddynt Dduw," Rhuf. i. 30. A phe gallent, mae'n sicr y gwnaent ef yr hyn nid yw. Canys ystyriwch, mae yn wirionedd dilys, *mai pa beth bynag sydd yn Nuw, Duw ydyw*; ac am hyny nid yw ei briodoliaethau yn bethau gwahanol iddo ef ei hun. Os nad yw priodoliaethau Duw yr un ag ef ei hun, y mae efe yn Fôd cymmysglyd, ac felly nid y Bôd cyntaf ydyw, (yr hyn sy'n gabledd ofnadwy) oblegyd y mae y rhanau cyfansoddedig o flaen y cyfansoddiad; ond y mae efe yn "Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd." Yn awr, oddiar hyn, er eich argyhoeddi, mi osodaf ger bron eich cydwybodau y gofyniadau canlynol: (1) Pa effaith y mae anfeidrol burdeb a sancteiddrwydd Duw yn ei gael ar eich calonau? Ettyb y gydwybod hyn, er na wna y tafod. Os na wnaethpwyd chwi yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd

ef, ni ellir eich cymmodi chwi âg ef. Pan welodd y Paganiaid na allent fod yn debyg i Dduw mewn sancteiddrwydd, gwnaethant eu duwiau fel hwy eu hunain mewn aflendid, a thrwy hyny dangosasant pa fath Dduw a ddewisai yr annuwiol. Mae Duw yn sanctaidd; a all creadur ansanctaidd garu ei sancteiddrwydd difrycheulyd? Na all, y cyfiawn yn unig a all "glodfori wrth goffadwriaeth ei sancteiddrwydd ef," Ps. xxx. 4. Goleuni yw Duw; a all creaduriaid y tywyllwch orfoleddu ynddo? Na allant, mae "pob un sy'n gwneuthur drwg yn casau y goleuni," Ioan iii. 20, "Pa gymmundeb sydd rhwng goleuni a thywyllwch? 2 Cor. vi. 14. (2) Pa effaith mae cyfiawnder Duw yn gael ar eich calonau? Nid oes un dyn, yr hwn sydd mewn undeb a'i chwantau, fel y mae pob dyn diadgenedledig, na byddai yn foddlon i roddi gwaed ei gorph, i ddileu y llythyren hon allan o enw Duw. A all drwgweithredwr garu ei farnwr, yr hwn a'i collfarnodd? neu bechadur anghyfiawn garu Duw cyfiawn? Na all, Luc vii. 47, "Y neb y maddeuer ychydig iddo, a gâr ychydig." Er na all dynion ddileu yr athrawiaeth o gyfiawnder Duw allan o'r Bibl; eto y mae'n *ddolur llygaid* iddynt, fel yr ymdrechant i'w dileu o'u meddwl. Ac y maent yn dinystrio eu hunain wrth ymddiried yn nhrugaredd Duw; ac heb ymdrechu am gael *cyfiawnder Duw,* yn yr hwn y gallant sefyll ger bron ei orsedd; ond dywedyd yn eu calonau "Ni wna yr Arglwydd dda, ac ni wna ddrwg," Zeph. i. 12. (3) Pa effaith mae hollbresennoldeb a hollwybodaeth Duw yn ei gael arnoch? Dewisai dynion wrth natur yn hytrach gael eilun dall, na Duw hollwybodol; ac am hyny maent yn gwneuthur yr hyn a allont i ymguddio o wydd Duw, fel Adda. Nid ydynt yn caru y Duw hollwybodol a holl bresennol, mwy nag y carai lleidr i'r barnwr fod yn dyst o'i weithredoedd drwg ef. Pe byddai i'r matter fyned y'mlaen wrth bleidlais, (vote) fe bleidid yr Arglwydd allan o'r byd, a chauid ef yn y nefoedd: canys iaith y galon gnawdol yw, "nid yw yr Arglwydd yn ein gweled; gadawodd yr Arglwydd y ddaear," Ezek. viii. 12. (4) Pa effaith mae gwirionedd y Duwdod yn ie gael arnoch? Ychydig sydd yn y byd a all gydsynio o galon âg ymadrodd yr Apostol, Rhuf. iii. 4, "Bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog," Ie mae yn wir fod llawer, mewn effaith, yn gobeithio na saif Duw at ei air. Mae miloedd ag sy yn clywed yr efengyl, yn gobeithio cael eu hachub, ac yn meddwl y bydd bob peth yn dda arnynt am dragywyddoldeb, y rhai ni phrofasant yr ailened-

igaeth, ac nid ydynt yn ymdrafferthu dim y'nghylch y gofyniad hwnw, *a ailanwyd hwy neu beidio?* Gofyniad sydd yn debyg o wisgo ymaith o'u plith y dyddiau hyn. Mae geiriau ein Harglwydd yn amlwg a phendant, "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Duw." Pa beth yw y cyfryw obaith, ond gobaith dilys am i Dduw (gyda pharch y dywedwyf) alw ei eiriau yn ol, ac i'r Arglwydd Iesu fod yn gau Brophwyd? Beth arall yw meddwl y pechadur, yr hwn "Pan glywo efe eiriau y felldith hon, ymfendithio o honaw yn ei galon, gan ddywedyd, heddwch fydd i mi, er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon," Deut. xxix. 19.

*Yn olaf,* Pa effaith mae gallu Duw yn ei gael arnoch? Ni châr neb ef gyda llawn olwg ar ei allu, ond y creadur newydd; er y dichon rhai ei ofni âg ofn caethiwus pan feddyliont am dano. Nid oes un dyn wrth natur na wna yr hyn a allai tu ag at adeiladu ail dŵr Babel, i'w amddiffyn rhagddo. Ar y sail hon yr wyf yn cyhoeddi pob dyn diadgenedledig yn "elyn i Dduw."

*2il,* Yr ydych yn elynion i Fab Duw. Mae y gelyniaeth hwn at Grist yn eich calonau, y cyfryw ag a wnaethai i chwi guduno â'r llafurwyr, "y rhai a laddasant yr etifedd, ac a'i bwriasant ef allan o'r winllan;" pe buasai eu temtasiwn hwy yn ymosod arnoch chwi, heb gael eich attal mwy na hwythau. "Ai ci ydwyf fi (fe allai y dywedwch) i drin fy anwyl Iachawdwr felly?" Dywedodd Hazael felly ar achos arall; ond pan amgylchynodd y demtasiwn ef, bu yn gi i'w wneuthur. Mae llawer yn galw Crist *eu hanwyl Iachawdwr,* y rhai y tystia eu cydwybodau na sugnasant erioed gymmaint o felusder o honaw, ag o'u chwantau, ond y maent felusach ddengwaith iddynt na'u Iachawdwr. Nid yw yn felus iddynt mewn un ffordd, ond fel y maent yn aumharchu ei farwolaeth a'i ddyoddefiadau, er cael mwy o ddiogelwch i gyflawni eu chwantau; fel y gallont fyw fel y mynont yn y byd; a'u cadw rhag myned i uffern wedi marw. Och! Crist dychymmygol yw yr hwn sydd yn felus i chwi, y rhai ydych yn ffieiddio y Crist hwnw sy'n "ddysglaerdeb gogoniant y Tad, ac yn wir lun ei berson ef." Yr ydych chwi fel yr Iuddewon cnawdol, y rhai oedd yn ei chwenych, o herwydd eu bod yn cam-ddeall ei ddyben yn dyfod i'r byd, ac yn dychymmygu y byddai efe yn waredwr tymhorol iddynt, Mal. iii. 1. Ond pan ddaeth efe, "ac eistedd fel purwr a glanhawr arian" adn. 2, 3 a'u bwrw hwy allan fel arian gwrthodadwy, y rhai oedd yn meddwl cael bri nid bychan yn nheyrnas y

Messiah; yr oedd ei athrawiaeth yn poeni eu cydwybodau, ac ni orphwysasant nes trochi eu dwylaw yn ei waed ef. I agoryd eich llygaid yn y pwngc hwn, yr hwn sydd mor anhawdd genych gredu, gosodaf o'ch blaen elyniaeth eich calonau at Grist yn ei holl swyddau.

1. Mae pob dyn annuwiol yn elyn i Grist yn ei swydd brophwydol. Fe'i hordeiniwyd gan y Tad, yn brophwyd mawr, a dysgawdwr; ond nid trwy alwad y byd am dano, oblegyd gwnaent hwy yn eu cyflwr natur o un feddwl ei wrthod ef; ac felly, pan ddaeth, fe'i condemniwyd fel twyllwr a chableddwr. Er prawf o'r gelyniaeth hwn, crybwyllaf ddau beth.

1 *Prawf*. Ystyriwch y croesawiad gwael mae'n gael, pan ddel i ddysgu dynion trwy ei Yspryd. Mae dynion yn gwneuthur yr hyn a allont i gau eu clustiau fel y neidr fyddar, rhag clywed ei lais. Maent bob amser yn *gwrthwynebu yr Yspryd Glân*; "Nid ydynt yn chwenych gwybod ei ffyrdd;" am hyny maent yn peri i Dduw gilio oddiwrthynt. Mae yr hen enllib yn cael ei godi yn ei erbyn yn fynych ar yr achos hwn, Ioan x. 20, "Mae efe yn ynfydu, paham y gwrandewch arno?" Mae llawer yn barnu nad yw deffröad yr enaid trwy yspryd caethiwed, ddim ond gwallgofrwydd a gweithrediadau y pruddglwyf; fel hyn y mae dynion yn cablu gwaith yr Arglwydd, o herwydd eu bod hwy eu hunain allan o'u pwyll, ac na allant farnu y pethau hyn.

2 *Prawf*. Ystyriwch y croesawiad gwael mae'n gael pan ddel i ddysgu dynion yn allanol trwy ei air.

(1) Mae ei air ysgrifenedig, sef y Bibl, yn cael ei ddiystyru; mae Crist wedi ei roi i ni fel llyfr i'n hyfforddi ac i ddangos i ni y ffordd y dylem rodio, os ydym am fyned i mewn i dir Immanuel. Llusern yw, i'n goleuo trwy y byd tywyll, i oleuni tragywyddol. Efe a orchymynodd i ni ei chwilio gyda'r fath ddyfalwch, ag y mae dynion yn cloddio am aur neu arian, Ioan v. 39. Ond O! fel y mae y trysor sanctaidd hwn yn cael ei anmharchu gan lawer! Maent yn gwawdio y gair sanctaidd, yr hwn a'u barn hwynt yn y dydd olaf: a gwell ganddynt golli eu heneidiau nag ymadael â'u cellwair, gan wisgo eu dychymmygion anllad a chynnenus âg ymadroddion o'r ysgrythyr; wrth wneuthur hyn, maent yn gweithredu mor wallgofus, a dyn fai yn cloddio am fŵn, i'w doddi a'i dywallt i gorn ei wddf ei hun a'i gymmydog. Mae llawer yn treulio eu heinioes i ddarllen ffug-chwedlau, ac y mae eu meddyliau yn eu dilyn

hwynt, fel fflam yn dilyn sofl sych, ac nid oes ganddynt galon, na blas tu ag at y gair sanctaidd, ac felly anfynych y gwelir Bibl yn eu llaw. Yr hyn sy'n boddio gwagder eu meddwl, sydd ddifyr a chymmeradwy ganddynt; ond y mae yr hyn sydd yn eu hannog at sancteiddrwydd, yn gwneuthur eu hysprydoedd yn isel a llwfr. Mawr yw y pleser a gânt wrth ddarllen rhyw gerddi gweigion, neu chwedleuon ofer, tra mae y Bibl mor ddiflas a gwyn-ŵy! Mae llawer yn cadw eu Biblau gyda'u dillad dydd Sul; ac os bydd arnynt eisieu eu dillad, ni bydd arnynt eisieu eu Biblau nes del y Sabboth. Och! mae y llwch neu wychder sydd o gylch eich Biblau yn dyst yn awr, ac a fydd y dydd olaf yn dyst o elyniaeth eich calonau yn erbyn Crist fel prophwyd. Heblaw hyn oll, y'mysg y rhai sydd yn darllen eu Biblau yn gyffredin, mor lleied sydd yn ei ddarllen fel gair Duw at eu heneidiau, ac yn cyfeillachu â'r Arglwydd ynddo. Nid ydynt yn cymmeryd ei ddeddfau yn gynghoriaid iddynt, ac nis ant ar un-achos pedant at y Bibl. Maent yn ddieithriaid i wir "ddiddanwch yr Ysgrythyrau." Ac os ar amserau y tristeir hwynt, rhyw beth heblaw y gair sydd yn eu lloni drachefn; fel Ahab yn gwellau o'u selni sarug, trwy gael meddiant o winllan Naboth.

(2.) Mae pregethiad gair Crist yn cael ei ddirmygu. Y derbyniad gwael a gafodd gan y byd lle y danfonwyd ef, sydd debyg i'r hyn a ddywedir yn Matth. xxii. 5, "A hwy yn ddiystyr ganddynt." Ac er mwyn y gair, mae y rhai a anfonodd Duw i'w bregethu yn cael eu diystyru, pa liw bynag a roddant hwy ar eu gwaith yn diystyru y weinidogaeth, Ioan xv. 20, 21, "Nid yw y gwas yn fwy na'i Arglwydd: os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiant chwithau; os cadwasant fy ngair i, yr eiddo chwithau hefyd a gadwant. Eithr hyn oll a wnant i chwi er mwyn fy enw i." Mab y gas oedd *Lefi*, Gen. xxix. 31, 34. Deut. xxi. 15, 16, 17. Mae dirgelwch yn hyn, ag y mae y byd, y'mhob oes, yn ei ddeongli. Ond er fod y llestri pridd, yn y rhai y mae Duw yn rhoi y trysor, yn cael eu cyfrif gan lawer "yn llestri heb hoffder ynddynt," eto pa ham y diystyrir y trysor ei hun? Ond ei ddiystyru mae yn ei gael, a hyny trwy brawf hyd y dydd hwn, "Arglwydd pwy a gredodd i'n hymadrodd? Wrth hwy y dywedaf fi?". Gall dynion yn ddigon diofal dreulio y Sabbothau heibio yn ddiles y naill ar ol y llall. Ac och! pan ddeuant i'r ordinhadau, eu dyben mwyaf, yw eu dangos eu hunain, neu i *ymddangos ger bron yr Arglwydd*, ac i sengu ei

gynteddau fel y gwnai cynnifer o anifeiliaid pe gollyngid hwynt yno, Esay i. 12. Felly ychydig o ofn ac arswyd Duw sy'n ymddangos yn eu hysprydoedd. Mae llawer yn sefyll fel muriau pres o flaen y gair, ac ni wna y gair unrhyw rwyg yn eu cyfeillach annuwiol. Ie, y mae llawer yn myned waeth waeth, dan "orchymyn ar orchymyn;" a chanlyniad y cwbl yw "fel yr elent ac y syrthient yn ol, ac y dryllier, ac y maler, ac y dalier hwynt," Esay xxviii. 13. Pa ddagrau o waed sy'n ddigon i alaru, am fod efengyl "gras Duw" yn cael fel hyn ei derbyn yn ofer. "Llef un yn llefain" ydym ni; mae y llefarwr yn y nefoedd, ac y mae yn llefaru o'r nef trwy ddynion wrthych chwi: pa ham y "gwrthodwch yr hwn sy'n llefaru?" Heb. xii. 25. Mae Duw wedi gwneuthur ein meistr ni "yn etifedd pob peth," ac yr ydym ni wedi ein hanfon i ymofyn gwraig iddo ef. Nid oes neb mor deilwng ag ef; na neb mor annheilwng a'r rhai hyny y mae y priodfab yn cael ei gynnyg iddynt — Ond y mae *tywysog y tywyllwch* yn cael ei ddewis o flaen *Tywysog tangnefedd.* Mae tywyllwch erchyll wedi toi y byd trwy gwymp Adda, llawer mwy dychrynllyd na phe byddai yr haul, y lloer, a'r ser, wedi eu claddu mewn tywyllwch dudew; ac yno y gorweddasem yn dragywydd, oni buasai i'r gras hwn yn yr efengyl dywynu arnom fel haul ysplenydd i'w wasgaru, Tit. ii. 11. Ond eto yr ydym yn ehedeg oddiwrtho fel dyllhuanod nos; ac fel yr anifeiliaid gwylltion yn llechu yn ein ffauau: pan godo yr haul yr ydym yn cael ein taro â dallineb gan ei oleuni; ac fel creaduriaid y tywyllwch, yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Y fath yw gelyniaeth calonau dynion yn erbyn Crist yn ei Swydd Brophwydol.

II. Mae dyn wrth natur yn elyn i Grist yn ei swydd offeiriadol. Mae wedi ei ordeinio gan y Tad "yn offeiriad yn dragywydd;" fel trwy ei iawn a'i eiriolaeth, y gallai pechaduriaid gael heddwch â, a dyfodfa at Dduw. Ond y mae "Crist wedi ei groeshoelio" yn faen tramgwydd ac yn ynfydrwydd i'r byd annuwiol, i'r hwn y pregethir ef, 1 Cor. i. 23. Ni fynent ef fel y ffordd newydd a bywiol. Ac nid ydyw efe gan y byd, yn "Offeiriad mawr ar dŷ Duw." Mae natur lygredig yn myned i weithio yn hollawl i'r gwrthwyneb.

1 *Prawf.* Nid oes neb o blant Adda o naturiaeth yn tueddu i gael eu bendithio mewn gwisg fenthyg; ond rhaid iddynt hwy, fel y pryf copyn, gael y cyfan o'u gwaith eu hunain; a dringo felly i'r nefoedd ar bwys edeu wedi ei gweu o'u hymysgaroedd eu hunain. "Maent yn chwenych bod dan y ddeddf,"

Gal. iv. 21, ac "yn ceisio gosod i fynu eu cyfiawnder eu hunain," Rhuf. x. 3. Mae dyn wrth natur yn edrych ar Dduw fel ei Feistr goruchel, ac yn ei gyfrif eu hun fel gwas yn rhaid iddo weithio ac ennill y nefoedd, fel ei gyflog. Yna pan ddeffröer y gydwybod, mae yn meddwl i'r dyben iddo gael ei achub, fod yn rhaid iddo gadw yr holl ddeddf, gwasanaethu Duw oreu gallo, a gweddïo am drugaredd lle byddo yn rhy fyr. Yn y modd hwn mae llawer yn cyflawni dyledswyddau, ac yn esgeuluso Crist.

2 *Prawf.* Fel y mae dynion yn naturiol i feddwl yn dda am eu gwaith, os gwnant ef yn dda; felly y maent yn edrych am gymmeradwyaeth ger bron Duw *am eu gwaith*, ac nid trwy fod yn gyfranog o waed Crist. "Pa ham meddant yr ymprydiasom ac nis gwelaist?" Hwy a ymffrostiant o'u cyflawniadau a'u doniau, ïe, hyd nod o'u barnau am grefydd, (Phil. iii. 4—7) trwy hóni iddynt eu hunain yr hyn a yspeiliasant oddiar Grist, yr archoffeiriad mawr.

3 *Prawf.* Mae yr annuwiol wrth nesau at Dduw mewn dyledswyddau, yn myned naill ai heb gyfryngwr, neu â mwy nag "un cyfryngwr y dyn Crist Iesu." Mae natur yn ddall, ac felly yn rhyfygus: mae yn gosod dynion i fyned yn uniongyrchol at Dduw heb Grist; i ruthro i'w wydd, a rhoi eu herfyniadau yn ei law, heb gael eu harwain i mewn gan ysgrifraglaw teyrnas nef, na rhoi eu herfyniadau yn ei law ef. Mor sefydlog yw y tuedd hwn yn y galon anianol, fel pan siaradoch â llawer o wrandawyr yr efengyl am sail eu gobaith am iechydwriaeth, braidd y clywir enw Crist o'u genau. Gofynwch iddynt pa fodd y maent yn meddwl cael maddeuant pechodau; dywedant wrthych, eu bod yn erfyn ac yn dysgwyl am drugaredd, o herwydd fod Duw yn drugarog; a dyna y cwbl sydd ganddynt i hyderu arno.—Mae eraill yn dysgwyl trugaredd er mwyn Crist; ond pa fodd y gwyddant y cymmer Crist eu hachos mewn llaw? Mae ganddynt fel y Pabistiaid, gyfryngwyr eraill gyda'r gwir Gyfryngwr. Gwyddant na all efe lai na'i wneuthur; canys maent yn gweddïo, yn cyffesu, ac yn wylo, ac y mae ganddynt lawer o ddymuniadau, a'r cyffelyb; ac felly mae ganddynt ryw beth o'u cyflawniadau eu hunain i fyned o'i flaen ef; ni wnaed hwynt erioed yn dlodion yn yr Yspryd, ac i ddyfod at Grist heb ddim o'u heiddo eu hunain, i lwyr ymorphwys ar ei aberth ef.

III. Mae'r annuwiol yn elyn i Grist yn ei swydd frenhinol. Mae y Tad wedi gosod y Cyfryngwr yn *frenin ar Seion*, Ps. ii. 6. ac y mae pawb y pregethir yr efengyl iddynt, yn cael eu gorchymyn dan eu perygl mwyaf, i *gusanu y Mab*, ac ymddarostwng iddo ef, adn. 12. Ond llais naturiol dynolryw ydyw, *ymaith ag ef*, fel y gellwch weled, adn. 2, 3. "Ni fynant i hwn deyrnasu arnynt," Luc xix. 14.

1 *Prawf*. Ymdrechiadau natur lygredig, i dreisio y llywodraeth o law Crist. Cyn gynted ag y ganwyd ef, am ei eni ef "yn Frenin," Herod a'i herlidiodd ef, Matth. ii. A phan groeshoeliwyd ef, "gosodasant uwch ei ben ef ei achos yn ysgrifenedig, *Hwn yw Iesu brenin yr Iuddewon*, Matth. xxvii. 37. Er fod ei deyrnas yn deyrnas ysprydol, ac heb fod o'r byd hwn, eto ni allent hwy ganiatau iddo deyrnas o fewn teyrnas, a fyddo yn cydnabod neb yn ben ond Crist y Cyfryngwr mawr. Maent yn ymhyfhau ar ei uchelfraint ef, yn newid ei gyfreithiau, ei osodiadau, a'i ordinhadau; ac yn ffurfio ei addoliad yn ol dychymmygion eu calonau eu hunain; ac yn dwyn swyddau a swyddwyr newydd i'w deyrnas, nad oes son am danynt yn *llyfr rheolau ei deyrnas*; gan drefnu ei deyrnas allanol, fel y byddo yn gweddu oreu i'w meddyliau cnawdol hwy. Y fath yw gelyniaeth calon dyn yn erbyn Brenin Seion.

2 *Prawf*. Mor anewyllysgar yw dynion i ymddarostwng i, ac i gael eu rheoli gan, gyfraith a dysgyblaeth ei deyrnas ef — Fel y mae yn frenin, mae yn ddeddf-roddwr, Esay xxxiii. 22. ac y mae wedi ordeinio llywodraeth allanol, dysgyblaeth, a cheryddon i ddarostwng yr afreolus, ac i gadw ei ddeiliaid proffesedig mewn trefn, i gael eu trin gan swyddogion o'i osodiad ef ei hun, Matth. xviii. 17, 18. 1 Cor. xii. 28. 1 Tim. v. 17. Heb. xiii. 17. Ond y rhai hyn yw dolur llygaid y byd annuwiol, y rhai sydd yn caru rhyddid pechadurus, ac am hyny yn gwaeddi allan, "Drylliwn eu rhwymau hwynt, a thaflwn eu rheffynau oddiwrthym," Ps. ii. 3. Mae y gwaith hwn mewn modd arbenig, yn ymegnïad yn erbyn ffrwd llygredigaeth natur; yr hwn sy gan mwyaf, yn gwneuthur i'r eglwys ymddangos fel pe bai heb *frenin ar Israel, ond pawb yn gwneuthur fel y byddai da yn ei olwg*.

3 *Prawf*. Pa fodd bynag, gall yr annuwiolion gael eu dwyn i wneuthur ffug o ymostyngiad i Frenin y Saint, eto eu chwantau sydd yn cadw gorsedd eu calonau, "ac y maent yn gwasanaethu chwantau ac amryw feluswedd," Tit. iii. 3. Nid

oes neb ond y rhai y ffurfiwyd Crist ynddynt, yn gwir roi y goron ar ei ben, ac yn derbyn teyrnas Crist i'w calonau. Ei goron yw "yr hon y coronodd ei fam ef yn ei ddydd dyweddi ef," Can. iij. 11. Pwy o'r rhai sydd heb eu darostwng trwy ras, a oddef iddo osod i fynu a thaflu i lawr yn eu heneidiau fel y gwelo efe yn dda? Na, caiff pob arglwydd y llywodraeth arnynt o flaen "Arglwydd y gogoniant;" croesawant ei elynion, ond byth ni lwyr ymroddant i'w lywodraeth ef, nes cael eu gorchfygu "yn nydd ei nerth ef." Ac felly gellwch weled fod yr annuwiol yn elyn i Iesu Grist yn ei holl swyddau. Ond O! mor anhawdd yw argyhoeddi dynion yn y pwngc hwn! Maent yn anewyllysgar iawn i'w gredu. Ac mewn modd neillduol mae gelyniaeth y galon yn erbyn Crist yn ei swydd offeiriadol, fel pe bai wedi ei guddio o olwg y rhan fwyaf o wrandawyr yr efengyl; eto mae gelyniaeth neillduol yn y galon lygredig yn erbyn ei swydd offeiriadol. Gellir dywedyd fod y Sociniaid, y gelynion hyn i'n Harglwydd Iesu, yn ei addef yn brophwyd ac yn frenin, eto yn gwadu ei swydd offeiriadol. Ac y mae hyn yn hollawl gydunol â llygredigaeth ein natur ni; oblegyd yn y cyfammod gweithredoedd, yr oedd yr Arglwydd yn brophwyd neu ddysgawdwr, ac yn frenin neu reolwr; ond nid oedd yn offeiriad; felly nid yw dyn yn gwybod dim am ddirgelwch Crist fel "ffordd at y Tad," nes ei ddatguddio iddo: a phan ddatguddier ef, mae yr ewyllys yn codi yn ei erbyn; oblegyd y mae natur lygredig yn groes i "ddirgelwch Crist," a threfn fawr yr iechydwriaeth trwy Grist croeshoeliedig a ddatguddir yn yr efengyl. I ddangos y gwirionedd pwysfawr hwn, ystyriwn y pedwar peth canlynol.

*Yn gyntaf.* Bod yr enaid yn cwympo i mewn â threfn fawr yr iechydwriaeth trwy Iesu Grist; a gosod sail ei iechydwriaeth ar y sylfaen hono ger bron Duw, sydd yn cael ei gyhoeddi yn y Bibl yn nod anffaeledig o ddyn duwiol, yr hwn sydd yn ddedwydd yma, ac a fydd yn ddedwydd byth, Math xi. 6, "Dedwydd yw yr hwn ni rwystrir ynof fi," 1 Cor. i. 23, 24, "Eithr yr ydym ni yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb: ond iddynt hwy y rhai a alwyd Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw," Phil. iii. 3, "Canys yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr Yspryd, ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd."

Yn awr, pa fodd y gallai hyn fod, pe gallai natur gyd-synio â'r drefn fawr hon?

*Yn ail.* Mae natur lygredig yn groes i drefn fawr yr efengyl. Yn yr efengyl mae Duw yn cynnyg Iesu Grist fel y moddion mawr i uno pechadur â Duw. Mae wedi cyhoeddi Crist fel y Cyfryngwr "yn yr hwn y llwyr foddlonwyd ef," ac ni fyn neb ond efe, Matth. xvii. 5. Ond ni fyn natur ddim o honaw ef, Ps. lxxxi. 11. Mae Duw wedi ordeinio lle i gyfarfod am gymmod, "sef ei gnawd ef;" felly *y mae Duw yn Nghrist,* (2 Cor. v. 19.) fel pabell y cyfarfod i heddychu â phechaduriaid. Ond ni ddaw yr annuwiol, er marw byth, ni ddaw yno, Ioan v. 40, "Ond ni fynwch chwi ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd." Yn ol yr efengyl rhaid i'r pechadur sefyll o flaen yr Arglwydd mewn cyfiawnder cyfrifol; ond y mae natur lygredig am gyfiawnder gwreiddiol; am hyny cyn belled ag y mae dynion anianol yn "dilyn cyfiawnder," y maent yn dilyn "deddf cyfiawnder," (Rhuf. ix 31, 32) ac nid yn dilyn "yr Arglwydd ein cyfiawnder." Mae natur yn wastad am wneuthur ei hunan i fynu, ac i gael sail ymffrostio; ond dyben mawr yr efengyl yw derchafu gras, i iselu natur, a chau allan ymffrost, Rhuf. iii. 27. Swm ein crefydd wrth natur yw, gwneuthur da o honom ac er ein mwyn ein hunain, Ioan v. 44. Swm crefydd yr efengyl yw, i ymwadu â ni ein hunain, a gwneuthur daioni dros ac er mwyn Crist, Phil. i. 21.

*Yn drydydd.* Mae pob peth yn natur dyn yn erbyn credu yn Iesu Grist. Pa ogoniant a all dyn dall ganfod mewn Crist wedi ei groeshoelio, "fel y dymunai ef?" Pa fodd y gall yr ewyllys sydd yn analluog wrth natur, ïe, ac yn groes i bob daioni, wneuthur dewisiad o honaw ef? Hawdd y gall yr enaid ddywedyd wrtho ef yn nydd y gwarchae ysprydol, fel y dywedodd y Iebusiaid wrth Dafydd ar achos arall, "Ni ddeui di yma oni thynu ymaith y deillion a'r cloffion," 2 Sam. v. 6. Ffordd dyn anianol yw edrych iddo ei hun am bob peth; yn ol rheol sylfaenol moesoldeb dynol, Y dylai dyn ymddiried ynddo ei hun; yr hyn yn ol athrawiaeth y ffydd sydd eithaf ffolineb, canys felly y dywaid Solomon, Diar. xxviii. 26, "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun sydd ffol." Yn awr, mae ffydd yn dwyn y dyn o honaw ei hun i geisio'r cwbl: ac felly y mae natur ar y llaw arall yn ymroddi i fod yn ffol, 1 Cor. i. 18, 23. Gan hyny y mae angenrheidrwydd am "allu Duw" i beri i ddynion gredu, Eph. i. 19. Esay liii. 1.

Mae addewidion yr efengyl yn dangos fod derbyniad helaeth, ëang, a rhad i bechaduriaid; ac y maent yn ddiammodol, Esay lv. 1. Dat. xxii. 17. Os na choeliant ef *ar ei air*, mae wedi myned ar ei *lw* ar y peth, Ezek. xxxiii. 11. Ac er eu diogelu yn mhellach, mae wedi rhoi seliau ar ei gyfammod a'i lw, sef y sacramentau sanctaidd. Felly ni ellir gofyn mwy gan y dyn anffyddlonaf yn y byd i beri i ni ei gredu, nag yr ymostyngodd yr Arglwydd i'w roddi i ni, i beri i ni ei gredu ef ei hun. Mae hyn yn dangos yn amlwg fod natur yn erbyn credu, a bod y rhai sydd yn ffoi at Grist am noddfa, yn gofyn *cysur cryf*, (Heb vi. 18.) i fod yn gryfach na'u amheuon cryfion, a'u tueddiad i anghredu. Y'mhellach, gellir sylwi hefyd, am y gair a anfonwyd at genhedlaeth ddiofal a diras, fod ynddo atteb blaenllaw i'w holl wrthddadleuon a'u rhesymau; ac y mae geiriau y gwirionedd yn cael eu pentyru y naill ar ol y llall, fel y gellwch weled, Esay liii. 7, 8, 9. Ioel ii 13. Pa ham? o herwydd fod yr Arglwydd yn gwybod, mai pan lwyr ddeffroir y pechaduriaid difraw hyn, y bydd amheuon, ofnau, a rhesymau cnawdol yn erbyn credu yn ymgodi yn eu calonau, cyn amled a llwch yn codi mewn tŷ, wrth ysgubo llawr sych.

*Yn olaf.* Mae dyn wrth natur yn tueddu at ffordd y ddeddf, neu y *cyfammod gweithredoedd;* ac y mae pob dyn wrth natur cyn belled ag y mae yn ymgais am iechydwriaeth, yn ei cheisio yn y ffordd hono; ac nid ymedu â hi, nes ei guro allan o honi trwy *allu Duw.* Yn bresennol, mae ffordd iechydwriaeth trwy *weithredoedd,* a *thrwy ras yn Iesu Grist,* yn anghydunol â'u gilydd, Rhuf. xi. 6, "Ac os o ras, nid o weithredoedd mwyach; os amgen, nid yw gras yn ras mwyach. Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach; os amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach." Gal. iii. 12, "A'r ddeddf nid yw o ffydd: eithr, y dyn a wnel y pethau hyny, a fydd byw ynddynt." Gan hyny, os yw ewyllys dyn wrth natur yn tueddu i gael iechydwriaeth trwy y ddeddf, y mae yn groes i drefn y efengyl. A'r cyfryw yw tueddiad naturiol ein calonau, a ymddengys, os ystyrir y pethau canlynol.

1. Y ddeddf oedd cyfammod Adda; ac ni wyddai am yr un arall, canys yr oedd efe yn ben a chynddrychiolwr holl ddynolryw, y rhai a ddygwyd i'r cyfammod gydag ef, ac a adawyd dano ganddo ef, er eu bod yn analluog i gyflawni ei ammod. Yn ganlynol, mae y cyfammod hwn wedi gwreiddio yn ein natur ni, ac er i ni golli nerth ein tad, eto yr ydym yn

tueddu yn barhaus i geisio bywyd yn y ffordd yr oedd efe i'w gael fel ein pen a'n cyfnddrychiolwr; hyny yw, *gweithio am fywyd.* Dyma ein crefydd wrth natur, a'r egwyddor y mae dynion yn naturiol yn ei chymmeryd fel gwir, Matth. xix. 16, "Pa beth da a wnaf fel yr etifeddwyf fywyd tragywyddol?"

2. Ystyriwch y gwrthwynebiad a wnaed erioed yn y byd i'r athrawiaeth o rad ras trwy Iesu Grist, o herwydd fod dynion yn meddwl cael bywyd trwy weithio; a thrwy hyn yn dangos tueddiad naturiol y galon. Mae'n amlwg mai dyben mawr trefn yr efengyl yw dyrchafu gras Duw yn Nghrist, Rhuf. iv. 16, "Am hyny o ffydd y mae fel y byddai yn ol gras" Gwel Eph. i. 6. a ii. 7, 9 Mae holl wirioneddau yr efengyl yn cyd-gyfarfod yn Nghrist: felly adnabod y gwirionedd yw adnabod Crist, (Eph. iv. 20) a'i wir ddysgu, yw ei ddysgu fel y mae "y gwirionedd yn yr Iesu," adnod 21. Mae pob goruchwyliaeth o ras a thrugaredd o'r nef, pa un bynag ai i genhedloedd, neu i bersonau neillduol, yn wastad yn cynnwys rhyw gyhoeddiad o ras; megis yn y gwahaniad cyntaf a wnaed trwy ras Duw, Cain y brawd hynaf a wrthodwyd, ac Abel yr ieuangaf a gymmeradwywyd. Mae hyn yn amlwg trwy yr holl Fibl: ond er mor wir ydyw, pwngc ydyw sydd yn cael ei fawr wrthwynebu gan natur lygredig. Mae yn eglur, o'r holl gyfeiliornadau mewn crefydd, er pan gyhoeddwyd had y wraig, mai *bywyd trwy weithio* mewn gwrthwynebiad i *rad ras*, oedd y cyntaf a gododd; a thebyg mai efe fydd yr olaf a dynir i lawr. Bu llawer o gyfeiliornadau yn y byd, y naill yn codi ar ol y llall; nes o'r diwedd i'r byd ddyfod i'r fath gywilydd a blinder, nes diflanu o honynt. Ond mae hwn yn parhau er amser Cain, awdwr cyntaf yr heresi hon, hyd y dydd hwn; ac nid oes diffyg am rai i ymlynu wrtho; ïe yn yr amser mwyaf goleu. Nid heb sail yr wyf yn galw Cain yn awdwr iddo; oblegyd pan ddaeth Abel âg aberth y cymmod, offrwm gwaedlyd, "o flaenffrwyth ei ddefaid," (fel y Publican yn curo ei ddwyfron, ac yn dywedyd, "Arglwydd, bydd drugarog wrthyf fi becbadur") daeth Cain y'mlaen â "ffrwyth y ddaear yn offrwm i'r Arglwydd," Gen. iv. 3, 4 fel y Phariseaid hunanol, gyda'i *yr wyf yn diolch i ti Arglwydd.* Canys beth fu'r achos o ddigllonedd Cain, a'i waith yn lladd ei frawd? Ai nid am na chymmeradwywyd ef ger bron Duw am ei weithredoedd? Gen. iv. 4, 5. "A pha ham y lladdodd ef? oblegyd fod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda," (1 Ioan iii. 12) hyny yw, gwnaed hwynt trwy

ffydd, a chymmeradwywyd hwynt, ac eiddo Cain heb ffydd, am hyny yn wrthodedig, fel y dywaid yr Apostol, Heb. xi. 4. Ac felly fe ysgrifenodd ei ddigllonedd yn erbyn cyfiawnhad a chymmeradwyaeth gyda Duw trwy ffydd, yn wrthwyneb i weithredoedd, y'ngwaed ei frawd; i'w drosglwyddo i'r oesoedd a ddeuai. A byth wedi hyny, *yr aberth heb waed* a fynych nofiodd y'ngwaed y rhai a'u gwrthwynebent. Yr oedd yr addewid a wnaed i Abraham, am yr had, yn yr hwn y bendithid yr holl genhedloedd, wedi cael ei chymmylu gymmaint y'mhlith ei hiliogaeth yn yr Aipht, fel nad oedd y cyffredinolrwydd o honynt yn gweled un angenrheidrwydd am y ffordd hono i gael y fendith, fnes i Dduw ei hun wrthbrofi eu cyfeiliornad trwy gyfraith danllyd oddiar fynydd Sinai, yr hon a roddwyd yn chwaneg "oblegyd troseddau, hyd oni ddelai yr Had," Gal. iii. 19. Nid rhaid i mi ddywedyd i chwi fel yr oedd Moses a'r prophwydi yn cael cymmaint o waith i droi y bobl oddiwrth ymddiried yn eu cyfiawnder eu hunain. Mae y x bennod o Deuteronomium i gyd oll ar y matter hwnw. Yr oeddynt yn dra llawn o hyn yn amser Crist: yn amser yr Apostolion, pan oedd athrawiaeth rhad ras yn cael ei phregethu gyda'r dysglaerdeb mwyaf, yr oedd y cyfeiliornad hwnw yn codi ei ben yn wyneb y goleuni puraf; tyst, yr Epistol at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid. Ac ery pryd hwnw, nid oes diffyg o hyn; Pabyddiaeth yw ceuffos gyffredin cyfeiliornadau gynt, a chalon a bywyd y twyll hwnw. Ac yn ddiweddaf, gellir sulwi, mai fel y byddo yr eglwys y'mhob oes, yn gwyro oddiwrth ei phurdeb ryw ffordd, mae yr athrawiaeth o rad ras yn cael ei chymmylu yn gyfattebol.

3. Y cyfryw yw tuedd naturiol calon dyn i ffordd y ddeddf, yn wrthwyneb i Grist, mae fel y mae llestr budr yn troi blas y ddïod oreu a roddir ynddo, felly y mae dyn wrth natur yn troi hyd yn nod yr efengyl ei hun yn ddeddf; ac yn troi y cyfammod gras yn gyfammod gweithredoedd. Yr oedd y ddeddf seremoniol i'r Iuddewon yn efengyl wirioneddol, yr hon oedd yn dal gwaed, marwolaeth, a symudiad pechod yn barhaus o flaen eu llygaid, fel unig ffordd iechydwriaeth: eto yr oedd *eu bord* (h—y) eu hallor, y'nghyd a'u hamrywiol ordinhadau perthynol iddi, (Mal. i. 12.) *yn fagl iddynt*, Rhuf. xi. 9. Tra yr oeddynt yn eu defnyddio i wneuthur i fynu eu diffyg yn eu hufudd-dod i'r ddeddf foesol, ac yn ymlynu wrthynt, fel y darfu iddynt wrthod Crist yr hwn yr oedd yr allor a'r aberthau yn eu cyfeirio ato, fel sylwedd y cwbl. Fel

Hagar yr hon nid oedd ond i wasanaethu, a ddygwyd gan eu tad i wely ei meistres; nid heb ddirgelwch y'nghyngor Duw, "y rhai hyn yw y ddau destament," Gal. iv. 24. Fel hyn y mae athrawiaeth yr efengyl yn cael ei llygru gan Babyddion, a gelynion eraill i athrawiaeth rhad ras. Ac yn wir, pa fodd bynag y gellir dwyn dynion anianol o ran goleuni pen, i'r iawn ffordd yn y pwngc hwn, mor sicr a'u bod allan o Grist, mae eu ffydd, eu hedifeirwch, a'u hufudd-dod, (y fath ag ydynt) yn cael eu gosod ganddynt yn lle Crist a'i gyfiawnder, ac y maent yn ymddiried ynddynt, fel pe baent trwy y pethau hyn yn cyflawni deddf newydd.

4. Tra anhawdd yw cael meibion Adda i ymadael â'r ddeddf, fel cyfammod gweithredoedd. Nid oes neb yn ymadael â hi yn yr ystyr hwn, ond y rhai y torodd Yspryd Duw hwynt oddiwrthi. Y ddeddf yw ein gwr cyntaf, ac mae'n cael cariad ieuengctyd pob un. Pan mae Crist yn dyfod at yr enaid, mae'n ei gael wedi ymbrïodi â'r ddeddf; fel na all, ac na fyn ymbrïodi â neb arall, nes y bydd raid iddo ymadael â'r gwr cyntaf, fel y dywaid yr Apostol, Rhuf. vii. 1, 2, 3, 4. Yn awr, fel y gweloch pa fath ymadawiad yw hwn, ystyriwch,

(1.) Marwolaeth yw, Rhuf. vii. 4. Gal. ii. 19. Ni thycia erfyniadau ar yr enaid yn y peth hwn; mae yn dywedyd wrth y gwr cyntaf, fel Ruth wrth Naomi, "fel hyn y gwnelo yr Arglwydd i mi, ac fel hyn y chwanego, os dim ond angeu a wna ysgariaeth rhyngof fi a thithau." Ac yma mae pechaduriaid yn ffyddlon i'w gair; byddant farw i'r ddeddf cyn y priodant Grist. Mae angeu yn beth caled i bob dyn: ond meddyliwch pa mor anhawdd a fyddai gan wraig garuaidd ar ei gwely angeu, ymadael â'i gwr, gwr ei hieuengctyd, ac â'i phlant anwyl a ddygodd hi i fynu iddo ef. Y ddeddf yw y gwr hwnw; yr holl ddyledswyddau a gyflawnir gan y dyn anianol yw y plant. Y fath ymdrech, fel am fywyd, a fydd yn y galon cyn yr ymadawant a'u gilydd. Caf achos i grybwyll am hyn eto. Yn y cyfamser, cymmerwch ddisgrifiad byr a chyflawn St. Paul arno, Rhuf. x. 3, "Hwynt hwy heb wybod cyfiawnder Duw, ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw." Maent yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, fel dadleuwr poethlyd yn yr ysgolion, yn ceisio cadarnhau y pwngc mewn dadl; neu fel poenydiwr, yn gwasgu am gyffesiad gan un ar yr arteithglwyd. Maent yn ceisio ei osod i sefyll i fynu; mae eu cyfiawnder fel tŷ wedi ei adeiladu ar y tywod; mae efe yn

syrthio, a bwythau yn ei osod i fynu drachefn: mae'n syrthio arnynt wedi hyny, er hyny ni pheidiant a cheisio ei osod i sefyll. Ond paham y cymmerant y fath drafferth yn nghylch cyfiawnder mor adfeiledig? O herwydd y fath ag ydyw, eu cyfiawnder eu hunain ydyw. Beth sydd rhyngddynt â chyfiawnder Crist? O herwydd y gwnai hyny hwy yn ddyledwyr i rad ras am y cwbl, ac ni all y galon falch mewn un modd ymostwng i hyny. Yma y gorwedd pwys y matter, Psal. x 4, "Yr annuwiol, gan uchder ei ffroen, ni chais Dduw;" hyny yw, mewn geiriau eraill, "cloddio nis gall, a chardota sydd gywilyddus ganddo." Dyma yr ymdrech sydd, cyn cael yr enaid i farw i'r ddeddf. Ond yr hyn sy'n llefaru yn eglurach am y tueddiad truenus hwn, mae natur yn fynych yn meistroli yr afiechyd, i'r fath raddau, fel y mae'r enaid, yr hwn oedd yn debyg o farw i'r ddeddf, tra'r oedd argyhoeddiadau yn llym a threiddiol, yn *dinystriol* iachau o'r afiechyd dedwydd a gobeithiol; a (pheth sy'n dra naturiol,) mae'n glynu yn fwy nag erioed wrth y ddeddf; fel gwraig wedi ei dwyn o byrth angeu, yn glynu wrth ei gwr. Dyma ganlyniad holl ymdrechwaith llawer yn nghylch matter eu heneidiau; maent yn wir yn cael eu dwyn i gyflawni dyledswyddau yn fanylach; ond y maent cyn belled oddiwrth Grist ag erioed, neu bellach.

(2.) Marwolaeth orthrechol yw, Rhuf. vii. 4, "Yr ydych wedi meirw i'r ddeddf," wedi eich lladd, neu eich rhoi i farwolaeth, fel y goddef y gair. Mae gan y ddeddf ei hun law yn hyn; y gwr sydd yn rhoi'r archoll, Gal. ii. 19, "Canys yr wyf fi trwy'r ddeddf, wedi marw i'r ddeddf". Mae'r enaid sy'n marw y farwolaeth hon, fel gwraig gariadus yn briod â gwr caled: mae hi yn gwneyd yr hyn a all i'w foddio, eto nid yw efe byth yn foddlawn; ond mae yn ei phoenydio, ei blino, ac yn ei churo, nes iddi dori ei chalon, ac i angeu ei gwneyd yn rhydd; fel yr ymddengys yn amlycach ar ol hyn. Fel hyn mae'n amlwg fod calonau dynion yn tueddu yn naturiol i ffordd y ddeddf, ac yn groes i drefn yr efengyl. Mae yr ail bwngc a ddygwyd yn erbyn y rhai diadgenedledig wedi ei brofi, sef eu bod yn elynion i Fab Duw.

3ydd. Yr ydych yn elynion i Yspryd Duw. Yspryd sanctaidd yw efe, mae'r dyn anianol yn ansanctaidd, ac yn caru bod felly, ac felly yn *gwrthwynebu yr Yspryd Glân*, Act. vii. 51. Gwaith yr Yspryd yw *argyhoeddi y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn*, Ioan xvi. 8. Ond O!

fel y mae dynion yn ymdrechu i droi heibio yr argyhoeddiadau hyn, fel y tröent ymaith ddyrnod fyddai'n debyg o dynu eu llygad de, neu eu llaw dde! Os saetha yr Yspryd Glân hwy i mewn, fel na allant eu gwrthsefyll, mae'r galon yn dywedyd mewn effaith, fel Ahab wrth Elias, yr hwn oedd efe yn gasau, ac yn ofni, "A gefaist di fi, O fy ngelyn?" Ac yn wir maent yn ei drin ef fel gelyn, gan wneuthur eu goreu i fygu argyhoeddiadau, ac i ladd y rhagredegwyr hyn, sy'n dyfod i *barotoi ffordd yr Arglwydd* i'r enaid. Mae rhai yn cymmeryd llonaid ei breichiau o waith, er mwyn gyru argyhoeddiadau allan, fel Cain, yr hwn a ddechreuodd adeiladu dinas: mae rhai yn eu troi ymaith trwy oedi ac addo'n deg, fel y gwnaeth Felix; mae rhai yn eu chwerthin i ffordd, trwy gadw cyfeillion difyr, ac eraill yn eu cysgu ymaith Yr Yspryd Glân yw yspryd sancteiddiad; a'i waith yw darostwng trachwantau, a difa llygredd: pa fodd gan hyny y gall y dyn anianol, yr hwn y mae ei chwantau mor anwyl ganddo a'i aelodau, ie a'i fywyd, beidio bod yn elyn iddo.

*Yn olaf.* Yr ydych yn elynion i gyfraith Duw. Er fod dyn wrth natur yn dymuno bod dan y ddeddf fel cyfammod o weithredoedd, yn dewis y ffordd hono am iechydwriaeth yn groes i ddirgelwch Crist; eto fel y mae yn rheol bywyd, yn gofyn sancteiddrwydd trwyadl, ac yn cospi pob math o aflendid, mae'n elyn iddi: "nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, oblegyd nis gall chwaith," Rhuf. viii. 7. Oblegyd (1) nid oes yr un dyn diadgenedledig, nad yw wedi ymbrïodi â rhyw chwant neu gilydd, yr hwn ni all ei galon mewn modd yn y byd ymadael âg ef. Yn awr, gan na all efe ddwyn ei dueddiadau i gydymffurfio â'r ddeddf, fe ewyllysiai gael y ddeddf i gydymffurfio â'i dueddiadau ef: prawf eglur o elyniaeth y galon yn ei herbyn. Am hyny y mae "ymhyfrydu y'nghyfraith Duw, yn ol y dyn oddi mewn," yn cael ei ddangos yn y gair fel prawf amlwg o enaid grasol, Rhuf. vii. 22. Ps. i. 2. Oddiar y gelyniaeth naturiol hwn yn y galon yn erbyn y ddeddf, y cododd yr holl esponiadau Phariseaidd arni. A thrwy hyny mae y gorchymyn, yr hwn yndd̄o ei hun sy yn dra ëang, yn cael ei gyfyngu yn y fath fodd ag y byddo yn fwyaf boddhaol i duedd naturiol y galon. (2) Mae y ddeddf pan ei dygir yn ei hysprydolrwydd at y gydwybod anianol, yn cynhyrfu y llygredd. Po nesaf y daw hi, mwyaf y mae natur yn cyfodi yn ei herbyn. Ar yr achos hwn y mae fel olew i'r tân, yr hwn yn lle ei ddiffodd, sy'n gwneuthur iddo ffamio.

mwy: "Pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod," medd yr Apostol, Rhuf. vii. 9. Beth yw y rheswm a ellir ei roi tros hyn, ond gelyniaeth y galon yn erbyn y ddeddf sanctaidd? Po mwyaf a wrthwynebir ar lygredigaeth y galon, mwyaf fyth mae yntau yn creuloni. Penderfynwn gan hyny, fod yr annuwiolion yn elynion calon i Dduw, i'w Fab, i'w Yspryd, ac i'r ddeddf; a bod gwrthwynebiad a gelyniaeth naturiol yn ewyllys dyn i Dduw ei hun, a'i ewyllys sanctaidd.

*Yn bummed,* Mae yn ewyllys dyn ystyfnigrwydd yn erbyn yr Arglwydd. Mae ewyllys naturiol dyn yn ewyllysgar yn ffyrdd pechod: fe fyn dyn gael cyflawni ei ewyllys pe tröai yn ddinystr iddo. Mae fel y Lefiathan, Iob xli. 29. "Picellau a gyfrifir fel soflyn; ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwaywffon." Mae yr Arglwydd yn galw ar y dyn trwy ei air, ac yn dywedyd wrtho, (fel Paul wrth Geidwad y carchar, pan amcanodd ladd ei hun,) *na wna i ti dy hun ddim niwed.*—Bechadur, *Pa ham y byddi farw?* Ezek. xviii. 31. Ond ni wrandawant, "Mae pawb yn troi i'w yrfa, megis march yn rhuthro i'r frwydr," Ier. viii. 6. Mae genym addewid o fywyd mewn ffurf gorchymyn, Diar. iv 4. *Cadw fy ngorchymynion a bydd fyw.* Mae yn profi fod pechaduriaid anedifeiriol yn distrywio eu hunain, ac yn hunan-leiddiaid gwirfoddol. Maent yn troseddu gorchymyn bywyd; fel pe newynai gwas rhyw un ei hunan i farwolaeth, neu yfed cwpaned o wenwyn, er i'w feistr ei rybuddio rhag hyny: felly gwnant hwythau, ni fynant fyw, ond marw, Diar. viii. 36. *Fy holl gaseion a garant Angeu.* O y fath galon yw hon! calon garreg ydyw, (Esek. xxxvi. 26) mor galed ac anmhlygadwy a'r garreg: ni thoddir hi gan drugareddau, ni thorir hi gan farnedigaethau; eto hi a dyr cyn y plyga. Calon annheimladwy ydyw: er fod ar y pechadur lwyth o bechod, sydd yn ddigon i beri i'r ddaear siglo; ac er fod pwys digofaint arno, sy'n gwneuthur i'r cythreuliaid grynu, eto y mae efe yn rhodio yn ysgafn dan y baich; nid yw yn teimlo y pwys mwy na charreg, nes i Yspryd yr Arglwydd ei fywhau i deimlad o hono.

*Yn olaf,* Mae yr ewyllys annychweledig yn llwyr wrthnysig i gyfeirio at ddyben penaf dyn. Nid Duw yw prif ddyben dyn wrth natur, ond efe ei hun. Mae dyn yn greadur perthynol, ymddibynol, a benthycol; nid oes ganddo fod na daioni o honaw ei hun; ond y mae yr hyn oll sydd ganddo oddiwrth Dduw fel y gwreiddiol achos o bob perffeithrwydd, tymhorol

ac ysprydol. Mae ymddibyniad yn rhwym yn ei natur, a phe tynai Duw ei law gynnaliol oddiwrtho, efe a ddiflanai i ddiddymdra. Gwelwn gan hyny beth bynag yw dyn, o Dduw y mae efe; a diau y dylai ei ogoneddu ef; fel y mae y dyfroedd sy'n dyfod o'r môr, o ganlyniad yn dychwelyd yno. Felly crewyd dyn yn cyfeirio at Dduw fel ei ddyben penaf: ond wrth syrthio i bechod, syrthiodd oddiwrth Dduw, a throes ato ei hun; ac fel bradwr yn traws feddiannu yr orsedd, mae yn casglu ardrethion y goron iddo ei hun. Yn awr, mae hyn yn dangos hollawl wrthgiliad, a llygredigaeth cyffredinol dyn; canys lle bo y prif ddyben wedi newid, ni all fod yno ddim daioni. A dyma sefyllfa pob dyn yn ei gyflwr natur, Ps. xiv. 2, 3. "Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd—i weled a oedd neb—yn ceisio Duw. Ciliodd pawb," sef, oddiwrth Dduw: nid ydynt yn ceisio Duw, ond eu hunain. Ac er fod aml gerpyn o foesoldeb i'w gael yn eu mysg, eto, "nid oes a wnel ddaioni, nac oes un." Ac er fod rhai o honynt yn rhedeg yn dda, eto maent y'mhell o'r ffordd; nid ydynt un amser yn cyfeirio at yr iawn nod. Maent *a'u serch arnynt eu hunain,* (2 Tim. iii. 2.) yn fwy nag ar Dduw adn. 4. Gan hyny daeth Crist i'r byd i ddwyn pechaduriaid yn ol at Dduw, ei waith cyntaf, yw eu dwyn i *ymwadu a hwy eu hunain*, Mat. xvi. 24. Mae y duwiol yn gruddfan dan weddillion y pechod truenus hwn: maent yn ei gyfaddef ac yn ei wrthwynebu yn ei ymosodiadau dichellgar a pheryglus. Mae y rhai diadgenedledig, er eu bod y rhai mwyaf dideimlad o hono, dan ei lywodraeth ef; a pha le bynag y symudant, ni allant fyned allan o gylch hunan: maent yn ceisio eu hunain, maent yn gweithio iddynt eu hunain. Mae eu gweithredoedd naturiol, gwladol, a chrefyddol, o ba ffynnonell bynag y tarddont, oll yn rhedeg i, ac yn cyfarfod yn, y môr mawr o hunan.

Mae llawer o ddynion mor bell oddiwrth osod Duw fel eu prif ddyben, yn eu gweithredoedd naturiol a gwladol; fel yn y pethau hyn, *nid yw Duw yn ei holl feddyliau hwynt.* Eu bwyta a'u hyfed, a'r cyfryw weithredoedd naturiol, ydynt iddynt eu hunain; eu difyrwch neu eu hangenrhaid eu hunain heb un dyben uwch, Zech. vii. 6, "Onid oeddych yn bwyta i chwi eich hunain?" Nid ydynt yn golygu gogoniant Duw yn y pethau hyn, fel y dylent wneuthur, 1 Cor. x. 31. Nid ydynt yn bwyta ac yn yfed i gynnal eu cyrph i wasanaethu yr Arglwydd: nid ydynt yn gwneuthur hyny am i Dduw ddy-

wedyd *na ladd*; ac nid ydyw y defnynau melusion a roes Duw yn y creadur, yn codi eu heneidiau at y môr o gysuron sydd yn y Creawdwr, er eu bod yn arwyddion wedi eu gosod allan wrth ddrws y nefoedd, i ddywedyd wrth ddynion am y cyflawnder o ddaioni sydd yn Nuw ei hun, Act. xiv. 17. Ond hunan, ac nid Duw, y mae y dyn anianol yn ymofyn ynddynt. A pheth yw gweithredoedd gwladol dyn wrth natur, megis prynu, gwerthu, gweithio, &c. ond ffrwyth iddo ei hun? (Hos. x. 1) felly y mae prïodi a rhoi i brïodas yn cael eu cyfrif yn mhlith pechodau yr hen fyd, (Matth. xxiv. 38) oblegyd nid oedd ganddynt un olwg ar Dduw ynddynt i'w foddio ef; ond eu holl gais oedd, eu boddio eu hunain, Gen. vi. 3. Mewn gair, hunan yw prif ddyben dyn wrth natur, yn ei ddyledswyddau crefyddol. Maent yn cyflawni dyledswyddau er mwyn cael enw (Matth. vi. 1, 2.) neu er mwyn rhyw anrhydedd bydol arall, Ioan vi. 26. Neu os diwygiwyd hwy i raddau, eu heddwch, ac o'r hyn eithaf, eu cadw rhag uffern a digofaint, neu eu dedwyddwch tragywyddol eu hunain yw eu prif ddyben, Math. xix. 16—22. Attelir eu llygaid fel na welant ogoniant Duw. Maent yn ceisio Duw mae'n wir, ond nid er ei fwyn ei hun, ond er eu mwyn eu hunain. Nid ydynt yn ei geisio ond yn unig er eu budd eu hunain. Felly mae eu holl fywyd yn wauedig o un wê o gabledd ymarferol; yn gwneuthur Duw yn foddion, a hunan yn ddyben, ïe, eu prif ddyben.

Felly rhoddais ddarluniad byr i chwi o ewyllys dyn, yn ei gyflwr natur, wedi ei dynu o'r Ysgrythyr a phrofiadau dynion. Na elwch hi mwy Naomi, ond Marah; oblegyd chwerw ydyw, *gwreiddyn chwerwedd.* Na elwch hi mwy yn *ewyllys rhydd,* ond chwant caethiwus; *yn rhydd i ddrwg,* ond *yn rhydd oddiwrth dda,* nes i ras Duw dori rhwymau anwiredd. Yn awr, rhaid fod y cwbl yn wyr-gam ac nid yn uniawn, lle mae y deall a'r ewyllys mor lygredig; caf ddybenu trwy osod allan yn fyr, fel o ganlyniad i lygredigaeth prif gyneddfau yr enaid, y lleill mewn trefn, sef,

## *Llygredigaeth y Serchiadau, y Gydwybod, a'r Cof. Y Corph yn gyfranog o'r llygredigaeth hwn.*

III. Mae y serchiadau wedi eu llygru. Mae serchiadau dyn wrth natur yn hollawl annhrefnus ac afiach: maent fel y *march afreolus,* yr hwn ni chymmer ei farchog, neu a red

ymaith gydag ef. Felly mae calon dyn wrth natur yn fam ffieidd-dra, Marc vii. 21, 22. "Canys oddi mewn, allan o galon dyn y daw drwg-feddyliau, torpriodasau, puteindra, llofruddiaeth, lladradau, cybydd-dod, drygioni, twyll. anlladrwydd, drwg-lygaid, cabledd, balchder, ynfydrwydd." Mae serchiadau dyn wrth natur wedi eu cam-gyfleu yn druenus; anghenfil ysprydol yw. Mae ei galon lle y dylai ei draed fod, sef ar y ddaear; ei sodlau yn codi yn erbyn y nefoedd lle dylai ei galon fod, Act. ix 5. Mae ei wyneb tu ag uffern, a'i gefn ar y nefoedd; ac am hyny mae yr Arglwydd yn galw arno i droi. Mae yn caru yr hyn a ddylai gasau, ac yn casau yr hyn a ddylai garu; yn llawenychu yn yr hyn y dylai alaru, ac yn galaru yn yr hyn y dylai lawenychu; yn ymorfoleddu yn ei gywilydd, ac yn cywilyddio o'i ogoniant; yn ymwrthod â'r hyn y dylai chwenychu, ac yn chwenychu yr hyn y dylai ymwrthod ag ef, Diar. ii 13, 14, 15. Iawn y dywedasant (fel Caiaphas ar achos arall) y rhai a lefasant yn erbyn yr Apostolion, "Y rhai sydd yn aflonyddu y byd" yn ol y Saesoneg, *y rhai sydd yn troi y byd a'i wyneb yn isaf*, Act. xvii. 6. Canys hyn yw gwaith yr efengyl yn y byd, lle mae pechod wedi gosod pob peth mewn annhrefn, fel y mae sy nef yn gorwedd yn isaf, a'r byd yn uwchaf. Os gosodir serchiadau dyn anianol ar wrthrychau cyfreithlon, byddant naill ai yn ormod, neu yn fyr. Mae mwynhad o bethau cyfreithlon y byd weithiau yn cael rhy fychan, ond yn fynychaf ormod o honynt; naill ai ni chant yr hyn sydd deilwng iddynt; neu pan gant, mae yn fesur dwysedig, ac yn myned drosodd. Mae pethau ysprydol bob amser yn cael rhy fychan o'u serchiadau. Mewn gair, maent yn wastad i mewn, neu trosodd,nid byth yn iawn,ond beunydd yn ddrwg.Mae yma raffdair caingc yn erbyn y nefoedd a sancteiddrwydd, y rhai na thorir ar frys; meddwl tywyll, ewyllys cyndyn, serchiadau annhrefnus ac afreolaidd. Mae y meddwl yn ymchwyddo gan hunan-dyb, yn dywedyd, Ni ddylai y dyn ymostwng; mae yr ewyllys yn groes i ewyllys Duw, yn dywedyd, Ni wna efe; ac y mae y serchiadau llygredig, yn codi yn erbyn Duw o blaid yr ewyllys llygredig, yn dywedyd Ni chaiff efe. Felly mae y creadur truan yn gwrthryfela yn erbyn Duw a daioni, nes i ddydd nerth Duw wawrio, trwy yr hyn y gwneir ef *yn greadur newydd.*

IV. Mae y gydwybod wedi ei llygru, Tit. i. 15. Llygad drwg ydyw, sydd yn llenwi ymddygiad dyn â thywyllwch ac annhrefn, yn analluog i gyflawni ei ddyledswydd, hyd nes

delo yr Arglwydd trwy oleuo yr enaid, i'w ddeffroi, mae gydwybod yn aros yn gysglyd a diofal. Ni all cydwybo byth wneuthur ei gwaith, ond yn ol y goleuni fyddo ganddi weithio wrtho. Gan hyny, gwelwch na all dyn anianol iaw wybod pethau ysprydol, 1 Cor. ii. 14. Mae y gydwybo wrth natur, yn hollawl ddiddefnydd yn y pwngc hwnw; mae cysgu mor-drwm, na all ond goleuni yr Arglwydd ei gosod a waith. Mae goleuni y gydwybod anianol mewn da a drwg pechod a dyledswydd, yn dra diffygiol: er y gall hi atta pechodau gwrthun; eto am weithrediadau dirgelaidd pecho ni all eu hattal, am nad yw hi yn eu canfod. Felly fe waedd cydwybod yn wyneb llawer, os digwydd iddynt feddwi, tyng esgeuluso gweddi, neu fod yn euog o bechod amlwg; y rh ar amserau sy'n cael cyflawn lonyddwch er byw yn y pecho o anghrediniaeth, yn ddieithriaid i addoliad ysprydol, a byw ffydd. A chan fod goleuni natur yn fyr ac yn wan, mewn llaw o bethau mae ef yn ei gyrhaeddyd, mae cydwybod yn yr ach hwnw, yn rhoi brathiadau fel pigyn yn ystlys gwr, yr hwn sy' myned ymaith yn dra buan. Mae ei hannogaethau i ddyle swyddau, a'i gwrthwynebrwydd i bechod, yn hynod o anwada ac a orchfygir gan y dyn anianol yn fuan. Ond o herwyd fod gan oleuni yn y meddwl tywyll, mae'r gydwybod wrt ddilyn yr unrhyw, yn galw y drwg yn dda, a'r da yn ddrw Esay v. 20. Ac felly ceir ei gweled hi yn fynych fel ceff dall a ffrochwyllt, yr hwn sy'n rhedeg ei hun i lawr, a'i farch hefyd, a phob un a ddel i'w ffordd ef, Ioan xv. 2, "Tyb pwy bynag a'ch lladdo, eu bod yn gwneuthur gwasanaeth Dduw." Pan ddeffroir y gydwybod trwy yspryd argyhoed iad, hi a ymgynddeirioga, ac a rua, nes rhoi yr holl ddyn mew braw dychrynllyd, gan arswydus alw holl alluoedd yr ena i gynnorthwyo mewn cyfyngder; gan wneuthur i'r gal gyndyn grynu, a'r gliniau blygu; a gosod y llygaid i wy a'r tafod i gyffesu; ac yn gwneyd i'r dyn fwrw ei ddodrefn môr, y rhai yn ei olwg ef sydd beryglus i suddo llong yr ena er fod y galon yn myned ar eu hol. Eto cydwybod ddrwg y hi, o naturiaeth yn arwain i anobaith; a hyn a wna hi, fel achos Iudas, oddieithr i chwantau ei gorchfygu, a'i sio i gys fel Felix (Act. xxiv 25) neu fod gwaed Crist yn cael ei dae ellu arni i'w *phuro oddiwrth weithredoedd meirwon*, fel y gw i'r holl rai a achubir, Heb. ix. 14. a x. 22.

V. Ie, mae'r cof yn dwyn nodau amlwg o'r llwgr hwn.- Pob peth da a theilwng i'w gofio, gan nad yw yn cael fawr

argraff, mae'n gwisgo ymaith yn fuan; mae'r cof fel llestr nethedig yn ei ollwng i golli, Heb. ii. 1. Fel gogr yr hwn sy'n llawn tra y mae yn y dwfr, ac yn gollwng y cwbl wedi ei dynu allan; felly mae'r cof, mewn perthynas i bethau ysprydol: ond pa fodd y mae'n cofio y pethau a ddylid eu anghofio? Mae pethau drwg yn ymwthio iddo, yn y fath fodd, fel pan chwenycho dynion eu cael ymaith, eto glynant yno fel glud. Pa mor anghofus bynag fo dynion mewn pethau eraill, anhawdd yw anghofio cam. Felly mae'r cof yn aml yn dwyn tanwydd newydd i hen chwantau; yn gwneyd i hen bobl ailweithredu pechodau eu ieuengctyd, tra mae yn peri hyfrydwch i'r meddwl wrth eu cofio, a thrwy hyny yn lleibio i fynu yr hen chwydiad. Ac yn hyn mae fel y rhidyll, yn gollwng y gronynau pur, ac yn dal y sorod. Hyn am lygredigaeth yr enaid.

VI. Mae y corph hefyd yn gyfranog o'r llwgr a'r halogedigaeth hwn, cyn belled ag y mae'n alluog o hyny. Am hyny y geilw'r ysgrythyr ef yn *gnawd pechadurus*, Rhuf. viii. 3. Crynöaf hyn i ddau beth. (1.) Mae drwg-duedd cyrph plant Adda, fel y mae yn effaith pechod gwreiddiol, yn tueddu yn naturiol at bechod, yn annog i beshu, yn dwyn yr enaid i rwydau, ie, mae yn fagl ei hun i'r enaid. Anifail ffrochwyllt yw'r corph, o'r fath ddefnydd, os na chedwir ef i lawr, "ei gospi a'i ddwyn yn gaeth," fe ddwg yr enaid i lawer o bechodau a thrueni, 1 Cor. ix. 27. Mae drygioni yn y corph, (Rhuf. iii. 21.) yr hwn ni symudir hyd yn nod yn y saint, nes ei falurio yn y bedd, a'i ailfwrw yn yr adgyfodiad, i ddyfod allan yn gorph ysprydol; ond ni thynir ef ymaith byth o gyrph y rhai ni chant ran yn yr adgyfodiad i fywyd: (2) Mae'n gwasanaethu yr enaid mewn llawer o bechodau. Mae ei aelodau yn arfau neu offerynau anghyfiawnder, a'r rhai mae dynion yn rhyfela yn erbyn Duw, Rhuf. vi 13. Mae y clustiau a'r llygaid yn ddrysau agored, trwy y rhai yr a cynnyrfiadau halogedig, a dymuniadau pechadurus i mewn i'r enaid: mae'r tafod yn "fyd o anghyfiawnder," Iago iii. 6, "Drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol;" adnod. 8. Trwyddo ef mae'r galon lygredig yn gollwng llawer o'i budreddi allan, "Bedd agored yw eu ceg," Rhuf. iii. 13. Mae y traed yn rhedeg negeseuau y diafol, adnod 15. Mae'r bol wedi ei wneyd yn dduw, Rhuf. iii. 19 Nid yn unig gan feddwon a gloddestwyr, ond gan bob dyn wrth natur, Zech.

vii. 6. Felly mae y corph yn fynych yn oruchwyliwr y diafol, ac yn arfdy yn erbyn yr Arglwydd.

I ddiweddu, mae dyn wrth natur wedi cwbl lygru: "o wadn y troed i goryn y pen, nid oes fan glân na chyfan arno." Ac fel mewn tomen dail, y mae pob rhan yn cyd-gyfranogi o lwgr y llall; felly mae y dyn anianol, tra mae yn ei gyflwr natur, yn myned waeth waeth: gwaethygir yr enaid gan y corph, a'r corph gan yr enaid; ac y mae pob cynneddf o'r enaid yn foddion i lygru y lleill fwy fwy. Hyn ar yr ail ben cyffredinol.

## *Y modd y llygrwyd Natur Dyn.*

YN DRYDYDD, Mi gaf ddangos y modd y llygrwyd natur dyn fel hyn. Yr oedd y cenedloedd yn canfod fod natur dyn wedi ei llygru, ond pa fodd y daeth pechod i mewn, nis gwyddent. Ond dengys yr Ysgrythyr hyny yn amlwg, Rhuf. v. 12. "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd;" adnod 19, "Trwy anufudd-dod un dyn, y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid." Llygrodd pechod Adda natur pawb, ac efe a lefeiniodd holl gorph y ddynoliaeth. Llygrasom yn Adda fel ein gwreiddyn. Gwenwynwyd y gwreiddyn, a thrwy hyny gwenwynwyd y cangenau: tröwyd y winwydden yn *winwydden Sodom*, ac felly daeth y grawnwin *yn rawnwin bustlaidd*. Daeth Adda trwy bechod, nid yn unig yn euog, ond hefyd yn llygredig, ac felly trosglwyddodd euogrwydd a llygredigaeth i'w hiliogaeth, Gen. v. 3. Iob. xxiv. 4. Trwy ei bechod diosgwyd ef o'i gyfiawnder gwreiddiol, a llygrodd ei hun: yr oeddym ni ynddo ef, fel ein pen cynddrychiolwr, yn cael ein cynddrychioli ganddo fel ein pen moesol, yn y cyfammod gweithredoedd: yr oeddym ynddo ef fel ein pen naturiol; ac felly y syrthiasom ynddo, a thrwy ei anufudd-dod, y'n gwnaethpwyd yn bechaduriaid: fel Lefi, yn lwynau Abraham, yn talu degwm, Heb. vii. 9, 10. Cyfrifir ei bechod cyntaf i ni; am hyny cyfiawn y gadewir ni mewn diffyg o'i gyfiawnder gwreiddiol ef, yr hwn a roddwyd iddo fel person cyffredinol, ac a gollwyd trwy ei bechod: ac y mae hyn yn canlyn o angenrheidrwydd, ynddo ef a ninnau, trwy lygredigaeth yr holl natur. Mae cyfiawnder a llygredigaeth yn groes i'w gilydd; rhaid i un o'r ddau fod mewn dyn fel creadur addas iddynt. A chan fod ein tad cyffredinol Adda, yn llygredig, felly yr ydym ninnau, hefyd; canys "pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan?"

Er fod hyny yn ddigon i brofi cyfiawnder yr oruchwyliaeth hon, sef, ei bod o Dduw, yr hwn y mae ei holl waith yn uniawn; eto, i ddystewi grwgnachrwydd natur falch, ystyrier yr ychydig bethau hyn yn mhellach. (1.) Yn y cyfammod ag yr oedd Adda yn ein cynddrychioli ni ynddo, addawyd bywyd tragywyddol, iddo ef a'i hiliogaeth, ar yr ammod o'i eiddo ef, sef ufudd-dod perffaith, fel cynddrychiolwr holl ddynolryw: canys pe na buasai cyfammod, ni allasent ddadleu am fywyd tragywyddol ar eu hufudd-dod mwyaf perffaith, ond gallesid wedi y cwbl eu dwyn i ddiddymdra; er hyny, pe pechasent, buasent yn ol cyfiawnder yn agored i dragywyddol lid Duw. Pwy gan hyny na fuasai yn cydsynio â'r drefn hon? (2.) Rhoed gallu i Adda i sefyll, fe'i gwnaed yn uniawn. Yr oedd mor alluog i sefyll drosto ei hun a'i holl hiliogaeth, ag y byddai neb arall ar ei ol i sefyll drosto ei hun. Buasai prawf dynolryw yn Adda trosodd yn fuan, a'r goron wedi ei hennill iddynt oll, pe safasai Adda: ond, pe gadewsid ei hiliogaeth yn annymddibynol, a phawb i weithredu drosto ei hun, buasai y prawf yn parhau o hyd. (3.) Yr oedd ganddo serchiadau naturiol, yr hyn oedd yn ei rwymo yn fwy fel ein tad cyffredinol. (4.) Yr oedd ei eiddo ei hun yn y llong, a chyfrgollwyd ei eiddo ef cystal a'n heiddo ninnau. Nid oedd ei eiddo ef a'n heiddo ninnau wedi eu gwahanu; ond os anghofiai ein hachos ni, yr oedd yn rhwym o anghofio ei achos ei hunan. (5.) Pe safasai, cawsem wybodaeth ei ddeall, cyfiawnder ei ewyllys, a sancteiddrwydd ei serchiadau, y'nghyd a phurdeb perffaith yn drosglwyddedig i ni; ni allasem syrthio; sicrhasid coron gogoniant trwy ei ufudd-dod ef, i ni ac yntau dros byth. Hyn sydd amlwg oddiwrth natur y cyfammod a wnaethpwyd âg ef; ac ni ellir rhoi un rheswm pa ham, gan ein bod wedi ein distrywio trwy bechod Adda, na chadwesid ni trwy ei ufudd-dod ef. Ar y llaw arall, mae yn rhesymol, gan iddo ef syrthio, y byddai i ninnau ddyoddef y golled gydag ef. *Yn olaf,* rhaid i'r rhai a ffreuant â'r drefn hon ymwrthod â Christ; canys yr un modd y gwnaed ni yn bechaduriaid yn Adda, ag i'n gwneir yn gyfiawn trwy Grist, o'r hwn y mae i ni gyfiawnder cyfrifol a greddfol. Ni ddewisasom ni mo'r ail Adda fel ein pen cynddrychiolwr yn yr ail gyfammod, mwy nag y dewisasom yr Adda cyntaf, yn y cyfammod cyntaf. Na ryfedded neb i'r fath gyfnewidiad dychrynllyd ddyfod i mewn trwy un camwedd ein rhïeni cyntaf; canys trwy hwnw troisant oddiwrth Dduw fel eu prif ddyben, yr hyn o angenrheidrwydd sy'n *dangos llygriad* cyffredinol. Yr oedd eu pechod

yn gymmysg-bla o ddrygau, yn hollawl wrthgiliad oddiwrth Dduw, ac yn droseddiad o'r holl ddeddf; trwy y camwedd hwn torasant bob gorchymyn o'r deg. (1) Dewisasant dduwiau newyddion. Gwnaethant eu bol yn dduw trwy eu cnawdolrwydd; eu hunain yn dduw trwy eu huchel-gais; ie, a'r diafol yn dduw trwy ei gredu ef, ac anghredu eu Gwneuthurwr. (2.) Er iddynt gael, eto ni chadwasant yr ordinhad hon o eiddo eu Duw, mewn perthynas i'r ffrwyth gwaharddedig. Dirmygasant yr ordinhad ag oedd yn eglur orchymynedig iddynt, &c. a fynasent osod i fynu eu trefn eu hunain, am y ffordd i wasanaethu yr Arglwydd. (3) Cymmerasant enw yr Arglwydd eu Duw yn ofer, trwy ddiystyru ei briodoliaethau, ei gyfiawnder, ei wirionedd, ei allu, &c. Halogasant yn ddirfawr y pren sacramentawl; dirmygasant ei air trwy ei anghredu; dirmygasant ei greadur ef, yr hwn ni ddylasent gyffwrdd âg ef; ac yn dreisiol a gamddëonglasant ei raglunniaeth ef, fel pe buasai Duw trwy wahardd y pren hwnw iddynt, yn sefyll ar ffordd eu dedwyddwch; ac felly ni oddefodd efe iddynt ddiangc rhag ei farn gyfiawn ef. (4.) Ni chofiasant y Sabboth i'w gadw yn sanctaidd, ond taflasant eu hunain allan o bob addasrwydd i wir addoli Duw ar ei ddydd ei hun; ac ni chadwasant y sefylfa o orphwysfa sanctaidd yn yr hon y gosododd Duw hwynt. (5.) Bwriasant ymaith eu dyledswyddau perthynasol. Anghofiodd Efa ei hun, a hi a weithredodd heb gyd-synied ei gwr, i'w dinystr i'll dau. Adda, yn lle ei chynghori i edifarhau, a gydsyniodd â'r demtasiwn, ac a'i cadarnhaodd hi yn ei bai. Anghofiasant eu holl ddyledswydd tu ag at eu hiliogaeth. Ni anrhydeddasant eu Tad yn y nefoedd; am hyny ni *estynwyd eu dyddiau ar y ddaear, yr hon a roddodd yr Arglwydd eu Duw iddynt.* (6.) Distrywiasant eu hunain a'u holl hiliogaeth. (7) Rhoddasant eu hunain i fynu i loddest a chnawdolrwydd. (8.) Dygasant ymaith yr hyn nad oedd eiddynt, yn groes i ewyllys adroddedig ei wir berchenog, (9.) Dygasant gam dystiolaeth, a dywedasant gelwydd yn erbyn Duw, ger bron angylion, cythreuliaid, a cher bron eu gilydd; mewn effaith, dywedasant eu bod yn cael ymddwyn yn galed tu ag atynt, a bod y nefoedd wedi gwarafun eu dedwyddwch. (10.) Yr oeddynt yn anfoddlon i'w rhan, a chwennychasant elw [drwg i'w tŷ, yr hyn a'u dinystriodd hwy a'u hiliogaeth. Fel hyn collodd dyn ddelw Duw mewn un dydd.

## *Cymhwysiad o Athrawiaeth Llygredigaeth Natur.*

DEFNYDD I. Er addysg. Mae natur dyn wedi cwbl lygru. Am hyny

1. Nid rhyfedd fod y bedd yn agor ei safn ddinystriol am danom cyn gynted ag y bwrir ni o'r bru; ac i'r eryd gael ei droi yn arch i dderbyn y telpyn llygredig; canys yr ydym oll mewn ystyr yspiydol yn farw-anedig; ïe, yn aflan, (Ps. xiv. 3.) ffiaidd a drewedig, fel peth llygredig, fel y mae y gair yn arwyddocau. Na chwynwn o herwydd y trueni yr ydym yn agored iddo ar ein dyfodiad i'r byd, nac am ei barhad tra yr ydym ynddo. Dyma y gwenwyn yr hwn a wenwynodd holl ddyfroedd y mwyniant bydol yr ydym yn yfed o honynt. Llygredigaeth natur dyn sy'n esgor ar holl drueni dynolryw, mewn eglwysi, teyrnasoedd, teuluoedd, ac mewn cyrph ac eneidiau dynion.

2. Gwelwch yma fel mewn drych, ffynnonell yr holl ddrygioni, halogrwydd, a ffurfioldeb sydd yn y byd; gwreiddyn yr holl annhrefn sydd yn eich calon a'ch bywyd chwi. Mae pob peth yn gweithredu fel efe ei hun, yn ol ei natur ei hun; ac felly mae dyn llygredig yn gweithredu yn llygredig. Na ryfeddwch at bechadurusrwydd eich calon a'ch bywyd, nac at bechadurusrwydd a gwrthnysigrwydd eraill. Os bydd dyn yn gam, ni all lai na bod yn gloff; os na osodir yr awrlais yn ei le, pa fodd y dengys yr awr yn gywir?

3. Gwelwch yma pa ham y mae pechod mor hyfryd, a chrefydd y fath faich i'r rhai cnawdol: mae pechod yn naturiol, a sancteiddrwydd yn annaturiol. Ni all ychain ymborthi yn y mor, na physgod yn y maesydd ffrwythlon. Er dwyn mochyn i balas, efe a â ymaith drachefn i ymdreiglo yn y dom. Mae natur lygredig yn tueddu yn naturiol i anmhuredd.

4 Dysgwch oddiyma natur ailenedigaeth, a'r angenrheidrwydd am dano. *Yn gyntaf,* Mae y ddau beth canlynol hyn yn dangos natur ailenedigaeth. (1.) Nid cyfnewidiad hannerog, ond hollawl yw, er mai anmherffaith yn y bywyd hwn. Mae yr holl natur wedi ei llygru, gan hyny rhaid i'r feddyginiaeth fyned trwy bob rhan. Mae ailenedigaeth nid yn unig yn gwneuthur pen newydd er gwybodaeth, ond calon a serchiadau newyddion er sancteiddrwydd. "Gwnaethpwyd pob peth yn newydd," 2 Cor. v. 17. Pe byddai archollion ar

ddyn, a'i iachau ef o honynt oll ond un, gallai waedu i farwolaeth trwy yr un hwnw, cystal a mil: felly os nad â y cyfnewidiad trwy yr holl ddyn, mae yn ddrwg. (2.) Nid cyfnewidiad o waith dyn ydyw, ond o waith Yspryd Duw. Rhaid *geni dyn o'r Yspryd*, Ioan iii. 5. Gall dynion iachau clefydon damweiniol; ond gwyrthiau yw iachau clefydon naturiol, Ioan ix. 32. Y cyfnewidiad a wneir ar ddynion trwy ddygiad i fynu, neu a weithredir arnynt trwy rym cydwybod anianol, er y gall dynion ei farnu yn gyfnewidiad gwirioneddol, eto nid felly y mae; oblegyd mae ein natur ni yn llygredig, ac ni all neb ond Duw natur ei chyfnewid. Gall garddwr trwy impio pren gellyg mewn pren afalau, wneyd i'r pren afalau ddwyn gellyg; eto ni all celfyddyd dyn newid natur y pren afalau: felly gall un wnïo buchedd newydd wrth ei hen galon, ond ni all efe byth gyfnewid ei galon. *Yn ail*, Mae hyn hefyd yn dangos yr angenrheidrwydd o ailenedigaeth. Mae yn angenrheidiol anhepgorol er iechydwriaeth, Ioan iii. 3. "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Duw." Nid â dim aflan i mewn i'r Ierusalem newydd: ond yr ydych chwi yn hollawl aflan yn eich cyflwr natur. Pe dadgymmelid pob aelod o'r corph, byddai yn ofynedig eu rhyddhau cyn y dodid yr aelodau yn eu lle. Felly mae dy enaid dithau fel y clywaist: am hyny rhaid dy ail-eni; os amgen ni weli di byth mo'r nefoedd, oddieithr *o hirbell*, fel y gwr goludog yn uffern. Na thwylla dy hun: ni ddwg trugaredd Duw na gwaed Crist mo honot byth i'r nefoedd yn dy gyflwr natur: oblegyd ni egyr Duw byth ffynnon trugaredd i olchi ymaith ei sancteiddrwydd a'i wirionedd ei hun; ac ni thywalltodd Crist ei werthfawr waed i ddileu gwirionedd Duw, neu i ddadymchwelyd trefn Duw i achub pechadur. Nefoedd yn wir! beth a wnaech chwi yno heb eich ail-eni? chwychwi na chydffurfiwyd â Christ. Byddai hyny yn olwg chwith! Pen sanctaidd ac aelodau llygredig! Pen yn llawn o drysorau gras, a'r aelodau yn llawn o drysorau drygioni! Pen ufudd hyd angeu, a sodlau yn codi yn erbyn y nefoedd! Nid ydych mewn un modd yn gymmwys i'r gymdeithas uchod, mwy nag anifeiliaid i gymdeithasu â dynion. Yr wyt ti yn casau gwir sancteiddrwydd; ac ar yr olwg gyntaf ar sant yno, ti waeddit allan, "A gefaist ti fi, O fy ngelyn!" Ie, pe byddai fodd i r annuwiolfyned i'r nefoedd yn y cyflwr hwnw, fe a âi yno yn yr un modd ag y mae yn myned i foddion gras yn awr, hyny yw, gadawai ei galon ar ol.

DEFNYDD II. Er galar. Dylem alaru uwch ben dy gyflwr, O! ddyn diadgenhedledig, canys y mae yn gyflwr mwyaf galarus y gall un fod ynddo y tu allan i uffern. Mae yn bryd wylo drosot; canys yr wyt yn farw eisoes, yn farw tra'r wyt yn fyw; yr wyt yn dwyn oddiamgylch enaid marw mewn corph byw; ac am dy fod yn farw ni elli alaru o herwydd dy gyflwr dy hun. Yr wyt yn ffiaidd ger bron Duw; canys yr wyt oll yn llygredig. Nid oes dim da ynot: mae dy enaid yn llawn tywyllwch, gwrthryfel, a drygioni, ger bron Duw. Yr wyt yn meddwl, fe allai, fod genyt galon dda tu ag at Dduw, tueddiadau da, a dymuniadau da: ond fe wyr Duw nad oes dim da ynot, ond bod "tuedd meddylfryd dy galon yn ddrygionus bob amser." Ni elli wneuthur da; ni elli wneuthur dim ond pechu. Oblegyd,

*Yn gyntaf*, Gwas pechod ydwyt, Rhuf. vi. 17. ac felly yn rhydd oddiwrth gyfiawnder, adn. 20. Beth bynag yw cyfiawnder (enaid tlawd) mae yn ddieithr i ti; nid wyt, ac ni elli ymyryd â'g ef. Yr wyt ti tan lywodraeth pechod, llywodraeth na all cyfiawnder gael lle ynddi. Yr wyt yn blentyn diafol ac yn was iddo, (er na fuost erioed yn frudiwr na swynwr;) gan dy fod eto yn dy gyflwr natur, Ioan viii. 44. "O'ch tad diafol yr ydych chwi." Ac i ochelyd camgymeriad, ystyria fod gan satan a phechod ddau fath o weision. (1.) Mae rhai yn gweini, fel ped fai, mewn gwaith garwach: mae y rhai'n yn dwyn nôd y diafol yn eu talcenau, heb un rhith o grefydd; ond yn rhai diras, yn hollawl dywyll, yn anfoesol, heb gymmaint a chyflawni dyledswyddau allanol crefydd, ond yn byw y'ngolwg pawb fel plant y byd, heb synied ond am bethau y byd yn unig, Rhuf. iii. 19. (2.) Mae rhai yn gweini mewn gwasanaeth llyfnach i bechod, y rhai sy'n dwyn nôd y diafol yn eu llaw ddehau, y rhai sydd yn ei guddio o olwg y byd. Mae rhagrithwyr dirgelaidd, yn ymroddi gymmaint i'w natur lygredig, ag y mae y lleill i'r cnawd, Eph. ii. 3. Dinystrir y rhai hyn trwy fasnach mwy dirgelaidd mewn pechod; mae balchder, anghrediniaeth, hunan-gais, a'r cyffelyb, yn heidio i mewn, ac yn ymborthi ar eu heneidiau llygredig hwynt. Mae pob un o'r ddau yn weision yn yr un tŷ; y naill fel y llall yn dra phell oddiwrth gyfiawnder.

*Yn ail*, Pa fodd y gelli di wneuthur daioni, yr hwn y mae dy natur wedi cwbl lygru? A dyf ffrwyth lle na bo gwreiddyn; neu a all fod effaith heb achos? "A ddichon y pren ffigys ddwyn olifaid? neu winwydden ffigys?" Os yw dy natur

yn llygredig, fel mae'n ddiau ei bod, mae'r hyn oll a wnei di felly hefyd: canys ni all effaith fod yn fwy ei rinwedd na'r achos. "A ddichon pren drwg ddwyn ffrwythau da?" Math. vii. 18. O! y fath ddrych truenus yw efe, yr hwn ni all wneuthur dim ond pechu! Tydi yw'r dyn, pwy bynag wyt, ag sydd eto yn ei gyflwr natur, clyw, O bechadur, beth yw dy gyflwr.

*Yn gyntaf,* Mae pechodau aneirif yn dy gylchynu. Mae mynyddoedd o euogrwydd yn gorwedd arnat; llifeiriant o anmhuredd yn dy orchuddio. Mae chwantau byw o bob math yn gwau i fynu ac i lawr yn môr marw dy enaid, lle na all dim da anadlu, o herwydd y llygredd sydd yno. Mae dy wefusau yn aflan; mae agoriad dy enau fel agoriad bedd yn anamserol, yr hwn sydd lawn o ddrewdod a phydredd, Rhuf. iii. 13. "Bedd agored yw eu ceg." Mae dy weithredoedd naturiol yn bechod; "A phan fwytasoch, a phan yfasoch, onid oeddych yn bwyta *i chwi eich hunain,* ac yn yfed *i chwi eich hunain?* Zech. vii. 6. Mae dy weithredoedd galwedigaethol yn bechod, Diar. xxi. 4."âr yr annuwiol sydd bechod." Mae dy weithredoedd crefyddol yn bechod, Diar. xv. 8."—"Aberth yr annuwiol sydd ffiaidd gan yr Arglwydd." Mae bwriad meddylfryd y galon yn unig yn ddrygionus. Buan y cyflawnir gweithred, y llefarir gair, a buan y rhed meddwl trwy'r galon: ond bydd pob un o'r rhai hyn yn chwanegiad yn dy gyfrif di. O gyfrif sobr! yr holl feddyliau, geiriau, a gweithredoedd; cynnifer a hyny o bechodau. Hwyaf y byddi fyw, mwyaf fydd dy gyfrif. Pe defnynid deigryn am bob pechod, rhaid fyddai i'th ben fod yn ddyfroedd, a'th lygaid yn ffynnonau o ddagrau: canys nid oes dim yn dyfod oddiwrthyt ond pechod. Nid yw dy galon yn llunio dim ond meddyliau drwg; nid oes dim yn dy fywyd ond sy'n cael ei lunio yn dy galon; gan hyny nid oes dim yn dy galon na'th fywyd ond pechod.

*Yn ail,* Mae dy holl grefydd, os oes genynt un, yn llafur ofer, o ran cymmeradwyad gydâ Duw, neu o ran effaith achubol it dy hun. Yr wyt ti eto yn dy gyflwr natur; diau gan hyny fod dy ddyledswyddau yn bechod, fel y crybwyllwyd eisoes. Oni byddai y gwin goreu yn ffiaidd mewn llestr budr? Felly y mae crefydd y dyn diadgenedledig. Dan y gyfraith, y dillad yn yn yr hwn y dygid cig yr aberth, er iddo gyffwrdd, â phethau eraill, ni wnaethai hwynt yn sanctaidd; ond os cyffyrddai yr hwn fyddai aflan âg unrhyw beth, cyffredin neu,

sanctaidd, yr oedd yn ei aflanhau. Felly hefyd ni all dy ddyledswyddau wneuthur dy enaid llygredig yn lân, er eu bod ynddynt eu hunain yn dda; canys y mae dy galon aflan yn eu llygru hwynt, ac yn eu aflanhau, Hag. ii. 12, 13, 14. Ti fynasit ddosparthu dy weithredoedd yn ddwy ran; rhai yn dda, a rhai yn ddrwg: ond rhaid i ti gyfrif eto, a rhoi y cwbl dan un pen; canys mae Duw yn ysgrifenu arnynt oll, *drwg yn unig.* Mae hyn yn alarus: Nid rhyfedd fydd gweled rhai yn cardota amser cynhauaf, a fu yn cysgu amser hau. Ond bod un yn llafurus gydag eraill yn y gwanwyn; ac heb ddim i fedi pan ddel y cynhauaf, sydd beth trwm iawn; felly y bydd pob proffeswr fo byw a marw yn ei gyflwr natur.

*Yn olaf,* Ni elli di waredu dy hun. Beth a elli di sy'n hollawl lygredig wneuthur tu ag at symud dy bechod? Dim ni elli di ond pechu. Os bydd i ddyn wrth natur edifarhau, tywallt deigryn am ei bechod, a diwygio; yn ddïoed mae ei galon lygredig yn canfod o leiaf radd o haeddiant yn y pethau hyn: gwnaeth lawer ei hun, (yn ol ei feddwl ef) ac am hyny y gwna yr Arglwydd fwy iddo yntau. Ar yr un pryd nid yw yn gwneuthur dim ond pechu: felly yr haeddiant yw, fod i'r gwahanglwyfus gael ei fwrw y tu allan i'r gwersyll, i'r corph marw gael ei gladdu allan o olwg, ac i'r telpyn llygredig gael ei fwrw i'r pwll. Pa fodd y meddyli wellau dy hun trwy unrhyw beth a wnelych. A ylch llaid a thom fudreddi ymaith? Ac a buri di ymaith bechod trwy bechu? Cymmerodd Iob gragen i ymgrafu â hi, o herwydd bod ei ddwylaw yn llawn cornwydydd fel ei gorph. Fel hyn y mae dy enaid llygredig dithau; ni feddyginiaethir ef, ond gan Iesu Grist, *nerth yr hwn a wywodd fel priddlestr,* Ps. xxii. 15. Yr wyt yn dlawd yn wir, yn dra thlawd a thruenus, Dat. iii. 17. Nid oes genyt un noddfa, ond *noddfa celwydd;* yr un wisg i'th enaid, ond *bratiau budron;* dim i ymborthi arno, ond cibau na allant ddigoni. Mwy na hyny, cefaist y fath ysigtod yn lwynau Adda, yr hwn sydd eto heb ei wellau, fel yr wyt yn wan, Rhuf. v. 6. Yn analluog i weithio trosot dy hun yn iawn; ïe, mwy na'r cwbl, ni elli geisio yn iawn, ond yr wyt fel plentyn "a daflwyd ar wyneb y maes," Ezek. xvi. 5.

Defnydd III. Cynghoraf chwi i gredu y gwirionedd syml hwn. Och! mae'n amlwg, mai ychydig sydd yn ei gredu yn y byd. Ychydig sy'n gofalu am gyfnewid eu hymarweddiad llygredig; ond llai o lawer am gael cyfnewid eu natur. Ychydig sy'n gwybod beth ydynt, ac o ba yspryd y maent.

Maent fel y llygad yr hwn sy'n gweled llawer o bethau, ond nid yw byth yn gweled ei hun. Ond hyd nes gwybyddo pob un bla ei galon ei hun, nid oes obaith am eich gwellad. Pa ham na chredwch hyn? Mae tystiolaeth eglur yr ysgrythyr genych ar y matter; ond yr ydych yn hwyrfrydig i dderbyn y fath dystiolaeth am eich gwaeledd eich hun. Och! dyna natur eich clefyd, Dat iii. 17. "Ni wyddost dy fod yn druan, ac yn resynol, ac yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth." Arglwydd agor eu llygaid i'w weled, cyn iddynt farw o honaw, ac yn uffern godi eu golwg, a gweled yr hyn ni fynant weled yn awr.

Caf gloi y pwngc pwysfawr hwn am lygredigaeth natur, gydag ychydig eiriau mewn golygiad arall ar y testun.

ATHRAWIAETH. *Mae Duw yn sulwi yn fanwl ar ein llygredd naturiol, neu bechod ein natur.* Mae yn tystiolaethu hyn ddwy ffordd, 1. Trwy ei air, megis yn y testun, "A'r Arglwydd a welodd bod holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser."(GwelPs. xiv.2,3.) 2. Trwy ei waith. Mae Duw yn dangos ei sulw neillduol arno, a'i gasineb ato, mewn llawer o'i weithredoedd, ond yn neillduol yn y ddau hyn.

(1.) Yn marwolaeth babanod. Fe'u gwnaethpwyd yn agored i lawer o drueni; fe'u boddwyd yn y diluw, fe'u llosgwyd yn Sodom gan dân a brwmstan, fe'u lladdwyd â chleddyf, fe'u drylliwyd yn erbyn meini, ac y maent yn barhaus yn marw o farwolaeth naturiol. Beth yw'r gwir achos o hyn? Beth yw sail y Duw cyfiawn i ymddwyn fel hyn tu ag atynt? Ai pechod eu rhieni yw'r achos? Gall hyny fod yn *achlysur* i'r Arglwydd ymddwyn fel hyn tu ag atynt; ond eu pechodau eu hunain yw'r achos fod y ddedryd wedi ei chyhoeddi arnynt, canys "yr enaid a becho hwnw a fydd marw," medd Duw, Esek. xviii. 4. Ai eu pechod *gweithredol* eu hunain yw'r achos? Ni phechasant yn weithredol,—Ond fel y gwna dynion gyda nadredd a seirph, y rhai a laddant ar yr olwg gyntaf, cyn gwneuthur o honynt unrhyw niweid, o herwydd eu *natur wenwynig*; felly mae yn yr achos hwn.

(2.) Yn ngenedigaeth etholedig blant Duw. Pan fo'r Arglwydd am gyfnewid eu natur, mae'n gwneuthur i bechod eu natur bwyso yn drwm ar eu hysprydoedd. Pan mae'n bwriadu gollwng y llygredd, mae'r fflaim yn myned yn ddwfn i'w henaid, yn cyrhaeddyd gwraidd y pechod, Rhuf. vii. 7, 8, 9

Mae'r cnawd, neu lwgr natur, yn cael ei wânu a'i groeshoelio, yn gystal a'r "gwyniau a'r chwantau," Gal. v. 24.

Defnydd. Tremiwn yn fanwl ar lwgr a phechadurusrwydd ein natur. Mae Duw yn ei ganfod: O na welem ninnau ef, ac na bai ein pechod yn wastad ger ein bron. Beth dâl i ni sulwi ar bechodau eraill, tra mae y cyn-bechod hwn heb sulwi arno? Trowch eich llygaid i mewn at bechod eich natur: Mae lle i ofni fod y gwaith hwn gan lawer heb ei ddechreu eto; eu bod wedi cau y drws, tra mae y prif leidr yn y tŷ, eto heb ei ganfod. Pwngc pwysfawr yw hwn; ac wrth ei urin,

I. Caf, er argyhoeddiad, nodi pethau a brawf fod dynion heb sulwi ar bechod eu natur, yr hwn y mae'r Arglwydd yn sulwi yn fanwl arno. (1) Mae dynion yn edrych arnynt eu hunain gada'r fath hyder fel pe na baent mewn perygl o bechu yn waradwyddus. Cyfrifai llawer yn achos tramgwydd mawr, pe rhybuddid hwynt fel y rhybuddiodd Crist ei ddisgybion, "Gochelwch lythineb a meddwdod," Luc. xxi 34. Pe tybiai neb y byddai iddynt hwy dori allan mewn pechod amlwg a gwrthun, byddent yn barod i ddywedyd," ai ci ydwyf fi?" codai a chynnyrfai balchder eu calon, ac nid eu hofn a'u dychryn, canys nid ydynt yn adnabod llwgr eu natur. (2) Annhosturi tu ag at y rhai a gwympasant. Mae llawer ar yr achos hwn, heb un gradd o dosturi cristionogol; canys nid ydynt yn *eu hystyried eu hunain, rhag eu temtio hwythau*, Gal. vi. 1. Mae dynion yn beio fwyaf ar bechodau rhai eraill, pan fo pechod yn cysgu drymaf yn ei calonau eu hunain. Dafydd gyfiawn, pan ydoedd yn ei fai, yr oedd fwyaf creulon yn erbyn beiau eraill. Pan oedd ei gydwybod yn cysgu dan ei fai, yn achos Uriah, mae Yspryd yr Arglwydd yn sulwi, fod, "ei ddigofaint yn ennyn yn ddirfawr wrth y gwr;" yn y ddammeg, 2 Sam. xii. 5. Ac ar seiliau da gellir meddwl, mai ar yr un amser y triniodd ef yr Ammoniaid mor greulon, fel y dywedir yn adn. 31, "efe a'u gosododd dan lifiau, a than ogau heiyrn, a than fwyill heiyrn, ac a'u bwriodd hwynt i'r odynau calch." Er fod gras yn gwneuthur dynion yn eiddigeddus yn erbyn pechod mewn eraill, yn gystal ag ynddynt eu hunain; er hyny mae y llygaid a agorir i ganfod llwgr natur, yn cael eu lleuwi â thosturi at y personau, ac â diolchgarwch i'r Arglwydd am mai nid hwy yw y dynion sydd wedi cael eu gadael yn ddrychau o ffaeledd dynol. (3) Mae llawer, os cedwir hwy rhag cystuddiau yn y byd, ac oddiwrth bechodau ffiaidd a

chyhoeddiu, nas gwyddant ddim am galon alarus. Os ey
aifyddant a chroes anhawdd i'w calon falch ei goddef, byd
ant barod i ddywedyd, O am fyn'd o'r byd! ond nid yw llw
eu natur byth yn gwneuthur iddynt hiraethu am y nefoed
Chwantau yn tori allan yn waradwyddus ar unrhyw amser
derfysga eu heddwch; ond nid yw pechod eu natur un ams
yn peri achos galar iddynt. (4.) Oedi edifarhau mewn bwri
i wneuthur hyny drachefn. Mae gan lawer eu hamser pe
odol i edifarhau a diwygio, fel pe baent yn gymmaint o feis
riaid ar eu chwantau, fel y gallant adael iddynt gryfhau llawe
a'u gorchfygu drachefn. Maent yn penderfynu diwygio, h
un golwg ar Grist, undeb ag ef, na chael nerth ganddo; pra
amlwg nad ydynt yn eu hadnabod eu hunain; ac felly mae
yn cael eu gadael iddynt eu hunain, ac y mae ei hymroiad
blodeuog oll yn gwywo; canys fel nad ydynt yn gweled
angenrheidrwydd, nid ydynt yn derbyn bodd y gwlith o'r ne
oedd i'w dyfrhau hwynt. (5.) Mae dynion yn anturio o
bodd i wyneb temtasiwnau, ac yn addaw yn dda iddynt
hunain. Maent yn bwrw eu hunain yn ddiofn i afael ter
tasiwn, gan hyderu dyfod allan yn iach: ond pe baent dei
ladwy o lwgr eu natur, gochelent anturio i dir y gelyn;
un wedi ei lwytho a phowdr, yn ofni cerdded lle byd
gwreichion yn ehedeg, rhag y chwythid ef i fynu. Mae hu
an-amheuaeth yn gweddu yn dda i bob cristion, " Arglwy
ai myfi yw?" Ni fydd yr hwn sy'n adnabod twyll ei fwa
hyderus o daro y nod. (6.) Anadnabyddiaeth o bla eu ca
onau. Peth anfynych yw adnabyddiaeth o bla'r galon. M
peth o hono yn wir wedi ei ysgrifenu mor amlwg, fel y rhe
yr hwn a'i darlleno, ond mae peth arall mor ddirgel nad o
ond ychydig yn ei ganfod. Anaml yw y rhai y mae tuedd
galon i anghredu, yn faich iddynt: ïe, nid ydynt yn ei ganfo
Mae llawer wedi eu hargyhoeddi o amryw o bechodau era
na argyhoeddwyd hwynt erioed o'u anghrediniaeth; er m
dyna y pechod yr amcenir ato fwyaf mewn gwir argyhoeddia
Ioan xvi. 8, 9, " Efe a argyhoedda y byd o bechod,—am n
ydynt yn credu ynof fi." Mae y tueddiad o osod i fynu e
cyfiawnder ein hunain, yn chwyn sy'n tyfu yn naturiol
nghalon pob dyn, ond ychydig sy'n chwysu i geisio ei d
wreiddio: ond y mae'n llechu dan gudd. Mae tuedd y galon i ffor
y cyfammod gweithredoedd, yn bla calon, cuddiedig oddiwr
lawer. Yr holl anhawsder mae llawer yn ei ganfod, yw ca
eu calon at ddyledswyddau: nid oes un anhawsder ynddyn

gael eu calonau oddiwrthynt, a thrwyddynt at Iesu Grist.—Mor anhawdd yw dwyn dynion oddiwrth eu cyfiawnder eu hunain. Ie, mae'n anhawdd iawn dangos iddynt eu bod yn gogwyddo ato mewn un modd. *Yn olaf,* Balchder a hunan-dyb. Byddai golwg ar lygredigaeth natur yn ostyngeiddrwydd mawr, canys fe barai hyny i ddyn ei gyfrif ei hun yn benaf o bechaduriaid. Yn wyneb ei ddoniau a'i gyrhaeddiadau mwyaf byddai yn *falastr* i'w galon, ac a guddiai falchder o'i olwg.—Diffyg gwir ostyngeiddrwydd yn tarddu oddi ar olwg ar lygredigaeth natur, yw dinystr llawer o grefyddwyr; canys mae *cloddio yn ddwfn,* yn gwneuthur gwahaniaeth mawr rhwng "adeiladwr doeth a ffol," Luc. vi. 48, 49.

II. Gosodaf o'ch blaen ychydig bethau, yn yr hyn, dylai fod genych olwg neillduol ar lwgr eich natur. (1) Edrychwch yn graff arno, wrth ddefnyddio Crist. A ydych chwi yn gweled eisieu Crist, yn y fath fodd ag yr ydych yn myned ato fel Meddyg eich enaid? O nac anghofiwch y clefyd hwn tra yr ydych gyda'r Meddyg! Y rhai nad aethant at Grist yn achos pechod eu natur, ni wyddant eto yn iawn am eu neges; nac am eu heisiau o'i waed ef i dynu ymaith yr euogrwydd o hono, a'i Yspryd i'w ddarostwng. Er yn chwerwder eich enaid, gallech osod o'i flaen ef gofrestr o'ch holl bechodau, yn cyrhaeddyd o'r ddaear i'r nefoedd; eto os anghofiwch gofrestru pechod eich natur yn eu plith, bydded sicr i chwi anghofio y rhan oreu o'r neges sydd gan bechadur tlawd gyda Meddyg enaid. Gwaith ofer fuasai i bobl Jericho, i ddwyn ger bron Eliseus yr holl ystenau oedd yn eu dinas yn llawn o'r dwfr drwg, heb ei arwain ef at y ffynnonell i fwrw yr halen iddi. 2 Bren. ii. 19, 20, 21. Mae'r cymhwysiad yn dra hawdd. (2) Tremiwch arno yn eich edifeirwch, pa un bynag ai dechreuol ai cynnyddol; yn eich edifeirwch cyntaf, ac yn adnewyddiad eich edifeirwch hefyd. Er i wr fod yn glaf, nid oes perygl o farw, os na fydd y clefyd yn cyrhaeddyd y galon: felly nid oes berygl am farwolaeth pechod, cyhyd ag y bo pechod ein natur heb ei gyffwrdd. Ond os edifarhewch chwi mewn gwirionedd, arweinied y ffrwd chwi hyd at y ffynnonell; a galerwch uwch ben pechod eich natur, fel yr achos o bob pechod mewn calon, geiriau, a bywyd, Psal. li. 4, 5. "Yn dy erbyn di, dydi di hunan y pechais, ac y gwneuthum y drwg hwn yn dy olwg." Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." (3.) Cedwch olwg neillduol arno wrth farweiddio pechod, "A'r rhai sydd eiddo Crist, a

groeshoeliasant y cnawd." Gwreiddyn chwerwedd yw, y mae'n rhaid ei dori; a gosod bwyell marwhad ar ei wreiddyn, heb yr hyn bydd ein llafur yn ofer. Ofer y mae dynion yn trafferthu i buro y ffrydiau, tra y maent yn ddidrafferth yn nghylch y ffynnonell fudr: crefydd ofer yw ymgais am wneuthur y bywyd yn dda, tra mae llygredigaeth natur yn cael ei rwysg blaenorol, a'i allu heb ei ddarostwng. *Yn olaf*— Dylech sylwi arno yn eich rhodiad beunyddiol. Yr hwn a fyno rodio yn uniawn, dylai godi un llygad i fynu at Grist, a throi 'r llall i lawr iddo ei hun at lygredigaeth ei natur. Nid digon i ni edrych o'n hamgylch, rhaid i ni edrych i mewn i ni ein hunain. Yno mae'r mur wânaf; yno mae'n gelyn mwyaf yn llechu; ac yno y mae'r achos penaf o wyliadwriaeth a galar.

III. Nodaf rai rhesymau paham y dylem sylwi'n neillduol ar bechod ein natur. 1. Oblegyd o'r holl bechodau efe yw yr eangaf a'r helaethaf Mae'n myned trwy 'r holl ddyn, ac yn difwyno y cwbl. Mae pechodau eraill yn dinystrio rhanau neillduol o ddelw Duw; ond mae hwn yn anaddurno y cyfan ar unwaith. Mae clefyd a effeithio ar ryw ran neillduol o'r corph yn ddrwg; ond mae'r hwn sy'n effeithio ar y corph i gyd yn waeth. Gwenwyn yr hen sarph yw llwgr natur, wedi ei fwrw i ffynnonell y galon; ac felly yn effeithio ar bob gweithred, a phob anadliad i'r enaid.

2. Efe yw'r achos o'r holl chwantau llygredig, a phechodau gweithredol yn ein calon a'n bywyd; grawn yw, a adawodd y Lefiathan mawr yn eneidiau dynion, o'r lle y tardd y mân bysg o bechodau gweithredol a phob brynti, Marc. vii. 21. "Allan o galon dyn y daw drwg feddyliau, godineb," &c. Dyma'r ffynnon chwerw: ac nid yw chwantau neillduol ond ffrydiau yn rhedeg o honaw; y rhai sy'n dwyn i'r fuchedd ranau o honaw, ac nid y cyfan o'r hyn sydd tu mewn. Felly mae'r ffynnon bob amser uwchlaw'r ffrydiau; a phan fo'r dwfr yn dda, mae'n well yn y ffynnon; pan fo'n ddrwg, mae'n waeth yno. Gan fod llygredigaeth natur yn beth sy'n llygru y cwbl, mae'n rhaid ei fod ef ei hun yn beth ffiaidd iawn.

3. Mewn effaith efe yw'r holl bechod: canys hadau pob pechod yw; ac nid oes arnynt ond eisiau achlysuron i godi eu pènau, canys maent yn llwgr ein natur, fel yr effaith mewn achos. Oddiyma y gelwir ef *corph y farwolaeth*, (Rhuf vii. 24,) fel un yn cynnwys y gwahanol aelodau sy'n perthyn i'r cyfryw gorph o bechodau, (Col. ii. 11.) bywyd yr hwn sydd yn

y farwolaeth ysprydol· Efe yw tir y felldith, cymmwys i ddwyn pob math o chwyn niweidiol. Canys fel y mae nythiad o greaduriaid gwenwynig yn fwy dychrynllyd na rhyw ychydig a ymlusgo allan; felly mae pechod dy natur, mam pob ffieidd-dra, yn waeth nag un pechod neillduol sy'n tori allan yn dy galon a'th fywyd. Ni thorodd pob pechod allan yn ymarweddiad y dyn gwaethaf fu erioed ar y ddaear; ond edrych di i lwgr dy natur, ac yno y cai weled pob pechod yn ei had a'i wreiddyn. Mae cyflawnder o bob anghyfiawnder yno, Rhuf. i. 29. Mae yno ddidduwiaeth, eilunaddoliaeth, cabledd, llofruddiaeth, godineb, a phob aflendid. Fe allai nad wyt ti yn canfod yr un o'r rhai hyn yn dy galon: ond mae mwy yn y dyfnder diwaelod hwn o ddrygioni nag a wyddost ti. Mae dy galon lygredig fel nyth y morgrug, yr hwn tra mae'r garreg arno, maent yn anweledig: ond tyner y garreg, a chynhyrfwch hwynt, â dim ond blaen gwelltyn, cewch weled y fath haid sydd yno, ac mor fywiog fyddant. Y fath olwg a hyn roddai dy galon i ti, pe tynai yr Arglwydd yr attalfa a roes arni, a goddef i Satan ei chyffroi trwy ei demtasiwn.

4. Pechod ein natur, yw y mwyaf sefydledig ac arosol o'r holl bechodau. Mae gweithredoedd pechadurus, er y gall yr euogrwydd a'r gwarthrudd o honynt aros, etto ynddynt eu hunain maent yn myned heibio. Nid yw y meddwyn bob amser gyda'i gwpan, na'r aflan bob amser yn gweithredu hrynti. Ond mae llwgr natur yn bechod arosol; mae yn aros gyda dynion yn ei lawn nerth ddydd a nos, yn wastad, wedi ei sicrhau fel â gefynau haiarn a phres, nes cyfnewidir eu natur trwy ras; ac y mae ei weddillion yn aros yn y duwiol, nes i'w gorph farw. Nid yw balchder, llid, cybydd-dod, a'r cyffelyb, bob amser yn cynhyrfu ynot ti; ond mae dy natur falch, gynfigenus, a chnawdol, bob amser gyda thi: mae fel yr awrlais fo'n anghywir, er nad yw bob amser yn taro yn anghywir, eto y mae ei anghywirdeb ef yn parhau yn ddigyfnewid.

5. Efe yw'r pechod mawr sy'n teyrnasu, Rhuf. vi. 12, "Na theyrnased pechod yn eich corph marwol, i ufuddhau o honoch iddo o ran ei chwantau." Mae tri pheth i'w ystyried yn y galon lygredig. (1.) Yno mae'r natur lygredig; tueddiad llygredig y galon, trwy yr hyn y mae dynion yn analluog i wneuthur da, ac yn gallu gwneuthur drwg. Dyma yr hyn a eilw yr Apostol yn bechod *sy'n teyrnasu*. (2.) Mae chwantau neillduol, neu dueddiad y natur lygredig, yr hyn a eilw yr

Apostol *ei chwantau;* megis balchder, cybydd-dod, &c. (3) Mae un yn mhlith y rhai hyn, fel Saul yn mhlith y bobl, yn dalach o lawer na'r lleill, sef "Y pechod sydd barod i'n hamgylchu," Heb. xii. 1. Hwn a alwn ni y pechod sy'n rheoli; o herwydd ei fod, fel ped fai, yn teyrnasu ar y chwantau neillduol eraill, fel mae'n rhaid i chwantau eraill ymddarostwng iddo. Mae y tri hyn fel afon sy'n ymwahanu yn llawer o ffrydiau, ac un o honynt yn fwy na'r lleill. Llygredigaeth natur yw y brif afon, a chanddi lawer o chwantau neillduol yn y rhai y mae hi yn rhedeg; ond yn benaf mae yn ymarllwys i'r hyn a elwir yn gyffredin, y pechod cryfaf. Yn awr gan fod y rhai hyn oll yn cael eu porthi gan bechod ein natur, mae'n amlwg, mae y pechod sydd yn wastadol yn cadw'r oruchafiaeth, yw yr hwn sy'n teyrnasu, ac wrtho ef a thrwyddo ef y maent yn byw ac yn marw. Ond fel y mae mewn rhai afonydd, nid yw y ffrwd fwyaf bob amser yn rhedeg ar hyd yr un dyfrlle; felly gall y chwantau cryfaf gael eu newid, megis y gall chwant y cnawd mewn ieuengctyd, gael ei newid i gybydd-dod mewn henaint. Yn awr pa lesad yw diwygio mewn pethau eraill, tra mae y pechod sy'n llywodraethu yn ei gyflawn nerth? Er i rai chwantau neillduol gael eu gwanhau, os bydd y pechod hwnw, sef pechod ein natur ar yr orsedd, gesyd un arall i fynu yn eu lle; fel ffrwd redegog, os attelir hi yn un man, tra mae'r ffynnon heb ei hattal, hi a ffrydia allan ffordd arall. Ac fel hyn mae rhai yn rhoi heibio eu hafradlonrwydd, ond mae cybydd-dod yn dyfod yn ei le: rhai a fwriant ymaith eu pechodau cyhoeddus, ac nid yw llwgr natur yn gyru ei phrif ffrwd y ffordd hono mwy; ond hi a red hyd ddyfrlle arall, sef yspryd deddfol a hunan-gyfiawn, a'r cyffelyb. Felly mae dynion yn cael eu dinystrio am nad ydynt yn canfod pechod eu natur.

*Yn olaf,* Pechod treftadol yw, Ps. li. 5. "Mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Nid yw chwantau neillduol felly, ond trwy effaith eu hachos. Gall fod gan dad afradlon, fab cynnil; ond mae'r clefyd hwn wedi ymdaenu drwy holl natur, ac felly yr anhawsaf ei feddyginiaethu. Sicr gan hyny, dylid rhoi y gair allan yn erbyn y pechod hwn, fel yn erbyn brenin Israel, 1 Bren. xxii. 31. "Nac ymleddwch â bychan na mawr, ond â brenin Israel yn unig." Canys pan dorir y pechod hwn, mae yr holl bechodau eraill yn cael eu cyd-dori; a thra safo i fynu, ni cheir buddugoliaeth.

IV. Er mwyn i chwi gael golwg ar lwgr eich natur, gosodaf o'ch blaen dri pheth: (1.) Ystyriwch ysprydolrwydd ac ëangder deddf Duw, canys dyna y drych yn yr hwn y gellwch weled eich hun. (2.) Ystyriwch eich calon bob amser, yn enwedig dan demtasiwn. Tân yw temtasiwn, sy'n berwi i fynu anmhuredd y galon halogedig. A ydych chwi yn sylwi yn fanwl ar gynhyrfiad cyntaf llygredigaeth? *Yn olaf*, Ewch at Dduw, trwy Iesu Grist, am oleuni ei Yspryd. Tywelltwch eich calon ger ei fron ef, a dymunwch gael gwybod llwgr eich natur: a dywedwch wrtho, "yr hyn ni wn, dysg di fi;" a byddwch foddlon i dderbyn goleu y gair. Trwy 'r gair mae'r Yspryd yn dysgu. Credwch a chwi a gewch weled. Ond heb ddysgeidiaeth yr Yspryd, bydd y cwbl yn ofer. Er y gall yr efengyl dywynu o'ch amgylch, fel yr haul ganol dydd; ac i'r gwirionedd pwysig hwn gael ei bregethu yn dra amlwg; ni welwch eich hun byth yn iawn, hyd nes goleuir chwi gan Yspryd yr Arglwydd. Nid yw cyflawnder a gogoniant Crist, a llygredigaeth eich natur, byth yn cael eu dangos yn iawn, ond lle bo Yspryd Crist yn eu datguddio.

Ac yn awr i ddybenu gyda'r pwngc pwysfawr hwn, bydded ystyriaethau o'r pethau a ddywedwyd, ddangos gwerth Crist i chwi oll. Chwychwi a ddygwyd o'ch cyflwr natur at Grist, byddwch ostyngedig; gan ddyfod at Grist yn barhaus er adnewyddiad profiadol o'ch undeb âg ef, a marwhad ychwanegol ar weddillion llygredigaeth Os cyfnewidiwyd eich natur, eto mewn rhan. Y dydd a fu nis gallech syflyd: yn awr yr ydych wedi eich gwellau, ond cofiwch yr ydych heb eich llwyr iachau; yr ydych eto yn cerdded yn gloff. Ac er eich bod yn well nag y buoch, dylai coffadwriaeth o'r hyn oeddych wrth natur eich cadw yn isel. Chwychwi sydd eto yn eich cyflwr natur, derbyniwch yr athrawiaeth: credwch lygredigaeth eich natur; a bydded Crist a'i ras yn werthfawr yn eich golwg. O na fyddech bellach yn sobr yn nghylch cyflwr eich enaid! Beth ydych yn ei feddwl? rhaid i chwi farw; rhaid i chwi ymddangos ger bron brawdle Crist. A orweddwch chwi ac a gysgwch chwi noswaith eto yn y cyflwr hwn? na wnewch: canys cyn y foru fe allai y gelwir chwi o flaen gorseddfaingc Duw yn nillad bedd eich cyflwr llygredig; ac y bwrir eich enaid tlawd i bydew dinystr, fel telpyn llygredig i gael ei gladdu byth o wydd Duw. Yr wyf yn tystio wrthych oll, nad oes heddwch â Duw, maddeuant, na nefoedd i chwi yn y cyflwr hwn: nid oes ond cam rhyngoch a dinystr

tragywyddol o olwg yr Arglwydd. Bydded sicr i chwi, pe torid edau frau eich bywyd, tra y byddoch yn y cyflwr hwn, byddech wedi eich dinystrio am byth, heb un feddyginiaeth. Ond brysiwch at Grist; glanhaodd rai mor aflan a chwithau; ac efe a wna eto, *efe a lanha waed y rhai nis glanhaodd,"* Ioel iii. 21. Cymmaint a hyn am bechadurusrwydd cyflwr dyn wrth natur.

# PEN II.

## TRUENI CYFLWR DYN WRTH NATUR.

EPHESIAID II. 3.

*Yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint, megis eraill.*

WEDI dangos i chwi bechadurusrwydd cyflwr dyn wrth natur, dangosaf i chwi yn awr ei druenusrwydd. Ni all cyflwr pechadurus fod ond truenus. Os rhagflaena pechod, mae digofaint yn sicr o'i ddilyn. Mae llygredigaeth a dinystr wedi eu clymu yn nghyd, fel mae'r Yspryd Glân yn galw dinystr, sef dinystr tragywyddol, yn *llygredigaeth.* Gal. vi. 8, "Yr hwn sy'n hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fed lygredigaeth," hyny yw, dinystr tragywyddol; fel mae'n amlwg trwy ei fod yn cael ei gyferbynu â bywyd tragwyddol yn y geiriau nesaf. Ac felly mae'r Apostol wedi dangos i'r Ephesiaid eu cyflwr wrth natur, sef, eu *bod yn feirw mewn camweddau a phechodau,* yn hollawl lygredig; mae'n dywedyd wrthynt yn ngeiriau y testun, eu cyflwr perthynol, sef fod y pwll wedi ei gloddio iddynt, [illegible] yn eu cyflwr natur; yn feirw mewn pechodau, ac. "wrth naturiaeth yn blant digofaint, megis eraill."

Yn y geiriau hyn cawn bedwar peth;

I. Trueni cyflwr natur; mae yn gyflwr o ddigofaint, yn gystal a chyflwr o bechod Yr oeddym ni, medd yr Apostol, wrth naturiaeth *yn blant digofaint*, yn rhwym i ddyoddef digofaint Duw; dan ddigofaint i ryw fesur; ac, mewn digofaint, yn rhwym i fwy, ïe, i lawn fesur o hono yn uffern, lle mae ei lifeiriant yn gorlifo tros y carcharorion am byth. Saul yn ei ddigofaint a farnodd Dafydd i farw, (1 Sam. xx. 31.) a Dafydd, yn ei ddigofaint, a gyhoeddodd farn marwolaeth yn erbyn y gwr yn y ddammeg, (2 Sam. xii. 5.) meddai pob un o'r ddau, am eu tybiol ddrwg weithredwr, *gan farw y bydd farw*: neu, fel mae'r geiriau yn yr iaith wreiddiol, *mab marwolaeth yw.* Felly mae dyn wrth natur yn blentyn digofaint, yn fab marwolaeth. Drwg weithredwr yw, yn farw yn wyneb y gyfraith, yn gorwedd yn nghadwynau euogrwydd; troseddwr yn rhwym mewn cadwynau hyd ddydd y dienyddiad; yr hwn a ddaw yn ddiau, oni cheir maddeuant oddiwrth Dduw, yr hwn yw ei farnwr a'i bleidiwr hefyd. Trwy hyny gall plant digofaint gael eu dwyn yn blant y deyrnas. Mae geiriau y testun, er mor gyffredin ydynt yn y Bibl, yn dra phwysig.—Ac eglur yw fod yr Apostol wrth alw dynion wrth natur yn blant yr anufudd-dod, (adn. 2.) yn meddwl mwy na'u bod yn blant anufudd: canys gall fod plant yr Arglwydd felly. Yr un modd y mae bod yn blant digofaint yn arwyddo mwy na bod yn ddarostyngedig i, neu dan ddigofaint. Yr oedd Crist yn ddarostyngedig i ddigofaint, a than ddigofaint; ond nid oes genym sail i ddweyd ei fod *yn blentyn digofaint*. Mae'r adnod yn dangos fod pob dyn yn ei gyflwr natur yn hollawl dan ddigofaint Duw; mae digofaint, fel ped fai, wedi ei wau yn eu natur, ac wedi ymgymmysgu â'r holl ddyn; yr hwn sydd (os gellir dweyd felly) yn delpyn o ddigofaint, yn fab uffern, fel y mae'r haiarn yn y tân, yn dân i gyd. Canys mae dynion wrth natur *yn blant digofaint*: yn dyfod allan, mewn dull o ddweyd, o groth digofaint; fel yr oedd cicaion Ionah, "mewn noswaith y bu," neu yn ol yr Hebraeg, *mab noswaith oedd*. fel pe daethai o groth y nos, (fel y darllenwn am *groth y wawr*, Ps. cx. 3) felly aeth yr esgoriad i ganlyn y groth o'r hon y daethai allan, diflanasant. Gelwir *gwreichion tân*, yn *feibion y marwor tanllyd*, Iob. v. 7, ar ymyl y ddalen. Esay xxi. 10. "O fy nyrniad, a chnwd (neu fab) fy llawr dyrnu." yn cael ei ddyrnu yn llawr dyrnu digofaint, ac, fel ped fai, wedi ei esgor o hono. Gwelwch wrth hyn, fod dyn anianol *yn blentyn digofaint*: "daeth fel dwfr i'w fewn ef, ac fel olew i'w

esgyrn," Ps. cix. 18. Er mai Iudas oedd unig fab y *golledigaeth* yn mysg yr Apostolion, eto mae pawb, wrth natur, o'r un teulu.

2. Dyma wreiddyn y trueni hwn; mae efe mewn dynion *wrth natur.* Dylent ei gydnabod i eu natur, nid i eu sylwedd neu eu hanfod; canys nid yw, ac ni fu hwnw yn bechod, ac am hyny n's gall eu gwneyd yn blant digofaint; eto am bechod gall hwnw fod *dan ddigofaint:* nid i eu natur fel y gwnaeth y Creawdwr hi; ond i eu natur *fel y mae wedi ei llygru trwy y cwymp;* i gynneddfau ansanctaidd a llygredig eu natur, (fel y dywedwyd o'r blaen) yr hyn yw eu hegwyddor i weithredu neu i beidio gweithredu, yr unig egwyddor yn y dyn diadgenedledig. Yn awr, trwy y natur hon, mae dynion *yn blant digofaint;* fel mewn amser pla heintus, mae angeu yn dyfod i mewn gyda'r clefyd. Felly cyn gynted ag yr ydym yn blant Adda yr ydym yn blant llygredig, wedi ein llunio mewn anwiredd, a beichiogi arnom mewn pechod; yr ydym hefyd o'r munud hwnw *yn blant digofaint.*

3. Cyffredinolrwydd y trueni hwn. Mae pawb wrth natur yn blant digofaint; *ni,* medd yr Apostol *megys eraill,* Iuddewon a chenhedloedd. Y rhai hyny sydd yn awr trwy ras yn blant Duw, nid oeddynt wrth naturiaeth mewn gwell cyflwr, na'r rhai sydd eto yn eu cyflwr natur.

*Yn olaf,* Mae cyfnewidiad gogoneddus yn cael ei ddangos yma; *yr oeddym* yn blant digofaint, ond *nid ydym* felly yn awr. Dygodd gras ni o'r sefyllfa ddychrynllyd hono. Hyn mae'r Apostol yn ei ddywedyd am dano ei hun ac eraill sy'n credu. Ac felly mae'n gweddu i bobl Dduw fynych sefyll ar y lan, ac edrych yn ol i'r môr coch o gyflwr o ddigofaint, y buont cyn hyn yn ymdrabaeddu ynddo fel eraill.

---

## *Mae Cyflwr Dyn wrth Natur yn Gyflwr o Ddigofaint.*

ATHRAWIAETH, *Mae cyflwr natur, yn gyflwr o digofaint.* Mae pob dyn diadgenedledig, mewn cyflwr o ddigofaint. Yr ydym wedi ein *geni yn blant digofaint;* ac yn parhau felly nes ein *hail eni.* Ië cyn gynted ag yr ydym yn blant Adda yr ydym yn blant digofaint.

Mi ddechreuaf ar y pwngc hwn, gydag ychydig sylwadau ar gyffredinolrwydd y cyflwr hwn o ddigofaint; i'r dyben a

barotoi ffordd y gwirionedd i'ch cydwybod.

Mae digofaint wedi myned cylled ag yr aeth pechod. Pan bechodd yr angylion, daeth digofaint Duw arnynt fel llifeiriant, "Canys oni arbedodd Duw yr angylion a bechasant, eithr eu taflu hwynt i uffern," 2 Pedr ii. 4. Ac wrth hyn dangosodd, nad oes un ardderchawgrwydd naturiol yn y creadur, a'i diogela rhag digofaint Duw, pan unwaith y pecho. Y creadur harddaf ac ardderchocaf o waith Duw, os trwy bechod y difwynir delw Duw yr hon oedd arno ef, fe all Duw ac efe a wna ei falurio ef yn chwilfriw yn ei ddigofaint; oddieithr gwneyd iawn i gyfiawnder, ac adgyweirio y ddelw. Ac ni all y pechadur ei hun wneuthur yr un o'r ddau. Pechodd Adda; a lefeiniwyd holl gorph y natur ddynol, ac y maent yn rhwym i ffwrnes danllyd digofaint Duw. Ac oddiwrth y testun gellwch ddysgu, (1) Ni all anwybodaeth am y sefyllfa hon ryddhau neb oddiwrthi. Yr oedd y cenedloedd y rhai nad adwaenent Dduw, wrth natur yn blant digofaint fel eraill Gall tŷ gwr fod ar dân a'i wraig a'i blant yn trengu yn y fflamau, ac yntau heb wybod am hyny, ac felly heb ofalu ynghylch y peth; y cyfryw yw'ch cyflwr chwithau, O chwychwi sy'n anwybodus o'r pethau hyn! mae digofaint yn dirgel soddi i'ch enaid, tra'r y'ch chwi yn gwenieithio i chwi eich hunain, gan ddywedyd, heddwch fydd i ni. Nid rhaid i chwi gael arwydd eglurach o'ch bod yn blant digofaint, na'ch bod erioed eto heb weled eich hunain y cyfryw. Ni ellwch chwi fod yn *blant Duw*, y rhai ni welsoch eich bod wrth natur yn *blant diafol*. Ni ellwch chwi fod ar ffordd i'r nefoedd, y rhai ni welsoch eich hunain erioed ar y ffordd i uffern. Yr ydych yn hollawl anwybodus o'ch cyflwr wrth natur; ac felly yn anwybodus o Dduw, a Christ, a'ch eisieu o hono: ac er eich bod chwi yn edrych ar eich anwybodaeth fel lloches rhag digofaint; eto cymmerwch air Duw ei hun ar yr achos, sef y distrywia ef chwi oni symmudir ef, Esay xxvii. 11. "Canys nid pobl ddeallgar ydynt; am hyny yr hwn a'u gwnaeth ni thosturia wrthynt." Gwel 2 Thess. i. 8. Hosea iv. 6. (2.) Ni all breintiau moddion allanol ryddhau dynion o'r cyflwr hwn o ddigofaint; canys yr oedd yr Iuddewon, plant y deyrnas, pobl neillduol i Dduw, yn blant digofaint megis eraill. Er i chwi fod yn aelodau eglwysig, yn gyfranogion o holl freintiau eglwysig; er i chwi fod yn deilliaw o rieni duwiol, o deulu parchus ac anrhydeddus; byddwch y peth y b'och, yr ydych wrth natur yn etifeddion uffern, yn blant digofaint. (3.) Ni

ddichon proffes, na'r holl gyrhaeddiadau mewn proffes o grefydd; ryddhau dyn o'r cyflwr hwn o dd'gofaint. Yr oedd Paul yn un o'r sect fanylaf o'r grefydd Iuddewig, Act. xxvi. 5. eto yn blentyn digofaint megis eraill, hyd ei ddychweliad. Mae y rhagrithiwr manwl, a'r halogedig, yr un o ran eu cyflwr, pa mor wahanol bynag y bo eu bywyd, a'r un diwedd arswydus fydd iddynt, Ps. cxxv. 5, "Ond y rhai a ymdröant i'w trofeydd, yr Arglwydd a'u gy'r gyda gweithredwyr anwiredd." (4.) Y rhai ieuaingc, ar eu cychwyniad allan i'r byd, nid oes ganddynt hyny i'w wneuthur, sef gwneyd eu hunain yn blant digofaint, trwy ddilyn y lliaws diras; maent yn blant digofaint wrth naturiaeth; felly mae hyn wedi ei wneuthur eisoes; fe'u ganwyd yn etifeddion uffern. Ond gwnant eu hunain yn fwy felly, os na fydd iddynt ffoi yn ieuangc at Iesu Grist, rhag y digofaint y ganwyd hwy iddo — *Yn olaf*, Beth bynag yw dynion yn awr trwy ras, yr oeddynt megis eraill wrth natur. A dylai hyn fod yn achos galar i'r rhai fu'n dawel o'u ieuengctyd, ac heb un cyfnewidiad.

Yn awr, wedi rhag-grybwyll y pethau hyn, caf, yn y lle cyntaf, ddangos beth yw y cyflwr hwn o ddigofaint; yn nesaf, cadarnhau yr athrawiaeth; ac wedi hyn ei chymhwyso.

I. Yr wyf i ddangos beth yw y cyflwr hwn. Ond pwy a all gyflawn ddarlunio llid Duw digllawn? Neb; ond gellir canfod cymmaint o honaw, ag a attebo y dyben i ddangos iddynt angenrheidrwydd i ffoi at Iesu Grist, o'r cyflwr hwn o ddigofaint. Digter mewn dyn sydd nwyd a chyffroad yr yspryd am gam a gafwyd, gyda dymuniad i ddïal am y cyfryw. Pan ddel i'w nerth, a sefydlu yn ein hyspryd, gelwir ef yn *ddigofaint*. Yn awr nid oes *nwydau* yn Nuw. Mae nwydau yn anghydunol â'i hollawl anghyfnewidioldeb a'i annymddibyniaeth ef: ac am hyny, Paul a Barnabas, i argyhoeddi y Lycaoniaid o'u camgymmeriad, y rhai a dybient mai duwiau oeddynt, a ddywedasant *mai dynion oeddynt*, (yn ol y saesoneg) *o'r cyffelyb nwydau â hwythau*, Act. xiv. 15. Priodolir digofaint gan hyny i Dduw, nid fel *nwyd* digofus, ond fel yr *effaith* o hono. Mae digofaint yn dân yn ymysgaroedd gwr, yn poeni y dyn ei hun; ond nid oes dim terfysg meddwl yn Nuw. Nid yw ei ddigofaint ef mewn un gradd yn terfysgu y llonyddwch a'r dedwyddwch sydd ganddo ef ynddo ei hun:— Gweithred bur a digyffro ei ewyllys ydyw, etto yn dra dychrynllyd i'r pechadur. Ychydig a wyddom ni am y Duw anfeidrol; ond gan ymddarostwng at ein gwendid, gwelodd yn

ddu lefaru am dano ei hun mewn dull dynol. Sylwn gan hyny ar ddigofaint dyn, gan gadw allan, wrth feddwl am ddigofaint Duw, bob math o anmherpheithrwydd; ac fell, ni a gawn olwg fer ar ddigofaint Duw. Wrth wneuthur hyn ni a gawn ddangos digofaint Duw yn erbyn dyn wrth natur yn y tri pheth hyn yn neillduol:

*Yn gyntaf,* Mae digofaint y'nghalon Duw yn ei erbyn ef. Nid yw gymmeradwy gan Dduw, ond mae yn ddig wrtho. Mae pob dyn wrth natur dan soriant Duw, ac mae hwnw yn drymach na mynyddoedd o bres. Er iddo fod yn rhyngu ei fodd ei hun, ac ereill; eto mae Duw yn ddig wrtho. 1taf. Mae Duw yn ddig wrth ei berson ef, " Caseaist holl weithredwyr anwiredd " Ps. v. 5. Mae pechod y duwiol yn ffiaidd gan Dduw, eto mae ei berson ar yr un pryd yn "gymmeradwy yn yr anwylyd, Eph. i. 6. " Mae Duw yn ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol," Ps. vii. 11. Mae tân digofaint yn llosgi yn feunyddiol yn ei erbyn ef y'nghalon Duw. Maent fel cwn a moch, yn greaduriaid ffieiddiaf y'ngolwg Duw. Er i'w cyflwr wrth natur gael ei oreuro â phroffes ddysglaer, eto maent yn ffiaidd gan Dduw; maent iddo ef, " fel mwg yn ei ffroenau," Esay lxv. 5. *dwfr clauar* yr hwn a *chwydir allan o'i enau,* Dat. iii 16. *beddau wedi eu gwyngalchu,* Matth. xxiii. 27. *Hiliogaeth gwiberod,* Matth. xii. 34. *a phobl ei ddigter,* Esay, x. 6.

2il. Mae efe yn anfoddlon i'r hyn oll a wnant; mae'n anmhosibl iddynt ryngu ei fodd, tra maent yn anghredinwyr, Heb. xi 6. Mae efe yn casâu eu personau; felly nid oes ganddo hoffder yn, ond mae'n anfoddlon i, eu gwaith goreu, Esay. lxvi. 3. " Yr hwn a abertho oen, sydd fel yr hwn a dorfynyglo gi," &c. Mae eu gwasanaeth, fel y cyflawnir ganddynt hwy, " yn ffiaidd gan yr Arglwydd," Diar. xv. 8. Ac fel y mae dynion yn troi eu cefnau ar y rhai y byddont ddig wrthynt, felly mae'r Arglwydd yn gwrthod cymundeb â'r annuwiol yn ei wasanaeth, yr hyn sydd arwydd amlwg o'i ddigofaint ef.

*Yn ail,* Mae digofaint y'ngair Duw yn ei erbyn ef. Pan fo digofaint yn y galon mae'n cael ei ollwng allan trwy'r genau: felly mae Duw yn rhyfela yn erbyn yr annuwiol *â chleddyf ei enau,* Dat. ii. 16. Nid yw gair Duw byth yn dweyd yn dda am dano, ond bob amser yn ei felldithio ac yn ei gondemnio. A thrwy hyny, pan ddeffiöer ef, mae'r gair pan ddarllener neu pan bregethir ef yn chwanegu ei ddychryn. 1af.

Mae'n condemnio ei holl weithredoedd y'nghyd a'i natu gredig. Nid oes dim a wna, nad yw y ddeddf yn ei gyh yn bechod. Rheol o ufudd-dod perffaith yw'r ddeddf; y y mae yr annuwiol yn ei throseddu yn wastadol; felly hi yn ymwrthod a'r hyn oll a fedd efe, fel pechod. 2il. M cyhoeddi ei ddedryd, ac yn datgan melldith Duw yn ei e Gal. iii. 10. "Canys cynnifer ag y sydd o weithredo ddeddf, dan felldith y maent: canys ysgrifenwyd, Melldi yw pob un nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifeni llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt." Er maint ei lwyd yn y byd, mae hi yn cyhoeddi gwae yn ei erbyn ef o'r nefo Esay, iii. 11. Cawell saethau yw'r Bibl yn llawn saeth lid yn ei erbyn ef, yn barod i'w harllwys ar ei enaid. bygythion Duw yn ei air yn crogi uwch ei ben, fel cwm du, yr barod i wlawio arno bob munud. Y gair yw dioge y saint rhag digofaint, ond y mae yn rhwymo pechod yr an iol a digofaint y'nghyd, fel gwystl sicr o'i ddinystr, oni mudir ef o'r cyflwr hwnw: felly pan ddeffroir y gydwybo gweled y cwlwm hwn a wnaed gan y ddeddf, fe lenwir y â dychryn yn ei enaid.

*Yn drydydd*, Mae digofaint yn nwylaw Duw yn erbyn wrth natur. Mae efe dan ddyrnodiau trymion o ddigof eisoes, ac yn agored i fwy.

1af. Mae digofaint ar ei gorph. Dernyn o glai melldig yw. Mae digofaint yn suddo iddo trwy effaith melldit cyfammod cyntaf, Gen. ii. 17. "Yn y dydd y bwytai o h gan farw y byddi farw." Nid oes clefyd arno, cnofa, gwayw, nad yw yn ymosod arno a cholyn llidiawgrw Duw ynddo. Rhwymau angeu ydynt oll, anfonedig y'n llaw, i rwymo y carcharor.

2il. Mae digofaint ar ei enaid. (1.) Ni all efe gael c undeb â Duw; ynfyd yw, am hyny "ni saif yn ngolwg Du Ps. v. 5 Pan bechodd Adda, trodd Duw ef allan o baradw Ac y mae dynion naturiol fel y gadawodd Adda hwynt, w eu halltudio o bresennoldeb grasol yr Arglwydd; ac ni all gael dyfodfa ato yn y cyflwr hwnw. Maent mewn rhyfel nefoedd, ac felly mae pob masnach wedi darfod; "maent Dduw yn y byd," Eph. ii. 12. Mae'r haul wedi machl arnynt, ac nid oes y radd leiaf o hawddgarwch iddynt o'r n oedd. (2.) Gan hyny mae'r enaid yn cael ei adael i ddilio yn ei anwiredd. Mae tywyllwch naturiol eu m gwrthwynebrwydd eu hewyllys i ddaioni, anhwyldeb eu

iadau, ac annhrefn eu cydwybodau, a holl bláau eu natur, yn cael eu gadael arnynt mewn fiordd o gosp; ac wedi eu gadael felly, yn cynnyddu beunydd. Mae Duw yn cyfranu pethau y ddaear iddynt, mwy neu lai; fel asgwrn yn cael ei daflu i gi; ond och! mae ei ddigofaint yn ymddangos yn eu herbyn, yn eu bod heb ras. Mae meddyg enaid yn myned ac yn dyfod heibio iddynt, ac yn iachau eraill, tra maent hwy yn dihoeni ymaith yn eu hanwiredd, ac yn addfedu yn feunyddiol i ddinystr tragywyddol. (3.) Maent yn agored i bláau dychrynllyd yn ychwanegol ar eu heneidiau yn y byd hwn. *Yn gyntaf,* Weithiau cyfarfyddant â dyrnodiau marwol; ergydion dirgel gan law Duw digllon; saethau digofaint y rhai a soddant yn ddystaw yn eu henaid; Esay vi. 10 "Brasâ galon y bobl hyn, a thrymha eu clustiau, a chau eu llygaid fel na welont â'u llygaid, &c." Mae Duw yn ymryson â hwynt dros amser, ac y mae argyhoeddiad yn cyrhaedd eu cydwybodau; ond maent yn gwrthryfela yn erbyn y goleuni; a thrwy farn ddirgelaidd, fe'u ffonodir ar eu penau; fel o hyny allan, maent, megis yn byw ac yn braenu ar y ddaear. Mae eu calon wedi marweiddio; mae eu serchiadau wedi crino; eu cydwybodau yn sytrdaullyd; a'u holl enaid wedi mallu; fe'u "taflwyd allan megis cangen ac a wywodd," Ioan xv. 6. Mae pla o ddallineb barnol arnynt. Maent yn cau eu llygaid yn erbyn y goleuni; ac yn cael eu rhoi i fynu i'r diafol, duw y byd hwn, i'w dallu fwy-fwy, 2 Cor. iv. 4. Ie, "mae Duw yn danfon arnynt amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd," 2 Thes. ii. 11. Mae y gydwybod fel gau oleuni ar lan y mor, yn eu harwain am ben creigiau, i'w dryllio yn chwilfriw. Maent yn ymgaledu yn erbyn Duw; ac y mae efe yn eu rhoi hwynt i fynu, ac yn eu gadael i Satan a'u calonau eu hunain, yr hyn sy yn eu caledu fwy-fwy. Mynych y rhoddir hwy i fynu i "wyniau gwarthus," Rhuf. i. 26. Mae'r ffrwyn yn cael ei gollwng ar eu gwârau; ac fe'u goddefir i redeg i bob gormodedd fel y tywyso eu chwantau cynddeiriog hwynt. *Yn ail,* Weithiau cyfarfyddant âg ergydion i'r byw, y rhai a'u gwnaut fel mynydd Sinai; lle ni welir dim ond tân a mwg; ac ni chlywir dim ond taranau digofaint Duw, a sain udgorn deddf doredig, yn cryfhau fwy-fwy: yr hyn sy'n eu gwneuthur fel Pasur (Ier. xx. 4,) *yn ddychryn iddynt eu hunain.* Mae Duw yn cymmeryd gwisgoedd budron eu pechodau y rhai y mynent gysgu ynddynt yn ddiogel; yn eu gorchuddio â brwmstan, ac

yn eu rhoi ar dân o ddeutu eu clustiau: hyd nes y bo hi yn uffern o'u mewn.

3ydd. Mae digofaint ar yr hyn oll a fedd yr annuwiol. Beth bynag fo'n eisiau yn ei dŷ, mae un peth nad yw byth yn eisiau yno, Diar. iii. 33. "Melldith yr Arglwydd sydd yn nhŷ yr annuwiol. Mae digofaint ar ei holl eiddo ef; ar y bara a fwytao, ar y ddiod a yfo, ar y dillad a wisgo efe. Mae ei *gawell a'i does* wedi eu melldithio, Deut. xxviii. 7. Mae rhai pethau heb fod yn iawn gydag ef; a hyny oddiar y digofaint hwn; mae pethau eraill yn myned yn ol ei ewyllys ef; ac mae digofaint yn hyny hefyd; canys y mae yn fagl i'w enaid ef, Diar. i. 32. "Llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha." Mae y digofaint hwn yn troi ei fendithion yn felldithion, Mal. ii. 2. "Ac a felldithiaf eich bendithion; ie, myfi a'u melldithiais eisoes." Llythyren ag sydd yn eu lladd yw y ddeddf sanctaidd, 2 Cor. iii. 6. Mae pregethiad yr efengyl, "yn arogl marwolaeth i farwolaeth iddynt," Pen. ii. 16. Yn sacrament swper yr Arglwydd, "maent yn bwyta ac yn yfed damnedigaeth iddynt eu hun;" Ie, mwy na hyn oll, mae Crist ei hun yn "faen tramgwydd ac yn graig rhwystr" iddynt hwy, 1 Pedr ii. 8. Felly mae digofaint yn dilyn yr annuwiol, fel y mae ei gysgod yn dilyn ei gorph.

4ydd. Mae efe yn meddiant Satan, Act. xxvi. 18. Mae'r diafol wedi ei orchfygu ef, fel y mae efe trwy ei oruchafiaeth, yn garcharor cyfreithlon iddo, Esay xlix. 24. Mae'r annuwiol wedi ei ddamnio eisoes, Ioan iii. 18, ac felly o dan law drom "yr hwn sydd a nerth marwolaeth ganddo, hyny yw, diafol." Ac y mae efe yn cadw ei garcharorion y'ngharchar cyflwr natur, yn rhwym draed a dwylaw, Esay lxi. 1. Yn llwythog o amryw chwantau, y rhai sydd fel cadwynau i'w dal yn gaeth. Nid rhaid i ti, fel y gwna llawer, alw ar y diafol i'th gipio, canys mae ganddo ef afael sicr ynot ti eisoes, fel plentyn digofaint.

*Yn olaf*, Nid oes gan yr annuwiol un sicrwydd am funud o ddiogelwch, rhag i ddigofaint Duw ddyfod arno hyd yr eithaf. Mae melldith y ddeddf wedi ei chyhoeddi yn ei erbyn ef, yn ei rwymo eisoes wrth y polyn, yn barod i saethau cyfiawnder wânu ei enaid; ac ynddo ef y dichon i'r holl drueni a'r plâau sy'n tarddu o ddigofaint dialeddol Duw gydgyfarfod. Gwelwch fel y mae wedi ei osod yn nod i saethau digofaint! Ps. vii. 11, 12, 13. "Duw sydd ddigllon beunydd wrth yr annuwiol, Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf, efe a anel-

odd ei fwa, ac a'i parotodd. Parotodd hefyd iddo arfau angeuol." A yw efe yn gorwedd i lawr i gysgu? Nid oes un addewid y gŵyr efe am dani, neu y gall wybod, am ei gadw rhag disgyn i uffern cyn agor ei lygaid. Mae cyfiawnder yn dilyn, ac yn gwaeddi am ddial ar y pechadur: mae y ddeddf yn bwrw pelleni poethion ei melldithion yn barhaus arno: amynedd wedi hir flino, sydd yn cadw ei fywyd iddo ef. Mae yn rhodio y'nghanol ei elynion arfog. Bydded ei euw Magor Misabib, h—y. *dychryn o amgylch*, Ier. xx. 3. Mae angylion, cythreuliaid, dynion, anifeiliaid, cerrig, nefoedd, a daear, yn barod, ar orchymyn Duw i'w ddistrywio ef.

Felly mae'r aunuwiol yn byw; ond mae'n rhaid iddo farw hefyd; a chenadl dychrynllyd fydd angeu iddo ef. Mae'n dyfod arno wedi ei arfogi â digofaint, a thri gorchymyn yn ei law. (1.) Bydd yn ei orchymyn i ymadael am byth â phob peth sydd yn y byd hwn; i'w adael a myned ymaith i fyd arall. Och! y fath orchymyn dychrynllyd a fydd hwn i blentyn digofaint. Ni all gael un cysur o'r nefoedd; canys mae Duw yn elyn iddo: ac mewn perthynas i bethau y byd, a'r mwynhad o'i chwantau, y rhai oedd unig ffynnonell ei gysuron, mae y rhai hyn yn sychu i fynu *mewm munud*, am byth. Nid yw efe yn barod i fyd arall; ni feddyliodd y cai ei symud mor fuan; neu os meddyliodd, eto nid oes ganddo un trysor y'nghadw iddo yn y byd arall, ond yr hwn y ganwyd ef iddo, a'r hwn yr oedd efe yn ei chwanegu ar hyd ei oes, sef, *trysor digofaint.* Ond rhaid iddo fyned. Rhaid iddo ymadael â'i dduw clai, sef y byd; a pheth sydd ganddo mwy? Nid bu un tywyniad o oleuni na hoffedd o'r nef erioed tu ag at ei enaid: ac yn awr, mae y digofaint a fu yn aros yn y bygythiad fel cwmmwl o faint eledr llaw gwr, yn duo wyneb y ffurfafen uwch ei ben; ac os edrych efe ar y ddaear, (o'r lle y tarddodd ei holl gysur) "wele drallod a thywyllwch, niwl cyfyngder, a bydd wedi ei wthio i dywyllwch." Esay viii. 22. (2.) Mae Angeu yn gorchymyn i'r corph a'r enaid i ymwahanu hyd farn y dydd mawr. Gofynir ei enaid oddi arno, Luc. xii. 20. O'r fath ymadawiad ofnadwy fydd hwn i blentyn digofaint! Fe ofalodd am ddarparu pethau angenrheidiol i'r corph; ond och! nid oes dim wedi ei barotoi iddo erbyn byd arall; dim i fod yn hedyn adgyfodiad gorfoleddus: fel y bu fyw, felly mae'n marw, ac yn adgyfodi, yn *gnawd pechadurus*; tanwydd i ddigofaint Duw. Ond am yr enaid, ni ofalodd efe ddim erioed am dano. Yr oedd yn aros yn y corph yn farw i Dduw a phob peth gwir

dda; ac felly rhaid ei gludo ymaith i'r pydew yn nillad bedd ei gyflwr natur. Yn awr wedi i angeu ddyfod, rhaid i gyfeillion mewn pechod ymwahanu. (3) Mae angeu yn gorchymyn i'r enaid ymddangos ger bron gorseddfa Duw, Preg. xii 7. "Dychwel yr yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef." Heb. ix. 27. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn." Da fyddai i'r enaid pechadurus pe cleddid ef gyda'r corph. Ond ni all hyny fod; rhaid iddo fyned a derbyn ei ddedryd; ac fe'i ceuir yn ngharchar uffern, tra bo'r corph melldigedig yn gorwedd yn garcharor yn y bedd, hyd ddydd y farn gyffredinol.

Pan ddel dydd y farn a ordeiniwyd gan Dduw, yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir. Yna y bydd i'r ddaear luddiedig, wrth orchymyn y barnwr, fwrw allan gyrph melldigedig y rhai a fu byw a marw yn eu cyflwr natur: "Y mor, y ddaear, ac uffern a fwriant i fynu eu meirw," Dat. xx. 13. Fe unir eu cyrph a'u heneidiau truenus â'u gilydd, ac a'u cyrchir o flaen gorseddfaingc Crist. Yna y derbyniant y ddedryd ddychrynllyd hono, "Ewch oddiwrthyf rai melldigedig i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol a'i angylion," Matth. xxv. 41. Ar hyn, "ant i gospedigaeth dragywyddol," adn. 46. Fe'u ceuir i fynu am byth yn uffern, lle ni chant y defnyn lleiaf o gysur, na'r esmwythdra lleiaf o'u poen. Yno y poenir hwynt â phoen o golled: fe'u hysgymunir dros byth o wydd Duw, ei angylion, a'r saint. Pob moddion gras, pob gobaith am ymwared, a dynir byth oddi ger bron eu llygaid. Ni chant "ddafn o ddwfr oer i oeri eu tafod," Luc. xvi. 24, 25. Fe'u poenir â phoen o deimlad. Nid yn unig rhaid iddynt ymadael oddiwrth Dduw; ond ymadael i dân, i dân tragywyddol. Yno y pryf a'u hysa hwynt, ni fydd marw byth, a'r tân a'u llysg hwynt, ni ddiffydd byth. Fe'u cynnal Duw hwy âg un llaw i dragywyddoldeb, ac efe a dywallt ffiolau llawnion o lid arnynt â'r llaw arall.

Dyma'r cyflwr o ddigofaint yn yr hwn y mae dynion annuwiol yn byw; o dan lawer o ddigofaint Duw, ac yn agored i fwy. I'w ganfod ef yn helaethach, ystyriwn natur y digofaint hwnw. (1.) Mae yn anwrthwynebol, ni ellir ei wrthsefyll, "Pwy a saif o'th flaen pan ennyno dy ddigter?" Ps lxxvi. 7. A all pryfyn neu wyfyn amddiffyn ei hunan rhag cael eu dryllio gan y neb a fo'n bwriadu hyny? Felly ni all y pryf o ddyn sefyll o flaen Duw digllon. Mae'r ynfyd, yn wir yn ei ymddygiad yn gofyn gwaetha'r nefoedd; ond mae'r Arglwydd *yn fynych, hyd* yn nod yn y byd hwn, yn agor dyfrddor ei

ddigofaint arnynt, yr hwn fel llifeiriant a'u dyg hwynt ymaith er maint eu caledwch a'u grym. Pa faint mwy y bydd felly yn uffern? Mae yn anoddefol. Yr hyn na allo un ei wrthwynebu, mae yn ymroddi i'w ddyoddef; ond "pwy a drig gyda'r tân ysol? Pwy a breswylia gada'r llosgfeydd tragywyddol?" Mae y fath hwys yn nigofaint Duw ag a sudda ddynion i ddyfnderoedd uffern. Mae'n faich na all un dyn sefyll dano. "Yspryd cystuddiedig pwy a'i cyfyd?" Diar. xviii. 14. (3.) Mae'n anocheladwy i'r rhai a elo yn mlaen yn anedifeiriol yn eu gyrfa bechadurus. "Y gwr a gerydder yn fynych, ac a galeda ei wâr, a ddryllir yn ddisymwth, fel na byddo meddyginiaeth." Diar. xxix. 1. Gallwn yn awr ddiangc rhagddo yn wir, trwy ffoi at Iesu Grist; ni fydd ond y rhai sy'n ffoi at Grist byth yn abl i'w ochelyd. I ba le y ffy dynion oddiwrth Dduw digllon? Pa le y cant ddiogelwch? Ni wrendy y bryniau arnynt; bydd y mynyddoedd yn fyddar i'w gwaedd uwchaf, pan lefont arnynt i'w "cuddio rhag llid yr Oen." (4.) Digofaint nerthol a ffyrnig yw, Ps. xc. 11. "Pwy a edwyn nerth dy soriant? canys fel y mae dy ofn y mae dy ddigter." Yr ydym yn dueddol o ofni digofaint dyn yn fwy nag y dylem; ond nis gall un dyn feddwl fod digofaint Duw yn fwy ofnadwy nag ydyw mewn gwirionedd; nis gellir gwybod ei allu i'r eitha byth gan ei fod yn anfeidrol, ac heb derfyn iddo. Pa mor nerthol bynag y byddo ar y ddaear neu yn uffern, gall Duw ei yru yn mhellach. Mae pob peth yn Nuw yn berffaith yn ei natur; ac felly nid oes llid mor ffyrnig a'i lid ef. O bechadur pa fodd y dyoddefi di y digofaint hwnw, yr hwn "a'th rwyga di;" Ps. l. 22. ac a'th "fâl yn chwilfriw," Luc xx. 18. Mae hanes y ddwy arthes a larpiodd blant Bethel yn ddychrynllyd, 2 Bren. ii. 23, 24. Ond nid yw cynddaredd yr holl lewod, y llewpartiaid, a'r eirth wedi colli eu cenawon, yn ddigon i ddangos ond ychydig iawn o allu digofaint Duw, Hos. xiii. 7, 8. "Ond mi a fyddaf fel llew iddynt; megis llewpard ar y ffordd y disgwyliaf hwynt. Cyfarfyddaf hwynt fel arth wedi colli ei chenawon, rhwygaf orchudd eu calon hwynt." &c. (5.) Digofaint llym-dreiddiol iawn yw; digofaint llosgadwy yw, a llid tanllyd. Nid oes unrhyw boen mor arteithiol a phoen llosgi mewn tân, nac unrhyw dân mor dreiddiol a thân llid Duw, sydd "yn llosgi hyd uffern isod," Deut. xxxii. 22. Gall saethau digofaint dynion drywanu cnawd, gwaed, ac esgyrn; ond ni allant gyrhaedd yr

enaid: ond traidd digofaint Duw i'r enaid, ac felly trywana ddyn yn y rhan dyneraf. Fel pan darawir gwr gan fellten, yn fynych nid oes un briw i'w weled ar y croen; eto mae'r bywyd wedi myned, a'r esgyrn fel ped faent wedi toddi: felly gall digofaint Duw dreiddio i, a thoddi enaid un o'i fewn y'nghanol ei holl gysuron daearol; fel yn achos Belsassar, Dan. v. 6. (6.) Digófaint parhaus yw, yn dilyn yr annuwiol tra mae yn ei gyflwr natur; mae'n ei ganlyn o'r bru i'r bedd. Nid oes nemawr ddiwrnod mor dywyll, na fydd yr haul weithiau yn ymddangos trwy y cymmylau: ond cwmmwl arosol yw digofaint Duw ar ei wrthrychau, Ioan iii. 36. "Mae digofaint Duw yn aros," ar yr hwn nad yw'n credu. (7.) Mae'n dragywyddol. O enaid truenus! Os na ffoi di rhag y digofaint hwn at Grist, er fod dechreuad i dy drueni, eto ni bydd diwedd iddo byth. Pe byddai i angau dinystriol dy lyngcu i fynu, a dy ddal dros byth yn y bedd, byddai yn dirion wrthyt; ond rhaid i ti fyw drachefn, a bod yn anfarwol, fel y gallech fod yn marw byth, yn nwylaw y Duw byw. Fe ddiffydd angeu oer ddigofaint dynion tu ag atom, os na wna dim arall: ond pan ddel digofaint Duw ar y pechadur, yn mhen miliynau o oesoedd "llid a fydd," yw ef byth, Matth. iii. 7. 1 Thess. i. 10; fel dwfr afon yr hwn sy'n parhau i ddyfod, er cymmaint a aeth heibio. Tra bo Duw'n bod, fe ddeil i gospi. *Yn olaf,* Er mor ddychrynllyd yw, ac er ei fod yn dragywyddol, eto digofaint tra chyfiawn yw: tân pur yw, heb ddim mwg o anghyfiawnder. Mae y môr digofaint sydd yn dygyfor yn erbyn y pechadur, yn ddysglaer fel grisial. Nis gall barnydd yr holl ddaear wneuthur cam; ni ŵyr efe am nwydau digofus, canys maent yn anghydunol â pherffeithrwydd ei natur ef.—"Ai anghyfiawn yw Duw yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint? (yn oll dull dyn yr wyf yn dywedyd) na ato Duw; canys wrth hyny pa fodd y barna Duw y byd?" Rhuf. iii. 5, 6.

---

## *Cadarnhad ac Amddiffyniad yr Athrawiaeth am y Cyflwr o Ddigofaint.*

II. Cadarnhaf yr athrawiaeth. Ystyriwch, (1.) Mor bendant yw bygythiad y cyfammod gweithredoedd; "yn y dydd

y bwytai o hono, gan farw y byddi farw," Gen. ii. 17. Wrth hyn gwelwn fod pechod a chospedigaeth wedi eu cyssylltu â'u gilydd, mae bod Duw yn eirwir yn sicrhau cyflawniad y bygythiad. Yn awr mae pawb wrth natur dan y cyfammod hwn, ac y mae ei doriad yn eu gosod dan y felldith. (2.) Mae cyfiawnder Duw yn gofyn fod pawb sy'n feibion pechod, i fod yn blant digofaint; gan i'r ddeddf gael ei thori, mae'n rhaid ei chadarnhau. Ni all Duw fel rheolwr dyn a'i farnydd lai na gwneuthur cyfiawnder, Gen. xviii. 25. "canys cyfiawn yw ger bron Duw," dywallt llid am bechod, 2 Thess. i. 6. "Ydwyt lanach dy lygaid nag y gelli edrych ar ddrwg," Hab i. 13. Ac y mae efe yn "ffieiddio holl weithredwyr anwiredd," Ps. v. 6. (3.) Mae dychryniadau cydwybod anianol yn profi hyn. Mae cydwybod o fewn dynion, yn tystio wrthynt, eu bod yn bechaduriaid; ac felly yn agored i ddigofaint Duw. Holed dynion eu hunain yn syml unrhyw bryd, hwy ganfyddant fod ganddynt y dystiolaeth ynddynt eu hunain, "Y rhai yn gwybod cyfiawnder Duw, fod y rhai sy'n gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth," Rhuf. i. 32. (4.) Mae loesion yr enedigaeth newydd, gwaith yspryd caethiwed ar eneidiau yr etholedigion yn eu dychweliad yn profi hyn. Pryd hyn cânt weled eu pechadurusrwydd a'u truenusrwydd wrth natur; eu bod yn agored i ddigofaint Duw: ïe, llenwir eu calonau âg ofn y digofaint hwnw. Yn awr Yspryd Duw yw'r yspryd caethiwed hwn, gwaith yr hwn yw, "Argyhoeddi y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn," Ioan xvi. 8. Mae'r dystiolaeth hon yn rhwym o fod yn wir; canys ni all *yspryd y gwirionedd,* dystiolaethu celwydd. Ar yr un pryd nid yw gwir gredinwyr, wedi eu rhyddhau o'u cyflwr natur a digofaint, "Yn derbyn Yspryd caethiwed drachefn i beri ofn, ond maent yn derbyn yspryd mabwysiad," Rhuf. 8. 15.— Felly os cyfyd ofnau o'r fath ar ôl uno yr enaid â Christ; maent yn dyfod o yspryd y saint eu hunain, neu ei waeth.— *Yn olaf,* Mae dyoddefiadau Crist yn profi yr athrawiaeth hon yn amlwg. Pa ham yr oedd Mab Duw yn Fab tan ddigofaint, ond o achos fod plant dynion yn blant digofaint? Dyoddefodd ddigofaint Duw, nid trosto ei hun, ond tros y rhai oedd yn agored iddo yn eu personau eu hunain. Ië, nid yn ünig mae hyn yn dangos ein bod ni yn agored i ddigofaint; ond fod raid i ddigofaint gael lle yn nghospedigaeth pechod. Os gwnaed hyn yn y pren îr, pa beth a ddaw o'r crin? O'r fath gyflwr truenus mae'n rhaid i'r pechadur hwnw fod ynddo,

sydd allan o Grist; yr hwn sydd heb ei uno mewn modd achubol â Christ, ac heb fod yn gyfrannog o'i Ysbryd? Duw, yr hwn nid arbedodd ei *briod Fab* ni erbyd yntau ychwaith.

Ond fe fydd y dyn diadgenedledig, yr hwn sydd yn hollol ddibarch i ogoniant Duw, yn dueddol i godi yn erbyn y Barnwr, ac yn ei galon ei hun yn condemnio ei waith ef. Er hyny, gan fod y barnwr yn anfeidrol gyfiawn, rhaid i'r ddedryd fod yn gyfiawn. Ac felly i gau dy safn O bechadur balch, ac i ddarostwng dy ddadwrdd yn erbyn dy gyfiawn farnwr; ystyria *Yn gyntaf,* Yr wyt yn bechadur wrth natur; ac y mae yn dra rhesymol fod euogrwydd a digofaint cyn hyned a phechod.— Pa ham na bai Duw yn amddiffyn ei ogoniant cyn gynted ag y byddo pryfed gwael yn dechreu ei anmharchu? Paham na bai y sarph yn brathu y lleidr cyn gynted ag yr elo tros y terfyn? Pa fodd na chymmerai y bygythiad afael yn y pechadur cyn gynted ag y torro efe y gorchymyn? Mae natur wenwynig y sarph yn ddigon o sail i ddyn ei lladd hi cyn gynted y gallo ei chyrhaeddyd: ac erbyn hyn mae yn llawn bryd i tithau wybod fod dy natur yn llawn o elyniaeth yn erbyn Duw.

*Yn ail,* Nid yn unig mae gelyniaeth yn erbyn Duw yn dy natur di, ond dangosaist ef trwy bechodau gweithredol, y rhai sydd yn ei olwg ef yn weithredoedd o wrthryfel. Dygaist allan dy chwantau i faes y gwaed yn erbyn dy ben Arglwydd. Ac yn awr gan dy fod yn gyfryw ddrwgweithredwr mae dy ddamnedigaeth yn gyfiawn: canys heblaw pechod dy natur, ti ymddygaist yn erbyn y nefoedd yn y fath fodd, fel pe gwnaethit felly yn erbyn dynion, fe fuasai dy fywyd wedi cael ei ddwyn oddiarnat cyn hyn; ac oni fydd i ddigofaint o'r nef dy orddiwes? (1.) Yr wyt yn euog o deyrn-fradwriaeth a gwrthryfel yn erbyn brenin y nefoedd. Meddyliau a dymuniadau dy galon y rhai a ŵyr efe yn gystal a'th eiriau, a fu, *Nid oes un Duw,* Ps. xiv. 1. Gwrthodaist ei lywodraeth, cenaist yr udcorn, a gosodaist i fynu faneraugwrthryfel yn ei erbyn ef; ac yr oeddit yn un o'r rhai oedd yn dywedyd, "Ni fynwn ni y dyn hwn i deyrnasu arnom," Luc. xix. 14. Gwrthwynebaist, a diffoddaist ei Ysbryd. Yr wyt yn gweithredol ymwadu â'i gyfreithiau fel y cyhoeddir hwynt gan ei genhadon: yn cau dy glustiau rhag ei llef, ac yn eu hanfon ymaith dan alaru am dy falchder. Ti a gyd fradfwriedaist â'i brif elyn, sef y diafol. Er dy fod yn was tyngedig i frenin y nefoedd, bob dydd yn derbyn o'i ddaioni ac yn byw ar ei drugaredd ef. Yr wyt yn cyfathrachu ac yn cyfeill-

achu â'i elyn penaf; ac yr wyt yn gweithio trosto ef yn erbyn dy Arglwydd; canys "Trachwantau 'r diafol a fynwch chwi eu gwneuthur," Ioan viii. 44. (2.) Yr wyt yn llofrudd ger bron Duw. Gosodais Faen tramgwydd dy anwiredd o flaen y byd tywyll. a dinystriaist eneidiau rhai eraill trwy dy ymddygiad pechadurus. Ac, er nad wyt yn gweled yn awr, fe ddaw yr amser, pan y cai weled gwaed dy berthynasau, dy gymmydogion, a'th gyfeillion, ac eraill ar dy ben, Matth. xviii. 7. "Gwae'r byd oblegyd rhwystrau—Gwae y dyn hwnw trwy yr hwn y daw y rhwystr." Ie, yr wyt yn hunan-leiddiad ger bron Duw, Diar. viii. 36. "Y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun; fy holl gaseion a garant angeu." Esek xviii. 31. "Pa ham y byddwch feirw?" Mae cyfreithiau dynion yn myned cyn belled ag y medront yn erbyn yr hunan-leiddiad, gan attal claddu ei gorph yn mhlith eraill, a chymmeryd ei eiddo Pa ryfeddod yw fod cyfraith Dduw mor greulon yn erbyn llofruddion enaid? Ai peth rhyfedd fydd i'r rhai a fynant ymadael oddiwrth Dduw yn awr, costied a gostio, gael eu gyru oddiwrtho i dân tragywyddol yn y diwedd? Ond yr hyn sydd eto yn fwy creulon, yr wyt yn euog o fwrddrad yn erbyn Mab Duw. Canys fe gyfrif yr Arglwydd tydi yn mhlith y rhai a'i gwânasant ef, Dat. i. 7. Gwrthodaist ef cystal a'r Iuddewon; a thrwy i ti ei wrthod ef, ti a gyfiawnhëaist eu gwaith hwynt. Ni chydnabyddent hwy mai Mab Duw oedd efe, ond yr wyt ti yn cydnabod. Yr hyn a wnaethant hwy yn ei erbyn ef oedd yn ei gyflwr o ddarostyngiad; ond ti a'i gwrthodaist ef yn ei gyflwr o ddyrchafiad. Fe chwanega hyn dy ddamnedigaeth. Pa ryfedd ynte os try llais yr oen yn rhuad llew yn erbyn y bradwr a'r llofrudd.

*Gwrthadl,* Ond fe ddywaid rhai, onid oes anghydmariaeth mawr rhwng ein pechodau ni a'r digofaint yr ydych yn son am dano? Yr wyf yn atteb, nac oes; Mae Duw yn cospi pechadur yn ol ei haeddiant. I unioni dy gamgymmeriad yn y mater hwn, Ystyria (1.) Y gwobrwyon helaeth mae'r Arglwydd wedi eu rhwymo wrth ufudd-dod. Nid yw ei air yn fwy cyflawn o ddigofaint tanllyd yn erbyn pechod, nag yw o wobrwyon grasol i'r ufudd-dod y mae yn ei ofyn. Os yw y nef yn yr addewidion, mae'n gwbl mor resymol fod uffern yn y bygthion. Pe na buasai *marwolaeth* yn y glorian gyda *bywyd,* trueni tragwyddol, gyda dedwyddwch tragywyddol, pa le y buasai y cyfartalwch? Yn mhellach, mae pechod yn haeddu

digofaint, ond nid yw ein gweithredoedd goreu yn haeddu dedwyddwch; eto gosodir y ddau o'n blaen: pechod a thrueni, sancteiddrwydd a dedwyddwch. Pa le gan hyny y mae yr achos i gwyno? (2.) Pa mor dost bynag y bo'r bygythion, eto ni chyrhaeddant ddim pellach na'r gyfraith. "Ofnwch (medd ein Harglwydd) yr hwn wedi y darffo iddo ladd, sydd ag awdurdod ganddo i fwrw i uffern; ïe, meddaf i chwi, hwnw a ofnwch," Luc. xii. 5. Mae hyn yn dangos ein hofn o nerth a mawrhydi Duw; ond eto, mor lleied sydd yn ei ofni mewn gwirionedd! Mae'r Arglwydd yn gwybod calonau dynion, eu bod yn llawn awydd i gyflawni eu chwantau. Maent yn ymgyraedd gyda'r fath hoffder at y bronau llawnion hyn, ac nid gallu bychan a'u tyn oddiwrthynt. Y rhai a ymdeithiant trwy anialwch, lle maent mewn perygl oddiwrth fwystfilod gwylltion, angenrhaid yw iddynt ddwyn tân gyda hwynt; a rhai sydd ganddynt goed ceingciog i'w hollti, dylent gael cynion cèlyd. Felly rhaid i'r ddeddf sanctaidd gael ei hamddiffyn â digofaint dychrynllyd, mewn byd sy'n gorwedd mewn drygioni. Ond pwy sy'n cwyno fod y digofaint hwn yn ormod, ond y rhai y mae efe yn rhy fychan i'w troi o'i ffyrdd pechadurus. Y dyn a gymmerodd arno ofni ei Arglwydd am ei fod yn *wr tost*, a ddododd y bunt yn y napcyn: ac felly o'i enau ei hun fe'i condemniwyd, Luc xix. 20, 21, 22. Tydi yw'r dyn, ïe tydi, yw yr hwn yr wyf yn atteb ei wrthddadleuon.—Pa fodd y gall y digofaint yr wyt dano, ac yn ddarostyngedig iddo, fod yn rhy fawr, tra y mae heb dy ddeffroi di i ffoi rhagddo? A yw hi yn amser i leihau cospedigaethau y gyfraith pan fo dynion yn ei sathru dan eu traed. (3.) Ystyriwch fel yr ymddygodd Duw tu ag at ei Fab ei hun, *yr hwn nid arbedodd efe*, Rhuf. viii. 32. Fe gydiodd digofaint Duw yn ei gorph a'i enaid, ac fe'i dygwyd i lwch angeu. Bod ei ddyoddefiadau heb fod yn dragywyddol a darddodd o rinwedd y dyoddefwr, yr hwn oedd yn anfeidrol; ac felly yn abl i ddyoddef, ar unwaith, holl bwys y digofaint: ac am hyny yr oedd ei ddyoddefiadau o anfeidrol werth. Ond yn awr, gan nas gall dyoddefiadau creadur fod yn werth anfeidrol, rhaid eu hestyn i dragywyddoldeb. A pha sail sydd gan wrthryfelwr i ffraeo (o'i ran ef) â chospedigaeth a ddyoddefodd Mab y brenin ei hun. (4.) Mae'r pechadur yn gwneyd a allo yn erbyn Duw. "Gwnaethost yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaist," Ier. iii. 5. Na wnaethost fwy o ddrwg, diolch iddo ef yr hwn a'th attaliodd, i'r gadwyn y cadwyd y blaidd i mewn ynddi, nid i ti dy

. Nid rhyfedd fod Duw yn dangos ei allu yn erbyn y pechadur, yr hwn sy'n gosod ei allu yn erbyn Duw cyn belled ag y cyrhaeddo. Nid yw yr annuwiol yn gosod un pen draw i'w yrfa bechadurus; ac ni osodai derfynau iddi ychwaith, pe na attelid ef gan allu dwyfol, i ddoeth ddybenion; ac felly cyfiawn yw iddo fod byth dan ddigofaint. (5.) Mae pechod yn taraw yn erbyn mawrhydi anfeidrol; ac felly mae, mewn rhyw ystyr yn ddrwg anfeidrol. Mae pechod yn codi yn ei haeddiant, yn ol mawredd yr hwn y pechir i'w erbyn. Os dwyfa gwr ei gymmydog, ei eiddo gaiff fod yn iawn; ond os clwyfa efe ei Dywysog, rhaid i'w fywyd fyned i wneud iawn am hyny. Mae anfeidroldeb Duw yn gwneyd digofaint anfeidrol yn gyfiawn gospedigaeth pechod. Mae Duw yn anfeidrol ddig wrth bechod, a phan weithredo, rhaid iddo weithredu fel efe ei hun, a dangos ei anfoddlonrwydd trwy foddion cyfattebol. *Yn olaf,* Fe fydd y rhai a fydd byth dan y digofaint hwn yn pechu yn barhaus; ac felly rhaid iddynt ddyoddef yn dragywyddol; nid yn unig mewn perthynas i farn ddwyfol; ond o herwydd mai pechod yw ei gospedigaeth ei hun, yr un modd ag y mae ufudd-dod sancteiddi ei wobr ei hun.

## *Cymhwysiad o Athrawiaeth am Druenusrwydd Cyflwr Dyn.*

Defnydd I. Er addysg. A ydyw ein cyflwr wrth natur yn gyflwr o ddigofaint? Yna,

1. Mae'n sicr na anwyd ni yn ddiniweid. Mae y cadwynau digofaint hyny, y rhai sydd arnom wrth natur, yn dangos ein bod wedi ein geni yn ddrwgweithredwyr. Gall y rhwymynau â'r rhai y rhwymir babanod draed a dwylaw, cyn gynted y genir hwynt, ddwyn ar gof i ni rwymau digofaint, yn y rhai y maent yn garcharorion, fel plant digofaint.

2. Y fath wallgofrwydd creulon yw i bechaduriaid fyned yn mlaen yn eu gyrfa bechadurus? Beth ydyw ond pentyru marwor tanllyd ar dy ben dy hun, gosod tanwydd yn fwy-fwy ar dân digofaint, i "drysori i ti dy hun ddigofaint erbyn dydd y digofaint?" Rhuf. ii. 5. Fe allai y dinystrir di, "Pan gyneuo ei lid ef ond ychydig." Ps. ii. 12. Pa ham y cynnyddi di ef yn fwy? Yr wyt eisoes wedi dy rwymo â'r fath rwymau ang-

euol, na ryddheir mo honot yn hawdd; pa angenrheidrwydd sydd am ychwaneg? Saf, bechadur diofal, ac ystyria hyn.

3. Nid oes genyt un achos i gwyno, cyhyd ag y byddi allan o uffern. "Pa ham y grwgnach dyn byw?" Galar. iii. 39. Pe byddai i un wedi fforffedu ei fywyd, gael ei alltudio o'i wlad enedigol a dyoddef llawer o galedwch; gallai ef fod yn amyneddus, wrth ystyried ei fod yn cael ei fywyd. A ydych chwi yn grwgnach, am eich bod dan boen o selni? Na, benditbiwch Dduw am nad ydych, lle nad yw eu pryf hwynt yn marw. A ydych chwi yn grwgnach am nad ydych mewn cystal sefyllfa yn y byd ag y mae rhai o'ch cymmydogion?— Diolchwch yn hytrach am nad ydych yn nghyflwr y damnedigion. A gymmerwyd dy eiddo oddi arnat? Rhyfedda fod tân digofaint Duw heb dy ysu di. Cusana y wialen, O bechadur, a chydnebydd drugaredd; canys mae Duw, "Yn ein cospi yn llai na'n hanwiredd," Esa. ix. 13.

4. Mae yma goffadwriaeth am y tlawd a'r cyfoethog. (1.) Y rhai tlota, sy'n myned o ddrws i ddrws, nad oes ganddynt geiniog wedi ei gadael iddynt gan eu rhieni, maent wedi eu geni i etifeddiaeth. Gadawodd eu tad cyntaf Adda hwy yn blant digofaint, a thra y parhaont yn eu cyflwr natur, nis gallant fod yn ol o hono: Canys "dyma ran dyn annuwiol gan Dduw, a'r etifeddiaeth a osodwydd iddo gan Dduw," Iob xx. 29. Etifeddiaeth a'u gesyd mewn sefyllfa na bydd ganddynt le i roi eu pen i lawr. Fe'u "bwrir i'r tywyllwch eithaf," Matth xxv. 30. canys iddynt hwy y "cedwir niwl y tywyllwch yn dragywydd." Iud. 13; lle bydd eu gwely yn ofid; "Mewn gofid y gorweddant," Esay i. 11 bydd eu hymborth yn farn, canys Duw a'u "portha hwy barn," Ezek. xxxiv. 16; a'u diod a fydd gwin coch digofaint Duw, "Holl annuwiolion y tir a wasgant, ac a yfant ei waelodion," Ps. lxxv. 8. Mi wn fod y rhai sydd yn dlodion bethau 'r byd, ac hefyd heb wybodaeth a gras Duw, y rhai ar hyny a ellir eu galw yn *dlodion y diafol*, yn barod i ddywedyd yr ydym ni yn gobeithio fod Duw yn gwneyd i ni ddyodde ein holl drallod yn y byd hwn, ac y byddwn ddedwydd yn byd nesaf: fel pe byddai annedwyddwch eu hamgylchiad allanol mewn amser, yn ddigon i ddiogelu eu dedwyddwch y nhragywyddoldeb. Camgymmeriad enbyd a dinystriol yw. A dyma etifeddiaeth arall sydd ganddynt, sef, celwydd, ofered a phethau heb les ynddynt, Ier. xvi. 19. Ond "Y cenllysg a y sguba noddfa celwydd," Esay xxviii. 17. A wyt ti yn meddwl

bechadur y bydd i Dduw, yr hwn sy'n gorchymyn i farnwyr y ddaear beidio derbyn wyneb y tlawd mewn barn, (Lef. xix. 15.) wyro barn er dy fwyn di? Na, gwybydd yn sicr, mai pa mor druenus bynag wyt yma, y byddi yn druenus dragywyddol, os byddi fyw a marw yn dy gyflwr natur. (2.) Mae llawer o'r rhai sydd ganddynt ddigon o'r byd hwn. yn meddu mwy nag y gwyddant am dano. Mae genyt, (fe allai) O ddyn diadgenedledig, etifeddiaeth, neu gynnysgaeth dda, neu lawer o eiddo a adawyd i ti gan dy dad; a thithau a'i cynnyddaist, ac y mae haul llwyddiant yn tywynu arnat; fel y gelli ddweyd gydag Esau, Gen xxxiii. 9, *Mae genyf ddigon*. Ond gwybydd, mae genyt fwy na hyn oll, etifeddiaeth nad wyt yn ei hystyried; yr wyt yn blentyn digofaint, yn etifedd uffern.—Etifeddiaeth a lyn wrthyt ynghanol holl gyfnewidiadau y byd, cyhyd ag y parhai di yn dy gyflwr diadgenedledig. Pan adewi di dy eiddo i eraill, fe â hwn gyda thi i fyd arall. Nid rhyfedd fod yr ych i'r lladdfa yn cael ei borthi i'r eithaf, ac nad yw yn llafurio fel eraill, Iob. xxi 30, "Hyd ddydd dinystr yr arbedir y drygionus; yn nydd cynddaredd y dygir hwynt allan." Wel yna "gwna'n llawen, a llawenyched dy galon, rhodia yn ffordd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid." Bydd fyw uwchlaw argyhoeddiadau a rhybuddion o air Duw.—Dangos dy hun yn ddyn o yspryd hoyw, trwy fwrw ymaith ofn Duw yn llwyr; gwawdia am ben sobrwydd; bydd fyw fel ti dy hun, yr blentyn digofaint, etifedd uffern: "Ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn oll," Preg xi. 9. Bydded sicr i ti y daw dy rwygiad yn ddisymwth, Esay xxx. 13. "Canys chwerthiniad dyn ynfyd sydd fel clindarddach drain dan grochan," Preg. vii. 6. Y fflam wych a'r swn mawr a wnant a dderfydd yn fuan; felly bydd dy lawenydd dithau. Ac yna y digofaint hwnw sydd yn awr yn suddo yn ddystaw i'th enaid, a wna swn dirfawr.

5. Gwae iddo ef, sydd fel Moab, "Yn esmwyth arni er ei ieuengctid," Ier. xlviii. 11, ac heb erioed weled y cwmmwl du o ddigofaint sy'n crogi uwch ei ben. Mae llawer "heb gyfnewidiad, am hyny nid ofnant Dduw," Psal. lv. 19. Buont fyw mewn cred dda (fel y dywedant) eu holl ddyddiau; hyny yw, ni chawsant erioed allu i gredu un newydd drwg am gyflwr eu henaid. Mae llawer wedi dyfod trwy eu crefydd yn rhy esmwyth; a chan iddynt ei chael yn ysgafn, felly hi a ymedy mewn dydd o brawf. A ydych chwi yn meddwl y ffy dynion

rhag y llid a fydd, dan freuddwydio? neu y bydd iddynt ffoi rhag digofaint na wybuant ei fod yn eu dilyn?

6. Na ryfeddwch os gwelwch un mewn trallod ynghylch cyflwr ei enaid, a fu unwaith yn chwenych bod yn gellweirus, ac yn meddwl cyn lleied yn nghylch ei iechydwriaeth, a neb o'i gymmydogion. A all un gael iawn olwg arno ei hun, mewn cyflwr o ddigofaint, heb gael ei drywanu â thristwch, dychrynfeydd, a thrallod? Pan fo pwysau, hollawl uwchlaw cryfder gwr, yn gorwedd arno, ac heb neb yn agos ato, ni all efe symud llaw na throed; ond pan ddel un i'w dynu oddiarno, fe ymdrecha i gael myned ymaith oddi tano. Taranau o lid allan o air Duw, yn cael eu hanfon i'r enaid gan Yspryd yr Arglwydd, fydd yn sicr o gadw dyn yn effro.

*Yn olaf*, Nid rhyfedd fod digofaint yn dyfod ar eglwysi a chenedlaethau, ac arnom ninnau yn y wlad hon; a bod babanod sydd eto heb eu geni yn ddyoddef dano. Mae y rhan fwyaf o'r wlad eto yn blant digofaint; ychydig sy'n ffoi rhagddo, nac yn dyfod i ffordd y diogelwch; ond y mae pobl o bob gradd yn cynnorthwyo i'w chwanegu. Gwrthododd yr Iuddewon Grist; ac mae eu plant yn dyoddef dan ddigofaint agos i ddeunaw can mlynedd. Caniataed Duw na fo i'r croesawiad gwael a roir i Grist a'r efengyl yn yr oes hon, gael ei ddilyn â digofaint ar yr oes ganlynol.

---

DEFNYDD II. O Gynghor. Ac yma, 1. Caf ddweyd gair wrth y rhai sydd eto yn eu cyflwr natur. 2. Wrth y rhai sydd wedi eu dwyn allan o hono. 3. Wrth bawb yn gyffredinol.

I. Wrthych chwi sydd eto yn eich cyflwr natur, swniaf y larwm, a rhybuddiaf chwi i edrych atoch eich hunain, yn awr tra mae gobaith. O chwi blant digofaint, na orphwyswch yn y cyflwr gresynol hwn; ond ffowch at Iesu Grist, yr unig noddfa. Brysia, diangc yno. Mae cyflwr natur yn lle rhy boeth i ti fyw ynddo, Mica ii. 10. " Codwch, ac ewch ymaith; canys nid dyma eich gorphwysfa," O bechadur a wyddost di pa le yr wyt? Onid wyt yn gweled dy berygl? Mae y felldith wedi myned i mewn i'th enaid: digofaint a daenodd drosot: mae y nefoedd yn myned dduach uwch dy ben: mae'r ddaear yn blino danat, mae'r bedd yn agor ei safn i'th dderbyn; a phe torid edau dy fywyd y munud hwn, byddai pob

gobaith wedi darfod gyda thi am byth. Pe gwelem di yn rhoi cwpanaid o wenwyn yn dy safn, rhedem atat a chipiem y gwpan o'th law. Pe gwelem y ty ar dân o'th amgylch, a thithau yn cysgu yn drwm ynddo, rhedem atat, a llusgem di allan o hono. Ond, och! yr wyt mewn mwy o berygl ddeng mil o weithiau; eto ni allwn ddim mwy na dweyd i ti dy berygl; dy wabodd, a'th annog, deisyf a thaer erfyn arnat i edrych atat dy hun; a galaru am dy galedrwydd a'th gyndynrwydd, pan na allom lwyddo i beri i ti gymmeryd rhybudd. Pe na byddai gobaith am dy wellad, byddem ddystaw, ac ni phoenem di cyn yr amser: ond er dy gyfrgolli a'th ddyfetha, mae gobaith yn Israel yn achos y peth hwn. Gan hyny yr wyf yn galw arnat yn enw yr Arglwydd, ac yn ngeiriau y prophwyd, Zech. ix. 12, "Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol." Ffowch at Iesu Grist o'ch cyflwr natur.

Cymhelliad I. Tra'r ydych chwi yn y cyflwr hwn, rhaid i chwi sefyll neu syrthio yn ol y ddeddf, neu'r cyfammod gweithredoedd. Pe deallech hyn yn iawn, fe'ch trywanai chwi trwy eich calonau fel miloedd o bicellau. Gwell i un fod yn gaethwas i'r Twrciaid, wedi ei gondemnio i'r rhwyflong; neu dan gaethiwed yr Aipht, na bod dan y cyfammod gweithredoedd yn awr. Dygwyd holl ddynolryw dano yn Adda, fel y clywsom o'r blaen; ac yr wyt ti, yn dy gyflwr natur, lle y gadawodd Adda di. Mae'n wir fod cyfammod arall wedi ei wneuthur; ond beth yw hyny i ti yr hwn ni ddygwyd iddo? Rhaid i ti fod dan un o'r ddau gyfammod; naill ai dan y ddeddf, neu dan ras. Mae llywodraeth pechod arnat yn dangos nad wyt ti dan ras; am hyny yr wyt dan y ddeddf, Rhuf. vi. 14. Na feddwl fod Duw wedi diddymu y cyfammod cyntaf, Matth. v. 17, 18. Gal. iii. 10. Na "Efe a fawrha y gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus." Mae wedi ei dori yn wir o'th ran di; ond tra afresymol yw meddwl fod dy ddyledswydd di wedi ei dilëu. Na, rhaid i ti sefyll neu syrthio wrtho, nes i ti gael gollyngdod oddiwrth Dduw ei hun, yr hwn yw y pleidiwr yn y cyfammod hwnw; a hyn ni elli di honni, gan dy fod allan o Grist.

Yn awr, i roi golwg i ti ar dy gyflwr truenus yn yr ystyr hwn, ystyria y pethau canlynol: (1.) Wrth hyn yr ydych yn rhwym i angeu, y'ngafael y bygythiad o farwolaeth yn y cyf-

ammod, Gen. ii. 17. Mae'r ammod wedi ei dori, yr ydych chwithau yn syrthio dan y gosp; felly mae yn eich cau i fynu dan ddigofaint. (2.) Nid oes un iechydwriaeth i chwi dan y cyfammod hwn, ond ar ammod anmhosibl i chwi ei gyflawni. Rhaid i gyfiawnder Duw gael ei foddloni am y camwedd a wnaethoch eisoes. Mae Duw wedi ysgrifenu y gwirionedd hwn â llythyrenau o waed ei Fab. Ie, a rhaid i ti gadw 'r ddeddf yn berffaith yr amser i ddyfod. Felly y dywaid y ddeddf, Gal. iii 12. "Eithr, y dyn a wna y pethau hyny, a fydd byw ynddynt." Tyred gan hyny O bechadur, edrych a fedri wneyd ysgol, â'r hon y gelli gyrhaeddyd gorsedd Duw: estyn allan dy freichiau, a chais ehedeg ar adenydd y gwynt, ymaflyd yn y cymylau, a threiddio trwy y nef weledig; ac yna naill ai dringo dros, neu dori trwy fur grisialaidd y ddinas uchod. Mor hawdd i ti wneuthur hyn, a myned i'r nefoedd yn dy gyflwr natur, neu dan y cyfammod gweithredoedd. (3.) Nid oes maddeuant dan y cyfammod hwn. Gras yw maddeuant, yn perthyn i gyfammod arall, yn yr hwn nid oes i ti ran na chyfran, Act. xiii. 39. "A thrwy hwn y cyfiawnheir pob un sydd yn credu, oddiwrth yr holl bethau, y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhau oddiwrthynt." Am danat ti, yr wyt y'ngafael dy ofynwr didrugaredd, yr hwn a'th gymmer di erbyn dy wddf, ac a ddywaid, *tal i mi yr hyn sydd ddyledus arnat?* ac a'th fwrw i garchar, lle y byddi hyd oni thalech yr hatling eithaf: oddieithr i ti fod mor ddoeth a cheisio meichiau mewn amser, yr hwn sy'n abl i atteb am dy holl ddyled, a'th ollwng yn rhydd. Crist yn unig a all wneuthur hyn. Yr wyt yn aros dan y cyfammod hwn, ac yn erfyn trugaredd, ond ar ba sail yr ydwyt yn ei dysgwyl? Nid oes un addewid am drugaredd na maddeuant yn y cyfammod hwnw. A wyt ti yn dysgwyl trugaredd er mwyn trugaredd? Fe saif cyfiawnder rhyngoch di a hi, gan ddadleu bygythiad cyfammod Duw, yr hwn ni all efe wadu. (4.) Nid oes le i edifeirwch yn y cyfammod hwn, fel y gollo'r pechadur gael un cynnorthwy trwyddo. Canys cyn gynted y pechi, mae'r ddeddf yn arllwys ei melldithion arnat, y rhai sydd mor bwysfawr, na elli di byth eu bysgwyd ymaith; na elli, pe bai "dy ben yn ddyfroedd, a'th lygaid yn ffynnon o ddagrau fel yr wylet ddydd a nos" am dy bechod. Dyna "Yr hyn ni all y ddeddf o herwydd ei bod yn wan trwy 'r cnawd," Rhuf. viii, 3. Yn awr,

*Esau halogedig* arall wyt ti, a werthodd ei fendith; ac nid oes le i edifeirwch, er i ti trwy ddagrau ei thaer geisio hi, tra byddi dan y cyfammod hwn. (5.) Ni chymmeradwyir yr ewyllys am y weithred yn y cyfammod hwn, yr hwn ni wnaethpwyd am *ewyllys da*, ond *gweithredoedd da*. Mae y camgymmeriad yn y pwngc hwn yn dinystrio llawer. Nid ydynt yn Nghrist, ond y maent dan y cyfammod cyntaf; ac eto hwy ddysgwyliant am y rhagorfraint hon. Mae hyn yn debyg i un a wnai wledd i'w deulu ei hun, a phan eisteddont wrth y bwrdd, mae gwas gwr arall, yr hwn a ddiangasai oddiwrth ei feistr, yn rhyfygu dyfod y'mlaen, ac eistedd yn eu plith: oni roddai arglwydd y wledd i'r fath ddieithr-ddyn y cerydd hwnw, *Y cyfaill pa fodd y daethost ti i mewn yma?* a chan nad yw yn un o'i deulu, a orchymyn iddo fyned ymaith yn ddioed. Er i feistr gymmeradwyo ewyllys da ei fab am ei weithred, a all gwas cyflog ddysgwyl y rhagorfraint hono? (6.) Nid oes a wnelych chwi â Christ tra yr ydych dan y cyfammod hwn. Yn ol cyfraith Duw, ni all gwraig briodi dau wr ar unwaith; rhaid i naill a'i marwolaeth neu ysgariaeth ddiddymu y briodas gyntaf, cyn y gall hi briodi un arall. Felly rhaid i ni yn gyntaf farw i'r ddeddf, cyn y gallwn ymbriodi â Christ, Rhuf. vii. 4. Y ddeddf yw y gwr cyntaf; Iesu Grist, yr hwn sy'n cyfodi y meirw a briododd y weddw, oedd wedi tori ei chalon a'i lladd gan y gwr cyntaf. Oed tra mae'r enaid yn y tŷ gyda'r gwr cyntaf, ni all efe ddadleu un berthynas briodasol â Christ, na rhagorfreintiau cyfammod priodasol, yr hwn hyd yma sydd heb ei wneuthur, Gal. v. 4, "Chwi a aethoch yn ddifudd oddiwrth Grist, y rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf: chwi a syrthiasoch ymaith oddiwrth ras." Heddwch, maddeuant, a rhagorfreintiau cyffelyb, ydynt ragorfreintiau y cyfammod gras. Ac na feddyliwch sefyll allan o Grist a'r cyfammod-priodasol âg ef, ac y cewch y rhagorfreintiau hyn, mwy nag y gall gwraig un gwr ddysgwyl rhagorfraint ammod priodas a fu rhwng gwr arall a'i wraig.

*Yn olaf*, Gwelwch ysgrif gwrthodiad wedi passio yn llys y nefoedd yn erbyn pawb sy dan y cyfammod gweithredoedd, Gal. iv. 30, "Canys ni chaiff mab y wasanaethferch etifeddu." Cydmara adn. 24. Nid all etifeddion digofaint fod yn etifeddion gogoniant. Y rhai y mae gan y cyfammod cyntaf awdurdod i'w cau o'r nefoedd, ni all yr ail gyfammod eu dwyn yno.

*Gwrthddadl*, Yna mae'n anmhosibl ein hachub? *Atteb*, Felly mae, tra'r ydych yn y cyflwr hwnw. Ond os mynwch ddyfod allan o'r amgylchiad dychrynllyd hwnw, prysurwch allan o'r cyflwr hwn. Pe bai lofrudd dan ddedryd marwolaeth; tra fyddo efe byw yn y deyrnas, mae'r gyfraith a'i gafael yn ei fywyd: ond os gall efe ddiangc tros y mor, dan lywodraeth tywysog arall; ni all ein cyfreithiau ni ei gyrhaedd ef yno. Dyma'r hyn a ewyllysiem i chwithau wneuthur; ffoi allan o deyrnas y tywyllwch, i deyrnas anwyl Fab Duw; allan o lywodraeth y ddeddf dan lywodraeth gras; yna ni all holl felldithion y ddeddf, na'r cyfammod gweithredoedd byth eich cyrhaeddyd.

CYMHELLIAD II. O chwi blant digofaint, mae'ch cyflwr yn druenus, canys collasoch Dduw; a cholled annhraethadwy yw hyny. Yr ydych "heb Dduw yn y byd," Eph. ii. 12.—Beth bynag a ellwch alw yn eiddo i chwi, nis gellwch alw Duw yn eiddo i chwi. Os edrychwn ar y ddaear, fe allai y gellwch ddywedyd wrthym, y tir yna, y tŷ acw, yr anifeiliaid yma, ydynt eiddo fi; ond edrychwn i'r nefoedd; a yw y Duw yma, y gras yma, a'r gogoniant acw yn eiddot ti? Sicr yw, "nid oes i ti na rhan na chyfran yn y pethau hyn." Pan ydoedd Nebuchodonosor yn siarad am ddinasoedd a theyrnasoedd, mor hunanol mae'n llefaru "Babilon fawr a adeiledais i—fy nerth—fy mawrhydi:" ond mae'n chwedleua'n wael pan mae'n dyfod i ddweyd am Dduw. *eich Duw chwi*, Dan. ii 47 a iv. 30. O bechadur, beth bynag sydd genyt, mae Duw wedi dy adael. O drueni enaid didduw! A gollaist ti Dduw? Yna, (1.) mae rhinwedd a sylwedd pob peth sydd genyt wedi colli. Am y dyn didduw, caffed y peth a gaffo, un heb ddim ydyw, Matth. xxv. 29. Ni ddichon y dyn diadgenedledig gael un boddlonrwydd i'w enaid, pa beth bynag a gaffo efe, gan nad yw Duw yn Dduw iddo. Ei holl ddyddiau mae'r bwyta mewn tywyllwch; yn mhob sefyllfa mae anfoddlonrwydd dirgelaidd yn aflonyddu ei galon fel yspryd: mae ar yr enaid eisieu rhywbeth, er, fe allai, na wyr efe beth ydyw: ac felly y bydd bob amser, nes i'r enaid droi at Dduw, ffynnon boddlondeb. (2.) Ni elli wneuthur dim yn iawn erot dy hun canys y mae Duw wedi 'th adael, "mae ei enaid wedi ymadael oddiwrthynt," Ier. vi. 8, *fel coes o'i lle, yn crogi wrth un nad yw o un defnydd*, fel y gellir cyfieithu y gair a arferir yno. Trwy golli Duw, collaist ffynnon daioni; ac felly, pob gras, *pob daioni*, a holl ddylanwad achubol yr Yspryd. Beth yna

elli di ei wneuthur? pa ffrwyth elli di ei ddwyn, mwy na changen wedi ei thori oddiwrth y pren? Ioan xv. 5. Yr wyt wedi myned yn anfuddiol, Rhuf. iii. 12. fel peth budr braenedig, cymmwys i ddim ond i'r domen. (3.) Dringodd angeu i'th ffenestri, ie, mae ei arwyddion yn dy wyneb; canys Duw yn "moddlonrwydd yr hwn y mae bywyd," Ps. xxx 5, a'th adawodd, ac felly ymadawodd bywyd dy enaid. Pa fath delpyn ffiaidd yw y corph wedi i'r enaid ymadael? Llawer ffieiddiach yw dy enaid yn yr achos hwn. Yr wyt yn farw tra'r wyt yn fyw. Na wâd hyn; gan fod dy leferydd wedi ymattal, dy lygaid wedi tywyllu, a phob ysgogiad ysprydol ynot wedi darfod. Mae dy wir gyfeillion, ag sydd yn gweled dy gyflwr, yn galaru, o herwydd dy fod wedi myned i dir dystawrwydd. (4.) Nid oes genyt un cyfaill safadwy y'mhlith holl greaduriaid Duw; canys wedi i ti golli ewyllys da y Meistr, mae'r holl deulu yn codi i'th erbyn. Mae'r gydwybod yn elyn i ti; nid yw 'r gair byth yn dweyd yn dda am danat: mae pobl Duw yn alaru arnat, cyn belled ag y maent yn gweled beth wyt ti. Ps. xv. 4. Mae'r anifeiliaid a cherrig y maes yn cyduno i'th erbyn di. Iob. v. 23. Hos. ii. 18. Dy fwyd, dy ddïod, a'th ddillad sy'n blino yn bod yn wasanaethgar i adyn wedi colli Duw, ac yn eu camarfer i'w ddianrbydeddu. Mae'r ddaear yn gruddfan danat ti; ie, mae "pob creadur yn cydocheneidio ac yn cyd-ofidio," o'th achos di, a'th gyffelyb. Rhuf. viii. 22. Ni fyn y nefoedd mo honot; canys nid â i mewn iddi ddim aflan, Dat. xxi. 27. Yn unig "Uffern oddi tanodd a gynhyrfodd o'th achos, i gyfarfod â thi," Esay xiv. 9. *Yn olaf,* Mae dy uffern wedi dechreu eisoes. Beth sy'n gwneyd uffern ond ymadawiad â Duw? "Ewch oddiwrthyf rai melldigedig." Yr ydych wedi myned oddiwrth Dduw yn barod, a'r felldith arnoch. Dyna fydd dy gospedigaeth o'r diwedd (oni throi di) yn hyn yn awr yw dy ddewisiad. Fel y mae cyflwr grasol yn gyflwr o ogoniant yn yr eginyn, felly cyflwr dirus yw uffern yn yr eginyn; yr hwn os parha, a ddaw i berffeithrwydd yn y diwedd.

CYMHELLIAD III. Ystyriwch siamplau dychrynllyd o ddigofaint Duw; a bydded iddynt eich deffroi i ffoi o'r cyflwr hwn. Ystyriwch (1.) Fel y mae yn disgyn ar ddynion. Hyd yn nod yn y byd yma, mae llawer wedi cael eu gosod yn goffadwriaeth o lid Duw, fel yr ofnai eraill. Ysgubodd digofaint dorfeydd ar unwaith trwy ddwylaw Duw digllon. Ystyr-

iwch na "Arbedodd yr Arglwydd mo'r hen fyd—dygodd ddiluw ar fyd y rhai anwir: a chan droi dinasoedd Sodoma a Gomorrah yn lludw, a'i damniodd hwy â dymchweliad, gan eu gosod yn esampl i'r rhai a fyddent yn annuwiol" 2 Pedr. ii 5. 6. Ond mae hi eto yn fwy dychrynllyd i feddwl am yr wylofain, a'r rhingcian dannedd, y'mysg y rhai a godant eu golwg yn uffern, heb allu cael dafn o ddwfr oer i oeri eu tafod. Cred y pethau hyn, a chymmer rybudd trwyddynt, rhag i ddinystr dy oddiwes di er rhybudd i eraill. (2.) Ystyriwch fel y daeth digofaint ar yr angylion syrthiedig, y rhai y mae eu cyflwr yn hollawl anobeithiol. Hwynthwy oedd y rhai cyntaf a feiddiasant dori tros derfynau y gyfraith sanctaidd; a Duw a'u gosododd hwynt yn gôfnodau o'i ddigofaint yn erbyn pechod. Gadawsant unwaith eu trigfa eu hun, ac ni oddefwyd iddynt byth i edrych i mewn trwy dwll y clo; ond fe'u "cedwir mewn cadwynau tragywyddol dan dywyllwch, hyd farn y dydd mawr," Iude 6. *Yn olaf*, edrych fel yr ymddygodd Duw digllon tu ag at ei Fab ei hun, wrth sefyll yn lle pechaduriaid etholedig, Rhuf. viii. 32. "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab." Trugaredd arbedol a allesid ei ddysgwyl, os dim. Pe buasai neb yn ei chael, diammeu y cawsai ei Fab ei hun; ond nid arbedodd efe ef. Mae hyfrydwch y Tad wedi ei wneuthur yn wr gofidus: efe yr hwn oedd yn ddoethineb Duw, yn dyfod yn syndod aruthrol, yn barod i lesmeirio mewn dychryn. Mae pwys y digofaint hwn yn peri iddo chwysu dafnau o waed. Trwy erwindeb y tân hwn, ei galon a doddodd fel cwyr yn nghanol ei berfedd. Gwelwch yma mor lym yw Duw yn erbyn pechod! Fe dywyllodd yr haul wrth yr olwg ofnadwy hon; fe rwygodd y creigiau; beddau a agorwyd, ac angeu fel pe buasai wedi ei daro â syndod yn gollwng ei garcharorion ymaith. Beth yw dwfr diluw, cawod o dân a brwmstan ar y Sodomiaid, dychrynllyd sŵn dymchweliad y byd, a thwrf holl adeilad y nefoedd a'r ddaear yn syrthio i'r llawr yn nghyd, a bwrw yr angylion o'r nefoedd i'r pydew heb waelod? Beth yw hyny oll meddaf, mewn cydmariaeth i hyn? Duw yn dyoddef! yn gruddfan, yn marw ar y groes! Sancteiddrwydd anfeidrol a'i gwnaeth, i beri i bechod edrych yn dra pechadurus ac atgas. Ac a fydd dynion fyw yn dawel a hwythau yn agored i'r digofaint hwn?

*Yn olaf*, Ystyriwch pa fath Dduw yw yr hwn yr ydych yn gyfrifol iddo, llid yr hwn sydd i'ch erbyn. Duw anfeidrol ei

wybodaeth a'i ddoethineb yw; fel na âd yr un o'th bechodau dirgelaf gael eu cuddio rhagddo. Mae efe yn sicr o ddefnyddio pob moddion i ddwyn digofaint, yn ol rheol cyfiawnder. Mae ei allu yn anfeidrol, ac felly gall wneyd yr hyn a ewyllysio yn erbyn y pechadur. O mor drwm yw digofaint Duw hollalluog! Dichon gallu anfeidrol wneyd y pechadur yn garcharor, pan fo mwyaf ei gynddeiriogrwydd yn erbyn y nefoedd. Gall ddwyn eu llwch o'r bedd, a'i osod yn nghyd drachefn; ail uno y corph a'r enaid; eu dwyn o flaen y frawdle, eu gyru i uffern, a'u dal i fynu âg un llaw i dragywyddoldeb, a'u curo â'r llaw arall. Mae'n anfeidrol gyfiawn, ac felly rhaid iddo gospi. Gweithredai yn groes i'w natur, pe gadawai y pechadur heb ei gospi. Oddi yma y mae tywallt digofaint yn foddhaol ganddo ef. Er nad yw yr Arglwydd yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, fel y mae yn ddinystr i'w greadur, eto y mae yn ymhoffi ynddo fel y mae yn gyflawniad cyfiawnder. "Ar yr annuwiol y gwlawia efe faglau tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus." Sylwch beth yw'r rheswm: "Oblegyd yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder." Ps. xi. 6, 7. "Felly y gorphenir fy nig, ac y llonyddaf fy llidiawgrwydd yn eu herbyn hwynt, ac ymgysuraf," Ezek v. 13. "Mi a chwarddaf yn eich dialedd," Diar. i. 26. I ddybenu, mae efe yn byw byth i barhau yr amrafael. Gan hyny ni a benderfynwn, mai "peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw."

Deffro gan hyny, O bechadur ieuangc! Deffro O hen bechadur, yr hwn wyt eto yn y cyflwr y ganwyd di. Nid oes genyt ti un diogelwch cymmeradwy gan Dduw; cwsg marwolaeth yw: cyfod o hono cyn i'r pydew gau ei safn arnat. Mae'n wir y gelli wisgo dwyfroneg haiarn, a helm o bres, a bod dy galon fel yr adamant: eto pwy all wrthyt? Ond fe ddryllia Duw dy dalcen pres, a'th galon adamantaidd yn fil o ddarnau. Gellwch os mynwch, ymdrechu i fwrw y pethau hyn o'ch meddwl, fel y gallech gysgu yn esmwyth, er bod mewn cyflwr o ddigofaint; gallwch redeg ymaith at eich gwaith a'r saethau y'nglyn yn eich cydwybod, er mwyn eu gweithio ymaith, neu i'ch gwelyau i'w cysgu allan; neu i gyfeillach i'w cellwair a'u chwerthin ymaith: ond caiff argyhoeddiadau wedi eu mygu felly, adgyfodiad dychrynllyd: ac mae'r dydd yn dyfod, pryd y glyna picellau digofaint yn eich enaid, fel na ellwch byth eu tynu allan, trwy oesoedd tragywyddoldeb, oddieithr i ti gymmeryd rhybudd mewn pryd.

Ond os bydd neb yn chwenych ffoi rhag y llid a fydd, ac heb wybod pa fodd, rhoddaf ger eich bron y cynghorion canlynol, gan attolygu a deisyfu arnynt fel y maent yn caru eu heneidiau, i ymaflyd yddynt. (1.) Ymneillduwch i le dirgel, ac yno myfyriwch ar eich trueni hwn. Credwch ef, a sefydlwch eich meddwl arno. Gofyned pob un iddo ei hun, Pa fodd y gallaf fyw yn y cyflwr hwn? Pa fodd y bydd i mi farw ynddo? Pa fodd yr adgyfodaf, ac y safaf ger bron brawdle Crist ynddo? (2.) Ystyriwch yn ddifrifol bechod eich natur, eich calon, a'ch bywyd. Mae golwg hynaws ar ddigofaint yn tarddu oddiar ddideimladrwydd o bechod. Mae y rhai sydd yn gweled eu hunain yn dra phechadurus yn canfod eu bod yn etifeddion digofaint. (3.) Llafuriwch i gyfiawnhau Duw yn y peth hyn. Ffreuo â Duw yn ei gylch, ac ymgynddeiriogi fel tarw gwyllt mewn magl, a'th sicrha yn fwy ynddo. Mae darostyngiad yr enaid, ger bron yr Arglwydd, yn angenrheidiol tu ag at gael diangfa. Ni wertha yr Arglwydd ollyngdod, ond fe'i rhydd yn rhad i'r rhai sydd yn eu gweled eu hunain yn hollawl annheilwng o'i ewyllys da. *Yn olaf*, Trowch eich golwg, O *garcharorion gobeithiol;* at yr Arglwydd Iesu Grist; a chofleidiwch ef fel y mae yn ei gynnyg ei hun yn yr efengyl. "Nid oes iechydwriaeth yn neb arall," Act. iv. 12. Mae Duw yn dân ysol; a chwithau yn blant digofaint. Os na saif y Cyfryngwr rhwng Duw a chwi, fe'ch collir am byth. Os mynwch fod yn ddiogel, deuwch dan ei gysgod ef: ni all defnyn o'r llid ddyfod yno, "Canys efe a'n gwaredodd ni oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod," 1 Thes. i. 10. Derbyn ef yn ei gyfammod, yn yr hwn y mae yn cynnyg ei hun i ti: ac felly, fel y wraig gaeth, fe'th waredir trwy briodi y cyfathrachwr. Ei waed a ddiffodda y tân digofaint sy'n llosgi yn dy erbyn di; y'ngwisg wen ei gyfiawnder ef y byddi diogel; canys ni all tymhestl digofaint ddyfod trwy hon.

II. Dywedaf air wrth y saint.

*Yn gyntaf*, Cofiwch—pan oeddych yn eich cyflwr natur eich bod heb Grist—heb obaith, ac heb Dduw yn y byd.—Gelwch i'ch cof y cyflwr yr oeddych ynddo gynt, a thremiwch ar ei drueni. Y mae pum coffadwriaeth a allaf ei roddi i holl gynnulleidfa y saint, y rhai nid ydynt mwyach yn blant digofaint ond etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ, er eu bod eto yn ei mabandod. (1.) Cofiwch, y dydd y cymmerodd yr Arglwydd chwi gerfydd eich llaw, nid oeddych mewn gwell cyflwr nag eraill. O! beth a'i cymhellodd i'ch cymmeryd chwi,

a myned heibio i'ch cymmydogion! Fe'ch canfu yn blant digofaint fel eraill; ond nis gadawodd chwi felly. Daeth i'r carchar cyffredin, lle yr oeddych yn gorwedd yn eich cadwynau, fel eraill; ac o fysg y dorf, o ddrwgweithredwyr condemnedig, dewisodd chwi, gan orchymyn cymmeryd eich cadwynau ymaith, a rhoi maddeuant yn eich llaw, a'ch dwyn i ryddid gogoniant plant Duw, tra gadawodd eraill yn nghadwynau y diafol. (2.) Cofiwch, nid oedd dim ynoch i beri iddo eich caru chwi. Yn y dydd yr ymddangosodd gyntaf i'ch gwared chwi, yr oeddych yn blant digofaint megis eraill, cymmwys i uffern, a hollawl anaddas i'r nefoedd; eto dygodd y Brenin chwi i'r palas; Mab y brenin a'ch carodd, drosedd yr condemnedig, ac a'ch dyweddïodd iddo ei hun ar y dydd y gallesid eich dibenyddio. "Ie, O Dad canys felly y rhyngodd bodd i ti," Matth. xi. 26. (3.) Cofiwch eich bod yn addasach i'ch ffieiddio nag i'ch caru y pryd hwnw. Rhyfeddwch, pan welodd chwi yn ymdrabaeddu yn eich gwaed, nid edrychodd arnoch gydâ chasineb, a myned heibio i chwi. Rhyfeddwch fod y cyfryw amser a hwn yn *amser serchawgrwydd*, Esek. xvi. 8. (4.) Cofiwch eich bod wedi eich addurno âg addurn benthycol. Ei harddwch ef a osododd efe arnoch, adn. 14. Efe a dynodd eich dillad carchar, a'ch gwisgodd â gwisgoedd cyfiawnder, gwisgoedd iechydwriaeth; gwisg yn yr hon y trwsir chwi fel y lili y rhai nid ydynt yn llafurio, nac yn nyddu. Cymmerodd y cadwynau oddi am eich breichiau, y tennyn oddi am eich gwddf, ac a'ch gwisgodd yn gymmwys i lys y nefodd, ïe, i fwyta ar fwrdd y brenin. (5.) Cofiwch eich beiau heddyw fel y pentrulliad yr hwn a anghofiodd Joseph. Cofiwch fel yr anghofiasoch, ac mor annhirion y triniasoch yr hwn a'ch cofiodd yn eich isel radd. "Ai dyma dy garedigrwydd i'th gyfaill?" Yn nydd eich gwaredigaeth, a dybiasoch chwi mai fel hyn y croesawech chwi eich Harglwydd?

*Yn ail,* Tosturiwch wrth blant digofaint, y byd sy'n gorwedd mewn drygioni, A ellwch chwi fod yn ddifater yn eu cylch, a chwithiau wedi bod yn yr un cyflwr? Daethoch chwi i'r lan mae'n wir, ond mae eich cymdeithion mewn perygl o gyfrgolli; ac oni wnewch chwi eich goreu er eu hachub? Yr hyn ydynt hwy, fuoch chwithau. Dylai hyn fagu tosturi ynoch, a pheri i chwi arfer pob moddion er eu hachub. Gwel. Tit. iii. 1, 2, 3.

*Yn drydydd,* Rhyfeddwch y cariad anghydmarol a'ch dygodd o'r cyflwr o ddigofaint. Cariad gweithgar yw cariad

Crist; carodd eich henaid allan o bydew dinystr. Nid gwaith haw oedd prynu bywyd pechadur condemnedig; ond rhoddodd ei fywyd yn lle dy fywyd di; rhoddodd ei werthfawr waed ddiffodd y fflam o ddigofaint, yr hon fuasai yn dy ysu di. waelod pydew y gwel dynion y ser egluraf; ac allan o'r p dew hwn o drueni, i'r hwn y dygwyd di gan yr Adda cynta y gelli gael yr olwg oreu ar Haul cyfiawnder yn ei holl ogo iant. Efe yw yr ail Adda, yr hwn a'th gymmerodd allan o pydew erchyll, a'r clai tomlyd.

Mor fawr oedd y cariad hwnw yr hwn a guddiodd y fath liav o bechodau! Gwelwch ei hyd, yn cyrhaeddyd o dragywydd oldeb i dragywyddoldeb, Ps. ciii. 7; ei ddyfnder yn myn mor isel a'th waredu di o uffern isod, Ps. lxxxvi. 13; uwchder yn dy godi i eistedd yn y nefolion leoedd, Eph ii. 6.

*Yn bedwerydd*, Byddwch ostyngedig, ymddygwch yn ise cerddwch yn araf eich holl ddyddiau. Na falchïwch eich doniau, grasusau, breintiau, na'ch cyrhaeddiadau: o cofiwch y buoch "yn blant digofaint megis eraill." Ma paun yn cerdded yn araf, ac yn gostwng ei blu ceinwy tra fo'n edrych ar ei draed duon. Edrychwch chwithau geudod y ffos y cloddiwyd chwi o honi, a rhodiwch yn ostyn edig fel y gweddai i ddyledwyr gras.

*Yn olaf*, Byddwch yn gwbl tros eich Arglwydd. Mae p gwraig yn rhwym i fod yn ddarostyngedig i'w gwr; ond m rhwymau deublyg ar yr hon a gymmerwyd oddi ar y dome neu o'r carchar. Os gwaredodd yr Arglwydd chwi rhag di ofaint, dylech o achos hyny, fod yn eiddo ef; gweithre drosto, dyodd ef erddo, a gwneyd yr hyn a orchymyno. N oes gan y saint un rheswm i gwyno o'r sefyllfa yn y byd, be bynag a fo ddo hi. Hawdd i ni ddwyn y groes erddo ef, hwn a ddygodd y felldith oddi arnom ni. Hawdd y galla hwy ddyoddef gwg dynion er ei fwyn ef, yr hwn a'u gwarc odd rhag digofaint Duw; a myned i'r tân er mwyn yr hwn ddiffoddodd dân uffern iddynt hwy. Bu dy gorph a'th ena a'r hwn oll a feddi unwaith dan ddigofaint: efe a symudodd digofaint, ac oni chaiff yr holl bethau hyn fod at ei wasa aeth? Iesu Grist yn unig a barodd fod dy enaid yn rhy oddiwrth ddigofaint; ac oni chaiff dy enaid gan hyny fod deml i'r Yspryd? Bod dy galon heb fod yn llawn o fraw gwarthgoffrwydd, sydd i'w gydnabod iddo ef yn unig; i bw gan hyny y dylid ei rhoddi, ond iddo ef? Bod dy lygaid h

eu dallu gan fwg y pydew, a'th ddwylaw heb eu rhwymo â chadwynau'r tywyllwch, a'th dafod heb fod yn rhostio yn nhân uffern, a'th draed heb fod yn sefyll yn y llyn sy'n llosgi o dân a brwmstan, sydd i'w addef yn gwbl i Iesu Grist: ac oni chaiff y llygaid wasanaethu iddo ef, y dwylaw hyn weithredu drosto, y tafod hwn lefaru am dano, a'r traed hyn redeg ei negesau? Iddo ef, yr hwn sy'n credu ei fod yn blentyn digofaint fel eraill, ond yn awr a waredwyd trwy Iesu Grist, nid ymddengys dim yn ormod i wneyd neu ddyoddef tros ei waredwr, pan elwir ef i hyny.

III. I ddiweddu, Mi ddywedaf air wrth bawb: Na feddylied neb yn ysgafn am bechod, yr hwn sy'n gosod y pechadur yn agored i ddigofaint Duw. Na fydded i bechod ein natur, yr hwn a blethodd iau digofaint Duw, mor fuan am ein gwddf, fod yn beth bychan yn ein golwg. Ofnwch Dduw o herwydd ei ddigofaint arswydus. Crynwch wrth feddwl am bechod, yn erbyn yr hwn mae'r Arglwydd yn dwyn y fath ddigofaint tanllyd. Edrychwch ar ei ddigofaint, ofnwch, ac na phechwch. A ydych chwi'n meddwl mai i beri ofn caethiwus ynoch y mae hyn? Pe felly byddai, gwell i un fod yn gaethwas i Dduw â chalon grynedig, nag yn wr rhydd i'r diafol â chydwybod seriedig, a chalon adamantaidd. Ond nid felly y mae; gellwch ei garu ef a'i ofni hefyd; ïe dylech ei wneuthur pe baech y saint o'r radd uwchaf, Gwel Ps. cxix. 120. Matth. x. 28. Luc xii. 5. Heb. xii. 28,29. Er i chwi fyned heibio i lyngclyn digofaint, a bod yn Nghrist, eto mae yn rhesymol i'ch calon grynu wrth edrych yn ol iddo. Mae eich pechod eto yn haeddu digofaint, fel pechodau rhai eraill; a pheth dychrynllyd fyddai bod mewn ffwrn danllyd; er i ni gael ein cadw rhag niweid trwy law wyrthiol Duw.

# PEN III.

## HOLLAWL ANALLU DYN I WAREDU EI HUN.

RHUFEINIAID v. 6.

*Canys Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol.*

IOAN vi. 44.

*Ni ddichon neb ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef.*

CAWSOM yn awr olwg ar hollawl lygredigaeth natur dyn, a'r llwyth o ddigofaint sydd yn gorwedd arno, a'r llyngclyn o drueni y mae efe ynddo yn ei gyflwr natur. Ond y mae un rhan o'i drueni yn haeddu ei ystyried yn neillduol; sef, ei hollawl anallu i'w adferu ei hun. Mae adnabyddiaeth o hyn yn angenrheidiol i ddarostwng y pechadur. Y peth wyf yn fwriadu yw, gosod ger eich bron ychydig o bethau, i ddangos i'r dyn diadgenedledig ei anallu hwn; fel y gwelo angenrheidrwydd anhepgorol am Grist, ac am nerth ei ras.

Gan na all gwr a syrthio i bydew, waredu ei hun allan o honaw, ond trwy un o ddwy ffordd; naill ai trwy wneyd y cwbl ei hun, neu trwy ddefnyddio y cymmorth a roir iddo gan arall: felly ni all yr annychweledig waredu ei hun allan o'r cyflwr hwnw, ond naill ai trwy ffordd y cyfammod gweithredoedd, trwy wneyd y cwbl ei hunan heb Grist; neu yn ffordd yr efengyl, neu'r cyfammod gras, trwy ymaflyd yn Nghrist, a defnyddio y cymmorth a gynnygir iddo gan Waredwr. Ond och! mae yr annuwiol yn farw yn y pydew, ac ni all waredu ei hun yr un o'r ddwy ffordd hon. Ni all trwy y ffordd gyntaf; canys mae y testun cyntaf yn dywedyd, pan ddaeth Crist i'n gwaredu, ein bod yn weiniaid, heb allu i'n hadferu ein hunain. Yr oeddym yn annuwiol; a chan hyny dan lwyth o euogrwydd a digofaint; eto yn weiniaid, heb allu i sefyll dano, heb allu i'w fwrw ymaith, nac i ddiangc oddi tano; felly diau

y buasai holl ddynolryw yn golledig, oni buasai i Grist farw tros yr annuwiol, a dwyn cymmorth i rai na allasent byth waredu eu hunain. Ond pan mae Crist yn cynnyg cymmorth i bechaduriaid, oni allant ei dderbyn? oni allant ddefnyddio cymmorth pan ddêl i'w cyrhaedd? Na; mae yr ail destun yn dywedyd na allant. *Ni ddichon neb ddyfod ataf fi,* (h.—y. credu ynof fi Ioan vi 35.) *oddieithr i'r Tad ei dynu ef.* Dyma dyniad a'u nertha i ddyfod, y rhai o'r blaen ni allasent ddyfod, a chan hyny ni allant gymmorth eu hunain trwy ddefnyddio y cynnorthwy a gynnygir iddynt. Tyniad effeithiol yw hwn: nid yw ddim llai na gwrando a dysgu gan y Tad, yr hyn pwy bynag a fydd gyfranog o hono, a ddaw at Grist, adn. 25. Nid tynu yw hwn mewn ffordd o ddenu moesol yn unig, yr hyn a all fod, ac sydd hefyd bob amser yn aneffeithiol; ond tynu trwy allu anfeidrol yw 'r tynu hwn Eph. i. 19, y cyfryw ag sy'n anhepgorol angenrheidiol i'r rhai sydd heb allu eu hunain i ymaflyd yn y cynnorthwy a gynnygir.— Gwrando gan hyny, O bechadur, a gwel dy fod wrth natur mewn cyflwr truenus, yn gyfryw nad elli mewn modd yn y byd dy waredu dy hun. Ti a'th ddinystriaist dy hun: a pha beth a wnai di tu ag at dy wellhad? Pa un o'r ddwy ffordd a ddewisi? A gynnygi di hi dy hun? Neu a ddefnyddi di gymmorth? A ddewisi di ffordd gweithredoedd, ynte ffordd yr efengyl? Yr wyf yn gwybod yn dda na cheisi di ffordd yr efengyl, nes y gweli achubiaeth yn anmhosibl yn ffordd y ddeddf. Gan hyny mi ddechreuaf lle mae natur lygredig yn ein dysgu i ddechreu, sef, yn ffordd y cyfammod gweithredoedd.

I. Bechadur, dymunwn i ti gredu na ettyb dy waith mo'r dyben. Gweithia, a gwna dy oreu, ni elli byth weithio dy hun allan o'r cyflwr hwn o drueni a digofaint. Rhaid i ti gael Crist, neu fe'th gyfrgollir byth. *Crist ynot* yn unig a all fod yn *obaith y gogoniant.* Ond os oes arnat flys rhoi cais, yna rhaid i mi osod o'th flaen, o air safadwy y Duw byw, ddau beth a raid i ti wneuthur: ac os gelli eu gwneuthur, rhaid addef y gelli adferu dy hun; ond os na elli, yna ni elli wneyd dim tu ag at dy achubiaeth.

Yn gyntaf, "Os ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw y gorchymynion," Matth. xix. 17. Hyny yw, os myni trwy weithio fyned i'r bywyd, rhaid i ti gadw y deg gorchymyn yn berffaith. Canys dyben y geiriau hyn yw darostwng balchder calon y gwr, ac fel y gwelai angenrheidrwydd anhepgorol am

Waredwr, gan fod yn aumhosibl cadw y ddeddf. Ma'r atteb yn addas i'r cyfarchiad. Mae'r Arglwydd yn rhoi attalfa ar ei foes-gyfarchiad *athraw da*, adn. 16. Trwy ddywedyd wrtho "Nid oes neb da ond un, sef Duw," adn. 17. Fel pe dywedasai, yr wyt ti yn meddwl dy hun yn ddyn da, a minnau yn un arall: ond pan sonir am dda, gall dynion ac angylion guddio eu wynebau o flaen y Duw da Ac am ei ofyniad, lle mae yn dangos ei duedd deddfol, nid yw Crist yn ei atteb, trwy ddywedyd, "Cred a chadwedig fyddi." Ni fuasai hyny mor addas i un oedd yn meddwl gwneyd yn eithaf drosto ei hun, ond cael gwybod pa beth da i'w wneuthur; ond yn gyfaddas i'r dymher yr oedd efe ynddi, parodd iddo gadw y gorchymynion; eu cadw yn dra manwl fel carcharwr yn gwylied drwg weithredwyr mewn carchar, rhag os diangc neb o honynt, y bydd i'w fywyd fyned yn eu lle. Gwel gan hyny, O bechadur, beth a elli di ei wneuthur yn yr achos hwn: canys os gwaredi di dy hun yn y ffordd hon, rhaid i ti gadw gorchymynion Duw yn berffaith.

Ac yn (1.) Rhaid i'th ufudd-dod fod yn berffaith o ran y egwyddor; hyny yw, rhaid i'th enaid, egwyddor y weithred fod yn berffaith lân, ac yn gwbl ddi-bechod; canys mae y ddeddf yn gofyn pob perffeithrwydd moesol, nid yn unig y weithredol ond yn reddfol; ac felly mae hi yn condemnio pechod gwreiddiol, aumhuredd yn ein natur, yn gystal ac yn ein gweithredoedd. Yn awr os gelli gyflawni hyn, gelli atteb gofyniad Solomon na allodd neb erioed o hiliogaeth Adda ei atteb, Diar. xx. 9. "Pwy a ddichon ddywedyd mi a lanheais fy nghalon?", Ond os na elli, mae'r diffyg hwn yn bechod; ac felly yn dy wneuthur yn agored i felldith, ac yn dy ymddifadu o fywyd; ïe, mae yn gwneuthur dy holl weithredoedd, hyd yn nod dy weithredoedd goreu yn bechadurus; "Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Neb."—Iob xiv. 4. Ac a wyt ti yn tybied mai trwy bechu y dygi di dy hun o afael pechod a thrueni? (2.) Rhaid i'th ufudd-dod hefyd fod yn berffaith o ranau. Rhaid ei fod cyn lleted a deddf Duw: os palli mewn un peth, ti andwyaist dy hun; canys mae'r ddeddf yn cyhoeddi ei melldithion ar *yr hwn nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir ynddi*, Gal. iii. 10. Rhaid i ti roi ufudd-dod tufewnol ac allanol i'r holl ddeddf; cadw yr holl orchymynion mewn calon a bywyd. Os tori di un o honynt, sicrha hyny dy ddinystr. Meddwl gwag neu air ofer a'th ddwg dan y felldith. (3.) Rhaid iddo fod yn berffaith

raddau, fel yr oedd ufudd-dod Adda tra parhaodd yn ei weidrwydd. Hyn mae'r ddeddf yn ei ofyn, ac ni chymmai, Matth. xxii. 37. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th galon, â'th holl enaid, ac a'th holl feddwl." Os bydd un ld o'r cariad hwnw, mae'r ddeddf yn ei ofyn, yn fyr; os fydd pob rhan o'th ufudd-dod yn cyflawn atteb i'r ddeddf; ae'r diffyg hwnw yn doriad o'r ddeddf, ac felly yn dy adael di an y felldith. Gall un ddyfod a chymmaint o ddwfr ag a allo fe gludo, i dŷ a fo ar dân, er hyny y tŷ yn cael ei losgi, o eisiau digon o ddwfr i ddiffoddi 'r tân. Felly y gelli dithau wneuthur a allech i gadw y gorchymynion, ac os palli di yn y radd leiaf yn yr ufudd-dod mae'r ddeddf yn ofyn, dinystriaist dy hun am byth; oddieithr i ti ymaflyd yn Nghrist, a chyfrif dy gyfiawnder dy hun fel *bratiau budron*, Gwel Rhuf. x. 5. Gal. iii. 10. *Yn olaf*, Rhaid iddo fod yn wastadol, fel yr oedd ufudd-dod Crist yr hwn oedd bob amser yn gwneuthur yr hyn oedd foddlon gan ei Dad; canys rhediad y ddeddf yw, "Melldigedig yw pob un nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Canys, er fod ufudd-dod Adda yn berffaith, tros amser; eto trwy iddo ballu mewn un pwngc, sef, bwyta y ffrwyth gwaharddedig, aeth dan felldith y gyfraith. Pe byddai un fyw yn ddeiliad gwasanaethgar i'w dywysog hyd ddiwedd ei ddyddiau, ac yna bradfwriadu yn ei erbyn, byddai raid iddo farw am ei drosedd. Felly tithau er y gellit dros dy holl fywyd fyw mewn ufudd-dod perffaith i ddeddf Duw, a dim ond yn awr angeu lettya meddwl gwag neu lefaru gair ofer; y gair ofer neu y meddwl gwag hwnw a ddileai dy holl gyfiawnder o'r blaen, ac a'th ddinystriai di; sef, yn y ffordd yr wyt ti yn ceisio dyfod i fynu.

Yn awr dyma yr ufudd-dod yr ydwyt i'w gyflawni, os myni ddyfod i fynu yn ffordd y ddeddf. Ac er y gellit ufuddhau fel hyn, mae'r ddeddf yn dy ddal i lawr mewn cyflwr o ddigofaint nes i ofyniad arall o honi gael ei gyflawni, *sef*,

Yn ail, Rhaid i ti dalu yr hyn sydd ddyledus arnat. Si[n] yw dy fod yn bechadur: a pha beth bynag a elli fod rhaglla rhaid i gyfiawnder gael ei foddloni am y pechodau aeth heib[io]. Rhaid i anrhydedd y gyfraith gael ei amddiffyn trwy i ti d[dy]oddef y digofaint cyhoeddedig. Fe allai dy fod wedi diwy[gio] neu dy fod yn awr yn bwriadu hyny, a'th fod yn ymrod[dedig i] gadw gorchymynion Duw. Ond pa beth a wnaethost n[eu a] wnai i'r hen ddyled? Mae dy ufudd-dod perffaith i D[duw] yn ddyledus iddo, am yr amser y cyflawnir ef; ac [...]

wneuthur iawn am y pechodau blaenorol, mwy nag y gwnai dyddynwr wrth dalu ardreth y flwyddyn bresennol, foddloni ei feistr am yr hen ddyled. A all talu dyledion newydd ryddhau gwr oddiwrth hen gyfrifon? Na all, na thwyllwch eich hunain, cewch weled y rhai hyn oll yn nghofrestr Duw, "ac wedi ei selio yn mysg ei drysorau, Deut. xxxii. 34. Rhaid gan hyny, i ti naill ai dyoddef y digofaint yr wyt yn agored iddo trwy bechod yn ol y gyfraith; neu rhaid i ti gydnabod na elli ei oddef, a dyfod at y Meichnïydd, yr Arglwydd Iesu Grist. Gad i mi ofyn i ti, a wyt ti yn abl boddloni cyfiawnder Duw? A elli di dalu dy ddyled dy hun? Diau nas gelli: canysDuw anfeidrol yw yr hwn a ddigiaist;a'r gosp,yn gyfatteb-ol i'r bai, sydd anfeidrol. Ond ni all fod dy gosp neu'th ddyoddefiadau di yn anfeidrol eu gwerth, am mai creadur meidrol wyt: felly rhaid eu bod yn anfeidrol eu parhad; hyny yw rhaid iddynt fod yn dragywyddol. Ac felly nid yw dy holl ddyoddefiadau yn y byd ond gwystl o'r hyn a raid i ti ddyoddef yn y byd a ddaw.

Yn awr, bechadur, os gelli atteb y gofynion hyn, gelli ymachub yn llwybr y ddeddf. Ond a wyt ti ddim yn adnabod dy anallu i wneyd dim o'r pethau hyn, llawer llai eu cyflawni oll? Eto oni wnai y cwbl ni wnai ddim. Tro gan hyny i fyw fel y mynech, yr wyt mewn cyflwr o ddigofaint. Estyn dy ufudd-dod mor helaeth ag y gelli; dyoddef yr hyn a ddyry Duw arnat, ïe, chwanega, os myni, at y baich, a rhodia dan y cwbl, yn hollawl amyneddus; eto ni foddlona hyn oll mo ofynion y ddeddf. A chan hyny yr wyt eto yn greadur dinystriol. Och! bechadur beth wyt ti yn ei wneuthur, tra'r wyt yn ymdrechu i waredu dy hun, ac nad wyt yn derbyn ac yn ymuno â Christ? Yr wyt yn llafurio yn y tân, yn ymflino am oferedd; yn llafurio am fyned i'r nefoedd trwy 'r drws a gauodd Adda â'i bechod; fel na all efe na neb o'i hiliogaeth fyned i mewn trwyddo. Oni weli di gleddyf tanllyd cyfiawnder yn dy gadw oddiwrth bren y bywyd? Oni chlywi di y ddeddf yn datgan melldith ar yr hyn oll wyt yn ei wneuthur, ïe, ar dy ufudd-dod,dy weddïau,dy ddagrau,dy ddiwygiad yn dy fywyd, &c; o herwydd dy fod dan lywodraeth y ddeddf, nid yw dy weithredoedd goreu cystal ag y mae hi yn gofyn eu bod tan boen y felldith? Credwch hyn, os byddwch byw a marw allan o Grist, heb eich uno yn weithredol âg ef, fel yr ail Adda, yr Yspryd sydd yn bywhau, ac heb ddyfod dan gysgod ei waed ef; ie, er i chwi wneuthur mwy nag a wnaeth neb ar y ddaear

i gadw gorchymynion Duw, ni chewch chwi byth weled wyneb Duw mewn heddwch. Pe byddai i ti o hyn allan, ymadael am byth a phleserau'r byd, a'i holl orchwylion, ac o hyn allan boeni dy hun â dim ond iechydwriaeth dy enaid; pe'r ymneilldduit i anialwch, a byw ar wellt y maes, a bod yn gyfaill i'r dreigiau a'r dylluanod; pe'r ymneilldduit i dwll tywyll yn y ddaear, ac wylo yno am dy bechodau, nes i ti fyned yn ddall, ie wylo holl leithder dy gorph; pe cyffesit â'th dafod nes iddo lynu wrth daflod dy enau, a gweddïo nes i'th liniau fyned cyn galeted a chyrn, ymprydio nes i'th gorph fyned fel ysgerbwd, ac wedi hyny ei roi i'w losgi; aeth y gair o enau yr Arglwydd mewn cyfiawnder, ac ni ddychwel; fe'th gyfrgollid er hyn oll, am nad wyt yn Nghrist, Ioan xiv. 6, "Nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi." Act. iv. 12, "Nid oes iechydwriaeth yn neb arall." Marc. xvi. 16. "Y neb ni chredo a gondemnir."

*Gwrthddadl*, Ond mae Duw yn Dduw trugarog; ac y mae efe yn gwybod na allwn atteb y gofyniadau hyn: Yr ydym gan hyny yn gobeithio cael ein hachub trwy wneuthur oreu gallom, a chadw y gorchymynion hyd eithaf ein gallu. *Atteb.* (1.) Er dy fod yn alluog i wneuthur llawer o bethau, ni elli wneuthur un peth yn iawn: ni elli wneuthur dim sy gymmeradwy ger bron Duw, yr wyt *allan o Grist*, Ioan xv. 5, "Hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim." Ni all dyn diadgenedledig, fel tydi, wneuthur dim ond pechu, fel yr amlygwyd eisoes. Pechod yw dy weithredoedd goreu, ac felly chwanegant dy ddyled i gyfiawnder: pa fodd gan hyny y gellir dysgwyl iddynt ei lleihau hi? (2) Pe addawai'r Arglwydd achub dynion os bydd iddynt wneuthur cymmaint ag allont mewn ufudd-dod i'w orchymynion ef: mae genym le i feddwl, na achubid neb yn y ffordd hòno: canys pa le y mae 'r dyn sy'n gwneyd oreu ag allo? Pwy sydd heb weled llawer o lwybrau gwyrgam a wnaeth, a allasai ochelyd? Mae cymmaint o bethau i'w gwneuthur, cynnifer o hudoliaethau i'n dwyn oddiar lwybr ein dyledswydd, ac y mae'n natur mor barod i gael ei thanio gan uffern; fel y pallwn mewn rhyw bwngc a allem ei gadw.— Ond yn (3.) Er i ti wneuthur yr hyn a elli, ofer y gobeithi gael dy achub yn y ffordd hòno. Ar ba ran o'r Bibl mae dy obaith wedi ei sylfaenu? Nid yw wedi ei sylfaenu ar y ddeddf na'r efengyl, ac felly nid yw ond twyll. Nid yw wedi ei sylfaenu ar yr efengyl, canys mae'r efengyl yn gyru yr enaid o hono ei hun, at Grist am y cwbl; ac y mae yn *cadarnhau y*

*ddeddf,* Rhuf. iii. 31. Felly ni all fod dy obaith wedi ei sylfaenu ar ddim, ond ar adfeiliad y gyfraith, yr hon o fawrha yr Arglwydd ac a'i gwna yn anrhydeddus; ac felly mae yn amlwg nad yw wedi ei sylfaenu ar y gyfraith chwaith. Pan osododd Duw Adda i weithio am ddedwyddwch iddo ei hun a'i hiliogaeth, perffaith ufudd-dod oedd yr ammod gofynedig iddo; a melldith am anufudd-dod. Wedi iddo ef dori 'r ddeddf, yr oedd efe a'i hiliogaeth yn ddarostyngedig i'r gosp ddyledus, ac hefyd yn rhwym i ufudd-dod perffaith: canys afresymol yw meddwl y byddai i bechod dyn a'i ddyoddefaint am ei bechod, ei ryddhau oddiwrth ddyledswydd o ufudd-dod perffaith i'w Greawdwr. Pan ddaeth Crist yn lle yr etholedigion, i weithio eu iechydwriaeth, yr un oedd yr ammodau. Yr oedd yr etholedigion yn garcharorion gan gyfiawnder: os ewyllysia efe eu gwaredu mae'r ammodau yn hysbys. Rhaid iddo roi iawn am eu pechodau, trwy ddyoddef y gosp ddyledus am danynt. Rhaid iddo wneuthur yr hyn ni allant hwy wneuthur, sef, ufuddhau'n berffaith i'r gyfraith ac felly cyflawni pob cyfiawnder. A hyn oll a wnaeth efe, ac felly daeth yn "ddiwedd i'r ddeddf er cyfiawnder i bob un sy'n credu," Rhuf. x. 4. Ac a wyt ti yn meddwl y lleiha Duw yr ammodau hyn i ti, pan na leihaodd hwynt i'w Fab ei hun? Na ddysgwyl hyn, pe bait yn ei erfyn â dagrau o waed; canys pe llwyddent, hwy a lwyddent yn erbyn gwirionedd, cyfiawnder, ac anrhydedd Duw, Gal. iii. 10. "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt," adn. 12. "A'r ddeddf nid yw o ffydd: eithr y dyn a wna y pethau hyny fydd byw trwyddynt." Mae'n wir fod Duw 'n drugarog: ond oni all efe fod yn drugarog heb eich achub chwi mewn ffordd sy'n anghytunol â'i ddeddf a'i efengyl? Oni amlygwyd ei ddaioni a'i drugaredd yn ddigon eglur yn anfoniad ei Fab, i wneuthur yr hyn na allai y ddeddf, o herwydd ei bod yn wan trwy 'r cnawd? Darparodd gymmorth i'r rhai na allent gynmorth eu hunain; ond yr wyt ti yn annheimladwy o'th wendid, yn ymdrechu i'th achub dy hun trwy dy weithredoedd, pryd na elli ei wneuthur mwy na symud mynyddoedd o bres o'u lle.

O herwydd pa ham, penderfynaf, dy fod yn hollawl analluog i adferu dy hun trwy 'r ddeddf. Ac, O na phenderfynit hyny dy hun.

II. Ceisiwn yn nesaf ddangos beth all y pechadur wneuthur yn ffordd yr efengyl. Mae'n debyg dy fod yn meddwl, er

na elli wneuthur y cwbl dy hunan: eto trwy fod Crist yn cynnyg nerth i ti, y gelli o'th nerth dy hun dderbyn hwnw a'i ddefnyddio er dy adferiad. Ond O bechadur, gwel dy eisieu o ras Crist: gwir yw fod cymmorth yn cael ei gynnyg; ond ni elli di ei dderbyn; mae rhaff wedi ei bwrw allan i ddwyn pechaduriaid llong-ddrylliog i dir! Ond nid oes ganddynt ddwylaw i ymaflyd ynddi. Maent fel babanod wedi eu bwrw ar wyneb y maes; y rhai a lewygant er fod bwyd yn agos atynt, oddieithr i ryw un ei roi yn eu genau. Er argyhoeddi dynion anianol o hyn, ystyrier,

*Yn gyntaf*, Er fod Crist yn cael ei gynnyg yn yr efengyl, eto ni allant gredu ynddo. Ffydd achubol, sydd ffydd etholedigion Duw; rhodd neillduol Duw iddynt, yn cael ei gweithredu trwy 'r Yspryd. Cynnygir iechydwriaeth i'r rhai a gredant yn Nghrist; ond *pa fodd y gellwch chwi gredu?* Ioan v. 44. Fe'i cynnygir i'r rhai a ddel at Grist; ond ni ddichon neb ddyfod ato ef oddieithr i'r Tad ei dynu ef. Fe'i cynnygir i'r rhai a edrych arno ef yr hwn a ddyrchafwyd ar drostan yr efengyl, Num. xxi. 9. Ond mae dyn anianol yn ddall ysprydol, Dat iii. 17. Ac nid yw'n gwybod pethau sydd o Yspryd Duw, *oblegyd yn ysprydol y bernir hwynt*, 1 Cor. ii. 14. Ie, pwy bynag a ewyllysio *deued*, Dat xxii. 17. Ond rhaid i ddydd nerth Duw gyfarfod ag ef cyn y daw efe, Ps. cx. 3.—

*Yn ail*, Nid oes gan ddyn wrth natur ddim trwy yr hyn y gall efe ymaflyd yn y cymmorth a gynnygir yn yr efengyl. Mae efe wedi ei fwrw i'r môr o ddigofaint; ac yn rhwym draed a dwylaw, fel na all efe gymmeryd gafael yn rhaffau cariad a estynir iddo yn yr efengyl. Ni all y saer mwyaf celfydd weithio heb arfau; ac ni all y cerddor medrusaf chwarae ar offeryn allan o gywair. Pa fodd y gall dyn gredu ac edifarhau, pan mae ei ddeall yn dywyllwch, (Eph. v 8.) ei galon yn galon garreg, yn anmhlygedig ac yn annheimladwy, (Ezek. xxxvi. 26.) ei serchiadau wedi eu llwyr fwrw allan o bob trefn; yr hwn sy'n groes i ddaioni, ac yn gŵyro at ddrwg? Mae breichiau gallu naturiol yn rhy fyr i gyrhaeddyd cymmorth goruwch naturiol: am hyny y rhai sy'n meddu fwyaf o honaw yn fynych sydd ddieithraf i bethau ysprydol, Matth. xi. 25, "Cuddiaist y pethau hyn oddiwrth y doethion a'r deallus."

*Yn drydydd*, Ni all dyn weithio cyfnewidiad achubol arno ei hun: eto rhaid ei gyfnewid, onid e ni all gredu nac ufuddhau, na myned i'r nef. Ni all un weithred fod, heb egwyddor gyfaddas. Credu, edifarhau, a'r cyffelyb, sydd ffrwyth yr

wneuthur, er eu bod yn analluog. Os oes ganddo allu thyledd o ufudd-dod, mae ganddo allu hefyd i fwrw y dy ledd-daledig i garchar am na thâl efe. Y'mhellach, fedd dynion anianol allu grasol, nid ydynt heb allu nat er hyny. nid ydynt yn ei ddefnyddio Gallant wne llawer o bethau, nad ydynt yn eu gwneuthur; ac felly eu damnedigaeth yn gyfiawn. Ie, mae eu holl anallu i d yn wirfoddol; *ni fynant ddyfod* at Grist, Ioan v 40 edifarhant, ond *byddant feirw,* Ezek. xviii. 31. Fell condemnir yn gyfiawn, am na throant at Dduw, na dy Grist; ond carant eu cadwynau yn fwy na'u rhyddid, *tywyllwch yn fwy na goleuni,* Ioan iii. 19.

*Gwrthddl* (2) Pa ham yr ydych yn pregethu Crist i yn ein galw i ddyfod ato, i gredu, edifarhau, a dilyn mo gras? Atteb. Am mai eich dyledswydd yw gwne hyny. Eich dyledswydd yw derbyn Crist fel y cynnygir yr efengyl; edifarhau am eich pechodau, a bod yn san ym mhob ymarweddiad; mae Duw yn gorchymyn y p hyn; a'i orchymyn ef, nid eich gallu chwi yw rheol ymddygiad. Hefyd, y galwedigaethau a'r annogaetha yw y moddion a drefnodd Duw i ddychwelyd yr etholed ac i roddi gras yn eu calonau: iddynt hwy mae *ffydd yn trwy glywed,* Rhuf. x. 17. Tra maent mor analluog i'w morth eu hunain ag eraill o ddynolryw. Ar seiliau da y wn, ar orchymyn Duw, yr hwn sy'n cyfodi y meirw, fy eu beddau, a gwaeddi "Deffro di yr hwn wyt yn cy chyfod oddiwrth y meirw, a Christ a oleua i ti," Eph. A chan nad yw yr etholedigion yn adnabyddus nac y hanol oddiwrth eraill cyn eu dychwelyd; fel y mae'r h tywynu ar wyneb y dyn drwg, a'r gwlaw yn disgyn ar y cystal a'r tir ffrwythlon; felly yr ydym ninnau yn pre Crist i bawb, ac yn saethu y saeth ar antur, yr hon mae ei hun yn ei chyfeirio, fel y gwelo yn dda. Er hyny nid galwedigaethau a'r annogaethau hyn yn gwbl ofer, hyd y i'r rhai fydd yn ol. Gall y cyfryw bersonau gael eu h hoeddi, heb eu dychwelyd: ac er na sancteiddir hwy t moddion hyn, etto fe allai yr attelir hwy rhag rhedeg i becl rhyfygus, y rhai heb hyny a gyflawnent. Mae moddion mewn dull o ddarpar, yn perarogli llawer enaid marw, ni fwynheir byth trwyddynt: er nad ydynt yn eu by liwynt, etto maent yn eu cadw rhag arogli mor ddrewllyd gwnaent heb hyny. I ddiweddu, er na elli dy adferu dy

na gafaelyd yn y cymmorth a gynnygir i ti yn yr efengyl; eto trwy allu naturiol gelli ddefnyddio y moddion allanol, trwy y rhai y mae Crist yn cyfrannu bendithion y prynedigaeth i bechaduriaid damniol, y rhai sy'n gwbl analluog i achub eu hunain o'u cyflwr natur. Gallit wneuthur llawer o bethau, pe mynit, a'th osodai ar yr iawn fordd i gael cymmorth gan yr Arglwydd Iesu Grist. Gelli fyned cyn belled, fel *na byddit bell oddiwrth deyrnas Duw*, fel y gwnaeth y Pharisead pwyllog, Marc xii. 34. Er, fel mae lle i feddwl, nad oedd ganddo allu goruwchnaturiol. Er na elli iachau dy hun, eto gelli ddyfod at y llyn, lle y meddyginiaethwyd llawer cynddrwg a thithau; ac er nad oes genyt neb i'th twrw i'r dwfr, eto gelli orwedd wrth ei lan: a phwy a wyr na ddaw yr Arglwydd heibio, a'th iachau fel y gwr claf hwnw yn Ioan v. 5, 6. 7, 8. Rwy'n gobeithio nad yw Satan yn eich cadw yn eich tai, nac yn eich dal yn eich maesydd ar y Sabboth: ond yr ydych yn rhydd, a gellwch wylied wrth byst pyrth doethineb, os mynwch. A phan ddeuwch yno nid yw Satan yn curo tabyrddau yn eich clustiau, fel na ellwch glywed beth a ddywedir: nid oes rhaid arnoch i droi heibio yr hyn a glywoch oll i eraill; gellwch gymhwyso i chwi eich hunain, yr hyn a berthyn i'ch cyflwr a'ch sefyllfa: a phan eloch adref, nid ydych yn cael eich rhwymo yn eich tai, lle, fe allai, nad oes dim ymddiddanion crefyddol; ond gellwch ymneillduo i le dirgel lle y cael eich fyfyrio, a holi eich hunain ar yr hyn a glywsoch. Nid wyt yn feddiannol o yspryd mud fel na elli gael dy dafod yn rhydd i weddio ar Dduw. Ni'th yrir o'th wely at dy waith, ac oddiwrth dy waith i'th wely drachefn, na ellit, pe mynit, weddio ar Dduw mewn perthynas i'th enaid dinystriol. Gellwch holi eich hunan, y'nghylch cyflwr eich enaid mewn symlrwydd, fel y'ngwydd Duw; galiwch ganfod eich bod heb ras, ac y byddwch yn golledig hebddo, a gellwch weddio ar Dduw am dano. Mae y pethau hyn y'nghyraedd gallu naturiol, a gellid eu hymarferyd lle ni bo gras. Rhaid i hyn chwanegu dy fai, sef dy fod mor ddidrafferth y'nghylch cyflwr dy enaid gwerthfawr. Ac os ni wnei yr hyn a elli ei wneuthur, fe'th gondemnir, nid yn unig am dy ddiffyg o ras, ond am ei ddiystyru.

*Gwrthddadl* (3.) Ond mae hyn oll yn ofer, gan ein bod ni yn hollawl analluog i achubein hunain o gyflwr pechod a digofaint.

*Atteb*, Na roddwch le i'r twyll hwn gan ei fod yn gwahanu yr hyn a gyssylltodd Duw; sef, arfer y moddion, a chydnabod ein

hanallu. Os byth yr argyhoeddir di gan Yspryd Duw, deui yn hollawl gydnabyddus o'th analln, a byddi dra llafurus yn arfer y moddion. Gwnei drosot dy hun, fel pe byddit i wneuthur y cwbl; ac eto cyfrifi yr hyn oll a wnei, fel pe byddit heb wneuthur dim. Oni wnei di *ddim* drosot dy hun am na elli wneuthur y cwbl? Na wna 'r fath gasgliad annuwiol yn erbyn dy enaid. Gwna yr hyn a allech; ac fe allai tra fyddi yn gwneuthur yr hyn a allech, y gwna Duw drosot yr hyn ni elli ei wneuthur "A wyt ti yn deall y pethau yr wyt yn eu darllen?" meddai Philip wrth yr Eunuch: *Pa fodd y gallaf,* meddai yntau, *oddieithr i ryw un fy nghyfarwyddo i?* Act. viii. 30, 31. Ni allai ddeall yr adnod oedd yn ei ddarllen: eto gallai ei darllen: gwnaeth yr hyn a allai, darllenodd, a thra yr oedd yn darllen, danfonodd Duw iddo gyfarwyddwr. Yr oedd Israel mewn cyfyngder mawr wrth y mor coch. A pha fodd y gallent achub eu hunain, pan oedd mynyddoedd ar un llaw, ac amddiffynfa 'r gelynion ar y llaw arall. Pharao a'i lu o'u hol; a'r môr coch o'u blaen? Beth allasent wneutl ur? *Dywaid wrth feibion Israel,* meddai yr Arglwydd wrth Moses, *am gerdded rhagddynt,* Exod. xiv. 15. I ba beth y cerddent rhagddynt? A allant wneyd mynedfa trwy'r môr? Nag allant, ond cerddant rhagddynt, meddai yr Arglwydd: er na allant droi 'r mor yn sychdir, eto gallant fyned at ei lan. Ac felly y gwnaethant; ac ar ol iddynt hwy wneuthur yr hyn a allent, gwnaeth Duw erddynt yr hyn ni allent.

*Gofyniad,* A addawodd Duw achub y rhai trwy arfer y moddion, a wnant eu goreu er eu hachub eu hunain? *Atteb,* Ni ddylem lefaru yn amryfus dros Dduw: mae'r annuwiolion yn "estroniaid i ammodau yr addewid," Eph. ii. 12; nid oes iddynt gyfryw addewid. Er hyny ni ymddygant yn rhesymol, os na arferant y galluoedd sy ganddynt, a gwneyd yr hyn a allant. Canys (1) Fe ddichon iddynt lwyddo yn y ffordd hon. Os gwnant yr hyn a allant, fe allai y gwna Duw erddynt yr hyn ni allant hwy wneuthur. Mae hyn yn ddigon i roi boddlonrwydd i bob dyn ar yr achos mwyaf pwysig, o'r fath yma, Act viii. 22. "Gweddia Dduw a faddeuir i ti feddylfryd dy galon" Ioel. ii 14. "Pwy a wyr a dry ete?" Os dysgwylir llwyddiant, dylid arferyd moddion. Pe bai longddrylliad ar y mor, a'r holl forwyr a'r ymdeithwyr yn defnyddio drylliau y llong er diogelwch; ac i un o honynt weled y lleill oll yn boddi, er eu holl ymdrech i achub eu hunain; eto y posiblrwydd o ddiangc trwy y moddion hwn, a barai iddo

ymdrechu i wneyd ei oreu am y lan. Pa ham na ymresymem ninnau â ni ein hunain, fel y gwnaeth y pedwar gwahanglwyfus, oedd yn eistedd yn mhorth Samaria? 2 Bren vii. 3, 4. Pa ham na ddywedech, "Os eisteddwn yn llonydd, heb wneuthur yr hyn a allwn, meirw fyddwn; rhoddwn gynnyg-iad, os cedwir ni, byw fyddwn; os na chedwir ni, byddwn feirw." (2.) Fe allai y llwydda y ffordd hon. Mae Duw yn dda a thrugarog: mae efe yn rhoi gras i ddynion heb ei ddysg-wyl, a mynych y "cafwyd ef gan y rhai nid oeddynt yn ei geisio," Esay lxv. 1. Os gwnewch hyn, yr ydych ar lwybr eich dyledswydd; ac yn arfer y moddion a drefnodd Duw i achub dynion: yr ydych ar y llwybr i'r meddyg mawr ddy-fod heibio i chwi, ac felly tebyg yr iacheir chwi. Aeth Lydia, yn mhlith eraill, i'r cyfarfod gweddi; *a'r Arglwydd a agorodd ei chalon*, Act xvi. 13, 14. Yr ydych yn aredig ac yn hau, eto ni all neb ddywedyd yn sicr y cewch gymmaint a'r had drachefn: chwi arferwch foddion er gwellhad i'ch iechyd, er nad ydych yn sicr y llwyddant. Yn y pethau hyn yr ydych yn gweithredu mewn gobaith; a pha ham na wnewch felly yn yr achos hwn? Yr ydym yn gweled fod taerineb yn llwyddo llawer gyda dynion: am hyny gweddïwch, myfyriwch, deisyfwch gymmorth gan Dduw; glynwch wrth orsedd gras, i erfyn am drugaredd, ac na lwfrhewch. Er nad yw yr Arglwydd yn eich parchu chwi yn eich cyflwr natur, wedi eich cwbl lygru trwy bechod; eto mae'n parchu ei ordinhadau. Er nad yw yn parchu eich gweddïau, eich myfyrdodau, &c. eto mae'n parchu gweddi, myfyrdod, a moddion cyffelyb, o'i osodiad ei hun, a thrwy hyny fe all eu bendithio hwynt i chwi. Felly os na wnewch yr hyn a alloch, nid yn unig yr ydych yn farw, ond yr ydych yn cyhoeddi eich bod yn annheilwng o fywyd tragywyddol.

I ddiweddu: Rhyfedded y saint allu y gras a ddaeth atynt yn eu cyflwr diymgeledd, ac a barodd i'w cadwynau syrthio ymaith, a'r porth haiarn agor iddynt. Fe gododd greaduriaid cwympiedig, ac a'u dygodd o gyflwr pechod a digofaint, yn yr hwn y gorweddasant ac y cyfrgollasent, oddieithr eu hachub. Ystyried yr annuwiol ei hollawl anallu i achub ei hun. Gwybydd dy fod yn wan, ac na elli ddyfod at Grist nes dy dynu; colledig wyt, ac ni elli achub dy hun. Gall hyn siglo sylfaen dy obaith, yr hwn ni welaist erioed eisieu Crist a'i ras; ac eto meddwl ymdaro drosot dy hun, trwy dy foesoldeb, dy ewyllysio

swrth, a'th wasanaeth cysglyd; a thrwy dy ffydd a'th edifeirwch, yn tarddu o'th allu naturiol, heb allu gras Duw O gwel dy eisieu o Grist, a'i ras anorchfygol ef: cred dy anallu i'th achub dy hun; fel y'th ddarostynger, ac y'th ysgydwer o'th hunan-hyder, ac y gorweddych mewn llwch a lludw, gan gyffesu dy gyflwr truenus ger bron yr Arglwydd. Byddai teimlad o'th anallu naturiol, anallu natur ddirywiedig dyn, yn gam tu ag at waredigaeth.

Cyn belled a hyn am gyflwr dyn wrth natur, cyflwr hollawl ddirywiedig.

---

# Y TRYDYDD CYFLWR.

SEF,

## *Cyflwr Adferedig trwy Ras.*

## PEN I.

### AIL-ENEDIGAETH

1 Pedr 1. 23.

*Wedi eich ail-eni, nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd.*

YN awr yr ydym yn dyfod at y cyflwr o ras, cyflwr adferedig y natur ddynol; i'r hwn y dygir pawb a gedwir i fywyd tragywyddol, ryw amser yn y byd hwn. Cyfnewidiad a chanlyniadau grasol ydyw, ar y rhai a gânt etifeddu bywyd tragywyddol. Gellir gosod allan y cyfnewidiad hwn dan y ddau beth hyn, (1) Mewn gwrthwynebiad i'w cyflwr natur, fel cyflwr llygredig, cyfnewidir hwy yn yr ailenedigaeth; trwy yr hyn y cyfnewidir eu natur. (2.) Mewn gwrthwynebiad i'w cyflwr natur fel cyflwr o ddigofaint, cyfnewidir hwy trwy eu

huudeb â Christ; a dygir hwy allan o gyrhaedd damnedigaeth. Y rhai hyn gan hyny, wyf yn fwriadu drin, sef ailenedigaeth ac undeb â Christ, fel y cyfnewidiadau mawr a chynnwysfawr ar bechadur, ag sy yn ei osod mewn cyflwr o ras. Mae y cyntaf o'r rhai hyn yn y testun; y'nghyd a'r moddion allanol a chyffredin trwy 'r hyn y gwneir ef. Mae'r apostol yma, er annog y saint i sancteiddrwydd, ac yn neillduol i gariad brawdol, yn eu dwyn ar gof o'u cyfnewidiad. Mae'n dywedyd wrthynt eu bod wedi eu hail-eni, a hyny o had anllygredig, gair Duw. Mae hyn yn dangos eu bod yn frodyr, yn gytranog o'r dduwiol anian; yr hon yw 'r gwreiddyn, o'r hon y tardd sancteiddrwydd, ac yn neillduol cariad brawdol. Fe'n genir unwaith yn bechaduriaid; rhaid ein geni drachefn fel y byddom saint. Mae'r gair gwreiddiol yn arwyddocau *cenhedlu*; ac felly y gellir ei ddarllen, Matth. xi. 11. Gwel Matth. i. 20, a *geni*. Felly y gair cyfansawdd a arferir yn y testun, a ellir ei gymmeryd yn ei ystyr helaethaf. Hyny yw, geni yn cynnwys cenhedlu hefyd yn flaenorol. Felly mae ailenedigaeth yn gyfnewidiad gwirioneddol a goruwchnaturiol ar yr holl ddyn, addas i'w gydmaru â chenhedliad a genedigaeth naturiol, fel yr ymddengys ar ol hyn. Nid yw moddion cyffredin ailenedigaeth, a elwir yn had, yn had llygredig. O had llygredig y cenhedlwyd ein cyrph ni: ond mae yr had ysprydol o'r hwn y cenhedlir y dyn newydd, yn anllygredig; sef gair Duw, yr hwn sy'n byw ac yn parhau yn dragywydd. Mae swn gair Duw yn myned heibio fel swn arall; ond mae'r gair yn parhau, yn byw, ac yn aros yn ei effeithiau tragywyddol, ar bawb y gweithredo arnynt. Y gair yr hwn a bregethwyd i chwi, (*adn* 25.) trwy arddeliad yr Yspryd Glân, yw moddion ail-eni: a thrwyddo ef y bywheir pechaduriaid meirw.

ATHRAWIAETH. Mae pob dyn duwiol wedi ei ail-eni. Mae pob dyn grasol, sydd mewn heddwch â Duw, ac yn feddiannol o rinweddau grasol, wedi ei ail-eni. Wrth ymdrin â'r pwngc hwn, dangosaf beth yw ailenedigaeth; yn nesaf, paham ei gelwir felly; wedi hyny cymhwyso'r athrawiaeth.

---

## *Am Natur Ail-enedigaeth.*

I. Er deall natur ailenedigaeth yn well, ystyriwch hyn, yn y lle cyntaf, mae rhith o gyfnewidiad grasol yn gystal a rhith

o enedigaeth naturiol: ac yn y pethau hyn, mae llawer y
cael eu twyllo, trwy gymmeryd rhyw fath o gyfnewidiad a wna
arnynt yn lle y cyfnewidiad mawr a thrwyadl hwn. Er mwy
symud y camgymmeriadau hyn, ystyrier y pethau canlyno
(1.) Mae llawer yn galw yr eglwys yn fam iddynt, y rhai
arddel Duw fel ei blant, Can. i. 6, "Meibion fy mam (h—
brodyr gau) a ddigiasant wrthyt." Nid yw y rhai oll a fe
ydiwyd wedi eu bail-eni. Yr oedd Simon wedi ei fedyddi
eto, "mewn bustl chwerwder, a rhwymedigaeth anwiredd
Act viii. 13, 23. Lle mae Cristionogaeth yn grefydd
wlad, llawer a alwant eu hunain ar enw Crist, heb ganddy
ddim ond yr enw: ac nid rhyfedd, yr oedd gan ddia
ei eifr y'mhlith defaid Crist yn y lleoedd ag nad oe
ond ychydig yn proffesu Cristionogaeth, 1 Ioan ii. 1
"Oddiwrthym ni yr aethant hwy allan; eithr nid oeddyn
honom ni." (2.) Nid dygiad da i fynu yw ail-enedigaeth. G
dysg gadwyno chwantau dynion, ond ni all gyfnewid eu c
onau. Creadur gwangcus yw'r blaidd, er ei gadwyno.
oedd Ioas yn dra chrefyddol, tra fu ei ddysgawdwr duw
Iehoiada byw; ond ar ol hyn buan y dangosodd o ba ysp
yr oedd, trwy ei wrthgiliad prysur, 2 Chron. xxiv. 2, 17, 1
Peth tra effeithiol yw siampl dda i gyfnewid y dyn oddi allan
ond mynych yr ymedu y cyfnewidiad hwn pan newidio dyn
gyfeillion; o'r hyn y ceir aml siampl yn y byd. (3.) Nid t
o fod yn gyhoeddus annuwiol, i sobrwydd a symlrwydd, yw
cyfnewidiad achubol hwn. Mae rhai dros amser yn c
phenrydd, yn enwedig yn eu ieuengctyd; ond cyn hir diwy
iant, a gadawant eu gyrfa bechadurus. Mae yma gyfne
idiad; eto gall dynion hollawl amddifad o ras Duw, gael hy
a'u cyfiawnder mor bell o fod yn helaethach, fel y mae
llawer byrach na chyfiawnder yr Ysgrifenyddion a'r Phar
eaid. (4.) Gall dyn ymarfer a holl ddyledswyddau allan
crefydd, eto heb ei ail-eni. Er toddi plwm i amrywiol ddu
eto mettel gwael yw wedi'r cwbl. Gall rhai ddiangc oddiwr
halogedigaeth y byd, a bod wedi'r cwbl yn gwn a moch, 2 Pedr
20, 22. Gall un gyflawni holl ddyledswyddau allanol crefy
trwy ei allu naturiol. Ie, gall rhagrithwyr gael rhith o h
rasusau yr Yspryd: canys darllenwn am *wir sancteiddrwyd*
Eph. iv. 23. a *ffydd ddiffuant*, 1 Tim. i. 5. Yr hyn sy
dangos fod rhith sancteiddrwydd a ffydd ffuantus. (5.) G
dynion gyrhaeddyd llawer o fanylrwydd yn eu dull o gre
ydda, ac eto heb eu bail-eni, Act. xxvi. 5. "Yn ol y se
*fanylaf o'n crefydd* ni, y bum i fyw yn Pharisead." Mae g

natur ei manylrwydd ansancteiddi ei hun mewn crefydd. Yr oedd gan y Phariseaid gymmaint o honaw, fel yr oeddynt yn edrych ar Grist fawr well na dyn penrydd Yr hwn y deffröwyd ei gydwybod, a'r hwn sy'n byw dan deimlad o weithrediadau y cyfammod gweithredoedd, pa beth ni wna efe, ag sy yn ei allu? Mae'n wir, er mai diafol a'i dywedodd, mai "croen am groen a'r hyn oll sydd gan wr, a ddyry efe am ei einioes," Iob ii. 4 (6.) Gall un gael poenau a gwasgfeuon yn ei enaid, ac eto marw yn yr esgoreddfa. Bu llawer mewn poen, ac eto yn esgor ond megis ar wynt. Esay xxvi 18. Dichon fod gloesion a gwewyr yn y gydwybod, a myned yn ddim yn y diwedd Yr oedd argyhoeddiadau mor lymion ar Pharao a Simon Magus, fel y deisyfiasant ar eraill weddio trostynt.—Edifarhaodd Iudas, a than ddychryn cydwybod a roes yn ol eu ddarnau arian. Nid aur yw pob peth dysglaer. Dichon coedydd flodeuo yn wych yn yr haf; heb ddwyn ffrwyth y cynhauaf. Ac mae llawer yn cael eu poeni â gofidiau yn eu heneid, y rhai nad ydynt ddim ond rhagbrawf o uffern.

Gall ymddangosiad o enedigaeth newydd fod ar y dechreuad yn obeithiol, ac eto aflwyddo mewn dwy ffordd. *Yn gyntaf.* Mae rhai fel *Zarah*, (Gen. xxxviii. 28, 29.) yn cael eu dwyn hyd at yr esgoreddfa, eto 'n troi yn ol. Maent dan argyhoeddiadau drosdro, ond mae y rhai hyny yn cilio ymaith, ac y maent yn myned mor ddifatter yn nghylch eu iechydwriaeth, ac mor halogedig ag erioed; ac yn aml yn waeth nag erioed, "Mae eu diwedd yn waeth na'u dechreuad," Matth. xii. 45. Cawsant ras deffroawl, ond nid gras dychweledigol Ac mae hyny yn myned ymaith yn raddol fel y goleuni ar fachludiad yr haul, yr hwn sy'n diweddu mewn nos dywyll. *Yn ail.* Mae rhai fel Ishmael yn dyfod o'r esgoreddfa yn rhy fuan, cyn amser *yr addewid*, Gen. xvi. 2, cydmarwch Gal. iv. 22. hyd y diwedd. Boddlonant ar eu gweithredoedd da, ac ni ddysgwyliant am amser addewid yr efengyl. Ymestynant at gysuron, cyn eu rhoddi iddynt; ac ynfyd dynant eu cysuron o'r ddeddf yr hon a'u clwyfodd hwynt. Cymhwysant y feddyginiaeth atynt eu hunain, cyn iawn chwilio 'r briw. Pan fo'r ddeddf, y gwr llymdost hwnw, yn eu curo, ac yn bwrw melldithion a dialedd ar eu heneidiau: Yna diwygiant, gweddiant, galarant, addawant, ac adduned ant, nes gostwng yr yspryd hwn; a chwedi hyn, cysgant drachefn yn mreichiau y ddeddf: ond ni ysgydwyd hwy erioed o honynt eu hunain a'u cyfiawnder, i ddyfod at Iesu Grist. *Yn olaf,* Dichon fod gweithrediadau grym-

us ar serchiadau, y rhai ni chawsant erioed ras cadwedigol. Dichon llif o ddagrau fod lle ni bo gras, fel yn Esau, yr hwn, "ni chafodd le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaergeisio hi," Heb. xii. 17. Gall fod tymherau o lawenydd, fel gwrandawyr y gair, a ddarlunir yn namneg y *creig-leoedd*, y rhai, oedd "Yn ebrwydd trwy lawenydd yn ei dderbyn," Matth. xiii. 20. Gall fod chwennychiad mawr am bethau da, a hyfrydwch mawr ynddynt hefyd; fel yn y rhagrithwyr a ddarlunir yn Esay, lviii. 2. "Eto beunydd y'm ceisiant, ac a ewyllysiant wybod fy ffyrdd——ewyllysiant nesau at Dduw." Gwelwch uched y gall dynion sefyll, a *syrthio ymaith*, Heb. vi. 4, 5, 6. Gallant fod wedi eu goleuo, profi y rhodd nefol, a bod yn gyfrannogion o'r Yspryd Glân, profi o ddaioni air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw. Mae gweithrediadau cyffredin yr Yspryd Glân, fel llif yr afon, yn dadymchwelyd pethau bendramwnwgl: ond pan el drosodd, rhed y cwbl drachefn hyd yr un ddyfr-lle. Gall yr holl bethau hyn fod lle ni bo Yspryd Crist yn gorphwys ar yr enaid, ond y galon gareg yn aros; ac felly, gwywo wna y gweithrediadau hyn, am nad oes gwreiddyn iddynt.

Ond mae ailenedigaeth yn gyfnewidiad cywir a thrwyadl, trwy'r hyn y gwneir dyn yn *greadur newydd*, 2 Cor. v. 7.—Mae Duw yn gwneuthur y creadur yn greadur newydd, fel y tawdd yr euryclı lestr anmharch, a'i wneuthur yn llestr i barch. Mae dyn, yn ei gyflwr natur, wedi ei hollawl anafu trwy'r cwymp. Mae pob cynneddf o'r enaid fel pe bai wedi ei dadgymmalu; yn yr ailenedigaeth mae Duw yn rhyddhau pob cymmal, ac yn ei roi yn ei le drachefn. Yn awr, y cyfnewidiad a wneir yn yr ailenedigaeth, yw,

1. Cyfnewidiad anian, neu gyfnewidiad tueddiadau: nid cyfnewidiad sylwedd yr enaid, ond yr anian; symudir yr anian neu'r tueddiad drygionus, a dodir un wahanol yn ei lle; "rhoddi heibio yr hen ddyn, "a gwisgo y newydd," Eph. iv. 22, 24. Ni chollodd dyn gyneddfau rhesymol ei enaid trwy bechod: mae ganddo ddeall yn barhaus, ond mae wedi tywyllu; mae ganddo ewyllys eto, ond mae'n groes i ewyllys Duw. Felly yn yr ailenedigaeth, nid creu sylwedd newydd a wneir, ond sancteiddio y cynneddfau: goleuni yn lle tywyllwch, cyfiawnder yn lle anghyfiawnder.

2. Cyfnewidiad goruwchnaturiol yw; yr hwn a ail-anwyd, *a anwyd o'r yspryd*, Ioan iii. 5. Dichon gallu naturiol wneuthur cyfnewidiad mawr, yn enwedig, pan nerthir hi gan

ddadguddiad allanol; hefyd, gall natur gael ei chyfnewid trwy weithrediadau cyffredinol yr Yspryd Glân, cyn belled ag i un gael ei droi *yn ddyn arall*, (fel Saul 1 Sam. x 6,) eto heb fod *yn greadur newydd.* Ond yn yr ailenedigaeth mae natur ei hun yn cael ei chyfnewid, a gwneir ni yn gyfranogion o'r dduwiol anian; gan hyny rhaid mai cyfnewidiad goruwchnaturiol yw hwn. Pa fodd y gallwn ni sy'n feirw mewn camweddau a phechodau, fywhau ein hunain, mwy nag y gall dyn marw godi o'i fedd? Pwy ond yr Ysbryd Glân a all ffurfio Crist mewn enaid, a'i newid i'r unrhyw ddelw? Pwy ond efe a all roi calon newydd? Iawn y gallem ddywedyd, pan welom wr wedi ei gyfnewid fel hyn, "Bys Duw yw hyn."

3. Cyfnewidiad i ddelw Duw ydyw, 2 Cor. iii. 18, "Eithr nyni——yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw o ogoniant i ogoniant, megis gan Yspryd yr Arglwydd." Mae pob peth sy'n cenhedlu, yn cenhedlu ei ryw; mae'r plentyn yn dwyn delw ei rïeni; ac y mae y rhai a anwyd o Dduw, yn dwyn delw Duw. Wrth i ddyn geisio bod fel Duw, efe a aeth yn debyg i'r diafol; ac yn ei gyflwr natur mae'n tebygu i'r diafol, fel y tebyga plentyn i'w dad, Ioan viii. 44, "O'ch tad diafol yr ydych chwi."— Ond pan gyfnewidir ef, distrywir delw 'r diafol, ac adnewyddir delw Duw. Crist ei hun, yr hwn yw dysglaerdeb gogoniant ei Dad, yw y ffurf, yn ol yr hwn y gwneir y creadur newydd, Rhuf, viii. 29. "Canys y rhai a ragwybu, a ragluniodd efe hefyd, i fod yn un ffurf â delw ei Fab ef." Gan hyny fe ddywedir ei fod ef yn cael ei *ffurfio* yn yr ail-enedigaeth, Gal. iv. 19.

4. Cyfnewidiad cyffredinol yw; gwneir *pob peth yn newydd*, 2 Cor. v. 17. Lefain bendigaid ydyw, sy'n *lefeinio yr holl does*, yr yspryd, yr enaid, a'r corph oll. Mae pechod gwreiddiol yn effeithio ar yr holl ddyn; ac y mae gras yr ailenedigaeth, yr hwn yw'r eli, yn myned cyn ddyfned a'r briw. Mae y ffrwyth hwn o'r Yspryd *yn mhob daioni*; daioni 'r meddwl, daioni 'r ewyllys, daioni y serchiadau, a daioni yr holl ddyn. Nid yn unig mae'n cael pen newydd i ddeall am grefydd, neu dafod newydd i siarad am dani; ond calon newydd i'w charu a'i chofleidio, yn ei holl ymddygiadau. Pan mae yr Arglwydd yn agor ffynnonau yr iechydwriaeth, ar ddydd yr ail-enedigaeth, mae 'r dwfr yn rhedeg trwy'r holl enaid, i'w buro a'i ffrwythloni. Yn y cyfnewidiau naturiol a grybwyllwyd o'r blaen, mae, megis dernyn o ddilledyn newydd, yn cael ei ddodi mewn

hen ddilledyn; fel gwnïo buchedd newydd wrth hen galon; ond tröad trwyadl yw y tröad grasol hwn, ar y galon a'r fuchedd.

5. Eto cyfnewidiad anmherffaith yw; er yr adnewyddir pob rhan o'r dyn, eto ni adnewyddir un rhan o honaw yn berffaith. Mae gan blentyn bob rhan a berthyn i ddyn, eto nid oes un o honynt wedi dyfod yn berffaith mewn maintioli; felly, mae ailenedigaeth yn dwyn perffeithrwydd o ran, i gael ei ddwyn yn mlaen yn nghynnydd y sancteiddhad, 1 Pedr ii. 2. "Fel plant bychain newydd eni, chwenychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynnyddoch trwyddo ef." Er fod goleuni o'r nef yn dyfod i'r enaid yn yr ailenedigaeth, eto mae yno beth tywyllwch yn aros; er yr adnewyddir yr ewyllys, ni adnewyddir hi yn berffaith; mae peth o'r hen dueddiadau i bechu yn aros ynddi: ac fel hyn y bydd nes i'r hyn sydd o ran gael ei ddileu, ac i oleuni 'r nef godi. *Crewyd* Adda yn ei gyflawn faintioli; ond rhaid i'r rhai sy'n cael eu *geni*, gael amser i dyfu i fynu: felly mae y rhai a ail-enir, yn dyfod i fyd newydd o ras yn sanctaidd o ran. Crewyd Adda yn uniawn, ac yr oedd yr un pryd yn berffaith gyfiawn, heb un cymmysgedd o anmherffeithrwydd pechadurus.

*Yn olaf,* Er hyny cyfnewidiad parhaus yw, nad ymedy byth. Mae'r had yn anllygredig, medd y testun; ac felly y mae y creadur a lunir o honaw. Ni ellir byth lwyr golli y bywyd a roddir yn yr ailenedigaeth, pa adfeiliad bynag a'u cyfarfyddo. "Mae ei had ef yn aros yn yr hwn a anwyd o Dduw," 1 Ioan iii. 9. Er i'r cangenau gael eu tori, eto mae'r gwreiddyn yn aros yn y ddaear. Ac wedi ei wlychu â gwlith y nefoedd, fe flagura eilwaith; canys "gwraidd y cyfiawn nid ysgoga,"—Diar xii. 3.

Ond i fod yn fwy neillduol,

*Yn gyntaf,* yn yr ailenedigaeth, mae goleuni bywyd. Rhoddir goleu newydd yn y meddwl, fel y gwneir y rhai *oedd gynt yn dywyllwch,* yn *oleuni yn yr Arglwydd,*" Eph. v. 8. Mae llewyrchiadau goleuni 'r bywyd yn gwneyd eu ffordd i'r galon dywyll: yna derfydd y nos, a gwawr bore a ymddengys, yr hon a lewyrcha fwy fwy hyd hanner dydd. Yn awr mae 'r dyn wedi ei oleuo

1. Mewn gwybodaeth am Dduw. Mae ganddo feddyliau am Dduw na bu ganddo erioed o'r blaen, Hos. ii. 20. Dyweddïaf di â mi fy hun mewn ffyddlondeb: a thi a adnabyddi yr Arglwydd." Mae Yspryd Duw yn ei ddwyn yn ol at y gofyniad hwnw, Beth yw Duw? Ac yn ei gatecisio ar y

pwngc mawr hwnw, fel mae'n gorfod dywedyd " Myfi a glywais â'm clustiau son am danat; ond yn awr fy llygaid a'th welodd," Iob xlii. 5. Mae purdeb, cyfiawnder, hollalluogrwydd a'r holl briodoliaeth dwyfol datguddiedig yn y gair, yn dyfod trwy y goleuni hwn, i olwg yr enaid, gyda'r fath eglurder a sicrwydd, ag sy'n rhagori cymmaint ar y wybodaeth oedd ganddo o'r blaen am y pethau hyn, fel y mae peth gwir adnabyddus, yn rhagori ar chwedl ffuantus. Canys mae'n gweled yn awr y peth nad oedd ond yn clywed am dano o'r blaen.

2. Mae wedi ei oleuo i adnabod pechod. Mae wedi newid ei feddwl am dano. O'r blaen, ni allai ganfod trwy y llen a roddasai Satan arno; ond yn awr mae Yspryd Duw yn ei symud oddi arno, gan ei ddangos yn ei liw ei hun, yn ddrwg y drygau, ac yn *dra pechadurus*, Rhuf vii. 13. O y fath ang henfilod gwrthun yw y chwantau a garodd efe gynt, yn ymddangos! Fe dyn ymaith y fraich dde. Mae'n gweled mor ffiaidd gan Dduw yw pechod, ac mor ddinystriol yw i'r enaid: ac mae yn cyfrif ei hun yn ynfyd am wrthryfela cyhyd yn erbyn Duw, a llettya y dinystrydd hwnw fel cyfaill mynwesol.

3. Fe'u dysgir i adnabod eu hunain. Mae gras yn peri i'r afradlon ddyfod *ato ei hun*, Luc xv. 17. ac yn gwneuthur dynion yn *llawn llygaid oddi fewn*, i wybod bob un bla ei galon ei hun. Mae'r meddwl wedi ei oleuo i fywyd; mae'r dyn yn gweled mor lygredig yw ei natur; y fath elyniaeth yn erbyn Duw a'i gyfraith sanctaidd a hir lettyodd yno; fel y mae ei enaid yn ffieiddio ei hun. Nid oes yr un bedd, na phwll, mor ddrewedig yn ei olwg ag ef ei hun, Ezek. xxxvi. 31, " Yna y cofiwch eich ffyrdd drygionus, a'ch gweithredoedd nid oeddynt dda, a byddwch yn ffiaidd genych eich hunain." Nid yw'n waeth nag o'r blaen: ond mae'r haul yn tywynu; ac felly canfyddir y llygredd hwn, oedd guddiedig o'r blaen, pryd nad oedd gwawr yuddo, fel y mae'r gair, Esay viii. 20. Pan oedd dydd gras heb wawrio arno.

4. Mae wedi ei oleuo i adnabod Iesu Grist, 1 Cor. i. 23, 24, " Eithr nyni ydym yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio, i'r Iuddewon yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb. Ond iddynt hwy y rhai a alwyd, Iuddewon a Groegwyr, yn Grist gallu Duw, a doethineb Duw." Y gwirionedd yw, am ddyn heb ei ail eni, pe byddai iddo bregethu Crist, ni fyddai ganddo wybodaeth o hono, dim ond barn, a hono yn farn dda, fel y gall fod gan un mewn pyngciau dadleugar, y rhai nad

oes ganddo un sicrwydd am danynt. Fel pe cyfarfyd
dyn dieithr ar y ffordd, o herwydd ei ymddygiad synwy
mae genych dyb dda am dano, ac felly yn foddlawn i g
achu âg ef, ond eto ni ymddiriedwch eich arian iddo;
er fod genych farn dda am y dyn, eto mae'n ddieithr i
nid ydych yn ei adnabod: felly gallant feddwl yn d
Grist; eto nid ymddiriedant eu hunain iddo, am nad ad
ant ef. Ond mae goleuni bywyd yn dwyn yr enai
hellach nag i farnu am Grist, i wybodaeth sicr am da
am ei ardderchawgrwydd, 1 Thess i. 5, " Oblegyd ni l
hefengyl ni tu ag atoch mewn gair yn unig, eithr hefyd
nerth, ac yn yr Yspryd Glân, ac mewn sicrwydd mav
Mae goleuni gras yn dangos addasrwydd dirgelwch Cri
wyneb priodoliaethau Duw, ac yn addas i'r pechadur he
Ac oddiyma mae y pechadur yn rhyfeddu trefn ogoned
iechydwriaeth trwy Grist croeshoeliedig, ac yn rhoi
bwys arno, ac yn ymfoddloni ynddo; canys beth bynag
eraill, mae'n Grist gallu Duw a doethineb Duw iddynt
Ond y rhai diadgenedledig sydd heb ganfod hyn, mae
ymrwystro ynddo ef, ac nid ymddiriedant eu heneidiau id
ond ymorphwysant ar eu cyfiawnderau eu hunain. M
un goleuni yn eglur ddangos gwerth anfeidrol, a gogoni
ardderchawgrwydd rhagorol yn Nghrist; yr hyn sy'n t
pob ardderchawgrwydd creadigol, fel y gwna'r haul
guddio eu penau. Mae yn gwneuthur i'r pechadur " w
yr hyn oll sydd ganddo, a phrynu yr un perl gwerthf
Matth. xiii. 45, 46. Yn gwneuthur yr enaid yn fod
gymmeryd Crist yn bob peth, ac yn lle pob peth. Fe
siandwr angall, i'r hwn y cynnygir perl o uchel bris am
farsiandiaeth deg, ac eto ni chymmer ef; er y gall dybi
un perl yn fwy o werth na'r hyn oll sydd ganddo, eto ni
sicr: ond pan ddel gemmydd deallus heibio iddo, a g
wrtho ei fod yn ddau gwerth ei holl nwyddau, yna mae'
hyn y cynnyg, ac o'i fodd yn ymadael â'r hyn oll sydd g
am y perl hwnw. *Yn ddiweddaf,* Mae y goleuni hwn
wybodaeth Crist yn dangos i ddynion gyflawnder di
ynddo i lenwi eu holl eisieu, digon i ddiwallu dymun
annherfynol enaid anfarwol. Maent yn gweled fod
gyflawnder ynddo, a bod hwnw i'w gyfranu. Maen
ymddibynu arno fel gwirionedd sicr; ac felly mae eu he
iau yn ymorphwys yn dragywyddol ynddo.

5. Dysgir y dyn i adnabod gwaeledd pethau 'r byd. Ps. cxix. 96, "Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd." Mae gras yr ailenedigaeth yn derchafu yr enaid, ac yn ei osod, fel ped fai, rhwng y ser, o'r lle mae'n canfod y ddaear yn fechan iawn, fel yr oedd y nef yn ymddangos o'r blaen, pan oedd yr enaid yn ymdroi yn y byd. Mae gras yn dwyn dyn i fyd newydd; lle mae yn cyfrif y byd hwn yn orsaf gwagedd, yn anialwch yr oernad, a glyn wylofain. Mae Duw wedi gosod arwydd (sign) gwagedd wrth ddrws pob mwyniant daearol: eto fel y mae dynion yn ymdyru i'r Ty, gan alw ac edrych am rywbeth i'w digoni; ie, er dywedyd wrthynt filoedd o weithiau, nad oes dim o'r cyffelyb ynddo, nid yw i'w gael yno, Esay lvii 10. "Ym maint dy ffordd yr ymflinaist; ac ni ddywedaist nid oes obaith." Pa'm mae dynion mor ynfyd? Y gwir yw hyn, nid ydynt yn gweled y'ngoleu gras, nid ydynt yn canfod yn ysprydol, yr arwydd (sign) hwnw o wagedd. Mynych y gwelsant ef y'ngoleuni rheswm: ond a all hyny wir ddiddyfnu y galon oddiwrth y byd? Na all, mwy nag y gall llun tân, losgi ymaith rwymau'r carcharor. Ond mae goleuni gras yn oleuni y bywyd, nerthol ac effeithiol.

*Yn olaf*, (I swmio y cwbl mewn gair) yn yr ailenedigaeth goleuir y meddwl mewn gwybodaeth o bethau ysprydol, 1 Ioan ii. 20. "Eithr y mae genych chwi eneiniad oddiwrth y sanctaidd hwnw," sef, oddiwrth Iesu Grist, Dat. iii. 18.—Mae'n gyfeiriad at y cyssegr, o'r lle y dygid yr olew sanctaidd i eneinio yr offeiriaid, "a chwi a wyddoch bob peth," sef pob peth angenrheidiol er iechydwriaeth. Er fe allai, na ddysgwyd hwynt ar lyfr, eto os ail-anwyd hwynt, fe'u dysgwyd gan yr Yspryd; mae pawb o'r cyfryw, wedi eu dysgu gan Dduw, Ioan vi. 55. Yn yr adenedigaeth, mae'r Yspryd yn dysgu iddynt yr hyn ni wyddent o'r blaen, a'r hyn a wybuant, trwy glywed yn unig, mae yn eu dysgu drachefn trwy weled a'u llygaid. Goleuni anorchfygol yw goleuni gras, yn dwyn y dyn i gredu y gwirioneddau dwyfol, yn unig ar dystiolaeth Duw. Anhawdd iawn yw cael meddwl dyn i gydsynio â gair Duw. Myn llawer eu bod yn parchu yr Ysgrythyrau yn fawr, y rhai, er hyny ni ysgar tystiolaeth amlwg yr ysgrythyr rhyngddynt a'u hen farn gyfeiliornus. Ond gwna y goleuni hwn i feddyliau dynion redeg, fel caethion ar ol olwynion cerbyd Crist; yr hwn o'u rhan hwy, a oddefant iddo redeg dros-

tynt i dymr i'lawr eu dychymmygion, "a phob uchder ar sy yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth Duw," 2 Cor. x. 5. Fe wna iddynt "dderbyn teyrnas Duw fel dyn bach," Marc x. 15. Maent yn meddwl fod ganddynt ddigon o seiliau i gredu unrhyw beth, os bydd i'w Tad ond dywedyd mai felly y mae.

*Yn ail,* Cyfnewidir yr ewyllys, mae Duw yn tynu y galon gareg, ac yn rhoi calon o gig, Ezec. xxxvi. 26; ac felly o feini yn cyfodi plant i Abraham. Mae gras yr ailenedigaeth yn alluog ac effeithiol, ac yn rhoi tuedd newydd yn yr ewyllys. Nid yw yn ei lusgo o'i anfodd, ond yn ei dynu o'i fodd, trwy fawr nerth, fel y mae ei "bobl yn ewyllysgar yn nydd ei nerth," Ps. cx. 3. Mae araithyddiaith nefolaidd ar wefusau y Cyfryngwr, i berswadio pechaduriaid, Ps. xlv. 2. "Tywalltwyd gras ar dy wefusau." Mae rhwymau dynol, a rhwymau cariad yn ei ddwylaw i'w tynu ar ei ôl ef. Hosea xi. 4. Mae cariad yn gosod rhwyd i eneidiau etholedig, yr hon yn ddiambeuol a'u deil hwynt, ac au dwg i dir. Rheffynau cryfion yw rheffynau cariad Crist: a dylent fod felly; canys y mae pob pechadur yn drymach na mynydd o bres: ac mae Satan y'nghyd a'i galon ei hun yn tynu i'r gwrthwyneb. Ond cariad sydd gryfach nag angeu, a chariad Crist at yr enaid y bu farw trosto, yw'r cariad cryfaf; yr hwn sy'n gweithio mor nerthol, fel y mae yn sicr o orchfygu.

1. Fe welleir yr ewyllys o'i hollawl analluogrwydd i ewyllysio daioni. Pan mae agoriad carchar i'r rhai sy'n rhwym, yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl, mae Yspryd Duw yn dyfod i ddrws y carchar, yn ei agoryd, yn myned at y carcharor, a thrwy allu ei ras yn gwneuthur i'w gadwynau syrthio ymaith; yn dryllio rhwymau anwiredd, â'r rhai y daliwyd ef mewn pechod fel na allai ewyllysio na gwneuthur dim yn wir dda,—Mae yn ei ddwyn allan i le eang, "Yn gweithio ynddo ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef," Phil. ii. 13. Ac oddi yma y dygir yr enaid oedd wedi sefydlu ar y ddaear, i deithio tu a'r nef; iachawyd y llaw wywedig, ac yn awr gellir ei hestyn allan.

2. Mae hollawl wrthwynebrwydd at ddrwg yn cael ei blannu yn yr ewyllys. Yn yr ailenedigaeth, mae dyn yn cael "yspryd newydd o'i fewn," Ezek. xxxvi. 26. Ac y mae yr "yspryd hwnw yn chwenychu yn erbyn y cnawd," Gal. v. 17. Mae efe yn awr yn alaru ar dammaid melus pechod, a lyngcodd efe o'r blaen mor awyddus, a byddai dda ganddo'n awr, gael ymadael âg ef; ïe, cystal ag fyddai gan un a

ysai gwpanaid o wenwyn, ei gael i fynu drachefn. Pan na bo tarddiad yn y ffynnon, mae'r llaid yn aros yn llonydd y'ngwaelod y ffynnon; ond pan unwaith y dechreuo darddu, fe weithia 'r dwfr y llaid ymaith cyn hir. Yr un modd, tra parhao dyn yn ei gyflwr diadgenedledig, mae pechod yn gorwedd yn llonydd yn y galon; ond cyn gynted y tarawo yr Arglwydd y galon gareg, â gwialen ei nerth yn nydd ei ddychweliad; mae gras "ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol," Ioan iv. 14. Mae yn gweithio llygredd natur ymaith, ac yn graddol buro y galon, Act. xv. 9. Mae'r ewyllys wedi ei hadnewyddu, yn gwrthwynebu pechod, yn ei daro ar ei wreiddyn, a'r cangenau hefyd. Mae chwantau yn awr yn ofid, ac mae'r enaid yn ymdrechu i'w newynu hwynt. Natur lygredig yw ffynnonell pob drwg, ac felly bydd yr enaid yn ei osod yn fynych o flaen y Meddyg mawr. O'r fath alar, cywilydd, a hunan-ffieiddiad sy'n llenwi y galon, y dydd yr elo gras i mewn iddi! Canys yn awr mae'r dyn gwallgof yn dyfod ato ei hun, ac nï all cofio ei ynfydrwydd gynt, lai na dryllio ei galon.

*Yn olaf,* Mae tueddiad at ddaioni yn cael ei roddi yn yr ewyllys. Yn ei gyflwr natur, yr oedd ef yn hollawl ffordd arall, yn tueddu ac yn gogwyddo at ddrwg yn unig: ond yn awr, trwy ei dynu â llaw anorchfygol Duw, fe'i dygir oddiwrth ddrwg at dda, a dodir ynddo dueddiad arall. Ac fel yr oedd y tuedd o'r blaen yn naturiol; felly mae hwn yn naturiol hefyd, o ran yr anian newydd plannedig yn yr ail-enedigaeth, yr hon sydd ganddi ei chwenychiadau sanctaidd, yn gystal ag y mae gan natur lygredig ei chwantau pechadurus, Gal. v. 27. Mae'r ewyllys fel y mae wedi ei gyfnewid, yn tueddu at Dduw a duwioldeb. Pan wnaeth Duw ddyn, yr oedd ei ewyllys o ran ei dueddiad, yn cyfeirio at Dduw fel ei ddyben penaf; ac o ran ei ddewisiad yr oedd yn dewis yn ol ewyllys Duw. Pan ddad-wnaeth dyn ei hun, trowyd ei ewyllys yn hollawl groes; gwnaeth ei *hunan* yn brif ddyben, a'i ewyllys ei hun yn ddeddf. Ond pan grëir y dyn o newydd yn yr ailenedigaeth, mae gras yn uniawni yr annhrefn hwn i ryw fesur, er mai nid yn berffaith; am na adnewyddir ni ond o ran, tra yn y byd hwn. Mae'n dwyn y pechadur o hónaw ei hun at Dduw, fel ei brif ddyben, mae n wir, er nad yn berffaith, Ps. lxxiii. 25. "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi."

Phil. i. 21, "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Mae'n gwneuthur iddo ymwadu âg ef ei hun, a pha ffordd bynag y try, efe a gyfeiria yn reddfol at Dduw, yr hwn yw canol-bwynt yr enaid grasol, ei gartref, a'i "Breswylfa y'mhob cenedlaeth," Ps. xc. 1. Trwy ras yr ailenedigaeth, fe ddygir yr ewyllys i gydymffurfio âg ewyllys Duw. Mae hi yn cydymffurfio â'i ewyllys gorchymynol ef, o herwydd ei chynnysgaeddu â thueddiadau sanctaidd, sy'n cytuno â phob un o'i orchymynion ef. Argreffir yr holl ddeddf ar yr enaid grasol: mae pob rhan o honi yn cael ei hysgrifenu ar y galon newydd. Ac er fod gweddillion llygredd yn gwneuthur llawer ystaen ar yr ysgrifen, fel na all y dyn ei hun ei ddarllen yn fynych, eto gall yr hwn a'i hysgrifenodd ei ddarllen bob amser, nis gellir ei llwyr ddileu byth. Yr hyn a ysgrifenodd a ysgrifenodd efe, ac fe saif; 'Oblegyd hwn yw y cyfammod—Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifenaf hwynt," Heb. viii. 10. A chyfammod halen yw, cyfammod parhaus. Mae wedi ei gydymffurfio â'i ewyllys ragluniaethol ef, fel nad yw y dyn yn chwennych bod yn feistr arno ei hun mwy, na thori ato ei hun. Mae'n dysgu dywedyd o'i galon, "ewyllys yr Arglwydd a wneler; efe a ddethol ein hetifeddiaeth i ni," Ps. xlvii. 4. Felly mae yr ewyllys yn cael ei ddwyn i gymmodi â'r pethau hyn, y rhai na fuasai efe byth yn cymmodi â hwynt yn ei gyflwr natur.

Yn neillduol (1) Cymmodir yr enaid â'r cyfammod gras. Gwnaeth yr Arglwydd gyfammod heddwch a phechaduriaid; cyfammod a luniodd efe ei hun, ac a gofrestrwyd yn y Bibl; ond nid yw wrth eu bodd hwynt: ïe, ni all fod wrth fodd y galon ddiadgenedledig. Pe dodid ef yn eu llaw hwynt, i'w lunio fel yr ewyllysient hwy, tynent lawer o bethau allan, a roes Duw i mewn, a rhoddent i mewn lawer o bethau a adawodd Duw allan. Ond mae y cyfammod yn hollawl wrth fodd y galon newydd, 2 Sam. xxiii. 5. "Cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollawl ac yn sicr; canys fy holl iechydwriaeth, a'm holl ddymuniad yw." Er na allesid darostwng y cyfammod at eu hewyllys hwy yn eu cyflwr natur; eto mae eu hewyllys trwy ras, yn cael ei dderchafu at y cyfammod; y mae wrth eu bodd; ni ewyllysient dynu oddiwrtho, na rhoddi dim ato. (2) Mae yr ewyllys yn cael eu ddwyn i dderbyn Crist Iesu yr Arglwydd. Mae yr enaid yn foddlon i ymostwng iddo. Mae gras yn dadseilo ac yn dwyn i lawr ddychymygion cedyrn y galon, y rhai sy'n codi yn erbyn

ei chyfiawn Arglwydd; mae yn tori y gïeuyn heiarn, yr hwn a gadwodd y pechadur rhag plygu iddo; ac yn ei wneuthur yn ufudd, i ymostwng iddo ef. Mae yn foddlon i gymmeryd iau gorchymynion Crist, i godi ei groes, a'i ganlyn ef. Mae'n foddlon i dderbyn Crist ar unrhyw ammodau, Ps. cx. 3. "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth."

Yn awr, wedi gwir oleuo y meddwl, ac adnewyddu y gydwybod; mae y pechadur trwy hyny yn penderfynu, ac yn cael ei nerthu i atteb i alwad yr efengyl. Felly gorphenwyd y prif waith yn yr ailenedigaeth; cymmerwyd castell y galon: mae lle wedi ei barotoi i Grist yn yr enaid; mae drws nesaf i mewn yr ewyllys wedi ei agoryd iddo, yn gystal a drws nesaf allan, y deall. Mewn gair, mae Crist yn cael ei dderbyn yn wirioneddol i'r galon; daeth i mewn i'r enaid, trwy ei Yspryd, a thrwy hyny bywheir y dyn, oedd o'r blaen yn farw mewn pechod. Ei waith cyntaf wedi cael bywyd yw derbyn Crist yn ei holl ogoniant a'i ardderchawgrwydd; hyny yw, credu ynddo, ac ymorphwys arno, fel y mae yn cael ei ddangos, ei gynnyg, a'i gyhoeddi yn y gair, sef yn yr efengyl: ac effaith uniongyrchol hyn yw undeb ag ef, Ioan i. 12, 13, "Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu (neu'r fraint) i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef. Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw," Eph. iii. 17. "Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi." Mae Crist wedi cymmeryd y galon trwy ruthr-gyrch, ac wedi myned iddi yn fuddugoliaethus, yn yr ailenedigaeth; mae'r enaid trwy ffydd yn rhoi ei hunan i fynu iddo ef, fel y dywedir yn 2 Cron. xxx. 8. Felly y mae y brenin gogoneddus hwn, yr hwn a ddaeth i'r galon trwy ei Yspryd, yn preswylio ynddi trwy ffydd. Mae yr enaid yn cael ei dynu, fel y mae yn rhedeg; a chan ei fod wedi ei alw yn effeithiol, mae efe yn dyfod.

*Yn drydydd,* Yn yr ailenedigaeth, mae cyfnewidiad dedwydd yn cael ei wneuthur ar y serchiadau; maent yn cael eu huniawni, a'u rheoleiddio.

1. Mae y cyfnewidiad hwn yn uniawni y serchiadau, ac yn eu gosod ar wrthrychau cyfaddas, 2 Thess. iii. 5. "A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at gariad Duw." Mae dymuniadau y dyn a ail-anwyd yn cael eu huniawni; fe'u gosidir ar Dduw ei hun, a'r pethau sydd uchod. Efe, yr hwn oedd yn gwaeddi o'r blaen gyda'r byd, "Pwy a ddengys i ni

ddaioni?" a newidiodd ei dôn, ac mae'n dywedyd, "Arglwydd dyrcha arnom lewyrch dy wyneb," Ps. iv. 6. O'r blaen nid oedd yn gweled tegwch yn Nghrist fel y dymunai ef; ond yn awr mae efe oll yn ddymunol, *mae oll yn hawddgar*, Can. v. 16 Mae prif ffrwd ei ddymuniadau, wedi eu troi i redeg at Dduw; canys yno y mae yr un peth â ddymunai, Ps. xxvii. 4. Mae yn dymuno bod yn sanctaidd, cystal a bod yn ddedwydd; a gwell ganddo fod yn rasol nag yn enwog. Mae ei obaith, yr hwn a fu yn isel wedi ei boelio wrth y ddaear, yn awr yn cael ei godi, ac yn cael ei osod ar y gogoniant a ddatguddir. Efe a gafodd obaith am fywyd tragywyddol yr hwn sydd wedi ei sylfaenu ar air yr addewid, Tit. i. 2. "Yr hwn sydd genym megis angor yr enaid," yn cadarnhau y galon dan brofedigaethau, Heb. vi. 19. Mae yn ei ddwyn i ddymuno "bod yn bur megis y mae yntau yn bur." Canys mae wedi ei adgenhedlu i *obaith bywiol*, 1 Pedr. i. 3. Dyrchefir ei gariad ef ar Dduw ei hun, Ps. xviii. 1; ar ei ddeddf sanctaidd ef, Ps. cxix. 97. Er ei bod yn taro yn erbyn ei chwantau anwylaf, mae'n dywedyd "Y mae y ddeddf yn sanctaidd, a'r gorchymyn yn sanctaidd, ac yn gyfiawn, ac yn dda," Rhuf. vii. 12. Mae'n caru ordinhadau Duw, Ps. lxxxiv. 1. "Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!" Mae "wedi ei symud o farwolaeth i fywyd, mae yn caru y brodyr," (1 Ioan iii. 14) *pobl Dduw* fel eu gelwir, 1 Pedr. ii. 18. Mae'n caru Duw er ei fwyn ei hun; a'r hyn sydd eiddo Duw, er ei fwyn ef. Iё fel y mae yn blentyn Duw, mae yn caru ei elynion. Mae ei Dad nefol yn drugarog a haelionus; "mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn:" felly y mae yntau yn cael ei dueddu yr un modd Matth. v. 44, 45; mae'n casau pechod ynddo ei hun ac mewn eraill, Ps. ci. 3, "Cas genyf waith y rhai cildynus; ni lŷn wrthyf fi." Mae'n gruddfan dan ei weddillion, ac yn hiraethu am waredigaeth, Rhuf. vii. 24, "Ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon?" Mae ei lawenydd a'i hyfrydwch yn yr Arglwydd, yn llewyrch ei wyneb, yn ei gyfraith ef; ac yn ei bobl, o herwydd eu bod yn debyg iddo. Pechod yw'r peth mae yn ei ofni fwyaf; ffynnon galar yw efe iddo yn awr, er ei fod o'r blaen yn ffrydiau llawenydd ganddo.

2. Mae'n rheoleiddio y serchiadau, gan eu gosod at wrthrychau addas, Pan osodom ein serchiadau ar y creadur, maent yn myned yn ormodol; pan orfoleddom ynddo, yr ydym

yn dueddol i orfoleddu gormod; a phan dristawn, yr ydym yn dueddol i dristau gormod; ond mae gras yn ffrwyno y serchiadau hyn, yn tori eu hesgyll, ac yn eu cadw o fewn terfynau, rhag llifo o honynt dros y glenydd. Mae'n gwneuthur i ddyn "gasau ei dad a'i fam, ei wraig a'i blant,—ie a'i einioes ei hun," yn gydmariaethol; hyny yw, eu caru is law yr Arglwydd, Luc xiv. 26. Mae hefyd yn sancteiddio serchiadau cyfreithlon, yn eu dwyn allan, ac oddiar ddybenion uniawn, yn eu cyfeirio at yr iawn ddyben. Gall fod dymuniadau ansanctaidd am Grist a'i ras; megis pan fo dynion yn dymuno Crist, nid o gariad ato ef, ond o gariad atynt eu hunain. "Rhoddwch i ni o'ch olew chwi," meddai y morwynion ffol, "canys y mae ein lampau yn diffoddi," Matth. xxv. 8. Gall fod tristwch ansanctaidd am bechod, megis pan fo un yn tristiau am dano, nid am ei fod yn anfoddloni Duw, ond o herwydd y digofaint sydd yn gyssylltiedig âg ef, fel y gwnaeth Pharaoh, Iudas, ac eraill. Felly, gall dyn garu ei dad a'i fam, oddiar egwyddor naturiol, heb ddim parch i orchymyn Duw yn ei rwymo i hyny. Ond mae gras yn sancteiddio y serchiadau yn y cyfryw bethau; yn gwneuthur iddynt garu Duw mewn ffordd newydd, parchu ei orchymynion, ac ymdrechu i'w ogoneddu ef. Hefyd, mae gras yn codi y serchiadau lle bont yn rhy isel: mae yn rhoi y brif eisteddle ynddynt i Dduw; ac yn tynu i lawr bob gormeswyr, pa un bynag ai personau ai pethau; a gwneuthur iddynt orwedd wrth ei draed ef, Ps. lxxiii. 25, "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thi." Mae Duw yn cael ei garu er ei fwyn ei hun, a phersonau a phethau eraill er ei fwyn ef. Yr hyn sydd yn hawddgar ynddynt hwy, i'r anian newydd, yw rhyw belydr o ddaioni Duw sy'n ymddangos ynddynt; canys i eneidiau grasol nid oes llewyrch yn ddynt, ond llewyrch benthycol. Mae hyn yn dangos fel y mae'r saint yn caru pob dyn, ac eto yn casau y rhai sydd yn casau Duw, ac yn dibrisio y rhai drygionus, fel dynion gwael. Maent yn eu casau ac yn eu difrïo am eu drygioni; nid oes dim o Dduw yn hyny, ac felly nid oes dim dymunol nac anrhydeddus ynddo: ond maent yn eu caru hwy o herwydd eu rhinweddau canmoladwy, pa un bynag ai naturiol ai moesol fyddont; canys yn mhwy bynag y byddo y rhai hyn, o Dduw y maent, a gellir eu holrhain hyd atto ef fel eu ffynnonell. Yn ddiweddaf, mae aileuedigaeth yn gosod y serchiadau mor sefydlog ar Dduw, fel y mae y dyn yn cael

ei dueddu, ar orchymyn Duw, i ollwng ei afael o bob peth arall, i'r dyben o ymlynu wrth Girst; ii gasau tad a mam, mewn cydmariaeth i Grist, Luc. xiv. 26. Mae'n gwneuthur pethau cyfreithlon fel mantell Ioseph i fod yn rhydd am ddyn, fel y gall ymadael â hwynt, pan fo mewn perygl o gael eu rwydo o'u plegyd.

Os na thröwyd ffrwd ein serchiadau fel hyn, yr ydym yn myned gydâ'r ffrwd i golledigaeth. Os yw *chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd,* yn cael yr orsedd yn ein calonau, yr hon a ddylai gae' ei meddiannu gan y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân; os na chawsom fwy o gariad at Dduw nag atom ein hunain; os na fu pechod yn chwerwach na chystudd, ïe, yn chwerwach na'r boen sydd o'n diddyfnu ni oddiwrtho; sicr yw ein bod yn ddieithriaid i'r tro achubol hwn. Canys mae gras yn troi y serchiadau a'u wynebau yn isaf, pryd bynag y delo i'r galon.

*Yn bedwerydd,* Mae y gydwybod yn cael ei hadnewyddu. Yn awr, gan fod goleuni newydd wedi ei roi yn yr enaid, yn yr ailenedigaeth, mae y gydwybod yn cael ei goleuo, ei haddysgu, a'i hyfforddi. Mae "canwyll yr Arglwydd" (Diar. xx. 27.) yn awr yn cael ei dwyn i ddysgleirio; fel y mae yn tywynu ac yn goleuo conglau pellaf y galon, ac yn canfod pechodau na wyddai yr enaid ddim am danynt o'r blaen; ac, yn enwedigol, mae yn canfod llygredigaeth natur, y gwreiddyn, a'r had, o'r hwn y tardd yr holl bechodau gweithredol. Mae hyn yn peri iddo waeddi Rhuf. vii. 27, "Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon?" Mae y gydwybod oedd yn cysgu yn mynwes y dyn o'r blaen, yn awr wedi ei deffroi, ac yn peri i'r holl enaid glywed ei llais: ac ni chaiff orphwysfa mwy i gysgu yn ei wely; rhaid iddo godi a gweithio, *brysio a diangc am ei einioes.* Mae yn dwys annog i ufudd-dod, ïe, yn y gweithredoedd mwyaf ysprydol, y rhai ni wel y gydwybod anianol; ac yn nerthol ffrwyno pechod, ïe, y pechodau mwyaf dirgel. Mae'n gwasgu y dyn i ymostwng i oruchel lywodraeth Duw, â'r hon y mae'r galon yn awr wedi ei chymmodi, ac y mae yn ewyllysgar blygu iddi. Felly mae hi yn rhwymo y dyn i'w ddyledswydd, yn wyneb pob perygl yn y byd: canys mae hi yn llenwi y galon âg ofn Duw, fel y mae ofn dyn yn cael ei dori. Mae hyn wedi peri i lawer *osod eu heinioes yn eu llaw,* a dilyn crefydd, yr hon oeddynt yn ei ddibrisio o'r blaen, ac ymroddi i gerdded y ffordd oeddynt o'r blaen yn ei chasau; Gal. i. 23, "Yr hwn oedd gynt yn

ein berlid ni, yr awrhon yn pregethu y ffydd, yr hon gynt a anrheithiasai." Mae euogrwydd yn awr yn gwneuthur i'r gydwybod ferwino. Mae hi yn poeni yn ddirfawr am y pechodau a aeth heibio, yr hyn sy'n llenwi yr enaid â galar a hunan-ffieiddiad. Ac y mae pob golwg adnewyddol ar y pechodau hyn, yn effeithio arni, ac yn peri i'r clwyfau waedu a gofidio o newydd. Mae yn cael ei gwneuthur yn dyner mewn perthynas i bechod, a dyledswydd, am yr amser i ddyfod: wedi ei llosgi unwaith mae hi yn ofni 'r tân; ac yn arswydo tori y cae, lle o'r blaen y brathwyd hi gan y sarph.

*Yn ddiweddaf,* Mae y gydwybod wedi ei hadnewyddu, yn gyru y pechadur at Iesu Grist, fel yr unig feddyg a all dynu y colyn o euogrwydd, a gwaed yr hwn yn unig a all "buro y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon," (Heb. ix. 14.) gan wrthod pob esmwythdra a gynnygir iddi o un lle arall. Ac y mae hyn yn brawf fod y gydwybod, nid yn unig wedi ei thanio, fel y dichon iddi fod mewn cyflwr natur, ond hefyd ei bod wedi cael bwrw olew iddi trwy ail-enedigol ras.

*Yn bummed,* Gan fod y cof wedi ei lygru, mae yntau hefyd yn cael ei wellhau yn yr ailenedigaeth. Mae'r cof yn cael ei wanhau mewn perthynas i'r pethau nid ydynt yn deilwng o le ynddo; a dysgir dynion i anghofio cam, ac i ollwng digter dros gof, Matth. v. 44, 45. "Gwnewch dda i'r sawl a'ch casant, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwed i chwi, ac a'ch erlidiant; fel y byddoch (hyny yw, fel yr amlyger eich bod yn) blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Mae yn cael ei nerthu at bethau ysprydol. Mae genym gynghor Solomon i gof drwg, Diar. iii. 1. "Fy mab," eb efe, "na ollwng fy nghyfraith dros gof." Ond pa fodd y cedwir hi yn y cof? "Ond cadwed dy galon fy ngorchymynion." Mae gras yn gwneuthur i'r galon gofio lle byddo cof y pen yn ddrwg, Ps. cxix. 11. Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon." Mae y galon trwy brofi melusder y gwirionedd yn nerthu y cof i ddal arno. Pe gwnaethai y gwirionedd fwy o argraff ar ein calonau, hwy gawsent ddyfnach argraff ar ein cof, Ps. cxix. 93, "Byth nid anghofiaf dy orchymynion, canys â hwynt y'm bywheaist." Mae gras yn sancteiddio y cof. Mae gan lawer gof helaeth, ond yn ansanctaidd, nid yw dda i ddim ond i gasglu gwybodaeth, a thrwy hyny chwanegu eu damnedigaeth. Ond mae y cof adnewyddol "yn cofio ei orchymynion i'w gwneuthur," Ps. ciii. 18. Ystordy sanctaidd ydyw, o'r hwn y cynnysgaeddir y Cristion ar ei daith i Sion; a mynych y

mae ffydd a gobaith yn cael eu porthi o honaw, mewn awr dywyll. Ystordy y profiadau gynt yw; ac y mae y rhai hyn fel arwyddion ffordd i'r credadyn, drwy graffu ar y rhai y mae efe yn gwybod pa le y mae, ie ar ddiwrnod cymmylog, Ps. xlii. 6, "Fy enaid a ymddarostwng ynof: am hyny y cofiaf di, o dir yr Iorddonen," &c. Mae hefyd yn cynnorthwyo yr enaid i alar duwiol, a hunan-ffieiddiad, trwy ddangos hen euogrwydd o newydd, o flaen fy gydwybod; a gwneuthur iddi waedu o newydd, er fod y pechod wedi ei faddeu. Ps. xxv.7. "Na chofia bechodau fy ieuengctyd." A lle mae euogrwydd heb ei symud yn gorwedd ar y gydwybod gysglyd, mae weithiau yn dwyn gair i mewn sydd mewn munud yn cyffroi yr holl enaid: megis pan "gofiodd Pedr eiriau yr Iesu—efe a aeth allan ac a wylodd yn chwerw dost," Matth. xxvi. 75. Mae trysori gair Duw yn y cof yn nerthu dyn i wrthwynebu hudoliaethau, yn rhoi y cleddyf yn ei law yn erbyn gelynion ysprydol, ac y mae yn oleuni i gyfeirio ei draed yn ffordd crefydd a chyfiawnder.

*Yn chweched,* Mae tro yn cael ei wneuthur ar y corph, a'i aelodau, o ran eu gwasanaeth: maent yn cael eu cyssegru i'r Arglwydd. Mae y "corph—i'r Arglwydd," 1 Cor. vi. 13. "Teml i'r Yspryd Glân" yw, adn. 19. Y llygaid, yr hwn oedd yn trosglwyddo dychymmygion pechadurus i'r galon, sydd yn awr dan ammod (Iob xxxi. 1.) na wnelo efe hyny mwy; ond y bydd iddo wasanaethu yr enaid trwy edrych ar waith yr Arglwydd, a darllen ei air ef. Y glust, yr hon a fu yn borth angeu i ollwng pechod i mewn, sydd yn awr wedi ei gwneuthur yn borth y bywyd, trwy yr hwn y mae gair y bywyd yn myned i'r enaid. Y tafod, yr hwn, oedd yn gosod holl natur yn fflam, a adferwyd i'r hyn y bwriadwyd ef gan y creawdwr; sef, i fod yn offeryn i'w ogoneddu ef, ac i glodfori ei enw. Mewn gair, mae yr holl ddyn dros Dduw, gorph ac enaid; trwy y cyfnewidiad rhyfedd hwn fe'u gwneir yn eiddo ef.

*Yn olaf.* Mae y cyfnewidiad grasol hwn yn dysglaerio yn ei ymarweddiad. Mae y dyn oddiallan yn cael ei adnewyddu. Mae calon newydd yn gwneuthur buchedd newydd. Pan fo "merch y Brenin oll yn ogoneddus o fewn, gemwaith aur yw ei gwisg hi," Ps. xlv. 13. "O bydd y llygaid yn syml, yr holl gorph fydd yn oleu," Matth. vi. 22. Ymddengys y cyfnewidiad hwn yn mhob rhan o ymarweddiad dyn, yn neillduol yn y pethau canlynol,

1. Yn newidiad ei gyfeillach. Er iddo unwaith ddiystyru cyfeilliach y saint, yn awr y maent "yn rhai rhagorol, yn y rhai y mae ei holl hyfrydwch," Ps. xvi. 3. "Cyfaill ydwyf fi i'r rhai oll a'th ofnant," Medd y Psalmydd, Ps. cxix. 63. Mae y dyn a ail-anwyd yn ymuno â'r saint, canys maent hwy ac yntau o'r un feddwl yn y pethau mwyaf; maent oll wedi cael anian newydd; maent yn teithio i dir Immanuel; ac yn cyd ymddiddan yn iaith Canaan. Yn ofer y mae dynion yn crefydda, tra maent yn dewis cyfeillion annuwiol; canys "yr hwn sydd gyfaill i ynfydion a gystuddir." Diar. xiii. 20. Gwna crefydd ddyn yn ochelgar rhag myned at deulu annuwiol, neu i unrhyw gyfeillgarwch afraid gyda dynion drygionus; fel y gwna dyn iach, ochelyd myned i dŷ a'r pla ynddo.

2. Mae yn ddyn newydd yn ei sefyllfa berthynasol. Mae gras yn adnewyddu dynion yn eu hamrywiol amgylchiadau; ac yn eu harwain o anian, i gyflawni yn gydwybodol eu holl ddyledswyddau perthynasol. Nid yn unig mae yn gwneuthur meibion da, a merched da; ond mae'n gwneuthur deiliaid da, gwyr da, a gwragedd da, gweision da, plant da; ac mewn gair, mae yn gwneuthur rhai yn ffyddlon yn yr eglwys, yn y wladwriaeth, ac yn eu teuluoedd. Cyfiawn y mae yr wrthdadl hono yn cael ei chodi yn erbyn crefydd llawer; sef, eu bod yn wyr drwg, yn wragedd drwg, yn feistriaid, ac yn weision drwg. Pa fodd y profwn ein hunain yn greaduriaid newyddion, os ydym yn debyg ag yr oeddym o'r blaen? 2 Cor. v. 17, "Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd; yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd." Fe ddwg gwir dduwioldeb dystiolaeth i ddyn o gydwybodau ei berthynasau agosaf, er y gwyddant hwy am ei wendidau pechadurus nag eraill, fel y gwelwn yn yr achos hwnw, 2 Bren. iv. 1. "Dy was fy ngwr a fu farw; a thi a wyddost fod dy was yn ofni yr Arglwydd."

3. Mae wedi cyfnewid yn fawr yn ei waith yn trin y byd. Nid y cwbl a fedd efe ydyw y byd hwn yn awr, fel y bu efe o'r blaen. Mae y saint yn trin y byd, cystal ag eraill, eto nid yw yn cael eu calonau. Mae'n eglur eu bod yn masnachu â'r nef, yn gystal ag â'r ddaear: Phil. iii. 20. "Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd." Ac y maent yn gwneuthur eu gorchwylion bydol fel dyledswydd a roddwyd arnynt gan Arglwydd y cwbl; gan wneuthur eu gorchwylion cyfreithlon, *megis i'r Arglwydd*, Eph. vi. 7. Mae'n gweithio o herwydd iddo ei ddywedyd, "Na ladrata."

4. Maent yn gofalu llawer am helaethiad teyrnas Crist y byd. Maent yn cofleidio achos yr efengyl, ac yn "codi I rusalem goruwch eu llawenydd penaf," Ps. cxxxvi. 6. Pa m guddiedig bynag y byddont byw, mae gras yn eu gwneuth yn ddynion cyhoeddus, i weithio gydag arch ac achos yr A glwydd, i garu ei bobl, ïe y rhai ni welsant erioed. Fel maent yn blant Duw, am hyny maent yn gofalu yn natur am y pethau hyn; mae ganddynt ofal newydd a neillduol a ddaioni ysprydol eraill: a chyn gynted ag y profant allu gr eu hunain, maent am fod yn dystion dros Dduw a sancteid rwydd yn y byd, fel yr ymddengys yn y wraig o Samaria, hon, wedi i Grist egluro ei hun iddi, "a aeth i'r ddinas, ac ddywedodd wrth y dynion, Deuwch gwelwch ddyn yr hwn ddywedodd i mi yr hyn oll a wnaethum; onid hwn yw Crist?" Ioan iv. 28, 29. Gwelsant a theimlasant ddrv pechod, ac felly maent yn tosturio tros y byd sydd yn gorwe mewn drygioni. Maent yn awyddus am gipio pentewyn tân, trwy gofio eu bod hwythau wedi eu cipio o hono. Yr drechant am ddangos gwerth crefydd i eraill, mewn gair gweithred; a gwell ganddynt arbed eu rhyddid eu hunain, thrwy ei arfer mewn anghariad, distrywio eraill, 1 Cor. vi 13, "O herwydd paham, os yw bwyd yn rhwystro fy mraw ni fwytaf fi gig byth, rhag i mi rwystro fy mrawd."

5. Mae cyfnewidiad mawr yn eu hymarferiad o gysur cyfreithlawn. Nid ydynt yn ymorphwys ynddynt fel eu p ddybeu; ond yn eu harferyd fel moddion i'w cynnorthwyo eu taith. Maent yn tynu ei cysuron o'r ffynnonnau uchod, p fo y ffynnonau isod yn rhedeg. Hannah, pan gafodd hi fa ni lawenychodd gymmaint yn y rhodd, ag yn y Rhoddwr: Sam. ii. 1. "A Hannah a weddïodd, ac a ddywedodd, Ll wenychodd fy nghalon yn yr Arglwydd." Ië, wedi i gysur bywyd ddarfod, gallant fyw hebddynt, a "gorfoleddu yn Arglwydd er i'r ffigysbren na flodeuo." Hab. iii. 17, 18. M gras yn dysgu i ddynion i arfer pethau y byd hwn fel peth myned heibio, ac i arfer cymmedroldeb sanctaidd y'mhob pet Mae y galon yr hon oedd o'r blaen yn ymlenwi o'r peth hyn heb arswyd, yn awr yn gywilydd ganddi gael ei bodd ganddynt, a thrwy ganfod y perygl, mae yn eu defnyddio gynnil: fel cŵn yr Aipht yn rhedeg wrth leibio dwfr afon Nil rhag ofn y Crocodiliaid sydd ynddi.

*Yn olaf,* Mae y cyfnewidiad hwn i'w weled y'ngwaith y d yn cyflawni dyledswyddau crefyddol. Er iddo unwaith

hesgeuluso, ni wna felly mwy, os unwaith yr ymwel gras â g ef. Os bydd dyn wedi ei ail-eni, fe "chwennych ddidwyll laeth y gair;" 1 Pedr ii. 2, 3. Pan gynted y caffo dyn diweddi yspryd gras, bydd iddo "yn yspryd gras a gweddïau," Zech. xii. 10. Mae mor naturiol i un wedi ei ail-eni weddïo, ag yw i blentyn newydd eni i lefain, Act. ix. 11. "Wele y mae efe yn gweddïo." Bydd ei galon yn deml i Dduw, a'i *dŷ* yn eglwys. Mae ei ddyledswyddau crefyddol, y rhai oedd o'r blaen yn rhagrithiol a ffurfiol, yn awr yn ysprydol a bywiol: yn gymmaint a bod y galon a'r tafod wedi eu cyffwrdd â marworyn o'r nefoedd: ac nid yw yn gorphwys ar gyflawni dyledswyddau yn unig, a'u cymmeryd fel tasg i'w gorphen; ond y'mbob dyledswydd, mae yn ymgais am gymdeithas â Duw yn Nghrist, gan eu hiawn gyfrif hwynt fel moddion a ordeiniwyd gan Dduw i'r dyben hwnw; ac os na chaiff hyny, bydd wedi cael ei siomi. Cymmaint a hyn, am natur ailenedigaeth.

---

## *Y Cyffelybrwydd sydd rhwng Genedigaeth naturiol, a Genedigaeth Ysprydol.*

II. Caf ddangos pa ham y gelwir y cyfnewidiad hwn yn *ailenedigaeth*, ac yn *eni drachefn*. Gelwir ef felly, o herwydd y tebygolrwydd sydd rhwng genedigaeth naturiol ac ysprydol, yr hyn a gynnwysir yn y pethau a ganlyn:

*Yn gyntaf*, Peth dirgelaidd yw cenhedliad naturiol; ac felly y mae adgenhedliad, Ioan iii. 8. "Y mae'r gwynt yn chwythu lle y myno; a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: felly y mae yr hwn a aned o'r Yspryd." Fe deimlir *gwaith* yr Yspryd, ond y mae ei *ddull* o weithio yn ddirgelwch na allwn ni ei amgyffred. Mae goleuni newydd yn cael ei roi yn y meddwl, a'r ewyllys yn cael ei adnewyddu; ond pa fodd y mae y goleuni hwnw yn cael ei ddwyn yno, y modd y mae yr ewyllys yn cael ei lyffetheirio â rheffynau cariad, a'r modd y mae y gwrthryfelwr yn cael ei wneuthur yn ufudd, nis gwyddom, mwy nag y gwyddom, "y modd y ffurfheir yr esgyrn y'nghroth y feichiog," Preg. xi. 5. Fel y mae gwr yn clywed swn y gwynt, ac yn gweled ei ôl, ond ni wyr pa le y mae'n dechreu nac yn diweddu; "felly y mae pob un a aned o'r Yspryd;" mae yn gweled y cyfnewidiad a

wnaed arno, ond y modd y gwnaed ef nis gwyr. Un peth a wyr efe, *lle yr oedd efe gynt yn ddall mae efe yn awr yn gweled*; ond " y mae had gras yn tyfu mewn modd nas gwyr efe," Marc iv. 26, 27.

Y*n ail*, Y'mhob un o'r ddau, mae creadur yn cael bod nad oedd ganddo o'r blaen. Nid yw y plentyn mewn bod nes ei genhedlu; ac nid oes gan ddyn fod grasol, nes ei adgenhedlu. Nid iachau y claf y mae ailenedigaeth, " ond cyfodi o feirw," Eph. ii. 1, 5. Mae dyn yn ei gyflwr natur yn un di-fod mewn gras; ac fe'i dygir i fod newydd, trwy allu yr hwn " sy'n galw y pethau nid ydynt fel pe byddent; wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da." Eph. ii. 10. Gan hyny, ein Harglwydd Iesu, wrth osod sail gobaith i'r Laodiceaid yn eu cyflwr truenus a gresynol, mae yn ei gyhoeddi ei hun yn " ddechreuad creadigaeth Duw," Dat. iii. 14, sef, ei dechreuad gweithredol; canys " trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth," ar y dechreu, Ioan i. 3. O'r hyn y gallent gasglu, gan iddo ef eu gwneuthur o ddim, y gallai efe eu hail wneuthur, pan oeddynt yn waeth na dim: yr un llaw ag a'u gwnaeth hwynt yn greaduriaid, a allai eu gwneuthur yn greaduriaid *newydd*.

*Yn drydydd.* Fel y mae y plentyn yn ei enedigaeth yn oddefus yn unig, felly y mae plentyn Duw yn yr ailenedigaeth. Nid yw y naill yn cynnorthwyo dim yn ei genhedliad ei hun, ac nid yw y llall yn cynnorthwyo dim, i fod yn achos o'i adgenhedliad. Er y gall dyn orwedd wrth y llyn, eto ni pherthyn iddo ef gynhyrfu y dwfr, ac nid yw mewn un modd yn teilyngu ei wellhad. Genir rhai yn blant brenhinoedd, ac eraill yn blant cardotwyr, ond nid oes gan y plentyn un llaw yn y gwahaniaeth hwn. Mae Duw yn gadael rhai yn eu cyflwr natur; mae eraill yn cael eu dwyn i gyflwr o ras neu adenedigaeth. Os anrhydeddwyd di fel hyn, nid oes diolch i ti, " canys pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti ac arall?" 1 Cor. iv. 7.

*Yn bedwerydd*, Mae cyssylltiad rhanau mewn modd rhyfedd yn mhob un o'r ddau enedigaeth. Tra rhyfedd yw gwneuthuriad corph dyn, yn yr hwn y mae cynnifer o wahanol beiriannau—dim yn eisieu, na dim yn ormod. Mae Dafydd wrth ystyried ei gorph ei hun, yn edrych arno fel dernyn o waith rhyfeddol: " Ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed," meddai ef, Ps. cxxxix. 14, ac y'm cywreiniwyd yn iselder y ddaear, adn. 15; hyny yw, yn y bru, lle ni wn i pa fodd y mae yr esgyrn yn tyfu, mwy nag y gwn beth sy'n cael ei wneuthur yn iselder y

ddaear. Fe'n cywreinir yn rhyfedd yn ein cenhedliad naturiol, fel dernyn o waith edau a nodwydd, fel y mae y gair yn arwyddocau; felly hefyd y mae hi yn yr ailenedigaeth; "mewn gwaith edau a nodwydd y dygir hi at y brenin," Ps. xlv. 14, gwisg wedi ei gwneuthur yn gywrain. Yr un gair yw yn y ddau destun. Ac y mae yr Apostol yn dywedyd wrthym beth yw y wisg hon, Eph. iv. 24, y dyn newydd yw, "yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Dyna y wisg, y dywaid ef yn yr un lle, sydd raid i ni ei gwisgo; nid i gau allan gyfiawnder cyfrifol Crist. Gwaith cywrain yw y ddau, fel pen-gorchwylion amryw ddoethineb Duw. O ryfedd gydweuad grasusau yn y dyn newydd! O greadur gogoneddus wedi ei greu o newydd yn ol delw Duw! Gras am ras yn Nghrist, sy'n gwneuthur i fynu y dyn newydd hwn, Ioan i. 16; fel mewn genedigaeth naturiol, mae gan y plentyn aelod am aelod i'w rieni; mae ganddo bob aelod ag sydd gan y rhieni, mewn cyfattebolrwydd.

*Yn bummed,* Mae hyn oll, yn y ddau, yn tarddu o'r hyn ynddo ei hun sy'n dra bychan a di-gyfrif. O fawr allu Duw, yn gwneuthur y fath greadur o had llygredig; a llawer mwy yn dwyn y creadur newydd o ddechreuad mor fychan! Y mae "fel y cwmmwl bychan megis cledr llaw gwr, yr hwn a ddu-odd yr holl nefoedd gan gymmylau a gwynt; a bu gwlaw mawr," 1 Bren. xviii. 44, 45. Mae dyn yn dal ar air yn y bregeth, a llawer yn ei ymyl yn ei ollwng i golli: ond y mae yn aros gydag ef, yn gweithio ynddo, ac nid yw byth yn ei adael, nes iddo droi y byd bychan a'i wyneb yn isaf; hyny yw, nes delo efe yn ddyn newydd. Mae fel yr agerdd a lanwodd ben Ahasferus, ac a wnaeth i'w gwsg gilio oddiwrtho, Esther vi. 1. Yr hyn a brofodd yn ffynnonell y fath weithediadau, na orphwysasant, nes i Mordecai mewn gwychder breiniol, gael ei ddwyn ar farch trwy yr heolydd, a Haman yn cerdded wrth ei draed. Yr Haman hwn a grogwyd, a Mordecai a ddyrchafwyd, a'r eglwys a waredwyd rhag bradwriaeth dieflig Haman. "Y gronyn o had mwstard—yn myned yn bren," Matth. xiii. 31, 32. Mae Duw yn caru dwyn pethau mawrion allan o ddechreuad bychan.

*Yn chweched,* Mae cenhedliad naturiol yn cael ei ddwyn yn mlaen yn raddol: Iob x. 10, "Oni thywalltaist fi fel llaeth; ac oni cheulaist fi fel caws?" Felly yn yr adgenhedliad. Mae hi ar yr enaid yn gyffredinol yn yr adgenhedliad, fel ar y dyn

dall a iachawyd gan Grist, yr hwn ar y cyntaf a welodd "ddynion megis preniau yn rhodio, wedi hyny—a welai bawb o bell ac yn eglur, Marc viii. 24, 25. Mae yn wir, mewn ystyr fanylaidd, mai mynediad o farwolaeth i fywyd yw adgenhedliad, trwy'r hyn y bywheir yr enaid mewn munudun; yn gyffelyb pan ddygir yr *anelwig* ddefnydd i berffeithrwydd yn y groth, y rhoddir yr enaid yn y telpyn marw. Er hyny, gallwn ddychymmygu rhyw beth tebyg i genhedliad naturiol mewn adgenhedliad, trwy yr hyn y parotoir yr enaid at fywhad: ac y mae yr anian newydd o natur gynnyddol, 1 Pedr ii. 2, a *bywyd yn helaethach,* Ioan x. 10.

*Yn seithfed,* Yn y ddau mae perthynasau newyddion. Mae y rhai adgenedledig yn galw Duw yn Dad; canys *ei blant* ef ydynt, Ioan i. 12, 13, wedi eu *cenhedlu ganddo ef,* 1 Pedr i. 3. *Prïodasferch yr Oen,* (hyny yw) *yr eglwys,* yw eu mam, Gal. iv. 26. Maent yn perthyn fel brodyr a chwiorydd i angylion a saint gogoneddus, teulu y nefoedd. Maent o deulu'r nef: a'r gwaelaf o honynt, "pethau distadl y byd," (1 Cor. i. 28.) y rhai diberthynas (fel y mae y gair yn arwyddocau) y rhai na allant ymffrostio o'r gwaed sydd yn rhedeg yn eu gwythieni, a ddygir trwy ailenedigaeth, i berthynas â'r rhai rhagorol y ddaear.

*Yn wythfed,* Mae tebygolrwydd rhwng y rhieni a'r plentyn. Mae pob peth sy'n cenhedlu, yn cenhedlu ei debyg; ac y mae y rhai adgenedledig "yn gyfranogion o'r dduwiol anian," 2 Pedr i. 4. Mae perffeithiau moesol y natur ddwyfol mewn mesur a graddau, yn cael ei gyfranu i'r enaid grasol; felly mae delw Duw yn cael ei hadferu; ac fel y tebyga plentyn i'w dad, mae y creadur newydd yn tebygu i Dduw ei hun, mae'n *sanctaidd megis y mae yntau yn sanctaidd.*

*Yn olaf,* Gan nad oes genedigaeth heb boen, i'r fam a'r plentyn, felly mae poen fawr y'ngenedigaeth y creadur newydd. Mae y plant yn cael mwy neu lai o'r poenau esgor hyn, trwy yr hyn y "dwys-bigir hwy yn y galon," Act. ii. 37. Mae'r enaid yn cael poenau dirfawr pan y mae yn cael ei ddarostwng gan argyhoeddiad. "Ysbryd cystuddiedig pwy a'i cyfyd?" Mae y fam mewn poenau, "Clafychodd Sïon," Esay lxvi. 8. Mae hi yn ocheneidio, yn gruddfan, ac yn gwaeddi, ac mewn llafur caled yn ei gweinidogion a'i haelodau i ddwyn plant i'r Arglwydd: Gal. iv. 19, "Fy mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachefn, hyd oni ffurfier Crist ynoch." Ac ni fu yr un fam llawenach erioed am *eni dyn i'r byd,* nag yw hi ar enedigaeth newydd ei

plant. Ond, yr hyn sy'n fwy neillduol na hyn oll, ni ddarllenwn yn unig am lafur (neu boen) enaid ein Harglwydd Iesu, Esay liii. 11; ond, (yr hyn sy'n fwy priodol ar y mater) ei boen neu ei loesion fel llafur gwraig yn esgor; felly y mae y gair a arferir yn Act. ii. 24, yn arwyddo. Iawn y gall ef alw y creadur newydd, fel y galwodd Rahel ei mab drudfawr yn Benoni, h.—y. mab fy ngalar: ac fel y galwodd hi un arall yn Naphtali, h.—y. fy ymdrech; o herwydd i loesion y llafur hwn, beri iddo *lefain cryf a dagrau*, Heb. v. 7, ie, *ymdrech a chwys gwaedlyd*, Luc xxii.44. Ac yn y diwedd bu farw o'r loesion hyn; ie, daethant iddo *yn ofidiau angeu*, Act. ii. 24.

---

## *Cymhwysiad o Athrawiaeth yr Ailenedigaeth.*

Defnydd I. Wrth yr hyn a ddywedwyd, gellwch holi eich hunain, a ydych chwi mewn "cyflwr o ras," a'i peidio. Os dygwyd chwi o gyflwr dinystr a digofaint i gyflwr o ras, yr ydych yn greaduriaid newydd, wedi eich ail-eni. Ond fe allai y dywedwch, "Pa fodd y gwybyddwn a ail-anwyd ni ai peidio?" *Atteb*. Pe gofynasech i mi a gododd yr haul, a pha fodd y caech wybod a gododd efe ai peidio? Paraswn i chwi edrych i fynu i'r ffurfafen, a'i weled â'ch llygaid. Ac os mynwch wybod a gododd goleuni yn eich calonau, edrychwch i mewn a gwelwch. Goleuni yw gras, ac mae yn ei ddangos ei hun. Edrychwch i'ch meddwl, a gafodd efe ei oleuo y'ngwybodaeth Duw. A ddysgwyd chwi yn dufewnol i wybod beth yw Duw? A edrychaist di erioed i ti dy hun i wybod beth ydyw dy gyflwr pechadurus a thruenus, pechadurusrwydd dy natur, pechodau dy galon a'th fywyd? A gefaist ti erioed olwg ar fawr ddrwg pechod? A welaist ti y brenin Iesu yn ei degwch, mawr amryw ddoethineb Duw ynddo ef, ei ragorol ardderchawgrwydd, a'i gyfiawnder anfeidrol, y'nghyd a gwagter pob peth arall? Yn nesaf, Pa gyfnewidiad a wnaed ar dy ewyllys? A yw y cadwynau wedi eu tori, a fu yn ei rwymo rhag gogwyddo at bethau nefol? Ac a oes tuedd newydd yn yr ewyllys? A wyt ti yn gweled gwrthwynebrwydd at bechod, a thuedd at ddaioni yn dy galon? A ydyw dy enaid wedi troi at Dduw fel ei brif ddyben? A ydyw dy ewyllys wedi ei chydymffurfio i ryw raddau âg ewyllys gorchymmynol a rhag-

luniaethol Duw? A gymmodwyd di a'th galon â'r cyfammod gras, ac a dueddwyd ti i wneyd derbyniad o Grist fel y cynnygir ef yn yr efengyl? Ac ydyw eich serchiadau wedi eu gosod ar yr iawn wrthddrychau? A yw eich dymuniad yn myned ar ol Duw? at ei enw ac at ei goffadwriaeth ef? Esay xxvi. 8. A yw eich gobaith ynddo ef? A ydych chwi yn ei garu ef, ac yn casau pechod? A yw eich gwaith yn digio Duw yn ofid i'ch calon, ac a ydych chwi yn ofni pechod yn fwy na'r gosp? A reoleiddiwyd eich serchiadau? A ydynt hwy wedi cael eu diddyfnu oddiwrth bethau 'r greadigaeth, a darostwng eu bucheldrem? Ac a dderchafwyd hwynt i garu Duw yn Nghrist. Ai efe sydd ar orsedd eich calon? Ac a ydych yn bwrw eich holl fwyniant bydol cyfreithlon wrth ei draed? A oleuwyd ac a ddeffröwyd eich cydwybod, i wrthod pob esmwythad, ond trwy gymhwysiad o waed Crist? A yw eich cof wedi ei sancteiddio, ac a yw eich corph wedi ei gyssegru at wasanaeth Duw? A wyt di yn rhodio yn awr mewn "newydd-deb buchedd?" Fel hyn gelli weled a ail-anwyd di ai peidio.

Ond i'ch cynnorthwyo yn mhellach yn y mater hwn, traethaf ychydig am arwydd arall sy'n dangos ailenedigaeth, sef, "caru'r brodyr." Tystiolaeth, trwy yr hon y cafodd y saint gwanaf a mwyaf ofnus, lawer o gysur, pan na allent gael ond ychydig o gysur oddiwrth un arwydd arall. Gesyd yr Apostol hyn i lawr, 1 Ioan iii. 14. "Nyni a wyddom ddarfod ein symud ni o farwolaeth i fywyd, oblegyd ein bod yn caru y brodyr." Nid oes i ni feddwl fod yr Apostol yn y lle hwn wrth *frodyr*, yn meddwl brodyr trwy berthynas â'r Adda cyntaf, ond yr Ail Adda, Iesu Grist. Er mae'n wir fod caredigrwydd cyffredinol, ac ewyllys da tuag at holl ddynolryw, yn cymmeryd lle yn yr ailenedigaeth, gan ei fod yn dwyn cymmaint tebygolrwydd i ddelw Duw; eto mae'r holl adnodau yn llefaru am y rhai sydd "feibion i Dduw," adnod 1. 2, "Plant Duw," adn. 10, "Wedi eu geni o Dduw," adn. 9; yn gwahaniaethu rhwng plant Duw, a "phlant diafol," adn. 10. rhwng y rhai "sydd o'r diafol," adn. 8. a'r rhai hyn sydd "o Dduw," adn. 10. Ac y mae'r testun yn dyfod fel rheswm i ddangos paham na ddylem ryfeddu fod y byd yn casau y brodyr, "Plant Duw" adn. 13, Pa fodd y rhyfeddwn wrth hyn, gan fod "caru y brodyr" yn brawf fod un wedi ei symud o farwolaeth i fywyd? Ac felly afresymol fyddai edrych am y *cariad* hwn y'mhlith dynion y byd, y rhai sydd yn feirw mewn *camweddau* a phechodau. Ni allant garu y brodyr; nid rhy-

fedd gan hyny eu bod yn eu *casau.* Felly mae'n amlwg mai wrth frodyr y meddylir, brodyr trwy ailenedigaeth.

Yn awr i ddangos y nod hwn o ailenedigaeth yn amlwg, ystyriwch y tri pheth hyn. (1.) Mae y cariad hwn at y brodyr, yn gariad atynt fel y cyfryw. Dyna 'r pryd yr ydym ni yn eu caru yn ol ystyr y testun, sef pan fo gras a delw Duw ynddynt yn brif achos o'n cariad atynt. Pan garom y duwiolion o ran eu duwioldeb, a'r saint o herwydd eu sancteiddrwydd a'u duwioldeb; yna yr ydym yn caru Duw ynddynt; ac felly gallwn benderfynu ein bod wedi ein geni o Dduw; "Pob un ar sydd yn caru yr hwn a genhedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genhedlwyd o hono," Ioan v. 1. Gall rhagrithwyr garu y saint o herwydd eu perthynas wladol â hwynt; ac o herwydd eu hymddygiad caruaidd; o herwydd eu bod yr un farn â hwy am byngciau crefyddol; ac ar lawer o'r cyfryw achosion, y gall yr annuwiol gael ei dueddu i garu y duwiol. Ond dedwydd yw y rhai sydd yn eu caru er mwyn eu gras yn unig; o herwydd eu tymher a'u tuedd nefolaidd; y rhai a allant godi y perl hwn o domen y gwendidau sy ynddynt ac o'u hamgylch; dal gafael arno, a'u caru er ei fwyn." (2) Cariad yw a roddir i bob un a achubir trwy ras. Yr hwn sydd yn caru un sant am ei fod yn sant, bydd ganddo gariad "at yr holl saint," Eph. i. 15. Carant bawb y barnont fod delw Duw arnynt. Y rhai na charant ddyn duwiol yn ei fratiau, ond a gyfyngant eu cariad at y rhai sydd yn gwisgo dillad gwychion, sydd ymddifad o'r cariad hwn at y brodyr. Y rhai a gyfyngant eu cariad at unrhyw blaid o bobl i'r rhai ni chyfyngodd Duw ei ras, sydd eneidiau rhy gulion i'w rhoi ymhlith y plant. Yn mha beth bynag y gwahaniaetho dynion oddi wrthym ni yn eu barn neu eu ffordd; eto os byddant yn cytuno â ni, mewn cariad at Dduw a'n Iachawdwr Iesu Grist, ac yn dwyn ei ddelw ef, ni a'u carwn hwynt fel brodyr, os ydym ni ein hunain o deulu 'r nef. Ac yn (3.) Os yw y cariad hwn ynom, po mwyaf grasol y bo un yn ymddangos, mwyaf y carwn ef. Po mwyaf angerddol y bo tân sanctaidd gras yn llosgi ynddynt, bydd calonau gwir Gristionogion yn fwy cynnes mewn cariad atynt. Nid yw y saint fel y mae llawer, yn gosod eu hunain yn brawf-reol i eraill; ac yn eu caru cyn belled ag y maent yn debyg iddynt hwy. Ond os byddant yn ddysglaeriach na hwy, ac yn eu tywyllu, tröir eu cariad yn gas a chenfigen; a lleihant glod dyladwy eu duwioldeb

teilwng; canys nid oes dim yn foddhaol ganddynt crefydd, a fo yn myned tu hwnt iddynt hwy; ni wna b a grym duwioldeb a ganfyddont mewn eraill, ond codi gen sarphaidd yn eu calon Phariseaidd. Ond mae ca rhai a ail-anwyd, tu ag at bob un mewn cyd-maria graddau o ddelw Duw fo'n ymddangos ynddynt.

Yn awr, os mynwch ddefnyddio y pethau hyn er g eich cyflwr, Cynghorwn chwi yn (1.) I neillduo rhyw g o'ch amser, pan fyddoch gartref, i fwrw golwg ar eich c ac i brofi eich hunain wrth yr hyn a ddywedwyd. Mae l yn cael cysur a sicrwydd mewn perthynas i'w cyflwr, wrando pregeth, ond yn ei golli yn fuan: canys wrth g y gair, gwnant gymhwysiad o hono, ond nid ystyriant y au hyn yn fwy dwys pan fyddont ar eu penau eu hunain y weithred yn rhy ddisymmwth a byr i roi cysur parhaus mae yn fynych mor anmhwyllog, fel y mae iddi ganlyn drwg. Am hyny, ymaflwch yn y gwaith hwn gartref daer weddio am gymmorth gan Dduw. Na chwynwch ieu amser, canys mae'r nos yn dilyn y dydd prysuraf; eisieu lle, canys mae y caeau a'r tai i chwi i'w cael. (2 newyddwch eich edifeirwch ger bron yr Arglwydd. euogrwydd fo'n gorwedd ar y gydwybod, heb edifeirw blegyd, dywyllu eich holl brofiadau a'ch nodau o ras. cymhell Yspryd gras i ymadael; a phan ymadawo e ddiffydd eich goleuni. Nid yw'n amser cyfaddas i'r ddarllen eu nodau, pan ddiffodder y ganwyll gan ryw f briwio'r gydwybod. *Yn olaf*, Maethwch yr anian new ymddangosed grasusau yr Yspryd ynoch mewn gweithr Os mynwch wybod a oes tân sanctaidd yn eich calon oes, chwythwch y marworyn; canys er iddo fod yno, yn farworyn byw, eto os bydd dan y lludw, ni fydd le i chwi. Llawn-fwriedwch yn eich calon trwy gymmort Crist, i ymarfer â phob dyledswydd, ac i wylio rhag pob od, ac o barodrwydd meddwl i gymmeryd eich dysgu yn ni wyddoch. Pe chwiliai eneidiau grasol fel hyn i'w c caent ganlyniad cysurlawn: a phe cymmerai eraill y fatl difrifol, a phrofi ei cyflwr yn ddiduedd, gan osod eu l ger bron brawd-le eu cydwybodau, gallent gael datg prydlon o'u drygioni; ond y mae esgeuluso hunan-ym yn gadael llawer mewn twyll gresynol, o ran eu cyflwr, ymddifadu llawer o'r saint, o gael golwg gysurus ar ras ynddynt.

Ond i gynnorthwyo 'r Saint yn mhellach yn y gwaith o chwilio i'w cyflwr; mi osodaf o'ch blaen rai o achosion amheuaeth, ynghyd ag attebiad byr iddynt, y rhai fe allai sy'n cadw amryw rhag cael golwg ar eu cyflwr dedwydd. Ni ddylid attal bara'r plant; er, y gall y cŵn ymgyraedd ato, wrth ei estyn ef iddynt.

YR ACHOS I. *Yr wyf yn ammeu a ail-anwyd fi, am na wn amser pennodol fy nhröedigaeth; ac nis gallaf olrhain yn mha ffordd neillduol y cymmerodd ef le.*

*Atteb.* Er mai tra dymunol i'w gallu rhoi hanes dechreuad a chynnydd graddol gwaith yr Arglwydd ar ein heneidiau, fel y gall rhai saint wneyd yn groyw (er hyn oll mae dull yr Ysbryd o weithio yn ddirgelwch,) eto nid yw hyn yn wir angenrheidiol i brofi gwirionedd gras. Dedwydd yw'r hwn a all ddweyd fel y dyn dall yn yr efengyl un peth a wn i, "Lle yr oeddwn i gynt yn ddall, yr wyf yn awr yn gweled." Yn debyg, pan welom fflam, ni a wyddom fod yno dân, er na wyddom pa fodd na pha bryd y dechreuodd: felly gellir canfod gwir ras ynom ni, er na wyddom pa bryd na pha fodd y daeth i'n calon. Os gelli ganfod y tro grasol a wnaed ar dy enaid; os canfyddi fod dy feddwl wedi ei oleuo, a'i ddwyn i gyd-synio âg ewyllys Duw yn mhob peth, yn enwedig i goffleidio trefn fawr yr iechydwriaeth, trwy Grist croeshoeliedig; gwaith ofer yw i ti ymboeni a gwrthod cysur, am na wyddost pa bryd na pha fodd y dygwyd hyn oddiamgylch.

II. ACHOS. *Pe buaswn i yn greadur newydd ni orthrechai pechod arnaf fel y mae?*

*Atteb.* Er na ddylem osod clustogau i ragrithwyr orphwys eu penau arnynt, y rhai sydd yn byw mewn pechod, ac yn gwneuthur athrawiaeth gras Duw yn wasanaethgar i'w chwantau, ac yn ymfoddloni yn rhwymyn anwiredd, fel dynion fo'n hoff o gadwynau aur; eto rhaid addef fod y cyfiawn yn syrthio seith-waith yn y dydd; ac y gall pechod orthrechu plant Duw. Ond os wyt ti yn gruddfan dan bwys 'corph y farwolaeth, llygredigaeth dy natur, yn ffieiddio dy hun o herwydd pechodau dy galon a'th ymddygiad, yn ymdrechu i farwhau dy chwantau, yn ffoi yn wastad at waed Crist am faddeuant, ac yn gweddïo am yr Ysbryd Glân i'th sancteiddio; er y bydd raid it' ddweyd gyda'r Psalmydd "Pethau anwir a'm gorchfygasant;" eto gelli ychwanegu "ein camweddau ni,

ti a'u glanhei," Ps. lxv. 3. Nid yw y creadur newydd eto yn cael y Tŷ iddo ei hun: mae'n byw yn ymyl cymmydog drwg; sef, gweddill llygredd, gweddillion llygredigaeth natur. Mae y rhai hyn yn ymdrechu am yr oruchafiaeth, "Mae'r cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Yspryd, a'r Yspryd yn erbyn y cnawd," Gal. v. 17. Ac weithiau mae llygredd yn gorchfygu, ac yn dwyn plentyn Duw "yn gaeth i ddeddf pechod," Rhuf. vii. 23. Na fydded gan hyny i rym llygredd beri i ti benderfynu nad wyt yn blentyn Duw; ond darostynged di, i fod yn fwy gwyliadwrus, ac i hiraethu mwy am Iesu Grist, ei waed ef a'r Yspryd; a'r tuedd hwn a brawf fod ynot egwyddor o ras, ag sy'n ymgais am ddinystr y pechod sy'n dy flino mor fynych.

III. Achos. *Yr wyf yn teimlo pechod, yn fy nghalon, yn gryfach, wedi i'r Arglwydd ymweled a mi, na chyn hyny. A gydsaif hyn a chyfnewidiad cyflwr?*

*Atteb.* Trwm yw meddwl am gyflwr llawer, y rhai y gweithredodd yr Arglwydd i raddau ar eu heneidiau, er eu diwygio, taflasant ymaith bob rhwymau, ac a aethant yn gyhoeddus lygredig ac annuwiol; fel pe dychwelasai y diafol i'w calonau gyda saith yspryd gwaeth nag ef ei hun. Cymmaint ag a ddywedaf wrth y cyfryw yw, fod eu cyflwr yn dra pheryglus; maent mewn perygl o bechu yn erbyn yr Yspryd Glân: am hyny edifarhant cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar. Ond os nad yw fel hyn gyda chwi; er fod llygredd yn ymgynhyrfu yn ffyrnicach nag o'r blaen, fel pe byddai holl allu uffern yn cael eu codi, i ddal gafael, ac i ddwyn y ffoadur yn ol; gall y cynhwrf hwn fod lle bo gwir gyfnewidiad grasol. Pan fo gras yn dechreu attal llygredigaeth, nid rhyfedd ei fod ef yn gweithredu yn gryfach nag o'r blaen; yn "Gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl," Rhuf. vii. 23. Mae pechod yn ymgreuloni pan roddir anian newydd i'w fwrw ef allan. Ac megis y mae pelydrerau 'r haul trwy ffenestr yn dangos y brychau yn y tŷ, a'u symmudiadau, y rhai ni welid o'r blaen; felly gall goleuni gras ganfod codiad a gweithrediadau llygredd, mewn dull nas gwelodd y dyn hwynt erioed o'r blaen; er mewn gwirionedd, nid ydynt yn codi nac yn gweithredu dim mwy. Nid yw pechod yn gwbl farw yn y duwiol; ond mae yn marw, a marw o farwolaeth nychlyd; mae wedi ei groeshoelio, nid rhyfedd fod cymmaint o ymladdau, pan mae ei galon yn clafychu ac angeu wrth y drws. Heblaw hyn, gall temtasiynau

fod yn lliosocach a chryfach tra byddo satan yn cyffroi i geisio eich dwyn yn ol, wedi diangc o honoch, na phan oedd yn ceisio eich attal rhag diangc: "wedi eich goleuo, y dyoddefasoch ymdrech mawr o helbulon, meddai yr Apostol at yr Hebreaid, pen. x. 32. "Am hyny na fwriwch ymaith eich hyder," adnod 35. Cofiwch mai digon i chwi ei ras ef, ac y bydd i Dduw yn fuan sathru satan dan eich traed chwi. Ni wnaeth Pharao a'i Aiphtiaid erioed y fath ymosodiad arswydus yn erbyn Israel ag wrth y Môr Coch, wedi iddynt gael eu dwyn allan o'r Aipht: ond y pryd hwnw yr oedd yr erlidwyr nesaf i'w dinystr, Exod. xiv. Na fydded i'r achos hwn gan hyny ddiwreiddio eich hyder; ond gwaghaer chwi o honoch eich hun, "ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac y'nghadernid ei allu ef," a chwi a ddeuwch allan yn orchfygwyr.

IV Achos. *Pan gydmarwyf fi fy nghariad at Dduw, â fy nghariad at bethau i ddaiafod, yr wyf yn teimlo fy hun yn caru y creadur yn fwy na'r Creawdwr. Pa fodd y gallaf fi ei alw ef yn Dad?* Ië, er fy ngofid! y mae cynhesrwydd fy nghalon, a gwresogrwydd fy serchiadau tu ag at y rhai a deimlais dro yn ol, wedi colli; fel yr wyf yn ofni nad oedd fy nghariad at yr Arglwydd ddim ond tymher fyrbwyll i gyd, yn gyffelyb i'r peth mae rhagrithwyr yn ei gael. *Atteb.* Nis gellir gwadu nad yw cariad gormodol at y byd yn nod anffaeledig o gyflwr diras, 1 Ioan ii. 15. "O châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef." Er hyny, nid y serchiadau cryfaf yw y rhai mwyaf tanllyd, bob amser. Gall serchiadau dyn, ar rai achosion, gael eu denu yn fwy at wrthrych a fyddo yn ddistadl yngolwg dyn, nag at un a fyddo efe yn ei wir fawrhau; yn gyffelyb i ffrwd fechan weithiau yn gwneuthur mwy o drwst nag afon fawr. Mae grym ein serchiadau, i gael eu mesur wrth gadernid a chryfder y gwreiddyn, nid wrth rym eu gweithrediad. Pe bai dyn yn cyfarfod a chyfaill iddo fyddai wedi bod yn hir oddi cartref, mae ei serchiadau yn fwy tanllyd ato ar achos felly, na thu ag at ei wraig a'i blant; a ddywaid efe gan hyny, ei fod yn fwy cyfaill iddo ef nag iddynt hwy? Na wna. Felly gall y cristion weled ei hun yn caru mwy ar y creadur nag ar Dduw; eto ni phrawf hyny ei fod yn caru y creadur yn fwy na Duw; gan fod cariad tu ag at Dduw wedi gwreiddio yn fwy sefydlog yn y galon rasol, nag at un gwrthrych arall; fel yr ymddengys pan fo ymryson yn

codi yn y fath fodd fel y mae'n rhaid i'r naill neu'r llall gael y blaenoriaeth. A ddeallech chwi eich cyflwr yn y fath amgylchiad? Trowch i'ch calon eich hun, a rhowch y ddau yn y clorian, a mynwch wybod pa un o'r ddau yw'r trymaf. Holwch eich hunain, fel y'ngwydd Duw, a ymadawech chwi â Christ er mwyn y creadur, neu a ymadawech â'r creadur er mwyn Crist, pe rhoddid eich dewisiad i chwi? Os ydych yn teimlo eich calon yn tueddu i ymadael â'r peth anwylaf yn y byd genych am Grist, wrth ei alwad, nid yw yn rhesymol i chwi ddywedyd eich bod yn caru y creadur yn fwy na Duw; ond i'r gwrthwyneb, eich bod yn caru Duw yn fwy na'r creadur, er nad ydych yn teimlo eich cariad mor gryf ag at bethau darfodedig, Matth. x. 37. "Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi." Luc. xiv. 26. "Os daw neb attaf fi, ac ni chasao ei dad a'i fam—ni all efe fod yn ddisgybl i mi." Wrth gydmaru y testunau hyn, gallwn gasglu, fod yr hwn sy'n casâu h.y. sydd barod i ymadael â thad a mam er mwyn Crist, y'nghyfrif Duw, yn un sy'n eu caru islaw iddo ef, ac nid yn un sy'n eu caru yn fwy nag ef. Ymhellach, ystyriwch fod cariad deublyg at Grist. (1.) Mae cariad proffiadol teimladwy at Grist, yr hwn a deimlir fel saeth yn y galon, nes y mae yr enaid yn clafychu o gariad sanctaidd, yn codi naill ai oddiar hiraeth am ei fwynhau, fel y ddywedi yn Cân. v. 8. "Merched Ierusalem, gorchymynaf i chwi, os cewch fy anwylyd, fynegi iddo fy mod yn glaf o gariad," neu oddiar fwynhad llawn o hono, fel yn Cân ii. 5. "Cynheliwch fi â photelau, cysurwch fi âg afalau; canys claf ydwyf fi o gariad." Mae y teimladau serchog hyn i'w cael fynychaf mewn proffeswyr ieuaingc, y rhai yn fynych sydd yn "rhai yn canu yn nyddiau eu hieuengctyd," Hos. ii. 14. Pan fyddo tân cariad yn y proffeswr ieuangc, wrth edrych ar eraill fo'n cael eu cyfrif yn grefyddol, ac heb eu canfod yn yr un dymher a hwyl ag ef ei hun, mae efe yn barod i'w diystyru hwynt, ac i feddwl fod llai o grefydd yn y byd nag sydd. Ond pan mae hi yn dechreu treio gydag ef, ac iddo weled ynddo ei hun, yr hyn oedd yn peri iddo ammeu am eraill, mae efe yn fwy gostyngedig, ac yn teimlo mwy o angenrheidrwydd o ddydd i ddydd am waed Crist er maddeuant o'i bechodau, ac am Yspryd Crist i'w sancteiddio; ac felly mae yn cynnyddu mewn gostyngeiddrwydd, hunan-ffieiddiad, a hunan-ymwadiad. (2.) Mae cariad pwyllog at Grist, yr hwn, heblaw y cariad teim-

iadol a grybwyllwyd, sy'n amlygu ei hun mewn ufudd-dod parchus i lywodraeth Crist a'i orchymyn. Pan fyddo un yn caru Crist, er iddo golli ei deimladau serchog, eto mae arno ofn digio y Duw da; ac y mae yn ymdrechu i rodio ger ei fron i bob rhyngu bodd iddo, ac y mae yn gofidio yn ei galon pan wnelo ddim i'w anfoddloni ef, 1 Ioan v. 3. "Canys hyn yw cariad Duw, bod i ni gadw ei orchymynion ef." Yn awr, er nad ydyw y cariad teimladwy hwnw bob amser mewn mwynhad genych; eto ni ddylech ei gyfrif yn dymher ragrithiol, tra y mae y cariad pwyllog a soniwyd heb ymadael â chwi, mwy nag y dylai gwraig ffyddlon ammeu ei chariad at ei gwr, wedi i'w hoff-fabiaeth fu ag ato leihau.

V. Achos. *Mae cyrhaeddiadau a doniau rhagrithwyr a gwrthgilwyr yn ddychryn i mi, ac yn dyfod fel tymhestl gref arnaf, pan fyddaf am brofi fy hun wrth y nodau o ras fyddaf yn ei feddwl sydd ynwyf. Atteb.* Dylai y pethau hyn yn wir beri i ni chwilio ein hunain mewn modd difrifol a syml, ond ni dylent ein cadw mewn amheuaeth parhaus am ein cyflwr. Yr ydych yn gweled y tu allan i ragrithwyr, eu dyledswyddau, eu doniau, eu dagrau, &c. ond nid ydych chwi yn gweled y tu mewn iddynt, nid ydych chwi yn canfod eu calonau, a thuedd eu hyspryd. Oddiar yr hyn ydych yn ei weled o honynt, yr ydych yn barnu am eu cyflwr mewn barn cariad; ac yr ydych yn gwneuthur yn iawn farnu yn garuaidd am eu cyflwr yn y cyfryw achos, am na ellwch wybod eu dybenion dirgelaidd yn eu gweithredoedd: ond yr ydych chwi yn ymofyn am, a chwi ddylech ddyfod i farn benderfynol, am eich cyflwr eich hunain; a chan hyny dylech wybod am y rhan hono o grefydd, yr hon na all neb yn y byd wybod am dani ond chwi eich hunain, ac na ellwch ei chanfod yn eraill. Gall crefydd rhagrithiwr ymddangos yn fwy o lawer na chrefydd gwir gristion: ond, yr hyn sy'n ymddangos fwyaf y'ngolwg dynion, sydd leiaf yn fynych y'nghyfrif Duw. Byddai well genyf anfon i fynu un o'r ocheneidiau y mae yr Apostol yn sôn am danynt yn Rhuf. viii. 26. na thywallt dagrau Esau, na chael yspryd prophwydoliaeth Balaam, neu lawenydd gwrandawyr y tir creigiog. Y tân yr hwn a brawf waith pawb, a brawf y gwaith, nid wrth ei faintioli, ond wrth ei natur, 1 Cor. iii. 13. Yn awr, gellwch wybod beth yw

maint crefydd eraill : a pheth os bydd crefydd un arall yn fwy na'ch crefydd chwi? nid yw Duw yn sylwi ar hyny : pa ham ynte yr ydych chwi yn petruso cymmaint yn ei gylch? Mae yn anmhosibl i chwi, heb ddatguddiad dwyfol, wybod yn sicr am natur crefydd un arall; ond gellwch wybod yn sicr heb un datguddiad anghyffredin, am natur eich crefydd eich hun; pe amgen ni buasai yr Apostol yn annog y saint i fod yn "ddiwyd i wneuthur eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr," 2 Pedr i. 10. Am hyny ni ddylai doniau rhagrithwyr a gwrthgilwyr eich aflonyddu chwi yn eich ymofyniad difrifol i'ch cyflwr eich hun. Ond dywedaf ddau beth wrthych yn y rhai y mae y sant gwaelaf yn rhagori ar y rhagrithiwr manylaf, (1) Mewn hunan-ymwadiad; maent yn ymwrthod â phob hyder ynddynt eu hunain, ac yn eu gweithredoedd eu hunain; mae trefn Duw yn yr iechydwriaeth fawr trwy Iesu Grist yn hollawl wrth eu bodd, ac y maent yn rhoi eu hunain, gorph ac enaid, i gael eu cadw trwyddi, Matth. v. 3. "Gwyn eu byd y tlodion yn yr Yspryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." A'r xi. 6. "Dedwydd yw yr hwn ni rwystrir ynof fi." Phil. iii. 3, "Canys yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr Yspryd, ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd." (2.) Mewn gwir gasineb at bob pechod; maent yn ewyllysgar i ymadael â phob chwant, heb gadw un, ac i gyflawni pob dyledswydd a ddatguddia yr Arglwydd iddynt, Ps. cxix. 6, "Yna ni'm gwaradwyddid, pan edrychwn ar dy holl orchymynion." Profwch eich hunain wrth y pethau hyn.

VI. Achos. Yr ydwyf yn gweled fy hunan yn dra byr wrth y saint y crybwyllir am danynt yn y Bibl, ac wrth lawer un enwog wyf yn ei adnabod; fel pan edrychwyf arnynt hwy, nis gallaf ond prin edrych arnaf fy hun fel un o'r un teulu a hwy. *Atteb.* Yn wir, mae yn achos o ddarostyngiad i ni am nad ydym yn ymestyn at y mesur hwnw o ras a sancteiddrwydd ag sydd yn gyrhaeddadwy yn y byd hwn. Dylai hyn ein gwneuthur yn fwy awyddus i gyrchu at y nod: ond sicr yw mai o'r diafol y mae fod cristionogion gweiniaid yn gwneuthur arteithglwyd iddynt eu hunain o brofiadau helaeth rhai cryfion. Ac y mae ymollwng i'r demtasiwn hon mor afresymol, a phe byddai i blentyn wadu ei berthynas â'i dad, o herwydd nad yw o'r un maintioli â'i hen frodyr. Mae saint

o wahanol raddau yn nheulu Crist; rhai yn dadau, rhai yn wyr ieuaingc, a rhai yn blant bychain, 1 Ioan ii. 13, 14.

VII. Achos. Ni ddarllenais i erioed y'ngair Duw, ac ni wybum erioed am neb o blant Duw yn cael eu temtio, ac yn cael eu gadael gan Dduw, fel yr wyf fi; ac am nad oes neb o'r saint fel myfi, yr wyf yn penderfynu nad wyf o'u nifer hwynt. *Atteb.* Yr achos o'r wrthddadl hon gyda rhai, yw eu hanghydnabyddiaeth o'r ysgrythyrau, ac â christionogion profiadol. Buddiol yn yr achos hwn, fyddai i chwi ddywedyd eich cwyn wrth ryw gristion profiadol, neu i ryw bregethwr duwiol. Bu hyn o fendith fawr i lawer; ac yn foddion i ddangos iddynt fod llawer o'r saint wedi bod yn yr un cyflwr a hwythau. Mae yr Ysgrythyrau yn dangos fod temtasiynau erchyll wedi bod yn ymosod ar y saint. Temtiwyd Iob i fellditbio; a dyma y peth mawr yr ymgeisiodd y diafol ato gyda 'r sant blodeuog hwnw, Iob i. 11. "Efe a'th felldithia o flaen dy wyneb," Pen. ii. 9. "Melldithia Dduw a bydd farw." Temtiwyd Asaph i feddwl mai ofer oedd byw yn grefyddol, yr hyn yn y canlyniad, yw ymwrthod â chrefydd yn hollawl, Ps. lxxiii. 13. "Diau mai yn ofer y glanheis fy nghalon." Ië, Crist ei hun a demtiwyd i fwrw ei hun i lawr oddiar binacl y deml, ac i addoli y diafol, Matth. iv. 6, 9. A llawer o blant Duw, nid yn unig a demtiwyd gan, ond a ymollyngasant gyda themtasiynau tra erchyll dros amser. Fe wadodd Pedr Grist, ac a dyngodd ac a regodd na adwaenai mo hono, Marc xiv. 71. Pan oedd Paul yn erlidiwr, efe a "gymhellodd hyd yn nod y saint i gablu," Actau xxvi. 10, 11. Gall llawer o'r saint, oddiar brofiad galarus, dystiolaethu fod temtasiynau erchyll wedi bod yn ymosod arnynt, nes peri i'w hyspryd synu, a gwneuthur i'w cnawd grynu, a'u cyrph nychu. Mae saethau tanllyd Satan yn gwneuthur gwaith dychrynllyd; a mawr fydd y boen i'w diffodi, trwy ymdrechu yn egniol gyda *tharian y ffydd,* Eph. vi. 16. Weithiau mae efe yn gwneuthur rhuthriadau cyrnig, fel na fu yr un erioed yn brysurach yn rhedeg yn ol ac yn mlaen yn ddibaid i ddiffodd bwledi poethion a fyddai yn cael eu taflu yn ddiorphwys i'w dŷ gan un fyddai yn bwriadu llosgi ei dŷ o'i amgylch, nag yw y cristion temtiedig, i wrthwynebu saethau satan. Ond er fod y saethau a'r temtasiynau ofnadwy hyn yn ofid dirfawr, eto nid pechodau y rhai a demtir

ydynt, oddieithr iddynt eu gwneuthur yn eiddynt hwy trw gydsynio â hwynt: fe'u cospir ar y temtiwr ei hun os na chy synir â hwynt; ac ni ofynir hwynt gan y rhai a'demtir, mw nag y gwna bwrw basdard wrth ddrws gwr diwair ei wneut ur ef yn euog o'r bai.

Ond, fe allai na all pregethwr nag un cristion arall, at rhai yr ydych yn myned, ddywedyd wrthych am neb a fu y yr un cyflwr a chwi; eto ni ddylech gasglu oddiwrth hyn nad oes cyflwr neb fel eich cyflwr chwi, a llawer llai myned anobaith; canys ni ddylid meddwl, fod pob gweinidog duw iol, neu unrhyw gristion arall, wedi profi pob tywydd y ga plant Duw fyned iddo: a diamheuol yw fod rhai wedi ca trallodion na wyr neb am danynt ond Duw a'u cydwybod eu hunain; ac y mae y trallodion hyn i eraill fel pe na bydden Ië, er fod Ysgrythyrau yn cynnwys cyfarwyddiadau addas blentyn Duw y'mhob amgylchiad y gall fyned iddo, a'r rh hyn wedi eu beghuro trwy amrywiol siamplau; eto ni ddyl tybied fod siampl berffaith am bob peth neillduol a all ddyg wydd i'r saint. Gan hyny, er na ellwch weled un cyflw cyffelyb i'ch cyflwr chwi yn yr ysgrythyrau, etto dygwc eich achos ymlaen, a chewch weled meddyginiaeth addas idd ynddynt. A defnyddiwch Grist ar bob achos, gan yr hw y mae eli at bob clwy, yn fwy nag am wybod a fu neb yn y un cyflwr a chwi. Er y gallai un ddangos siampl o'ch cyfl chwi mewn un a fyddai yn wir gristion, eto ni allai neb adda yn sicr y gwnai hyny eich esmwythau chwi: canys fe gal fyddai cydwybod ambëus ryw wahaniaeth yn fuan. Ac os n wna dim eich boddloni, ond bod cyflwr un arall yn hollaw yr un fath a'ch cyflwr chwi, bydd yn anhawdd iawn, os ni yn anmhosibl eich boddloni chwi. Canys y mae cyflyra dynion fel eu gwynebau; er mai o'r un gwneuthuriad y ma gwyneb pawb, a bod rhai yn bynod o debyg i'w gilydd, fel ar y olwg cyntaf byddwn yn barod i gymmeryd y naill yn lle y llall eto, os creffwch yn fanylach arnynt, cewch weled rhyw beth y'mhob wyneb yn ei wahaniaethu oddiwrth bob un arall; er f allai na fedrwch ddywedyd beth ydyw. Gan hyny yr wy yn penderfynu os gellwch weled ynoch eich hun nodau ailened igaeth, yn ol gair Duw, dylech benderfynu, eich bod mewn cyflwr o ras, er nad oes cyflwr neb yr un fath a 'r eiddo chwi yr hyn yn wir sydd hynod o annhebyg.

Achos *olaf*, Mae y trallodion sydd yn fy nghyfarfod i yn rhai anghyffredin a dieithr. Yr wyf yn ammeu a oes un plentyn i Dduw yn cael y fath ragluniaethau chwerwon a myfi. *Atteb* Gall yr hyn a ddywedwyd ar y mater o'r blaen fod yn gymmorth yn yr achos hwn Ymosodwyd ar Iob dduwiol gyda'r demtasiwn hon, Iob v. 1. "At bwy o'r saint y troi di?" Ond efe a'i gwrthwynebodd hi, ac a safodd yn ei uniondeb. Yr oedd yr Apostol yn meddwl y cai cristionogion eu temtio i gyfrif "yn ddieithr ganddynt am y profiad tanllyd," 1 Pedr iv. 12. Ond rhaid iddynt hwy gael profiad helaethach na Solomon, y rhai a feiddiant ddywedyd, "dyma beth newydd," Preg. i. 10. A pheth os yn nhrefn allanol goruchwyliaeth rhagluniaeth y "mae yn dygwydd i chwi yn ol gwaith y drygionas?" gellwch chwi fod yn gyfiawn er hyny; yn ol dywediad Solomon, Preg. viii. 14. Weithiau yr ydym yn rhodio llwybr lle ni allwn ganfod ôl troed dyn nac anifail; eto ni allwn benderfynu oddiwrth hyny na bu neb erioed arni o'n blaen ni: felly, os na ellwch ganfod "ôl traed y praidd" yn eich cystuddiau, ni ellwch oddiwrth hyny benderfynu mai chwi yw y rhai cyntaf a gerddodd y ffordd hono. Ond beth er hyny, pe baech y cyntaf? yr oedd yn rhaid i ryw sant neu gilydd fod yn gyntaf, yn yfed y naill gwpan a'r llall sydd i'r lleill yfed o honi. Pa sail sydd genych chwi na chenyf finnau i "osod terfyn i sanct yr Israel" i'n harwain ni ar hyd llwybrau hygyrch yn ei oruchwyliaethau tu ag atom? "Dy ffordd sydd yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion: ac ni adwaenir dy ôl," Ps. lxxvii. 19 Pe dygai yr Arglwydd chwi i'r nefoedd, ar hyd ffordd neillduedig, a'ch dwyn i mewn trwy y drws cefn, (mewn dull o ddweyd) ni fyddai genych un achos i gwyno. Cydnabyddwch ëangder penarglwyddiaeth Duw; gwnewch eich dyledswydd; ac na adewch i un cystudd daflu gorchudd ar un prawf a gawsoch o'ch bod mewn cyflwr o ras: canys "ni wyr dyn gariad, neu gas, wrth yr hyn oll sydd o'u blaen," Preg. ix. 1.

II Ddefnydd. Chwychwi ag sy yn ddieithr i'r enedigaeth newydd, gwelwch yr angenrheidrwydd anhepgorol o hono. A ydyw pawb sydd mewn cyflwr o ras wedi eu haileni? felly nid oes genych chwi y rhai ni ailanwyd na rhan na

chyfran ynddo. Rhaid i mi ddywedyd wrthych y'ngeiriau Crist (ac O na lefarai efe hwynt wrth eich calonau) "rhaid eich *geni chwi drachefn*, Ioan iii. 7. Ac i'r dyben o'ch argyhoeddi, ystyriwch yr ychydig bethau canlynol.

*Yn gyntaf*; Mae ailenedigaeth yn llwyr angenrheidiol i'ch addasu chwi i gyflawni yr hyn sydd dda a chymeradwy ger bron Duw. Heb eich aileni, nid yw eich gweithredoedd goreu ond pechodau dysglaer; er i'r mater fod yn dda, eto fe'u llwyr ddinystrir yn eu gwneuthuriad. Ystyriwch (1) Nid oes ffydd heb ailenedigaeth, ac "heb ffydd anmhosibl yw rhyngu bodd Duw," Heb. xi. 6. Gweithred fywiol yr enaid adnewyddol yw ffydd. Mae yr efengylwr wrth ddangos y gwahanol groesawiad a gafodd Crist gan amrywiol bersonau, rhai yn ei dderbyn, a rhai yn ei wrthod, yn pwyntio at ailenedigaeth fel y gwir achos o'r gwahaniaeth hwnw; heb yr hyn ni buasai neb yn ei dderbyn ef. Efe a ddywed, mai "cynnifer ag a'i derbyniasant ef," oedd y rhai "a anwyd o Dduw," Ioan i. 11, 12, 13. Gall dynion diadgenedledig ryfygu, ond ni allant wir gredu. Blodeuyn yw ffydd na thyf yn maes natur: fel na all pren dyfu heb wreiddyn, felly ni all dyn gredu heb yr anian newydd, o'r hon y mae yr egwyddor o gredu yn rhan. (2) Heb ailenedigaeth mae gweithredoedd dyn yn weithredoedd meirwon. Fel y byddo yr egwyddor, felly mae'n rhaid i'r effaith fod; os llygra yr ysgyfaint, bydd yr anadl yn ddrewllyd; a'r hwn sydd ar y goreu yn farw mewn pechod, ni fydd ei weithredoedd ar y goreu ond gweithredoedd meirwon. "Eithr i'r rhai halogedig, a'r diffydd, nid pur dim—gan fod yr ffiaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymeradwy," Tit. i. 15, 16. Pe gallem ddywedyd am wr ei fod yn fwy difai yn ei fuchedd na neb yn y byd; ei fod yn cospi ei gorph trwy ympryd, ac yn gwneuthur ei liniau fel cyrn wrth weddïo; ond ei fod heb ei aileni, fe fyddai i'r gwal hwnw ddinystrio y cwbl oll: fel pe dywedai rhyw un wele gorph prydferth, ond y mae yr enaid wedi myned ymaith, nid yw ond telpyn marw. Mater o bwys yw hwn. Yr wyt yn gwneuthur llawer o bethau da o ran y defnydd o honynt; ond mae Duw yn dywedyd, Ni thycia yr holl bethau hyn cyhyd ag y gwelaf yr hen anian yn llywodraethu yn y dyn, Gal. vi. 15. "Canys yn Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creadur newydd."

Os na ailanwyd di, (1) Mae dy boll ddiwygiad yn ddim ger bron Duw. Ti a gauaist y drws, ond y mae'r lleidr yn y tŷ. Fe allai, nad wyt y peth a fuost: eto nid wyt y peth a raid i ti fod, os âi di byth i'r nefoedd; canys, "oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Duw," Ioan iii. 3.

(2.) Mae dy weddïau yn "ffiaidd gan yr Arglwydd," Diar. xv. 8. Fe allai fod eraill yn rhyfeddu dy symlrwydd; yr wyt yn gweddi fel am dy fywyd: ond mae Duw yn cyfrif agoriad dy safn, fel y cyfrifai un agoriad bedd yn llawn pydredd. Rhuf. iii. 13, "Bedd agored yn eu ceg." Mae dy weddiau yn cael effaith ar rai eraill: ac y maent yn ymddangos iddynt hwy fel pe baent yn rhwygo y nefoedd; ond y mae Duw yn eu cyfrif fel udfa ci; "Ac ni lefasant arnaf â'u calon, pan udasant ar eu gwelyau," Hos. vii. 14. Mae eraill yn dy gyfrif di yn ymdrechwr a gorchfygwr gyda Duw; ond ni all efe ymhyfrydu ynot ti na'th weddïau, "Yr hwn a laddo ŷch, sydd fel yr hwn a laddo wr, yr hwn a abertho oen, sydd fel yr hwn a dorfynyglo gi; yr hwn a arogl-dartho thus, sydd fel pe bendigai eilun," Esay lxvi. 3. Pa ham? o herwydd dy fod yn aros mewn bustl chwerwder a rhwymedigaeth anwiredd.

(3) Mae pob peth a wnaethost yn y byd tros Dduw a'i achos, er y gallant gael eu dilyn â gwobrwyon tymhorol, yn fyr o gymmeradwyaeth gyda Duw. Mae hyn yn amlwg oddiwrth Iehu, yr hwn a wobrwywyd â theyrnas am ddïal ar dŷ Ahab; canys gwaith da oedd o ran y defnydd o hono, o herwydd ei orchymyn gan Dduw, fel y gwelwch, 2 Bren. x. 13. eto fe'i cospwyd ef am hyny yn ei hiliogaeth, am na wnaethai efe hyny mewn modd iawn, Hos. i. 4, "Dïalaf waed Iezreel ar dŷ Iehu." Mae Duw yn edrych yn benaf ar y galon: os felly, diau er y gall dy ymddangosiad allanol fod yn well na llawer, er hyny mae cuddiedig ddyn y galon yn ffiaidd; yr wyt yn edrych yn hardd ger bron dynion, ond heb fod fel Moses, yn "dlws i Dduw," fel y mae ar ymyl y ddalen, Act. vii. 20. O y fath wahaniaeth sydd rhwng Asa ac Amaziah! "Ond ni fwriwyd ymaith yr uchelfeydd; eto calon Asa oedd berffaith gyda yr Arglwydd ei holl ddyddiau ef," 1 Bren. xv. 14. "Amaziah a wnaeth yr hyn oedd union y'ngolwg yr Arglwydd, ond nid a chalon berffaith," 2 Cron. xxv. 2. Fe allai eich bod yn zelog yn erbyn pechod yn eraill, a'ch bod yn eu rhybuddio am eu dyledswydd, a'u bargyhoeddi am eu pechod; fel y maent

yn dy gashau di o herwydd dy fod yn gwneuthur dy d
swydd : ond rhaid i mi ddywedyd wrthyt, mae Duw
gashau di hefyd, am nad wyt yn ei gwneuthur mewn mod
iawn ; ac ni elli di byth ei gwneuthur heb dy aileni *Yn*
Nid yw dy holl ymdrech yn erbyn pechod, yn dy galon a'th
yd ond dim. Yr oedd y Pharisead balch yn cystuddio ei go
ympryd, ac ar yr un pryd fe gondemniodd Duw ei enaid,
xviii. Ymdrechodd Balaam â'i galon gybyddlyd i'r fath
au, er ei fod yn caru gwobr anghyfiawnder, eto ni fy
ennill trwy regu Israel : ond bu farw o farwolaeth y
ionus, Num. xxxi. 8. Drosot dy hun yr wyt yn gwne
y cwbl tra yr ydwyt yn dy gyflwr natur : a chan hyny
ti, yn gyffelyb i was brenin, yr hwn, wedi iddo ddarost
gwrthryfelwyr, sy'n gosod y goron ar ei ben ei hun ; a
yn colli ei holl ddefnyddioldeb, a'i ben hefyd.

*Gwrthddadl.* Os fel hyn y mae gyda ni, yna ni d
gyflawni yr un ddyledswydd grefyddol. *Atteb.* Ma
casgliad yn gyfeiliornus. Ni all un anallu eich rhyddha
oddiwrth y ddyledswydd ag y mae cyfraith Duw yn e
arnoch : ac y mae yn llai pechod i chwi wneuthur eic
ledswydd na'i hesgeuluso. Ond y mae gwahaniaeth r
esgeuluso dyledswydd, a'i chyflawni hi fel yr ydych ch
gwneuthur. Fe gorchymynai rhyw un i seiri adeiladu tŷ
os llwyr esgeulusent y gwaith, ni byddai hyny yn gymn
wy ; pe dechreuent arno, a'i adeiladu ar yr hen sylfaen
nid cymmeradwy fyddai hyny chwaith : ond rhaid i
chwalu yr hen sylfaen, ac adeiladu ar sail gadarn. D
thau a gwna yr un modd. Ar yr un pryd, nid gwaith
ti, ïe, i ti, yw ceisio yr Arglwydd : er na byddo id
barchu di, eto fe all barchu ei ordinhad ei hun, a'i bendi
ti, fel y dywedwyd o'r blaen.

*Yn ail,* Ni cheir cymdeithas â Duw heb ailenedigaeth.
cymdeithas o ddynion ar y ddaear, y rhai y mae eu "
deithas gyda'r Tad, a chyda ei Fab ef Iesu Grist," 1 I
3. Ond nid yw y rhai diadgenedledig yn y gymdeithas
canys y maent hwy oll yn elynion i Dduw, fel y clywso
helaeth o'r blaen. Yn awr, "A rodia dau y'nghyd, he
yn gytun ?" Amos iii. 3. Maent oll yn ansanctaidd ; a '
gymmundeb sydd rhwng goleuni a thywyllwch ?—Crist

lial?" 2 Cor. vi. 14, 15. Gall fod ganddynt ymddangosiad a rhith o sancteiddrwydd; ond maent yn ddieithriaid i wir sancteiddrwydd, ac felly "heb Dduw yn y byd." Mor drwm yw y cyflwr hwn, i fod yn cyflawni dyledswyddau, ac heb gymdeithas â Duw ynddynt. Ni foddlonwch ar eich bwyd, oni phortha efe chwi; nac ar eich dillad oni chadwant chwi yn gynnes: a pha fodd y gellwch foddloni ar eich dyledswyddau, tra nad ydynt yn effeithiol i'ch dwyn i gymdeithas â Duw.

*Yn drydydd.* Mae ailenedigaeth yn hollawl angenrheidiol i'ch cymhwyso i'r nefoedd. Nid oes neb yn myned i'r nefoedd ond y rhai sy'n gymmwys iddi, Col. i. 12. Megis yr oedd gyda theml Solomon, 1 Bren. vi. 7, felly y mae gyda'r deml uchod: "Fe'i hadeiladwyd o gerig wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno;" sef, meini bywiol 1 Pedr ii. 5, "*wedi eu gweithio i hyn yma,*" 2 Cor. v. 5. Canys ni ellir eu gosod yn yr adeilad ogoneddus hono, fel y daethant allan o gloddfa natur lygredig. Nid yw gemau aur yn addas i foch, a llawer anaddasach yw gemau gogoniant i bechadur annychweledig. Nid yw cardotwyr yn eu carpiau yn gweddu i dai brenhinoedd; na phechaduriaid i fyned i mewn i lys y brenin, heb wisg o "waith edau a nodwydd," Ps. xlv. 14, 15. Pa wr synhwyrol a ddygai bysgod o'r dwfr i ymborthi yn ei faesydd? neu a anfonai ei ychen i ymborthi yn y môr? Mor anghymmwys a hyny yw y rhai diadgenedledig i'r nefoedd, neu y nefoedd iddynt hwy: nid ymhoffent ynddi byth.

Fe welai y rhai diadgenedledig fai ar y nefoedd ar amryw ystyriaethau. Megis, (1.) Am ei bod hi yn wlad ddieithr. Y nef yw gwlad enedigol y duwiol: "Mae ei Dad yn y nefoedd; ei fam yw y Ierusalem uchod," Gal. iv. 26. "Mae wedi ei eni oddi uchod," Ioan iii. 3. Y nef yw ei gartref, 2 Cor. v. 1. Gan hyny, mae yn cyfrif ei hun fel dieithrun ar y ddaear, a'i wyneb tu ag adref, Heb. xi. 16. "Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych, hyny ydyw, un nefol." Ond "dyn daearol" yw y diadgenedledig, Ps. x. 18. wedi ei "ysgrifenu yn y ddaear," Ier xvii. 13. Yn awr, cartref yw cartref, boed dloted y bo: gan hyny mae efe "yn synied pethau daearol," Phil. iii. 19. Mae y fath byfrydwch i'w gael yn nhir ein gwlad ein hunain, fel y mae'n anhawdd cael gan neb ei gadael, a byw mewn gwlad ddieithr. Nid yw hyny yn gryfach ar un achos nag yn hwn. Canys ni honnai yr annuwiol un hawl

yn y nefoedd, pe gwyddent am ryw ffordd arall i wneuth
well. (2) Nid oes yno ddim o'r pethau yr ymbyfr
fwyaf ynddynt, sef y pethau anwylaf i galon gnawdol,
xxi. 27. "Ac nid â i mewn iddi ddim aflan." Pan dd
odd Mahomet fod Paradwys yn lle o ddifyrwch cnawdol
leidiw d ei grefydd gyda mawr awydd; canys dyna'r ne
mae dynion yn naturiol yn ei dewis. Pe gallai y cybyd
digon o aur yno, a'r glwth gael digon o'i bleserau cna
gellid eu cymmodi a'r nefoedd, a byddent yn gymmwys
ond gan mai nid felly y mae, er y gallant lefaru yn d
dani, eto nid yw yn cael ond ychydig o'u calonau. (3.)
pob congl o'r nef yn llawn o'r peth sydd fwyaf
ganddynt; hyny yw, sancteiddrwydd, gwir sancteiddr
perffaith sancteiddrwydd. Pe gwahoddid rhyw un sy
ganddo gig moch, i wledd, lle mae pob dysglaid wedi ei g
i fynu o'r cig hwnw, er o wahanol driniaeth; efe a f
yr holl ddysgleidiau, er defnyddio pob celfyddyd i'w gwne
yn flasus. Gwir yw, fod llawenydd yn y nefoedd, or
wenydd sanctaidd yw; mae pleserau yn y nefoedd, ond
erau sanctaidd ydynt; y mae lle i sefyll arno yn y ne
ond daear sanctaidd ydyw. Y mae y fath sancteiddrwy
mhob man ac y'mhob peth yno, fel y diflasai y cwbl i
diadgenedledig. (4) Pe dygid hwy yno, nid yn unig r
ient eu lle, yr hyn a fyddai yn doriad calon mawr iddynt
newidient eu cyfeillion hefyd. Mae yn sicr na charent l
gymdeithas sydd yno, os ydynt yn byw heb gymdeithas â
yma, ac heb werthfawrogi cymdeithas ei bobl, yn enwe
y pethau sy'n perthyn i fywyd crefydd a duwioldeb
llawer yn ymgymmysgu â'r duwiolion ar y ddaear, i enni
iddynt eu hunain, ac i guddio drwg eu calonau; ond
gwneuthur hyny yno. (5.) Ni hoffent byth y gwaitl
yn y nef, gan eu bod mor ddifater am dano yn awr. F
gwaith y saint yno yn faich annyoddefol iddynt, gan
yn groes i'w natur hwynt. Byddai syllu ar, rhyfe
chanmawl yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, a'
yn waith anghyfaddas gan yr enaid diadgenedledig, ac te
llwyr ddiflas. *Yn olaf,* Hwy feient hefyd ar hyn, sef,
cwbl o dragywyddol barhad. Chwerwai hyn y cyfan i
Pa fodd y gwnai y rhai sydd yn awr yn cyfrif y Sabbo
faich iddynt, oddef cadw gŵyl o Sabboth tragywyddo
nefoedd?

*Yn olaf.* Mae ailenedigaeth yn hollawl angenrheidiol i gael derbyniad i'r nefoedd, Ioan iii. 3. Ni cheir nefoedd hebddo. Er pe gallai meddwl cnawdol ddefnyddio yr holl bethau sy'n gwneuthur y nef yn anaddas iddynt, eto ni oddef Duw byth iddynt ddyfod yno: am hyny rhaid dy aileni di; onid e ni chei di byth fyned i'r nefoedd, fe'th gollir am byth. Canys (1.) Mae ysgrif gwrthodiad yn eich erbyn yn llys y nefoedd, ac yn erbyn pawb o'ch bath; "Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Duw," Ioan iii. 3. Dyma follt o dy flaen, na all dynion nac angylion ei symud. A gobeithio am y nefoedd ar draws y ddedryd bendant hon, yw gobeithio y geilw Duw ei air yn ol, a dileu ei wirionedd a'i ffyddlondeb er mwyn dy gadw di; yr hyn sy yn anfeidrol fwy, na gobeithio am i'r ddaear gael ei banghofio er dy fwyn di, ac i'r graig gael ei symud o'i lle. (2.) Nid oes sancteiddrwydd heb ailenedigaeth; "Y dyn newydd a grewyd mewn gwir sancteiddrwydd" ydyw, Eph. iv. 24: ac ni cheir nefoedd heb sancteiddrwydd, canys "heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd," Heb. xii. 14. A agorir y porth grisialaidd i gwn a moch i fyned i mewn? Na: oddi allan y mae eu lle hwynt, Dat. xxii. 15. Ni oddef Duw i'r cyfryw ddyfod i'r gymdeithas sanctaidd hon ag ef yma; ac a oddef efe iddynt fyned i'r sancteiddiolaf ar ol hyn? A esyd efe blant y diafol i eistedd gydag ef ar ei orseddfaingc? neu a ddwg efe yr aflan i'r ddinas, yr hon y mae ei heolydd o aur pur? na thwyller chwi. Mae gras a gogoniant wedi eu cyssylltu y'nghyd yn anwahanol. Nid oes neb yn cael eu traws-blannu i'r baradwys uchod, ond allan o blanhigfa gras ar y ddaear. Os byddi yn ansanctaidd yn y byd hwn, byddi yn druenus dragywyddol yn y byd a ddaw. (3) Mae yr holl rai diadgenedledig heb Grist, ac felly "Heb obaith tra yn y cyflwr hwnw," Eph. ii. 12. A fydd i Grist, barotoi trigfanau mewn gogoniant i'r rhai sydd yn gwrthod ei dderbyn i'w calonau? Na, yn hytrach, Oni "chwardd efe yn eu dïaledd, am iddynt wrthod ei holl gyngor?" Diar. i. 25, 26. *Yn olaf,* Mae cyssylltiad anwahanol rhwng cyflwr llwyr diadgenedledig a damnedigaeth, yn tarddu o natur y pethau eu hunain; ac o arfaeth y nef, yr hon sydd mor gadarn a diysgog a mynyddoedd o bres, Ioan iii. 3. Rhuf. viii. 6, "Synied y cnawd marwolaeth yw." Uffern yn y bluguryn yw cyflwr diadgenedledig: dinystr tragywyddol ydyw yn ei annelwig ddefnydd; yn tyfu yn barhaus, a thithau

heb ei weled. Mae angeu wedi ei ysgrifenu ar lawe
glân yn y byd hwn. Mae natur lygredig yn cymhwy
ion i gael rhan o etifeddiaeth y damnedigion yn y ty
eithaf. (1) Mae y galon gareg o'th fewn yn dy b
ddirfawr; fel y mae careg yn naturiol yn myned i lav
mae y galon gareg galed sydd ynot yn tueddu i fyne
i'r pydew heb waelod. Yr wyt yn ymgaledu yn erb
buddion. Er dywedyd eich perygl wrthych, eto ni
yn ei weled, ni chredwch ef. Ond cofiwch, fod cy
wedi ei serio â haiarn poeth yn arwydd trwm o losgfey
gywyddol (2) Mae eich diffrwythdra o dan foddion
eich addasu i fwyall barnedigaeth Duw, Matth. iii. 10.
pren gan hyny yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da, a
lawr, ac a deflir yn tân." Tanwydd i'r tân yw cang
ffrwyth, Ioan xv. 6. Crynwch wrth hyn, ddirmygwyr y
yl.; os na wneir chwi trwyddi yn gymmwys i'r n
chwi fyddwch fel y tir diffrwyth yn dwyn drain a mieri
i felldith, diwedd yr hon yw ei llosgi," Heb. vi. 8. (
eddiadau uffernol y meddwl, y rhai sy yn tori allan yn
edd halogedig, sy'n addasu yr euog i wlad y dychrynfâu

Diwedd truenus a fydd i fywyd halogedig. "Ni
rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau, etifeddu
Duw," Gal. v. 19, 20, 21. Meddyliwch am hyn, O ch
ddiweddi, chwi watworwyr crefydd, tyngwyr a rhegwy
rai aflan ac anghyfiawn, y rhai nid oes genych gytu
moesoldeb naturiol i'ch cadw rhag dywedyd celwydd,
a lladrata. Pa fath meddwch chwi yw y pren ar yr
mae y frwythau hyn yn tyfu? a'i pren cyfiawnder o
Duw ydyw? ynte pren sy'n diffrwytho y tir ydyw, yr hw
Duw i lawr yn danwydd i dân ei lid? (4) Mae eich
"farw mewn pechod" yn eich addasu i gael eich cau
mewn fflamau brwmstan, fel mewn amdo, a'ch cladd
pydew heb waelod, fel mewn bedd. Gwaeddi mawr c
yr Aipht, pan oedd y cyntaf anedig yn mhob teulu yn
ond onid oes llawer o deuluoedd oll yn feirw? Ie, y ma
er ddwywaith yn feirw, wedi eu diwreiddio. Weithi
deffroir gan ofn marw, a'i ganlyniadau; ond yn awr y
cyn belled ar y ffordd i dir tywyllwch, fel braidd maent
un llewyrch o oleuni o'r nef. (5). Mae tywyllwc
meddwl yn arwydd o'r tywyllwch tragywyddol. O
anwybodeth dychrynllyd sydd yn aros fel pla ar amry

mae eraill sydd wedi cael ychydig o oleuni natur i'w penau, yn hollawl wag o oleuni ysprydol yn eu calonau. Pe baech yn adnabod eich cyflwr, gwaeddech allan. O! dywyllwch! dywyllwch! tywyllwch yn gwneuthur ffordd i niwl tywyllwch tragywyddol! Mae gorchudd y wyneb arnat ti eisoes, fel ar ddyn collfarnedig; mor agos wyt i'r tywyllwch tragywyddol. Crist yn unig a all attal y dïenyddiad, tynu y napcyn oddiar wyneb y drwg-weithredwr collfarnedig, a rhoi maddeuant yn ei law, Esay xxv. 7, "Ac efe a ddifa yn y mynydd hwn y gorchudd sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd," hyny yw, gorchudd wyneb y collfarnedig, fel yn achos Haman, Esther vii. 8. "Hwy yn gyntaf ag yr aeth y gair allan o enau y brenin, hwy a orchuddiasant wyneb Haman." *Yn olaf*, Mae y cadwynau tywyllwch, sydd yn eich rhwymo chwi yn eich cyflwr natur, (Esay lxi. 1.) yn eich addasu i gael eich taflu "i ffwrn o dan poeth." O ddynion truenus! Weithiau mae eu cydwybodau yn ymgynhyrfu ynddynt, a dechreuant feddwl am ddiwygio. Ond och! y maent mewn cadwynau, ni allant gyflawni hyny. Maent wedi eu cadwyno gerfydd eu calonau: mae eu chwantau yn glynu mor sicr wrthynt, fel na allant, ie ni fynant ymysgwyd oddiwrthynt. Felly chwi a welwch y berthynas sydd rhwng cyflwr diadgenedledig, a chyflwr y damnedigion, cyflwr hollawl druenus ac anadferadwy. Argyhoedder di gan hyny, fod yn rhaid dy aileni di; mawr brisia ailenedigaeth, a thaer ddymuna am dano.

Mae y testun yn dywedyd, mai y gair yw yr had o'r hwn y ffurfir y creadur newydd: am hyny chwiliwch ef, perchwch ef, canys eich bywyd yw. Llwyr ymroddwch i ddarllen yr Ysgrythyrau. Chwychwi y rhai na ellwch eu darllen, perwch i arall eu darllen i chwi. Disgwyliwch yn ddyfal dan bregethiad y gair, fel y mae efe trwy ordeiniad Duw yn foddion neillduol tröedigaeth; canys—"fe welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu gadw y rhai sydd yn credu," 1 Cor. i. 21. Am hyny ymgedwch yn ffordd Crist; na wrthodwch foddion gras, rhag eich cael yn cyfrif eich hunain yn *annheilwng o fywyd tragywyddol*. Byddwch ddyfal. Gwrandewch yn astud ar y gair a bregethir. Gwrandewch bob pregeth fel pe baech yn gwrando am dragywyddoldeb: a gochelwch rhag i'r adar gipio oddiarnoch yr had yr hwn a hauwyd. "Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros,' 1 Tim. iv. 15. "Der-

byniwch ef—nid fel gair dyn, eithr (fel y mae yn wir) yn air Duw," 1 Thess. ii. 13. A gwrandewch ef gyda chymmwysiad, gan edrych arno fel cennadwri wedi ei hanfon o'r nef atoch chwi mewn modd neillduol, er mai nid atoch chwi yn unig, Dat. iii. 22. "Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed beth y mae yr Yspryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi." Cedwch ef yn eich calonau, myfyriwch arno: ac na fyddwch fel yr anifail aflan sydd heb gnoi ei gil; ond trwy daer weddïo, erfyniwch am i'r gwlith o'r nefoedd ddisgyn ar eich calon, fel y tyfo yr had yno.

Yn fwy neillduol, (1.) Derbyn dystiolaeth gair Duw am drueni cyflwr natur, ei bechadurusrwydd, a'r hollawl angenrheidrwydd am ailenedigaeth. (2) Derbyn ei dystiolaeth mewn perthynas i Dduw, un mor sanctaidd a chyfiawn ydyw. (3.) Prawf dy ffyrdd wrtho; sef, meddyliau dy galon, ymadroddion dy enau, a helynt dy fywyd. Edrych yn ol trwy amrywiol amserau dy fywyd, a gwel dy bechodau yn groes i rëol y gair; a gwel yn y bygythion, yr hyn yr ydwyt yn ddarostyngedig iddo am bechod. (4) Sylla ar lygredigaeth dy natur, trwy gymmorth gair Duw, fel drych yr hwn sydd yn dangos ein wynebau budron i ni mewn modd eglur. Pe gwreiddiai y pethau hyn yn ddwfn yn y galon, gallent fod yn had yr ofn a'r galar hwnw, mewn perthynas i gyflwr eich henaid, sy yn angenrheidiol i'ch parotoi a'ch cynhyrfu i ymofyn am Iachawdwr. Syllwch arno fel y cynnygir ef i chwi yn yr efengyl, yn gwbl addas i'ch cyflwr, wedi, trwy ei ufudd-dod hyd angau, boddloni cyfiawnder Duw, a dwyn cyfiawnder tragywyddol i mewn. Gall hyn fod yn had gostyngeiddrwydd, dymuniad, gobaith; a pheri i chwi estyn allan y llaw wywedig wrth ei orchymyn ef ei hun.

Bydded i'r pethau hyn gael lle dwfn yn eich calonau, a deffnyddiwch hwynt. Cofiwch, beth bynag ydych, RHAID *eich geni chwi drachefn*, onide, gwell fuasai pe nas ganesid chwi erioed. Gan hyny, os byddwch fyw a marw mewn cyflwr diadgenedledig, byddwch yn ddiesgus, cawsoch eich rhybudd-io yn deg am eich perygl.

# PEN II.

## YR UNDEB DIRGELEDIG SYDD RHWNG CRIST A CHREDINWYR.

IOAN XV. 5.

*Myfi yw y winwydden, chwithau yw y canghenau.*

WEDI son am y cyfnewidiad a wneir trwy ailenedigaeth, ar y rhai oll a gant etifeddu bywyd tragywyddol, ar gyfer eu cyflwr natur, sef eu cyflwr diadgenedledig; mi af yn mlaen i ddywedyd am y cyfnewidiad a wneir arnynt yn eu hundeb a'r Arglwydd Iesu Grist, ar gyfer eu cyflwr natur, sef eu cyflwr o drueni. Mae athrawiaeth undeb y saint â Christ, yn cael ei thrin yn amlwg a helaeth yn y bennod hon, o'r dechreuad hyd y ddeuddegfed adnod; yr hyn sy'n rhan o bregeth olaf Crist i'w ddisgyblion. Yr oedd galar yn awr yn llenwi eu calonau; yr oeddynt yn barod i ddywedyd, Och! beth a ddaw o honom ni, pan ddygir ein Meistr oddiarnom? Pwy wedi hyny a'n dysg ni? Pwy a ddëongl ein dadleuon? Pa fodd y cynhelir ni dan ein cyfyngderau a'n digalondid? Pa fodd y byddwn ni byw heb ein cymdeithas feunyddiol âg ef? Am hyny mae ein Harglwydd yn eu prydlon ddysgu hwynt am ddirgelwch eu hundeb ag ef; gan gydmaru ei hun i'r winwydden, a hwythau i'r cangenau.

Mae efe yn cydmaru meddaf, (1.) Ei hunan i winwydden, "Myfi yw'r winwydden." Yr oedd efe wedi bod gyda'i ddisgyblion yn gweinyddu y sacrament o'i swper, yr arwydd

a'r sel hono o undeb ei bobl ag ef, ac wedi dywedyd wrthynt "Nid yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, hyd dydd hwnw pan yfwyf ef gyda chwi yn newydd yn nheyrna fy Nhad." Ac y mae efe yn awr yn dangos mae efe ei hu oedd y winwydden, o'r hon y tarddai gwin eu cysur hwyn. Nid yw y winwydden mor hardd a llawer o goedydd. eto mae yn dra ffrwythlon: mae hi yn addas iawn i ddangos cyflwr isel yr oedd Crist ynddo y pryd hwnw, eto yn dwy meibion lawer i ogoniant. Ond ei brif amcan yn cyffelybu hun i winwydden yw, i ddangos ei hun fel cynaliwr maethwr ei bobl. yn yr hwn maent yn byw, ac yn dwy rwyth. (2) Mae yn eucyffelybu hwy i gangenau; chwi yw cangenau y winwydden hono; chwi yw y cangenau a imp iwyd yn, ac sy'n tyfu ar y winwydden hon, ac yn derbyn eic boll fywyd a'ch nodd o honi. Cydmariaeth addas yw hon fel pe dywedasai, Yr wyf fi megis y winwydden, yr ydyc chwithau fel cangenau o'r winwydden hono. Yn awr ma dau fath o Gangenau. 1. Cangenau naturiol, y rhai sy y tarddu gyntaf o'r pren: dyma y cangenau sy yn y pren, ac buont erioed allan o hono. 2. Mae cangenau impiedig; m y rhai hyn yn cael eu torri oddiar y pren y tyfasant arno gy taf, a'u gosod mewn pren arall i dyfu arno. Felly, dygir can enau i dyfu ar bren, nad oeddynt arno o'r dechreuad. cangenau a feddylir yn y testun yw y rhai olaf a enwyc cangenau wedi eu torri ymaith, (fel y mae y gair yn yr iai wreiddiol yn arwyddocâu) sef, o'r pren a roddes fywyd gynt iddynt; nid oes neb o feibion dynion yn gangenau naturiol a ail-Adda, sef, Iesu Grist, y wir winwydden; cangenau na uriol yr Adda cyntaf, y winwydden lygredig hono ydynt ol ond y mae pob un o'r etholedigion, ryw bryd, yn cael eu to o'r winwydden naturiol, ac yn cael eu himpio yn Nghrist wir winwydden. Athrawiaeth. Mae pawb sy mewn cy lwr o ras wedi eu himpio yn, a'u huno a'r Arglwydd Ie Grist. Maent wedi eu cymmeryd allan o'r boncyff naturio a'u tori oddiwrtho: ac y maent yn awr wedi eu himpio y Nghrist fel boncyff newydd. Wrth drin y pethau hyn, e draethu am yr undeb dirgeledig, (1) Yn gyffredinol. (2) Y neillduol.

## *Golygiad Cyffredinol ar yr Undeb Dirgeledig.*

*Yn gyntaf,* Yn gyffredinol, er mwyn deall yr undeb sydd rhwng yr Arglwydd Iesu Grist, a'i etholedigion, y rhai sy yn credu ynddo.

1. Undeb ysprydol ydyw. Mae gwr a gwraig trwy eu hundeb prïodasol yn dyfod yn un cnawd; ac y mae Crist a gwir gredinwyr trwy yr undeb hwn yn dyfod yn *un yspryd,* 2 Cor. vi. 17. Fel y mae un enaid neu yspryd yn rhoi y pen a'r holl aelodau ar waith, yn y corph naturiol; felly mae yr un Yspryd Duw yn trigo yn Nghrist a'r Cristion: canys, "Od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef." Rhuf. viii. 9. Undeb corphorol a wneir trwy gyd-gyffyrddiad; felly y mae yr undeb rhwng y meini mewn adeilad: ond y mae yr undeb hwn o wahanol natur. Pe bai y fath beth ag i ni fwyta cnawd, ac yfed gwaed Crist, mewn modd corphorol a chnawdol, ni *lesai ddim,* Ioan vi. 63. Nid bod Mair yn ei ddwyn ef yn ei chroth, ond ei bod yn credu ynddo a'i gwnaeth yn gristion, Luc xi. 27, 28. *Rhyw wraig—a ddywedodd wrtho. Gwyn fyd y groth a'th ddûg di, a'r bronau a sugnaist Ond efe a ddywedodd, Yn hytrach, gwynfyd y rhai sydd yn gwrando gair Duw, ac yn ei gadw.*

2. Undeb gwirioneddol ydyw. Y fath yw ein gwendid yn ein cyflwr presennol, mor ddwfn ydym mewn pechod, fel yr ydym yn dueddol i ffurfio yn ein dychymmygion, ddelw o bob peth a gynnygir i ni. Ac am bob peth a waherddir i ni, yr ydym yn dueddol i'w farnu yn ddim amgen na dychymmyg, neu beth disylwedd. Ond nid oes dim yn fwy sylweddol na phethau ysprydol: fel y maent yn tebygu yn fwy i natur yr hwn sydd yn wreiddyn pob sylwedd, sef Duw ei hun. Nid ydym yn gweled â'n llygaid yr undeb sydd rhwng ein corph a'n henaid; ac ni allwn ni ei amgyffred yn iawn yn ein meddyliau, fel y gwnawn gyda phethau teimladol; eto ni ddylem ammeu y gwirionedd o honaw. Nid dychymmyg yw ffydd, *ond sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio,* Heb. xi. 1. Ac nid yw yr undeb sydd rhwng Crist a'i bobl yn beth ddychym-

mygol, ond gwirionedd sicr yw: "*Oblegyd aelodau ydym o'i gorp ef, o'i gnawd, ef, ac o'i esgyrn ef,*" Eph. v. 30.

3. Undeb agos a chyfeillgar iawn ydyw. Mae credinwyr y rhai a ail-anwyd, ac sydd yn gwir gredu ynddo, ac y ymorphwys arno, *wedi gwisgo Crist,* Gal. iii. 27. Os n. yw hyn yn ddigon, y mae efe *ynddynt,* Ioan xvii. 23, wedi *ffurfio ynddynt,* fel y plentyn y'nghroth ei fam, Gal. iv. 1. Efe yw *y sylfaen,* 1 Cor. iii. 11. Hwynthwy yw *y mein bywiol* wedi eu hadeiladu arno ef, 1 Pedr ii. 5. Efe yw *y pen* a hwythau *y corph,* Eph. i. 22, 23. Ië, y mae efe yn *byw ynddynt hwy,* fel y mae eu heneidiau yn eu cyrph, Gal. ii 20 A pheth sy'n fwy na hyn oll, maent *yn un* yn y Tad a'r Mab fel y mae y Tad yn Nghrist a Christ yn y Tad, Ioan xvii. 21. "Fel y byddont oll yn un, megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, fel y byddont hwythau un ynom ni."

4. Er mai nid undeb deddfol yn unig ydyw, eto y mae yn undeb ag y mae y ddeddf yn ei gydnabod. Crist fel meichnïydd, a'r Cristion fel y prif ddyledwr, ydynt un y'nghyfrif y ddeddf. Pan aeth yr etholedigion fel eraill o ddynolryw i ddyled cyfiawnder Duw, daeth Crist yn feichïnydd iddynt, ac a dalodd eu dyled. Pan gredont ynddo, fe'u hunir âg ef mewn undeb prïodasol ysprydol; yr hyn sydd mor rinweddol fel y mae yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe drostynt, yn cael ei gyfrif mewn cyfraith, fel pe buasent hwy eu hunain wedi ei wneuthur a'i ddyoddef. O herwydd hyny y dywedir eu bod wedi eu "croeshoelio gyda Christ," Gal. ii. 20. "Eu claddu gydag ef," Col. ii. 12. Ië, y maent "wedi eu cyd gyfodi (sef gyda Christ) a'u gosod i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu," Eph. ii. 6. Yn y lleoedd a enwyd ni ellir dywedyd fod y saint ar y ddaear, am y rhai y mae Apostol yn son, yn eistedd yn y nefolion leoedd, ond trwy e golygu felly mewn cyfraith.

5. Undeb annattodol ydyw. Os unwaith yn Nghrist ynddo ef byth. Wedi iddo unwaith anneddu yn y galon ni ymedy ef byth. Ni all neb ddattod y cwlwm dedwydd hw Pwy a wahana yr undeb hwn? A wna efe ei hun? Na wna mae genym ei air ar y mater, "Ni throaf oddiwrthynt," Je xxxii. 40. Ond fe allai y gwna y pechadur ei hun ei ddattod; na, ni chaiff efe, "mi a osodaf fy ofn yn eu calonau na chilhont oddiwrthyf," medd eu Duw. A all cythreuliaid ddattod? Na allant, oddieithr iddynt fod yn gryfach

Christ a'r Tad hefyd. "Ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i," medd ein Harglwydd, Ioan x. 28. "Ac nis gall neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i. adn. 29. Ond beth meddech am angeu, yr hwn sydd yn ysgar gwr a gwraig; ie, yn ysgar y corph oddiwrth yr enaid? A ddettyd angeu mo hono? Na wna, mae yr Apostol yn Rhuf. viii. 38, 39. Yn ddiogel, na all angeu er mor ddychrynllyd yw; nac einioes, er mor ddymunol yw; na chythreuliaid, yr angylion drwg hyny, na goruchwylwyr erledigaethus y cythraul, pe baent dywysogaethau neu awdurdodau ar y ddaear; na phethau drwg presennol, sy'n gorwedd arnom; na phethau drwg sydd i ddyfod arnom; nac uwchder dedwyddwch daearol; na dyfnder trueni daearol; nac un creadur arall, da na drwg, "ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Megis y gwahanodd angeu gorph ac enaid Crist oddiwrth eu gilydd, ond na allai wahanu ei gorph na'i enaid oddiwrth y natur ddwyfol: felly, er y gall y saint gael eu gwahanu oddiwrth eu perthynasau agosaf yn y byd, ac oddiwrth bob cysuron daearol; ie, er i'w heneidiau gael eu gwahanu oddiwrth eu cyrph, ac i'w cyrph gael eu chwalu yn fil o ddarnau, a'u hesgyrn gael eu gwasgaru, fel pan fo un yn naddu neu yn hollti coed: er hyny y corph a'r enaid; ie, bob darn o'r corph, y llwchyn lleiaf o hono a erys mewn undeb â Iesu Grist; canys yn angeu maent *yn huno yn yr Iesu*, 1 Thess. iv. 14. Efe a geidw eu holl esgyrn hwynt, Ps. xxxiv. 20. Undeb â Christ yw y gras, "yn yr hwn yr ydym yn sefyll," yn gadarn a diysgog, "fel mynydd Seion, yr hwn ni syfl."

*Yn olaf*, Undeb dirgeledig yw. Athrawiaeth dirgeledigaethau yw 'r efengyl. Mae hi yn dangos i ni yr undeb sylweddol rhwng y tri pherson yn yr un Duwdod, 1 Ioan v. 7. *Y tri hyn un ydynt*: undeb personol y natur ddynol a'r natur ddwyfol, yn mherson yr Arglwydd Iesu Grist, 1 Tim. iii. 16. "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." A'r undeb dirgeledig sydd rhwng Crist a chredinwyr; "dirgelwch mawr yw hwn," hefyd, Eph. v. 32. O y fath ddirgeledigaethau sydd yma! Y Pen yn y nefoedd, yr aelodau ar y ddaear, eto mewn undeb gwirioneddol! Crist yn y credadyn, yn byw ynddo, ac yn rhodio ynddo ef: a'r credadyn yn preswylio yn Nuw, yn gwisgo am dano yr Arglwydd Iesu, yn bwyta ei gnawd ef, ac

yn yfed ei waed ef? Mae hyn yn gwneuthur y saint yn ddirgelwch i'r byd; ïe, yn ddirgelwch iddynt eu hunain.

Yn ail. Deuaf yn awr yn fwy neillduol i draethu am yr undeb hwn â Christ, a'r impiad ynddo ef. Ac, yn (1.) Ystyriaf y pren naturiol, o'r hwn y cymmerir y cangenau. (2.) Y pren goruwch naturiol, i'r hwn yr impir hwy. (3.) Beth yw y cangenau a dorir allan o'r hen bren, ac a ddodir yn y newydd. (4.) Pa fodd y gwneir hyn. Ac *yn olaf* y lles, a'r budd sy'n tarddu o'r undeb a'r impiad hwn.

---

### *Am y Cyff naturiol, a'r Cyff goruwchnaturiol, a'r cangenau yn cael eu cymmeryd o'r naill, a'u himpio yn y llall.*

I. Sylwn ar y cyff o'r hwn y cymmerir y cangenau Y ddau Adda, sef Adda â Christ yw y ddau gyff; canys y mae yr ysgrythyr yn son am y ddau hyn, fel pe na buasai neb ond hwy yn y byd, 1 Cor. xv. 45. "Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn yspryd yn bywhau," adn. 47, "Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaerol; yr ail ddyn yr Arglwydd o'r nef. A'r rheswm yw, ni bu neb erioed heb fod yn gangenau o un o'r ddau hyn; mae pob dyn yr un o'r ddau-gyff hyn; canys yn y ddau gyff hyn y mae holl ddynolryw yn sefyll ar wahan, adn. 48, "Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol hefyd; ac fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd." Yr Adda cyntaf gan hyny yw y cyff naturiol; ar y cyff hwn y mae y cangenau yn tyfu gyntaf; y rhai wedi hyny a dorir ymaith, ac a impir yn Nghrist. Mewn perthynas i'r angylion syrthiedig, gan nad oeddynt mewn perthynas â'r Adda cyntaf, felly nid ydynt mewn perthynas â'r ail.

Maé pedwar peth i'w hystyried yma: (1.) Fod holl ddynolryw (oddieithr Crist yn unig) yn gangenau naturiol o'r Adda cyntaf, Rhuf. v. 12, "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn." (2.) Y rhwymedigaeth sy'n ein dal yn y cyff naturiol yw y cyfammod gweithredoedd. Adda oedd ein gwreiddyn naturiol, ac fe'i gwnaed yn wreiddyn moesol i ni hefyd;

cynnal ei holl hiliogaeth fel yr oedd efe yn eu cynnrychioli hwynt yn y cyfammod gweithredoedd; "Oblegyd trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid," Rhuf. v. 19. Yn awr, yr oedd yn ofynedig fod perthynas neillduol rhwng yr *un dyn* hwnw *a'r llawer*, fel sail i gyfrif ei bechod ef, iddynt hwy. Ni tharddodd y berthynas hon oddiar y rhwymedigaeth naturiol rhyngddo ef a ni, fel rhwng tad a'i blant; canys yr ydym yn perthyn felly, i'n rhieni digyfrwng, pechod y rhai ni chyfrifir i ni, fel y cyfrifir pechod Adda. Rhaid iddo gan hyny darddu o rwymedigaeth moesol rhwng Adda a ni; rhwymedigaeth cyfammod, sef y cyfammod gweithredoedd, trwy yr hwn yr unwyd ni ag ef, fel cangenau yn y cyff. Ond nid oedd Crist, er ei fod yn fab Adda (Luc iii. 23—38) yn un o'r cangenau hyn; canys ni ddaeth efe o Adda trwy rinwedd bendith priodas, yr hyn a roddwyd cyn y cwymp, (Gen. i. 28. "Ffrwythwch ac amlhewch," &c.) ond trwy rinwedd addewid neillduol, a wnaed ar ol y cwymp (Gen. iii. 15. "Had y wraig a ysiga ben y sarph.") Ni allasai Adda ei gynddrychioli ef mewn cyfammod a wnaed cyn ei gwymp. (3.) Fel y mae yn anmhosibl i gangen fod mewn dau gyff ar unwaith; felly ni all neb ar unwaith fod yn Adda ac yn Nghrist yr ail Adda. (4.) Yna mae'n canlyn yn amlwg fod yr holl rai sydd heb eu himpio yn Nghrist, yn gangenau o'r hen gyff, ac felly yn cyfranogi o'i natur ef. Yn awr mewn perthynas i Adda ein cyff naturiol, ystyriwn,

*Yn gyntaf,* Pa fath gyff oedd efe ar y dechreuad. Gwinwydden o blanniad yr Arglwydd ydoedd, gwinwydden ddewisedig, gwinwydden enwog, o'r iawn had oll. Ymgynghorodd y Drindod wrth blannu y winwydden hon, Gen. i. 26. "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain." Nid oedd dim pydrni yn ei chalon hi. Yr oedd digon o nodd ynddi, i faethu yr holl gangenau, i ddwyn ffrwyth i Dduw. Fy meddwl yw, fe wnaed Adda yn alluog i gadw gorchymyn Duw, yr hyn a fuasai yn sicrhau bywyd tragywyddol iddo ef a'i holl hiliogaeth: oblegyd gan fod pawb yn marw trwy anufudd-dod Adda, cawsai pawb fywyd trwy ei ufudd-dod ef, pe safasai efe. Ystyriwch

*Yn ail.* Pa fath gyff yw efe yn awr: O! tra annhebyg i'r hyn oedd efe pan blannwyd ef gan awdwr a ffynonell pob

rwydd yn dwyn y cangenau y maent yn tyfu arnynt ac yn gwneuthur iddynt gyfarch y llwch, 1 Cor. xv. 10 a lafuriais yn helaethach na hwynt oll : ac nid myfi ch ond gras Duw yr hwn oedd gyda mi." Ond y mae ffrv mall gweithredoedd dyn anianol yn crôgi yn ysgafn ar enau yn ymgodi tu a'r nefoedd, Barn. xvii. 13. "Y y gwn y gwna yr Arglwydd ddaioni i mi ; gan fod genyf yn offeiriad." Maent yn wir yn edrych mor uc na all Duw edrych arnynt, Esay lviii. 3. Pa ham me yr ymprydiasom ac nis gwelaist ? Po mwyaf o ddyledsw a gyflawnant, a pho oreu yr ymddengys eu bod yn e lawni, lleiaf fydd eu darostyngiad, a mwyaf fydd eu der. Mae y tueddiad hwn yn yr annuwiol, yn hollawl i'r hyn a geir yn y saint. Mae dyledswydd y rhai sy fod yn Nghrist, nac yn taer erfyn am gael bod ynd pledrenau llawn gwynt, â'r rhai y maent yn meddwl nofi Immanuel : ond fe fydd y rhai hyn yn sicr o dori, a hw a suddant : canys nid ydynt yn cymmeryd Crist yn *d ufydd* eu penau, Ps. iii. 3. *Yn olaf,* Nid ydynt o bol ddidog ffrwyth, Can. vii. 13. Mae Crist yn frenin, ac yn rhaid ei wasanaethu ef âg amrywiaeth. Lle mae Di wneuthur y galon yn ardd iddo, mae yn ei phlannu Solomon, â phrenau o bob ffrwyth, Preg. ii. 5 o gnwyfiad, mae yn dwyn "ffrwyth yr Ysbryd y'mh ioni," Eph. v. 9. Ond nid felly y bydd yr annuwiol : r eu hufudd-dod un amser yr gyffredinol ; mae rhyw b fyr bob amser. Mewn gair, ffrwyth oddiar bren drwg ffrwyth, maent yn anghymmeradwy yn y nefoedd.

2*il.* Cyff marw yw ein cyff naturiol ni, yn ol y bygy Gen. ii. 17, "Yn y dydd y bwytei o hono, gan farw y farw." Mae ein gwreiddyn yn awr yn bydredd, nid rh fod y blodau yn troi yn llwch. Mae y dyrnod wedi myn galon, mae'r nodd wedi colli, ac y mae y pren wedi g Mae melldith y cyfammod cyntaf, fel mellten o'r nef, disgyn arno, a'i ddinystrio. Mae wedi ei felldithio yn a y ffigysbren hwnw, Matth. xxi. 19. "Na thyfed ff arnat byth mwyach." Yn awr nid yw dda i ddim, ond ffrwytho y tir, a bob yn danwydd uffern.

Gadewch i mi ychwanegu ychydig yma hefyd. M dyn di-ailenedig yn gangen o gyff marw. Pan ganfy

bechadur, foncyff marw pren, wedi ei ymddifadu o'i holl nodd, a'i gangenau yn un modd, edrych arno fel darluniad cywir o gyflwr dy enaid. (1.) Lle mae'r boncyff yn farw, mae'r cangenau yn rhwym i fod yn ddiffrwyth. Och! mae diffrwythdra llawer o broffeswyr yn profi yn amlwg ar ba gyff maent yn tyfu. Hawdd i un gymmeryd arno fod ganddo ffydd, "ond dangos i mi dy ffydd heb dy weithredoedd," os gelli, Iago ii. 18. (2.) Ni all boncyff marw drosglwyddo nodd i'r cangenau, i beri iddynt ddwyn ffrwyth. Y cyfammod gweithredoedd oedd rhwymedigaeth ein hundeb ni â'r cyff naturiol; ond yn awr mae wedi dyfod yn wan trwy y cnawd; hyny yw, trwy ddirywiad a llygredigaeth y natur ddynol, Rhuf. viii. 3. Mae yn ddigon cryf i orchymyn, ac i rwymo beichiau trymion ar ysgwyddau y rhai sydd heb Grist; ond nid yw yn rhoi un cynnorth i'w dwyn. Mae y nodd oedd unwaith yn y gwreiddyn, yn awr wedi colli; ac y mae y ddeddf yn awr fel gofynwr didrugaredd, yn dal hiliogaeth Adda, gan ddywedyd, "tal yr hyn sydd ddyledus;" pan, ysywaith! y mae efe wedi treulio ei gyfoeth trwy loddest. (3) Mae pob trafferth a thraul a gymmerir gyda phren marw yn ofer. Gwaith ofer yw i ddynion geisio ffrwyth ar y cangenau, wedi i'r nodd fyned o'r gwreiddyn. *Yn gyntaf*, Mae trafferth y garddwr yn ofer: mae gweinidogion yn llafurio yn ofer ar y cangenau tra y maent yn aros ar yr hen wreiddyn. Llawer pregeth sy'n cael ei phregethu yn ofer tra y parhaont arno, am nad oes bywyd i deimlo dim. Gellir deffroi dynion cysglyd; ond ni ellir cyfodi y meirw heb wyrth: felly rhaid i'r pechadur marw aros felly, os na fywheir ef trwy wyrthiau gras. *Yn ail*, Mae dylanwadau y nefoedd yn ofer ar y cyfryw bren: ofer yw i'r gwlaw ddisgyn arno; ofer yw ei adael yn agored i oerder a rhewdod y gauaf. Mae Arglwydd y winllan yn cloddio o amgylch llawer enaid marw, ond nid yw yn gwellâu dim. "Er pwyo y ffol mewn morter, eto nid ymedy ei ffolineb ag ef." Er ei fod yn cyfarfod a llawer o groesau, eto mae yn dal gafael yn ei chwantau: er ei ddodi ef i orwedd mewn claf wely, fe orwedd yno fel anifail claf, yn gruddfan dan ei boen; ond nid yw yn gruddfan am, nac yn troi oddiwrth ei bechod. Ië, pe edrychai angeu ei hun yn ei wyneb, fe ddaliai afael yn ei obaith yn rhyfygus, fel pe bai am syllu y cenadwr gwgus nes ei gywilyddio ef o'i olwg. Weithiau mae gweithrediadau cyffredinol yr Ys-

pryd Glân arno: mae'n cael ei yru adref gyda chalon gr ig, a saethau argyhoeddiadau yn glynu yn ei enaid: ond amser mae yn llwyddo yn erbyn y pethau hyn, ac yn n cyn iached ag erioed. *Yn drydydd,* Mae haf a gauaf peth i'r cangenau ar y boncyff marw. Tra mae erai deutu yn blaguro, yn blodeuo, ac yn dwyn ffrwyth, nid o cyfnewidiad arnynt hwy; nid oes tymmor tyfu ar y bo marw un amser. Fe allai y byddai yn anhawdd gwybod gauaf, pa goed sy'n farw a pha rai sy'n fyw; ond fe dd y gwanwyn hyny yn amlwg. Mae rhai amserau, pry chanfyddir ond ychydig fywyd yn y saint eu hunain; ond amser adfywiad ryw dro. Ond pan fyddo y winwydd blodeuo, ar pomgranadau yn tori allan, (pan fo gwir r datguddio ei hun, trwy ei weithredoedd bywiol, lle bynag y mae y cangenau ar yr hen foncyff, yn gwywo o hyd: fo yr esgyrn sychion yn dyfod y'nghyd at eu gilydd, asgw at ei asgwrn, y'mhlith y saint; mae esgyrn yr annuwi gorwedd yn llonydd o ddeutu safn y bedd. Prenau diffrwytho y tir ydynt, ar fin eu tori i lawr, ac a dorir i i'r tân, os na wna Duw eu harbed yn ei drugaedd, trw tori oddiar yr hen gyff, a'u himpio mewn un arall.

*Yn olaf,* Cyff yn lladd yw ein cyff naturiol ni. Os boncyff yn farw, pa fodd y gall y cangenau fod yn fyw? aeth y sudd o'r gwreiddyn a'r galon, mae y cangenau o enrheidrwydd yn gwywo. Yn *Adda mae pawb yn mei* Cor. xv. 22. Bu farw y gwreiddyn yn mharadwys; a'r gangenau a fu farw ynddo, a chydag ef. Gwenwynw gwreiddyn, a thrwy hyny effeithiodd ar y cangenau: mae eu yn y crochan; a phob un a brofodd o hono a fu farw.

Gwybyddiwch gan hyny fod pob dyn wrth natur, yn ga o gyff sy'n lladd. Nid yn unig, nid yw ein cyff natur rhoi bywyd i ni, ond y mae ganddo allu i ladd, yn cyrhae ei holl gangenau. Mae Adda yn trosglwyddo pedwar i'w holl gangenau; ac y maent yn aros yn, ac yn gorp ar, bawb sy heb eu himpio yn Nghrist *Yn gyntaf,* N lygredig. Efe a bechodd, a'i natur trwy hyny a lygrwyd, a ddirywiwyd; ac y mae y llwgr hwn yn cael ei drosglw i'w holl hiliogaeth. Heintiwyd ef, a'r afiechyd a ymdae tros ei holl had. *Yn ail,* Euogrwydd, hyny yw, rhwym aeth i gosp, Rhuf. v. 12. "Am hyny, megis trwy un d daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod, ac fel

th marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb."
ae bygythion y ddeddf, fel rhwymau angeuol, wedi eu troi o
gylch cangenau yr hen wreiddyn, i'w tynu dros y gwrych
tân. Ac hyd nes torir hwy oddiar y gwreiddyn hwn trwy
yllell docio, mae cleddyf digofaint yn crogi uwch eu pen-
i'w tori i lawr. *Yn drydydd* mae y cyff lladd hwn yn
sglwyddo y felldith i'r cangenau. Mae y cyff fel cyff, (canys
wyf yn son am Adda, yn ei sefyllfa unigol a phersonol)
i ei felldithio, ac felly y mae y cangenau, Gal. iii. 10. "Can-
cynnifer ag y sy o weithredoedd y ddeddf dan felldith y
nt." Mae y felldith hon yn effeithio ar yr holl ddyn, ac
sy'n perthyn iddo, pob peth sydd ganddo; ac yn gweithio
n tair ffordd, (1.) Fel gwenwyn yn heintio, fel hyn y mae
*endithion wedi eu melldithio*, Mal. ii. 2. Beth bynag y
y dyn yn ei feddianau, ni all wneuthur dim daioni iddo, ond
g, gan eu bod oll wedi eu gwenwyno trwy y felldith. Mae
rydiant yn y byd yn ei ddyfetha ef, Diar. i 32. Mae
inidogaeth yr efengyl yn *arogl marwolaeth i farwolaeth*
ef," 2 Cor. ii. 16. Mae ei ddoniau mewn pethau cref-
l yn felldith iddo; nid yw ei wybodaeth dda i ddim ond
chwyddo, a'i ddyledswyddau i'w gadw oddiwrth Grist.
Mae yn gweithio fel gwyfyn, yn ysu ac yn difa bob yn
dig ac ychydig, Hos. v. 12. "Am hyny y byddaf fel
fyn i Ephraim." Mae pryf yn y gwreiddyn, yn eu bysu
addol. Fel hyn y felldith a ddilynodd Saul, nes ei ddifa ef
o'i holl feddiant, ac o bob ymddangosiad crefyddol.
thiau maent yn darfod fel brasder ŵyn, ac yn toddi fel
mewn gwres. (3.) Mae yn gweithredu fel llew afre-
, Hos. v. 14, "Byddaf i Ephraim fel llew." Mae yr Ar-
ydd, "yn gwlawio arnynt faglau tân a brwmstan, a phoeth-
t ystormus," yn y fath fodd, fel y gyrir hwy ymaith gyd-
ffrwd. Mae yn dwyn ymaith eu mwyniant yn ei soriant,
u dilyn â dychrynfeydd, yn rhwygo eu heneidiau oddiwrth
yrph, ac yn taflu y gangen grin i'r tân. Felly y mae y
ith yn difa fel tân, na all neb ei ddiffodd. *Yn olaf*, Mae y
lladd hwn, yn trosglwyddo marwolaeth i'r cangenau sydd
. Cymmerodd Adda y cwpan gwenwynllyd, ac a'i hyfodd
u; parodd hyn angeu iddo ef a ninnau. Daethom i'r
yn farw ysprydol, ac yn rhwymedig trwy hyny i farwol-
dragywyddol, ac yn gwbl ddarostyngedig i farwolaeth

naturiol. Mae y gwreiddyn hwn i ni fel afon Scythia, hon, meddant, sy'n dwyn chwysigenau mân bob dydd, allan o'r rhai y daw rhyw wybed bychain, y rhai a fagir yn y bore, a fagant esgyll y prydnawn, ac a fyddant farw yn yr hwyr. Cyffelybiaeth dra addas o'n cyflwr marwol ni.

Yn awr, onid yw yn angenrheidiol anhepgorol ein tori odd ar ein cyff naturiol hwn? Beth a dâl dail teg o broffes, ne ffrwyth ein dyledswyddau, os byddwn yn gangenau o'r cyf afrywiog, marw, a gwenwynllyd hwn? Ond och! Y'mhlith yr amrywiol ofyniadau sy'n cael eu gofyn yn fynych yn ein plith, ychydig sy'n petruso y'nghylch y rhai hyn, A dorwyd fi oddiar yr hen wreiddyn a'i peidio? A impiwyd fi yn Nghrist ai peidio? O, pa ham y cymmerir y fath drafferth yn ofer? Pa ham y mae cymmaint swn y'nghylch crefydd gan lawer, y rhai ni allant dystio eu bod ar sail dda, gan eu bod yn hollawl ddieithr i grefydd brofiadol? Yr wyf fi yn ofni, os na fydd i Dduw yn ei drugaredd brydlon gloddio tan sylfaen crefydd llawer o honom, a'n dwyn i gredu nad oes genym yr un; bydd ein gwreiddyn yn bydredd, a'n blodeu yn dyrchafu fel llwch yn oriau marw. Am hyny, ystyriwn ein cyflwr, rhag i ni fod yn y diwedd yn ynfyd.

II. Sylwn ychydig ar y cyff goruwch naturiol, yn yr hwn yr impir y cangenau a dorir oddiar y cyff naturiol. Gelwir Iesu Grist weithiau, y *Blaguryn,* Zech. iii. 8. Felly y mae o ran ei natur ddynol; yn flaguryn, ac yn frig flaguryn o dŷ Dafydd. Weithiau fe'i gelwir *yn wreiddyn,* Esay xi. 10 Mae y ddau gyda'u gilydd yn Dat. xxii. 16. "Myfi yw gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd." Gwreiddyn Dafydd, fel Duw, a'i hiliogaeth fel dyn. Mae'r testyn yn dywedyd mai efe yw y winwydden, h.—y. efe, fel Cyfryngwr, yw cyff y winwydden, o'r hon, credinwyr yw y cangenau. Fel y mae y nodd yn dyfod o'r ddaear i'r gwreiddyn a'r boncyff, ac oddiyno yn cael ei drosglwyddo i'r cangenau; felly trwy Grist fel Cyfryngwr, mae bywyd ysprydol yn cael ei drosglwyddo o'i ffynnon, i'r rhai a unir âg ef trwy ffydd, Ioan vi. 57, "Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy y Tad; felly yr hwn sy'n fy mwyta i, yntau a fydd byw trwof fi." Yn awr mae Crist yn Gyfryngwr, nid fel Duw yn unig, fel yr haerodd rhai; nac ychwaith fel dyn yn unig, fel y dywaid y

Pabyddion; ond y mae efe yn Gyfryngwr fel Duw-ddyn, Act. xx. 28.

"Eglwys Duw, yr hon a bawrcasodd efe â'i briod waed," Heb. ix. 14. "Crist, yr hwn trwy yr Yspryd tragywyddol, a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw." Mae gan y natur ddynol a'r natur ddwyfol eu gweithrediadau priodol, eto maent yn cyd-weithredu yn ei weinyddiad o'i swydd Gyfryngol. Eglurir hyn trwy y gyffelybiaeth o gleddyf tanllyd, yr hwn sydd ar unwaith yn tori ac yn llosgi: mae'n llosgi wrth dori, ac yn tori wrth losgi; mae'r dur yn tori, a'r tân yn llosgi. Gan hyny Crist, y Duw-ddyn, yw y cyff, a'r credinwyr yw y cangenau; ac fe'u hunir â Christ cyfan; fe'u hunir âg ef yn ei natur ddynol, fel "aelodau o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef," Eph. v. 30; Ac fe'u hunir âg ef yn ei natur ddwyfol, fel y dywaid yr Apostol am yr undeb hwn, "Crist ynoch chwi gobaith y gogoniant," Col. i. 27. A thrwyddo ef, maent wedi eu huno â'r Tad, ac â'r Yspryd Glân, 1 Ioan iv. 15, "Pwy bynag a gyffeso fod Iesu yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw." Mae ffydd, rhwymyn yr undeb hwn, yn derbyn Crist yn gyflawn, yn Dduw-dyn; ac felly yn ein huno âg ef fel y cyfryw.

Gwelwch yma, O gredinwyr, eich braint oruchel. Yr oeddych unwaith yn gangenau o'r cyff afrywiog. fel eraill; ond yr ydych trwy ras, wedi eich gwneuthur yn gangenau o'r wir *winwydden,* Ioan xv. 1. Fe'ch torwyd oddiar y cyff marwol; ac fe'ch impiwyd yn "yr Adda diweddaf, a wnaed yn yspryd yn bywhau," 1 Cor. xv. 45. Mae eich colled yn yr Adda cyntaf wedi ei gwnëyd i fynu gydag ennill mawr, trwy eich hundeb â'r ail Adda. Nid oedd Adda yn ei gyflwr goreu ond prysgen, mewn cydmariaeth i Grist, pren y bywyd. Gwas oedd Adda; Mab yw Crist, yr etifedd, ac Arglwydd y cwbl, yr Arglwydd o'r nef. Ni ellir gwadu, nad oedd gras yn y cyfammod cyntaf; ond mae gras yr ail gyfammod yn rhagori cymmaint arno, ag yw canol dydd ar y wawr-ddydd.

III. Pa gangenau a gymmerir oddiar y cyff naturiol, ac a impir yn y winwydden hon? *Atteb.* Yr etholedigion, ac nid neb ereill. Hwynt hwy a hwy yn unig, a impir yn Nghrist; ac felly hwy yn unig a dorir oddiar y boncyff marwol. Canys

tywyll; ac yn dwyn y dyn i weled mai dyn colledig yw, os ne-thry efe ddalen newydd, a byw bywyd newydd.

Fel hyn, 'trwy i Yspryd yr Arglwydd weithio fel yspryd caethiwed, mae llys barnol yn cael ei godi yn mynwes y dyn, lle mae efe yn cael achwyn arno, ei gyhuddo, a'i gondemnio am dori cyfraith Duw, ei "argyhoeddi o bechod ac o farn," Ioan xvi. 8. Ac yn awr ni all efe gysgu yn esmwyth mwy yn ei hen gyffwr. Dyma y dyrnod cyntaf mae y gangen yn ei gael, wrth ei thori ymaith.

*Yn ail,* Ar hyn mae dyn yn gadael ei hen ffordd lygredig, dywedyd celwydd, tyngu, tori y Sabboth, lladrata, a'r cyffelyb aiferion. Er iddynt fod mor anwyl ganddo a'r llygad de, fe'u gad yn hytrach na damnio ei enaid. Mae'r llong yn debyg o suddo; am hyny mae'n taflu y dodrefn tros y bwrdd, rhag iddo ef ei hun gyfrgolli. Ac yn awr mae efe yn dechreu ymfendigo yn ei galon, ac yn ymlawenychu yn ei hawl i'r nefoedd, gan feddwl ei hun yn well gwas i Grist na llawer eraill, Luc xviii. 11. "O Dduw, yr wyf yn diolch i ti, nad wyf fi fel y mae dynion eraill, yn drawsion, yn anghyfiawn, yn odinebwyr," &c. Ond y mae efe yn cael dyrnod arall yn fuan gan fwyall y gyfraith, gan ddangos iddo mai yr hwn a wnelo y pethau sydd yn ysgrifenedig yn llyfr y gyfraith a achubir trwyddi; a bod ei sancteiddrwydd o ommeddiad yn rhy ysgafn i'w guddio rhag ystorm digofaint Duw. Ac yn awr, er mai ei bechod o wneuthuriad oedd o'r blaen yn ei flino, mae ei bechod o ommeddiad yn awr yn dechreu llenwi ei feddwl, yn cael ei ddilyn â lliaws o felldithion y ddeddf, a digofaint; ac y mae pob un o'r deg gorchymyn, yn taranu digofaint yn ei erbyn ef, am iddo ommedd gwneuthur y dyledswyddau gorchymynedig.

*Yn drydydd,* Ar hyn mae yn troi i fyw bywyd sanctaidd. Nid yn unig mae yn peidio byw yn halogedig, ond mae yn cyflawni dyledswyddau crefyddol: mae yn gweddïo, yn ymgyrhaedd am wybodaeth yn egwyddorion crefydd, yn manwl gadw y sabboth, ac fel Herod, yn gwneuthur llawer o bethau, ac yn gwrando pregethau yn llawen. Mewn gair, mae diwygiad mawr yn ei ymarweddiad o ran llythyren dwy lech y gyfraith. Ac yn awr mae cyfnewidiad mawr ar y dyn, fel y mae ei gymmydogion yn dechreu sylwi arno. Yna fe'i der-

bydd yn llawen i gymdeithas y duwiolion, fel gweddïwr, ac yn un a all ymddiddan â hwynt am bethau crefyddol, ie, ac am brofiad enaid, ag sy'n ddieithr i lawer. Ac y mae eu bod hwy yn meddwl yn dda am dano, yn gwneuthur iddo feddwl yn well am dano ei hun. Mae y cyrhaeddiadau hyn mewn crefydd yn farwol i bawb, sydd heb gael dim ond hyn. Ond mae yr Arglwydd yn rhoi dyrnod pellach i'r gangen etholedig. Mae cydwybod yn gwaeddi yn wyneb y dyn, am ryw gam ymddygiad yn ei fuchedd: esgeulusiad o ryw ddyledswydd, neu gyflawniad o ryw bechod yr hyn sydd balldod yn ei fuchedd: ac yna mae cleddyf tanllyd y gyfraith yn ymddangos uwch ei ben; ac y mae melldith yn rhuo yn ei glustiau, am "nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt," Gal iii. 10.

*Yn bedwerydd,* Yna mae yn rhaid iddo ef chwilio am eli arall i'w ddolur. Mae efe yn myned at Dduw, yn cyffesu ei bechod, yn ceisio maddeuant am dano, ac yn addaw gwylied rhagddo o hyn allan; ac felly yn cael llonyddwch, ac yn meddwl y gwna hyn y tro, gan fod yr Ysgrythyr yn dywedyd, "Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau," Ioan i. 9. heb ystyried ei fod yn ymgyrhaedd at ragorfraint sy'n perthyn yn unig i'r rhai a impiwyd yn Nghrist, ac sydd yn y cyfammod gras, a'r hyn ni all y cangenau ar yr hen foncyff honno hawl ynddi. Ac weithiau, mae addunedau ffurfiol a phendant yn cael eu gwneuthur yn erbyn rhyw bechodau, ac i gyflawni rhyw ddyledswyddau. Fel hyn y mae llawer yn myned y'mlaen eu holl ddyddiau; heb wybod am un grefydd ond cyflawni dyledswyddau, a chyfesu, a gweddïo am faddeuant o'r hyn y byddant yn pallu ynddo; yn addaw iddynt eu hunain fywyd tragywyddol, er eu bod yn hollawl ddïeithr i Grist. Yma y bwriwyd amryw o'r etholedigion i lawr dan eu clwyfau, ac y lladdwyd llawer o'r rhai anghymmeradwy; tra nad oedd clwyf yr un o honynt yn ddigon dwfn i'w tori oddiar eu gwreiddyn naturiol. Ond y mae Yspryd Duw yn rhoi trymach dyrnod drachefn i'r gangen sydd i'w thori i lawr; gan ddangos iddo, mai sant allanol yn unig yw efe eto; a dangos iddo y chwantau tüeiddol oedd yn llechu yn ei galon, yr hwn yr oedd efe heb sylwi arnynt o'r blaen, Rhuf. vii. 9. "Pan ddaeth y gorchymyn, yr adfywiodd pechod, a minnau fum farw." Yna mae efe yn gweled ei galon yn

domen o chwantau uffernol, wedi ei llenwi o gybydd-d[illegible] balchder, malais, ffieidd-dra, a'r cyffelyb. Yn awr, [illegible] gynted ag yr agorir drws ei stafell ddelwau ef yn y modd yr[illegible] ac iddo gael golwg ar yr hyn ag oedd yn cael ei wneut[illegible] yn y tywyllwch, mae ei grefydd allanol yn cael ei th[illegible] ymaith fel peth annigonol; ac y mae efe yn dysgu gw[illegible] newydd mewn crefydd,—sef, "Mai nid yr hwn sydd y[illegible] amlwg sydd Iuddew," Rhuf. ii. 28.

*Yn bummed,* Ar hyn mae efe yn myned yn mhellach, s[illegible] at grefydd du fewnol; mae yn ymosod i weithio yn f[illegible] awyddus nag erioed, yn galaru am ddrwg ei galon; ac yn ymdrechu i gadw i lawr y chwyn y mae efe yn ganfod yn tyfu yn yr ardd ddirywiedig hono. Mae yn ymdrechu i ffrwyno ei falchder a'i ddrwg dymmer, ac i ddiddymu pob anmhuredd; mae yn gweddïo yn daerach, yn gwrando yn ddyfal, ac mae yn ymdrechu wrth gyflawni dyledswyddau crefyddol, am gael rhinwedd trwyddynt i'w galon; ac fel hyn mae yn dyfod i feddwl ei hun, nid yn Gristion allanol yn unig, ond yn Gristion tufewnol hefyd. Na ryfeddwch am hyn; canys nid oes dim yn hyn tu hwnt i allu natur, neu y peth a all un gyrhaeddyd, dan weithrediadau grymus y cyfammod gweithredoedd. Gan hyny, mae dyrnod pellach yn cael ei roddi. Mae y ddeddf yn pwyso hyd adref ar gydwybod y dyn, ei fod yn droseddwr o'r bru; ei fod wedi dyfod i'r byd yn greadur euog; a'i fod yn amser ei anwybodaeth, ac hyd yn nod wedi agoryd ei lygaid, yn euog o lawer o bechodau gweithredol, naill ai wedi eu llwyr anghofio ganddo, neu wedi galaru rhy fychan am danynt: (canys briwiau ysprydol, y rhai ni iachawyd â gwaed Crist, ond a groeniwyd i fynu ryw ffordd arall, buan y digroenir hwynt, ac y torant allan drachefn. Am hyny mae y ddeddf yn ei gymmeryd gerfydd ei wddf, gan ddywedyd, *Tâl yr hyn sydd ddyledus arnat.*

*Yn chweched,* Yna mae'r pechadur yn dywedyd yn ei galon, "Bydd ymarhous wrthyf a mi a dalaf i ti y cwbl oll," ac felly yn ymroi i weithio i ddyhuddo Duw digllon, ac i wneuthur iawn am y pechodau hyn: Mae yn adnewyddu ei edifeirwch, y fath ag ydyw; ac yn dyoddef yn amyneddus y cystudd a roddir arno; ïe, mae yn cystuddio ei hun, gan ymattal rhag pethau cyfreithlon, yn ocheneidio yn drwm, yn wylo'n

chwerw, yn llefain llawer am faddeuant, nes iddo o'r diwedd feddwl ei fod wedi ei gael; wedi iddo fel hyn wneuthur iawn am yr hyn a aeth heibio, mae yn ymroddi i fod yn was ffyddlon i Grist, ac i roi ufudd-dod tufewnol ac allanol, am yr amser i ddyfod. Ond rhaid i'r dyrnod fyned yn nes i'r galon, cyn y syrth y gangen ymaith. Mae yr Arglwydd yn dangos iddo yn nrych y gyfraith, fel y mae yn pechu yn yr hyn oll mae yn ei wneuthur; ie, pan mae yn gwneuthur oreu gallo; ac am hyny mae y swn dychrynllyd yn dychwelyd i'w glustiau. Gal. iii. 10, "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau," &c. Pan oeddych yn ymprydio ac yn galaru—ai i mi yr ymprydiasoch chwi ympryd, i mi? *Zech* vii. 5. A wna dwfr budr ddillad glân? a wna un pechod gymmod am y llall? Oni chrwydrodd eich meddwl wrth gyflawni y cyfryw ddyledswydd? ac onid oedd eich serch yn rhy oer yn y llall? oni chofleidiodd eich calon ryw eilun neu gilydd? ac oni fuoch yn anesmwyth o dan gystuddiau? "A fyddaf fi foddlon i hyny o'ch llaw chwi, Melldigedig yw y twyllodrus, yr hwn a abertho un llygredig i'r Arglwydd," Mal. i. 13, 14. A thrwy hyn mae'n tori i fynu, fel y mae yn gweled nad yw yn alluog i dalu gofynion y ddeddf.

*Yn seithfed,* Yna, fel dyn wedi tori, yn gweled nad ydyw efe yn abl i dalu ei ddyled, mae yn myned o amgylch i wneuthur cyfrandaliad (*compound*) i'w ofynwyr: a chan ei fod am gael llonyddwch a chysur, mae'n gwneuthur yr hyn a allo i gadw y ddeddf; a'r lle bo yn ffaelu, mae'n dysgwyl i Dduw gymmeryd yr ewyllys yn lle'r weithred, Felly trwy wneuthur ei ddyledswydd ac ewyllysio gwneuthur yn well; mae'n perswadio ei hun i feddwl yn dda am ei gyflwr; a thrwy hyn, mae miloedd yn cael eu dinystrio. Ond mae yr etholedigion yn cael dyrnod arall, sy'n peri iddynt ollwng eu gafael yn y cyflwr hwn. Mae athrawiaeth y ddeddf yn cael ei dwyn i'w cydwybodau, gan ddangos iddynt, ei bod yn gofyn ufudd-dod perffaith a manwl, dan boen y felldith; ac mai gwneuthur, ac nid ewyllysio a lwydda. Ni wna ewyllysio gwneuthur yn well atteb i ofynion y gyfraith: ac yna mae y felldith yn swnio drachefn, "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros—i'w *gwneuthur* hwynt;" hyny yw, eu gwir wneuthur. Ofer gan hyny, yw ewyllysio.

*Yn wythfed*, Wedi anobeithio gallu gwneuthur cyfrandal-iad i'r gyfraith, mae'n myned i ddechreu benthyca. Mae'n gweled fod yr hyn oll a all efe wneuthur i ufuddhau i'r ddeddf, a'i holl ddymuniad i wneuthur yn well, yn fyr o achub ei enaid; yna mae yn myned at Grist, gan ertyn ei gyfiawnder ef i wneuthur i fynu yr hyn sy'n ddiffygiol yn ei gyfiawnder ei hun, a chuddio yr hyn sydd yn ddiffygiol yn ei waith a'i ddy-oddefiadau; fel drwy hyny y byddai i Dduw er mwyn Crist, eu cymmeradwyo, ac felly cael ei gymmodi. Ac fel hyn trwy wneuthur yr hyn a allo i gadw y gyfraith, a dysgwyl i Grist i wneuthur i fynu ei holl ddiffygiadau; felly, o'r diwedd, mae efe yn dyfod i gysgu yn groengyfan eto. Mae llawer yn cael eu dinystrio y ffordd hon. Dyma oedd cyfeiliornad y Galatiaid, ag y mae Paul yn ei Epistol atynt yn dadleu yn ei erbyn. Ond y mae Yspryd Duw yn tori y pechadur oddi-wrth y gafael hwn hefyd; trwy wasgu ar ei gydwybod y geiriau syml hyny, "A'r ddeddf nid yw o ffydd, eithr y dyn a wna y pethau hyny a fyd byw ynddynt." Ni ellir cymmysgu y ddeddf a ffydd yn yr achos hwn; rhaid i'r pechadur ddal gafael yn un o honynt, a gollwng y llall; canys y mae llwybr y ddeddf a llwybr ffydd mor wahanol, fel y mae yn annhosibl i bechadur rodio yn y naill heb adael y llall; ac os am weithio y mae efe, rhaid iddo wneuthur y cwbl ei hunan, ni wna Crist ran iddo, os na chaiff wneuthur y cwbl. Nid yw gwisg wedi ei chlytio i fynu o amryw fath o gyfiawnder, yn addas i lys y nefoedd. Fel hyn mae y dyn oedd yn breuddwydio, ac yn meddwl ei fod yn ymborthi, yn cael ei ddeffroi trwy y dyrnod, ac wele ei enaid yn llewygu mae ei galon yn suddo ynddo fel careg; tra y mae yn canfod na all efe ddwyn ei faich ei hun, na chael cymmorth o dano.

*Yn nawfed*. Beth all un wneuthur, yr hwn mae'n rhaid iddo dalu, ac heb fod ganddo, o'i eiddo ei hun, i'w ddwyn o'i ddyled, ac ni all efe gael benthyg cymmaint a hyny, a chael dota sydd gywilyddus ganddo? beth a all y cyfryw ei wneuthur, meddaf, ond gwerthu ei hun, fel y gwr tlawd dan y gyfraith? Lef. xxv. 47. Gan hyny, mae y pechadur, wedi ei dori o bob gafael, yn myned i wneuthur cytundeb a Christ ac i werthu ei hunan i Fab Duw (os gweddus yr ymadrodd) gan addaw ac addunedu yn syml bod yn was i Grist tra byddo efe byw, os ceidw ef ei enaid. Ac yma yn fynych mae y pechadur yn gwneuthur cyfammod personol â Christ

ddi ei hunan i fynu iddo ar y telerau hyn; ïe, ac yn
ryd y sacrament i rwymo y cytundeb. Bellach, gofal
y dyn yw, pa fodd i ufuddhâu i Grist, cadw ei orch-
m, a chyflawni y cytundeb. Ac yn hyn, mae yr enaid
l heddwch gau a sigledig dros enyd, nes i Yspryd yr
ydd roi dyrnod arall iddo, i'w ddwyn o'r noddfa celwydd
fyd. A gwneir hyny fel hyn; pan ballo efe yn ei holl
wyddau, a syrthio i'r pechod yr ymgyfammododd efe
yn, mae ei gydwybod yn ei gyhuddo yn drwm fod ei
nod wedi ei dori; felly derfydd ei holl gysur, ac y mae
nfeydd yn ail-ymaflyd yn ei enaid, am iddo dori ei gyf-
a Christ. Ac yn gyffredin, mae y dyn, tu ag at gyn-
yo ei hun, yn adnewyddu ei gyfammod, ond yn ei dori
o'r blaen. A pha fodd y dichon fod yn amgen, gan
eto ar yr hen wreiddyn? Felly nid yw gwaith llawer
ddyddiau y'nghylch eu bieneidiau, ddim ond gwneuthur
neuthur y fath gyfammod drosodd a throsodd drachefn
*thddadl.* Fe allai y dywaid rhai, Pwy sy yn byw heb
pwy sydd heb ballu yn ei ddyledswyddau? Os ydych
arnu y cyflwr hwn yn un peryglus, Pwy gan
a all fod yn gadwedig. *Atteb.* Bydd gwir gredinwyr
dwedig, sef yr holl rai trwy ffydd sydd yn cymmeryd
yn nghyfammod Duw. Canys cyfammod o waith dyn-
y fath yma o gyfammod, wedi ei ddychymmygu yn eu
u eu hunain; ac nid cyfammod Duw a ddatguddir
efengyl yw; ac nid yw ei wneuthuriad ddim amgen na
thur cyfammod gweithredoedd â Christ, a chym-
y ddeddf a'r efengyl; cyfammod yw hwn na ddyry efe
mo ei law wrtho, er i ni ei selio â gwaed ein calonau,
iv. 14, "Canys os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifedd-
wnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym," adn. 16.
hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras fel y
i yr addewid yn sicr i'r holl had," Pen. xi. 6. Ac os o
id o weithredoedd mwyach; os amgen nid yw gras yn
wyach. Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach;
gen nid yn gweithred yn weithred mwyach." Mae cyf-
d Duw yn dragywyddol; os unwaith ynddo ef, ynddo
byth, ac y mae ei drugareddau yn *drugareddau sicr*,
lv. 3. Ond cyfammod sigledig yw eich cyfammod chwi;
mser yn ansicr, yn tori bob dydd. Cyfammod caeth-

iwus yw, i wasanaethu Crist am iechydwriaeth. Ond ammod mabaidd yw cyfammod Crist, yn yr hwn y m pechadur yn derbyn Crist a'i iechydwriaeth fel y cym hwy yn rhad, ac felly yn dyfod yn fab, Ioan i. 12. Ond nifer ag a'i derbyniasant ef; efe a roddes iddynt allu i fo feibion i Dduw;" Ac wedi dyfod yn fab, mae yn gwa aethu ei dad, nid er mwyn cael yr etifeddiaeth, ond o herv ei bod yn eiddo iddo ef trwy Grist, Gwel Gal. iv. 24, i' wedd. Prynu gan Grist âg arian ydyw myned i'r cyfam bastardaidd hwn; ond prynu Crist "heb arian ac heb wer yw cymmeryd gafael yn ei gyfammod ef, Esay lv. 1, l yw, deisyfu ganddo. Yn y cyfammod hwnw mae dynion gweithio am fywyd; y'nghyfammod Duw maent yn dyfo Grist am fywyd ac yn gweithio oddiar fywyd. Pan ball yn ei ddyledswydd yn y cyfammod hwnw, darfu y c rhaid gwneuthur y cyfammod drosodd drachefn; ond gyfammod Duw, er i'r dyn ballu yn ei ddyledswydd, ac pall, fyned dan ddysgybliaeth y cyfammod, a gorwedd d phwys, nes iddo fyned o newydd at waed Crist am fadde ac adnewyddu ei edifeirwch; eto mae'r holl bethau yn ddiriedai efe iddynt am fywyd ac iechydwriaeth, sef cyfi der Crist, yn sefyll yn safadwy, a'r cyfammod yn parh gadarn. Gwel Rhuf. vii. 24, 25, a viii. 1.

Yn awr, er fod rhai dynion yn treulio eu hoes yn gwne ac yn tori y cyfryw gyfammodau; mae y dychryn am e yn myned wanach wanach, nes o'r diwedd iddynt fyn hollawl esmwyth a di ofid; eto mae y dyn, yn yr hwn y y gwaith da yn cael ei ddwyn y'mlaen, yr hwn a or trwy ei dori oddi ar yr hen foncyff, yn dyfod i weled ammod hwn, fel rhaffau wedi braenu, ac yn tori ar y cyfi iad lleiaf; ac y mae ofn yr Arglwydd yn gwasgu ar pryd, a'r dyfroedd bob tro yn dyfod i mewn hyd at yr fel y mae'n gorfod gollwng ei afael o'r fath gyfammod, a io cymmorth o le arall

*Yn ddegfed.* Gan hyny, mae'r dyn o'r diwedd yn d erfyn am drugaredd at ddrws Crist, eto cardotwr bal efe, yn sefyll ar ei haeddiant personol ei hun. Canys, mae gan y Pabyddion gyfryngwyr eraill, i erfyn drostyn law yr unig Gyfryngwr; felly mae gan ganghenau y foncyff, ryw beth i'w ddwyn y'mlaen, yr hyn, maen

meddwl a'u cymmeradwya gydâ Christ, ac a wna iddo gymmeryd eu hachos mewn llaw. Ni allant feddwl dyfod i'r farchnad ysprydol, heb arian yn eu dwylaw. Maent fel dynion a'n meddiannu etifeddiaeth, ond wedi eu darostwng i dlodi dirfawr, ac yn gorfod cardota. Pan ddelont i gardota, maent yn cofio eu sefyllfa gynt; ac er eu bod wedi colli eu cyfoeth, eto maent yn meddiannu llawer o'r un yspryd ag o'r blaen; felly maent yn meddwl na ddylid eu trin fel cardotwyr cyffredin, ond eu bod yn haeddu parch neillduol; ac os na roddir hyny iddynt, mae eu hyspryd yn chwerwi tu ag at yr hwn y byddont yn gofyn cymmorth ganddo. Felly mae Duw yn rhoi llawer o drugareddau cyffredin i'r pechadur ystyfnig; ac nid yw yn ei ddamnio, yn ol ei haeddiant: ond nid yw yr holl bethau hyn yn ddim yn ei olwg. Rhaid iddo ef gael eistedd wrth fwrdd 'plant; onide mae yn barod i farnu ei fod yn cael ymddwyn yn galed ato, ac yn cael cam; canys ni ddygwyd ef eto mor sel, ag i feddwl y "Cyfiawnheir yr Arglwydd pan lefaro (yn ei erbyn) ac y bydd bur (oddiwrth bob anwiredd) pan farno efe ef, yn ol ei haeddiant," Ps. li. 4. Mae yn meddwl ei fod, hyd yn nod cyn ei oleuo, yn well na llawer eraill; mae'n cyfrif diwygiad ei fywyd, ei edifeirwch, ei alar a'i ddagrau o herwydd ei bechod, ei ddymuniad aifritol am Grist, ei weddiau, a'i ymdrech am drugaredd; ac yn eu harfer fel gwobr am drugaredd, gan roi pwys mawr arnynt yn ei weddïau wrth orsedd gras. Ond yma mae yr Yspryd Glân yn saethu lliaws o saethau i'w galon, trwy ba rai y mae ei hyder yn y pethau hyn yn cael ei suddo a'i ddinystrio; ac yn lle meddwl ei hun yn well na llawer, mae'n meddwl ei hun yn waeth na neb. Mae wedi gweled anmherffeithrwydd diwygiad ei fywyd; nid yw ei edifeirwch ddim gwell yn ei olwg nag edifeirwch Iudas, ei ddagrau fel Esau, a'i ddymuniadau am Grist yn hunanol a ffiaidd fel y rhai oedd yn ei geisio *er mwyn y torthau*, Ioan vi. 26. Mae'n dychymmygu mai atteb Duw iddo yw, Ymaith, gardotyn balch, pa fodd y rhoddaf di y'mysg y plant? Mae'n meddwl ei fod yn edrych yn sarug arno, am iddo ddiystyru Crist trwy anghrediniaeth, yr hwn bechod ni chanfu ef o'r blaen. Ond yn awr, mae yn ei weled yn ei liw yscarlad; ac y mae yn cael ei drywanu trwy ei galon megys â miloedd o bicellau, wrth weled fel yr oedd efe yn myned yn mlaen yn ei dywyllwch, gan bechu yn erbyn medd-

yginiaeth pechod, a sathru gwaed Crist dros ei holl fywyd. Ac yn awr, mae yn ei olwg ei hun y gwrthddrych mwyaf truenus i ddïaledd y ddeddf, ie, ac i ddïaledd yr efengyl hefyd.

*Yn unfed ar ddeg*, Wedi i'r dyn gael ei ddarostwng fel hyn, ni wna efe ddadleu mwy, ei fod yn deilwng i Grist wneuthur hyn erddo; ond i'r gwrthwyneb, mae yn edrych arno ei hun yn annheilwng o Grist, ac yn annheilwng o ffafr Duw. Gallwn ei gymharu, yn hyn, i'r dyn ieuangc a ddilynodd Grist, "wedi ei wisgo â lliain main ar ei gorph noeth, a'r gwyr ieuaingc a'i daliasant ef. A hwn a adawodd y lliain ac a ffôdd oddiwrthynt yn noeth," Marc xiv. 51, 52. Felly, bu y dyn yn dilyn Crist yn ngwisg oer a theneu ei haeddiant personol ei hunan: ond gerfydd hon, ie hon ag yr oedd efe yn ymddiried cymmaint ynddi, mae y gyfraith yn cymmeryd gafael ynddo, i'w wneuthur yn garcharor; ac yna, mae'n gorfod ei gadael, a ffoi ymaith yn noeth; eto nid at Grist, ond oddiwrtho. Os dywedwch wrtho fod croesaw iddo ddyfod at Grist, os daw efe ato, mae yn dueddol i ddywedyd, A oes croesaw i'r fath druan gwael ac annheilwng a myfi i ddyfod at Iesu sanctaidd? Os rhoddir plastr wrth ei glwy, ni lyna. Mae'n dywedyd, "Dos ymaith oddiwrthyf, canys dyn pechadurus wyf fi, O Arglwydd," Luc v. 8. Nid gwiw dywedyd wrtho am ei edifeirwch tuag at ei gysuro; efe a wel ddigon o feiau ynddo i'w wneyd yn ddiles; nac am ei ddagrau, canys y mae efe yn sicr nad aethant erioed i gostrel yr Arglwydd. Mae trwy amheuon yn cilio oddiwrth Grist; ac yn penderfynu yn awr, o herwydd iddo fod y fath ddibrisiwr o Grist, ac yn fath greadur halogedig ac ansanctaidd, na all, ac na fyn, ac na ddylai ddyfod at Grist; ac y bydd raid iddo fo[...] mewn cyflwr gwell, ac onidê na chred efe byth. Ac yn aw[r] mae yn gwneuthur ei oreu i ddiwygio yn y pethau yr oed[d] efe yn fyr ynddynt o'r blaen. Mae yn gweddïo yn daerac[h] nag erioed, yn wylo yn chwerw, yn ymdrechu yn fwy difrif[ol] yn erbyn pechod yn ei galon a'i fywyd, ac yn gwylio y[n] ddyfalach; i edrych a fydd efe o'r diwedd yn gymhwys i ddyfod at Grist. Gallai un feddwl yn awr fod y dyn yn ddigon gostyngedig: ond Oh! mae balchder dieflig yn llechu o dan y gostyngeiddrwydd ymddangosiadol hwn. Fel cangen rywiog o'r hen foncyff, mae yn glynu o hyd, ac 'ni ymddarostwng i gyfiawnder Duw," Rhuf. x. 3. Ni ddaw i farchnadfa rhad ra[s]

heb arian. Fe'i gwahoddir i ddyfod i brïodas Mab y Brenin lle mae y Prïod fab ei hun yn addurno yr holl wahoddedigion, â gwisgoedd prïodas, gan eu rhiosg o'u rhai eu hunain: ond ni ddaw efe, o herwydd ei fod heb yr un wisg brïodas; pa fodd bynag, y mae efe yn dra phrysur yn gwneuthur un yn barod. Gwaith gresynol yw hyn; a chan hyny rhaid iddo gael dyrnod trymach eto, onidê fe'i cyfrgollir. Fe rodoir y dyrnod hwn gyda bwyall y gyfraith, yn ei gallu anwrthwynebol. Felly mae y ddeddf yn rhwymo ei enaid â rhaffynau angeuol, ac yn ei ddal i mewn gyda'r gorchymyn llymdost o ufudd-dod dan boen y felldith; ac y mae Duw, yn ei drefn ddoeth a sanctaidd, yn tynu yn ol ei ras attaliol; mae llygredd yn cyffroi, chwantau yn dyfod yn dra ffyrnig; a pho mwyaf eu gwrthwynebir, mwyaf creulon maent yn myned, fel march ffromwyllt, a ddalier â genfa. Yna mae llygredigaethau yn codi eu penau, na welodd efe erioed ynddo ei hun o'r blaen. Yma yn fynych mae annuwiaeth, cabledd, ac mewn gair, pethau dychrynllyd mewn perthynas i Dduw, meddyliau ofnadwy am y ffydd, yn codi yn ei galon: fel y mae ei galon yn uffern o'i fewn. Yna, tra y mae efe yn ysgubo tŷ ei galon, yr hwn sydd eto heb ei ddyfrhâu â grâs yr efengyl, mae y llygredigaethau hyn, y rhai oedd yn gorwedd yn llonydd o'r blaen mewn conglau dirgel, yn codi i fynu ynddo fel llwch. Mae efe fel un yn adgyweirio argae, a thra fyddo efe yn gwneuthur y bylchau i fynu, ac yn cadarnhâu pob darn o hono, mae llif mawr yn dyfod, ac yn dadymchwelyd ei waith, ac yn gyru'r cwbl o'i flaen, y gwaith newydd cystal a'r hen. Darllenwch, Rhuf. vii. 8, 9, 10, 13. Dyma ddyrnod, ag sy'n myned i'r galon: a thrwy hwn, mae ei obaith am ddyfod yn addasach i fyned at Grist, yn darfod.

*Yn olaf,* O'r diwedd; mae y dyn, rhwng hyder ac anobaith, yn ymroddi i ddyfod at Grist fel y mae: a chan hyny, mae fel dyn wrth farw, yn ymestyn, cyn i'w anadl fyned allan, efe a eilw y'nghyd alluoedd gweiniaid ei enaid, a gais gredu, ac mewn rhyw fodd, a gymmer afael yn Iesu Grist. Ac yn awr, mae y gangen yn glynu wrth yr hen foncyff, gerfydd llinyn gwan ffydd naturiol, a weithredir gan nerth naturiol ei yspryd ei hun, dan eithaf gwasgfa ac angen. Ps. lxxviii. 34, 35. "Pan laddai efe hwynt, hwy a'i ceisient ef; ac a ddychwelent, ac a geisient Dduw yn fore. Cofient he-

fyd mai Duw oedd eu Craig, ac mai y Goruchaf Dduw oedd eu Gwaredydd." Hos. viii. 2. "Israel a lefant arnaf, Fy Nuw, nyni a'th adwaenom di." Ond mae yr Arglwydd, er mwyn cyflawni ei waith, yn rhoi dyrnod yn mhellach, trwy yr hwn y mae y gangen yn llwyr gwympo ymaith. Mae Yspryd Duw yn amlwg ddangos i'r pechadur ei hollawl analla i wneuthur dim sydd dda: ac felly mae *yn marw*, Rhuf. vii. 9. Mae y geiriau hyny yn myned trwy ei enaid, Ioan v. 44. *Pa fodd y gellwch chwi gredu?* Ni elli gredu, mwy nag y gelli estyn dy law i'r nefoedd, a dwyn Crist i waered oddi yno. Ac felly o'r diwedd, mae yn gweled na all efe gymmorth ei hun trwy weithio, na thrwy gredu: a chan nad oes ganddo ddim i lynu wrth yr hen foncyff mwy, mae yn syrthio ymaith. A thra fyddo efe yn y cyfyngder hwn, yn gweled ei fod yn debyg o gael ei ysgubo ymaith gyda llifeiriant digofaint Duw; heb allu gymmaint ag estyn llaw i gymmeryd gafael mewn brigyn o bren y bywyd, sy'n tyfu ar lan yr afon; mae'n cael ei gymmeryd i fynu, a'i impio yn y wir winwydden, ac y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn rhoi yspryd ffydd iddo.

Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd ar y pen hwn, nid wyf yn bwriadu briwo na thrallodi cydwybodau tyner; canys er nad oes ond ychydig o'r cyfryw y dyddiau hyn, eto na ato Duw, i mi rwystro neb o blant gweiniaid Duw! Ond, och! mae cwsg trwm wedi syrthio ar yr oes hon; ac ni ddeffroant, 'elom mor agos i'r byw ag yr elom: ac am hyn, yr wyf yn ofni fod math arall o ddeffroi yn aros y genedl galon galed hon, a wna i glustiau y neb a'i clywo ferwino. Ond pa fodd bynag, ni ddymunwn i chwi feddwl mai hon yw yr unig ffordd sydd gan yr Arglwydd i dori pechadnriaid oddiar yr hen foncyff: ond hyn wyf yn ei gadarnhâu fel gwirionedd sicr, bod yr holl rai sydd yn Nghrist wedi cael eu tori oddiwrth hyderu yn yr holl bethau a enwyd; a bod y rhai oll sydd heb erioed eu tori oddiwrthynt, yn aros eto ar eu hen foncyff naturiol. Er hyny, os tynwyd y tŷ i lawr, ac os dynoethwyd yr hen sylfaen; nid yw o ddim gwahaniaeth, pa un a dynwyd ef i lawr o gareg i gareg, neu ynte ddarfod cloddio dan y sylfaen, a chwympo o'r cwbl ar unwaith.

Yn awr, yr impir y gangen yn Iesu Grist. Ac megis yr oedd y ddeddf yn llaw Yspryd Duw yn offeryn i dori y gangen oddiar yr hen foncyff naturiol; felly yr efengyl, yn llaw yr un Yspryd, yw yr offeryn a ddefnyddir i'w impio yn

yff goruwch naturiol, 1 Ioan i. 3. "Yr hyn a wel-
: a glywsom, yr ydym yn ei fynegi i chwi, fel y caffoch
rau hefyd gymdeithas gydâ ni: a'n cymdeithas ni yn
dd gydâ'r Tad, a chyd â'i Fab ef Iesu Grist." Gwel
xi. 1, 2, 3. Yr efengyl yw y llinyn arian a ollyngwyd
o'r nefoedd, i dynu pechaduriaid dinystriol i'r lan. Ac
pregethu y ddeddf yn parotoi ffordd yr Arglwydd, eto,
r yr efengyl y mae Crist a phechadur yn cyfarfod. Yn
fel mewn impiad naturiol, mae y gangen yn cael ei
neryd i fyny a'i dodi yn y cyff; ac wedi ei dodi ynddo,
i yn cydio ag ef, ac felly maent yn ymuno: felly hefyd
impiad ysprydol, mae Crist yn ymaflyd yn y pechadur, a'r
dur wedi ymaflyd ynddo gan Grist, sydd yn ymaflyd ynddo
; ac felly maent yn dyfod yn un, Phil. iii. 12.

gyntaf, Mae Crist yn ymaflyd yn y pechadur trwy ei
'd, ac yn ei dynu ato ei hun, 1 Cor. xii. 13, "O her-
trwy un Yspryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph" Yr
pryd ag sydd yn y Cyfryngwr ei hun, y mae efe yn ei
nu i'r etholedigion mewn amser cyfaddas; ac nid yw
yn eu gadael, ond yn aros ynddynt, fel anian bywyd. Fel
mae yn ymaflyd ynddynt, trwy ei yspryd ei hun a roddes
ynt; ac felly mae y gangen wywedig yn cael bywyd.
yr enaid yn awr yn llaw Arglwydd y bywyd, ac wedi ei
nnu gan yspryd y bywyd; pa fodd gan hyny, na bydd
w? mae y dyn yn cael hyfrydlawn olwg ar ragoroldeb Crist,
ych yr efengyl: mae yn ei weled yn Iachawdwr cyflawn,
, ac ewyllysgar, ac y mae yn cael calon i'w gymmeryd,
: yn lle pob peth. Mae yspryd ffydd yn ei gynnysgaeddu
'aed i ddyfod at Grist, ac â dwylaw i'w dderbyn. Yr
na allai ei wneuthur wrth natur, gall ei wneuthur trwy
gan fod yr Yspryd Glân yn gweithio ynddo waith ffydd
nerth.

ail, Mae y pechadur wedi cael ymaflyd ynddo fel hyn,
naflyd yn Nghrist trwy ffydd, ac felly yn asio â'r bon-
bendigaid, Eph. iii. 17, "Ar fod Crist yn trigo trwy
yn eich calonau." Mae yr enaid oedd o'r blaen yn ym-
nu am ddiangc lawer o ffyrdd, ond y cwbl yn ofer, yn awr yn
ch eto a llygaid ffydd, yr hyn sy'n troi allan yn olwg
iol. Fel gwialen Aaron, yr hon a roddwyd i gadw yn y

tabernacl yr hon a flagurodd, ac a fwriodd flagur, Num. xvii. 8; felly am y gangen farwol, wedi ymaflyd ynddi gan Arglwydd y bywyd, yn cael ei rhoddi yn, ac yn ymgydio â'r cyff gogoneddus a bywiol trwy Yspryd y bywyd, mae yn blaguro trwy gredu yn wirioneddol yn Nghrist, trwy yr hyn y perffeithir yr undeb hwn. "A chan fod genym yr un yspryd ffydd,—Yr ydym ninnau hefyd yn credu," 2 Cor. iv. 13. Felly mae y gangen a'r cyff yn ymuno, mae Crist a'r cristion wedi ymbrïodi: a ffydd yw cydsyniad yr enaid â'r cyfammod prïodasol; yr hwn, megis y mae yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl i ddynolryw pechadurus, yn gyffredinol, felly y mae yn cael ei egluro, ei dystiolaethu, a'i ddwyn adref at y dyn yn neillduol, gan yr Yspryd Glân: ac felly, wedi ei uno â'r Arglwydd, y mae yn un yspryd âg ef. A thrwy hyn, mae y pechadur yn byw yn ac i Grist, a Christ yn byw yn ac i'r pechadur, Gal. ii. 20. "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ: eithr byw ydwyf; eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi." Hos. iii. 3. "Ac na fydd i wr arall; a minnau a fyddaf felly i tithau." Rhwymau yr undeb bendigaid hwn ydyw, yr Yspryd o du Crist, a ffydd o du y credadyn.

Yn awr, mae cyrph ac eneidiau y credinwyr yn cael eu huno a Christ. "Yr hwn a gyssylltir â'r Arglwydd, un Yspryd yw," 1 Cor. vi. 17. Mae cyrph y saint yn cael yr anrhydedd o fod yn "demlau i'r Yspryd Glân," adn. 19; ac "yn aelodau i Grist," adn. 15. Pan fyddant yn huno yn y llwch, maent yn "huno yn yr Iesu," 1 Thess. iv. 14. A thrwy rinwedd yr undeb hwn y cyfodir hwy o'r llwch drachefn, Rhuf. viii. 11. "Yr hwn a fywioca hefyd eich cyrph marwol chwi, trwy ei Yspryd yr hwn sydd yn trigo ynoch chwi." Fel arwydd o'r undeb dirgelaidd hwn, mae yr eglwys, sef credinwyr, yn cael ei galw ar enw ei phen a'i phrïod, 1 Cor. xii. 12, "Canys fel y mae y corph yn un, ac iddo aelodau lawer—felly y mae Crist hefyd."

Defnydd. Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gallwn dynu y casgliadau canlynol:

1. Peth tra angenrheidiol yw pregethu y ddeddf. Rhaid i'r hwn sy'n impio arfer y gyllell docio. Mae gan bechaduriaid lawer ffordd i'w cadw eu hunain oddiwrth Grist, a llawer o bethau i gynnal eu gafael yn y boncyff naturiol; gan hyny

rhaid eu dilyn yn fanwl, a'u hela o'u tyllau a'u noddfâu celwydd.

2. Eto yr efengyl sy'n coroni y gwaith; nid yw y gyfraith yn perffeithio dim. Mae y gyfraith yn agoryd y briw, ond yr efengyl sy'n ei iachâu. Mae y ddeddf yn dïosg dyn, yn ei glwyfo, ac yn ei adael yn hanner marw: mae yr efengyl yn rhwymo ei friwiau, gan fwrw olew a gwin, i'w hiachâu: trwy y ddeddf y torir ni ymaith; ond trwy yr efengyl y codir ni i fyny, ac yr impir ni yn Nghrist.

3. "Od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef," Rhuf. viii. 9. Fe ddywedir fod math o anghenfil yn y byd, ac iddo ddau gorph yn cynnwys dau fath o fywyd, fel yr ymddengys oddiwrth dueddiadau gwahanol ar yr un pryd; ond mor unol, fel y gwasanaethir hwy â'r un coesau. Felly hefyd, er maint a ymlyno dynion wrth Grist, a'u "galwant eu hunain o'r ddinas sanctaidd, a phwyso ar Dduw Israel," Esay xlviii. 2; ac y gellir eu rhwymo fel canghenau ynddo ef, (Ioan xv. 2) trwy rwymau allanol y sacramentau; eto, os nad yw yr yspryd ag sydd yn trigo yn Nghrist, yn trigo ynddynt hwy, nid ydynt yn un ag ef Mae gwahaniaeth mawr rhwng ymlyniad ac impiad. Mae yr eiddew yn ymglymu ac yn troi am y dderwen; eto nid yw yn un â hi, canys y mae er hyny yn tyfu ar ei wreiddyn ei hun: felly, fel y dywedir Esay iv. 1, mae llawer o grefyddwyr yn ymaflyd yn Nghrist, gan "fwyta eu bara eu hun, a gwisgo eu dillad eu hun, yn unig gelwir ei enw ef arnynt." Maent yn ymgynnal arno ef, ond yn tyfu ar eu gwreiddyn eu hunain: maent yn ei gymmeryd ef i gynnal eu gobaith, ond mae eu hyfrydwch ffordd arall.

4. Mae yr undeb rhwng Crist a'i aelodau dirgelaidd yn gadarn ac annattodol. Pe bai onid y credadyn yn dal gafael yn Nghrist, ac heb fod Crist yn dal gafael yn y credadyn, ni fyddai genym ond gobaith gwael am gadernid y fath undeb; gellid ei ddiddymu yn fuan; ond, megis y mae y credadyn yn gafaelyd yn Nghrist trwy ffydd, felly y mae Crist yn gafaelyd ynddo yntau trwy ei Yspryd, ac ni ddwg neb hwynt allan o'i law ef. Pe na byddai dim ond gafael y plentyn yn y fammaeth, gallai cyn hir flino a gollwng ei afael, ac felly syrthio ymaith; ond os ydyw ei breichiau hi am y plentyn, nid oes perygl y bydd iddo syrthio, er na byddai efe yn cydio ynddi hi: felly, er i ffydd ballu yn ei gweithrediad, eto mae yr undeb yn parhâu

yn ddïogel, o herwydd preswyliad arosol yr Yspryd. O Fendigedig Iesu! dy holl saint ydynt yn dy law, Deut. xxxiii. 3. Mae rhai yn sylwi ar y gair *Abba* ei fod yr un fath wrth ei ddarllen yn ol ac yn mlaen; beth bynag fo cyflwr y credadyn, mae yr Arglwydd iddo ef o hyd yn Abba, Dad.

*Yn olaf.* Gafael ansicr yn Nghrist sydd gan bawb y mae efe heb ymaflyd ynddynt trwy ei Yspryd. Mae llawer hanner priodas yma, lle mae yr enaid yn ymaflyd yn Nghrist, ond nid yw Crist yn ymaflyd ynddo ef. Gan hyny, mae llawer yn syrthio ymaith, heb godi byth drachefn: maent yn gollwng eu gafael ar Grist; yna mae y cwbl yn darfod. Dyma y canghenau sydd yn Nghrist heb ddwyn ffrwyth, y rhai y mae y gwinllanydd yn eu tynu ymaith, Ioan xv. 2. *Gofyniad.* Pa fodd y gall hyny fod? *Atteb.* Mae y canghenau hyn wedi eu rhoddi yn y cyff, trwy broffes, neu ffydd ragrithiol ac ansicr; maent wedi eu clymu wrtho, trwy ymarferiad allanol o'r sacramentau; ond nid yw y cyff a hwythau byth yn uno, am hyny ni allant ddwyn ffrwyth. Ac ni raid eu *tori* ymaith. Ond eu *tynu* a wneir gan y gwinllanydd, neu (fel y mae y gair gwreiddiol yn arwyddo) eu codi i fyny ac felly eu cymmeryd ymaith; am nad oes dim i'w cynnal hwynt: maent yn cael eu rhwymo gydâ'r cyff, ond ni unasant erioed ag ef.

*Gofyniad.* Pa fodd y gwybyddaf a ymaflwyd ynof fi gan Grist? *Atteb.* Gellwch gael eich boddloni yn hyn, os ystyriwch, ac os gwnewch gymhwysiad o'r ddau beth canlynol:

*Yn gyntaf.* Pan fyddo Crist yn ymaflyd mewn dyn trwy ei Yspryd, mae efe yn cael ei dynu, fel y mae yn dyfod at Grist â'i holl galon: canys gwir gredu yw credu â'r holl galon, Act. viii. 7. Mae dilynwyr Crist, fel y rhai hyny oedd yn dilyn Saul ar y cyntaf, "dynion y cyffyrddodd Duw â'u calon," 1 Sam. x. 26. Pan mae yr Yspryd yn tywallt yr anorchfygol râs, maent hwythau yn *tywallt eu calonau fel dyfroedd o'i flaen ef,* Psal. lxii. 8. Maent yn dylifo iddo fel afon, Esay ii. 2, "Yr holl genhedloedd a ddylifant ato," sef, i fynydd tŷ yr Arglwydd. Mae yn dangos nid yn unig amlder y dychweledigion, ond tuedd eu hyspryd, yn eu dyfodiad at Grist: maent yn dyfod yn rhydd ac o galon fel rhai yn cael eu tynu a thrugaredd, Ier. xxxi. 3, "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth," Ps. cx. 3. h—y. yn rhwydd, yn barod, ac o galon,

gan roddi eu hunain i ti fel offrymau gwirfoddol. Pan gaffo y Priodfab galon y briodas-ferch, mae hi yn briodas iawn: ond, mae rhai yn rhoi eu llaw i Grist, heb roi eu calonau. Y rhai a yrir at Grist oddiar ddychryn, a'i gadawant ef drachefn pan ymadawo y dychryn. Gall dychryn dori y galon gareg; ond y mae y darnau a dorwyd yn parhâu yn gerig. Ni all y dychrynfeydd ei meddalhâu i fod yn galon gig. Ond gall dychryn ddechreu y gwaith ag y mae cariad yn ei goroni. Ar ol y gwynt cryf, y ddaear gryn, a'r tân, gall y llef ddystaw fain, yn yr hon y mae yr Arglwydd, ddyfod. Pan fo y bendigedig Iesu, yn ceisio pechaduriaid i'w dyweddïo ag ef, maent yn ystyfnig a chyndyn, nid ymddiddanant ag ef, nes iddo ef eu clwyfo, eu carcharu, a'u rhwymo â rhwymau angeuol. Pan welir hyn, yna mae efe yn ymgaredigo â hwynt, ac yn ennill eu calonau. Mae'r Arglwydd yn dywedyd i ni, Hos. ii. 16—20, Y bydd i'w Israel ddewisedig gael eu dyweddïo ag ef Ond pa fodd yr ennillir cydsyniad y briodas-ferch? Yn y lle cyntaf, efe a'i dwg i'r anialwch, fel y gwnaeth efe a'r bobl pan ddygodd hwynt o'r Aipht, adn. 14. Yno yr ymddygir yn galed tu ag ati, ei phoethi â syched, a'i brathu gan seirph: ac yna y llefara efe wrth fodd ei chalon. Ar y cyntaf mae y pechadur yn cael ei yru, ac yna ei ddwyn at Grist. Mae hi ar yr enaid fel ar golomen Noah; fe'i gyrwyd yn ol i'r arch, am na allai gael dim arall i orphwys arno: ond pan ddaeth yn ol, buasai yn gorphwys y tu allan i'r arch, oni buasai i Noah estyn ei law a'i chymmeryd hi i mewn, Gen. viii. 9. Mae yr Arglwydd yn anfon dïalydd y gwaed al ol y llofrudd; ac y mae efe, gydâ chalon alarus, yn gadael ei ddinas ei hun, ac â'r dagrau yn ei lygaid, yn ymadael a'i hen gyfeillion, am na feiddia efe aros gydâ hwynt, ac y mae efe yn rhedeg am ei fywyd i'r ddinas noddfa. Nid hyn yw ei ddewisiad, gwaith o orfod yw. Nid oes ddeddf i angenrhaid. Ond, pan ddelo i byrth y ddinas, a gweled harddwch y lle, mae ei hardderchawgrwydd a'i hawddgarwch yn ennill ei serch; ac yna mae efe yn myned i mewn iddi, o galon ac o rydd-ewyllys, gan ddywedyd, "Dyma fy ngorphwysfa, yma y trigaf;" ac fel y dywedodd un ar achos arall, fe'm dinystriasid, oni buasai fy ninystrio.

*Yn ail.* Pan mae Crist yn ymaflyd yn y pechadur, mae y galon yn cael ei rhyddhâu oddiwrth, ac yn troi yn erbyn pechod. Pan dorer y gangen oddiar yr hen wreiddyn, mae yr

eilun mawr —hunan, yn cael ei ddwyn i lawr, fe rymus ddysgu y dyn i ymwadu ag ef ei hun: felly, trwy i'r Yspryd ymaflyd yn y dyn, fe ddiddymir yr undeb ag oedd rhyngddo a'i chwantau, pan oedd *yn y cnawd*, fel y mae yr Apostol yn dywedyd; Rhuf. vii. 5. Mae ei galon yn cael ei rhyddhâu oddiwrthynt, er eu bod mor anwyl iddo o'r blaen ag aelodau ei gorph; megis ei lygaid, ei draed, neu ei freichiau: ac yn lle cymmeryd pleser ynddynt, fel y gwnaethai o'r blaen, mae yn hiraethu am gael gwaredigaeth oddiwrthynt. Pan mae yr Arglwydd Iesu yn dyfod yn nydd gras i droi yr enaid, mae yn ei gael fel Jerusalem yn nydd ei genedigaeth, (Ezec. xvi. 4.) heb dori ei bogail, yn derbyn ei holl faeth a'i chynnaliaeth o'i chwantau; ond y mae efe yn tori ymaith y gynnaliaeth hon, fel y gosodo efe yr enaid ar fronau ei gysuron ei hun, a rhoi gorphwysfa iddo ynddo ei hun. Ac fel hyn, mae yr Arglwydd yn clwyfo pen a chalon pechod; ac y mae yr enaid yn dyfod at Grist, gan ddywedyd, "Diau mai celwydd a ddarfu i'n tadau ni ei etifeddu, oferedd, a phethau heb les ynddynt," Jer. xvi. 19.

---

### *Am y Budd. sydd yn deilliaw i'r Credinwyr trwy eu Hundeb â Christ.*

V. Ac *yn olaf*, Yr wyf yn dyfod i lefaru am y budd sy'n deilliaw i wir gredinwyr oddiar eu hundeb a Christ. Y bendithion penaf mae credinwyr yn eu cael trwyddo, yw cyfiawnhâd, cymmod, mabwysiad, sancteiddhâd, cynnydd mewn gras, ffrwythlondeb mewn gweithredoedd da cymmeradwyad o'r gweithredoedd da hyny, sefydliad mewn cyflwr o râs, cynnaliaeth, a gofal neillduol Rhagluniaeth am danynt. Mae cymdeithas â Crist yn fath fudd, fel canlyniad digyfrwng o undeb ag ef, ag sydd yn cynnwys ynddo yr holl rasau ereill. Sylwch, fel y mae y gangen, yn ddïoed ar ei hundeb â'r boncyff, yn cael cymmundeb a'r boncyff, yn yr hyn oll sydd ynddo; felly y mae credadyn wedi ei uno â Christ yn cael cymmundeb ag ef: trwy yr hyn y mae efe yn cael ei ddwyn i fôr o ddedwyddwch, ac yn cael ei ollwng i baradwys o fendithion

ma, ac yn cael rhan achubol yn y trysor a guddiwyd yn haes yr efengyl, anchwiliadwy olud Crist. Mor gynted ag yr unir y credadyn â Christ, mae Crist, yn yr hwn y mae pob cyfiawnder yn trigo, yn eiddo iddo, Can. ii 16. "Fy anwylyd sydd eiddof fi, a minnau yn eiddo yntau." A "pha wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?" Rhuf. viii. 32. "Pa un bynag ai Paul, ai Apolos, ai Cephas, ai 'r byd, ai bywyd, a'i angeu, ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod; y mae pob peth yn eiddo chwi," 1 Cor. iii. 22. Felly, cymmundeb â Christ yw y fendith gynhwysfawr, sy'n tarddu yn anghenrheidiol o'n hundeb âg ef Ystyriwn yn awr y bendithion neillduol sy'n deillio o undeb â Christ, y crybwyllwyd am danynt o'r blaen. Y fendith neillduol *gyntaf* mae pechadur yn ei gael trwy ei undeb â Christ, yw cyfiawnhad; canys trwy ei uno â Christ, mae yn cael cymmundeb ag ef yn ei gyfiawnder, 1 Cor. i. 30. "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb ac yn gyfiawnder" Nid yw yn gondemniedig hwy, ond yn gyfiawn ger bron Duw yn Nghrist, Rhuf. viii. 1. "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Y canghenau oddiar hyn yw maddeuant pechod, a chymmeradwyad personol.

1af. Mad ieuwyd ei bechodau, a symudwyd yr euogrwydd. Mae yr ysgrif-rwym (*bond*) oedd yn ei rwymo i dalu y ddyled, wedi ei dirymu Mae Duw y Tad yn cymmeryd y pin, gan ei drochi y'ngwaed ei Fab, yn croesi cyfrif y pechadur, ac yn ei ddileu allan o'i ddyled-lyfr. Mae y pechadur, allan o Grist, yn rhwym i ddigofaint Duw: mae dan rwymedigaeth wrth y gyfraith, i fyned i garchar uffern, ac i fod yno nes talu yr hatling eithaf. Mae hyn yn tarddu oddiar yr awdurdod ofnadwy â'r hwn y mae y ddeddf wedi ei hamddiffyn; dim llai na marwolaeth, Gen. ii. 17. Felly mae y pechadur, oblegid myned dros y terfynau a osodwyd iddo, fel Simei ar achos arall, yn ddyn marwol, 1 Bren. ii. 42. Ond yn awr wedi ei uno a Christ, mae Duw yn dywedyd, "Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn." Iob xxxiii. 24. Mae y gollfarn yn cael ei galw yn ol, y credadyn yn cael ei ollwng, ac yn cael ei osod tu hwnt i gyrhaedd condemniad y gyfraith. Ei bechodau, y rhai oedd o'r blaen yn cael eu gosod ger bron yr Arglwydd, Ps. xc. 8, fel na ellid eu cuddio, mae Duw yn eu

cymmeryd yn awr ac yn "eu taflu oll tu ol i'w gefn," Esay xxxvii. 17; ie, mae yn eu "taflu i ddyfnderoedd y mor," Mic. vii. 19. Gellid cael peth wedi syrthio i ffrwd, i fynu drachefn, ond y peth a fwrir i'r mor, ni ellir ei adferyd. Ond, ie, y mae llefydd bâs yn y mor. Gwir; ond nid yno y mae eu pechodau yn cael eu bwrw, eithr i *ddyfnderoedd* y mor; ac y mae dyfnderoedd y mor yn ddyfnderoedd dinystriol, felly ni ddeuant oddi yno byth. Ond beth os na suddant? Fe'u bwria efe hwynt gyda'r fath rym, fel yr elont i'r gwaelod, a suddo fel plwm yn nyfroedd cryfion gwaed y Cyfryngwr. Nid yn unig fe'u maddeuir, ond fe'u hanghofir, Ier xxxi. 3. "Oblegyd mi a faddeuaf eu hanwireddau hwynt, a'u pechodau ni chofiaf mwyach." Ac er fod eu pechodau ar ol hyn ynddynt eu hunain yn haeddu tragywyddol lid Duw; ac yn wir yn eu gwneuthur yn agored, i wialenodiau dynol, a cheryddon tadol, yn ol trefn y cyfammod gras, Ps. lxxxix. 30—33. eto ni allant byth fod yn weithredol agored i ddigofaint tragywyddol, neu felldith y ddeddf; canys y maent wedi marw i'r ddeddf trwy gorph Crist, Rhuf. vii. 4. Ac ni allant byth syrthio o'u hundeb â Christ; ac ni allant ychwaith fod yn Nghrist, ac yn agored i ddamnedigaeth, Rhuf. viii. 1. "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Casgliad yw hwn a dynir oddiwrth yr athrawiaeth o fod y credadyn wedi marw i'r ddeddf, a grybwyllir gan yr Apostol yn pen vii. 1—6. fel y mae yn amlwg oddiwrth yr 2il, 3edd a'r 4edd adnodau o'r VIII. bennod. Ac, yn yr ystyr yma, y dyn cyfiawn, yw y dyn dedwydd yr hwn nid yw yr Arglwydd yn cyfrif anwiredd iddo, Ps. xxxii. 2. fel un nad oes ganddo ysgrifiad i ofyn dyled gan un arall, nid yw ddim yn ei rhoi i lawr yn ei lyfr.

2il. Cymmeradwyir y credadyn fel un cyfiawn yngolwg Duw, 2 Cor. v. 21 Canys fe'i ceir yn Nghrist heb ei gyfiawnder ei hun, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd, Phil. iii. 9. Ni allai fod yn gymmeradwy ger bron Duw, fel un cyfiawn, yn ei gyfiawnder ei hun: canys anmherffaith yw ar y goreu: ac y mae pob cyfiawnder, teilwng o'r enw, yr hwn a ddeil ei brofi flaen gorseddfainge Duw, yn berffaith. Mae hyd yn nod enw yn arwyddo perffeithrwydd: canys oni fydd gwaith yn berffaith gydffurf â'r ddeddf, nid yw yn uniawn, ond yn anuniawn; ac felly ni all wneuthur neb yn gyfiawn ger bron Duw

yr hwn y mae ei farn yn ol gwirionedd. Eto, os gofyn Duw am gyfiawnder gan un sy yn Nghrist, trwy yr hwn y gellir ei gyfrif yn gyfiawn ger bron Duw; diogel y gall y cyfryw un ddywedyd, "Yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder," Esay xlv. 24. Cyflawnwyd y ddeddf, ufuddhawyd i'w gorchymynion, a boddlonwyd ei gofyniad. Mae meichiau y credadyn wedi talu y ddyled. Yr oeddid yn ei gofyn, ac yntau a'i hattebodd.

Felly mae y person a unwyd â Christ wedi ei gyfiawnhau. Gellwch weled y modd y gwneir hyn, fel y canlyn. Mae dialydd y gwaed yn dilyn y llofrudd, mae Crist, fel ceidwad pechaduriaid colledig, trwy ei Yspryd, yn ymaflyd yn y pechadur, ac yn ei dynu ato ei hun; ac y mae yntau trwy ffydd yn cymmeryd gafael ar Grist; felly y mae yr Arglwydd ein cyfiawnder, a'r crëadur anghyfiawn yn ymuno. O'r undeb hwn â Christ, y daw cymmundeb ag ef, yn ei anchwiliadwy olud; ac, o ganlyniad, yn ei gyfiawnder, y wisg wen hono yr hon sydd ganddo i wisgo y noeth, Dat. iii. 18. Fel hyn mae cyfiawnder Crist yn dyfod yn eiddo ef: a thrwy ei fod yn eiddo ef trwy hawl diamheuol, fe'i cyfrifir iddo; fe'i cyfrifir yn eiddo ef yn marn Duw, yr hon sydd bob amser yn ol gwirionedd y peth. Ac felly am fod gan y pechadur crediniol gyfiawnder yr hwn sy'n cyflawn atteb i ofynion y ddeddf, y mae yn cael maddeuant, a'i gymmeradwyo fel un cyfiawn, Gwel Esay xlv. 22, 24, 25. Rhuf. iii. 24. a pen. v. 1. Yn awr mae efe yn wr rhydd. Pwy a rydd ddim yn erbyn y rhai a gyfiawnhäodd Duw? A all cyfiawnder roddi dim yn eu herbyn? Na, mae wedi ei foddloni. A all y gyfraith? Na all, canys hi a gafodd yr hyn oll oedd hi yn ei ofyn ganddynt, yn Iesu Grist, Gal. ii. 20 "Mi a groeshoeliwyd gydâ Christ." Beth all y gyfraith ofyn mwy wedi iddi glwyfo eu pen, gan dywallt digöfaint, mewn cyflawn fesur, i'w heneid; a chymmeryd eu bywyd, a'i ddwyn i lwch angeu; gan belled ag iddi wneuthur hyn oll i Grist, yr hwn yw eu pen, Eph. i. 22. eu henaid, Act. ii. 25, 27, a'u bywyd? Col. iii. 4. Ond beth a ddaeth o ysgrifenlaw y pechadur, yr hon fuasai yn profi y ddyled arno? Crist a'i dilëodd, Col. ii. 14. Ond fe allai, y gwel cyfiawnder hi eto? Na, fe'i cymmerodd hi oddiar y ffordd. Ond, O na rwygasid hi yn ddarnau, gall y pechadur ddywedyd. Felly y mae hi: aeth yr hoelion a drywanodd ddwylaw a

fhraed Crist, trwyddi, efe a'i hoeliodd hi. Ond beth os rhoddir y darnau rhwygedig y'nghyd eto? Ni all hyny fod, canys fe'i hoeliodd wrth y groes, ac fe gladdwyd ei groes gydag ef, ond byth ni chyfyd mwy, gan nad yw Crist yn farw mwyach. Pa le mae y gorchudd, oedd ar wyneb y dyn condemnedig? Mae Crist wedi ei ddifa, Esay xxv. 7. Pa le mae angeu, yr hwn oedd yn sefyll o flaen y pechadur âg wyneb gerwin, a safn agored, yn barod i'w ddifa ef? Mae Crist wedi ei "lyngcu mewn buddugoliaeth," adn. 8. Gogoniant, gogoniant, gogoniant, "i'r hwn a'n carodd, ac a'n golchodd oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun!"

Yr *ail* fendith sy'n deilliaw o'n hundeb â Christ, ac yn dyfod ar hyd llwybr ein cyfiawnhâd, yw *Heddwch:* heddwch â Duw; a heddwch cydwybod yn ol y graddau y byddo y rhai cyfiawnhäol yn profi eu heddwch â Duw, Rhuf. v. 1. "Am hyny gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tu ag at Dduw," Pen xiv. 17. "Canys nid yw teyrnas Duw fwyd a diod; ond cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Yspryd Glân." Ac er fod Duw yn elyn iddynt o'r blaen, mae efe yn awr yn gymmodlon â hwynt yn Nghrist; maent mewn cyfammod heddwch âg ef; ac fel yr oedd Abraham, felly maent hwythau yn gyfeillion Duw. Mae'n gymmodlon â hwynt yn ei anwyl Fab. Ei air, yr hwn oedd yn llefaru dychryn iddynt o'r blaen, sydd yn awr yn llefaru tangnefedd, os deallant ei iaith ef yn iawn. Ac y mae cariad yn ei holl oruchwyliaethau tu ag atynt, yr hyn sy'n gwneuthur i bob peth gyd-weithio er daioni iddynt. Fe burwyd eu cydwybod oddiwrth euogrwydd a'r halogrwydd oedd yn gorwedd arni; mae ei waed pureiddiol ef yn ffrydio trwy eu heneidiau, trwy rinwedd eu hundeb âg ef, Heb. ix. 14. "Pa faint mwy y bydd i waed Crist—buro eich cydwybodau chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw? Mae y rhwymau a roed ar eu cydwybodau, gan Yspryd Duw, fel yspryd caethiwed, wedi cael eu symud, ac ni rydd efe hwy arnynt byth mwy, Rhuf. viii. 15. "Canys ni dderbyniasoch yspryd caethiwed drachefn i beri ofn." A thrwy hyn tawelir y gydwybod, cyn gynted ag y delo yr enaid yn gydwybodol o gymhwysiad y gwaed hwnw; yr hwn sy'n cymmeryd lle, naill ai'n gynnar neu yn ddiweddar, yn ol mesur ffydd, a phan y gwelo y Duw doeth yn dda ei roddi. Gall

anghredinwyr gael gofid cydwybod, a gallant gael eu tawelu drachefn: ond och! y mae eu cydwybodau yn tawelu cyn cael eu puro; felly nid yw eu tawelwch ond hud dychryn a thralliod mwy Gall diofalwch roi esmwythâd i gydwybod glaf am ychydig: mae dynion yn esgeuluso ei chlwyfau, ynt maent yn cau drachefn o honyn eu hunain cyn i'r gôr llygredig gael ei buro allan. Mae llawer yn claddu eu heuogrwydd yn meddwdod eof drwg: mae cydwybod yn merwino ychydig; ond o'r diwedd mae y dyn yn anghofio ei bechod, a thyna ddiwedd arno: ond esmwythâd o flaen marw yw hyny. Mae gorchwylion a negeseuau y bywyd hwn, yn rhoi esmwythâd yn yr amgylchiad hwn. Pan fo Cain wedi cael ei yru o wydd yr Arglwydd, mae'n taro i adeiladu dinasoedd. Pan ddaeth y drwg yspryd ar Saul, nid yw yn galw am y Bibl, nac am yr offeiriad i ymddyddan âg ef y'nghylch ei gyflwr. ond am offeryn cerdd, i'w chwarau ef i ffordd. Felly mae llawer, pan ddechreuo eu cydwybodau fyned yn anesmwyth, llanwant eu penau a'u dwylaw â gorchwylion bydol, er eu difyru eu hunain, a chael llonyddwch ar ryw gyfrif. Ië, fe becha rhai ar draws argyhoeddiadau, ac felly yn cael rhyw fath o dawelwch i'w cydwybodau, fel y rhoes Hazael i w feistr twy ei fygu ef. Drachefn, dichon cyflawni dyledswyddau roddi math o esmwythâd i gydwybod derfysglyd; a dyma y cwbl sy gan broffeswyr deddfol i lonyddu eu cydwybodau. Pan glwyfir eu cydwybodau, gweddïant, cyffesant, galarant, ac ymroddant i beidio gwneuthur felly mwyach: ac felly maent yn dyfod yn iach drachefn, heb gael un cymhwysiad o waed Crist, trwy ffydd. Ond y rhai y tawelwyd eu calonau yn gyfreithlon, sy'n dyfod i geisio heddwch a glanhâd at waed y taenelliad. Tamaid melus yw pechod, sy'n gwneuthur eneidiau etholedigion Duw yn glafaidd, cyn iddynt ei chwydu i fynu drachefn. Mae'n gadael colyn o'i ol, yr hwn ryw bryd neu eu gilydd a rydd iddynt ofid nid bychan.

Mae Elihu yn dangos i ni y cyflwr a'r feddyginiaeth, Iob xxxiii. Gwelwch y cyflwr y gall un fod ynddo, a chan yr Arglwydd feddyliau o hedd tu âg ato. Mae yn saethu argyhoeddiadau i'w gydwybod; ac yn gwneuthur iddynt lynu mor ddiysgog, fel na allo waredu ei hun oddiwrthynt, adn. 16. " Efe a egyr glustiau dynion, ac a selia addysg iddynt." Mae hyd yn nod ei gorph yn clafychu, adn. 19. " Ac efe a ge-

ryddir trwy ofid ar ei wely; a lliaws ei esgyrn et â gofid caled." Mae chwant bwyd yn pallu ganddo, adn. 20. " Fel y ffieiddio ei fywyd ef fara, a'i enaid fwyd blasus." Mae ei gorph yn dihoeni ymaith, fel nad oes o hono ond croen ac esgyrn, adn. 21. " Derfydd ei gnawd ef allan o olwg: saif ei esgyrn allan, y rhai ni welid o'r blaen." Er nad yw yn barod i farw, eto nid oes ganddo obaith cael hyw, adn. 22, " Nesâu y mae ei enaid i'r bedd, a'i fywyd (yr hyn yw ei drueni mwyaf) i'r dinystrwyr." Mae'n dysgwyl bob moment am i'r diafol, y dinystrydd, Dat. ix. 11. mwrddrwr neu leiddiad dyn, (Ioan viii. 44.) ddyfod, a dwyn ei enaid i uffern. O gyflwr dychrynllyd! eto mae gobaith. Mae Duw yn bwriadu, " cadw ei enaid ef rhag y pwll," adn. 18. er ei fod yn ei ddwyn at ei ymyl. Yn awr gwelwch pa fodd yr iacheir y dyn claf. Ni lwydda celfyddyd y physygwr yma: mae y clefyd yn gorwedd yn rhy bell yn ei dufewnol ranau, i'w feddyginiaeth ef allu ei gyrhaeddyd. Anhwyldeb yr enaid a ddygodd y corph i'r clefyd hwn: ac felly rhaid cymmwyso y feddyginiaeth at enaid a chydwybod y claf. Am hyny rhaid i'r physygwr yn hyn yma fod yn physygwr ysprydol; rhaid i'r feddyginiaeth fod yn ysprydol, cyfiawnder, pridwerth neu, iawn. Trwy y cymmwysiad o'r rhai hyn, fe wellëir yr enaid, tawelir y gydwybod, ac iachëir y corph, adn. 23, 24, 25, 26. " Os bydd gydag ef gennad o ladmerydd, un o fil, i ddangos i ddyn ei uniondeb: Yna efe a drugarhâ wrtho, ac a ddywed, Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn. Ireiddiach fydd ei gnawd na bachgen: efe a ddychwel at ddyddiau ei ieuengctyd. Efe a weddïa ar Dduw, ac yntau a fydd boddlon iddo; ac efe a edrych yn ei wyneb ef mewn gorfoledd." Physygwr addas i'r claf-ddyn hwn, yw y cennad o ladmerydd, adn. 23, hyny yw, fel y tybia rhai esponwyr, nid heb sail, y Physygwr mawr Iesu Grist, yr hwn mae Iob yn ei alw yn Brynwr, pen. xix. 25 Mae efe yn genad, " cenad (neu angel yn Gymraeg) y cyfammod hedd," Mal. iii. Yr hwn sy'n dyfod mewn pryd at y dyn claf. Mae efe y lladmerydd (neu ddeonglwr) deonglwr cynghorion cariad Duw at bechaduriaid, Ioan i. 18. " Un o fil, ie yn rhagori ar ddeng mil," Can. v. 10. " Un etholedig o'r bobl," Ps. lxxxix. 19. Un y rhoddodd yr " Arglwydd iddo dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lafaru gair wrth y diffygiol," Esay l. 4, 5, 6. Efe yr hwn sydd gydag ef trwy ei Yspryd, yn awr i'w " argy

hoeddi o gyfiawnder," Ioan xvi. 8. Fel yr oedd efe gydâg ef o'r blaen, i'w "argyhoeddi o bechod ac o farn;" ei waith ef yn awr yw, dangos ei uniondeb, neu ei gyfiawnder, h—y. cyfiawnder y lladmerydd Crist; yr hwn yw yr unig gyfiawnder sy'n deilliaw oddiwrth dalu pridwerth, ac ar gyfrif yr hwn mae y pechadur yn cael ei "waredu rhag disgyn i'r pwll," adn. 24 Ac fel hyn y dywedir fod Crist yn "mynegi enw Duw," Ps. xx. 22, "Ac yn pregethu cyfiawnder," Ps xl 9. Mae hynodrwydd yn y geiriau: nid i ddangos i y dyn, ond i ddyn, ei gyfiawnder; yr hyn sy'n eglur arwyddo fod yr hwn sy'n dangos, neu yn mynegi y cyfiawnder hwn yn fwy na dyn. Cymharawch Amos iv. 13, "Lluniwr y mynyddoedd a chreawdr y gwynt, yr hwn a fynega i ddyn beth yw ei feddwl." Ymddengys fod yma gyfeiriad hyfryd at y cyhoeddiad cyntaf o'r cyfiawnder hwn i ddyn, neu fel y mae y gair, i Adda, ar ol y cwymp tra yr oedd efe yn gorwedd dan ddychryn, oddiar ofni llid Duw: yr hwn gyhoeddiad a wnaed trwy y genad, y lladmerydd, sef y *Gair* tragywyddol, Mab Duw, a elwir "Llais yr Arglwydd Dduw." Gen. iii. 8, a thrwy iddo ef ymddangos, mae'n debyg, mewn dull dynol. Yn awr, gan mai efe, trwy ei Yspryd, sydd yn pregethu cyfiawnder i'r dyn, mae'n debyg fod y dyn yn cymmeryd gafael yn y cyfiawnder a gynnygir; ac yna y cymhwysir yr iawn ato ef, ac y mae yntau yn cael ei waredu rhag myned i'r pwll, canys fe gafodd Duw iawn drosto. Mae hyn yn cael ei amlygu iddo ef: dywedodd Duw, "Gollwng ef," adn. 24. Yna, gwedi i'w gydwybod gael ei phuro â gwaed y cymmod. wedi ei heddychu, a'i hyfryd dawelu; efe a weddïa ar Dduw—ac a edrych yn ei wyneb mewn gorfoledd, yr hwn o'r blaen oedd yn ddychryn iddo, adn. 26. Hyny yw, yn iaith y Testament newydd, gan fod ganddo Offeiriad mawr ar dŷ Dduw, mae efe yn nesâu â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhâu ei galon oddi wrth gydwybod ddrwg, Heb. x. 21, 22. Ond pa beth sydd yn dyfod o'r corph, y cnawd gwan a lluddiedig erbyn hyny? "Ireiddiach fydd ei gnawd na bachgen, efe a ddychwel at ddyddiau ei ieuengctyd," adn. 25. "Ië ei holl esgyrn (y rhai a boenid â gofid caled adn. 19.) a ddywedant, O Arglwydd pwy sydd fel tydi?" Ps. xxxv. 10.

*Y drydedd* fendith sy'n deilliaw o undeb a Christ yw *Mabwysiad*. Mae credinwyr, wedi ei huno a Christ, yn dyfod yn

blant i Dduw, yn aelodau o'r teulu nefol trwy eu hundeb ag ef, yr hwn sydd yn Fab Duw wrth natur, maent hwythau yn dyfod yn feibion Duw trwy râs, Ioan i. 12. Fel pan dorir cangben oddiar un pren, a'i himpio i gangben un arall; y mae y gangben impiedig, trwy ei hundeb a'r gangben fabwysol, (fel y geilw rhai hi,) yn cael ei gwneuthur yn gangben o'r un boncyff ag y mae r gangben yr impiwyd hi ynddi; felly pechaduriaid, wedi eu himpio yn Nghrist, yrhwn a elwir y Blaguryn, ei Dad ef yw eu Tad hwy, ei Dduw ef eu Duw hwythau, Ioan xx 17. Ac fel hyn y maent hwy, y rhai sydd wrth natur yn blant diafol, yn dyfod yn blant Duw. Mae ganddynt yspryd mabwysiad, Rhuf. viii 15. sef, yspryd ei Fab, yr hwn sy'n eu dwyn at Dduw, fel plant at eu tad; i dywallt eu cwynion i'w fynwes, ac i geisio pob cymmorth angenrheidiol, Gal. iv. 6. "Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Yspryd ei Fab i'ch calonau chwi, yn llefain, Abba, Dad." Dan eu holl wendidau, mae tosturi a serchawgrwydd tadol yn cael ei ddangos iddynt, Ps. ciii. 13. "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef." Er eu bod fel plentyn cael, mewn tir anial, eto yn awr iddynt hwy y perthyn mabwysiad "ceidw ef hwynt fel canwyll ei lygad," Deut xxxii. 10. Pwy bynag a'u herlid, y mae ganddynt noddfa, Diar. xiv 26. "I'w blant ef y mae noddfa." Mewn amser adfyd mae ganddynt ystafelloedd amddiffyn i ymguddio nes elo y llid heibio, Esay xxvi. 20. Ac nid noddfa iddynt er diogelwch yn unig yw ef, ond eu rhan hefyd er cynnaliaeth yn y noddfa, Ps. cxlii. 5. "Ti yw fy ngobaith, a'm rhan yn nhir y rhai byw" Parotöwyd ar eu cyfer i dragywyddoldeb, Heb. xi. 16. "Efe a barotôdd ddinas iddynt." A'r hyn y mae efe yn eu gweled mewn angen o hono mewn amser, ni chant fod mewn eisieu, Matth. vi. 31, 32, "Am hyny na ofelwch, gan ddywedyd, Beth a fwytawn, neu, Beth a yfwn, neu, A pha beth yr ymddilladwn? oblegyd gwyr eich Tad nefol fod arnoch eisieu yr holl bethau hyn." Mae cerydd amserol yn rhagorfraint iddynt fel meibion: felly ni adewir hwynt yn ddigerydd am eu pechodau, fel eraill y rhai nid ydynt yn blant, ond gweision yn y teulu, ac a droir dros y drws yn y diwedd am eu camymddygiadau, Heb. xii. 7. "Os goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tu ag atoch megis tu ag at feibion: canys pa fab sydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?" Maent yn etifeddion o'r addewidion,

ac a gant eu hetifeddu Heb. vi. 12. Ie, maent yn etifeddion i Dduw, yr hwn ei hun yw rhan eu hetifeddiaeth, Ps. xvi. 5. a chyd etifeddion â Christ, Rhuf. viii. 17. A chan eu bod yn blant y Brenin mawr, ac yn etifeddion ieuaingc o ogoniant, mae gandddynt angylion i weini iddynt, y rhai a "anfonir i wasanaethu er mwyn y rhai a gant etifeddu iechydwriaeth," Heb. i. 14.

*Y bedwaredd* fendith yw sancteiddhâd, 1 Cor i. 30 "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd" Gwedi eu huno â Christ, maent yn cyfranogi o'i yspryd ef, yr hwn yw yspryd sancteiddiad Mae cyfiawnder o'r yspryd yn Nghrist; ac nid yw fel cyfiawnder llestr, yr hwn ni chynnwys ond yr hyn a dywallter iddo; ond cyfiawnder ffynnon yw, er rhoddi a chyfranu, y mae hi bob amser yn rhoddi dwfr, ac eto yn llawn bob amser. Yspryd Crist, y nodd ysprydol hwnw, yr hwn sydd yn y bonyff, ac oddiyno a gyfrenir i'r canghenau, yw *Yspryd y gras*, Zech. xii. 10. A lle bo'r yspryd y gras yn trigo, mae yno gydgasgliad o bob grasusau. Nid un gras yn unig yw sancteiddrwydd, ond holl rasusau yr Yspryd: cynnulliadaeth o rasusau yw; pob gras yn ei hedyn a'i wreiddyn yw. Ac fel y mae nodd a drosglwyddir i'r gangen, yn myned trwyddi, a thrwy bob rhan o honi; felly mae Yspryd Crist yn sancteiddio yr holl ddyn. Taenwyd gwenwyn pechod trwy yr holl yspryd, corph, ac enaid y dyn; ac y mae gras sancteiddiol yn canlyn i bob congl, 1 Thess. v. 23. Sancteiddio pob rhan o'r dyn, er nad yw un rhan yn berffaith felly. Ni chedwir y gwirionedd trwy yr hwn y'n sancteiddir, yn y pen, fel mewn carchar: ond mae yn rhedeg yn ei ddylanwadau sancteiddiol trwy 'r galon a'r bywyd. Mae'n wir fod rhyw rasusau yn mhob credadyn yn ymddangos fel blaen-frigau, uwchlaw y lleill; fel Harieidd-dra yn Moses, amynedd yn Iob: ond gan fod yn mhob un o blant Duw egwyddor sanctaidd yn cydfyned â'r ddeddf sanctaidd, yn ei holl ranau, yn ei charu, ei hoffi, a'i chymmeradwyo, fel yr ymddengys oddiwrth eu parch cyffredinol i orchymynion Duw, mae'n amlwg eu bod wedi eu cynnysgaeddu â holl rasusau yr Yspryd; canys ni all fod mwy yn yr ffrwyth nag oedd yn yr achos.

Yn awr, yr Ysbryd sancteiddiad hwn, o ba un y mae credinwyr yr cyfranogi, sydd iddynt hwy, (1.) Yn yspryd "marweiddiad: trwy yr yspryd maent yn marweiddio gweithredoedd y corph," Rhuf. viii 13. Mae pechod wedi ei groeshoelio ynddynt, Gal. v. 24. Fe'u cydblanwyd (sef gydâ Christ) i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, yr hon oedd yn farwolaeth nychlyd, Rhuf. vi. 5. Mae pechod yn y saint, er nad wedi marw, eto yn marw. Pe buasai wedi marw, fe'i cymmerasid oddiar y groes, a chladdesid ef allan o olwg; ond y mae yn hongian yno eto, yn ymweithio ac yn ymwingo dan ei glwyfau marwol. Pan gaffo coeden y fath ddyrnod ag sy'n cyrhaedd ei chalon, cewch weled ei holl ddail a'i changhenau dechreu gwywo a darfod; felly, pan ddelo yspryd sancteiddiad, a thori grym pechod, mae ymadawiad graddol âg ef, a marweiddiad iddo yn yr holl ddyn; fel nad yw efe mwy yn byw yn y cnawd, i chwantau dynion. Nid yw yn cymmeryd pechod fel ei gelfyddyd a'i fasnach; nid ei brif ddyben yw ei geisio ei hunan, a boddio ei dueddiadau llygredig; ond y mae efe am dir Immanuel; ac yn rhodio y brif-ffordd iddo, y ffordd a elwir Ffordd sanctaidd; er fod y gwynt uffernol, oedd yn ei gefn o'r blaen, yn awr yn chwythu yn union i'w wyneb, yn gwneuthur ei ymdaith yn anhawdd, ac yn fynych yn ei yru o'r brif-ffordd. (2.) Mae yr Ysbryd yn yspryd bywhâd iddynt; canys efe yw yspryd y bywyd, ac yn eu dwyn hwythau i fyw i gyfiawnder, Ezek xxvi 27. "Rhoddaf hefyd fy yspryd o'ch mewn, a gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau." Y rhai hyn a gydblanwyd â Christ i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef, a fyddant hefyd i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef, Rhuf vi 5. Yn adgyfodiad Crist, pan unwyd ei enaid ef â'i gorph, galluogwyd pob aelod o'r corph bendigaid hwnw, i weithredu drachefn; felly wedi i'r enaid gael ei fywhâu trwy yspryd sancteiddiol Crist, efe a alluogir fwy fwy i gyflawni holl weithredoedd bywyd ysprydol. Ac megis y mae yr holl gyfraith, ac nid rhyw ddarnau o honi, wedi ei hysgrifenu ar y galon sanctaidd; felly galluogir y credinwyr i adysgrifenu y gyfraith hòno yn eu hymarweddiad. Ac er na allant ysgrifenu un llinell o honi yn lanweithus; eto mae Duw, er mwyn Crist, yn cymmeradwyo eu cyflawniadau, o ran sancteiddhâd; gan eu bod yn ddysgyblion i'w Fab ei hun, ac yn cael eu harwain gan ei Ysbryd ef.

Yr yspryd sancteiddiol hwn, a drosglwyddir gan Grist i'w aelodau, yw y maeth ysprydol ag y mae y canghenau yn ei gael o'r cyff yn yr hwn yr impiwyd hwy; trwy yr hyn mae'r bywyd o ras a roddwyd iddynt yn yr ailenedigaeth, yn cael ei gadw, ei barhâu, a'i roddi ar waith. Dyma y maeth trwy yr hwn y mae y creadur newydd yn byw, ac y maeth r ef tu ag at berffeithrwydd Rhaid porthi bywyd ysprydol, a rhaid iddo ef gael ei gynnal a'i faethu; ac y mae credinwyr yn derbyn yr unrhyw oddiwrth Grist eu pen, yr hwn a osododd y Tad yn ben i gyfranu y dylanwadau hyn i'w holl aelodau, Col. ii. 19. "Ac heb gyfattal y Pen, o'r hwn y mae yr holl gorph, trwy y cymmalau a'r cyssylltiadau yn derbyn lluniaeth, neu gynnaliaeth," &c. Felly, y cynnaliaeth hwn, yw cynnaliaeth oddiwrth yspryd Crist, Phil. i 19. Mae y saint yn byw yn lrâs, yn bwyta cnawd Crist ac yn yfed ei waed ef, er eu maeth ysprydol; eto mae ein Harglwydd ei hun yn dywedyd, mai yr yspryd sydd yn bywhâu, sef yr yspryd yr hwn sydd yn trigo yn y corph bendigaid hwnw, Ioan vi. 63 Mae y natur ddynol wedi ei huno â'r natur ddwyfol, yn mherson y Mab, ac felly (fel y badell y'nghanwyllbren Zechariah, Zech. iv.) mae yn aros wrth y ffynonell, fel gogoneddus gyfrwng trosglwyddiad dylanwadau o ffynnon y Duwdod; ac nid yw yn derbyn yr yspryd wrth fesur, ond y mae yn wastad yn gyflawn, o'r yspryd, o herwydd yr undeb personol hwnw. Gan hyny, o herwydd bod credinwyr wedi eu huno â'r dyn Crist; (fel y saith ganwyllbren â'r badell drwy eu saith pibell, Zech. iv. 2) mae ei gnawd ef yn fwyd iddynt yn wir a'i waed yn ddïod yn wir: canys trwy ymborthi ar y corph bendigaid hwnw (hwy derbyn cymmwysiad o Grist yn effeithiol at eu heneidiau trwy ffydd) maent yn cyfranogi fwy fwy o'r yspryd hwnw sy'n trigo ynddo ef, er eu maeth ysprydol Ni allasai sancteiddrwydd Duw byth oddef undeb digyfrwng â'r creadur pechadurus. ac (o ganlyniad) gymmundeb digyfrwng âg ef: eto, ni allasai y creadur fyw bywyd o ras heb gael cymmundeb â ffynnon bywyd: gan hyny fel y byddai i sancteiddrwydd Duw ac iechydwriaeth pechaduriaid gael cyd-ofalu am danynt, yr ail berson yn y Drindod ogoneddus a gymmerodd i un eb-personol âg efe ei hun, natur ddynol ddibechod, fel y byddai i'r ddynoliaeth, sanctaidd, ddifai, a ddilwgr hon, gael yn ddigyfrwng dderbyn cyflawnder o'r yspryd, o'r hwn y gallai gyfranu i'w aelodau trwy ei allu a'i rinwedd dwyfol. Ac, fel

ped fe pren, â'i wraidd yn y ddaear a'i ganghenau yn cyrh eddyd hyd y nefoedd, ni wna y pellder mawr rhwng gwreiddyn a'r canghenau, rwystro y brigyn uchaf rhag cyfranogi o'r gwreiddyn; yr un modd, ni all y pellder sydd rhwng dyn Crist Iesu, yr hwn sydd yn y nefoedd, a'i aelodau y rhai sydd ar y ddaear, ddim attal y gymmundeb rhyngddynt [illegible] nad yw y rhanau o Grist dirgeledig (sef y pen a'r aelodau) yn gyffyrddawl, fel wedi eu cyssylltu ynghyd, megis mewn undeb corphorol; etto nid yw hyny yn gwneuthur yr undeb yn llai gwirioneddol ac effeithiol. Ië, mae ein Harglwydd ei hun yn dangos i ni, mai er i ni fwyta ei gnawd mewn dull corphorol a chnawdol, na lesâi ddim, Ioan vi. 63, ni fyddem yr un mymryn sancteiddiach trwy hyny. Ond mae aelodau Crist ar y ddaear mewn undeb â'u pen yn y nefoedd, trwy rwymyn dirgelaidd yr un a'r unrhyw yspryd sydd yn trigo yn y ddau; ynddo ef fel pen, ac ynddynt hwythau fel aelodau sef fel yr olwynion yn ngweledigaeth Ezekiel yr rhai nid oeddynt yn cyffwrdd a'r pethau byw, etto yr oeddynt wedi eu huno trwy rwymyn anweledig yr un yspryd yn y ddau; felly, "Pan gerddai y pethau byw, yr olwynion a gerddent wrthynt; a phan ymgodai y pethau byw oddiar y ddaear, yr ymgodai'r olwynion." Ezek. i. 19. "Canys, medd y Prophwyd, "yr yspryd y peth byw oedd yn yr olwynion," adn. 20

Oddiyma gallwn weled y gwahaniaeth sy rhwng gwir sancteiddrwydd a'r rhith hwnw o hono a ellir ei ganfod yn mhlith rhai proffeswyr manwl Cristionawgrwydd, y rhai er hyny nid ydynt yn wir Gristionogion, nac wedi eu hadnewyddu trwy Yspryd Crist; ac sydd o'r un natur a'r peth a welwyd mewn llawer o baganiaid moesol. Effaith yw gwir sancteiddrwydd, yn tarddu o undeb yr enaid â Christ, derbyniad cyntaf a digyfrwng yr yspryd sancteiddiol, allan o gyflawnder yr hwn, y mae yr aelodau trwy rinwedd eu hundeb ag ef yn derbyn dylanwadau sancteiddiol. Nid ydyw'r llall ond gwaith yspryd dyn ei hun yn unig canys pa beth bynag sydd ynddo yn ymddangos fel gwir sancteiddrwydd, etto nid yw yn tarddu o ddim egwyddori [illegible] naturiol [illegible] yn cyrhaeddyd ei amcanion na'i ddybenion goruchel ef: oblegyd fel y mae yn dyfod [illegible] hunan, felly mae y [illegible] rhedeg i fôr marw hunan drachefn; [illegible] yn gorwedd [illegible] oddiwrth wir sancteiddrwydd, ag y natur [illegible] Mae [illegible] sydd [illegible] y sancteiddrwydd baganaidd hwn, fel ysgrifwyr cyffredin, y rhai sy

yn gwasanaethu eu hunain â'u rhwyfau eu hunain: ond y mae y llong sy'n rhwym i dir Immanuel, yn hwylio gyd â'g awelon yr Yspryd Glân. Pa fodd y mae'n bosibl cael gwir sancteiddiad heb Grist? A ddichon bod gwir sancteiddrwydd heb gyfranogi o Yspryd sancteiddiad? A oes modd i ni gyfranogi o'r yspryd hwnw ond trwy Grist, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd? Fe fyddai mor, hawdd i'r gwlith wneuthur ei ffordd trwy y graig gallestr, ag i ddylanwadau gras ddyfod oddiwrth Dduw i bechaduriaid, un ffordd arall, ond trwy Grist, yr hwn a osododd Duw i fod yn ffynnon dylanwadau, Col. i. 19. "Oblegyd rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef," Pen. ii. 19. "Ac heb gyfattal y Pen, o'r hwn y mae yr holl gorph, trwy y cymmalau a'r cyssylltiadau yn derbyn lluniaeth, ac wedi ei gyd-gyssylltu, yn cynnyddu gan gynnydd Duw." Oddi yma y gwelwch pa fodd y mae llawer yn syrthio ymaith o'u sancteiddrwydd ymddangosiadol, heb byth ddychwelyd; hyny sydd am nad ydynt yn ganghenau wedi eu hiawn uno â'r wir winwydden. Ar yr un pryd, mae eraill yn dychwelyd o'u gwrthgiliad, o herwydd eu hundeb â'r cyff bywiol, trwy adnewyddiad yr yspryd, 1 Ioan ii. 19. "Oddiwrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddynt o honom ni: canys pe buasent o honom ni, hwy a arosasent gyda ni."

*Y bummed* fendith yw cynnydd mewn grâs. Trwy gael eu maethu, maent yn cynnyddu ar gynnydd Duw, Col. ii. 19. "Y cyfiawn a flodeua fel palmwydden; ac a gynnydda fel cedrwydden yn Libanus," Ps. xcii. 12. Mae cynnydd yn natur gras; mae y rhai sydd ar y ffordd i Sïon yn myned o nerth i nerth. Er bod y dyn duwiol ar y cyntaf yn blentyn mewn gras, eto o'r diwedd mae yn dyfod yn wr, ac yn dad, 1 Ioan ii. 13. Er nad yw dros dro ond cropian ar y ffordd i'r nefoedd: eto, ar ol hyny, mae yn cerdded, yn rhedeg, ac yn esgyn ar adenydd fel eryrod, Esay xl. 13. Os y gangen ni thyf wedi ei himpio yn y boncyff, mae yn brawf amlwg, nad oedd wedi ei huno a'r boncyff.

Ond fe allai y dywaid rhai, os ydyw pob gwir Gredadyn yn cynnyddu, beth a ddywedwn ni am y rhai hyny, y rhai yn lle cynnyddu, sy'n myned yn ol? Yr wyf yn atteb, *yn gyntaf,* Mae gwahaniaeth mawr rhwng bod y Cristion yn cynnyddu ryw bryd, a'i fod yn cynnyddu bob amser. Mae pob

gwir Gristion yn cynnyddu, ond nid wyf yn dywedyd ei fod yn cynnyddu bob amser. Mae pren, sydd a bywyd a maeth ynddo, yn tyfu i'w gyflawn faintioli, eto nid yw yn tyfu bob amser; nid yw yn tyfu yn y gauaf. Mae i Gristionogion hefyd eu gauaf, pryd y mae y dylanwadau hyny o râs, sy'n angenrheidiol er cynnydd, yn ymmattal; Can. v. 2, *Myfi sydd yn cysgu.* Trwy ffydd y mae y credadyn yn derbyn dylanwadau grasol o Iesu Grist; fel yr oedd pob llusern yn y canwyllbren, yn derbyn olew o'r badell, trwy y pibellau oedd yn myned rhyngddynt, Zech. iv 2. Yn awr, os attelir y bibell hono, os bydd ffydd y saint dan gudd ac heb fod ar waith; yna yr â yr holl rasusau eraill yn dywyll, ac a ymddangosant yn barod i ddiffoddi. Ac o ganlyniad, mae natur lygredig yn cryfhâu, ac yn bywiogi. Beth a ddaw o'r enaid erbyn hyny? Mae eto un sail dda i obeithio. Nid yw ffydd y saint, fel ffydd y rhagrithiwr, fel pibell a fo yn fyr o gyrhaedd y ffynnon, a chan hyny ni all drosglwyddo dim: mae hi yn parhâu o hyd yn rhwymyn undeb rhwng Crist a'r enaid; a chan hyny, am fod Crist yn byw, fe gaiff y credadyn fyw hefyd, Ioan xiv. 19. Mae yr Arglwydd Iesu yn rhoddi ei law trwy dwll y drws, ac yn rhwyddhau y llwybr trosglwyddo, ac yna mae dylanwadau cynnyddol yn tarddu, ac y mae grasusau y credadyn yn edrych yn wyrddlas a bywiog drachefn, Hos. xiv. 7, "Y rhai a arhosant dan ei gysgod ef a ddychwelant; adfywiant fel ŷd, blodeuant hefyd fel y winwydden." Ar yr amser gwaelaf, mae gan y saint egwyddor o dyfu ynddynt, 1 Ioan iii. 9. "Mae ei had ef yn aros ynddo ef." Gan hyny, ar ol adfeiliad, maent yn bywiocau drachefn, sef, pan elo y gauaf drosodd, ac i haul cyfiawnder gyfodi drachefn arnynt gydâ'i effeithiau cynnesol. Gall tom wedi ei daflu i bwll orwedd yn llonydd yno; ond os bwrir ef i ffynnon, ei tharddiad a'i gweithia ef allan, a hi a red yn loyw fel o'r blaen.. *Yn ail,* Gall Cristionogion gamgymmeryd eu cynnydd, a hyny ddwy ffordd. (1.) Trwy farnu eu cyflwr wrth eu teimladau presennol. Maent yn sylwi arnynt eu hunain, ac yn methu canfod eu hunain yn cynnyddu: ond nid oes yr un rheswm oddiar hyny i benderfynu; nad ydynt yn cynnyddu, Marc iv. 27. "Mae yr had yn egino ac yn tyfu y modd nis gŵyr efe." Pe byddai i un syllu mor sefydlog ag y b'o modd ar yr haul yn rhedeg ei yrfa, neu ar bren yn tyfu, ni allai weled yr haul yn symud, na'r pren yn tyfu: ond os cydmara efe y pren, fel y

mae yn awr, wrth y peth oedd flynyddau yn ol; ac ystyried y man yn y ffurfafen, lle yr oedd yr haul yn y bore, diau y caiff weled fod y pren wedi tyfu, a'r haul wedi symud. Yn yr un modd, gall y Cristion wybod pa un a yw efe mewn cyflwr cynnyddol neu adfeiledig, trwy gydmaru ei gyflwr presennol â'r hyn ydoedd efe gynt. [2.] Gall Cristionogion gamgymmeryd eu cyflwr, trwy fesur eu cynnydd wrth dyfiant y brigyn yn unig, ac nid y gwreiddyn. Er na bo dyn yn tyfu yn dalach, gall fod yn myned yn gryfach. Os bydd pren yn ymgymmeryd â r pridd, gan ymsefydlu yn y ddaear, a lledu ei wraidd; mae'n sicr ei fod yn tyfu, er nad yw ddim uwch nag o'r blaen. Felly, er y gall Cristion fod yn amddifad o'r cysuron a'r dymher serchiadol y rhai a deimlodd efe dro yn ol; eto os bydd efe yn cynnyddu mewn gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiaid, a dwys deimlad o'r anghenrheidrwydd am ymorphwys ar Grist, y mae efe yn Gristion sy'n cynnyddu, Hos. xiv. 5. "Byddaf fel gwlith i Israel—efe a leda ei wraidd megis Libanus."

*Gofyniad.* Ond a ydyw rhagrithwyr yn cynnyddu? Os ydynt, pa fodd y gwahaniaethwn rhwng eu cynnydd hwy, a chynnydd gwir gristion? *Atteb.* Mewn perthynas i'r rhan gyntaf o'r gofyniad, mae rhagrithwyr yn cynnyddu: Mae yr efrau yn tyfu cystal a'r gwenith: ac fe dyfodd yr had a ddisgynodd yn mhlith drain, Luc viii 7. ond ei fod heb ddwyn ffrwyth i berffeithrwydd, adn. 14. Ië gall fod gau gynnydd mewn gwir Gristion. Yr oedd Iago ac Ioan yn ymddangos fel rhai yn cynnyddu yn y gras o zel sanctaidd, pan aeth eu yspryd mor danllyd yn achos Crist, fel y buasent yn rhoi pentrefi cyfain ar dân, am wrthod derbyn eu Harglwydd a'u Meistr, Luc ix. 54. "Hwy a ddywedasant, Arglwydd a fynni di ddywedyd o honom, am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt, megis y gwnaeth Elïas?" Ond nid felly yr oedd mewn gwirionedd; ac am hyny efe a drodd ac a'u "ceryddodd hwynt" adn. 55. gan ddywedyd "Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi." Mewn perthynas i ail ran y gofyniad, gellir atteb, Fod y fath degwch neillduol ynghynnydd y gwir Gristion, yn ei wahaniaethu oddiwrth bob gau gynnydd; mae yn gyffredinol, yn wastadol, ac yn gymmesurol. "Cynnyddu ydyw iddo ef y mhob peth yr hwn yw y pen," Eph. v. 15. Mae y Cristion cynnyddol, yn cynnyddu yn gymmesur yn holl ranau y dyn newydd. Dan ddylanwadau

tirion Haul cyfiawnder, mae credinwyr yn eynnyddu megis llo pasgedig," Mal. iv. 2. Gweleeh ef yn gynnydd anghenfilaidd y y creaduriad hyn, pe gwelech eu penau yn cynnyddu, ac nid e cyrph, neu weled un goes yn cynnyddu heb y llall: neu os na fyd i'r holl ranau gyd-gynnyddu. Ond dyma yw cynnydd llaw mewn crefydd. Maent yn cynnyddu fel plant a'r llechau, rhai sydd iddynt ben mawr, ond corph gwael: maent y cael mwy o wybodaeth i'w penau, ond nid ydynt yn cael mw o sancteiddrwydd i'w calonau a'u bucheddau. Maent y cynnyddu yn hynod o wresog oddi allan, ond yn dra oer od fewn; fel dynion mewn pang o'r cryd. Maent yn trafferth mwy gyda rhanau allanol crefydd nag o'r blaen ond me ddieithr i rym duwioldeb ag erioed. Os dyfrhein yn ardd llaw, fe gaiff rhai o'r planhigion lawer, rhai ychydig, a rhai ddim dwfr; ac felly mae rhai yn gwywo, pryd mae eraill yn tyfu: ond wedi derbyn cawod o'r cymmylau, mae y cwbl yn cyd dyfu. Yn yr un modd, mae holl rasusau yr yspryd yn tyfu yn gyfartal, trwy ddylanwadau neillduol gras Duw. Mae y canghenau a impiwyd yn Nghrist, ag sydd yn tyfu yn iawn, yn tyfu yn eu holl amrywiol ffyrdd ar unwaith. Maent yn tyfu yn dufewnol i Grist, Eph. iv. 15. gan ymuno yn agosach ag ef, ac ymorphwys yn fwy cadarn arno ef, fel eu pen dylanwadol; o'r hwn y tardd eu holl gynnydd cristionogol. Maent yn cynnyddu yn allanol mewn gweithredoedd da yn eu bywyd a'u buchedd. Nid yn unig y maent fel Naphtali, yn rhoddi geiriau teg; ond fel Joseph, yn gangen ffrwythlon. Maent yn tyfu i fynu mewn meddyliau nefolaidd, ac yn diystyru y byd; oanys mae eu "hymarweddiad yn y nefoedd," Phil. iii. 10. Ac yn ddiweddaf, maent yn cynnyddu i waered mewn gostyngeiddrwydd a hunan ffieiddiad. Mae y canghenau mwyaf tyfadwy yn Nghrist, yn eu golwg eu hunain, yn "llai na'r lleiaf o'r holl saint, Eph. iii. 8, y penaf o bechaduriaid, 1 Tim. i. 15, yn ffolach na neb, Diar. xxx. 2. Maent yn gweled na allant wneuthur dim, ie gymmaint a meddwl dim o honynt eu hunain, 2 Cor. iii. 5, nad ydynt yn haeddu dim, heb fod "yn rhyglyddu y lleiaf o'i holl drugareddau a wnaethpwyd iddynt," Gen. xxxii. 10, ac nad ydynt, ond dim, 2 Cor. xii. 2.

*Y Chweched* fendith yw ffrwythlondeb. Nid yw y gangen a impiwyd yn Nghrist yn anffrwythlon, ond y mae yn dwyn ffrwyth, Ioan xv. 5. "Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau

ynddo yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth, lawer." I'r dyben hwnw y priodir eneidiau a Christ, fel y dygont ffrwyth i Dduw, Rhuf. vii. 4. Gall y canghenau anffrwythlon fod yn ganghenau yn Nghrist trwy broffes, ond nid trwy wir blanniad. Pwy bynag a unwyd â Christ, maent yn dwyn y ffrwythau efengylaidd o ufudd-dod a gwir sancteiddrwydd Mae gweithredoedd da bob amser yn dilyn ffydd. Nid yn unig y mae credadyn wedi dyfod o fedd ei gyflwr natur; ond y mae wedi diosg ei ddillad bedd, sef, ei chwantau llywodraethol, yn y rhai y rhodiasai efe gynt fel drychiolaeth; yr oedd yn farw tra yn fyw ynddynt, Col. iii. 7. 8. Canys fe ddywedodd Crist am dano, fel am Lazarus, "Gollyngwch efe yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith." Ioan xi. 44. Yn awr, wedi iddo wisgo Crist, mae yn ei bersonoli ef (mewn dull o lefaru) fel cardotyn, mewn gwisgoedd benthyg, yn personoli brenin ar chwareu-lofft, yn rhodio, megis ag y rhodiodd yntau. Yn awr, mae ffrwyth yr yspryd ynddo ef, y'mhob daioni, Eph. v. 9. Bydd ffrwyth sancteiddrwydd i'w ganfod y'nghalonau, gwefusau, a bywydau, y rhai a unir â Christ. Mae cuddiedig ddyn y galon, nid yn unig yn deml wedi ei hadeiladu i Dduw, ac wedi ei chyssegru iddo ef, ond yn cael ei defnyddio, ganddo ef, lle mae cariad, ofn, hyder, a phob rhan arall o grefydd dufewnol yn cael eu hymarferyd, Phil. iii. 3. "Canys yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr Yspryd. "Nid yw y galon mwyach yn gyttir i'r diafol, lle y cydnwysir meddyliau peurhydd; canys yno y caseir hyd yn nod *meddyliau ofer*, Ps. cxix. 113: canys gardd gauedig, iddo ef ydyw, Can. iv. 16. Mae yn wir fod hadau llygredigaeth yno, am nad yw y tir eto wedi ei gwbl iachâu: ond y mae y dyn, yn nydd ei greadigaeth newydd, yn cael ei ddwyn i'w llafurio a'i chadw hi. Mae marworyn byw oddiar yr allor wedi cyffwrdd â'i wefusau, ac y maent wedi eu puro, Ps. xv. 1, 3. "Arglwydd pwy a drig yn dy babell? a phwy a breswylia yn mynydd dy sancteiddrwydd. Yr hwn a ddywed wir yn ei galon, heb absenu a'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog." Gall tafod llyfn fod, lle bo calon ddichellgar; gall y llais fod yn llais Iacob, tra byddo y dwylaw yn ddwylaw Esau. "Ond os yw neb yn eich mysg yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod, ond twyllo ei galon ei hun, ofer yw crefydd

hwn," Iago i. 26. Fe lywodraetha grym duwioldeb ar y tafod, er ei fod yn fyd o anghyfiawnder. Os bydd un yn Galilead bydd i'w leferydd ei gyhuddo; ni lefara efe iaith Ashdod, ond iaith Canaan. Ni fydd cristion yn fud am grefydd, ac ni fydd i'w dafod siarad ar antur; gan i natur osod gwyliadwriaeth ddwbl ar y tafod, mae grâs yn yn gosod y trydydd. Canfyddir ffrwyth sancteiddrwydd yn ei ymarweddiad allanol, canys mae ganddo ddwylaw glân yn gystal a chalon bur, Ps xxiv. 4. Mae efe yn ddyn duwiol; ac yn crefyddol gyflawni dyledswyddau y llech gyntaf yn y ddeddf: mae yn ddyn cyfiawn, ac y mae yn cywir gyflawni dyledswyddau yr ail lech. Yn ei ymarweddiad, mae yn Gristion da, ac yn gymmydog da hefyd. Mae yn cyflawni ei ddyledswyddau tu ag at Dduw, fel pe'd fa'i llygaid dynion arno; a thu ag at ddynion, fel un yn credu fod llygaid Duw arno. Y pethau a gyssylltodd Duw yn ei ddeddf, ni faidd y credadyn eu gwahanu yn ei ymarweddiad.

Felly mae y canghenau a unwyd â Christ yn llawn o ffrwythau da. Ac y mae y rhai hyny yn weithredoedd bywiol, a Christ yw yr egwyddor a'r dyben o honynt: yr egwyddor; canys y mae efe yn byw ynddynt, a'r bywyd maent yn fyw sydd trwy ffydd Mab Duw, Gal. ii. 20. Y dyben; canys maent yn byw iddo ef, a byw iddynt hwy yw Crist, Phil. i. 21. Mae dyledswyddau crefyddol yn y byd fel plant heb dad, mewn gwisg garpiog: ni dderbyn rhai hwynt i mewn, am na charasant hwy na'u tad erioed: mae eraill yn eu cymmeryd i mewn, am y gallant fod yn wasanaethgar iddynt; ond mae y saint yn eu cymmeryd i mewn er mwyn eu Tad, hyny yw, er mwyn Crist; ac y maent yn anwyl yn eu golwg am eu bod yn debyg iddo. O! o ba le y daeth y bywyd newydd hwn i'r Saint! Mae 'n sicr na allesid ei gyro allan o alluoedd naturiol eu heneidiau, pe cyd-unid pob gallu crëedigol. Tragywyddol anmhlantadwy fuasai eu croth hwy, ond trwy eu prïodi â Christ, maent yn dwyn ffrwyth i Dduw," Rhuf. vii. 4.

Os gofynwch i mi, pa fodd y mae i chwi gael eich maethu a'ch cynnyddu mewn ffrwythlondeb? Rhoddaf yr ychydig gynghorion canlynol [1.] Byddwch sicr o'ch bod wedi ymuno â'r winwydden trwy ffydd ddiffuant, a gochelwch ragrith. Y gangen sydd heb fod yn iach yn y galon a wywa yn sicr. *Prenau cyfiawnder* yw y prenau o blanniad yr Arglwydd,

Esay lxi. 3. Felly pan fo eraill yn gwywo, maent hwy yn dwyn ffrwyth. Afiechyd yn nghalon crefydd yw rhagrith, yr hwn a ddifa y cwbl mewn amser: twll yw yn y llong sydd yn sicr o'i suddo. Mae gwirionedd gras yn ei wneuthur yn ddifeth, bydded mor wanned ag y bo: megis y mae y brigyn lleiaf, yr hwn sydd iach oddi fewn yn derbyn maeth o'r cyff, ac yn tyfu, pan mae y ganghen fwyaf os bydd ei chalon yn bwdr yn gwywo am nad yw yn derbyn maeth. [2.] Llafuriwch am fod yn gadarn y'ngwirioneddau a ffyrdd Duw. Mae anwadalwch mewn barn yn elyn cryf i gynnydd a ffrwythlondeb Cristionogol: fel y dywaid yr Apostol, Eph. iv. 14, 15, "Fel na byddom mwyach yn blantos yn bwhwman, ac yn ein cylcharwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hocced dynion, trwy gyfrwysdra i gynllwyn i dwyllo: Eithr gan fod yn gywir mewn cariad, cynnyddu o honom iddo ef yn mhob peth, yr hwn yw y pen sef Crist." Careg dreigliedig ni chasgl fyth fwswgl, a barn anwadal a wna fywyd diffrwyth. Bydded pren mor ddifreg ag y bo, eto pa fodd y gall dyfu, na bod yn ffrwythlon, wrth ei symud o'r naill dir i'r llall? [3.] Ymdrechwch i dori ymaith y gwyllt-impiau, fel y gwna garddwyr, er mwyn i'w coed dyfu. Chwantau heb eu marwhâu yw y rhai hyn. "Gan hyny marwhewch eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear," Col. iii. 5. Pan gafodd yr Israeliaid ymborth wrth eu blys, cawsant gulni i'w henaid. Yr hon y byddo ganddi lawer o blant newynog o'i deutu, ac y bydd raid iddi fod yn eu porthi yn wastadol a gaiff waith mawr yn cael tammaid ei hunan. Y rhai a fynant, i'w heneidiau gynnyddu, rhaid iddynt ymattal oddiwrth borthi eu nwydau, a'u chwantau.

*Yn olaf.* Defnyddiwch ordinhadau Duw i'r dybenion hyn. Cynteddau ein Duw ni ydyw y llê y mae prenau cyfiawnder yn ffrwytho, Ps. xcii. 13, dyfroedd y cyssegr yw y moddion a ordeiniodd Duw i beri i'w bobl gynnyddu fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd. Gan hyny "Chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynnyddoch drwyddo," Pedr ii. 2. Deuwch i'r ffynnonau iechydwriaeth hyn; nid i edrych arnynt yn unig, ond i dynu dwfr allan o honynt. Mae sacrament swper yr Arglwydd, mewn modd neillduol, wedi ei ordeinio i'r dybenion hyn. Nid yn unig y mae yn gyffesiad cyhoeddus, syml, ac yn sel o'n hundeb a'n cymmundeb â Christ; ond y mae yn foddion i gymdeithasu yn gyfeillgar âg ef, ac i gadarnhau ein hundeb âg ef, ein ffydd ein cariad ein hedifeirwch, a'n grasusau eraill, i Cor. x. 16,

" Phïol y fendith yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist yw? Y bara yr ydym yn ei dori, onid cymmun corph Crist yw? a, pen. xii. 13. " Ni a ddïodwyd oll i un yspryd." Ymröwch i weddïo; agorwch eich safn, ac efe a'i lleinw. Trwy y moddion hyn y gall y canghenau yn Nghrist gael eu maethu yn mhellach, a chynnyddu a dwyn ffrwyth lawer.

Y *seithfed* fendith yw, cymmeradwyaeth eu ffrwythau o sancteiddrwydd ger bron yr Arglwydd. Er iddynt fod yn dra aunmherffaith, fe'u cymmeradwyir, o herwydd fod per-argol Crist arnynt, y cyff bendigaid, yr hwn y mae y canghenau yn tyfu arno; tra mae ffrwythydd y lleill yn cael eu gwrthod gan Dduw, Gen. iv. 4, 5. " A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwn; ond nid edrychodd efe ar Cain nac ar ei offrwm." Cydmerwch Heb. xi. 4. " Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain." O mor aunmherffaith yw dyledswyddau y saint y'ngolwg y gyfraith! Mae y credadyn ei hun yn gweled llawer o feiau yn ei gyflawniadau goreu; eto mae yr Arglwydd yn eu derbyn hwynt yn rasol.

Nid oes un hedyn o ras wedi ei blannu yn y galon, nad oes chwynyn o lygredigaeth yn ei ymyl, tra mae y saint yn y byd hwn: Mae hyd yn nod eu cywirdeb mwyaf a ffug neu ragrith yn gymmysgedig ag ef, Gal. ii. 13, Felly mae pall y'ngweithrediad pob gras, y'nghyflawniad pob dyledswydd: mae natur lygredig bob amser yn dyferu rhywbeth i ddiwyno eu gwaith goreu. Mae tywyllwch yn gymmysgedig â'u goleuni dysgleiriaf. Eto nid yw hyn yn niwedio eu cymmeradwyaeth, Can. vi. 10. " Pwy yw hon a welir fel y wawr?" Felly mae y ddyweddi yn cael ei mawrhâu a'i chymmeradwyo gan ei Harglwydd, hyd yn nod pan fyddo hi yn edrych fel y wawr, tegwch yr hon sydd wedi ei chymmysgu â thywyllwch y nos! Pan ymddangosodd y bore, fel y dywedir yn Barn xix. 26. h. y. *ar wawriad y dydd,* yn ol Saes'neg. Felly y mae gwawr o ras a chariad at Grist, gras yn ymddangos oddi tan drwch o dywyllwch mewn credinwyr, sydd foddhäol a chymmeradwy ganddo ef, fel y mae toriad y wawr i ymdeithydd lluddiedig. Er fod gweddillion anghrediniaeth yn gwneuthur i'w llaw o ffydd grynu; eto mae hi gymmaint wrth fodd yr Arglwydd; fel y mae efe yn ei rhoi ar waith i gario maddeuant a chynnorthwy o râs oddiwrth orsedd a ffynnonell grâs. Yr oedd ei ffydd ef yn effeithiol, yr hwn a

waeddodd allan gan ddywedyd, "Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd: cymmorth fy anghrediniaeth i," Marc ix. 24. Er fod gweddillion serchiadau cnawdol yn gwneuthur fflam eu cariad yn wan a myglyd; mae efe yn troi ei olwg oddiwrth y mwg, ac yn sylwi ar y fflam, mor deg yw, Can iv. 10. "Mor deg yw dy gariad, fy chwaer, a'm dyweddi." Mae arogl eu hîs-wisgoedd o sancteiddrwydd greddfol, er mor anmherffaith, fel arogl Libanus, adn. 11. a hyny o herwydd eu bod wedi eu gorchuddio yn nillad y brawd hynaf, yr hyn sy yn gwneuthur i blant Duw arogli fel arogl maes yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd. Cymmeradwyir eu gweithredoedd da: eu cwpaneidiau o ddwfr oer, a rodder i ddisgybl, yn enw disgybl, ni chollant eu gwobr. Er na allant offrymu at wasanaeth y tabernacl, aur, arian, a phres, a meini onix; deuont ymlaen â'r pethau sydd ganddynt; pe byddai ond blew gafr, ni wrthodir ef; pe byddai ddim ond crwyn hyrddod, fe'u cymmeradwyir yn garedig canys y maent wedi ei lliwio yn gochion, wedi eu trochi trwy ffydd y'ngwaed y Cyfryngwr, ac felly yn cael eu cyflwyno i Dduw. Mae gweithred tra chyffredin a wneir mewn ffydd, ac oddiar ffydd, megis adeiladu mur o amgylch y ddinas sanctaidd, yn waith mawr, Neh. vi. . Pe ba'i ddim ond tywallt blwch o ennaint ar Grist, nid anghofid ef byth, Matth. xxvi. 13. Ië, "phïolaid o ddwr oer, yn unig i rai bychain Crist, yn enw disgybl, a wobrwyir," Matth. x. 42. Ië, ni ddaw gair da am Grist o'u geneuau, a'r hi chofrestrir ef yn llyfr coffadwriaeth Duw, Mal. iii. 16; ac i ddisgyn deigryn o'u llygaid er ei fwyn ef, a'r ni ddyru efe yn ei gostrel, Ps. lvi. 8. Cymmeradwyir eu hewyllys yn e gweithred; y galar o eisieu ewyllys, yn lle yr ewyllys ei un, 2 Cor. viii. 12. "Canys os bydd parodrwydd meddwl r blaen, yn ol yr hyn sy gan un, y mae yn gymmeradwy, nid n ol yr hyn nid oes ganddo." Clywir eu gruddfanau, yn nefoedd pryd nad allont iawn-eirio eu dymuniadau mae, eddwl y gruddfanau hyn yn ddigon hysbys yno, ac fe'u chwelir yn ol fel colomen Noah a deilen olewydden o heddch yn ei chilfin. Gwel Rhuf. viii. 26, 27. Mae eu hatlingu hwy yn well na thalentau dynion eraill; mae eu hymadroddion bloesg a hanerog yn fwy boddhäol i'w Tad yn y nefodd, nag areithiau hyawdl a gwych y rhai sy allan o Grist. Mae eu llais yn beraidd, hyd yn nod pan fyddo arnynt gywilydd cael eu clywed: Mae eu golwg yn hardd, ie, pan fyddont

yn cywilyddio ac yn tynu gorchudd drosto, Can. ii. 14., Mae y Cyfyngwr yn cymmeryd eu heirchion, yn dileü rhai rhanau o honynt, ac yn diwygio y lleill, ac yna yn eu cyflwyno i'r Tad, ac o ganlyniad maent yn pasio yn llys y nefoedd.

Mae pob gwir Gristion yn deml i Dduw. Os edrychwch am aberthau, nid oes brinder arnynt yno, maent yn offrymu aberth moliant ac yn gwneuthur daioni ; â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw, Heb. xiii. 15, 16. Crist ei hun yw yr allor sy'n sancteiddio y rhodd, adn. 10. Ond pa beth sydd yn dyfod o grwyn a biswail eu haberthau? Fe'u bwrir tu allan i'r gwersyll. Os edrychwn am arogl-darth, mae efe yno hefyd. Mae grasusau yr yspryd yn eu calonau; ac y mae yspryd croeshoeliedig yn eu tanio ac yn eu dwyn i weithredu; megis yr oedd y tân yn cael ei ddwyn oddiar allor y poeth-offrwm, i losgi yr arogl-darth: yna yr oeddynt yn dyrchafu tu a'r nef, fel colofnau mwg, Can. iii. 6. Ond y mae'r arogl darth goreu yn gadael lludw ar ei ol. Ydyw, yn wir; eithr fel yr oedd yr offeiriad yn cymmeryd lludw yr arogl-darth ymaith yn y cawg aur; ac yn ei daflu allan: felly y mae ein Harch-offeiriad mawr ni yn cymmeryd ymaith ludw a gwehilion gwasanaeth yr holl saint, trwy ei eiriolaeth ar eu rhan.

Yr *wythfed* fendith sydd yn tarddu o'n hundeb yw Sicrhâd. Ni all y cristion byth syrthio ymaith, ond mae'n sicr o barhau hyd y diwedd, Ioan x. 28. "Ni chyfrgollant byth, ac n'i ddwg neb hwynt allan o'm llaw i." Yn wir, oni una y gangen a'r boncyff, hi a syrth ymaith pan ddelo gwynt tymhestlog; ond mae y gangen sydd wedi ei huno â'r boncyff y sefyll yn ddïogel pa wynt bynag a chwyth. Weithiau mae gwynt tymhestlog temtasiynau yn chwythu o uffern, ac yn ysgytio y cangenau sy yn Nghrist y wir winwydden; ond eu hundeb ag ef yw eu dïogelwch; gellir eu hysgwyd, ond byth ni ellir eu symud. Gwna yr Arglwydd gyda y demtasiwn ddïangfa hefyd, 1 Cor. x. 13 Nid yw tawelwch un amser ond o fyr barhâd; mae bob amser braidd ryw wynt yn chwythu; ac felly nid yw y canghenau braidd un amser yn cael llonyddwch; ond weithiau mae gwynt cadarn yn codi, yr hwn sy'n bygwth eu rhwygo hwy ymaith oddiwrth y boncyff. Felly mae hi gyda'r saint; rhaid iddynt fod ar eu gwyliadwriaeth o hyd; i sefyll eu tir yn erbyn temtasiwn: Ond weithiau mae y gwynt o uffern yn codi mor uchel, ac yn

chwythu mor greulon, fel y mae yn gwneuthur hyd yn nod i'r canghenau uchaf ysgubo y llawr; eto trwy eu bod wedi eu huno â Christ eu cyff, maent yn ymsythu drachefn er gwaethaf ymgyrch creulon tywysog llywodraeth yr awyr, Ps. xciv 18. "Pan ddywedais, Llithrodd fy nhroed: dy drugaredd di, O Arglwydd a'm cynnaliodd." Ond mae y Cristion ar ei ennill trwy y prawf hwn; a chyn belled oddiwrth gael ei ddrygu, fel y mae yn cael elw yn y tro, ac y mae yn dyfod i weled y fath afael sydd gan yr enaid yn Nghrist, a'r fath afael sy gan Grist yn yr enaid. A sylwch, megis y gwynt yn y fegin yr hwn a ddiffydd y ganwyll ond a chwyth y tân i gynneu; felly yn fynych mae hi gyda'r Cristion, mae y cyfryw demtasiynau yn ei fywiocau, ac yn deffroi grasusau yr Yspryd ynddo; a thrwy hyny mae yn dyfod i weled cywirdeb a sicrwydd ei râs. Ac felly fel y dywed Luther, y dyn enwog hwnw i Dduw, "Mae un Cristion, yr hwn sydd wedi cael profiad o demtasiwn yn werth mil o rai eraill."

Weithiau mae gwynt tymhestlog o drallod ac erledigaeth oddiwrth ddynion y byd yn chwythu ar y winwydden, h. y Crist dirgeledig: ond mae undeb â'r boncyff, yn ddigon o ddïogelwch i'r canghenau. Mewn amser o dawelwch a llwyddiant allanol ar yr eglwys, tra mae yr angylion yn dal y gwyntoedd fel na chwythont, mae llawer o ganghenau yn cael eu cymmeryd i fynu, a'u dodi yn y cyff, y rhai nid ydynt byth yn ymuno ag ef, nac yn byw drwyddo, er eu bod wedi eu cylymu wrtho, trwy rwymau ordinhadau allanol. Yn awr gall y rhai hyn sefyll ar y cyff dros dro; a sefyll yn dra hawdd tra parhäo yr hin yn dawel. Ond pan unwaith y cyfodo yr ystormydd, ac i'r gwyntoedd chwythu, dechreuant syrthio, y naill ar ol y llall: a pho trymaf y chwytho y gwynt, amlaf fydd nifer y rhai a syrthiant. Ië, rhai canghenau cryfion o'r fath hyn, pan syrthiont, trwy eu pwys, a ddygant eraill o'r un rhywiogaeth i'r llawr gyda hwynt; ac a ysigant ac a wasgant i lawr rai o'r gwir ganghenau yn y fath fodd, fel y syrthient hwythau hefyd ymaith, oni b'ai eu bod wedi eu huno a'r cyff; trwy rinwedd yr hwn, maent yn codi eu penau drachefn, ac ni allant syrthio ymaith, o herwydd y gafael sicr sy gan y cyff ynddynt Oddiyma y mae fod llawer o ganghenau a fu yn uchel ac enwog, yn gorwedd ar y llawr yn wywedig, ac yn gymmwys i'w casglu y'nghyd, a'u bwrw i'r tân, Matth. xiii. 6. "Ac wedi codi yr haul y poethasant;

ac am nad oedd ganddynt wreiddyn, hwy a wywasant." Ioan xv. 6. "Onid erys un ynof fi, efe a daflwyd allan fel cangen, ac a wywodd; ac y maent yn eu casglu hwynt, ac yn ei bwrw yn tân, a hwy a losgir." Ond pa mor greulon bynag y chwytho y gwynt, ni chanfyddir un o'r canghenau a impiwyd yn, ac a unwyd â'r cyff, ar goll, pan elo'r storm drosodd, Ioan xvii. 12. "Y rhai a roddaist i mi a gedwais, ac ni chollwyd un o honynt." Y brigyn lleiaf sy'n tyfu yn Nghrist, a ddeil i fynu, ac a erys; pryd y byddo y cedrwydd uchaf sy'n tyfu ar eu gwreiddyn eu hunain, yn gorwedd yn gyd-wastad â'r llawr, Rhuf. viii. 35 "Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethini, neu enbydrwydd, neu gleddyf?" Gwel adn 36, 37, 38, 39. Pa mor greulon bynag y gogryner Israel, eto ni syrth y gronyn lleiaf (neu fel y mae yn yr iaith wreiddiol, y gareg fechan) i'r llawer, Amos ix. 9. Cyfeiriad yw at ogrynu mân gerig teg, o blith llwch a thywod: er fod y llwch a'r tywod yn syrthio i'r llawr, yn cael eu chwythu gan y gwynt, a'u sathru dan draed, eto ni syrth cymmaint a chareg fechan i'r llawr, y fath yw cywirdeb y gogr, a gofal y gogrynwr. Nid oes dim yn fwy parod i ddisgyn i'r llawr na chareg: eto, os bydd proffeswyr yn feini bywiol, wedi eu hadeiladu ar Grist y pen congl-faen, er iddynt fod yn gerig bychain, ni syrthiant i'r llawr pa dymestl bynag a chwytho arnynt, Gwel 1 Pedr ii. 4, 5, 6. Mae pob gronyn da yn eglwys Crist o'r natur hwn: maent yn feini o ran eu sadrwydd, a meini bywiol o herwydd eu bywiogrwydd. Os bydd dynion yn Gristionogion diysgog a sylweddol, ni fyddant fel us yn cael eu taflu yn ol ac yn mlaen gyda phob awel, a chanddynt y fath fywiogrwydd, fel nad oes ynddynt ddim o natur y gareg: ac os byddant yn Gristionogion bywiog, y rhai yr ymgynhyrfa eu hyspryd ynddynt, fel y gwnaeth Yspryd Paul, pan welodd y ddinas wedi ymroi i eilunod. Act. xvii. 16. ni orweddant fel oerig, i gael eu troi yma ac acw, a'u tori a'u cerfio yn ol chwantau dynion; ac ynddynt gymmaint o natur y gareg fel nad oes dim bywiogrwydd ynddynt.

Tŷ mawr yw tŷ ein Duw ni, lle nid oes yn unig lestri o aur, ond hefyd o bridd, 2 Tim. ii. 20. Mae y ddau fath hyn yn dueddol i gasglu budreddi; ac felly, pan y mae Duw yn dwyn trallod ar yr eglwys, mae ganddo olwg ar y ddau.

Nis dyfethir y llestri aur, ond fe'u purir trwy brawf tanllyd,

yn mhair cystudd, fel gof aur yn puro ei aur, Esay 1. 25. "A mi a ddychwelaf fy llaw arnat, ac a lân-buraf dy sothach." Ond dinystr sydd i'r llestri pridd, fe'u malurir yn chwilfriw fel llestr y crochenydd, adn. 28. A dinystr (neu doriad) y troseddwyr a'r pechaduriaid a fydd ynghyd. Mae'n debygol fod yma gyfeiriad at y gyfraith hono o dori y llestri pridd, pan fyddent yn aflan, pryd yr oedd y llestri coed, ac o ganlyniad y llestri aur, ddim ond cael eu golchi, Lef. xv. 12.

*Y nawfed* fendith yw Cynnaliaeth. Os wyt ti yn gangen wedi dy impio yn Nghrist, mae'r gwreiddyn yn dy gynnal di. Mae y credadyn yn pwyso ar Grist; fel gwraig lesg ar ei thaith, yn pwyso ar ei hanwyl brïod, Can. viii. 5. Mae efe yn pwyso ar Grist, fel hen wr egwan yn pwyso ar ei ffôn, Esay l. 10. Mae yn ei fwrw ei hunan arno fel un yn bwrw baich y byddo yn methu cerdded dano, oddiar ei gefn ei hun, ar gefn un arall, a fo'n alluog i'w ddwyn, Ps. xxii. 8, ar ymyl y ddalen. Mae llawer o bwysau, i grogi wrth, ac i wasgu i lawr y canghenau yn Nghrist, y wir winwydden. Ond chwi a wyddoch, pa bwysau bynag fyddo ar y canghenau, fod y cyff yn cynnal y cwbl; mae yn cynnal y gangen a'r pwysi fyddo arni hefyd.

1af. Mae Crist yn cynnal y rhai fyddo yn credu ynddo ef, dán bwys trallodion allanol. Addewid fawr yw hon, Esay xliii. 2. "Pan elych trwy 'r dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd fel na lifont drosot." Gwelwch fel y cynnaliwyd Dafydd dan lwyth gorthrwm, 1 Sam. xxx. 6. Yr oedd ei ddinas Siclag wedi ei llosgi, ei wragedd wedi eu cymmeryd yn gaethion, a'i bobl a feddyliasant ei labyddio ef: nid oedd dim wedi ei adael iddo, ond ei Dduw a'i ffydd; ond trwy ei ffydd, efe a ymgysurodd yn yr Arglwydd ei Dduw. Mae yr Arglwydd yn dyfod, ac yn gosod ei groes ar ysgwyddau ei bobl: mae yn eu gwasgu i lawr; maent yn debyg o suddo dani ac am hyny yn gwaeddi, "Feistr, cadw ni, darfu am danom:" ond y mae efe yn eu cynnal dan eu baich; mae efe yn eu dal i fynu, ac y maent hwythau yn dwyn eu croes. Felly mae y Cristion, er fod ganddo bwys o drallodion allanol arno, y mae yn gallu dwyn ei faich yn ysgafn o herwydd fod breichiau tragywyddol oddi tano. Mae gan y Cristion ffynnonell o gysur, yr hon nis gall ei cholli; ac felly ni bydd

mewn eisieu cynnaliaeth. Pe ba'i un a'i holl gyfoeth yn arian, gallai lladron fyned â'r rhai'n ymaith, ac yna beth fyddai ganddo ef yn rhagor? Ond y gwr y byddo ganddo dir, pe dygid ei arian, eto mae ei dir ganddo gwed'yn, i'w gynnal. Dichon y rhai sydd yn adeiladu eu cysuron ar bethau daearol, yn fuan iawn fod yn ddigysur. Ond y rhai sydd wedi eu huno a Christ, a gant gysur, pan fyddo holl ffrydiau cysuron daear wedi sychu i fynu, Iob. vi. 13. "Onid yw fy nghymmorth ynof fi? a fwriwyd doethineb yn llwyr oddiwrthyf fi?" fel pe dywedasai, 'Er fod fy nghyfoeth wedi myned; er fod fy ngweision, fy mhlant, fy iechyd, a chryfder fy nghorph, oll wedi myned; eto nid yw fy ngras hefyd wedi myned. Er fod y Sabeaid wedi myned a'm hychain a'm hasynod, a'r Caldeaid wedi cymmeryd ymaith y camelod, eto nid aethant a'm ffydd a'm gobaith; maent hwy eto ynof fi, nid ydynt wedi eu cymmeryd oddiarnaf; felly trwy y pethau hyn gallaf gyrchu cysur o'r nef, pan na allaf gael dim o'r ddaear.'

2il, Mae Crist yn cynnal ei bobl dan bwys o drallodion a digalondid tufewnol. Llawer gwaith y mae eu cnawd a'u calon yn pallu; eto Duw yw nerth eu calon, Ps. lxxiii. 26. Gall fod llwyth o euogrwydd yn pwyso arnynt. Dyma lwyth a wna i'w cefn grymu, ac i'w hyspryd suddo: ond mae efe yn ei gymmeryd ymaith, ac yn rhoi maddeuant yn eu llaw, tra maent hwythau yn bwrw eu baich arno ef. Mae Crist yn cymmeryd yr enaid fel un yn priodi gweddw dan faich o ddyled; ac felly, pan ddelo y gofynwyr at ddyweddi Crist, mae hi yn eu dwyn at ei phriod, yn cyfaddef y ddyled, yn cyffesu ei bod yn analluog i dalu, ac y mae hi yn rhoi y cwbl arno ef. Mae y Cristion weithiau, trwy esgeulusdra, yn colli ei rydd-ysgrif (*discharge*); mae yn methu ei gael, er maint a chwilio am dano Mae y gyfraith yn cymmeryd y cyfle hwnw; ac yn codi cwyn yn ei erbyn am ddyled ag sydd wedi ei thalu eisoes Mae Duw yn cuddio ei wyneb, ac y mae yr enaid yn myned yn helbulus. Mae llawer picell yn myned trwy y galon yn awr ac y mae llawer cyfrif hir yn cael ei roddi o flaen dyn, y rhai mae efe yn eu darllenwa'u cydnabod. Mynych y mae efe yn gweled y swyddogion yn dyfod i'w ddal ef, a drws y carchar yn agored i'w dderbyn. Beth arall sy yn ei ddal rhag suddo yn gwbl mewn digalondid yn y cyflwr hwn;

ond fod breichiau tragywyddol y Cyfryngwr oddi tano, a'i fod yn ymbwyso ar y Meichiau mawr? Yn mhellach gall fod llwyth mawr o chwantau yn pwyso arnynt. Mae ganddynt gorph y farwolaeth yn pwyso arnynt. Mae marwolaeth yn fath bwys ag a wasg yr enaid allan o'r corph. Byddai coes neu fraich o farwolaeth (os gallaf ddywedyd felly) yn llwyth dychrynllyd. 'Gwna un chwant effro weithiau orwedd mor drwm ar blentyn Duw, fel nas gall ei symud, mwy nag y gall plentyn daflu cawr oddiar ei gefn.) Pa fodd ynte maent hwy yn cael eu cynnal dan holl gorph marwolaeth? Am fod eu cynnaliaeth o'r gwreiddyn sy'n eu dal, a'r fraich dragywyddol sydd oddi tanynt. Mae ei râs ef yn ddigon iddynt, 2 Cor. xii. 9. Nid y grâs sydd ynddo ydyw cynnaliaeth y credadyn; ffynnon yw hono ag y mae ei ffrydiau yn sychu weithiau: ond grâs Duw oddi allan iddo, y grâs sydd yn Iesu Grist; yr hon sydd yn ffynnon yn tarddu bob amser, ac ni chaiff y credadyn byth ei siomi o ddyfod iddi. Canys mae yr Apostol yn dywedyd yn yr un adnod, mai nerth Crist ydyw. Yn llawen iawn gan hyny, medd efe, yr ymffrostiaf fi yn hytrach yn fy ngwendid, fel y preswylio nerth Crist ynof fi, neu dabernacho drosof fi, megis y gwnaeth cwmmwl y gogoniant ar Israel, yr hwn a daenodd Duw yn gysgod iddynt yn yr anialwch, Ps. cv. 39; cydmarwch Esay iv. 5, 6. Felly mae y credadyn yn y frwydr hon, fel yr eryr, yn gyntaf yn hedeg i fynu (trwy ffydd) ac yna yn dyfod i lawr ar ei ysglyfaeth, Ps. xxxiv 5. "Edrychasant arno, a hwy a oleuwyd." Ac yn olaf, mae pwys o wendid ac eisieu arnynt; ond y maent yn bwrw y baich hwnw ar yr Arglwydd eu cymhorth, a hwy a gynnelir, Ps. lv. 22. Gydâ'u holl wendidau a'u beisieu, maent yn cael eu bwrw arno ef, fel y baban gwan a noeth yn dyfod o'r groth, yn cael ei fwrw i arffed yr hon a bennodir i gymmeryd ei ofal, Ps. xxii. 10. Er iddynt fod yn amddifaid, (fel llysieuyn yn yr anialwch, yr hwn y gall troed pob anifail ei sathru) eto yr Arglwydd a ofala am danynt, Ps. cii. 17. Nid yw hyn yn rhyfedd, mae y planhigyn lleiaf yn ddïogel *yn yr ardd*; ond mae ein Harglwydd Iesu yn fur o amddiffyniad, i'w rai gweiniaid ac amddifaid, hyd yn nod *yn yr anialwch.*

*Gwrthddadl.* Ond os ydyw y saint yn cael eu cynnal, pa fodd y maent yn syrthio mor fynych dan brofedigaeth a digalondid? *Atteb.* [1] Pa mor isel bynag y syrthiont, unrhyw

amser, ni allant byth syrthio ymaith yn llwyr; ac y mae hyny yn beth mawr. Fe'u "Cedwir trwy allu Duw trwy ffydd i iechydwriaeth, 1 Pedr i. 5. Gall rhagrithwyr syrthio ymaith, a syrthio i'r pwll; fel llestr yn syrthio i ffynnon pan doro y rhaff. Ond er y gall plentyn Duw syrthio, a myned mor isel ag i'r dyfroedd fyned dros ei ben, eto mae rhwymyn undeb yn aros rhwng Crist ac ef. Y mae y gadwyn heb ei thori; nid â efe i'r llawr, fe'i tynir i fynu drachefn, Luc xxii. 31, 32. "A'r Arglwydd a ddywedodd, Simon, Simon, wele, Satan a'ch ceisiodd chwi i'ch nithio fel gwenith: eithr mi a weddïais drosot, na ddiffygiai dy ffydd di." [2.] Mae cwympiadau y saint yn tarddu, o ddiffyg cynnydd mewn adnabyddiaeth o Grist, ac am nad ydynt yn ei ddefnyddio ef trwy ffydd, i'w cynnal, a'u dal i fynu, Ps. xxvii. 13. "Diffygiaswn pe na chredaswn." Tra fo y fammaeth yn dal y plentyn yn ei breichiau, nis gall syrthio i lawr: eto os na fydd i'r plentyn ddiofal ymaflyd ynddi, gall syrthio yn ol yn ei breichiau, a chael niwed mawr. Fel hyn y syrthiodd Dafydd, ac y torodd ei esgyrn, Ps. li. 8. ond ni thorodd rwymyn yr undeb, rhwng Crist ac ef: ni chymmerwyd yr Yspryd Glân, rhwymyn yr undeb hwnw, oddiwrtho ef, adn. 11.

Y fendith *olaf*, a enwaf, yw gofal neillduol y llafurwr, Ioan xv. 1, 2 "Myfi yw y winwydden a'm Tad yw y llafurwr.—Pob cangen, a ddygo ffrwyth, y mae efe yn ei glanhâu, fel y dygo fwy o ffrwyth." Mae credinwyr trwy rinwedd eu hundeb â Christ yn wrthrychau neillduol o ofal a rhagluniaeth Duw. Crist dirgeledig yw gwinwydden Duw, nid yw cymdeithasau eraill yn y byd ond olewydd gwylltion. Nid yw dynion y byd ond maes-allanol yr Arglwydd; y saint yw ei winllan, yr hon yw ei eiddo priodol, a'r hon y mae ei ofal yn neillduol am dani, Can. viii. 12. "Fy ngwinllan sydd ger fy mron." A'r hwn ni huna ac ni chwsg yw ei cheidwad, y mae efe yn ei chadw rhag i neb ei drygu, efe a'i ceidw ddydd a nos. Yr hwn y mae gwlith y nefoedd yn ei law, a'i dyfrhâ ar bob moment, Esay xxvii. 3. Mae efe yn ei thrin a'i glanhau, fel y dygo frwy o ffrwyth, Ioan xv. 2. Mae yn tori ymaith y brigau brâsdwf, sydd yn rhwystro i'r canghenau ffrwytho. Gwneir hyn yn neillduol drwy'r gair, a thrwy'r groes, neu gystuddiau. Mae mor angenrheidiol i'r saint gael gweinidogaeth y gair, ag yw i'r winllan gael un i drefnu a thrin y gwinwydd, 1 Cor. iii. 9. "Canys cyd-weithwyr Duw

ydym ni llafur-waith Duw, adeiladaeth Duw ydych chwi." Ac y mae angheurheidrwydd iddynt am y groes hefyd, 1 Pedr i. 6.

Gan hyny os cyfrifwn y groes, ymhlith y bendithion sy'n deilliaw i gredinwyr oddiwrth, eu hundeb â Christ, yr wyf yn meddwl na cham-farnem. Sicr wyf, eu bod yn eu dyoddefiadau yn cyd-ddyoddef gyd âg ef, Rhuf. viii. 17. Ac y mae y sicrwydd sydd ganddynt o'u croes, yn cynnwys natur addewid, yn hytrach na bygythiad, Ps. lxxxix. 30—33. "Os ei feibion a adawant fy nghyfraith.—Yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwïalen, ac a'u hanwiredd â ffrewyllau" Ond ni thoraf fy nhrugaredd oddiwrthynt, ac ni phallaf o'm gwirionedd." Mae hyn yn debyg i waith ymgeleddwr yn ymrwymo, i dad pan fyddo yn marw, i gymmeryd gofal y plant a adawyd arno, ac i roddi iddynt fagwraeth ac addysg er eu lles. Mae'n wir fod y cyfammod gras yn troi gwayw-ffyn cystuddiau yn gyllyll tocio i'r rhai sydd yn Nghrist, Esay xxxii. 9. "Am hyny trwy hyn y glanheir anwiredd Iacob; a dyma yr holl ffrwyth, tynu ymaith ei bechod." Pa ham gan hyny y byddwn anfoddlon i'n croes? pa ham y dychrynwn rhagddi? Rhaid i'r credadyn gyfodi ei groes a dilyn ei arweinydd, yr Arglwydd Iesu Grist. Rhaid iddo gyfodi ei groes beunydd, Luc ix. 23. "Os ewyllysia neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a choded ei groes beunydd, a dilyned fi." Rhaid iddo gyfodi croes ei ddiwrnod gwyl hefyd, Galar. ii. 22. "Gelwaist megis ar ddydd uchelwyl fy nychryn o amgylch." Dros hir amser, yr oedd eglwys yr Iuddewon wedi cael mwynhâu llawer o gyfarfodydd hyfryd yn y deml ar uchelwyliau i wasanaethu Duw; ond cawsant wyl o fath arall pan alwodd Duw ynghyd fyddin y Caldeaid oddiamgylch y ddinas a'r deml, y rhai a losgasant y deml ac a osodasant Ierusalem yn garneddau. Ac yn awr, tra y mae eglwys Dduw yn milwrio ar y ddaear, pa fodd y gall fod yn amgen na ddychwel y cymylau ar ol y gwlaw? Eithr croes Crist (yr hyn yw enw trallodau y saint) sydd enw hoff gan y credadyn. Croes yn wir ydyw; ond nid croes i rasusau 'r credadyn, eithr i'w lygredigaethau. Dichon y geill grasusau ymddangosiadol y rhagrithiwr drengi ar y groes, megis yr eiddo gwrandaw-wyr y tir creigiog, Math. xiii. 6. "Ac wedi codi yr haul (erledigaeth, adn. 21.) y poethasant; ac am nad oedd ganddynt wreiddyn, hwy a wywasant." Ond ni threngodd yr un o wir

rasusau y credadyn erioed eto ar y groes. Na, megis y dysgleiria canwyll yn loywach yn y tywyllwch, ac y llysg tân yn danbeidiach yn amser rhew: felly grasusau y credadyn ydynt yn gyffredinol yn fwyaf bywiog yn amser gorthrymder. Y mae rhyw bleser a melysdra yn y groes, i'r rhai hyny a fo a'u cynneddfau yn gweithredu i'w ganfod, ac i'w chwilio allan: mae rhyw felysdra i un gael drwy weled ei hun ar ymgais am y nefoedd, ac yn ymdrechwr am ogoniant: mae pleser i'w gael wrth deithio dros y mynyddoedd hyny, lle y gall y Cristion weled ol traed Crist ei hun, ac ôl y praidd a fu y ffordd hóno o'i flaen ef. Mor ddymunol i'r sant, yn ymarferiad grâs, yw gweled y modd y mae Duw da yn croesi ei dueddiadau llygredig, ac yn gwrthwynebu ei ffolineb! mor felys yw gweled y lladron hyn ar y groes! mor ddifyr ydyw sylwi pa fodd y mae Duw yn dwyn ymaith gynnaliaeth chwantau afreolus, ac yn eu newynu, fel y gallo 'r Cristion gael yr oruchafiaeth arnynt! Ac i ddywedyd y gwir, y mae paradwys o fewn y cae drain yma. Mynych y mae pobl Dduw mewn rhwymau; y rhai ni ddatodir byth nes y rhwymer hwynt â rhaffau cystudd. Mae Duw yn eu cymmeryd, ac yn eu taflu i ffwrn dân, i losgi ymaith eu rhwymau; ac yna fel y tri llangc, Dan. iii. 25, y maent yn rhyddion, yn rhodio yn nghanol y tân. Mae Duw yn rhoddi cyfran i'w blant, ag un cyffyr chwerw ynddi; os na weithia hono gydâ hwynt, efe a rydd yr ail, y drydedd, ac felly ymlaen, yn ol yr angenrheidrwydd, fel y byddo iddynt gydweithio er daioni iddynt, Rhuf. viii. 28. Mae efe yn eu prysuro i'r porthladd â chroeswyntoedd. Maent yn fynych ar lwybrau lle mae y groes yn un o'r camrau goreu a allant gerdded; ac addas y gallant ei chyfarch, fel y darfu Dafydd ag Abigail gynt, "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel, yr hwn a'th ddanfonodd di y dydd hwn i'm cyfarfod i," 1 Sam. xxv. 32. Mae pethau 'r byd yn faich mor drwm yn fynych i'r Cristion fel mae yn arafu ei gamrau tua'r nefoedd. Duw a ddeufyn wynt trallod arno, yr hwn a chwyth y baich oddiar ei gefn ef; ac yna y cerdda efe ei ffordd yn fwy cyflym, wedi i Dduw gymmeryd oddiwrtho y ddaear euraidd oedd yn denu ei galon ymaith oddiwrth Dduw, *Zeph.* iii. 12. "Gadawaf ynot hefyd bobl druain dlodion, ac yn enw 'r Arglwydd y gobeithiant hwy." Sylwodd rhyw foesolwr paganaidd, nad oes yr un hanesiaeth yn crybwyll am neb a gafodd ei wneuthur yn well drwy gy-

foeth. Ac y mae yn ammeu genyf os gall un hanesydd diweddar ddywedyd yn amgen. Ond y mae yn ddiogel genyf i lawer gael eu gwneuthur yn waeth drwy gyfoeth: fe gofleidlwyd miloedd i farwolaeth y'mreichiau y byd gwenieithus; a llawer o ddynion da a glwyfwyd gan lwyddiant allanol, y rhai oedd raid eu meddyginiaethu drwy y groes. Yr ydwyf yn cofio darllen am un â gôr-gasgliad yn ei fynwes, yn ofer y ceisiodd gymhorth meddygon; ond digwyddodd iddo gael ei archolli â chleddyf, a thorwyd y gôr-gasgliad; ac achubwyd ei fywyd drwy yr un ddamwain ag y peryglwyd ei fywyd. Mynych y crônodd gôr gasgliadau yn mynwesau pobl Dduw, yn amser llwyddiant allanol, ac a dôrwyd ac a ollyngwyd fel hyn gan y groes. Y mae yn gymmwynas i gredinwyr gael eu hiachâu drwy wialenodau: er eu bod yn gyffredinol mor weiniaid nes llefain gan ofn wrth weled y gyllell ysgythru, fel pe bai y fwyall ddinystriol; ac yn meddwl fod yr Arglwydd yn dyfod i'w lladd, pan nad yw yntau ond dyfod i'w hiachau hwynt.

Bellach mi a ddybenaf gydâ chyfeirio ychydig o eiriau at y saint yn gyntaf, ac yna at bechaduriaid.

*Yn gyntaf,*—Wrth y saint, mi ddywedaf, Ymdrechwch am gyrhaeddyd a dal i fynu gymmundeb a chymdeithas fywiog âg Iesu Grist; hyny yw, sugno cynnorthwyon newyddion o râs yn wastadol, o'r ffynon o ras sydd ynddo ef ei hun; a gwneuthur iawn ddefnydd o'r unrhyw yn yr ymarferiad orâs, ac ufudd-dod sanctaidd. Gochelwch i ymddyeithrad gymmeryd lle rhwng eich eneidiau a Christ. Os yw wedi dyfod i mewn eisoes, (fel y mae gydâ llawer, mi feddyliwn, y dyddiau hyn,) llafuriwch am gael ei symud. Mae lliaws yn y byd yn dibrisio Crist, ond ni ddylech chwi ei ddibrisio ef: llawer a droisant eu cefnau arno, am y rhai y gallasid meddwl unwaith eu bod yn wynebu yn gywir tu â'r nef. Fe barodd heul-des llonyddwch a llwyddiant bydol i rai fwrw ymaith eu mantell o grefydd, er eu bod yn ei thyn-gadw tra yr ydoedd gwynt trallod yn chwythu arnynt: ac "a fynwch chwithau fyned ymaith?" Ioan vi. 67. Mae argraff o anniolchgarwch adgasaf ar eich gwaith yn dibrisio cymmundeb a Christ, Jer. ii. 31. "A fum i yn anialwch i Israel? yn dir tywyllwch? pa ham y dywed fy mhobl, Arglwyddi ydym ni, ni ddeuwn ni mwy attat ti?" O! frodyr, ai dyma eich caredigrwydd i'ch cyfaill? Y

mae yn anweddus iawn i unrhyw wraig ddibrisio cyfeillach ei phriod, yn enwedig i'r hon a godwyd o'r carchar neu o'r domen, fel y cododd eich Arglwydd chwi. Ond mi a ddymunwn i chwi gofio mai amser anmhriodol iawn ydyw hwn i fyw ymhell oddiwrth Dduw; yr amser y mae yn ymddangos fod rhagluniaeth Duw yn gwgu ar ein gwlad; a chymylau digofaint yn ymgasglu uwch ein penau. Nid amser yw hwn i chwi fod allan o'ch ystafelloedd, Esay xxvi. 20. Fe gaiff y rhai sydd yn rhodio agosaf, at Dduw ddigon o waith i allu sefyll pan ddel y brofedigaeth: pa mor anhawdd ynte a fydd i ereill, y rhai sydd yn debyg o gyfarfod â helbulon, a'r euogrwydd heb eu symud oddiar eu cydwybodau. Profedigaeth ofnadwy fydd deffro o drym-gwsg i gael eu taflu i fôr terfysglyd, megis Ionah gynt. Cyflwr alaethus iawn ydyw teimlo trallod cyn i ni ei wel'd yn dyfod, a bod yn ddiobaith cyn dyfod ofn arnom. Am hyny bwriwch i lawr eich eilunod eiddigedd, marwhëwch y chwantau a'r blysiau a'r tueddiadau afreolus y rhai a ladratasant eich calonau ymaith, ac a'ch gadawsant fel Samson, heb ei wallt, a dywedwch, "Af a dychwelaf at fy ngwr cyntaf; canys gwell oedd arnaf fi yna, nag, yr awr hon." Hos. ii. 7.

*Yn ail,* Rhodiwch fel y gweddai i'r rhai a unwyd â Christ. Amlygwch eich undeb ag ef drwy rodio megys ag y rhodiodd ef, 1 Ioan ii. 6. Os dygwyd chwi o feddiant y tywyllwch, llewyrched eich goleuni ger bron dynion. Llewyrchwch fel goleuadau yn y byd gan gynnal gair y bywyd, fel y mae y llusern yn dal y ganwyll, yr hon sydd ynddi, ac yn goleuo drwyddi, Phil. ii. 15, 16. Gan eich bod yn proffesu fod Crist ynoch, llewyrched ei ddelw yn eich ymarweddiad; a chofiwch mai gorchwyl eich bywyd yw cadarnhâu eich proffes drwy resymau ymarferol.

1. Chwi a wyddoch ddyledswydd gwraig, fod yr hon a brïodwyd, yn gofalu pa fodd y rhynga hi fodd i'w gwr. Ewch chwithau a gwnewch yr un modd; "rhodiwch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd," Col. i. 10. Dyma orchwyl penaf eich bywyd; rhaid i chwi ryngu ei fodd ef, er i chwi anfoddloni yr holl fyd. Yr hyn y mae efe yn ei gasâu, a ddylech chwithau ei gasâu, a hyny am ei fod ef yn ei gasâu. Pa chwantau bynag a ddaw i geisio lle yn eich calon, gommeddwch hwynt, gan i ras Duw ymddangos i'n dysgu i hyny. A

chwi ydych wedi eich cyssylltu â'r Arglwydd. Bydded efe yn orchudd llygaid i chwi? oblegid nid ydych i ddewis, mae y dewisiad wedi ei wneuthur eisoes; ac ni ddylech ddïanrhydeddu eich Pen. Mae dyn yn gofalu am ei draed, oblegid, os caiff anwyd o honynt hwy, y mae yn esgyn i'r pen. "Gan hyny a gymmeraf fi aelodau Crist, a'u gwneuthur yn aelodau putain? Na atto Duw," medd yr apostol, 1 Cor. vi. 15. A gymmeri di dy galon, yr hon yw preswylfod Crist, a lletiya ei elynion ef ynddi; a gymmeri di y corph yna, yr hwn yw ei deml ef, gan ei halogi, drwy ddefnyddio ei aelodau yn arfau pechod?

2. Byddwch ddyfal i ddwyn ffrwyth, a *ffrwyth lawer*. Y gangen lawn o ffrwyth yw gogoniant y winwydden, a'r gwinllanydd hefyd, Ioan xv. 8. "Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer; a dysgyblion fyddwch i mi. Mae pren diffrwyth yn ddïogelach yn y goedwig, nag yn y berllan: a phob cangen yn Nghrist ar nad yw yn dwyn ffrwyth, a dynir ymaith ac a deflir yn tân.

3. Byddwch o feddylfryd nefolaidd, a chedwch ddiystyrwch sanctaidd tuag at y byd. Yr ydych wedi eich cyssylltu â Christ, efe yw eich pen a'ch priod, ac y mae efe yn y nefoedd: am hyny dylai eich calonau chwithau fod yno hefyd, Col. iii. 1. "Os cyfodasoch gydâ Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheu-law Duw." Cerdded hâd y sarph ar eu tórau, gan fwyta pridd y ddaear: eithr bydded yn gwilydd gan aelodau Crist ymostwng i ymborthi gydâ hwynt.

4. Byddwch fyw yn ymddibynol, a gweithredwch felly, gan ymddibynu drwy ffydd ar Iesu Grist. Yr hyn a dyfo ar ei wreiddyn ei hun, pren ydyw, ac nid cangben. Natur cangben ydyw ymddibynu ar y gwreiddyn am bob peth, a sugno ei holl nodd oddiyno. Ymddibynwch arno ef am fywyd, goleuni, nerth, a phob bendith ysprydol, Gal. ii. 20. "Byw ydwyf, eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi: a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw." Oblegid hyn, yn yr undeb dirgelaidd, y mae nerth wedi ei gyssylltu â gwendid, bwyd â marwolaeth, a nef â daear: fel y gallo gwendid, marwolaeth, a daear, esgyn i fynu ar adenydd benthyg. Ymddibynwch arno ef hefyd am fendithion tymmorol, Math. vi. 2. "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol." Os ymddiriedasom iddo ef am ein hachosion tragywyddol, bydded cywilydd genym ei ammeu yn ein hachosion bydol.

*Yn ddiweddaf*, Byddwch o duedd addfwyn, ac o dymher unol â chyd-aelodau corph Crist, megys wedi eich cyssylltu â'r addfwyn Iesu, dedwydd ganol-bwynt yr undeb. Mae prophwydoliaeth i'r perwyl yma mewn perthynas i deyrnas Crist, Esay. xi. 6. "A'r blaidd a drig gydâ 'r oen, a'r llewpard a orwedd gydâ 'r myn." Cyfeiriad ydyw at yr anifeiliaid yn arch Noah. Y bwystfilod ysglyfaethus, a fyddent arferol o ladd a thraflyngcu y lleill, pan unwaith y daethant i'r arch, hwy a orweddent yn heddychol; nid oedd perygl i'r oen oddiwrth y blaidd yno, nac i'r myn oddiwrth y llewpard. Gwelwyd cyflawniad gogoneddus o hyn yn y brif eglwys, Act. iv. 32. "A lliaws y rhai a gredasent oedd o un galon, ac un enaid." Mae graddau o hyn yn holl aelodau Crist, yn ol y mesur o ras Duw a fyddo ynddynt. Mae dyn yn cael ei eni yn noeth, mae yn dyfod yn noeth i'r byd hwn, fel pe bwriadasai Duw iddo fod yn gynllun o heddwch: a diau pan ei ganer drachefn, nid yw yn dyfod i fyd newydd grâs â chrafangau i rwygo, ac â chleddyfau i archolli, ac â thân i losgi ei gydaelodau yn Nghrist, am nad ydynt yn cyd-weled ag ef. O! galarus yw gweled lili Crist fel drain yn ystlysau eu gilydd; ŵyn Crist yn ysglyfaethu y naill y llall fel llewod, a gemau Duw yn tori eu gilydd: eto rhaid cofio nad glyd cyfaddas yw pechod i uno aelodau Crist ynghyd, er gwneuthur Herod a Phontius Pilat yn gyfeillion yn y ffordd hòno. Mae rhëol yr apostol yn eglur, Heb. xii. 14. "Dilynwch heddwch â phawb, a sancteiddrwydd." Dilyn heddwch mor belled ag y caniatäo ein tymher, a'n parch, a'r cyffelyb sydd ry fyr; a dilyn heddwch tu hwnt i sancteiddrwydd, hyny yw cydymffurfiad ag ewyllys Duw, sydd ry bell, Mae heddwch yn werthfawr, eto gellir ei brynu yn rhy ddrud: am hyny, gwell i ni fod hebddo, na'i brynu ar gost gwirionedd a sancteiddrwydd. Ond trwy na wnelom hyny, nis prynwn ef byth yn rhy ddrud; ac y mae yn wastadol yn werthfawr y'ngolwg meibion tangnefedd.

II. Bellach, bechaduriaid, beth a ddywedaf wrthych chwithau? Mi a roddais i chwi radd o ddarluniad o freintiau y rhai sydd mewn cyflwr o râs; chwi a'u gwelsoch hwynt o bell; ond och! nid ydynt yn perthyn dim i chwi, oblegid nad ydych yn eiddo Crist. Eiddo chwi ydyw pechadurusrwydd cyflwr diadgenedledig; a'r trueni o hono sydd eiddo chwi hefyd: ond nid oes i chwi na rhan na chyfran yn y pethau

hyn. Mae euogrwydd eich holl bechodau yn gorwedd arnoch; nid oes i chwi ddim rhan yn nghyfiawnder Crist. Nid oes dim heddwch i chwi, dim heddwch â Duw, dim gwir heddwch cydwybod; o herwydd nad oes i chwi ddim hawl cadwedigol yn y tangnefeddwr mawr. Nid ydych o deulu Duw: nid yw 'r mabwysiad y buom yn son am dano yn perthyn i chwi. Nid oes i chwi gyfran yn Yspryd sancteiddiad; ac, mewn gair, nid oes i chwi etifeddiaeth ymhlith y rhai a sancteiddiwyd. Cymmaint ag a allaf ddywedyd wrthych am y mater yma ydyw, nad yw eich cyflwr ddim yn anobeithiol: gallant eto ddyfod yn eiddo i chwi, Dad. iii. 20. "Wele, yr wyf fi yn sefyll wrth y drws, ac yn curo: os clyw neb fy llais i, a'c agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn atto ef, ac a swpperaf gyd ag ef, ac yntau gyd â minnau." Mae 'r nefoedd yn cynnyg dyfod i undeb â'r ddaear eto; mae y crocheirydd yn erfyn ar ei glai ei hun; y mae pyrth y ddinas noddfa eto heb eu cau. O! nad allem eich cymhell i ddyfod i mewn.

Hyd yma am gyflwr o râs.

---

# PEDWERYDD CYFLWR

SEF

Y CYFLWR TRAGYWYDDOL; NEU, GYFLWR O GYFLAWN DDEDWYDDWCH NEU DRUENI.

---

## PEN I.

## AM ANGAU.

JOB XXX. 23.

*Canys mysi a wn y dygi di fi i farwolaeth; ac i'r ty rhagderfynedig i bob dyn byw.*

Weithian yr ydwyf yn dyfod i lefaru am gyflwr tragywyddol dyn, i'r hwn y mae efe yn myned trwy angau. Mae Iob yn

cymmeryd golygiad difrif-ddwys ar y cyntedd hwn yn ngeir-iau y testun, y rhai sydd yn cynnwys gwirionedd cyffredinol a chymhwysiad neillduol o hono. Y gwirionedd cyffredinol a gynnygir, yw, y bydd raid i bob dyn fyned trwy angau allan o'r byd hwn; mae yn rhaid iddynt farw. Ond i ba le y rhaid iddynt fyned? Rhaid iddynt fyned i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw; i'r bedd, y ty tywyll, trymllyd, anghyfanned-hwnw yn nhir anghof. Pa le bynag y dodir y corph i orwed hyd yr adgyfodiad; yno, fel i dy annedd, y mae angau yn ei cymmeryd i gartrefu. Tra yr ydym yn y corph, nid ydym ond mewn lletty; mewn gwestfa ar y ffordd tuag adref. Pan elom i'n bedd, yr ydym yn myned i'n cartref, ein hir gartref, Preg. xii. 5. Rhaid i bob dyn byw fyned i breswylio i'r ty hwn, da a drwg, hen ac ieuangc. Ffrwd yw bywyd dyn, yn rhedeg i ddyfnderoedd difäol angau. Y rhai sydd yn awr yn byw mewn palasau, bydd raid iddynt eu gadael, a myned adref i'r ty hwn: a hwythau sydd heb le i roi eu penau i lawr, a gant dy o'r diwedd. Mae wedi ei ragderfynu i bob dyn, ganddo ef, cynghor yr hwn a saif. Nis gellir symud y rhagderfyniad hwn; dyma ddeddf nas gall marwolion mo'i throseddu. Mae cymhwysiad Iob o'r gwirionedd hwn ato ei hun, yn cael ei osod allan yn y geiriau hyn; "Myfi a wn y dygi di fi i farwolaeth, &c." Efe a wyddai fod yn rhaid iddo gyfarfod ag angau; fod yn rhaid i'w gorph a'i enaid ymadael a'u gilydd; y Duw a osododd y ddeddf hon, a fyn yn sicr weled ei chyflawni. Weithiau fe fyddai Iob yn gwahodd angau i ddyfod i'w gymmeryd ef adref i'w dy ïe, bu yn debyg o redeg yno cyn yr amser. Iob vii. 15, "Am hyny y dewisai fy enaid ymdagu, a marwolaeth yn fwy na 'm hoedl." Eithr yma y mae yn ystyried y dygai Duw ef yno; ïe, ei ddwyn ef yn ol yno, fel y mae y gair yn arwyddo. Wrth yr hyn y mae yn ymddangos ei fod yn bwrw, nad oes genym ni ddim bywyd yn y byd yma, ond megys ffoaduriaid rhag angau, yr hwn sydd yn estyn ei freichiau oerion i'n derbyn o'r groth: ac er cael o honom y pryd hwnw ond yn brin ddiangc o'i grafangau, nis gallwn ddiangc yn hir: fe 'n dygir yn ol ato drachefn. Fe wyddai Iob hyn, yr oedd wedi bwrw y draul, ac yn dysgwyl am dano.

# ATHRAWIAETH.

## *Rhaid i bawb farw.*

Er bod yr athrawiaeth hon wedi ei chadarnhau drwy brofiad yr holl genedlaethau o'r blaen, er pan aeth Abel i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw, ac er y gŵyr y byw y byddant feirw; eto mae yn angheнrheidiol ymddyddan am sicrwydd marwolaeth, fel y bydd iddo gael ei argraffu ar y meddwl, a'i ystyried yn ddyladwy.

Gan hyny ystyriwch, *yn gyntaf*, Mae dynion wedi eu gosod dan angbenrheidrwydd anocheladwy i farw. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith," Heb. ix. 27. Y mae wedi ei drysori iddynt, fel y mae rhïeni yn trysori i'w plant; gallant ddysgwyl am dano, ac nis gallant ei golli; gan fod Duw wedi ei fwriadu ac yn ei gadw iddynt. Nid oes yma un ysgatfydd: "Canys gan farw yr ydym ni yn marw," 2 Sam. xiv. 14. Er na fyn rhai dynion glywed am farwolaeth, eto fe gaiff pob dyn weled marwolaeth, Psalm. lxxxix. 48. Cawr ydyw angau y bydd raid i bawb ymaflyd ag ef: rhaid i ni fyned i'r ymdrechfa ag ef, ond efe a orfydd, Preg. viii. 8. "Nid oes un dyn yn arglwyddiaethu ar yr yspryd, i attal yr yspryd; ac nid oes ganddo allu yn nydd marwolaeth." Diau y caiff y rhai a fydd yn byw pan y delo Crist, eu newid oll, 1 Cor. xv. 51. Ond cyffelyb i angau fydd y cyfnewidiad hwnw, ac a ettyb yr un dyben. Rhaid i bawb ereill fyned ar hyd y ffordd gyffredin, *ffordd yr holl ddaear*. *Yn ail*, Ystyriwn yr hyn sy'n cymmeryd lle yn feunyddiol. Fe wêl pawb "fod y doethion yn meirw, yr unffunyd y derfydd am ffol ac ynfyd, Ps. xlix. 10. Mae digon o le ar y ddaear yma, er maint y llïaws a fu arni o'n blaen ni: aethant hwy ymaith i roi lle i ni, fel y rhaid i ninnau fyned ymaith i roi lle i ereill. Y mae talm o amser er pan ddechreuodd angau drosglwyddo dynion i fyd arall, ac y mae torfoedd aneirif wedi myned yno eisoes; eto y mae y fasnach yn myned y'mlaen o hyd; mae angau beunydd yn mudo preswylwyr newyddion i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw. Pwy erioed a glywodd y bedd yn dywedyd, Digon? Y mae yn cael er's talm, ac eto y mae yn ceisio. Y mae 'r byd hwn yn debyg i ffair fawr neu

farchnad, lle mae rhai yn dyfod i mewn, ac ereill yn myned allan; tra y mae y gynnulleidfa sydd ynddi mor gymmysglyd fel nas gŵyr y rhan fwyaf o bonynt i ba ddyben y daethant yngbyd: neu, yn gyffelyb i dref a fyddo a'i sefyllfa ar y ffordd i ryw ddinas fawr, trwy yr hon y mae rhai ymdeithwyr wedi myned, rhai yn myned, a rhai ereill yn dyfod i mewn, Preg. 1. 4, "Un genedlaeth a â ymaith, a chenedlaeth arall a ddaw: ond y ddaear a saif byth." Cenad anwrthwynebol ac anghymmodlawn yw yr angau, yr hwn nis gellir ei droi heibio heb wneyd ei neges, drwy rym y cadarn, drwy ddobr y cyfoethog, na thrwy ymbiliau y tlawd. Ni pharcha efe y penllwyd, ac ni thosturia wrth y baban diniwed. Yr hyf a'r ëo'n nis trechant ef; ac ni ddichon y gwan-galon gael ei esgeuluso o'r rhyfel yma. *Yn drydydd.* Y mae y corph dynol yn gynnwysedig o ddefnyddiau diflanedig, Gen. iii. 19. "Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli." Nid yw y rhai cryfaf ond megis llestri pridd crinion; hawdd i'w tori yn chwilfriw. Nid oes gan yr enaid ond preswylfod wael, tra yn y corph marwol hwn; nid tŷ o gerig ydyw, ond tŷ o glai; nis dichon i'r parwydydd clai beidio a malurio ymaith, yn enwedig gan nad yw eu sail ddim ar graig, eithr *yn y pridd;* hwy a falurir yn gynt na gwyfyn, er bod y pryf hwn mor feddal, fel y difethir ef â chyffyrddiad bys, Iob. iv. 19. Mae y defnyddiau hyn megis powdr gwn, fel os syrth y wreichionen leiaf arnynt, fe'u gesyd ar dân, ac a chwyth y tŷ i fynu: careg rhesinen, neu flewyn mewn llaeth, a dagodd ddynion, ac a fwriasant eu tai o glai i'r pridd. Os ystyriwn ansawdd a chyfansoddiad ein cyrph, mor ofnadwy a rhyfedd ein gwnaed; a pha fodd y mae ein bywyd yn ymddibynu ar ysgogiad rheolaidd a manylaidd y llif-nodd; ac ar fod irnawsedd cyd-bwys y corph; a bod gan angau gynnifer o ddrysau i ddyfod i mewn ag sydd o chwŷs-dyllau yn y corph; ac os cymharwn y naill a'r corph a'u gilydd, gallwn gasglu yn gywir fod rhywbeth rhyfeddach yn ein bywyd nag sydd yn ein marwolaeth; a bod yn synach gweled llwch yn rhodio i fynu ac i waered ar hyd y llwch, nag yn gorwedd i lawr ynddo. Pe nas diffoddid lamp ein heinioes drwy drais, eto gorfyddai iddi ddiffodd o'r diwedd o eisiau olew. A pheth yw y clefydau a'r afiechyd yr ydym yn agored iddynt, ond rhagredegwyr angau, sydd yn dyfod i barotoi y ffordd iddo? Maent yn ein cyfarfod mor gynted ag y rhoddom droed ar y

ddaear; gan fynegi i ni ar ein cychwyniad, nad ydym yn dyfod i'r byd ond i fyned allan o hono drachefn. Eithr, yr un pryd, mae rhai yn cael eu cipio ymaith ar drawiad amrant, heb gael eu rhybyddio gan na chlefyd nac anhwyldeb. *Yn ledwerydd,* Y mae genym eneidiau pechadurus, ac am hyny mae genym gyrph marwol: mae angau yn canlyn pechod, fel y mae 'r cysgod yn canlyn y corph. Mae yn rhaid i'r anwir farw, drwy effaith bygythiad y cyfammod gweithredoedd, Gen ii. 17. "Yn y dydd y bwytai di o hono, gan farw y byddi farw." Rhaid i'r duwiol hefyd farw; fel megis y daeth angeu i mewn drwy bechod, y cai pechod fyned allan drwy angau. Mae Crist wedi cymmeryd ymaith golyn angau ar eu rhan hwy, er na ddarfu efe etto ddinystrio angau ei hun. Am hyny, er ei fod yn glynu wrthynt fel y wiber wrth law Paul, ni chaiff wneuthur iddynt ddim niwed: eithr o herwydd bod gwahanglwyf pechod yn mharwydydd y ty, mae yn rhaid ei dynu i lawr, a'i holl ddefnyddiau gael eu dwyn ymaith, *Yn olaf,* Nid yw bywyd dyn yn y byd hwn, yn ol yr hyn a ddywed yr ysgrythyr am dano, ond ychydig o raddau oddiwrth farwolaeth. Mae'r ysgrythyrau yn ei ddarlunio megys peth gwag ac ofer, byr ei barhâd, a chyflym ei fynediad.

*Yn gyntaf,* Peth gwag ac ofer yw bywyd dyn: tra y byddo, mae yn diflanu ymaith, ac wele, nid yw! Iob vii. 16. "Oferedd yw fy nyddiau." Os tybiwch fod Iob drallodus yn bleidgar yn yr achos yma, gwrandewch ddarluniad Solomon ddoeth a llwyddiannus, o ddyddiau ei fywyd ef, Preg. vii. 15. "Hyn oll a welais yn nyddiau fy ngwagedd; h. y. fy nyddiau gweigion. Mae Moses, yr hwn oedd ddyn esgud iawn, yn cymharu ein dyddiau i gwsg, Ps. xc. 5. Y maent fel hun, yr hwn ni sylwir arno nes byddo wedi darfod. Mae'r gymhariaeth yn dra addas: ychydig o ddynion sy'n dirnad bywyd yn iawn, nes y deffry angau hwynt; yna yr ydym yn dechreu gwybod ein bod yn fyw. Treuliasom ein blynyddoedd fel chwedl," adn. 9. Pan fyddo chwedl wag yn cael ei hadrodd, fe allai yr effeithia ychydig; ond pan ei gorphener, fe'i hanghofir: ac felly yr anghofir dyn, pan elo chwedl ei fywyd drosodd. Tebyg yw i freuddwyd, neu weledigaeth nos, yn mha un nid oes dim sylweddol; pan ddeffröer, mae'r cwbl yn diflanu. Iob xx. 8. "Efe a eheda ymaith megys breuddwyd; ac ni cheir ef: ac efe y ymlidir fel gweledigaeth nos."

Nid yw ond megis ymddangosiad gwag neu ddelw; Ps. xxxix. 6. "Dyn yn ddïau sydd yn rhodio mewn cysgod." Nid yw dyn yn y byd yma, ond megis delw yn rhodio; nid yw ei fywyd ond delw o fywyd, gan fod cymmaint o angau ynddo.

Os edrychwn ar ein henioes yn ei hamrywiol dymmorau, ni a'i gwelwn megis pentwr o wagedd. "Gwagedd yw mebyd ac ieuengctyd," Preg. ix. 10. Yr ydym yn dyfod i'r byd yn fwyaf diallel o bob creaduriaid: geill adar ac anfeiliaid ieuaingc wneyd rhywbeth drostynt eu hunain, ond maban o ddyn sy'n gwbl analluog i gynnorthwyo ei hun. Mae ein mabandod yn cael ei dreulio mewn pleserau gwael a distadl, y rhai sydd yn myned yn ddirmygus gan ein meddwl gwedi hyny. Blodeuyn yw mebyd sy'n gwywo yn fuan, ie, blodeuyn a syrth ymaith yn ebrwydd; yspaid o amser ydyw yn mha un yr ydym yn fyrbwyll, yn ffôl, ac yn anystyriol, yn boddio ein hunain ag amrywiol fath o oferedd, ac megis yn nofio drwy genllif o honynt. Ond yn ddisgwybod i ni fe a â heibio, ac wele ni y'nghanol ein hoedran, wedi ein hamgylchynu â chwmwl tew o ofalon, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni ymbalfalu; yna cawn ein hunain wedi ein hamgylchu â drain pigog o anhawsderau, rhaid i ni ymwthio drwyddynt i allu cwblhau amcanwaith a bwriadau meddyliau mwy pwyllog. A pho mwyaf yr ymhyfrydom mewn unrhyw fwyniant daearol a gyrhaeddom, mwyaf o chwerwder a brofwn wrth ymadael ag ef. Yna y daw henaint a'i holl ganlynwyr o wendidau, poen, a blinder. Psal. xc. 10. ac a'n gesyd i eistedd wrth y drws agosaf i'r bedd. Mewn gair, "Pob cnawd sydd wellt," Esay xl. 6. Gwagedd yw pob gorsaf neu yspaid o'r einioes. "Gwagedd yw pob dyn pan fo ar y goreu (y'nghanol ei oedran, pan y mae gwres ieuengctyd heb ei dreulio, a gofidiau henaint heb ei oddiweddyd), Psal. xxxix. 5. Mae angau yn cymmeryd rhai ymaith yn eginyn mabandod, ereill yn mlaguryn ieuengctyd, ac ereill yn eu llawn ffrwyth; ychydig a adewir i sefyll hyd onis cymmerir ymaith o'r maes fel yd addfed: rhaid i bawb farw ryw bryd neu ei gilydd.

*Yn ail*, Byr yw bywyd dyn; nid yn unig gwagedd yw, ond gwagedd byr-hoedlog yw hefyd. Ystyriwn, yn *gyntaf*, pa todd y cyfrifir einioes dyn yn yr ysgrythyrau. Gwir yw ddarfod weithiau ei chyfrif wrth y cannoedd o flynyddau: ond ni chyrhaeddodd dyn erioed fil, ac ni buasai hyny ond cwbl

anghyfartal â thragywyddoldeb. Yn awr, mae y cannoedd wedi eu tynu i lawr i ugeiniau; deg a thrigain, neu bedwar ugain mlynedd ydyw eithaf ei hyd, Psal xc 10 Ond ychydig sydd yn cyrhaeddyd yr yspaid hwnw o einioes. Anfynych y mae angau yn aros i ddynion gryfion gan henaint i gyfarfod y bedd. Eto, fel pe buasai blynyddoedd yn ormod gair am y fath beth bychan a bywyd dyn ar y ddaear, ni a'i cawn ef yn cael ei gyfrif wrth y misoedd, Iob xiv 5. "Rhifedi ei fisoedd ef sydd gydâ thi." Ein gyrfa, fel gyrfa y lleuad, a redir mewn ychydig amser; yr ydym yn wastad yn cynnyddu neu 'n treulio, nes y diflanom ymaith. Eithr mynych ei cyfrifir o fesur y dyddiau; a'r rhei'ny yn ychydig; Iob xiv. 1. "Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau." Na, nid yw ond un diwrnod y'nghyfrif yr ysgrythyr, a hwnw yn ddiwrnod cyflog-ddyn, yr hwn a edrych yn fanwl pa bryd y daw ei ddiwrnod i ben, i gael rhoi heibio ei waith, adn. 6. "Hyd oni orpheno fel gwas cyflog, ei ddiwrnod."Ië, mae yr ysgrythyr yn ei ddwyn i waered i'r yspaid byraf o amser, gan ei alw yn foment, 2 Cor. iv. 17. "Ein byr ysgafn gystudd" (yn ol y Saes'neg, cystudd dros foment) er para o hono o hyd ein hoes, nid yw ond tros foment. Ond mewn man arall fe'i dygir i waered i radd îs drachefn, ac nid yw yn bosibl ei ddwyn ddim pellach, Psal. xxxix. 5. "Fy einioes sydd megis diddym yn dy olwg di." Yn gyd-unol â hyn y dywed Solomon, Preg. iii. 2. "Y mae amser i eni, ac amser i farw; ond nid yw yn crybwyll dim am amser i fyw, fel pe na byddai bywyd ond megis naid o'r bru i'r bedd. *Yn ail*, Ystyriwn yr amrywiol gymhariaethau i ba rai y cyffelybir byrdra einioes dyn yn yr ysgrythyr. Clywch Hezekiah, Esay xxxviii. 12 "Fy mhrigfa a aeth, ac a symmudwyd oddiwrthyf fel lluest bugail: torais ymaith fy hoedl fel gwehydd." Buan y symmudir lluest bugail; nis dichon y diadelloedd borfâu yn hir yn yr un fan: felly mae einioes dyn ar y ddaear yma, buan yr â ymaith. Gwê ydyw sydd beunydd ar waith; nid yw yn segur gymmaint a moment, ebrwydd ei gweuir, ac yna y torir hi ymaith. Mae pob anadliad yn edau yn y wë hon; pan dyner yr anadliad olaf, gorphenir y wê, mae efe yn trengi, ac yna y torir ef ymaith, nid yw yn anadlu mwyach. Mae dyn yn gyffelyb i welltyn neu flodeuyn, Esay xl. 6. "Pob cnawd (hyd yn nod y cryfaf a'r iachaf) sydd wellt, a'i holl odidawgrwydd fel blodeuyn y maes." Mae y gwellt yn tyfu yn y boreu, ond

yn y prydnawn, gwedi ei dori gan y pladurwyr, y mae yn gwywo: felly y bydd dyn weithiau yn y boreu yn rhodio yn esmwyth i fynu ac i waered, ac yn y prydnawn y mae yn gorwedd yn gorph marw, wedi ei daraw i lawr ag ergyd disymmwth gan un o arfau angau. Nid yw blodeuyn ar y goreu ond peth gwan a thyner, a byr ei barhâd lle bynag y bo yn tyfu: ond (sylwch) ni chymberir dyn i flodeuyn gardd, ond i flodeuyn y maes yr hwn y geill troed pob anifel ei sathru pan y myno. Felly y mae ein hoedl yn agored i fil o ddamweiniau bob dydd, a dichon pob un o'r rhei'ny ein tori ymaith. Ond er y gallwn ddïangc oddiar y rhai'n i gyd, etto o'r diwedd y mae'r gwelltyn hwn yn gwywo, a'r blodeuyn hwn yn diflann o hono ei hun. Mae yn cael ei gymmeryd ymaith; "Fel y derfydd y cwmmwl ac yr â ymaith," Iob. vii. 9. Mae yn ymddangos yn fawr fel cwmmwl boreu, ac yn darogan pethau mawrion, ac yn codi dysgwyliad yn y llafurwr; ond pan gyfyd yr haul, mae'r cwmmwl yn gwasgaru; mae angau yn dyfod, ac y mae yr dyn yn diflanu. Mae'r apostol Iago yn gofyn y cwestiwn, "Beth ydyw eich einioes chwi?" pen. iv. 14. Clywch ei atteb ef ei hun, "Tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hyny yn diflanu." Nid yw ond brau, ansicr, ac heb barhâd. Y mae fel mwg, yr hwn sydd yn dyfod allan o'r simne, fel pe tywyllai yr holl nefoedd; ond fe'i chwelir yn fuan, ac nis gwelir mwy: felly yr â bywyd dyn, a pha le y mae efe? Gwynt ydyw, Iob vii. 7. "Cofia mai gwynt yw fy hoedl." Nid yw ond awel yn myned heibio, rhuthr byr, "gwynt yn myned ac heb ddychwelyd," Psal. lxxviii. 39. Ein hanadl sydd yn ein ffroenau, fel pe b'ai yn wastad yn barod i gymmeryd ei aden i fyned ymaith; yn myned ac yn dyfod o hyd, fel ymdeithydd; nes iddo fyned ymaith yn gwbl, heb fod i ddychwelyd hyd oni byddo heb nefoedd.

*Yn olaf,* Peth cyflym yw bywyd dyn; nid yn unig gwagedd yn myned ymaith ond mae yn ehedeg ymaith. A ddarfu i chwi erioed sylwi mor gyflym y rhed cysgod ar hyd y llawr, ar ddiwrnod cymmylog a gwyntog, gan dywyllu yn ddisymmwth y manau oedd o'r blaen yn brydferth gan belydrau yr haul, ond yn ebrwydd yn diflanu? Cyffelyb i hyny ydyw einioes dyn ar y ddaear, canys efe a gilia fel cysgod, ac ni saif, Iob xiv. 2. Mae gwennol gwehydd yn dra chyflym ei

hysgogiad; ar darawiad amrant fe'i teflir o naill ochr y wê i'r llall: eto "ein dyddiau ni sydd gynt na gwennol gwehydd," pen. vii. 6. Mor gyflym y teflir dyn drwy amser, i dragywyddoldeb! Gwelwch fel y mae Iob yn darlunio cyflymdra tymmor bywyd, pen. ix. 25, "A'm dyddiau i sydd gynt na rhedegwr: ffoant ymaith heb weled daioni," adn. 26, "Aethant heibio megis llongau buain; megis yr eheda eryr at ymborth. Y mae efe yn tebygu ei ddyddiau i redegwr, rhedegwr traed; cenadwr, sy'n brysio â ddwyn newyddion, ac nid erys. Ond pe byddai cenadwr fel Ahimaaz, yn rhedeg heibio i Cusi, mae ein dyddiau ni yn gyflymach nag ef; canys y maent yn ffoi ymaith fel dyn yn ffoi o flaen ei elyn a fo yn ei erlyn; yr hwn a rêd a'i holl egni, eto mae ein dyddiau ni yn rhedeg yn gyflymach nag ef. Ond nid dyma 'r cwbl. Nis gall yr hwn a fyddo yn diangc am ei fywyd, ddim rhedeg o hyd; mae yn raid iddo weithiau sefyll, neu orwedd, neu droi o'r neilldu i ryw le, megis y darfu Sisera i babell Iael, i adfywio ei hun; ond nid yw ein hamser ni byth yn gorphwys. Am hyny fe'i cyffelybir i longau y rhai a allant hwylio nos a dydd yn ddiorphwys, nes iddynt gyrhaedd y porthladd: ac i longau buain, longau awyddus, yn y rhai y mae dynion yn cyrhaedd y porthladd dymunol gydâ brys; neu, longau difyrwch, y rhai a hwyliant yn gyflymach na llongau llwythog. Eto os palla y gwynt, mae gyrfa y llong yn cael ei lluddio: ond mae ein hamser ni yn wastad yn rhedeg ei yrfa gydâ chyflymdra. Am hyny fe'i cymherir i eryr yn ehedeg; nid ag ehediad cyffredin ychwaith, oblegid nad yw hyny yn ddigonol i ddangos mor gyflym yw ein dyddiau ni; eithr megis pan fyddo yn ehedeg at ei ysglyfaeth, yr hyn sydd neillduol o wisgi. Ac fel hyn, ie fel hyn yr ehed ein dyddiau ymaith.

Gwedi i ni fel hyn draethu am angau, gadewch i ni dynu addysg oddiwrtho tuag at ganfod gwagedd y byd; a sefyll i fynu gydâ boddlonrwydd ac amynedd cristionogol dan ei holl drallodau a'i anhawsderau; gan farwhâu ein chwantau; ac ymlynu wrth yr Arglwydd, o lwyr-fryd calon, y'ngwyneb pob perygion; a pharotoi i gyfarfod âg angau.

Ac yn *gyntaf*, gadewch i ni yma edrych, fel mewn drych, i weled gwagedd y byd, a'r hyn oll sydd ynddo, pa rai y mae dynion yn eu prisio ac yn eu parchu gymmaint; ac felly yn ymserchu ynddynt. Mae 'r cyfoethog ar tlawd y naill mor ddyfal a'r llall y'nghylch y byd hwn; maent yn penlinio iddo,

eto nid yw ond duw o glai: maent yn caru y gwagedd corphol hwn, gan redeg yn awyddus i ddal y cysgod. Mae'r cyfoethog yn cael ei wasgu hyd farw yn ei freichiau; a'r tlawd yn ymflino ei hun wrth ei ddilyn yn ofer. (Pa ryfedd os gorchfyga gwendidau y byd ni, gan ein bod yn ei erlyn mor egr, hyd yn nod pan y mae yn gwgu arnom?) Ond edrych tu â'r bedd. O ddyn, ystyr a bydd ddoeth; gwrando addysg angau; a dysg, (1.) Er i ti ymaflyd yn y byd mor ddïogel ag y mynych, bydd raid i ti ollwng dy afael o hono yn y diwedd. Er i ti ymlwytho â ffrwythau y ddaear; eto fe syrth y cwbl ymaith pan ddelych di i ymlusgo i'th dwll, y tŷ sydd dan y ddaear, rhagderfynedig i bob dyn byw. Pan ddelo angau, rhaid i ti ganu yn iach am byth i'th feddiannau yn y byd hwn: rhaid i ti adael dy olud i arall; "ac eiddo pwy fydd y pethau a barotöaist?" Luc xii. 20, (2) Bydd dy gyfran o'r pethau hyn yn ychydig iawn cyn bo hir. Pe gorweddit ar y glaswellt, ac ymestyn o hyd gyhyd, ac edrych ôl, dy gorph ar y llawr pan gyfodit, gellit weled pa faint o'r ddaear yma a ddaw i'th ran yn y diwedd Ysgatfydd ti a gai arch ac amdo: ond nid ydwyt yn sicr o hyny: llawer a chanddynt amledd o gyfoeth, ni chawsant gymmaint a hyny yn y diwedd, pan aethant i'w tŷ newydd yn nhir dystawrwydd. Ond beth bynag am hyny ni wiw i ti ddysgwyl dim ychwaneg. Gwers siomedig a roddes Saladine, i'w filwyr wrth farw. Efe a alwodd am ei fanerwr, ac a archodd iddo gymmeryd ei amdo ar ffaen ei waywffon, a myned allan i'r gwersyll gan ddywedyd, na feddai efe yn awr o'i holl oresgyniadau, goruchafiaethau a'i fuddugoliaethau, onid y dernyn hwnw o liain i orchuddio ei gorph i'w gladdu. *Yn olaf,* Cyfaill tywyllodrus ydyw y byd hwn, a âd y dyn yn yr amser rheitiaf, ac a ffy oddiwrtho pan y byddo ganddo fwyaf i'w wneuthur. Pan fyddych yn gorwedd ar wely angau, nis gall dy holl geraint na'th gyfeillion mo'th waredu; nis gall dy holl gyfoeth mo'th ryddhau, na bod yn offerynol i'th arbed dros ddiwrnod; na all dros awr. Ië, po mwyaf o dda y byd yma fyddo genyt mewn meddiant, mwyaf fydd dy drallod yn debyg o fod wrth farw: canys er y dichon i un fyw yn fwy cyfleus mewn palas nag mewn bwthyn, eto fe all farw yn esmwythach yn y bwthyn, lle nid oes ganddo ond ychydig iawn i beri iddo hoffi bywyd.

Yn *ail,* Dichon fod yn ystôr-dŷ o foddlonrwydd ac amynedd i'r Cristion dan groesau a cholledion y byd. Mae dwys

gymhwysiad o'r athrawiaeth hon yn feddyginiaeth rhagorol yn erbyn anfoddlonrwydd, ac a rydd lawer o esmwythdra i galon derfysglyd. Pan gafodd Iob lawer o golledion trymion, efe a eisteddodd i lawr yn dawel gydâ'r myfyrdod hwn, Iob. i. 21. "Noeth y daethum o groth fy mam, a noeth y dychwelaf yno. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." Pan y dygo Rhagluniaeth ddarfodedigaeth neu haint i blith eich anifeiliaid, mor barod ydych i anfoddloni ac i rwgnach! ond ystyriaeth ddifrifol o'ch marwoldeb eich hun i'r hyn mae genych gymhorth nodedig oddiwrth y cyfryw achlysuron) a all fod o ddefnydd tuag at ddystewi eich achwynion, a thawelu eich ysprydoedd terfysglyd. Edrychwch ar y tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw, a dysgwch (1.) Y bydd raid i chwi ddyoddef cilgwthiad chwerwach na cholli da bydol. Na lefwch o herwydd dyrnod ar y goes neu'r fraich; canys cyn bo hir chwi a gewch ddyrnod hyd adref i'r galon. Dichon i chwi golli eich perthynasau anwylaf: geill gwraig golli ei gwr, a'r gwr golli ei wraig; geill rhïeni golli eu plant anwyl, a'r plant golli eu rhïeni. Eithr os dygwydd yr un o'r profedigaethau hyny i chwi, cofiwch y bydd raid i chwi o'r diwedd ymadael a'ch bywyd eich hun; a pha ham y grwgnach dyn byw? Galar. iii. 39. Y mae yn fuddiol yn wastad, pan mewn trallodion, i ni ystyried pa faint y gallasai ein cyflwr ni fod yn waeth nag yw. Beth bynag sydd wedi darfod am dano, neu wedi ei gymmeryd oddi arnom, trugareddau 'r Arglwydd yw na ddarfu am danom ni ein hunain, adn 22. (2.) Nid ydym ni i fod yn y byd yma ond dros enyd fechan o amser. Nid yw ein hanghenrheidiau dros hyny o enyd ond ychydig: a phan ddelo angau ni bydd arnom ni eisiau dim o'r pethau hyn. Paham yr ammhwylla dynion eu penau â gofalon, gan ofalu dros dranoeth tra nas gwyddant a fydd arnynt eisiau dim dranoeth a'i peidio? Er bod y lluniaeth a barotodd dyn i'w daith y'mron wedi darfod, eto nid oes arno fawr gyffro os bydd yn meddwl ei fod yn agos i'w gartref. A ydych chwi yn gweithio wrth ganwyll, ac a oes peth o'r ganwyll heb losgi? Fe allai nad oes dim mwy na hyny o dywod yn eich awr-wydr; ac os felly, ni bydd arnoch fawr achos am dani. [3.] Y mae genych faterion o fawr bwys yn galw am eich gofal. Mae angau wrth y drws, gwiliwch golli eich eneidiau. Os tyr gwaed allan ar un man o'r corph, arferir agor gwythïen mewn man arall, i droi rhediad y gwaed, ac felly i'w attal. Fel hyny y mae Yspryd

wyneb teccaf, Iob. xiv. 20. " A chan newidio ei wyneb ef, yr wyt yn ei ddanfon ef i ffordd." Gwna angau y prydferthaf mor atgas nes y bydd yn angbenrheidiol ei gladdu allan o'r golwg. Pe gallid defnyddio drych yn y tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw, fe fyddai yn ddychryn i'r rhei'ny sydd yn awr yn edrych yn eu drychau yn amlach nag yn eu Biblau. Ac er gwisgo 'r corph yn harddwych; nid yw y dillad gwychaf ond arwydd o'n pechod a'n gwarth; a chyn bo hir, fe'u newidir am amdo, yna y bydd y corph yn wledd i bryfed.

3ydd, Fe eill fod yn attaliad grymus ar gnawdolrwydd ac anlladrwydd, 1 Petr. ii. 11. " Yr wyf yn attolwg i chwi, megys dieithriaid a phererinion, ymgedwch oddiwrth chwantau cnawdol, y rhai sy'n rhyfela yn erbyn yr enaid." Y mae yn anhawdd peri i goed gwlybion gymmeryd tân; a phan yr ymgymmero y tân ynddynt, mae yn hawdd ei ddiffodd. Mae cnawdolrwydd yn gwneuthur dyn yn dra anghymhwys i ymgymdeithasu â Duw, ac yn foddion effeithiol i ddiffodd yr Yspryd. Anghymmedroldeb mewn bwyta ac yfed sydd yn andwyo corph ac enaid ar unwaith; ac yn prysuro angau, tra ar yr un pryd y mae yn gwneuthur dyn yn eithaf anmharod i'w gyfarfod. Gan hyny " edrychwch arnoch eich hunain rhag i'ch calonau un amser drymhâu trwy lythineb a meddwdod, a dyfod y dydd hwnw arnoch yn ddisymmwth," Luc xxi. 34. Ond O, mor fynych y mae'r enaid yn cael ei wanu â phicell, tra yn boddio chwantau? Dyma'r drysau y mae dinystr yn dyfod i mewn. Am hyny Iob a wnaeth ammod â'i lygaid, pen xxxi. 1. " Ffôs ddofn yw genau gwragedd dieithr: y neb y byddo yr Arglwydd yn ddig wrtho, a syrth yno, Diar. xxii. 14. " Yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio." Gochelwch anlladrwydd; dilynwch ddiweirdeb yn eich gwisgiad, eich geiriau, a'ch agweddau. Cigfrain dyffryn cysgod angau a dynant y llygaid anllad yn y diwedd: ac yn y diwedd fe ddystewir y tafod anniwair aflan yngwlad dystawrwydd: â phan gofleidio yr angau gwgus y corph yn ei freichiau oerion, fe lonyddа gwrês chwantau cnawdol am byth.

*Yn ddiweddaf,* Mewn gair, fe ddichon luddias meddyliau bydol, ac ar un dyrnod darawo i lawr chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd. O! os rhaid i ni farw, pa ham y byddwn fel hyn? pa ham yr ydym mor hoff o bethau tymmorol, mor awyddus am eu cael, mor awchus am

eu cofleidio, ac mor drallodus am eu colli? Goddefwch i mi gyfarch y bydol-ddyn gydâ golwg ar y tŷ rhag-derfynedig i bob dyn byw, y'ngeiriau Solomon, Diar. xxiii. 5. "A beri di i'th lygaid ebedeg ar y peth nid yw? canys golud yn ddiau a gymmer adenydd, ac a eheda ymaith megis eryr tu a'r wybr." Nid yw golud a phob peth daearol ond gwag-degwch; nid y'nt ond y peth nad yw. Nid ydynt yr hyn yr ymddangosant eu bod; nid ydynt ond gwagedd wedi ei oreuro, yr hyn sydd yn twyllo y llygaid. Wrth eu cymharu, nid ydynt ddim; maent yn anfeidrol fwy diddym a disylwedd nag ydynt o fod sylweddol, ar y goreu. Beth ydyw'r byd a'r hyn oll sydd ynddo ond dull neu ymddangosiad teg, tebyg i'r hyn a wna dynion ar chwareu-fwrdd, dull yn myned heibio? 1 Cor. vii. 31. Nid yw rhwysg breninol ond coeg-ymddangosiad neu weled:ad, yngbyfrif Duw, Act xxv. 23. Yr enw goreu a fedrant gael, yw *pethau da:* ond, deliwch sylw, mai pethau da y dyn annuwiol ydynt, Luc xvi. 25. Coffa, meddai Abraham yn y ddammeg wrth y gwr goludog yn uffern, i ti dderbyn dy wynfyd (yn ol y Saesoneg, pethau da) yn dy fywyd. A da y gall dynion y byd alw y rhai'n eu pethau da; canys nid oes dim daioni arall ynddynt, yn eu cylch, nac yn perthyn iddynt. Gan hyny, a osodi di dy lygaid ar y fath wag ddulliau ac ofer-dybiau? a beri di i'th lygaid *wibio* ar eu hol, fel y dywedir? a gaiff calonau dynion ehedeg allan drwy eu llygaid ar ol y rhai hyn, fel aderyn ysglyfaethus ar ol ei ysglyfaeth? Os gwnant, gwybyddant yr ehed y rhai'n yn y diwedd mor gyflymed oddiwrthynt ag yr ehedodd eu llygaid erioed ar eu hol hwynt: yn debyg i haid o adar bardd-blu, a ddisgyno ar dir dyn ffol; y rhai pan elo i geisio eu dal fel yr eiddo ei hun, yn ebrwydd a gymmerant eu hadenydd, ac a ehedant ymaith, gan ddisgyn ar dir ei gymydog er ei siomedigaeth, Luc xii. 20. "O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt; ac eiddo pwy fydd y pethau a barotöaist?" Er nas gwnewch chwi adenydd iddynt, fel y gwna llawer; hwy a wnant adenydd iddynt eu hunain, ac a ehedant ymaith: nid fel aderyn dôf a fyddo yn y ty, y gellir ei ddal drachefn; nac fel hebog a ddengys pa le y mae wrth swn ei glychau, ac a elwir yn ol âg offeryn denu; eithr fel eryr, yr hwn a ehed yn esgud o'r golwg, ac nis gellir ei alw yn ol. Ymattal rhag edrych ar y pethau hyn, O ddyn marwol! nid oes un rheswm i ti osod

dy lygaid arnynt. Y mae y byd hwn fel gwesty (*Inn*) mawr ar y ffordd i dragywyddoldeb i'r hwn yr wyt yn teithio. Y mae y pethau hyn yn gweini iti yr un modd a gweinidogion y gwesty lle yr wyt yn llettya: y maent yn gweitio arnat tra byddych yno; a phan fyddych yn myned ymaith, hwy a'th hebryngant at y drws. Ond nid eiddot ti mo honynt, ni ddeuant ymaith gydâ thi; eithr trôant yn ol i weitio ar ddyeithriaid ereill, megis y gwnaethant arnat tithau.

*Yn bummed*, Dichon fod yn fuddiol fel annogaeth i fwriadau Cristionogol, i lynu wrth Grist, i lynu wrth ei wirioneddau, ac i aros yn ei ffyrdd; er pob peth a ddyoddefom wrth wneuthur felly. Hyn a fyddai yn foddion i leihâu ofn dyn, yr hwn sydd yn dwyn magl: " Pwy wyt ti, fel yr ofnit ddyn yr hwn fydd marw?" Esay li. 12. Edrych ar erlidwyr megis darnau breuon o glai, y rhai a wneir yn chwilfriw: ac yna y cyfrifwch hwynt fel gelynion marwol, arswyd pa rai a dderfydd yn fuan o dir y rhai byw gyda hwy eu hunain. Mae ystyriaeth ddifrifol o fyrdra ein heinioes, a sicrwydd ein marwolaeth, yn dysgu i ni, na thâl yr holl elw a ennillwn drwy wrthgilio, ddim yn y byd mewn awr o gyfyngder; nid yw yn werth myned o'r ffordd i'w geisio: a'r peth y gwrthodom ei ollwng er mwyn Crist, a gymmerir ysgatfydd oddiarnom yn fuan gan angau. Ond nis gallwn byth ei ollwng mor anrhydeddus, ag yn achos Crist a'i efengyl: canys pa ogoniant yw i chwi ymwrthod â'r hyn oll a feddoch yn y byd, pan y cymmero Duw hwynt oddiarnoch yn angau, boddlon neu beidio? Mae'r ystyriaeth yma yn ddigon er peri i ni ddibrisio bywyd ei hunan, a dewis ymadael ag ef yn hytrach na phechu. Ni fedd dynion ddim ychwaneg i'w wneuthur na chymmeryd oddiarnom ein bywyd, yr hwn nis gallwn ei gadw yn hir, pe cydunai yr holl fyd i'n helpu i attal yr yspryd. Ac os gommeddwn ei roddi i fyny i Dduw, pan y geilw ef am dano. er amddiffyn ei anrhydedd, efe a ddichon ei gymmeryd oddiarnom ffordd arall; fel y gorfu i hwnw, yr hwn ni fynai ei losgi er mwyn Crist, eithr gwedi hyny, a losgwyd gan dân damweiniol yn ei dŷ ei hun.

*Yn ddiweddaf*, Fe all fod yn foddion i'n symbylu a'n cymhell i barotoi erbyn marw. Ystyriwch, (1.) Y bydd eich cyflwr tragywyddol yn ol y cyflwr yn mha un y byddwch wrth farw: fe egyr angau y drws i chwi naill ai i'r nef ai i

n. Lle syrth y pren, yno yr erys efe i dragywyddoldeb.
plentyn a enir yn farw, ni ddichon yr holl fyd roddi
'd iddo drachefn: ac os bydd marw dyn allan o Grist, mewn
'r diadgenedledig, nid oes obaith am dano mwyach yn
ywydd. (2.) Ystyriwch yn ddifrifol, beth ydyw myned
arall, byd ysprydoedd, am yr hwn nis gwyddom ond
dig iawn. Mor frawychus ydyw i ddynion truain ym-
dlan âg ysprydion yn y byd hwn! ac mor arswydus yw
lynion yn cael eu ffrystio ymaith i fyd arall heb wybod
diaflaid fydd eu cymdeithion yn oes oesoedd. Byddwn
al gan hyny i wneuthur a chwanegu ein cydnabyddiaeth
Arglwydd y wlad hòno. (3.) Nid oes genym ond byr
i barotoi erbyn angau; gan hyny, yn awr neu byth,
gid gwelwn yr â yr amser a bennodwyd i ymbarotoi yn
heibio. Preg. ix. 10. " Beth bynag a ymafael dy law
o i'w wneuthur, gwna a'th holl egni: canys nid oes na
th, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y
, lle yr wyt ti yn myned." Pa fodd y gallwn ni fod yn
', a chenym gymmaint o waith i'w wneuthur, ac mor
o amser tuag ato? Eithr os nad yw yr amser ond byr,
d y gwaith o ymbarotoi erbyn angau yn waith caled,
ii phery ddim yn hir. Mae cysgodau 'r hwyr yn peri i'r
'wr weithio yn siriol; gan wybod bod yr amser ger llaw,
y gelwir ef i mewn oddiwrth ei orchwyl. (4.) Y mae
r o'n hamser byr wedi myned heibio eisoes; ac nis gall
uangaf o honom ddim sicrhau fod cymmaint o'i amser yn
g sydd wedi myned heibio. Nid yw ein hamser yn y
ond megis rhagymadrodd byr i dragywyddoldeb hir; ac
e llawer o'r chwedl wedi ei hadrodd yn barod. O! oni
yn ni ddyblu ein diwydrwydd, o herwydd bod cymmaint
amser wedi ei dreulio, ac mor lleied o'n gwaith mawr
ei wnëyd? (5.) Y mae'r amser presennol yn ehedeg
ith: ac nis gallwn ni alw yn ol yr amser a aeth heibio,
hwnw wedi canu yn iach i ni am byth: nid oes fodd ail
n y tan fyddo gwedi llosgi yn lludw. Nid eiddom ni yw
nser sydd i ddyfod; ac nid oes genym sicrwydd am ran
no pan y delo. Nid oes genym ddim a allwn alw yn
i ni ein hunain, ond yr enyd presennol; ac y mae hwnw
hedeg ymaith: pa bryd y daw ein hamser i ben, nis
ddom. Marw sydd raid; ond pwy a all fynegi i ni
ryd? Pe buasai angau yn cadw rhyw amser gosodedig
rb, ni buasai dim perygl i ni gael ein dal yn ddisymwth

ganddo: ond y mae dygwyddiadau beunyddiol yn dangos i ni nad oes dim o'r fath beth. Ni âd cysgod ffôedig ein hoedl i ni enyd i segura. Mae'r afonydd yn rhedeg yn brysur i'r môr o'r lle y daethant; ond nid mor brysur ag y mae dyn yn tynu i'r pridd o'r hwn y daeth efe. Ffrwd amser yw'r ffrwd gyflymaf, a buan y rhed oll i dragywyddoldeb. *Yn olaf,* Os unwaith yr â angau â ni ymaith, nid oes dim dyfod yn ol drachefn i wellâu ein materion, Iob xiv. 14. "Os bydd gwr marw, a fydd efe byw drachefn?" Mae marw yn beth nas gallwn gael prawf o hono; peth ydyw nas gallwn ei wneuthur fwy nag unwaith, Heb. ix. 27, "Gosodwyd i ddynion farw *unwaith*." A'r peth nas galler ei wnëyd ond unwaith, ac sydd o gymmaint pwys, fel y mae oll a feddwn yn ymddibynu ar i ni ei wneuthur yn iawn, ni a ddylem arferyd y dyfalwch mwyaf tuag at ei wneuthur yn dda. Am hyny parotôwch i gyfarfod angau, a hyny yn brydlawn.

Os gofynwch chwi, y rhai diadgenedledig, i mi, pa beth a wnewch chwi tuag at gyfarfod angau, fel y byddoch marw yn ddïogel? Yr wyf yn atteb, mi a ddywedais i chwi eisoes, beth sydd raid ei wneuthur. A hyny yw, fod yn rhaid i'ch natur a'ch cyflwr gael eu cyfnewid: y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn; mae yn rhaid eich uno â Christ drwy ffydd. Ac hyd onis gwneler hyn, nid ydych chwi yn addas i dderbyn dim cyfarwyddiadau ereill perthynol i farw 'n ddedwydd; am yr hyn y traethwn rhagllaw yn ei le priodol.

# PEN II.

## Y RHAGOR RHWNG Y CYFIAWN A'R DRYGIONUS YN EU MARWOLAETH.

DIAR. xiv. 32.

*Y drygionus a yrrir ymaith yn ei ddrygioni: ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw.*

MAE y testun hwn yn ymddangos fel y cwmwl rhwng yr

iaid a'r Aiphtiaid; ag iddo ochr dywell at y naill, ac
oleu at y llall Y mae yn darlunio angau megis penaeth
ırdy Pharaoh, yn dwyn y pen trulliad a'r pen pobydd o'r
char; un i'w osod eilwaith yn ei swydd, a'r llall i'w arwain
nyddle. Mae yn dangos y rhagor sy rhwng y cyfiawn a'r
nus yn eu marwolaeth; y rhai, megis y maent yn ym-
du yn wahanol iawn yn eu bywyd; felly, y maent yn
el yn wahanol iawn yn eu hangau.
*gyntaf*, Mewn perthynas i farwolaeth y dyn drygionus:
mae, (1.) Dull ei fynediad allan o'r byd. Efe a yrir
ı; hyny yw, yn ei farwolaeth, megis y gwelir yn eglur
th yr ymadrodd cyferbyniol. Mae yn cael ei wthio
ym allan o'i le yn y byd hwn; ei yru ymaith fel ûs o
gwynt. (2.) Y cyflwr y mae efe yn myned ymaith
. Y mae yn marw mewn cyflwr pechadurus a diobaith.
*ntaf*, Mewn cyflwr pechadurus; efe a yrir ymaith
drygioni. Bu fyw ynddo, ac y mae yn marw ynddo:
goedd budron o bechod, yn mha rai yr ymdrôdd yn ei
, a fyddant yn garchar-wisgoedd iddo, yn y rhai y
ıir ef yn dragywydd. *Yn ail*, Mewn cyflwr diobaith;
cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw: yr hyn sydd
ar yn arwyddo anobaith y drygionus yn eu marwolaeth.
i feddylir yma na fydd gan yr un dyn annuwiol unrhyw
wrth farw; eithr y bydd efe marw mewn anobaith.
reithiau yn wir y mae felly; eithr yn fynych y mae i'r
ryneb; fe ddichon morwynion ffôl, ac yn fynych y
, yn gobeithio hyd yr anadliad olaf. Ond ni fedd yr
iol ddim gobaith sylweddol: ac am y gobaith twyllod-
mae efe yn gwenieithio iddo ei hun ag ef, fe ddi-
ia angau hwnw, ac yna y bydd efe yn druenus anad-
y yn dragywydd.
*ail*, Ond am farwolaeth y cyfiawn, efe a obeithia pan
yn marw. Mae y geiriau hyn yn cael eu dwyn i mewn
*ond*, gan arwyddo symudiad yr amgylchiadau arswydus
ydd yn dilyn y drygionus, yr hwn a yrir ymaith yn ei
oni: *ond* nid yw felly gydâ'r duwiol. Nid yw felly,
n y dull y maent yn myned o'r byd Nid yw 'r cyfiawn
el ei yru ymaith fel ûs o flaen gwynt; eithr yn
i *arwain* ymaith fel prïod-ferch i'r ystafell brïodas,
*m* gan angylion i fynwes Abraham, Luc. xvi. 22 (2.)
r felly, o ran ei gyflwr wrth ymadael a'r bywyd hwn,

Mae y cyfiawn yn marw, (1.) Nid mewn cyflwr pechaduius, eithr sanctaidd. Nid yw yn myned ymaith yn ei bechod, ond allan o'i bechod. Yr oedd yn ei fywyd yn dodi heibio yr hen ddyn, gan newid ei garchar-wisgoedd; ac yn awr y mae y bratiau oedd yn aros yn cael eu symud, ac y mae yn cael ei addurno â gwisgoedd gogoniant. (2.) Nid mewn cyflwr anobeithiol, eithr gobeithiol. Efe a *obeithia* pan fyddo yn marw: y mae'r grâs o obaith ganddo, a dysgwyliad ar sail dda am bethau gwell nag a gafodd erioed yn y byd hwn: ac er y dichon ffrŵd ei obaith redeg yn fâs wrth farw, eto fe fydd ganddo gymmaint o hono ag a'i nertha i anturio ei fater tragywyddol ar yr Arglwydd Iesu Grist.

## ATHRAWIAETH I.

*Y Drygionus, wrth farw, a yrir ymaith yn eu drygioni, ac mewn cyflwr anobeithiol.*

Wrth lefaru ar yr athrawiaeth hon, 1. Mi a gaf ddangos Pa fodd, ac ymha ystyr y mae'r drygionus yn cael eu gyru ymaith yn eu drygioni wrth farw. 2. Mi a egluraf anobaith eu cyflwr wrth farw. Ac *yn olaf*, Cymhwyso y cwbl.

1. Pa fodd ac ymha ystyr y mae'r drygionus yn cael eu gyru ymaith yn eu drygioni. Wrth draethu ar y mater hwn, mi a gaf ymofyn yn fyr, (1.) Beth a feddylir wrth eu bod yn cael eu gyru ymaith. (2.) O ba le y cânt eu gyru, ac i ba le. (3.) Ymha olygiadau y gellir dywedyd eu bod yn cael eu gyru ymaith yn eu drygioni. Eithr, cyn myned ymlaen, gadewch i mi hysbysu i chwi, eich bod yn camgymmeryd os ydych yn tybied nad oes neb a ellir eu galw yn ddrygionus, ond y rhai hyny sydd yn proffesu eu hunain yn ddrygionus a llygredig; megis pe nad allai y diafol drigo yn neb ond yr hwn y mae ei enw yn Lleng. Ynghyfrif yr ysgrythyr, y mae pawb nad ydynt yn gyfiawn, yn y modd a eglurir rhagllaw, yn cael eu cyfrif yn ddrygionus. Ac am hyny y mae y testun yn rhanu yr holl fyd yn ddau fath, y cyfiawn, a'r drygionus; a gellwch weled yr un peth yn y testun hwnw, Mal. iii. 18. "Yna y dychwelwch, ac y gwelwch ragor rhwng y cyfiawn

a'r drygionus." Gan hyny, os nad ydych yn gyfiawn, yr ydych yn ddrygionus. Oddieithr bod genych gyfiawnder cyfrifol, ac hefyd gyfiawnder greddfol, neu sancteiddrwydd; os ydych eto yn eich cyflwr naturiol, heb eich hail-eni, ac heb eich huno â Christ trwy ffydd; pa mor foesol a diargyhoedd bynag a fyddo eich hymarweddiad, yn'golwg dynion, y drygionus ydych, y rhai a yrir ymaith yn eu drygioni, os yn y cyflwr hwnw y goddiwedda angau chwi. Bellach,

Yn gyntaf, Mewn perthynas i ystyr y geiriau hyn, Gyru ymaith, y mae tri o bethau ynddynt: y caiff y drygionus eu gyru ymaith yn ddisymmwth, yn orthrechol, ac yn anwrthwynebol.

*Ymlaenaf,* Fe gaiff dynion diadgenhedledig eu gyru ymaith yn ddisymmwth yn angau. Nid am y bydd pob dyn drygionus farw yn ddisyfyd; nac am fod pawb yn ddrygionus a fyddo marw felly: Na atto Duw! Ond, (1.) Y mae angau fynychaf yn eu goddiweddyd yn annysgwyliadwy, a disymmwth; megis y daeth y diluw yn ddisymmwth ar yr hen fyd, er darfod eu rhybyddio am dano yn hir cyn ei ddyfod; ac megis gwewyr esgor yn dyfod ar un a fo beichiog, yn syn ddisymmwth, er ei bod yn edrych am dano ac yn ei ddysgwyl, 1 Thes v. 3. Mae angau yn ymaflyd ynddynt fel echwynwr yn ei ddyledwr; i'w lusgo i garchar, Psalm lv. 15, a hyny pan na byddo yn dysgwyl am dano. Mae angau yn dyfod i mewn fel lleidr, drwy y ffenestr, ac yn ei gael yn llawn o feddyliau ffwdanus ynghylch y bywyd hwn, a'r dydd hwnw derfydd ei holl amcanion ef. (2.) Y mae angau bob amser yn ymaflyd ynddynt a hwythau yn anmharod: y mae yr hen dŷ yn syrthio am eu penau cyn bod ganddynt un arall yn barod. Pan y bwrio angau hwynt allan, ni feddant gymmaint a lle i roddi eu penau i lawr; os na roddant hwynt ar obenydd o dân a brwmstan. Mae yr enaid a'r corph megis yn ymgofleidio y naill y llall yn mreichiau eu gilydd; pan y mae angau yn dyfod fel corwynt, ac yn eu gwahanu. (3.) Mae angau yn eu ffrystio ymaith mewn moment i ddinystr, gan wneuthur y cyfnewidiad mwyaf gresynus: braidd y mae y dyn yn gwybod y'mhale y mae, nes yn uffern y codo efe ei olwg, Luc xvi. 23. Y mae llifeiriaint digofaint yn gorchuddio ei enaid yn ddisymmwth; ac heb yn wybod iddo, y mae yn cael ei suddo yn y pwll diwaelod.

*Yn ail*, Mae y dyn diadgenhedledig yn cael ei gymmeryd ymaith o'r byd yn orthrechol. Gyru sydd weithred orthrechol; mae yn cael ei ymlid allan o'r byd, Iob. xviii. 18. Fe chwennychai aros, pe gallai; eithr angau a'i llusga ymaith, fel drwgweithredwr i'r dienyddiad. Nid ymorolodd efe am ddim meddiannau amgen na phleserau a manteision y byd hwn; ac nis medd ddim arall; ac yn wir nid yw yn dymuned dim amgen; pa fodd ynte y gall efe fyned o hono, oddieithr ei yru ef?

*Holiad*, Ai nis gall dyn drygionus fod yn ewyllysgar i farw? *Atteb*. Fe ddichon iddo yn wir fod yn foddlon i farw; eithr, deliwch sylw, nid yw hyny ond mewn un o dri amgylchiad. (1) Mewn iâs o nwydau, o herwydd rhyw ofid yr hiraetha efe am gael ymadael ag ef. Fel hyn y bydd llawer pan yr elo eu nwydau yn drech na'u rheswm, a phan, o herwydd hyny, y maent fwyaf anghymhwys i farw, byddant barod i lefain, O na bawn o'r byd! Ond pe caniateïd eu dymuniad, ac i angau ddyfod wrth eu galwad, buan y dangosent nad oeddynt mewn difrifwch; ac os myned a wnant, mai eu gyru y gânt yn erbyn eu hewyllys. (2.) Pan fyddont mor llawned ag yr annont o anobaith, fe allai y byddant yn foddlon i farw. Fel hyn y lladdodd Saul ei hun; ac y dymunodd Spira fod yn uffern, fel y gwybyddai eithaf yr hyn y coeliodd y byddai raid iddo ei ddyoddef. Dyma'r modd y gall dynion ymorol am angau, tra y mae yn ffoi oddiwrthynt. Arswydus yw'r gorthrechwaith, a oddef y rhai a yrer fel hyn gan ddychryniadau Duw. (3.) Pan fyddont yn breuddwydio am ddedwyddwch wedi marw. Gall morwynion ffôl, gan rym hudoliaeth, mewn perthynas i'w cyflwr, fod yn ewyllysgar i farw, heb ofni syrthio i wae. Pa gynnifer y sydd, o rai nas meddant un sail ysgrythyrol i'w gobaith, eto heb rwymau yn eu marwolaeth! mae llawer yn cael eu gyru i dywyllwch drwy eu cwsg; maent yn myned ymaith fel ŵyn, y rhai a ruent fel llewod pe gwybyddent i ba le y maent yn myned: er bod y cerbyd y maent ynddo yn gyru yn chwyrn i waelodion uffern, eto nid oes arswyd arnynt, am eu bod mewn trym-gwsg.

*Yn olaf*, Mae y dyn diadgenhedledig yn cael ei gymmeryd ymaith yn anwrthwynebol. Rhaid iddo fyned, er ei fod yn groes iawn i'w ewyllys. Ni chymmer angau mo'i ommedd, ac

ef oedi; er na fu 'r dyn byw hanner ei ddyddiau, yn ei
ei hun. Onis plyg, efe a'i tŷr: os na ddaw efe allan,
y tŷ i lawr am ei ben; oblegid nis caiff aros yno. Er
sygwr ei gynnorthwyo, er i'w gyfeillion ruddfan, er
iig a'i blant lefain, ac iddo yntau ei hun ymegnïo hyd
i attal yr yspryd, ei enaid a ofynir oddiwrtho, ymroi
iid iddo, a myned lle nas gwel oleuni byth mwy.

'il, Ystyriwn o ba le y cânt eu gyru, ac i ba le. Pan
marw y drygionus, (1) Fe'u gyrir o'r byd hwn lle
yn pechu, i'r byd arall, lle y cant eu barnu, a derbyn
ei ddedryd ei hun, Heb. ix. 27. "Gosodwyd i ddynion
mwaith, ac wedi hyny bod barn." Ni chant byth
h ddychwelyd yn ol i'w daear anwyl. Er i'w calonau
odi â'u meddiannau bydol, rhaid iddynt eu gadael, nis
ddwyn dim ymaith. Mor ofidus fydd eu hymadawiad,
d oes ganddynt ddim mewn golwg ag sy gystal gandd-
hyn y maent yn adael ar ol! (2.) Fe'u gyrir allan o
ithas y saint ar y ddaear, i gymdeithas y damnedigion
rn, Luc xvi. 22, 23. "A'r goludog hefyd a fu farw,
addwyd: ac yn uffern efe a gododd ei olwg." Y fath
r y diafol sydd yn awr yn trigo ymhlith defaid Crist!
angau efe a'u "gyr gydâ gweithredwyr anwiredd,"
xxv. 5. Cynnulleidfa gymmysg ydyw 'r byd yma, ond
l dim cymmysgedd yn y nesa': mae pob plaid yn cael
d yno wrthi ei hun. Er bod rhagrithwyr yma yn tyfu
u ymhlith gwenith, angau a'u diwreiddia hwynt, ac
wynir yn ysgubau i'w llosgi. (3.) Fe'u gyrir o amser
wyddoldeb. Tra parhâo eu hamser, y mae gobaith:
n ddarffo amser, mae pob gobaith yn darfod gyd ag ef.
nser gwerthfawr yn awr yn cael ei dreulio a'i wastraffu:
y fath helaethrwydd o amser ar ddwylo rhai, fel y
yn tybied yn angheurheidiol arferyd amryw ffyrdd i
r amser heibio. Ond gwyliwch rhag bod heb wybod
l i ddefnyddio bywyd: gwnewch y goreu o amser, tra
genych, erbyn tragywyddoldeb: oblegid cyn bo hir,
ngau amser a chwithau oddiwrth eich gilydd, fel na
h byth gyfarfod drachefn. (4.) Fe'u gyrir allan o'u
ddangosiad mewn crefydd. Fe'u diosg angau o'u
edd harddwych o broffes deg, â pha rai y mae rhai o
wedi eu haddurno; ac a'u try oddiar y chwareufwrdd,

yn mratiau calon a buchedd ddrwg. Priodol ystyr y gair rhagrithiwr yw taflod-chwareydd (*stage-player*), yr hwn sy'n ymddangos ei fod y peth nad yw mewn gwirionedd. Taflod chwareu yw y byd hwn, ar ba un y mae plant y diafol yn personoli plant Duw, Eu rhith grefydd yw gwisg y chwareydd, oddi tan yr hon y mae yn rhaid i'r neb a'u barno 'n gywir, edrych. Mae angau yn eu diosg o'u gwisg. ac yna yr ymddangosant yn eu gwisg enedigol eu hun: y mae yn eu dilenu, ac yn tynu y mwgwd oddiar eu hwynebau. Nid oes neb yn y byd arall yn cymmeryd arnynt fod yn amgen na'r peth ydynt. Mae natur ddirywiedig yn ngwlad y dychryniadau yn gweithredu yn ddigymmysgedd ac yn ddiledrith. *Yn olaf*, Fe'u gyrir ymaith oddiwrth foddion grâs: ac fe'u gosodir tu hwnt i'r terfyn, yn hollol allan o bob gobaith am drugaredd. Ni bydd mwyach ddim cyfleusdra i brynu olew i'r lamp; mae yn diffodd yn angau, ac nis gellir ei oleuo mwy. Fe all trugaredd a grâs gael eu cynnyg ar ol eu hymadawiad; ond i ereill y maent, nid iddynt hwy: nid oes dim o'r fath gynnygion yn y lle y maent hwy yn cael eu gyru; yn y lle y gyrir hwynt o hono yn unig y mae y cynnygion hyn yn cael eu gwneuthur.

Yn ddiweddaf, Yn mha ystyriaeth y gellir dywedyd eu bod yn cael eu gyru ymaith yn eu drygioni? Atteb. (1.) Ar ystyriaeth o'u bod yn cael eu gyru ymaith yn eu cyflwr pechadurus a diadgenedledig. Wedi byw yn elynion i Dduw, maent yn marw mewn cyflwr o elyniaeth tuag atto; canys nid oes neb yn cael eu dwyn i gyflwr o hollol ddedwyddwch tragywyddol, ond ar hyd llwybr cyflwr o râs, neu adferiad dechreuol yn y bywyd hwn. Y plentyn marw yn y groth, a enir yn farw, ac a fwrir o'r bru i'r bedd: felly y mae yr hwn sydd yn farw, ac yn fyw, neu yn farw ysprydol, yn cael ei fwrw o groth amser, yn yr unrhyw gyflwr marwol, i'r pwll llawn trueni. O farwolaeth resynus, yw marw mewn bustl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd! fe fyddai yn anghymharol well i'r cyfryw ag a fyddo marw fel hyn, pe nas genesid hwynt erioed. (2.) Ar ystyriaeth o'u bod yn marw dan bechu, a gweithredu yn ddrygionus yn erbyn Duw, yn groes i'r gyfraith ddwyfol; canys ni allant wneyd dim ond pechu tra y byddont byw: felly mae angau yn eu cymmeryd ar y weithred o bechu; gan eu llusgo yn ddiarbed

o freichiau eu chwantau, a'u gyru ymaith at y frawdle i dderbyn eu dedryd. Mae dywediad nodedig yn Iob xxxvi. 14. *Maent yn marw mewn ieuengctyd:* y darlleniad ar ymyl y ddalen yw, *Eu henaid hwythau fydd marw mewn ieuengctyd;* gan fod eu chwantau yn fywiog, eu dymuniadau yn egnïol, a'u dysgwyliadau yn bryderus, fel y mae yn arferol yn ieuengctyd. A'u bywyd sydd ymblith yr aflan: neu, ac y mae y cwmni (neu y dorf) o honynt yn marw ymblith y Sodomiaid, h. y. fe'u cymmerir ymaith yngwres eu pechod a'u drygioni, fel y Sodomiaid yn Gen. xix. Luc. vii. 28, 29. (3.) O herwydd eu bod yn cael eu gyru ymaith yn llwyth o euogrwydd eu holl bechodau: dyma'r amdo a orwedd gydâ hwynt yn y pridd, Iob xx. 11. Eu gweithredoedd a'u canlyn hwynt i'r byd arall; y maent yn myned ymaith âg iau eu troseddiadau yn rhwym am eu gyddfau. Cydymaith câs yw euogrwydd mewn bywyd, ond O, mor ddychrynllyd a fydd yn angau! Y mae yn awr, fe allai, yn gorwedd fel brwmstan oer ar eu cydwybodau cysglyd: ond pan egyr angau ffordd i wreichion o ddigofaint Duw i ddysgyn fel tân arno, fe fflamia yn arswydus yn y gydwybod, yn yr hwn y rhwymir yr enaid yn oes oesoedd. *Yn olaf,* Y mae y drygionus yn cael eu gyru ymaith yn eu drygioni mor belled ag y maent yn marw dan gwbl awdurdod eu drygioni. Tra y mae gobaith, y mae rhywfaint o attaliad ar y gwaethaf o ddynion: a'r doniau moesol hyn y rhai y mae Duw yn eu cyfranu i nifer o ddynion er llesâd dynolryw yn y bywyd hwn, ydynt gynnifer o rwystrau ac attaliadau ar ddrygioni ffromwyllt y natur ddynol. Eithr gwedi tori ymaith bob gobaith, ac i'r rhoddion hyn gael eu hattal, y mae anwiredd y drygionus yn cyrhaedd y radd eithaf. Megis y mae holl hadau grâs a hauer ynghalonau yr etholedigion, yn cyrhaedd llawn addfedrwydd yn angau: felly y mae tueddiadau uffernol y drwg-ddynion y pryd hwnw yn cyrhaedd eu heithaf. Yna y troïr eu gweddïau ar Dduw yn felldithion arswydus, a'u mawl yn gableddau echryslawn, Math. xxii. 13. "Yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd." Y mae hyn yn rhoddi golygiad gresynol, eto cywir, ar gyflwr y drygionus mewn byd arall.

II. Mi a gaf amlygu anobaith cyflwr y dynion diadgenhedledig yn angau. Fe ymddengys yn dra anobeithiol os ystyriwn y pedwar peth canlynol:

*Yn gyntaf.* Mae angau yn tori ymaith eu gobaeth a'u dys-

gwyliad am dangnefedd a difyrwch yn y bywyd hwn, Luc xii. 19. "Enaid, y mae genyt dda lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd: gorphwys, bwyta, yf, bydd lawen;" adn. 20. "Eithr Duw a ddywedodd wrtho, O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt, ac eiddo pwy fydd y pethau a barotoaist?" Maent yn dysgwyl pethau mawrion yn y byd yma, maent yn gobeithio gallu chwanegu eu cyfoeth, gweled eu teulu yn llwyddo, a byw yn esmwyth: ond mae angau yn dyfod fel gwynt tymhestlog ac yn ysgwyd ymaith eu gobaith hoff, fel ffrwyth anaddfed oddiar bren. "Pan fyddo efe ar fedr llenwi ei fol, Duw a ddenfyn arno angerdd ei ddigofaint," Iob xx. 23. Fe all efe ddechreu gwê o ddychymmygion, tuag at ddwyn ymlaen ei elw bydol: ond cyn y gweuo efe hi allan, y mae angau yn dyfod ac yn ei thori ymaith. "Ei anadl a â allan, efe a ddychwel i'w ddaear: y dydd hwnw y derfydd am ei holl amcanion ef," Psal. cxlvi. 4.

*Yn ail,* Pan ddelo angau, nid oes ganddynt sail gadarn i obeithio am ddedwyddwch tragywyddol, Iob xxvii. 8. "Canys pa obaith sydd i'r rhagrithiwr, er elwa o hono ef, pan dynno Duw ei enaid ef allan?" Pa obaith bynag y maent yn fynwesu, nid ydyw wedi ei sylfaenu ar air Duw, yr unig sylfaen sicr i obeithio. Pe gwelent eu cyflwr, hwy a wybyddent nad yw eu hapusrwydd ond breuddwyd. Ac yn wir, pa obaith a all fod ganddynt? Mae y gyfraith yn amlwg yn eu herbyn, ac yn eu condemnio. Ei melldithion, sef rhwymau marwolaeth, sydd am danynt eisoes. Yr Iachawdwr a ddibrisiasant sydd yn awr yn Farnwr arnynt, a'u barnwr yw eu gelyn. Pa fodd y gobeithiant? Y maent wedi bolltio drws trugaredd yn eu herbyn eu hunain, drwy anghrediniaeth; maent wedi diystyru y feddyginiaeth, am hyny rhaid iddynt farw yn ddidrugaredd. Nid oes ganddynt un rhan gadwedigol yn Iesu Grist, yr unig gyfrwng trwy ba un y mae trugaredd yn dylifo, ac am hyny nis gallant byth gael profiad o honi. Mae cleddyf cyfiawnder yn gwarchadw drws trugaredd, fel nas gall neb fyned i mewn, ond aelodau corph dirgeledig Crist, uwch benau pa rai y mae gorchudd o waed y cymmod, sef gwaed y Cyfryngwr. Gall y rhai'n yn wir fyned heibio heb gael dim niwed, oblegid na fedd cyfiawnder ddim i'w ofyn ganddynt; ond ereill nis gallant; o herwydd nad ydynt yn Nghrist, mae angau yn dyfod arnynt a'i golyn ganddo, colyn o bechod heb ei faddeu. Y mae wedi ei arfogi

'n eu herbyn â'r holl rym a ddichon awdurdod y gyfraith anctaidd roddi iddo, 1 Cor. xv. 56. "Colyn angau yw echod, a grym pechod yw'r gyfraith." Pan roddwyd y yfraith ar Sinai, "yr holl fynydd a grynodd yn ddirfawr," ;csod. xix. 18. Pan oedd y Prynwr yn rhoddi iawn ros yr etholedigion am eu troseddiad o honi, "y daear a grynodd, a'r meini a holltwyd," Math xxvii. 1. Pa sail i obeithio, ynte, a ddichon fod gan y dyn rygionus, pan y delo angau ar ei warthaf wedi ei arfogi â rym y gyfraith hon? Pa fodd y gall efe ddiangc rhag "y ân oedd yn llosgi hyd entrych awyr?" Deut iv. 11. pa fodd saif efe yn y mwg hwnw "a ddercbafodd fel mwg ffwrn?" Ecsod. xix. 18. pa fodd y gall efe ddyoddef y "taranau a'r nellt" ofnadwy? adn. 16. a thrigo yn "y tywyllwch, a hwmwl, a thywyllwch dudew?" Deut iv. 11. Nid yw yr oll gyffelybiaethau hyn wedi eu tyru ynghyd ond diffygiol i dangos y dymhestl ofnadwy o ddigofaint a llidiawgrwydd, a mlidiant y drygionus hyd yn uffern isod, ac a erys yn dragywydd rnynt hwy y rhai a yrir i dywyllwch yn angau.

*Yn drydydd*, Mae angau yn diwreiddio eu gobaith hudolaethus am ddedwyddwch tragywyddol: yna y diddymir eu amod ag angau, a'u cyngrair ag uffern ni saif. Fe'u effroir o'u breuddwydion euraidd, ac o'r diwedd a agorant u llygaid, Iob viii. 14. "Yr hwn y torir ymaith ei obaith; c fel tŷ pryf coppyn y bydd ei hyder ef." Maent yn hyderu bydd pob peth yn dda gydâ hwynt ar ol marw: ond nid yw u gobaith hwn ond gwê wedi ei gwau o'u hymysgaroedd eu unain, gyda llawer o fanylrwydd a diwydrwydd. Maent yn mdroi yn eu gobaith hwn fel yr ymdröa pryf copyn yn ei wê. Ond nid yw ond amddiffyniad eiddil ac egwan: oblegid er wrthsefyll o honynt fygythion gair Duw, fe ddaw angau, sgubell dystryw, i'w hysgubo hwy a'u gobaith ymaith, fel a adawir y dernyn lleiaf iddynt o hono, ac efe yr hwn nis ollwng ei afael o'i obaith y funud hon, a fydd y funud nesaf n hollol ddiobaith. Mae angau yn dymchwelyd y tŷ a deilader ar y tywod: ni âd ef un dyn dan awdurdod twyll.

*Yn olaf*, Mae angau yn gwnëyd eu cyflwr yn hollol anoeithiol am byth. Nis gall amgylchiadau gael eu hadfern a'u diwygio ar ol marwolaeth. Canys, (1.) Pan elo amser

unwaith heibio, nis gellir byth ei alw yn ol. Pe gallai llefain neu ddagrau, pridwerth neu benyd, ddwyn amser yn ei ol, yna fe fyddai gan y drygionus obaith wrth farw. Ond ni lwyddai dagrau o waed, na'i ruadau dros filiynau o flynyddoedd i ddwyn amser yn ol. Nid erys yr haul yn yr unman nes deffro o'r diogyn, a chychwyn i'w daith; a phan unwaith y machludo, ni wiw iddo ddysgwyl y troir y nos yn ddydd er ei fwyn ef: rhaid iddo lettya dros hirnos tragywyddoldeb, yn y man y gadawodd amser ef. (2.) Nid oes dim dychwelyd i'r bywyd yma yn ol, i ddiwygio yr hyn a wnelom yn feius: mae y cyflwr prawf yn terfynu yn angau; am hyny nis gallwn ddychwelyd yn ol iddo drachefn: felly unwaith sydd genym i fyw, ac unwaith i farw. Mae angau yn cymmeryd y drygionus i'w le ei hun, Act i. 25. Y bywyd yma yw ein diwrnod gweithio: mae angau yn diweddu ein diwrnod a'n gwaith ar unwaith. Mae yn dueddol i ni feddwl y byddai gan y drygionus ryw obaith yn eu marwolaeth, pe gallent ddyfod i'r bywyd drachefn, ar ol i angau agoryd eu llygaid, a chael y prawf o un Sabbath, un cynnygiad o Grist, un diwrnod, neu un awr yn ychwaneg, i wneyd eu heddwch â Duw: eithr "gwr a orwedd, ac ni chyfyd hyd oni byddo heb nefoedd; ni ddihunant, ac ni ddeffroant a'u cwsg," Iob xiv. 12. *Yn olaf*, Nid oes gan ddynion yn y byd arall, ddim cyfleusdra i gael gwellâd o'u cyflwr andwyol, chwennychont a fynont. "Canys nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned, Preg. ix. 10. Yn awr fe ddichon dyn ffoi rhag y digofaint sydd ar ddyfod; yn awr, fe all gael noddfa: ond pan unwaith y gwnelo angau ei orchwyl, mae y drws yn cael ei gau; nid oes gynnygiad o drugaredd mwyach, na dim maddeuant: lle syrthio y pren, yno y mae yn rhaid iddo aros.

Dyfal fyfyriwch ar yr hyn a ddywedwyd: ac fel y byddo o fudd i chwi, gadewch i mi eich annog,

*Yn gyntaf*, I ochelyd mynwesu unrhyw obaith am y nefoedd, ond y cyfryw ag a fyddo wedi ei adeiladu ar sylfaen ddiogel: crynwch wrth feddwl am y llawer gobaith harddwych am hapusrwydd y mae angau yn eu hysgubo ymaith fel gweoedd y pryf copyn; fel y mae gobaith llaweroedd yn cael ei dori ymaith pan y tybiant eu bod ar drothwy y nefoedd; pa fodd, ar y munud yr oeddent yn dysgwyl cael eu cymmeryd

gan angylion i fynwes Abraham, i ardaloedd gwynfyd a thangnefedd, fe'n cymmerwyd gan gythreuliaid i gynnulleidfa y colledigion yn uffern, i le y poendigaeth, i ardaloedd dychryndod. Yr wyf yn erfyn arnoch ochelyd, (1.) Rhag gobaith wedi ei adeiladu ar sail heb erioed ei dynoethi. Yr adeiladwr doeth a *gloddiodd ac a aeth yn ddwfn,* Luc vi. 48. A ysgydwyd erioed mo eich gobaith am y nef; ond a fu eich gobaith yn gadarn dros eich holl ddyddiau? Och chwi o'r herwydd! gellwch weled dirgelwch eich amgylchiad yn cael ei egluro yn Luc. xi. 21. "Pan fyddo un cryf arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn sydd ganddo mewn heddwch." Ond os ysgydwyd ef, gochelwch rhag darfod gwneuthur rhwygiadau yn eich hen adeilad, ac i chwi eu hadgyweirio drwy ryw ffyrdd neu foddion o'ch eiddo eich hun. Yr wyf yn sicrhâu i chwi na thâl eich gobaith (er teced adail yw) mo'r ymddiried ynddo; oddieithr darfod dilëu eich hen obaith, ac adeiladu o honoch ar sail hollol newydd. (2.) Gochelwch y gobaith a fo yn dysgleirio yn y tywyllwch, eithr yn colli ei holl loywder pan ddalier yn ngoleuni gair Duw, a phan ei chwilier ac ei profer wrth ddangoseg dwyfol ddatguddiad, Ioan iii. 20. "Canys pob un a'r sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casâu y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef." Adn. 21. "Ond yr hwn sydd yn gwneuthur gwirionedd, sydd yn dyfod i'r goleuni, fel yr eglurhaer ei weithredoedd ef, mai yn Nuw y gwnaed hwynt." Y gobaith hwnw yr hwn ni ddeil ei brofi wrth yr ysgrythyr, eithr a ddiflana pan ei chwilier wrth y gwirionedd cyssegrlan, nid yw ond hudoliaeth, ac nid gwir obaith: canys y mae gair Duw bob amser yn gyfaill i rasusau Yspryd Duw, ac yn elyn i dwyll. (3.) Gochelwch y gobaith a saif heb ei gynnal gan dystiolaethau ysgrythyrol. Och! mae llawer yn llawn o obaith, y rhai nis gallant ddangos yr un sail ysgrythyrol iddo, o herwydd nas meddant yr un. Yr wyt yn gobeithio y bydd bob peth yn dda gwedi angau: ond ar ba air i Dduw y "parwyd i ti obeithio?" Psal. cxix. 49. pa dystiolaeth ysgrythyrol sydd genyt i brofi mai nid gobaith rhagrithiwr yw dy obaith? Ar ol holi dy hun yn ddiduedd, megys yngwydd Duw, pa beth a gefaist ynot dy hunan, ag y mae gair Duw yn ei benderfynu megys tystiolaeth o hawl y nebsydd yn ei feddu i fywyd tragywyddol? Mae nifeiri'o

ddynion yn cael eu handwyo gan y cyfryw obaith nad oes un tystiolaeth yn yr ysgrythyr i'w gynnal. Mae dynion yn afaelgar ac yn hoff o'r gobaith hwn, ond angau a'u dadymchwel, ac a âd yr hunan-dwyllwr yn ddïobaith. *Yn ddiweddaf*, Gochelwch y gobaith am y nefoedd, nad yw yn eich parotoi ac yn eich cymhwyso i'r nefoedd, ac nad yw yn sancteiddio eich henaid, 1 Ioan, iii. 3, " Mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur." Gobaith y rhan fwyaf o bobl, sydd obaith o gael bod yn rhydd oddiwrth boen a gofid yn y byd nesaf, yn hytrach na gobaith o wir ddedwyddwch, natur pa un nid ydynt yn ei ddeall nac yn ei iawn farnu; am hyny mae'r gobaith hwn yn eu rhwymo mewn dïogi a segurdod, ac nid yn eu cynhyrfu i farwhâu eu chwantau, ac i fyw bywyd nefol. Maent mor belled oddiwrth iawn obeithio am y nefoedd, fel y byddai yn rhaid iddynt gyfaddef, pe mynegent eu gwir dybiau, mai eu hofn yn hytrach na'u gobaith yw cael eu symud i unlle o'r byd hwn. Nid yw gogoniant y ddinas nefol yn tynu dim ar eu calonau i fynu tuag atti; ac nid ydynt yn dyrchafu eu penau gydâ llawenydd wrth olygu eu bod ar fyned i mewn iddi. Pe byddai ganddynt wir obaith am ddiwrnod y brïodas, hwy a fyddent fel prïodasferch, " gwraig yr Oen, yn parotoi eu hunain," Dad xix. 7. Ond mae eu gobaith yn deillio o'u dïogi, a'u dïogi yn cael ei feithrin gan eu gobaith. O! ddynion, megys nad ewyllysiech gael eich gyru ymaith yn ddiobaith i angau, gochelwch y fath obaith a hyn. Disylfaenwch hwynt yn awr, ac adeiledwch ar sail newydd; rhag na âd angau gareg o hono ar gareg, ac na bydd genych le i obeithio byth mwy.

*Yn ail*, Brysiwch, O bechaduriaid, o'ch drygioni, o'ch cyflwr pechadurus, ac o'ch bywyd annuwiol: os na fynech yn angau gael eich gyru ymaith yn eich drygioni. Cofiwch ddiwedd arswydus y dyn drygionus a ddarlunir yn y testun. Mi a wn fod gwahaniaeth mawr yn marwolaeth y rhai drygionus, o ran rhyw amgylchiadau: ond y maent oll yn eu marwolaeth yr un fath yn hyn, sef eu bod yn cael eu gyru ymaith yn eu drygioni. Mae rhai o honynt yn marw yn wrol, fel pe byddai yn ysgorn ganddynt arswydo. Rhai mewn cynddaredd anobeithiol, ac mor llawn o ddychryn, fel y llefant allan fel

pe byddent eisoes yn uffern: ereill mewn anobaith sarrug, yn cael eu llethu gan ofnau mor dost nes ydyw eu calonau yn suddo o'u mewn, wrth gofio yr amser a gamdreuliasant, a'r golygiadau sydd ganddynt ar dragywyddoldeb; heb ganddynt na phen na chalon i wnëyd dim ymwared iddynt eu hunain. Ac ereill yn marw yn hurt; maent yn byw fel anifeiliaid, ac yn marw fel anifeiliaid, heb ddim gofal ar eu hyspryd am eu cyflwr tragywyddol. Maent yn gruddfan dan gyfyngder corphorol, ond heb dim teimlad o berygl eu heneidiau. Fe fyddai dyn a lefarai wrth gareg agos mor debyg i lwyddo a'r hwn a lefarai wrtho yntau: ofer yw ceisio eu dysgu, nis gellir dywëyd dim a'u cynhyrfa. Nid yw ymddyddan â hwynt am lawenydd y nef, nac am boenau uffern ond megys aredig ar y graig neu guro yr awyr. Mae rhai yn marw fel y morwynion ffol, dan freuddwydio am y nefoedd: a'u talcenau wedi eu durio yn erbyn ofnau uffern â gobaith rhyfygus am y nefoedd. Y neb a fyno wneuthur llês iddynt, gwell iddo na cheisio atteb amheuon ynghylch cyflwr eu heneidiau, fyddai eu dadleu allan o'u gau obaith. Ond pa ddull bynag y bydd marw y dyn annychweledig, y mae yn cael ei yru ymaith yn ei ddrygioni. O gyflwr arswydus! O na fyddai i ystyriaeth o ymadawiad mor alaethus o'r byd yma, eich deffro i ffoi at Iesu Grist, fel Achubwr llawn ddigonol, a Phrynwr hollalluog. O na lwyddai i'ch gyru o'ch drygioni, i sancteiddrwydd calon a buchedd. Er eich bod chwi yn ei gyfrif yn ddifyr gael byw mewn drygioni; nis gellwch lai na chyfaddef nad ydyw yn chwerw marw ynddo. Ac os na ymadewch ag ef mewn amser, bydd raid i chwi fyned yn eich drygioni i uffern, ei le priodol ef, fel y gosoder ef yno ar ei stol ei hun. Oblegid pan fyddoch yn myned allan o'r byd hwn, bydd eich pechodau, o'r hynaf hyd yr ieuangaf o honynt, yn heidio o'ch hamgylch, ac yn glynu wrthych, i'ch dilyn i'r byd arall; ac, fel cynnifer o ellyllon, a'ch hamgylchynant yno byth.

*Yn ddiweddaf,* O tosturiwch wrth ereill, yn enwedig eich perthynasau, fel na byddo iddynt hwythau barhâu yn eu cyflwr naturiol, eithr cael o honynt eu dwyn i gyflwr iachawdwriaeth; rhag iddynt gael eu gyru ymaith yn eu drygioni yn angau. Pa beth nas gwnaech i ragflaenu rhai o'ch cyfeillion rhag marwolaeth anamserol a chreulawn? ond, och! onid ydych yn eu gweled mewn perygl o gael eu gyru ymaith yn eu

drygioni? onid yw angau yn dynesu atynt, hyd yn nod yr ieuangaf o honynt? ac onid ydynt yn estroniaid i wir gristionowgrwydd, ac yn parhâu yn y cyflwr y daethant yiddo i'r byd? O! brysiwch i gipio y pentewyn o'r gynneu dân, cyn ei losgi yn ulw. Mae marwolaeth perthynasau yn fynych yn gadael colyn yn nghalon y rhai fyddont yn eu gadael ar eu hôl oherwydd nas defnyddiasant y cyfleusderau a gawsant i wnëyd lles i'w heneidiau; ac o herwydd bod y cyfleusderau hyny yn awr wedi eu cymmeryd o'u dwylaw am byth.

## ATHRAWIAETH II.

*Mae cyflwr y duwiol yn angau, yn gyflwr gobeithiol.*

Gwelsom ochr tywyll y cwmwl sydd yn edrych tu a'r annuwiolion wrth fyned o'r byd; gadewch i ni yn awr gymmeryd golwg ar yr ochr oleu iddo, sydd yn dysgleirio ar y duwiol, pan fyddont yn myned i'w sefyllfa dragywyddol. Wrth lefaru oddiar y testun hwn, mi a gadarnhâf yr athrawiaeth hon, ac a attebaf wrthddadl yn ei herbyn, ac yna gwneuthur rhai defnyddiau ymarferol oddiwrth y cyfan.

Er cadarnhâd, sylwer, er bod golwg frawychus i farwolion truain ar y fynedfa sydd i fyned allan o'r byd hwn drwy angau, ac fod yn rhaid y bydd cam-droediad yno o ganlyniadau alaethus; eto mae'r amgylchiadau canlynol yn peri bod cyflwr y duwiolion yn eu marwolaeth, yn gyflwr hapus a hyderus.

*Yn gyntaf,* Y mae ganddynt Gyfaill da, ffyddlon yn y byd arall o'u blaenau. Mae Iesu Grist, eu cyfaill goreu, yn Arglwydd y wlad hono i ba un y mae angau yn eu trosglwyddo. Pan ddanfonodd Ioseph am ei dad i fyned i waered i'r Aipht, gan fynegi iddo i Dduw ei osod ef yn arglwydd ar yr holl Aipht, Gen. xlv. 9, "A phan ganfu Iacob y cerbydau a anfonasai Ioseph i'w ddwyn ef, yna y bywiogodd yspryd Iacob," adn. 27. Efe a lawn fwriadodd anturio i'r daith. Yr wyf yn meddwl, pan fyddo yr Arglwydd yn galw am ddyn duwiol allan o'r byd yma, ei fod ef yn anfon iddo y fath newyddion o lawenydd, a'r fath wahoddiad tirion i ddyfod i'r byd arall,

pe byddai ganddo ffydd i'w credu, byddai raid i'w yspryd
iogi pan welai efe gerbyd angau yn dyfod i'w drosglwyddo
. Y mae yn ddigon gwir fod ganddo brofiad pwysig i
'd trwyddo; gwedi angau, mae y farn. Ond y mae
vr y duwiol yn hollol obeithiol; canys Arglwydd y wlad
eu prïod, a'u prïod yw eu barnwr: "Canys y Tad a
les bob barn i'r Mab," Ioan v. 22. A diau fod cyflwr y
ig yn obeithiol, pan y mae ei phrïod ei hun yn farnwr
, ïe yr fath brïod ag y mae yn gâs ganddo fwrw ymaith.
oes yr un prïod mor serchiadol ac mor dyner tuag at ei
veddi ag yw yr Arglwydd Iesu tuag at yr eiddo ef. Fe
ai un y wlad hono yn un ddiffaith iawn, i'r hon ni byddai
aig yn foddlon i fyned er bod ei phrïod yn llywodraethwr
n farnwr yno. Heblaw hyny, mae eu Barnwr yn Eir-
r, 1. Ioan ii. 1, "Y mae i ni Eiriolwr gydâ'r Tad, Iesu
t y cyfiawn." Am hyny nid rhaid iddynt ofni cael eu
yn ol, a syrthio i golledigaeth. Beth a all fod yn fwy
rus? A allant hwy feddwl, y gwna efe yr hwn sydd yn
eu drostynt, gyhoeddi y ddedryd ei hun yn eu herbyn?
eto ymhellach, eu Heiriolwr yw eu Prynwr; fe'u "pryn-
â gwerthfawr waed Crist, 1 Petr, i. 18, 19. Felly pan
iae yn dadleu drostynt hwy, y mae yn dadleu drosto ei
. Er y dichon dadleuwr fod yn esgeulus ynghylch achos
wn y bo yn dadleu drosto, eto diammeu y gwnai ei oreu
ddiffyn ei hawl ei hun, yr hyn a brynasai a'i arian ei hun:
ni amddiffyn eu Heiriolwr hwy werth ei waed ei hun?
uwchlaw y cwbl, eu Prynwr yw eu pen, a hwythau
r aelodau, Eph. v. 23. 30. Pe byddai ryw un mor ffôl a
ael i'w eiddo prynedig fyned, heb sefyll i fynu i amddiffyn
awl, eto yn sicr nid ymadawai efe ag aelod o'i gorph ei
. Gan hyny, onid yw cyflwr y rhai'ny yn obeithiol yn
au, y rhai sydd wedi eu cydio a'u cyfathrachu mor agos
Arglwydd y byd arall, gan yr hwn y mae agoriadau uffern
arwolaeth?

*'n ail,* Hwy a gant fynediad dïogel i fyd arall. Gwir yw
haid iddynt fyned trwy "lyn cysgod angau:" ond er ei
ynddo ei hun yn lyn tywyll a chymylog, efe a gaiff fod yn
gobaith iddynt hwy: nid eu gyru drwyddo a gant hwy,
rhodio drwyddo; fel dynion mewn llawn ddïogelwch, y
i "nid ofnant niwed," Psal. xxiii. 4. Pa ham yr ofn-
? Maent dan arweiniad dïogel Arglwydd y wlâd, a'i
'ydded *(pass)* ef ganddynt wedi ei selio a'i waed ei hun,

sef y cyfammod bendigedig, yr hwn yw cysur y saint ar wely angau, 2 Sam. xxiii. 5. "Er nad yw fy nhŷ i felly gyd â Duw: etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr: canys fy holl iachawdwriaeth, am holl ddymuniad yw, er nad yw yn peri iddo flaguro." Pwy gan hyny a all wneuthur niwed iddynt? Dyma farchogaeth diogel yn ngherbyd Crist, (Can. iii. 9.), drwy fywyd ac angau. Y mae ganddynt wasanaethwyr da ac anrhydeddus, gwarchawd-lu, sef gwarchawd-lu o angylion. Mae y rhai hyn yn gwersyllu o'u hamgylch dros eu bywyd, a diau na adawant mo honynt yn nydd eu marwolaeth. Yr ysprydion gwasanaethgar dedwydd hyn ydynt yn gweini i briodasferch eu Harglwydd, diammeu y dygant hi adref yn ddiogel idd ei dy. Pan fo cyfeillion yn sefyll mewn agwedd alarus oddiamgylch gwely y saint, yn dysgwyl eu gweled yn tynu yr anadl olaf, mae angylion sanctaidd yn dysgwyl am eu heneidiau i'w dwyn "i fynwes Abraham," Luc xvi. 22. Mae Cadben iechydwriaeth y saint yn gadben, ar y gwarchawd-lu yma: efe yw eu harweinydd hyd angau, ac efe a'u harwain hwynt drwyddo hefyd, Psal. xxiii. 4. "Ië pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed, canys yr wyt ti gyd â mi." Gallant groesi yr afon hono yn ddiarswyd, gan fod yn hyderus na lifa hi ddim drostynt; gallant rodio drwy y tân, gan fod yn hyderus nas llosgir hwynt ganddo.

Nis gall angau wneuthur niwed iddynt.Ië nis gall niweidio eu cyrph: canys er ei fod yn gwahanu yr enaid oddiwrth y corph, eto nis gall wahanu y corph oddiwrth Grist.Ië, nid yw angau iddynt hwy ond "huno yn yr Iesu, 1 Thes. iv. 14. Maent yn parhâu yn aelodau i Grist, er eu bod yn y bedd. Mae eu llwch yn llwch gwerthfawr, wedi ei gadw yn y bedd, megys yn nhlys-gell eu Harglwydd. Maent yn gorwedd yn y bedd i aeddfedu, fel ffrwyth gwerthfawr wedi ei roddi i'w gadw nes ei ddwyn allan iddo ef yn yr adgyfodiad. Mae gan y llafurwr yd yn ei ysgubor, ac ydau yn gorwedd yn y ddaear: ac y mae yr olaf yn fwy gwerthfawr ganddo na'r llall, oblegid ei fod yn dysgwyl ei gael yn ol gyd â chynnydd. Yr un ffunud y mae cyrph meirwon y saint yn werthfawr yn ngolwg eu Hiachawdwr; fe'u "heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth: fe'u heuir mewn anmharch, ac a gyfodir mewn gogoniant," 1 Cor. xv. 42, 43. Nis gall niweidio eu heneidiau. Yr un modd ydyw ar eneidiau y saint yn angau, ag ydoedd ar Paul a'i gymdeithwyr ar eu mordaith,

am ba un y mae genym hanes yn Act. xxvii. Eu llong a ddrylliwyd yn ddarnau, ond fe aeth y morwyr i gyd i dir yn ddïangol. Pan gollo y credadyn ei leferydd yn angau, a phan sefydlo ei lygaid, ac y tyno ei anadliad olaf, fe â ei enaid yn ddïangol i'r baradwys nefol, gan adael y corph i ddychwelyd i'r ddaear, ond gydâ gobaith gorfoleddus o gael eu hail uno yn ei adgyfodiad gogoneddus. Pa fodd y gall angau niweidio y duwiol? gan mai gelyn wedi ei orchfygu ydyw: os rhydd iddynt godwn, nid yw hyny ond fel y caffont gyfodi yn fwy gogoneddus. "Ein Harglwydd Iesu Grist a ddiddymodd angau," 2 Tim. i. 10. Mae'r yspryd a'r bywyd o hono wedi darfod: nid yw ond megys cysgod yn rhodio, fe all ddychrynu, ond nis dichon niweidio y saint; nid yw ond cysgod angau iddynt hwy, ac nid angau ei hun: nid yw eu marw ond cyffelyb i farw, neu beth lled debyg i farw. Yr Apostol a ddywed i ni mai "Crist yw yr hwn a fu farw," Rhuf. viii. 30. A Stephan, y merthyr cristionogol cyntaf, er ei labyddio i farwolaeth, eto ni ddarfu ond huno, Act. vii. 60. Y mae yn sicr fod natur angau yn cael ei gwbl newid gyd â golwg ar y saint. Nid yr un peth ydyw iddynt hwy ag ydoedd i Grist eu pen: nid rhyw beth gwenwynig dinystriol ydyw, wedi ei wisgo ag awdurdod y cyfammod cyntaf, Gen. ii. 17. "Yn y dydd y bwytai di o hono, gan farw y byddi farw." Y mae yn dyfod at y duwiol hèb ei golyn: gallant ei gyfarfod â'r cyfarchiad hwnw, "O angau, pa le mae dy golyn?" Ai dyma Marah? Ai angau chwerw ydyw hwn? Fe aeth allan i'r byd yn llawn chwerwdod pan agorodd yr Adda cyntaf y drws iddo; eithr yr ail Adda a'i dug i mewn drachefn yn wâg i gyfarfod a'i bobl ei hun. Yr wyf yn teimlo colyn, gall y credadyn ddywëyd wrth farw; eto nid yw ond megis colyn gwenynen, yn barthu drwy'r croen yn unig: ond O angau pa le mae dy golyn, dy hen golyn, colyn y sarph, yr hwn a frath hyd y galon a'r enaid? Colyn angau yw pechod, ond cymmerwyd hwn ymaith Os gafaela angau yn y credadyn, i'w gymmeryd o flaen y barnwr, i atteb am y ddyled y mae wedi rhedeg iddi, ceir gweled fod y ddyled wedi ei thalu gan y Meichiau anrhydeddus; ac y mae yr ysgrifen ryddhâd ganddo i'w dangos. Y mae draen euogrwydd wedi ei dynu o gydwybod y dyn, ac y mae ei enw wedi ei ddileu o'r rhestr ddu, ac wedi ei ysgrifenu ymysg y rhai byw yn Ierusalem. Mae yn wir mai taith fawr yw myned trwy ddyffryn cysgod angau: ond y mae baich y cristion wedi

rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi." Maent yn cael profiad o lawenydd y nef, tra ar y ddaear hon; ac yn dechreu caniadau Sion, tra mewn tir dieithr. Mae ereill yn meirw mewn ymddibyniad hyderus ar eu Harglwydd a'u Hachubwr: er nas gallant ganu yn fuddugoliaethus, eto hwy a allant ddywedyd, ac a ddywedant yn hyderus *Mai 'r Arglwydd yw eu Duw.* Er nas gallant fuddugoliaethu ar angau, gydâ 'r hên Simeon, â Christ ganddo yn ei freichiau, a dywedyd, "Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air: canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth," Luc ii. 29. 30; eto gallant ddywedyd fel Iacob wrth farw, "Am dy iachawdwriaeth y dysgwyliais. Arglwydd." Gen. xlix. 18. Ei law aswy sydd dan eu penau i'w cynnal, er nad yw ei ddeheulaw yn eu cofleidio: maent yn credu yn ddiysgog, er nad ydynt yn gyflawn o lawenydd trwy gredu. Gallant ddadleu y cyfammod, ac ymlynu wrth yr addewid, er nad yw eu tŷ felly gyd â Duw fel y dymunent. Ond dichon dydd marwolaeth rhai o'r saint fod fel y dydd hwnw y sonir am dano yn Zech xiv. 7, *Nid dydd ac nid nôs.* Dichon eu bod yn marw dan lawer o amheuon ac ofnau; megys yn machlud mewn cwmwl, ac yn myned i'r nefoedd mewn niwl. Dichon eu bod yn rhodio yn alarus heb yr haul, heb allu bwrw ymaith yspryd trymder, hyd nes y diosgo angau hwynt o hono. Gallant gael eu dwyn i'r nefoedd drwy gyffiniau uffern; a chael eu herlid, gan y llew difäol hyd yn nod at byrth y Ierusalem newydd; a gellir eu cymharu i long y'mron dryllio yngolwg y porthladd, ac eto yn cyrhaedd y lan yn ddïogel, 1 Cor. iii. 15. "Os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled: eithr efe ei hun a fydd cadwedig, etto felly megys drwy dân." Mae diogelwch y'mhith eu hofnau, ond y mae pervgl yn hyder cadarn y drygionus; ac y mae i'r cyfiawn ddedwyddol had llawenydd yn eu trallodau mwyaf; "Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai uniawn o galon," Psal. xcvii. 11.

Mae y saint yn agored i'r cyfryw ddyryswch yn eu marwolaeth, oblegid, er eu bod yn Gristionogion mewn gwirionedd, eto dynion ydynt o'r cyffelyb dymherau i ereill; ac y mae angau yn wrthddrych arswydus ynddo ei hun, pa wisg bynag yr ymddangoso ynddi: nis gall ei edrychiad gwgus ar ddynion lai na pheri iddynt ysgoi. Ac heblaw hyny, y saint yw y

ymion mwyaf eiddigeddus o honynt eu hunain o neb. Maent
n meddwl am dragywyddoldeb; ac am y frawdle, gyd â mwy
ddwysder nag ereill: mae marw, yn eu golwg hwy, yn
eth mwy difrifol nag y mae pobl ereill yn meddwl ei fod.
laent hwy yn gwybod am dwyll y galon, a dichellion y natur
lynol lygredig, yn well nag ereill, ac am hyny, fe all fod
n gryn orchwyl iddynt i gadw i fynu eu gobaith ar wely
ngau; tra y mae ereill yn myned heibio yn dawel fel defaid
r lladdfa: ond yn benaf, y mae Satan yn arferyd ei gyf-
wystra eithaf, i gynnal gobaith y rhagrithiwr, eithr a wna
i oreu i atal tangnefedd ac i ychwanegu ofnau y saint. *Yn
laf*, Mae yr agwedd wael sydd ar yspryd, a'r annhrefn y
mae'r gwir Gristion ynddo weithiau pan y mae angau yn
maflyd ynddo, yn achos digonol i beri y dyryswch hwn. Y
mae ei fod mewn cyflwr o râs, yn wir, yn ei ddodi ef yn
arod i farw o ran ei gyflwr ysprydol, ac yn sicrhâu ei ddio-
gelwch yn angau; ond y mae ychwaneg na hyny yn anghen-
heidiol tuag at ei lwyr barodrwydd, i farw yn gysurus;
haid bod agwedd ei yspryd yn barod hefyd.

Gan hyny y mae tri amgylchiad yn mha rai nis gall marw
ui na bod yn dra anghysurus i blentyn Duw. (1.) Os ymeifl
fe ynddo tra y mae euogrwydd rhyw bechod neillduol, heb
difarhâu o'i herwydd, yn gorphwys ar ei gydwybod; ac
angau, o achos hyny, yn dyfod i'w gymmeryd ef o dir y rhai
byw; megys y bu gydâ llawer o'r Corinthiaid crediniol, 1
Cor. xi. 30. "Oblegid hyn (sef am gymuno yn annheilwng)
y mae llawer yn weiniaid, ac yn llesg yn eich mysg, a llawer
yn huno." Os goddiweddir dyn yn ddisymwth gan angau,
pan y mae efe yn gorwedd dan euogrwydd rhyw bechod heb
ei faddeu, nis gall lai na pheri dychryn dirfawr. (2.) Pan
y dalio angau ef yn hepian. Mae yn rhaid i'r waedd hanner
nôs fod yn ddychrynllyd i'r morwynion cysglyd. Y dyn a
fyddo yn cysgu mewn ty adfeiliedig, ac nis deffry nes i'r coed
ddechreu ymhollti, ac i'r cerig ddechreu syrthio ar ei ben, efe
a ddichon ddiangc allan yn ddiangol, ond nid heb ofn cael ei
ethu gan ei gwymp. Pan fyddo 'r cristion wedi myned i
gyflwr o ddiofalwch a gwrthgiliad, ac heb ddeffro nes i angau
ddyfod at erchwyn ei wely; peth rhyfedd os na chaiff efe
ddeffrôad dychrynllyd. *Yn ddiweddaf*, Pan gollo efe ei olwg
ar ei hawl yn Nghrist, ac nis medr ddangos tystiolaethau o'i

hawl i'r nefoedd. Y mae yn drwm wynebu angau heb ryw dystiolaeth o hawl i fywyd tragywyddol wrth law; mae yn drwm myned trwy y glyn tywyll heb ganwyll yr Arglwydd yn llewyrchu ar y pen. Anturiaeth arswydus ydyw cychwyn i dragywyddoldeb, pan nad oes gan ddyn ddim amgenach nag megys rhoddi naid yn y tywyllwch heb wybod ymha le y disgyn, pa un ai yn y nefoedd ai yn uffern.

Er hyn i gyd, y mae cyflwr y saint, yn eu marwolaeth, yn wastad ynddo ei hun yn obeithiol. Nis gall gobaith rhyfygus yr annuwiol yn eu marwolaeth ddim gwnëyd eu cyflwr yn obeithiol; ac nis gall anobaith y saint ychwaith wnëyd eu cyflwr yn anobeithiol: oblegid y mae Duw yn barnu yn ol gwirionedd y peth, ac nid yn ol tybiau dynion am dano. Eto nis gall y saint fod yn hollol ddiobaith mwy nag y gallant fod yn hollol ddiffydd. Dichon eu ffydd fod yn wan iawn, ond ni phalla; a'u gobaith yn isel iawn, eto hwy a obeithiant hyd y diwedd. Iē pan y gellid meddwl fod y duwiolion yn cael eu cymmeryd ymaith gyd â'r ffrwd o amheuon ac ofnau, y mae cymmaint o obaith yn aros o hyd ag sydd yn eu nerthu i gymmeryd gafael y'mhren y bywyd, yr hwn sydd yn tyfu ar lan yr afon, Ionah ii. 4, "A minnau a ddywedais, Bwriwyd fi o ŵydd dy lygaid; er hyny mi a edrychaf etto tu a'th deml sanctaidd."

DEFNYDD. Mae hyn yn llefaru cysur i'r duwiol y'ngwyneb ofn angau. Gellir galw y dyn duwiol yn ddyn dedwydd, cyn ei farwolaeth; canys pa beth bynag a ddygwyddo iddo yn ei fywyd, y mae yn sicr o fod yn hapus yn ei farwolaeth. Chwychwi y rhai ydych yn Nghrist, ac yn Gristionogion mewn gwirionedd; y mae genych obaith yn eich diwedd; â'r cyfryw obaith ag a'ch cysura y'ngwyneb yr holl ofnau, sy'n codi ynoch wrth feddwl am farw. Mi a gaf wahanu hyn yn ganghenau, drwy atteb rhai achosion yn fyr.

GWRTHDDADL 1. Mae golwg ar angau (medd rhai o'r saint) yn anoddefol i mi, oblegid nas gwn pa beth a ddaw o fy nheulu pan elwyf ymaith. *Atteb.* Y cyfiawn o obeithia pan fyddo yn marw, am ei deulu yn gystal ag am dano ei hun. Er nad oes genych yn awr ond ychydig i fyw arno: fel y bu gydâ llawer o rai dewisedig yr Arglwydd, 1 Cor. iv. 11. "Hyd yr awr hon yr ydym ni (sef yr apostolion, adn. 9.) yn dwyn newyn a syched, ac yr ydym ni yn noethion, ac

yn cael cernodiau, ac yn grwydraidd:" ac nad oes genych ddim i'w adael i'ch teulu, fel yr oedd gyd â mab y prophwyd gynt, yr hwn a fu farw mewn dyled nas gallai dalu; fel y mae ei weddw yn dangos, 2 Bren. iv. 1: etto y mae genych gyfaill da i'w gadael iddo; Duw cyfammodol, i'r hwn y gellwch eu gorchymyn yn ddïogel, Ier. xlix. 11. "Gâd dy amddifaid, myfi a'u cadwaf hwynt yn fyw; ac ymddirieded dy weddwon ynof fi." Fe all y byd ddwyn tystiolaeth am y cynnysgaeth nodedig a roddwyd i blant rhagluniaeth, sef y cyfryw ag a fwriwyd gan eu rhïeni duwiol i ofal rhagluniaethol Duw. Fe sylwyd yn fynych na bu arnynt eisiau na lluniaeth na dysgeidiaeth. Mae Moses yn gynllun ardderchog o hyn. Er nad oedd efe ond plentyn a fwriwyd allan (Exod. ii. 3,) eto yr oedd yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid, Act. vii. 22. ac a aeth yn frenin yn Israel, Deut. xxxiii. 5. O! oni ddylem gywilyddio am nad ydym yn ymddiried yn ddiysgog ynddo ef am ofal ein teuluoedd, i'r hwn yr ymddiriedasom, fel ein Hachubwr a'n Prynwr. ein mater tragywyddol.

Gwrth. II. Fe'n cymmer angau ni ymaith oddiwrth ein cyfeillion anwyl: ie, ni chawn weled yr Arglwydd yn nhir y rhai byw, yn yr ordinhadau sanctaidd. *Atteb.* Efe a'ch cymmer at eich cyfaill goreu yr Arglwydd Iesu. A'r cyfeillion yr ydych yn eu gadael ar ol, os ydynt mewn gwirionedd yn ddynion duwiol, chwi a gewch eu cyfarfod drachefn, pan y deuant i'r nefoedd; ac ni'ch gwhanir byth mwy. Os yw angau yn eich cymmeryd o'r deml isod, efe a'ch dwg i'r deml sydd fry. Efe a'ch cymmer oddiwrth y ffrydiau, ac a'ch gesyd wrth y ffynon. Ac os diffydd eich canwyll, efe a'ch dwg lle nad oes dim nôs, a'r lle y mae dydd tragywyddol.

Gwrth. III. Y mae arnaf gymmaint o drafferth, yn amser fy iechyd, i gael boddlonrwydd mewn perthynas i'm hawl yn Nghrist, y'nghylch bod yn Gristion mewn gwirionedd, ac yn ddyn adgenedledig, fel yr wyf yn ei farnu agos yn annmhosibl i mi allu marw yn gysurus. *Atteb.* Os fel hyn y mae arnoch, yna dyblwch eich diwydrwydd, i wneyd eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr. Ymdrechwch i gynnyddu mewn gwybodaeth, ac i rodio yn agos at Dduw; byddwch ddyfal mewn hunan-ymholiad, a gweddïwch yn ddifrifol am yr Yspryd Glân, fel y gwybyddoch y pethau a

râd roddwyd i chwi gan Dduw. Os cynnorthwyir chwi fel hyn, gan Ysbryd Crist i ddyfal lafurio gydâ'ch cyflwr ysprydol; er na bo tymmor eich bywyd yn ddydd nac yn nos, eto bydd goleuni yn yr hwyr. Y mae llawer o Gristionogion gweiniaid yn meithrin ambeuon ac ofnau y'nghylch eu cyflwr ysprydol, fel pe baent yn cyfrif yr arferiad annoeth yma yn gryn ran o grefydd: ond tua therfyn eu hoes, y maent yn gorfod meddwl ac ymddwyn mewn dull arall. Yr ymdeithydd sydd yn meddwl fod ganddo amser i'w hepgor, a all sefyll i ymresymu ag ef ei hun pa un ai hon yma ai hon acw yw'r iawn ffordd: eithr pan ddelo'r haul i dynu at fachludo, y mae yn gorfod dodi heibio eu betrusder, ac ymroi i fyned ymlaen ar hyd y ffordd a farno efe yn uniawnaf, rhag gorfod iddo orwedd allan drwy'r holl nos. Felly, rhai Cristionogion, wedi iddynt ymddyrysu llawer, ar hyd ystod eu bywyd, gan ambeuon ac ofnau drwg-dybus, sydd yn ymfoddloni, pan ddelont i farw, â'r cyfryw dystiolaethau: am ddïogelwch eu cyflwr, nas medrent o'r blaen ymdawelu ynddynt; a thrwy ymddadleu llai yn eu herbyn eu hunain, a chredu ychwaneg, y maent yn derbyn ac yn mwynhau yr heddwch yr oeddynt o'r blaen yn ei wrthod.

Gwrth. IV. Yr ydwyf mewn nychdod trwm ynghylch fy nghyflwr ysprydol. *Atteb.* Fe all nychdod corphorol wneyd angau yn esmwyth, ond nid felly y mae mewn nychdod ysprydol. Ni ddywedaf nas gall dyn duwiol fod yn y cyfryw amgylchiad, wrth farw, ond yr wyf yn credu mai anfynych y mae felly. Yr ydwyf yn meddwl y bydd gwaedd yn gyffredinol yn dyfod i ddeffro y morwynion cysglyd, cyn i angau ddyfod. Mae Samson yn gorfod malu yn y carchar hyd oni thyfo ei wallt. Fe syrthiodd Dafydd a Solomon i nychdod ysprydol dirfawr; ond cyn eu marw, fe'u hadferwyd i'w nerth a'u grym ysprydol. Pa fodd bynag, ymegnïwch, yn ddïoed, i gadarnhau y pethau sydd yn ol: fe fyddai eich dychryn yn llai pe deffroech o'ch cwsg ysprydol cyn dyfod angau at erchwyn eich gwely: ac ni ddylech golli dim amser, oherwydd nas gwyddoch pa mor gynted y dichon angau ymaflyd ynoch.

Gwrth V. Mae yn frawychus meddwl am y byd arall, byd yr ysprydoedd, â'r hwn yr ydwyf mor anghydnabyddus.

*Atteb.* Mae dy gyfaill goreu yn Arglwydd y byd arall hwnw. Mae mynwes Abraham yn dirion, hyd yn nod i'r rhei'ny na welsant erioed mo'i wyneb ef. Fe fydd dy enaid, gwedi angau, yn alluog i ymgyfeillachu â phreswylwyr dedwydd y byd arall. Fe fu ysprydoedd y cyfiawn y rhâi a berffeithiwyd unwaith yn gyffelyb i'r hyn ydyw dy yspryd di yr awrhon. Ac am yr angylion, pa faint bynag ydynt yn uwch mewn natur a gradd, eto mae ein natur ni wedi ei derchafu yn uwch na'r eiddynt hwy yn y dyn Crist; ac y maent i gyd yn weision i'th Arglwydd, ac felly yn gyd weision a thithau.

Gwrth. VI. Mae gloesau angau yn arswydus. *Atteb.* Eto nid mor arswydus a gloesau cydwybod, pan ei brather gan deimlad o euogrwydd, ac ofnau o lid Duw â pha rai, mi feddyliwn nad ydwyt yn gwbl anghydnabyddus Ond pwy a ddyoddefai afiechyd corphorol, fel y gwellhäer yr enaid, ac y gwnaer ef yn gwbl iach? Fe yrr pob un o loesau angau pechod gam yn nes i'r drws: a chyd â'r anadliad olaf, fe drenga corph pechod. Ni phery poenau angau yn hir; a'r Arglwydd dy Dduw ni'th edy, eithr efe a'th gynnal danynt.

Gwrth. VII. Ond yr ydwyf fi yn debyg o gael fy nhori i lawr y'nghanol fy nyddiau. *Atteb.* Na chwynwch, chwi a eddwch gartref yn gynt: chwi a gewch felly y flaenoriaeth ar eich cyd-lafurwyr, y rhai oedd yn gweithio yn y winllan o'ch blaen chwi Mae Duw yn ei ragluniaeth yn cuddio rhai o'i saint yn y bedd, fel y cymmerer hwynt ymaith o flaen drygfyd. Mae symudiad cynnar o'r byd yma yn rhagflaenu llawer o bechod a thrueni: ac nid oes dim achos i rwgnach gan y rhai a gant dreulio gweddill eu blynyddoedd yn nhir Immanuel. Diammau y cai fyw tra parhao y gwaith a benodwyd i ti gan dy feistr mawr i'w wneuthur drosto ef yn y byd hwn; a phan y byddo hwnw ar ben, mae yn llawn bryd myned ymaith.

Gwrth. VIII. Mae arnaf ofn angau disyfyd. *Atteb.* Fe allai yn wir y byddi farw felly. Bu Eli dduwiol farw yn disymmwth, 1 Sam. iv. 18. Eto yr oedd yn gwylio pan y daliodd angau ef, adn. 13, "Gwyliwch gan hyny, am na wyddoch pa awr y daw eich Harglwydd," Math. xxiv, 42. Ac ofna, y mae yn gysur annrhaethol, deled angau pan y

delo, nad all byth dy gael allan o Grist; ac am hyny nis gall byth dy ddal fel carcharydd i'th ffrystio i garchar uffern. Fe all angau disyfyd bryssuro a rhwyddhau dy fynediad i'r nefoedd, eithr nis gall wneuthur i ti ddim niwed.

GWRTH. IX. Mae arnaf ofn y syrth y coelbren i mi farw heb fod yn meddiannu fy synwyrau. *Atteb.* Nid wyf yn gwrthddadlu na ddichon i blentyn Duw, a gwir Gristion, farw yn y cyflwr hwn. Ond pa niwed? Nid oes dim perygl yn hyny, mewn perthynas i'w gyflwr tragywyddol; gall anhwyldeb, wrth farw, ei ddifeddiannu o'i synwyr, eithr nid o'i grefydd. Pan fyddo dyn wrth fyned i fordaith bell, wedi rhoddi ei faterion mewn trefn, ac wedi rhoddi ei holl eiddo ar fwrdd y llong ni byddai o ddim gwahaniaeth pe cymmerid ef ei hun yno drwy ei gwsg: mae pob peth yn ddïogel ganddo, er nas gwyr efe y'mha le y mae, nes iddo ddeffro yn y llong. Yr un ffunud y dyn duwiol, yr hwn sydd yn marw yn y cyflwr hwn, a ddichon farw yn anghysurus ond nid yn anniogel.

GWRTH. *olaf,* Yr wyf o naturiaeth yn ddyn ofnus, ac y mae meddwl am angau yn arswydus i mi. *Atteb.* Po lleiaf a feddylioch am angau, mwyaf arswydus i chwi fydd y meddwl am dano: ond ymgynefinwch ag ef drwy fynych fyfyrio am dano, ac felly gellwch wanhau eich ofnau. Edrychwch ar y tu gwyn a golau i'r cwmwl: cymmerwch olwg fydd ar y ddinas y mae iddi sylfaeni; ac felly y cewch weled gobaith yn eich marwolaeth. Gwir ddeffröer chwi yn achos corph pechod a marwolaeth, yr aml gwmwl sy'n myned dros eich cymmundeb â Duw, ac hefyd mewn perthynas i'r gogoniant sydd yn aros tu hwnt i'r bedd: a hyn a'ch mawr gynnorthwya i symud ofn caethiwus.

Y mae yn resyn bod y saint mor hoff o fyw yn y byd ag y maent yn fynych: hwy a ddylent fod bob amser yn gymmodlon ag angau. Pan ystyrier pethau yn ddyladwy, byddai yn rhesymol dysgwyl i bob plentyn i Dduw, a phob dyn adgenedledig, addef yn rhwydd am y bywyd yma, fel y darfu Iob, pen. vii. 16. "Ffieiddiais einioes, ni fynwn fyw byth." Tu ag at ennill eu calonau i'r dymher ddymunol hon, yr wyf yn cynnyg yr ystyriaethau canlynol yn ychwaneg.

Yn *gyntaf,* Ystyriwch y pechadurusrwydd sydd ynglyn â

byw yn y byd yma. Tra y byddwch byw yma yr ydych yn pechu, ac yn gweled eraill yn pechu. Yr ydych yn anadlu awyr afiach; ac yn byw mewn tŷ heintus. A fyddai yn beth rhyfedd casâu y fath fywyd? (1) Mae eich gwelïau cornwydlyd eich hunain yn rhedeg. Onid yw pechadurusrwydd eich natur yn gwneyd i chwi alaru yn feunyddiol? onid ydych yn deimladwy, er dechreu eich gwellâu, eich bod y'mhell oddiwrth ddyfod yn iach? onid yw y gwahanglwyf wedi myned i barwydydd y tŷ, ac nis gellir ei symud heb ei dynu i lawr? onid yw eich natur wedi ei llygru gymmaint, fel nad oes dim llai nag ysgariad enaid oddiwrth y corph a ddichon ddiwreiddio y clefyd? onid oes genych eich briwiau oddiallan yn gystal a'ch anhwyldeb oddifewn? Onid ydych yn gadael ôl eich halogrwydd ar bob peth a elo drwy eich dwylaw? onid yw eich holl weithredoedd wedi eu hanharddu a'u diwyno â cholliadau ac anmherffeithrwydd? Pwy ynte a fawr hoffai fyw, ond y rhei'ny, saldra pa rai yw eu hiechyd, a'u gogoniant yn eu cywilydd? (2) Mae briwiau ffiaidd rhai ereill yn wastad o flaen eich llygaid, ewch i'r lle a fynoch. Mae ffolineb a drygioni dynion yn mhob man yn amlwg, ac nid ydynt ond golwg annymunol. Nid yw y byd pechadurus hwn ond cydymaith anolygus, torf annymunol, o ba un, y rhan fwyaf yw y rhan ffieiddiaf. (3.) Onid yw eich briwiau eich hunain yn fynych yn tori allan drachefn ar ol eu hiachâu? Mae ein mynych adglefychiad yn ddigon a pheri i ni leihâu ein hoffder tu ag at y bywyd hwn. Mae ymorchestu o hyd, a syrthio i'r dom yn y fan, yn waith blinderus. A fyddwch chwi un amser yn dymuno i angau oer ddyfod ag oeri yn effeithiol wres y chwantau sydd yn ymennyn drachefn, hyd yn nod ar ol i ddylif o alar duwiol fyned drostynt? (4.) Onid ydych chwi weithiau yn llygru ereill, ac ereill yn eich llygru chwithau? Nid oes un gymdeithas yn y byd, nad yw pob aelod o honi weithiau yn gosod tramgwydd o flaen y llall. Mae y rhai goreu yn dwyn gyd â hwynt olosg (*tinder*) natur lygredig, ac nis gallant gael gwared oddiwrtho tra y byddont byw, ac y mae yn agored i gael ei ennyn ar bob adeg, ac yn mhob lle: ïe, y maent yn dueddol i ennyn ereill, ac i fod yn achlysur i bechu. Diau fod y pethau hyn a thuedd ynddynt i chwerwi y bywyd hwn i'r saint.

*Yn ail*, Ystyriwch y trueni a'r trallodion sydd yn ei ganlyn,

Mae gorphwysdra yn ddymunol, ond nid ydyw i'w gael y tu yma i'r bedd Mae gofidiau bydol vn dilyn pob dyn yn y bywyd hwn. Y byd hwn sydd megys môr o drallodion, lle mae y nail don yn dilyn y llall. Y rhai sy'n tybied eu hunain o gyrhaedd trallod, ydynt yn camgymmeryd: nid oes na chyflwr na sefyllfa yn rhydd oddiwrtho. Mae'r pen coronog wedi ei amgylchu a gofalon dreiniog. Mynych y mae anrhydedd yn rhwyddhâu y ffordd i ddirfawr waradwydd: mae cyfoeth y rhan amlaf, wedi eu cadw, yn niwed i'w perchenog. Nid yw'r rhosyn tecaf heb ei bigau; a'r groes drymaf sydd weithiau wedi ei gwisgo yn y cysuron daearol mwyaf. Mae trallodion ysprydol yn dilyn y saint yn y bywyd hwn. Y maent fel ymdeithwyr yn teithio ar noswaith gymylog, pan y mae'r lleuad weithiau yn llewyrchu o dan un cwmwl, ac yn y fan yn ymguddio dan un arall: nid yw yn rhyfedd eu bod yn hiraethu am ben eu taith. Wrth ystyried mor ddisymmwth y gall y tymher ysprydol goreu gyfnewid, yr amheuon dyrus, y dagrau terfysglyd, y gorfoledd byr-hoedlog, a'r gofidiau meithion, sydd y'nglyn anwahanol â'r bywyd presennol, nid oes fodd na chrëant hiraeth yn y saint am fod gydâ Christ, yr hyn sydd yn well na'r cyfan.

*Yn olaf*, Ystyriwch yr anmherffeithrwydd mawr sy'n perthyn i'r bywyd yma. Tra y mae'r enaid yn llettya yn y bwthyn clai yma, mae angenrheidiau y corph yn lliosog; y mae yn wastad yn crefu. Rhaid adgyweirio ei barwydydd yn feunyddiol, nes i'r bwthyn clai syrthio i lawr yn hollol. Nid yw bwyta ac yfed, cysgu a'r cyffelyb, ond gorchwylion gwael yndd ynt eu hunain i greadur rhesymol; ac fe'u cyfrifir felly gan yr enaid nefolaidd. Nid ydynt ond arwyddion o anmherffeithrwydd, ac fel y cyfryw, yn annymunol i'r enaid a fo yn ymgeisio at y bywyd a'r anllygredigaeth a ddygwyd i oleuni drwy'r efengyl; a bwy a fyddent yn boenus iawn, pe byddai yr helynt hyn ar bethau i barhâu yn hir. Onid yw yr enaid grasol yn fynych yn teimlo ei hun drwy fod wedi ei ieuo gyd â'r corph, fel un gyd â chydymaith annalluog i gyd gerdded ag ef? Pan y mae'r yspryd yn barod, y mae y cnawd yn wan. Pan fo yr enaid yn chwennych esgyn i fynu, mae'r corph yn ei attal, fel careg a glymer wrth droed yr aderyn a fynai ehedeg. Y gwirionedd yw, O gredadyn! nad yw dy enaid tra yn y corph yma, ar y goreu, ond megys

maen gwerthfawr mewn modrwy, lle y mae llawer o hono yn anamlwg: y mae yn suddo y'mhell i'r clai gwael, nes i waredu drwy angau.

Mi a derfynaf y mater hwn gyd ag ychydig gyfarwyddiadau pa fodd i barotoi erbyn angau, fel y gallom farw yn gysurus. Nid wyf yma yn son am y parodrwydd greddfol i farw, yr hwn, drwy rinwedd ei gyflwr grasol, nid yw y gwir Gristion un amser hebddo, o'r pryd yr ail aner ef ac yr uner ef â Christ: eithr am y darpariad agweddol neu'r parodrwydd, mewn perthynas i'w helynt amgylchiadol, ac ansawdd, a thymher ei feddwl a'i yspryd; heb yr hyn y mae hyd yn nod y sant yn anghymhwys iawn i farw.

*Yn gyntaf,* Byddwch ofalus yn wastadol am gadw cydwybod lân, "Cydwybod ddirwystr tu ag at Dduw a dynion," Act. xxiv. 16. Gochelwch ddal i fynu ymryson rhyngoch a Duw, o herwydd rhyw anwiredd a fynweser yn y galon. Pan fyddo gwr onest ar fedr gadael ei wlâd, heb fwriadu dychwelyd, y mae yn trefnu ei gyfrifon rhyngddo a'i fasnachwyr, ac yn ffurfio moddion i dalu ei ddyledion mewn pryd; rhag iddo gael ei gyfrif yn feth-dalwr (*bankrupt*), a chael ei ddal gan swyddog pan fyddo yn cychwyn ymaith. Mae euogrwydd yn gorphwys ar y gydwybod yn ffynon o ofnau; ac yn barod i frathu yn ffyrnig pan ddelo angau i dremio yngwyneb y carcharor. Oblegid hyn y mae llawer, hyd yn nod o blant Duw, wrth farw, yn dymuno yn hiraethus, ac yn ehwenuychu yn awyddus, cael byw i wneuthur y peth a ddylasent ei wneuthur cyn hyny. Am hyny rhodiwch yn agos at Dduw, byddwch ddiwyd, dyfal, a manwl yn eich gyrfa; gochelwch ymarweddiad rhydd, diofal ac anwastad: os na fynech drysori i chwi eich hunain ofid a chwerwder yspryd erbyn awr angau. Ac oherwydd ein hanmherffeithrwydd yn y cyflwr presennol, ein bod ni mewn llawer o bethau oll yn llithro, adnewyddwch eich edifeirwch beunydd, ac ymolchwch yn wastadol y'ngwaed y Prynwr. Tra y byddoch yn y byd, fe fydd arnoch angen am olchi eich traed, Ioan xiii. 10, hyny yw gwneuthur cymhwysiad adnewyddol a waed Crist, i buro eich cydwybodau oddiwrth euogrwydd colliadau beunyddiol. Caffed angau chwi wrth y ffynon, ac os felly, fe eich caiff yn barod i atteb ei alwad,

*Yn ail,* Byddwch wyliadwrus yn wastadol, gan ddysgwyl eich cyfnewidiad; " Yn debyg i ddynion yn dysgwyl eu harglwydd—fel pan ddelo a churo, yr agoront iddo yn ebrwydd," Luc xii. 36. Gochelwch hepian a chysgu tra y mae y priod-fab yn oedi dyfod. Peth brawychus iawn yw deffro o gwsg ysprydol, gan waedd gyffröus yn galw i fyned i fyd arall: eithr efe yr hwn sydd yn dysgwyl dyfodiad ei Arglwydd beunydd, a dderbyn y cenadwr cuchiog yn llon pan ganfyddo ei fod yn arwain i mewn y neb y gall efe ddywedyd am dano yn hyderus, " Dyma fy Nuw i, gobeithiais ynddo." Y ffordd i farw yn gysurus ydyw marw yn feunyddiol. Cymmer arnat yn fynych megys pe byddit yn marw. Cynnefinwch eich hunain ag angau trwy gyrchu yn fynych at y bedd mewn myfyrdod difrifol am dano. Dyma oedd arfer Iob, pen. xvii. 13, 14, " Mewn tywyllwch y cyweiriais fy ngwely." Dos dithau, a gwna yr un modd; a phan y delo angau, ni bydd genyt ddim i'w wneuthur ond gorwedd i lawr. " Gelwais ar y pwll. Tydi yw fy nhad; ar y pryf, fy mam a'm chwaer ydynt." Dywed dithau felly hefyd; a thi a fyddi yn addasach i fyned adref i'w tŷ. Mynych ystyriwch eich ymarweddiad, a myfyriwch pa fath helynt bywyd y dymunech fod ynddo pan ymaflo angau ynoch; ac ymddygwch yn gyfattebol. Pan y byddoch yn cyflawni eich gorchwylion galwedigaethol, neu eich dyledswyddau o addoliad crefyddol, meddyliwch ynoch eich hunain y dichon mai hwnw fydd yr adeg olaf; ac am hyny gwnewch megys pe na baech i wneyd yr unrhyw mwyach Pan orweddach y nos, tawelwch eich yspryd megys pe na baech i ddeffro hyd oni byddo heb nefoedd. A phan ddeffroch yn y boreu, ystyriwch y dydd newydd hwnw megys yr olaf i chwi, a bucheddwch yn gyfattebol i hyny. Diau fod y nos hono yn dyfod, na welwch byth foreu ar ei hol; neu y boreu hwnw na welwch byth mo'i nos: ond pa un o'ch boreuau, neu eich nosweithiau a fydd y cyfryw, nis gwyddoch.

*Yn drydydd* Byddwch ddiwyd i ddiddyfnu eich calonau oddiwrth y byd. Y dyn a fyddo yn parotoi i fyned dros y mor, sydd yn brysur yn canu yn iach i'w gyfeillion Bydded mantell mwyniant bydol yn llac o'ch hamgylch, fel y galloch ei diosg yn hawdd, pan y delo angau i'ch cymmeryd i fyd arall. Cymmedrolwch eich serchiadau tu ag at eich cysurou

ꝫarol cyfreithlon: ac na adewch i'ch calonau gael eu ddiannu ganddynt yn ormodol. Mae yr ymdeithydd hwnw ymddwyn yn annoeth, pa un sydd yn cymmeryd ei ddenu n gyfleusderau y gwesty lle y mae yn llettya, fel y gwnelo ymadawiad anghenrheidiol yn ofidus iddo. Ymborthwch wn ofn, a rhodiwch trwy'r byd fel dyeithriaid a phererin- ı. Megys pan fyddo yr ŷd yn darfod â'r ddaear y mae yn od i'r cryman; a phan y mae y ffrwyth yn addfed y mae syrthio oddiar y pren yn hawdd: felly calon Cristion; pan diddyfner yn iawn oddiwrth y byd, y mae efe yn barod i w, ac fe fydd yn esmwythach iddo. Calon wedi ei rhydd- ı oddiwrth y byd sydd yn un nefolaidd: a thyna 'r pryd yr ym ni yn barod i'r nefoedd, pan y byddo ein calonau yno o'n en, Math. vi. 21.

*Yn bedwerydd*, Byddwch ddyfal i gasglu a chadw tyst- aethau o'ch hawl i'r nefoedd, i'ch cynnal ac i'ch cysuro yn r angau. Yr esgeulusdra o hyn sydd yn anafu'r gorfoledd dyddanwch a allai Cristionogion gael yn angau oni bai ny. Gan hyny chwiliwch eich hunain yn fynych mewn rthynas i'ch cyflwr ysprydol. fel y delo y tystiolaethau ld yn awr yn guddiedig ac yn ddisylw, i'r goleu a than lw. Ac os mynech wneuthur y gorchwyl hwn yn llwydd- onus, byddwch sobr a difrifol ynghylch y gwaith. Gosodwch w amser o'r neilldu i'w wneuthur. Ac ar ol gweddi ddyfal Dduw drwy Iesu Grist, am ddylanwadau eglurhäol ei sprvd Sanctaidd i ddeall ei air ef ei hun, ac i ddirnad ei aith ef ei hun yn eich eneidiau; gosodwch eich hunain ger 'on brawdle eich cydwybodau, fel y galloch farnu eich ınain yn y mater pwysig yma

Ac yn y lle *cyntaf*, sylwwch ar y nodau sydd yn ngair Duw ' gyflwr adgenedledig: a chymmerwch ryw destun pennodol r perwyl; megys Diar. viii. 17. "Y sawl a'm carant i a araf finnau." Cymharwch Luc xiv. 26, "Os daw neb ttaf fi, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i blant, a'i frodyr, a'i hwïorydd, ïe, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn dysgybl i mi." Psal. cxix. 6, "Yna ni 'm gwaradwyddid an edrychwn ar dy holl orchymynion." Psal. xviii. 23, Bum hefyd yn berffaith gyd ag ef, ac ymgedwais rhag fy nwiredd." Cymharwch Rhuf. vii. 22, 23, "Canys ymhyfrydu r wyf y'ngyfraith Duw, yn ol y dyn oddimewn: eithr yr 'yf yn gweled deddf arall yn fy aelodau, yn gwrthryfela yn rbyn deddf fy meddwl," &c. 1 Ioan iii. 3. "Ac y mae pob

un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro, ei hun, megys y mae yntau yn bur." Math. v 3. "Gwyn eu byd y tlodion yn yr yspryd; canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." Phil iii. 3. "Canys yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr yspryd ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu, ac nid yn ymddiried yn y cnawd." Swm y dystiolaeth sydd yn deillio o'r testunau yma ydyw hyn. Mae gwir Gristion yn un ag sydd yn caru Duw er ei fwyn ei hun, yn gystal ag er mwyn ei roddion; a hyny gyd â chariad goruchel, uwchlaw pawb a phob peth: mae ganddo barch difrifol a diduedd i orchymynion Duw: mae yn gwrthwynebu ac yn ymdrechu yn erbyn y pechod hwnw yn neillduol ag sydd yn barod i'w amgylchu: mae yn cymmeradwyo ac yn caru y gyfraith bur, hyd yn nod yn y pwynt hwnw lle y mae hi yn taraw yn erbyn ei chwant anwylaf; mae ei obaith am y nefoedd yn ei rwymo i ddilyn sancteiddrwydd cyffredinol; yn yr hyn y mae yn cyrchu at berffeithrwydd, er nad all ei gyrhaedd yn y bywyd hwn: mae efe yn gwasanaethu Duw nid yn unig yn y weithred o addoliad, eithr yn ei holl ymarweddiad; ac yn mhob un o'r ddau, mae efe yn ysprydol yn ei egwyddor, amcan, bwriad, a dyben ei wasanaeth; eto nid yw yn gweled dim ynddo ei hun i ymddiried ynddo ger bron Duw: Crist a'i gyfiawnder yw cynnaliaeth ei enaid: torwyd ymaith ei hyder o bob peth heblaw Crist, neu a'r nad yw yn Nghrist, mewn perthynas i'w gyfiawnhâd, neu ei dderbyniad gyd â Duw; ac o ran ei sancteiddhâd hefyd. Pob un sydd a'r nodau hyn arno, mae ganddo hawl i'r nefoedd, yn ol y gair. Y modd mwyaf cyfleus a buddiol i nodi allan y testunau i'r perwyl hwn, ydyw sylwi arnynt pan ddamweiniont wrth ddarllen yr ysgrythyrau neu wrando pregethau. Gwedi i chwi fel hyn sefydlu nodau y cyflwr adgenedledig, yn y lle nesaf, chwiliwch a phrofwch eich calonau wrthynt yn ddiduedd megys yngwydd Duw, gyd ag ymddibyniad arno ef am ddeall ysprydol, fel y gwybyddoch pa un a ydynt ynoch chwi ai peidio. A phan y caffoch hwynt, penderfynwch yn bwyllog ac yn eglur eich bod gan hyny wedi eich ail eni, a bod genych hawl i'r nefoedd. Fel hyn y gellwch gasglu tystiolaethau. Ond byddwch sicr o nesâu at Duw yn Nghrist drwy ddyfal weddi, am dystiolaeth yr Yspryd, swydd yr hwn yw cyd-dystiolaethu a'n hyspryd ni, ein bod yn blant i Dduw, Rhuf. viii. 16. Ac heblaw hyny, gwyliadwrus ystyriwch ddull ac ymddygiad rhagluniaeth tu ag atoch; ac hefyd pa

ffeithiau y mae yr unrhyw yn eu gadael ar eich enaid, yn ei nrywiol foddau: cymharwch y naill a'r llall âg athrawiaethau grythyrol, addewidion, bygythion, ac esamplau; ac felly nfyddwch os ydyw yr Arglwydd yn ymddwyn tu ag atoch yr arferai wneyd tu ag at y rhai a hoffant ei enw: ac os ych yn myned rhagoch ar hyd ôl y praidd, dichon hyn ddi i chwi dystiolaeth gysurus. Rhodiwch yn araf ac yn liadwrus: a'r Arglwydd a ddatguddia ei hun i chwi, yn ol ddewid, Ioan xiv. 21, "Yr hwn sydd a'm gorchymynion anddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy aru i: a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad a minnau a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo." Ond yw dysgwyl am hunan-ymholiad llwyddiannus, os byddyn esgeulus ac yn afrëolaidd yn eich ymarweddiad.

*n olaf,* Cyflawnwch wasanaeth eich dydd a'ch cenedlaeth â brys a diwydrwydd. Dafydd, "wedi iddo wasanaethu ei dlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd," Act. xiii. Mae Duw wedi pennodi i ni ryw orchwylion o'r fath, y rhai a ddylent gael eu cyflawni cyn i amser gweithfod heibio. Preg. ix. 10, "Beth bynag a ymafael dy law do i'w wneuthur, gwna a'th holl egni: canys nid oes na ith na dychymmyg, na gwybodaeth, yn y bedd, lle yr ti yn myned." Gal. vi. 10. "Am hyny tra yr ydym ael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb, ond yn enwedig hai sydd o deulu y ffydd." Os daw i gof teithydd, ar ol ed ar fwrdd y llong, a dechreu hwylio, ddarfod iddo esluso cyflawni rhyw orchwyl angenrheidiol, pan oedd ar r, rhaid iddo fod yn ofid iddo: yr un ffunud, yn awr wolaeth, y bydd adgoffa tymorau esgeulus, a'r cyfleusderau llwyd, yn sicr o aflonyddu y Cristion. Gan hyny, beth ag sydd yn ddyledus arnat ei wneuthur dros anrhydedd w, a lles ereill, naill ai fel dyledswydd dy sefyllfa, neu y fod cyfleusdra pennodol yn cael ei roddi yn dy law, a ef yn brydlawn os mynit farw yn gysurlawn.

# PEN III.

## YR ADGYFODIAD.

Ioan v. 28, 29.

*Na ryfeddwch am hyn: canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef: A hwy a ddeuant allan, y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn.*

Mae y geiriau hyn yn rhan o amddiffyniad ein Harglwydd Iesu Grist drosto ei hun, pan yr erlidiwyd ef gan yr Iuddewon am iachau y dyn claf, gan orchymyn iddo gymmeryd i fynu ei wely ar y Sabbath; a thros ei ymddygiad, pan y cyhuddwyd ef ganddynt ddarfod iddo drwy hyny halogi y Sabbath Ar yr achlysur hwn y mae efe yn proffesu ei hun nid yn unig yn Arglwydd y Sabbath, eithr hefyd yn Arglwydd bywyd a marwolaeth; gan gyhoeddi yngeiriau y testun, fod adgyfodiad y meirw i gael ei ddwyn oddiamgylch drwy ei allu ef. Y mae efe yn arwain hyn i mewn yn y geiriau hyn, megys â rhagymadrodd difrifol, na ryfeddwch am hyn, h. y. am yr ymadrodd dyeithrol hwn o'r eiddof: na ryfeddwch fy nghlywed i yn llefaru yn y modd yma, er fy mod yn ymddangos mor wael yn eich golwg; canys y mae y dydd yn dyfod yn yr hwn y cyfodir y meirw trwy fy nerth i. Sylwch yn y testun hwn, (1.) Mae athrawiaeth yr adgyfodiad yn cael ei chadarnhâu, " Caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef, a hwy a ddeuant allan." Y cyrph meirwon sydd wedi myned yn bridd ac yn lludw, a adfywiant, ac a ddangosant fywyd drwy glywed ac ymsymud. (2.) Yr awdwr o hono, Iesu Grist, Mâb y dyn, adn. 27. Y meirw a glywant ei leferydd ef, ac o gyfodir ganddo. (3 ) Yn nifer

i gyfodir, pawb a'r sydd yn y beddau, h. y. holl gyrph meirwon dynion, pa mor wahanol bynag y cyflëwyd hwynt, megys mewn amrywiol fath o feddau; neu ynte, yr holl feirwon, da a drwg. Ni chladdwyd hwynt oll mewn beddau, priodol i'w galw felly; llosgwyd rhai yn ulw; boddwyd, a chladdwyd rhai yn moliau pysgod; ïe difâwyd rhai gan fwytawyr dynion; ond pa le bynag y mae y defnydd neu'r sylwedd o'r hwn y cyfansoddwyd y cyrph, oddiyno y deuant allan. (4) Y gwahaniaeth mawr a wneir rhwng y duwiol a'r drygionus. Digon gwir y cyfodir y ddau yn yr adgyfodiad. Ni bydd yr un o'r duwiolion yn ol; er ysgatfydd na chawsant gladdedigaeth, neu ynte ond un distadl iawn: a'r holl rai drygionus a ddeuant allan; nis cynnwys eu beddodau crom-nenog hwynt ddim hwy nag yr elo y llef allan. Ond y duwiolion a gant adgyfodiad gorfoleddus i fywyd, eithr y drygionus a gant adgyfodiad arswydus i golledigaeth. *Yn olaf,* Yr amser a bennodwyd i'r gorchwyl mawr hwn; y mae awr neu adeg wedi ei phenderfynu iddo gan Dduw. Ni fynegir i ni pa bryd y bydd yr awr hono, ond ei bod yn dyfod; a hyny, y'mhlith rhesymau ereill, fel y byddom ni yn wastad yn barod.

## ATHRAWIAETH.

## *Fe fydd Adgyfodiad y meirw.*

Wrth draethu ar y mater yma, mi a gaf *yn gyntaf* ddangos sicrwydd yr adgyfodiad; *yn nesaf,* chwilio i'r natur o hono; a *yn olaf,* gwneuthur rhai addysgiadau ymarferol oddiwrth y cwbl.

1. Wrth ddangos sicrwydd yr adgyfodiad, mi a gaf ar-ddangos, (1.) Y dichon Duw gyfodi y meirw. Ac, (2) Y gwna efe hyny; y rhai ydyw y ddau sylfaen neu destunau a osodir i lawr gan Grist ei hun, pan oedd yn dadleu â'r Saduceaid, Math. xxii 29. "A'r Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yr ydych yn cyfeiliorni, gan na wyddoch yr ysgrythyrau, na gallu Duw."

*Yn gyntaf,* Gan fod Duw yn hollalluog, diau y gall efe gyfodi y meirw. Y mae genym esamplau o'r gweithrediad grymus hwn o eiddo Duw, yn y Testament Hen a'r Newydd hefyd. Fe gyfodwyd mab y wraig weddw yn Sarepta, 1 Bren.

xvii. 22, mab y Sunamites, 2 Bren. iv. 35, a'r dyn a fwriwyd i fedd Eliseus, pen. xiii. 21. Lle y gallwn weled graddoldeb; yr ail o'r gweithredoedd gwyrthiol hyn ydoedd fwy ardderchog na'r gyntaf, a'r drydedd yn fwy na'r ail. Fe gyfodwyd y cyntaf o'r personau hyn, pan nad oedd ond newydd farw; gan fod Elïas, yr hwn a'i cyfododd ef, yn bresennol pan fu farw. Yr ail wedi iddo orwedd yn farw gryn yspaid o amser; sef, tra y bu ei fam yn teithio o Sunem i fynydd Carmel, (a gyfrifir y'nghylch un milltir ar bymtheg,) ac yn ol oddiyno i'w thŷ gyd ag Eliseus, yr hwn a'i cyfododd ef. Yr olaf, pan oeddynt yn ei gladdu, ac yn bwrw ei gorph ef i fedd y prophwyd. Yr un ffunud, yn y Testament Newydd, merch Iairus, (Marc v. 41.) a Dorcas, (Act. ix. 40.) a gyfodwyd yn fuan ar ol eu marwolaeth; mab y weddw o Nain, pan oeddynt yn ei ddwyn ef allan i'w gladdu, Luc. vii. 11, 15; a Lazarus, pan oedd wedi drewi yn y bedd, Ioan xi. 39. 44.

A all dynion wnëyd gwydrau cywrain o ludw; troi blodau yn lludw, a'u troi drachefn o'r lludw, gan eu hadferyd i'w tegwch cyntaf; ac onis gall y Creawdwr mawr, yr hwn a wnaeth bob peth o ddim, gyfodi corph dyn, ar ol ei fyned yn llwch? Os gwrthddadlir, pa fodd y gellir cyfodi cyrph dynion drachefn ar ol eu troi yn llwch, ac i ludw llawer cenedlaeth ymgymysgu y'nghyd? Mae 'r ysgrythyr a rheswm yn rhoddi atteb; gyd â dynion annmhosibl yw, ond nid gyd â Duw. Mae yn wrthun i ddynion wadu nas gall Duw wneuthur peth, oblegid nas medrant hwy ddirnad pa fodd y gellir ei wnëyd. Mor lleied a wyddom ni am ei ffyrdd ef, ac mor annrhaethol analluog ydym i amgyffred yn wahanredol ain eangder nerth hollalluog; llawer mwy i amgyffred ei weithredoedd, a dull ei weithrediadau! Nid wyf yn amineu nad oes llawer o ddynion anwybodus mor ddyeithrol i amryw anturiaethau mewn fferylliaeth *(chymistry)*, ag ydyw rhai dynion dysgedig i athrawiaeth yr adgyfodiad: ac fel y mae y rhai a grybwyllwyd olaf yn barod i wawdio y lleill, felly y dirmyga yr Arglwydd hwythau. Pa ddirgelwch ydoedd i'r Indiaid, y gallai yr Ewropiaid, â dernyn o bapur, ymddyddan â'u gilydd gannoedd o filltiroedd y naill oddiwrth y llall! a pha syndod oedd iddynt eu gweled â'u gynnau megys yn gwnëyd mellt a tharanau pan y mynent, ac wrth eu hewyllys yn lladd dynion o hirbell! Os gall rhai dynion wnëyd pethau ag sydd yn rhyfedd y'ngolwg ereill, oblegid nas gallant eu dirnad; ac a gaiff

ynion osod terfyn i nerth annherfynol Duw, o fewn cyffiniau
·fyng eu hamgyffrediadau byrion eu hunain, mewn achos
ıd yw mewn un modd yn groes i reswm? Nid oes gan
ıtur isel ond deall anmherffaith iawn am allu un goruchel.
is gall anifeiliaid ddirnad gweithrediadau rheswm mewn
'nion; ac nid oes gan ddynion ond dychymmyg anmher-
ıith iawn am allu angylion: ond mor anghyfartal ynte yw
ngyffred natur feidrol am allu un sydd yn anfeidrol! Er
ıs gallwn ddirnad pa fodd y mae Duw yn gweithredu, eto
a ddylem gredu y dichon efe wneuthur tu hwnt i'r hyn a
lwn ni ei feddwl na'i amgyffred.

Gan hyny, gosoder cyrph dynion yn y bedd, pydront yno,
malurient yn ronynau manaf sydd bosibl; neu losger hwynt,
bwrier eu lludw i'r afonydd, neu dafler ef tu a'r awyr i'w
asgaru gyd â'r gwynt: ymgymmysged llwch mil o genedl-
:thau, ac ymdaened agerdd cyrph meirwon yn yr awyr:
fâer hwynt gan adar neu fwystfilod gwylltion, neu bysgod
môr, nes i gyrph dynol, wedi eu dyfetha fel hyn, gael eu
lweddu ynghyrph adar, bwystfilod a physgod; neu beth sydd
vy na hyny, bydded i ddyn-fwytawyr, a fydd raid iddynt feirw
n hunain, a chyfodi drachefn, ddifa cyrph dynol; a bwytâed
reill hwythau wedi hyny: ac yna gofyned y Saduceaid di-
eddar y cwestiwn yn yr amgylchiadau hyn, megys y darfu
Saduceaid gynt yn amgylchiad y wraig a fuasai yn brïod i
ıith o wyr yn olynol, Math. xxii. 28. Yr ydym yn atteb
ıegys y darfu ein Hiachawdwr bendigedig, adn. 29. "Yr
dych yn cyfeiliorni, gan na wyddoch yr ysgrythyrau, na
allu Duw." Yr ydym yn credu fod Duw yn holl-wybodol,
c yn holl-alluog; yn anfeidrol mewn gwybodaeth a nerth:
c am hyny, yn gyson â rhëolau rheswm, yr ydym yn pen-
erfynu fod yn bosibl adgyfodi y meirw, hyd yn nod yn yr
mgylchiadau a grybwyllwyd.

Geill pethau defnyddiol gyfnewid eu ffurf a'u dull, a chael
u dychwelyd i'r ansawdd o ba un y ffurfiwyd hwynt: ond
is difodir ac nis diddymir hwynt; ïe nis gall unrhyw nerth
readigol wneuthur hyny. Mae Duw yn holl-wybodol, mae
i ddeall yn anfeidrol: am hyny efe a ŵyr bob peth; beth a
uont, beth ydynt, a pha le y maent i'w cael. Er nas gall
dyn gwledig; pan ddelo i fasnachdy yr apothecari gael
llan y cyffyr a fyddo arno ei eisiau; eto fe ŵyr yr apothecari
i hun beth sydd ganddo yn ei fasnachdy, o ba le y daeth, ac

yn mha le i ddyfod o bÿd iddo. Ac mewn cymmysgiad o hadau, fe fedr garddwr cyfarwydd wahaniaethu rhwng hâd a hâd. Pa ham, gan hyny, na all holl-wybodaeth wahaniaethu rhwng llwch a llwch? A all efe, yr hwn sydd yn gwybod pob peth i berffeithrwydd, fod yn agored i gamgymmeryd mewn perthynas i'w greaduriaid ei hun? pwy bynag sydd yn credu am ddeall anfeidrol, rhaid iddo gyfaddef nad oes yr un twr o lwch wedi ei gymmysgu y'nghyd yn y fath fodd fel nad yw Duw yn berffaith ddirnad ac yn gwybod yn anffaeledig pa fodd i gymharu pob un o'r gronynau lleiaf. Am hyny efe a ŵyr y'mha le y mae gronynau pob corph marw; pa un ai yn y ddaear, yn y môr, neu yn yr awyr; pa mor ddidrefn bynag, y maent yn gorwedd. Ac yn neillduol, efe a ŵyr pa le y mae defnyddiau dechreuol y dyn-fwytâwr; pa fodd bynag y maent wedi tarthio ymaith, neu wedi troi, megys yn awyr neu darth, drwy chwys neu drydarthiad: a pha fodd i wahaniaethu rhwng rhanau y corph a fwytâwyd, a chorph y bwytâwr, pa fodd bynag y maent wedi ymgydsylweddu neu gydgorphori: ac felly yn deall, nid yn unig pa fodd, ond o ba le i gyrchu defnydd dechreuol y dyn fwytâwr i'w le priodol: ac hefyd i wahaniaethu rhwng corph y dyn-fwytâwr, a'r rhan hono o'r corph a fwytâwyd ac a gydsylweddwyd ag ef, yr hon nid yw yn wir ond rhan fechan iawn o honaw. Diau fod cyrph dynion, fel cyrph pob anifeiliaid ereill, neu greaduriaid byw, mewn dylifiad parhâus: maent yn cynnyddu, ac yn cael eu meithrin â lluniaeth beunyddiol; ond mor fechan yw y rhan o honaw ag sydd yn gweinyddu maeth, fel y mae y rhan fwyaf yn cael ei garthu ymaith. Ac yr ydys yn casglu fod cymmaint os nid mwy o'r ymborth yn cael ei dreulio ymaith yn annheimladwy drwy chwys, ag sydd yn cael ei garthu mewn ffordd weledig. Ie, y mae y rhan fagwriaethol o'r ymborth, pan gydsylwedder â'r corph, yn cael ei fwrw ymaith gydâ'r chwys, drwy chwys-dyllau y croen, ac yn cael ei gyflenwi drachefn drwy arferiad o'r lluniaeth: eto ni chyfrifir y corph ond yr un. Oddiyma y gallwn benderfynu nad yw yn hanfodol i adgyfodiad y corph, fod i bob gronyn cynnwysedig yn nefnydd y corph dynol unrhyw dymmor, gael ei adferyd iddo, pan ei cyfoder o farw i fyw. Pe felly y byddai, fe â'i cyrph dynion i'r fath ddirfawr faintioli, fel nas byddent ddim yn debyg i'r personau eu hunain. Mae yn ddigonol ei gyfenwi yr un corph a'r hwn a fu farw, pan ei

drachefn; os ffurfir y corph a gyfodir yn gyfartal, ac gronynau o ddefnydd a'r hyn a fu ei ranau elfenol ryw pa faint bynag o adgywreiniad a wneir arno: megys fwn y cyfryw gorph a guriodd gan hir saldra, yr unorph er ei ddyfod yn gnawdiog a glan-deg drachefn ar ) iachâu.

ach, at yr anfeidrol wybodaeth yma cyssylltwn anallu, trwy yr hwn y dichon efe ddarostwng pob peth i hun; ac yna yr ymddengus y gwaith mawreddus ı fwy rhesymol fyth Os gwna holl-wybodaeth ddadpob gronyn o'r llwch, pa le y mae, a pha fodd i'w ru; onis gall hollalluogrwydd eu casglu a'u cyssylltu l yn eu trefn? A all oriadur-wneuthurwr (*watch-*) godi amrywiol ddarnau oriadur, o'r pentwr cymmysa fyddo o'i flaen, a gosod pob un yn ei le priodol; ac ;all Duw roddi y corph dynol mewn trefn, ar ol ei ttodiad? A lefarodd efe y byd yma i fod, o ddim; ac efe ffurfio corph dyn o'i ddefnydd rhaghanfodol? Os ld efe y pethau nad oeddynt fel pe byddent; diammeu efe alw y pethau a ddattodwyd i fod, fel yr oeddynt cymmysgedd ymfalurio yn rhanau ac yn ronynau; am fe all Duw gyfodi y meirw. A, "Pha beth? ai ·d ·dwy genych chwi, y cyfod Duw y meirw?" Act. 3..

*ail*, Duw a'i gwna. Nid yn unig fe all ei wneuthur, fe a'i gwna yn ddiammeu, oblegid efe a'i dywedodd. in testun yn dra helaeth i'r perwyl yma, " Pawb a'r yn. y beddau a gaiff glywed ei leferydd ef;, a hwy a at allan; y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn." Mae y a hyn yn perthyn i, ac yn eglurhâd ar y rhan hono o wydoliaeth Daniel, pen. xii. 2, " A llawer o'r rhai 'n cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant, rhai i fywyd vyddol, a rhai i warth a dirmyg tragywyddol." Y n ymddangos ddarfod eu haddasu i wrthwynebu athəth y Saduceaid; yr hon y gwyddai yr Yspryd Glan y i yn rymus iawn yn yr eglwys Iuddewig, dan erledigaeth chus. Y mae lliaws o destunau ereill yn yr Hen Destt a'r Newydd a ellid eu casglu; megys, Act. xxiv 15, :henyf obaith ar Dduw, yr hon y mae y rhai hyn eu

hunain yn ei dysgwyl, y bydd adgyfodiad y meirw, i'r cyfiawnion ac i'r anghyfiawnion." A Iob xix. 26, 27, "Ac er ar ol fy nghroen, i bryfed ddyfetha y corph hwn, etto caf weled Duw yn fy nghnawd: yr hwn a gaf fi i'm fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harenau ddarfod ynof." Ond nid rhaid i mi ychwanegu tystiolaethau ar fater ag sydd yn cael ei ddal allan mor eglur ac mor fynych yn yr ysgrythyrau sanctaidd. Mae ein Harglwydd a'n Hiachawdwr ei hun yn ei chadarnhau yn erbyn y Saduceaid, yn y geiriau nodedig hyny, Luc xx. 37, 38, "Ac y cyfyd y meirw, Moses hefyd a hyspysodd wrth y berth, pan yw efe yn galw yr Arglwydd yn Dduw Abraham, ac yn Dduw Isaac, ac yn Dduw Iacob: Ac nid yw efe yn Dduw y meirw, ond y byw: canys pawb sydd fyw iddo ef." Yr oedd y patrieirch sanctaidd hyn yr amser hwnw wedi meirw; eto mae yr Arglwydd Iehofa yn cael ei alw yn Dduw iddynt, sef trwy rinwedd y cyfammod grâs, ac yn ol y drefn o honaw; ac yn yr ystyr yma y mae yr ymadrodd yn cynnwys yr holl wynfydedigrwydd a sicrheïr i'r rhai sydd ynddo, Heb. xi. 16, "Nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barotôdd ddinas iddynt." Nid cael ei alw yn Dduw i'w heneidiau hwynt yn unig y mae efe; eithr *eu* Duw, sef Duw eu personau, eneidiau a chyrph: yr hyn trwy rinwedd ei wirionedd a'i ffyddlondeb sydd sicr o fod yn hollol effeithiol: eithr nis dichon gael ei lawn effaith ar y meirw, y rhai oblegid eu bod yn feirw, sydd yn mhell oddiwrth fod yn wynfydedig; ond ar y rhai byw, y rhai yn unig sydd yn addas iddo: am hyny, gan fod Duw yn cael ei alw yn Dduw iddynt hwy, y maent yn fyw mewn perthynas i Dduw, er bod eu cyrph eto yn y bedd; canys o'i ran ef, yr hwn drwy ei nerth a ddichon eu hadferyd i fywyd, ac yn ei gyfammod a amlygodd ei ewyllys a'i fwriad i wneuthur hyny, addewid yr hwn ni phalla, y maent holl i'w cyfrif yn fyw; ac yn unol a'r cyfymmod, nid yw eu marwolaeth ond cwsg, o'r hwn, y mae yn rhaid eu deffro, drwy rinwedd yr unrhyw gyfammod, pa un sydd yn sicrhau pob gwynfydedigrwydd i'w personau yn gyfangwbl. Mae yr Apostol Paul yn helaeth brofi yr adgyfodiad, 1 Cor. xv. ac yn dangos ei fod yn erthygl sylfaenol, a bod gwadu hwn yn dadymchwelyd Cristionogaeth, adn. 13, 14. "Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist

chwaith. Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein regeth ni, ac ofer yw eich ffydd chwithau."

I'n cynnorthwyo i'w ddirnad, y mae yr ysgrythyrau yn roddi i ni rag-arwyddion o adgyfodiad y meirw; megys rwhâd yr esgyrn sychion, Ezek. xxxvii. Dyfodiad Jonah fol y morfil, Math. xii. 40. Ac y mae naturiaeth yn rhoddi ni arwydd-luniau a thebygoliaethau o hono; megys machdiad yr haul, a'i godiad drachefn; nos a dydd, gauaf a haf, sgu a deffro; y gwenoliaid yn y gauaf yn gorwedd heb lun argoel bywyd, mewn adeiladau adfeiledig, ac ogofâu tan ddaear, ac yn adfywio drachefn yn nhymmor y gwanwyn; hadau yn marw dan y tywyrch, a chwedi hyny yn tarddu lan: yr hyn oll, a'r cyffelyb hefyd, sydd yn addas i'w cymeryd fel wedi eu bwriadu gan Dduw natur, os nid yn stiolaethau, eto yn goffadwriaethau o'r adgyfodiad: o'r n y mae genym gadarnhâd ysgrythyrol, 1 Cor. xv. 36, O ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir oni dd efe marw."

II. Mi a gaf chwilio i natur yr adgyfodiad; gan ddangos, af, Pwy a gyfodir; 2il, Beth a adgyfodir: 3ydd, Pa fodd cyfodir y meirw.

*Yn gyntaf,* Pwy a gyfodir? Mae ein testun yn mynegi i pwy ydynt, sef, Pawb a'r sydd yn y beddau," h. y. holl ynol-ryw sydd wedi marw. Eithr am y bobl hyny a fydd byw pan ail ymddangoso Crist, ni byddant hwy feirw, a'u fodi yn ebrwydd gwedi hyny: ond fe wneir y fath gyfwidiad arnynt yn ddisymmwth, yr hyn a fydd iddynt hwy lle marwolaeth ac adgyfodiad, fel y bydd i'w cyrph gael gwneyd yn gyffelyb i'r cyrph a gyfodir o'r beddau, 1 Cor. 51, 52, " Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn oment, ar darawiad llygad." Ac oddiwrth hyn yma y wahaniaethir y rhai a fydd i'w barnu yn y dydd mawr, wrth enwau byw a meirw, Act. x 42. Fe gyfyd yr holl feirw, un bynag a fyddont ai duwiol ai annuwiol, cyfiawn neu nghyfiawn, (Act xxiv. 15.) hen neu ieuangc; yr holl dô o ynolryw, hyd yn nod y rhai na welsant erioed mo'r haul, id a fuant feirw y'nghroth eu mam, Dat. xx. 12, " Ac mi welais y meirw fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw." môr a'r ddaear a roddant i fynu eu meirw, heb gelu na iadw un yn ol.

*Yn ail,* Beth a gyfodir? Cyrph dynolryw. Dywedir fod dyn yn marw pan y mae yr enaid yn cael ei ysgaru oddiwrth y corph, ac yn dychwelyd at Dduw yr hwn a i rhoes ef, Preg. vii. 7. Ond y corph yn unig sydd yn cael ei ddodi yn y bedd, ac y gellir dywedyd yn briodol ei fod yn adgyfodi: felly i'r corph yn unig y mae yr adgyfodiad yn berthynol, a llefaru mewn modd manylaidd Heblaw hyny, yr un corph a gyfodir a'r hwn a fu farw. Nid mewn cyrph o ddefnydd arall yr ymddengys dynion yn yr adgyfodiad, eithr o'r un sylwedd a'r cyrph sydd ganddynt yn bresennol, ac a fwrir i'r bedd; yr unrhyw gyrph a fyddant, a'r unrhyw ansoddau iddynt. Mae hyd yn nod y meddwl am adgyfodiad yn cynnwys hyn; gan nad ellir dywedyd fod dim yn *adgyfodi* oddieithr yr hyn a elo i lawr. Ond i eglurhâu hyn ychydig, yn *gyntaf,* mae yn amlwg oddiwrth dystiolaeth ysgrythyrol. Mae yr Apostol yn dywedyd mai y marwol hwn a wisga anfarwoldeb, 1 Cor. xv. 53. ac y bydd i Grist "gyfnewid ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef," Phil. iii. 21. Cwsg ydyw angau mewn iaith ysgrythyrol, a deffro o gwsg ydyw yr adgyfodiad, Iob xiv. 12, lle y dangosir mai yr un ydyw y corph a gyfodir â'r hwn a fu farw. Yn *ail,* Mae uniondeb ymddygiad Duw, mewn perthynas i'r cyfiawn a'r drygionus, yn cadarnhâu hyn. Ni chyfrifir yn gyfiawn ymhlith dynion, fod i un wneuthur y gwaith, ac i arall dderbyn y gwobr. Er nad yw yn brïodol dywedyd, mewn modd manylaidd, fod gogoneddiad cyrph y saint yn dyfod fel gwobr am eu gwasanaeth neu eu dyoddefiadau ar y ddaear; eto y mae yn amlwg nad ydyw yn unol â dwyfol oruchwyliaeth fod i un corph ei wasanaethu ef, ac i un arall gael ei ogoneddu; fod i un ymladd, ac i arall gael y goron. Pa fodd y gellir tybio y caiff temlau yr Yspryd Glan, (fel y mae cyrph y saint yn cael eu galw, 1 Cor. vi. 19.) eu gadael yn y tyrau llwch o hyd, ac i ereill gael eu dyrchafu yn eu lle? ac i'r aelodau hyn i Grist, (adn. 15.) drengu yn dragywydd, ac i gyrph ereill gael dyfod yn eu lle? Na, mae yn sicr mai fel y mae cyrph y saint yn gyfranog o ogoneddu Duw, a rhai o honynt o ddyoddef dros ei achos; felly y byddant yn gyfranog o'r gogoniant a ddadguddir. A chyrph y rhai drygionus, y rhai a roddir i orwedd yn y pridd, a gyfodir drachefn; fel y byddo i'r un corph ag a bechodd, gael dyoddef. A gaiff un corph bechu yma, ac *un arall* ddyoddef yn uffern am y pechod hwnw? a gaiff y

rph hwnw, a fu yn gydymaith i'r enaid i bechu, orwedd th yn guddiedig yn y pridd; a chorph arall, na fu yn cyd-ithredu dim yn y pechod, fod yn gydymaith iddo yn y enau? Na, na; y corph hwnw sydd yn awr yn myned holl feddylfryd i ddarparu i'w fol ac i'w gefu, a gyfodir i oddef yn uffern. Y tafod hwnw sydd yn awr yn tyngu, yn dywedyd celwydd, a fydd mewn eisiau am ddwfr i'w yn y fflamiau tragywyddol. Y traed hyn, sydd yn awr efyll yn ffordd pechaduriaid, ac yn cario dynion yn eu fa annuwiol, a safant yn y llyn llosgedig. A'r llygaid, y rhai sydd yn awr yn drachwantus ac yn anllad a gant han yn nhân a mwg y pwll.

'n *drydydd*, Pa fodd y cyfodir y meirw? Yr Iesu hwnw, oesboeliwyd tu allan i byrth Ierusalem, yn y dydd olaf, a oeddir yngwydd pawb yn Arglwydd ac yn Grist; gan dangos fel Barnydd y byd, gyd â'i angylion nerthol, 2 s. 1. 7; efe a "ddisgyn o'r nef gyd â bloedd a llef yr angel, ac âg udgorn Duw." 1 Thes. iv. 16. "Canys yr orn a gân, a'r meirw a gyfodir," a'r rhai byw a newidir; or. xv. 52. Pa un a ydyw y floedd, y llef, â'r udgorn, arwyddo rhyw sŵn clywadwy, neu ynte yn unig gweithadau y gallu dwyfol, tu ag at gyfodi y meirw, ac i benion arswydlawn ereill perthynol i'r diwrnod hwnw, nid yn cymmeryd arnaf benderfynu, er fod y blaenaf yn ygol. Nid oes dim dadl na bydd dyfodiad barnwr y byd ryd hwnw gydâ mwy o fawrhydi a brawychiad nag a wn ni ei amgyffred: ond gellir cael peth help tu ag at fio meddyliau cyfaddasach am dano oddiwrth y rhwysg adwy, y mawrhydi a'r gorwychder, a ddangoswyd wrth oeddi y gyfraith, sef y taranau a glybuwyd, y mellt, a'r nwl tew a welwyd ar y mynydd, a'r Arglwydd yn disgyn wn tân, a'r holl fynydd yn crynu yn ddirfawr, a llais yr orn yn hir, ac yn cryfhâu fwyfwy, Exod. xix. 16, 18,

Pa fodd bynag, fe glywir swn yr udgorn hwn dros yr l fyd; fe gyrhaedd ddyfnderoedd y môr, a chalon y ddaear. th y groch-lef hon y daw esgyrn y'nghyd, asgwrn at ei wrn: llwch gwasgaredig yr holl feirw a gesglir y'nghyd, ch at ei lwch; ac ni chilgwthia y naill y llall, pob un a ia ei lwybr ei hun; a chan gyfarfod y'nghyd drachefn, y a wnant i fynu yr un corph a'r hwn a faluriodd yn bridd

yn y bedd! Ac wrth y groch-lef y daw pob enaid drachefn at ei gorph ei hun, na bydd ysgar iddynt byth mwyach. Nis gall y meirwon aros yn y bedd yn hwy, ond ymadael a'u byth o'u hir gartref: pan glywant ei lais ef, rhaid iddynt ddyfod allan, a derbyn eu dedryd olaf.

Felly megys y mae gwahaniaeth mawr rhwng y duwiol a'r drygionus yn eu bywyd, ac yn eu marwolaeth; felly y bydd hefyd yn eu hadgyfodiad.

Fe gyfodir y duwiolion allan o'u beddau drwy effaith Yspryd Crist, dedwydd gwlwm eu hundeb ag ef, Rhuf. viii. 11, Yr hwn a gyfododd Grist o feirw, a fywiocâ hefyd eich cyrph marwol chwi, trwy ei Yspryd yr hwn sydd yn trigo ynoch." Iesu Grist a gyfododd o feirw fel blaen-ffrwyth y rhai a hunasant, 1 Cor. xv. 20. Felly y rhai ydynt eiddo Crist a gaulynant yn ei ddyfodiad ef, adn. 23. Yn gymmaint ag i'r pen dirgeledig gyfodi uwchlaw dyfroedd marwolaeth, nis dichon na ddwg efe ei aelodau ar ei ol mewn amser dyladwy.

Hwy a ddeuant allan gydâ llawenydd annhraethadwy: canys yna y cwbl gyflawnir yr ysgrythyr hono, yr hon yn union gyrchol oedd yn cyfeirio at y caethiwed Babilonaidd, eithr yn awr a gyflawnir yn ei bystyr ysprydol éangaf. Esay xxvi. 19. " Deffrowch a chenwch, preswylwyr y llwch." Megys prïodas-ferch wedi ei thrwsio i'w gwr yn myned allan o ystafell ei gwely i'r brïodas; felly yr â y saint o'u beddau i brïodas yr Oen. Ioseph a gafodd ddyfodiad gorfoleddus allan o'r carchar, Daniel o ffau'r llewod, a Ionah o fol y morfil; eto nid yw y rhai'n ond cynlluniau gwan o ddyfodiad y saint allan o'u beddau yn yr adgyfodiad. Yna y canant gân Moses a chân yr Oen, mewn hwyl orfoleddus; pan y bydd angau wedi ei gwbl lyngcu mewn buddugoliaeth. Hwy a ganasent weithiau yn y bywyd hwn, drwy ffydd, yn fuddugoliaethus ar angau a'r bedd; " O angau, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?" 1 Cor. xv. 55. Ond pan ganont yr unrhyw, oddiar olwg a phrofiad, fe ddistewir am byth y seindorf ddu o amheuon ac ofnau, y rhai a fu yn mynych aflonyddu eu meddyliau.

Onid allwn ddychymmygu y bydd enaid a chorph pob un o'r saint yn ymgofleidio eu gilydd, ac yn ymlawenhâu y naill yn y llall, ac yn ymorfoleddu yn eu hail-gyfarfod dedwydd? ac onis gall un dybio y cyfarcha y corph yr enaid fel hyn?

'O fy enaid, a ddaethom ni ynghyd drachefn, ar ol ysgariad mor faith! a ddaethost ti yn ol drachefn i'th hen drigfa, heb fod yn rhaid ymadael mwy! O gyfarfod llawen? Mor an-nhebyg yw ein cyflwr presennol, i'r hyn ydoedd pan ysgarwyd ni oddiwrth ein gilydd yn angau! yn awr y mae ein galar wedi ei droi yn llawenydd; y goleuni a'r llawenydd a hau-'yd gynt, sydd yn awr wedi tarddu, ac y mae hi yn haf 'agywyddol yn nhir Immanuel. Bendigaid a fo y diwrnod 'unwyd fi â thi; dy ofal penaf oedd cael gafael ar Grist ›baith gogoniant, a fy ngwneuthur i yn deml i'r Yspryd Glân. O enaid gwynfydedig, yr hwn yn amser ein pererindod, gedwit dy olwg ar y wlad oedd y pryd hwnw ymhell, ond dd yn awr gerllaw! ti a'm cymmerit i ddirgel fanau, ac o y gwneit i mi blygu y gliniau hyn o flaen yr Arglwydd. y byddwn gyfranog o ein hymostyngiad ger ei fron ef: ac awr yw'r amser cyfaddas; ac fe'm dyrchefir. Ti a roddit afod hwn ar waith i gyffesu, i erfyn, ac i ddiolch; ac o n allan ei waith a fydd clodfori yn dragywydd. Weithiau ›erit i'r llygaid hyn hau dagrau, ac yn awr mae llawenydd ldarfod wedi tarddu allan. Ti a'm cedwit i lawr, gan fy 'yn yn gaeth: tra yr oedd ereill yn meithrin eu cnawd, ac gwneyd eu bol yn dduw iddynt, i'w dinystr eu hunain: ac awr yr wyf yn cyfodi yn ogoneddus i gymmeryd fy lle yn rigfanau gwynfyd; pan y maent hwy yn cael eu llusgo o'u ldau, i'w bwrw i'r fflamiau tân. Yn awr, fy enaid, ni bydd d i ti mor cwyno mwyach oblegid corph afiach poenus; ni ai mo'th lyffetheirio gan gnawd gwan a gwywedig: mi a af yn awr ddal allan fel tithau i foliannu Duw yn ddi-dewi.' : oni all yr enaid ddywedyd? 'O ddydd dedwydd, i mi yfod yn ol i fyw yn y corph dedwydd yna, yr hwn oedd, ›ydd, ac a fydd byth yn aelod o Grist, ac yn deml yr Ys-yd Glân! Bellach yr unir fi â thi am byth! ni thorir y nyn arian mwy: ni wna angau ysgariad rhyngom mwyach. ›fod fy nghorph, gan hyny, a dyred ymaith; fel y caffo y ›gaid, y rhai a wylent gynt am fy mhechodau, yn awr weled yneb ein Prynwr mewn llawenydd: wele! ein Duw ni, ›beithiasom ynddo. Caffed y clustiau hyn, y rhai a wran-awent eiriau 'r bywyd yn y deml isod, yn awr ddyfod i lywed yr haleluia yn y deml fry. A'r traed hyn, y rhai a'm ygent i gynnulleidfa y saint ar y ddaear, a gant yn awr rodio y'mysg y rhai sydd yn sefyll yma." A chaffed y tafod

yna, a fu yn cyffesu Crist ger bron dynion, ac a arferai draethu rhyw beth yn wastad er ei ganmoliaeth ef, yn awr uno â'r côr yn y goruchelder i'w foli fyth. Ni chai ymprydio mwyach, eithr gwledda yn ddiderfyn: ac hi chymylir dy wyneb-pryd; ond ti a ddysgleiri byth megys seren yn y ffurfafen. Yr oeddym yn rhanog yn y frwydr, dyred yn awr, awn i gyd-dderbyn ac i gyd-wisgo y goron.'

Ond ar y llaw arall, y drygionus a gyfodir drwy allu Crist, fel Barnwr, cyfiawn yr hwn sydd i ddial ar ei elynion. Yr un gallu dwyfol ag a gauodd eu heneidiau yn uffern, ac a gadwodd eu cyrph yn y bedd, megys mewn carchar, a'u dwg allan; fel y caffo enaid a corph ynghyd dderbyn y ddedryd ofnadwy o dragywyddol ddamnedigaeth, a chael eu cau ynghyd yngharchar uffern.

Hwy a ddeuant o'u beddau gyd â braw a dychryn annhraethol. Fe'u llusgir ymlaen fel cynnifer o ddrwg-weithredwyr o'r ddaear-gell, i'w harwain i'r dienyddle; gan lefain ar y mynyddoedd a'r creigiau, am syrthio arnynt, a'u cuddio o wydd yr Oen. 'R oedd gwaedd ddychrynllyd yn yr Aipht y noson yr oedd yr angel dinystriol yn myned drwy 'r wlad i ladd y cyntaf-anedig. A dychrynllyd oedd y llefau pan agorodd y ddaear ei safn i lyngcu Dathan ac Abiram, a'u holl gofoeth. Pa lefain echryslawn ynte a fydd, pan, wrth ganiad yr udgorn diweddaf, yr agoro y ddaear a'r môr eu safnau, ac y bwriont allan yr holl rai drygionus, i'w dwyn ger bron y Barnwr ofnadwy? Pa fodd y llefant ac y gruddfanant, gan rwygo eu hunain? pa fodd yr wyla ac yr uda y cymdeithion digrif, ac y rhegant y naill y llall! pa fodd y llenwir y ddaear gan eu crochleisiau alaethus a'u galarnadau, pan eu llusgir allan fel defaid i'r lladdfa? Hwynt hwy y rhai tra y buant byw yn y byd oeddynt oferwyr llygredig, bydolwyr cybyddlyd, neu ragithwyr ffurfiol, a fyddant y pryd hwnw gan ofid meddwl yn dir-droi eu dwylaw, ac yn curo eu dwyfron, ac yn galaru yn chwerw oblegid eu cyflwr; ac yn croch-ruo eu cwynfaniadau, gan alw eu hunain yn anifeiliaid, yn ynfydion, ac yn wallgofiaid, o herwydd ymddwyn o honynt mor orphwyllog yn y bywyd hwn, ac am na chredasent yr hyn a fyddant y pryd hwnw yn ei weled. Fe'u gyrwyd ymaith yn eu drygioni, wrth farw; ac yn awr y mae eu holl bechodau yn cyfodi gyda hwynt, ac fel cynnifer o seirph, yn ymblethu

ngylch eu heneidiau a'u cyrph hefyd, y rhai sydd yn
n cael cyfarfod dychrynllyd ar ol hir ysgariad.
ly gallwn ddychymmygu y bydd y corph truenus yn
:h yr enaid fel hyn; ' A gefaist ti fi drachefn, O fy
n, fy ngelyn gwaethaf, enaid creulon, creulonach na
› waed-cwn? Melldigedig a fo'r dydd y cyfarfuom
l! O na buaswn yn aros yn delpyn difywyd, wedi
u yn nghroth fy mam; heb erioed dderbyn synwyr,
d nae ysgogiad. O mi a ddewiswn yn hytrach fod yn
ı llyffant neu sarph, nag yn gorph i ti; canys yna mi a
ldaswn yn llonydd, ac nis gwelswn y dydd arswydus
! Os oedd raid i mi fod yn eiddo ti, O na buaswn yn
i ti, neu yn un o'th gwn, yn hytrach nag yn gorph i ti,
id yna ti a gymmerasit fwy o ofal am danaf nag y
ethost. O garedigrwydd creulon! Ti a'm cofleidiaist
n i angau, ac a'm porthaist i'r lladdfa. A'i dyma ffrwyth
nerwch tu ag ataf? Ai dyma 'r hyn a fedaf am dy lafur
ofal o'm plegid? Pa lesâd yw cyfoeth a phleserau yn
pan y mae y cyfrif ofnadwy hwn wedi dyfod, am yr hyn
ybyddiwyd yn ddyladwy? O fedd creulon, pa ham na
ısit dy safn arnaf am byth? pa ham na ddeliaist dy
ıaror yn gaeth? pa ham y'm hysgydwaist allan pan
vn yn gorwedd yn llonydd ac yn mwynhâu gorphwysdra?
l melldigedig! pa ham nad arosaist yn dy le, yn am-
edig gan fflamiau tân? pa ham y daethost yn ol i'm
ıeryd innau hefyd at farau y pwll? Ti a'm gwnaethost
fferyn anghyfiawnder; ac yn awr y mae yn rhaid fy
a i'r tân. Y tafod a ddefnyddiaist i watwar crefydd,
ı, rhegu, dywedyd celwydd, enllibio, ac ymffrostio; ac
eliaist rhag gogoneddu Duw: ac yn awr ni chaiff gym-
t a diferyn o ddwfr i'w oeri yn y fflamiau. Ti a atteliaist
hlustiau rhag gwrando y pregethau, oedd yn rhybyddio
dydd hwn. Ti a fyddit yn cael allan ffyrdd a moddion
uddio rhag gwrando cynghorion, rhybyddion, a cherydd-
ydlon. Ond pa ham na buasit yn rhwystro iddynt glywed
yr udgorn dychrynllyd yma? pa ham na buasit yn gwibio
ı ehedeg ymaith ar adenydd dychymmyg, fel drwy hyny
lëolasit tra y buasai yr orchwyliaeth frawychus yma yn
:d heibio, fel y byddit arferol o wnëyd pan yr eisteddwn
ı pregeth, cymun, neu weddi, neu gymdeithas crefydd-
el y buasai genyf yn awr mor lleied o deimlad o'r naill

ag oedd genyf gynt o'r llall? Ond och! rhaid i mi losgi byth oblegid dy hoffder o'th chwantau, dy anmharch ar bethau sanctaidd a'th gnawdolrwydd, dy anghrediniaeth a'th ragrith.' Eithr onis gall yr enaid atteb? O ysgerbwd diffaith, yn awr y'm gyrir yn ol i ti! O na buasit yn gorwedd fyth i bydru yn dy fedd! Onid oedd arnaf ddigon o benyd o'r blaen? a raid i mi gael fy uno a thi drachefn, fel gwedi ein cyssylltu ynghyd fel dau bren sych i'w bwrw i'r tân, y byddai i ddigofaint Duw ein llosgi yn danbeitiach? Wrth ofalu am danat ti, mi a ddinystriais fy hun. Dy gefn, dy fol, a boddhâd dy deimladau di, a'm handwyodd i. Mor fynych y maglwyd fi gan dy glustiau! mor fynych y'm hudwyd gan dy lygaid? I'th arbed di yr esgeulusais gyfleusderau i ymheddychu â Duw, y segurais y Sabbathau heibio, yr esgeulusais weddïo, yr eis i dŷ gwledd yn hytrach nag i dŷ galar; ac y dewisais wadu Crist, a gadael ei waith a'i achos yn y byd; ac felly y syrthiais yn aberth i'th esmwythdra adgas di. Pa bryd bynag y dechreuai fy nghydwybod ddeffro, ac yr anturiwn innau i feddwl am fy mhechodau, a'r trueni a deimlais er pan adewais di, ac yr ydwyf yn awr yn ei deimlo; tydi a'm tröit i oddiwrth y meddyliau hyn, ac a'm tynit ymaith i ddarbod drosot ti, gnawd gresynol! Wrth linynau sidanaidd dy nwydau cnawdol, y tynwyd fi i ddystryw yn groes i'm goleuni a'm cydwybod: ond yn awr y mae'r llinynau hyny wedi eu troi yn gadwynau heieirn, i'm dal dan ddigofaint dros byth. Och elw gorwael! Och bleserau melldigedig! oblegid pa rai y rhaid i mi orwedd byth yn y tywyllwch eithaf!' Ond ni thycia achwynion yr awr hono. "O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!"

Mewn perthynas i ansoddau cyrph yn yr adgyfodiad, mae yr apostol yn mynegi i ni, y cyfodir hwynt yn anllygredig, yn ogoneddus, yn nerthol, ac yn ysprydol, 1 Cor. xv. 42, 43, 44. "Efe a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth; efe a heuir mewn anmharch, ac a gyfodir mewn gogoniant; efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth; efe a heuir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph ysprydol."

*Yn gyntaf*, Fe gyfodir cyrph y saint yn anllygredig. Y maent yn bresennol fel cyrph ereill, yn bentwr o lygredd, yn

llawn o hadau afiechyd a marwolaeth; a phan fyddont feirw, y maent yn myned mor ffiaidd hyd yn nod gan eu cyfeillion anwylaf, fel y bydd yn rhaid eu claddu allan o'u golwg, mewn bedd, i bydru ac i falurio: ïe y mae doluriau a chlefydau ffiaidd yn gwneuthur rhai o honynt yn anolygus iawn hyd yn nod yn eu bywyd. Ond yn yr adgyfodiad, hwy a adawant holl hâd llygredd yn ol, yn y bedd; ac a gyfodant yn anllygredig, heb fod mwyach yn agored i'r anhwyldeb na'r afiechyd, na'r briw lleiaf, nac i farwolaeth ychwaith. Ni bydd byth mwyach na niweidiau allanol, nac achos o boenau tufewnol: nis teimlant hyny mwy: ïe hwy a gant ieuengctyd a grym diddarfod; heb fod byth yn ddarostyngedig i'r adfeiliad yr oedd henaint yn ei ddwyn arnynt yn y bywyd hwn.

*Yn ail,* Hwy a fyddant yn gyrph gogoneddus; nid yn unig yn brydferth, yn hardd, ac yn lluniaidd, eithr yn llawn o ddysgleirdeb a gwychder. Nid yw'r gwyneb tecaf, na'r corph mwyaf lluniaidd, sydd yn awr i'w weled yn y byd, ddim i'w henwi mewn cymhariaeth i gorph y distadlaf o'r saint yn yr adgyfodiad; canys "yna y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul," Math. xiii. 43. Os oedd gwyneb Moses yn gor-ddysgleirio pan ddaeth i waered o'r mynydd; ac os oedd gwyneb Stephan fel gwyneb angel, pan y safodd o flaen y cynghor; pa faint mwy prydferth, gogoneddus, ac ardderchoglawn, fydd gwynebau y saint pan ddiosgant eu holl lygredigaeth, ac y dysgleiriant fel yr haul? Ond ystyriwch nad yw y prydferthwch hwn o eiddo y saint ddim yn cael ei gyfyngu i'w gwynebau yn unig, eithr yn ymdaenu dros eu holl gyrph; canys y mae yr holl gorph yn cael ei gyfodi mewn gogoniant, ac yn un ffurf a chorph gogoneddus eu Harglwydd a'u Hiachawdwr; y'ngwedd-newidiad yr hwn yr oedd nid yn unig ei wyneb, ond hefyd "ei ddillad cyn wyned a'r goleuni," Math. xvii. 2. Beth bynag oedd anafau neu anffurfiadau cyrph y saint pan roddwyd hwynt yn y bedd, wedi dygwydd drwy ddamweiniau, yn eu bywyd, neu achosion dirgelaidd pan y ffurfiwyd hwynt yn y groth, hwy a gyfodant o'r bedd yn lân oddiwrthynt oll. Ond bwriwch fod nodau yr Arglwydd Iesu, creithiau neu ôl y briwiau a'r cleisiau a gafodd rhai o'r saint tra ar y ddaear, yn aros ar eu cyrph ar ol yr adgyfodiad; megys yr oedd ôl yr hoelion yn nghorph yr Arglwydd Iesu, ar ol ei adgyfodiad, byddai y nodau hyny as

hunain yn ei dysgwyl, y bydd adgyfodiad y meirw, i'r cyfiawnion ac i'r anghyfiawnion." A Iob xix. 26, 27, "Ac er ar ol fy nghroen, i bryfed ddyfetha y corph hwn, etto caf weled Duw yn fy nghnawd: yr hwn a gaf fi i'm fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harenau ddarfod ynot." Ond nid rhaid i mi ychwanegu tystiolaethau ar fater ag sydd yn cael ei ddal allan mor eglur ac mor fynych yn yr ysgrythyrau sanctaidd. Mae ein Harglwydd a'n Hiachawdwr ei hun yn ei chadarnhau yn erbyn y Saduceaid, yn y geiriau nodedig hyny, Luc xx. 37, 38, "Ac y cyfyd y meirw, Moses hefyd a hyspysodd wrth y berth, pan yw efe yn galw yr Arglwydd yn Dduw Abraham, ac yn Dduw Isaac, ac yn Dduw Iacob: Ac nid yw efe yn Dduw y meirw, ond y byw: canys pawb sydd fyw iddo ef." Yr oedd y patrieirch sanctaidd hyn yr amser hwnw wedi meirw; eto mae yr Arglwydd Iehofa yn cael ei alw yn Dduw iddynt, sef trwy rinwedd y cyfammod grâs, ac yn ol y drefn o honaw; ac yn yr ystyr yma y mae yr ymadrodd yn cynnwys yr holl wynfydedigrwydd a sicrheïr i'r rhai sydd ynddo, Heb. xi. 16, "Nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barotôdd ddinas iddynt." Nid cael ei alw yn Dduw i'w heneidiau hwynt yn unig y mae efe; eithr *eu* Duw, sef Duw eu personau, eneidiau a chyrph: yr hyn trwy rinwedd ei wirionedd a'i ffyddlondeb sydd sicr o fod yn hollol effeithiol: eithr nis dichon gael ei lawn effaith ar y meirw, y rhai oblegid eu bod yn feirw, sydd yn mhell oddiwrth fod yn wynfydedig; ond ar y rhai byw, y rhai yn unig sydd yn addas iddo: am hyny, gan fod Duw yn cael ei alw yn Dduw iddynt hwy, y maent yn fyw mewn perthynas i Dduw, er bod eu cyrph eto yn y bedd; canys o'i ran ef, yr hwn drwy ei nerth a ddichon eu hadferyd i fywyd, ac yn ei gyfammod a amlygodd ei ewyllys a'i fwriad i wneuthur hyny, addewid yr hwn ni phalla, y maent holl i'w cyfrif yn fyw; ac yn unol a'r cyfymmod, nid yw eu marwolaeth ond cwsg, o'r hwn, y mae yn rhaid eu deffro, drwy rinwedd yr unrhyw gyfammod, pa un sydd yn sicrhaû pob gwynfydedigrwydd i'w personau yn gyfangwbl. Mae yr Apostol Paul yn helaeth brofi yr adgyfodiad, 1 Cor. xv. ac yn dangos ei fod yn erthygl sylfaenol, a bod gwadu hwn yn dadymchwelyd Cristionogaeth, adn. 13, 14. "Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist

ychwaith. Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer yw eich ffydd chwithau."

I'n cynnorthwyo i'w ddirnad, y mae yr ysgrythyrau yn rhoddi i ni rag-arwyddion o adgyfodiad y meirw; megys bywhâd yr esgyrn sychion, Ezek. xxxvii. Dyfodiad Ionah o fol y morfil, Math. xii 40. Ao y mae naturiaeth yn rhoddi i ni arwydd-luniau a thebygoliaethau o hono; megys machludiad yr haul, a'i godiad drachefn; nos a dydd, gauaf a haf, cysgu a deffro; y gwenoliaid yn y gauaf yn gorwedd heb ddim argoel bywyd, mewn adeiladau adfeiledig, ac ogofâu tan y ddaear, ac yn adfywio drachefn yn nhymmor y gwanwyn; yr hadau yn marw dan y tywyrch, a chwedi hyny yn tarddu allan: yr hyn oll, a'r cyffelyb hefyd, sydd yn addas i'w cymmeryd fel wedi eu bwriadu gan Dduw natur, os nid yn dystiolaethau, eto yn goffadwriaethau o'r adgyfodiad: o'r hyn y mae genym gadarnhâd ysgrythyrol, 1 Cor. xv. 36, "O ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir oni bydd efe marw."

II. Mi a gaf chwilio i natur yr adgyfodiad; gan ddangos, 1af, Pwy a gyfodir; 2il, Beth a adgyfodir: 3ydd, Pa fodd y cyfodir y meirw.

*Yn gyntaf,* Pwy a gyfodir? Mae ein testun yn mynegi i ni pwy ydynt, sef, Pawb a'r sydd yn y beddau," h. y. holl ddynol-ryw sydd wedi marw. Eithr am y bobl hyny a fydd yn byw pan ail ymddangoso Crist, ni byddant hwy feirw, a'u cyfodi yn ebrwydd gwedi hyny: ond fe wneir y fath gyfnewidiad arnynt yn ddisymmwth, yr hyn a fydd iddynt hwy yn lle marwolaeth ac adgyfodiad, fel y bydd i'w cyrph gael eu gwneyd yn gyffelyb i'r cyrph a gyfodir o'r beddau, 1 Cor. xv. 51, 52, "Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad." Ac oddiwrth hyn yma y gwahaniaethir y rhai a fydd i'w barnu yn y dydd mawr, wrth yr enwau byw a meirw, Act. x 42. Fe gyfyd yr holl feirw, pa un bynag a fyddont ai duwiol ai annuwiol, cyfiawn neu anghyfiawn, (Act xxiv. 15.) hen neu ieuangc; yr holl dô o ddynolryw, hyd yn nod y rhai na welsant erioed mo'r haul, ond a fuant feirw y'nghroth eu mam, Dat. xx. 12, "Ac mi a welais y meirw fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw." Y môr a'r ddaear a roddant i fynu eu meirw, heb gelu na chadw un yn ol.

*Yn ail,* Beth a gyfodir? Cyrph dynolryw. Dywedir fod dyn yn marw pan y mae yr enaid yn cael ei ysgaru oddiwrth y corph, ac yn dychwelyd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef, Preg. vii. 7. Ond y corph yn unig sydd yn cael ei ddodi yn y bedd, ac y gellir dywedyd yn brïodol ei fod yn adgyfodi: felly i'r corph yn unig y mae yr adgyfodiad yn berthynol, a llefaru mewn modd manylaidd. Heblaw hyny, yr un corph a gyfodir a'r hwn a fu farw. Nid mewn cyrph o ddefnydd arall yr ymddengys dynion yn yr adgyfodiad, eithr o'r un sylwedd a'r cyrph sydd ganddynt yn bresennol, ac a fwrir i'r bedd; yr unrhyw gyrph a fyddant, a'r unrhyw ansoddau iddynt. Mae hyd yn nod y meddwl am adgyfodiad yn cynnwys hyn; gan nad ellir dywedyd fod dim yn *adgyfodi* oddieithr yr hyn a elo i lawr. Ond i eglurhâu hyn ychydig, yn *gyntaf,* mae yn amlwg oddiwrth dystiolaeth ysgrythyrol. Mae yr Apostol yn dywedyd mai y marwol hwn a wisga anfarwoldeb, 1 Cor. xv. 53, ac y bydd i Grist "gyfnewid ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef," Phil. iii. 21. Cwsg ydyw angau mewn iaith ysgrythyrol, a deffro o gwsg ydyw yr adgyfodiad, Iob xiv. 12, lle y dangosir mai yr un ydyw y corph a gyfodir â'r hwn a fu farw. Yn *ail,* Mae uniondeb ymddygiad Duw, mewn perthynas i'r cyfiawn a'r drygionus, yn cadarnhâu hyn. Ni chyfrifir yn gyfiawn ymhlith dynion, fod i un wneuthur y gwaith, ac i arall dderbyn y gwobr. Er nad yw yn brïodol dywedyd, mewn modd manylaidd, fod gogoneddiad cyrph y saint yn dyfod fel gwobr am eu gwasanaeth neu eu dyoddefiadau ar y ddaear; eto y mae yn amlwg nad ydyw yn unol â dwyfol oruchwyliaeth fod i un corph ei wasanaethu ef, ac i un arall gael ei ogoneddu; fod i un ymladd, ac i arall gael y goron. Pa fodd y gellir tybio y caiff temlau yr Yspryd Glan, (fel y mae cyrph y saint yn cael eu galw, 1 Cor. vi. 19.) eu gadael yn y tyrau llwch o hyd, ac i ereill gael eu dyrchafu yn eu lle? ac i'r aelodau hyn i Grist, (adn. 15.) drengu yn dragywydd, ac i gyrph ereill gael dyfod yn eu lle? Na, mae yn sicr mai fel y mae cyrph y saint yn gyfranog o ogoneddu Duw, a rhai o honynt o ddyoddef dros ei achos; felly y byddant yn gyfranog o'r gogoniant a ddadguddir. A chyrph y rhai drygionus, y rhai a roddir i orwedd yn y pridd, a gyfodir drachefn; fel y byddo i'r un corph ag a bechodd, gael dyoddef. A gaiff un corph bechu yma, ac *un arall ddyoddef* yn uffern am y pechod hwnw? a gaiff y

ph hwnw, a fu yn gydymaith i'r enaid i bechu, orwedd
i yn guddiedig yn y pridd; a chorph arall, na fu yn cyd-
thredu dim yn y pechod, fod yn gydymaith iddo yn y
nau? Na, na; y corph hwnw sydd yn awr yn myned
holl feddylfryd i ddarparu i'w fol ac i'w gefn, a gyfodir i
oddef yn uffern. Y tafod hwnw sydd yn awr yn tyngu,
n dywedyd celwydd, a fydd mewn eisiau am ddwfr i'w
yn y fflamiau tragywyddol. Y traed hyn, sydd yn awr
efyll yn ffordd pechaduriaid, ac yn cario dynion yn eu
a annuwiol, a safant yn y llyn llosgedig. A'r llygaid
y rhai sydd yn awr yn drachwantus ac yn anllad a gant
ian yn nhân a mwg y pwll.

'n *drydydd*, Pa fodd y cyfodir y meirw? Yr Iesu hwnw,
oeshoeliwyd tu allan i byrth Ierusalem, yn y dydd olaf, a
oeddir yngwydd pawb yn Arglwydd ac yn Grist; gan
dangos fel Barnydd y byd, gyd â'i angylion nerthol, 2
s. i. 7; efe a "ddisgyn o'r nef gyd â bloedd a llef yr
angel, ac âg udgorn Duw." 1 Thes. iv. 16. "Canys yr
orn a gân, a'r meirw a gyfodir," a'r rhai byw a newidir;
or. xv. 52. Pa un a ydyw y floedd, y llef, â'r udgorn,
arwyddo rhyw sŵn clywadwy, neu ynte yn unig gweith-
adau y gallu dwyfol, tu ag at gyfodi y meirw, ac i
benion arswydlawn ereill perthynol i'r diwrnod hwnw, nid
yn cymmeryd arnaf benderfynu, er fod y blaenaf yn
ygol. Nid oes dim dadl na bydd dyfodiad barnwr y byd
ryd hwnw gydâ mwy o fawrhydi a brawychiad nag a
wn ni ei amgyffred: ond gellir cael peth help tu ag at
fio meddyliau cyfaddasach am dano oddiwrth y rhwysg
adwy, y mawrhydi a'r gorwychder, a ddangoswyd wrth
oeddi y gyfraith, set y taranau a glybuwyd, y mellt, a'r
nwl tew a welwyd ar y mynydd, a'r Arglwydd yn disgyn
yn tân, a'r holl fynydd yn crynu yn ddirfawr, a llais yr
orn yn hir, ac yn cryfhâu fwyfwy, Exod. xix. 16, 18,
Pa fodd bynag, fe glywir swn yr udgorn hwn dros yr
fyd; fe gyrhaedd ddyfnderoedd y môr, a chalon y ddaear.
th y groch-lef hon y daw esgyrn y'nghyd, asgwrn at ei
wrn: llwch gwasgaredig yr holl feirw a gesglir y'nghyd,
ch at ei lwch; ac ni chilgwthia y naill y llall, pob un a
ia ei lwybr ei hun; a chan gyfarfod y'nghyd drachefn,
y a wnant i fynu yr un corph a'r hwn a faluriodd yn bridd

yn y bedd. Ac wrth y groch-lef y daw pob enaid drachefn at ei gorph ei hun, na bydd ysgar iddynt byth mwyach. Nis gall y meirwon aros yn y bedd yn hwy, ond ymadael am byth o'u hir gartref: pan glywant ei lais ef, rhaid iddynt ddyfod allan, a derbyn eu dedryd olaf.

Felly megys y mae gwahaniaeth mawr rhwng y duwiol a'r drygionus yn eu bywyd, ac yn eu marwolaeth; felly y bydd hefyd yn eu hadgyfodiad.

Fe gyfodir y duwiolion allan o'u beddau drwy effaith Yspryd Crist, dedwydd gwlwm eu hundeb ag ef, Rhuf. viii. 11, "Yr hwn a gyfododd Grist o feirw, a fywioca hefyd eich cyrph marwol chwi, trwy ei Yspryd yr hwn sydd yn trigo ynoch." Iesu Grist a gyfododd o feirw fel blaen-ffrwyth y rhai a hunasant, 1 Cor. xv. 20. Felly y rhai ydynt eiddo Crist a gaulynant yn ei ddyfodiad ef, adn. 23 Yn gymmaint ag i'r pen dirgeledig gyfodi uwchlaw dyfroedd marwolaeth, nis dichon na ddwg efe ei aelodau ar ei ol mewn amser dyladwy.

Hwy a ddeuant allan gydâ llawenydd annhraethadwy: canys yna y cwbl gyflawnir yr ysgrythyr hono, yr hon yn union gyrchol oedd yn cyfeirio at y caethiwed Babilonaidd, eithr yn awr a gyflawnir yn ei hystyr ysprydol eangaf. Esay xxvi. 19. "Deffrowch a chenwch, preswylwyr y llwch." Megys prïodas-ferch wedi ei thrwsio i'w gwr yn myned allan o ystafell ei gwely i'r brïodas; felly yr â y saint o'u beddau i brïodas yr Oen. Ioseph a gafodd ddyfodiad gorfoleddus allan o'r carchar, Daniel o ffau'r llewod, a Ionah o fol y morfil; eto nid yw y rhai'n ond cynlluniau gwan o ddyfodiad y saint allan o'u beddau yn yr adgyfodiad. Yna y canant gân Moses a chân yr Oen, mewn hwyl orfoleddus; pan y bydd angau wedi ei gwbl lyngcu mewn buddugoliaeth. Hwy a ganasent weithiau yn y bywyd hwn, drwy ffydd, yn fuddugoliaethus ar angau a'r bedd; "O angau, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?" 1 Cor. xv. 55. Ond pan ganont yr unrhyw, oddiar olwg a phrofiad, fe ddistewir am byth y seindorf ddu o amheuon ac ofnau, y rhai a fu yn mynych aflonyddu eu meddyliau.

Onid allwn ddychymmygu y bydd enaid a chorph pob un o'r saint yn ymgofleidio eu gilydd, ac yn ymlawenhâu y naill yn y llall, ac yn ymorfoleddu yn eu hail-gyfarfod dedwydd? ac onis gall un dybio y cyfarcha y corph yr enaid fel hyn?

) fy enaid, a ddaethom ni ynghyd drachefn, ar ol ysgariad or faith! a ddaethost ti yn ol drachefn i'th hen drigfa, heb l yn rhaid ymadael mwy! O gyfarfod llawen? Mor anebyg yw ein cyflwr presennol, i'r hyn ydoedd pan ysgarwyd oddiwrth ein gilydd yn angau! yn awr y mae ein galar di ei droi yn llawenydd; y goleuni a'r llawenydd a hau-d gynt, sydd yn awr wedi tarddu, ac y mae hi yn haf gywyddol yn nhir Immanuel. Bendigaid a fo y diwrnod unwyd fi â thi; dy ofal penaf oedd cael gafael ar Grist baith gogoniant, a fy ngwneuthur i yn deml i'r Ysprydân. O enaid gwynfydedig, yr hwn yn amser ein pererindod, gedwit dy olwg ar y wlad oedd y pryd hwnw ymhell, ond ld yn awr gerllaw! ti a'm cymmerit i ddirgel fanau, ac o y gwneit i mi blygu y gliniau hyn o flaen yr Arglwydd. y byddwn gyfranog o ein hymostyngiad ger ei fron ef: ac awr yw'r amser cyfaddas; ac fe'm dyrchefir. Ti a roddit afod hwn ar waith i gyffesu, i erfyn, ac i ddiolch; ac o n allan ei waith a fydd clodfori yn dragywydd. Weithiau perit i'r llygaid hyn hau dagrau, ac yn awr mae llawenydd ddarfod wedi tarddu allan. Ti a'm cedwit i lawr, gan fy vyn yn gaeth: tra yr oedd ereill yn meithrin eu cnawd, ac gwnëyd eu bol yn dduw iddynt, i'w dinystr eu hunain: ac awr yr wyf yn cyfodi yn ogoneddus i gymmeryd fy lle yn rigfanau gwynfyd; pan y maent hwy yn cael eu llusgo o'u ddau, i'w bwrw i'r fflamiau tân. Yn awr, fy enaid, ni bydd id i ti mor cwyno mwyach oblegid corph afiach poenus; ni ai mo'th lyffetheirio gan gnawd gwan a gwywedig: mi a laf yn awr ddal allan fel tithau i foliannu Duw yn ddi-dewi.' c oni all yr enaid ddywedyd? 'O ddydd dedwydd, i mi lyfod yn ol i fyw yn y corph dedwydd yna, yr hwn oedd, sydd, ac a fydd byth yn aelod o Grist, ac yn deml yr Ysryd Glân! Bellach yr unir fi â thi am byth! ni thorir y inyn arian mwy: ni wna angau ysgariad rhyngom mwyach. yfod fy nghorph, gan hyny, a dyred ymaith; fel y caffo y ygaid, y rhai a wylent gynt am fy mhechodau, yn awr weled yneb ein Prynwr mewn llawenydd: wele! ein Duw ni, obeithiasom ynddo. Caffed y clustiau hyn, y rhai a wrandawent eiriau 'r bywyd yn y deml isod, yn awr ddyfod i lywed yr haleluia yn y deml fry. A'r traed hyn, y rhai a'm lygent i gynnulleidfa y saint ar y ddaear, a gant yn awr rodio y'mysg y rhai sydd yn sefyll yma." A chaffed y tafod

yna, a fu yn cyffesu Crist ger bron dynion, ac a arferai draethu rhyw beth yn wastad er ei ganmoliaeth ef, yn awr uno â'r côr yn y goruchelder i'w foli fyth. Ni chai ymprydio mwyach, eithr gwledda yn ddiderfyn: ac ni chymylir dy wyneb-pryd; ond ti a ddysgleiri byth megys seren yn y furfafen. Yr oeddym yn rhanog yn y frwydr, dyred yn awr, awn i gyd-dderbyn ac i gyd-wisgo y goron.'

Ond ar y llaw arall, y drygionus a gyfodir drwy allu Crist, fel Barnwr, cyfiawn yr hwn sydd i ddial ar ei elynion. Yr un gallu dwyfol ag a ganodd eu heneidiau yn uffern, ac a gadwodd eu cyrph yn y bedd, megys mewn carchar, a'u dwg allan; fel y caffo enaid a corph ynghyd dderbyn y ddedryd ofnadwy o dragywyddol ddamnedigaeth, a chael eu cau ynghyd yngharchar uffern.

Hwy a ddeuant o'u beddau gyd â braw a dychryn annhraethol. Fe'u llusgir ymlaen fel cynnifer o ddrwg-weithredwyr o'r ddaear-gell, i'w harwain i'r dienyddle; gan lefain ar y mynyddoedd a'r creigiau, am syrthio arnynt, a'u cuddio o wydd yr Oen. 'R oedd gwaedd ddychrynllyd yn yr Aipht y noson yr oedd yr angel dinystriol yn myned drwy 'r wlâd i ladd y cyntaf-anedig. A dychrynllyd oedd y llefau pan agorodd y ddaear ei safn i lyngcu Dathan ac Abiram, a'u holl gofoeth. Pa lefain echryslawn ynte a fydd, pan, wrth ganiad yr udgorn diweddaf, yr agoro y ddaear a'r môr eu safnau, ac y bwriont allan yr holl rai drygionus, i'w dwyn ger bron y Barnwr ofnadwy? Pa fodd y llefant ac y gruddfanant, gan rwygo eu hunain? pa fodd yr wyla ac yr uda y cymdeithion digrif, ac y rhegant y naill y llall! pa fodd y llenwir y ddaear gan eu crochleisiau alaethus a'u galarnadau, pan eu llusgir allan fel defaid i'r lladdfa? Hwynt hwy y rhai tra y buant byw yn y byd oeddynt oferwyr llygredig, bydolwyr cybyddlyd, neu ragithwyr ffurfiol, a fyddant y pryd hwnw gan ofid meddwl yn dir-droi eu dwylaw, ac yn curo eu dwyfron, ac yn galaru yn chwerw oblegid eu cyflwr; ac yn croch-ruo eu cwynfaniadau, gan alw eu hunain yn anifeiliaid, yn ynfydion, ac yn wallgofiaid, o herwydd ymddwyn o honynt mor anmhwyllog yn y bywyd hwn, ac am na chredasent yr hyn a fyddant y pryd hwnw yn ei weled. Fe'u gyrwyd ymaith yn eu drygioni, wrth farw; ac yn awr y mae eu holl bechodau yn cyfodi gydâ hwynt, ac fel cynnifer o seirph, yn ymblethu

oddiamgylch eu heneidiau a'u cyrph hefyd, y rhai sydd yn awr yn cael cyfarfod dychrynllyd ar ol hir ysgariad.

Felly gallwn ddychymmygu y bydd y corph truenus yn cyfarch yr enaid fel hyn; 'A gefaist ti fi drachefn, O fy ngelyn, fy ngelyn gwaethaf, enaid creulon, creulonach na mil o waed-cwn? Melldigedig a fo'r dydd y cyfarfuom erioed! O na buaswn yn aros yn delpyn difywyd, wedi braenu yn nghroth fy mam; heb erioed dderbyn synwyr, bywyd nac ysgogiad. O mi a ddewiswn yn hytrach fod yn gorph llyffant neu sarph, nag yn gorph i ti; canys yna mi a orweddaswn yn llonydd, ac nis gwelswn y dydd arswydus hwn! Os oedd raid i mi fod yn eiddo ti, O na buaswn yn asyn i ti, neu yn un o'th gwn, yn hytrach nag yn gorph i ti, oblegid yna ti a gymmerasit fwy o ofal am danaf nag y gwnaethost. O garedigrwydd creulon! Ti a'm cofleidiaist fel hyn i angau, ac a'm porthaist i'r lladdfa. A'i dyma ffrwyth dy dynerwch tu ag ataf? Ai dyma 'r hyn a fedaf am dy lafur a'th ofal o'm plegid? Pa lesâd yw cyfoeth a phleserau yn awr, pan y mae y cyfrif ofnadwy hwn wedi dyfod, am yr hyn y'th rybyddiwyd yn ddyladwy? O fedd creulon, pa ham na chauasit dy safn arnaf am byth? pa ham na ddeliaist dy garcharor yn gaeth? pa ham y'm hysgydwaist allan pan oeddwn yn gorwedd yn llonydd ac yn mwynhâu gorphwysdra? Enaid melldigedig! pa ham nad arosaist yn dy le, yn amgylchedig gan fflamiau tân? pa ham y daethost yn ol i'm cymmeryd innau hefyd at farau y pwll? Ti a'm gwnaethost yn offeryn anghyfiawnder; ac yn awr y mae yn rhaid fy nhaflu i'r tân. Y tafod a ddefnyddiaist i watwar crefydd, tyngu, rhegu, dywedyd celwydd, enllibio, ac ymffrostio; ac a atteliaist rhag gogoneddu Duw: ac yn awr ni chaiff gymmaint a diferyn o ddwfr i'w oeri yn y fflamiau. Ti a atteliaist fy nghlustiau rhag gwrando y pregethau, oedd yn rhybyddio am y dydd hwn. Ti a fyddit yn cael allan ffyrdd a moddion i'w luddio rhag gwrando cynghorion, rhybyddion, a cheryddon prydlon. Ond pa ham na buasit yn rhwystro iddynt glywed swn yr udgorn dychrynllyd yma? pa ham na buasit yn gwibio ac yn ehedeg ymaith ar adenydd dychymmyg, fel drwy hyny y'm dëolasit tra y buasai yr orchwyliaeth frawychus yma yn myned heibio, fel y byddit arferol o wnëyd pan yr eisteddwn mewn pregeth, cymun, neu weddi, neu gymdeithas crefyddol; fel y buasai genyf yn awr mor lleied o deimlad o'r naill

ng oedd genyf gynt o'r llall? Ond och! rhaid i mi losgi byth oblegid dy hoffder o'th chwantau, dy anmharch ar bethau sanctaidd a'th gnawdolrwydd, dy anghrediniaeth a'th ragrith.' Eithr onis gall yr enaid atteb? O ysgerbwd diffaith, yn awr y'm gyrir yn ol i ti! O na buasit yn gorwedd fyth i bydru yn dy fedd! Onid oedd arnaf ddigon o benyd o'r blaen? a raid i mi gael fy uno a thi drachefn, fel gwedi ein cyssylltu ynghyd fel dau bren sych i'w bwrw i'r tân, y byddai i ddigofaint Duw ein llosgi yn danbeitiach? Wrth ofalu am danat ti, mi a ddinystriais fy hun. Dy gefn, dy fol, a boddhâd dy deimladau di, a'm handwyodd i. Mor fynych y maglwyd fi gan dy glustiau! mor fynych y'm hudwyd gan dy lygaid? I'th arbed di yr esgeulusais gyfleusderau i ymheddychu â Duw, y segurais y Sabbathau heibio, yr esgeulusais weddïo, yr eis i dy gwledd yn bytrach nag i dy galar; ac y dewisais wadu Crist, a gadael ei waith a'i achos yn y byd; ac felly y syrthiais yn aberth i'th esmwythdra adgas di. Pa bryd bynag y dechreuai fy nghydwybod ddeffro, ac yr anturiwn innau i feddwl am fy mhechodau, a'r trueni a deimlais er pan adewais di, ac yr ydwyf yn awr yn ei deimlo; tydi a'm tröit i oddiwrth y meddyliau hyn, ac a'm tynit ymaith i ddarbod drosot ti, gnawd gresynol! Wrth linynau sidanaidd dy nwydau cnawdol, y tynwyd fi i ddystryw yn groes i'm goleuni a'm cydwybod: ond yn awr y mae'r llinynau hyny wedi eu troi yn gadwynau heieirn, i'm dal dan ddigofaint dros byth. Och elw gorwael! Och bleserau melldigedig! oblegid pa rai y rhaid i mi orwedd byth yn y tywyllwch eithaf!' Ond ni thycia achwynion yr awr hono. "O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!"

Mewn perthynas i ansoddau cyrph yn yr adgyfodiad, mae yr apostol yn mynegi i ni, y cyfodir hwynt yn anllygredig, yn ogoneddus, yn nerthol, ac yn ysprydol, 1 Cor. xv. 42, 43, 44. "Efe a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth; efe a heuir mewn anmharch, ac a gyfodir mewn gogoniant; efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth; efe a heuir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph ysprydol."

*Yn gyntaf*, Fe gyfodir cyrph y saint yn anllygredig. Y maent yn bresennol fel cyrph ereill, yn bentwr o lygredd, yn

llawn o hadau afiechyd a marwolaeth; a phan fyddont feirw, y maent yn myned mor ffiaidd hyd yn nod gan eu cyfeillion anwylaf, fel y bydd yn rhaid eu claddu allan o'u golwg, mewn bedd, i bydru ac i falurio: ïe y mae doluriau a chlefydau ffiaidd yn gwneuthur rhai o honynt yn anolygus iawn hyd yn nod yn eu bywyd. Ond yn yr adgyfodiad, hwy a adawant holl hâd llygredd yn ol, yn y bedd; ac a gyfodant yn anllygredig, heb fod mwyach yn agored i'r anhwyldeb na'r afiechyd, na'r briw lleiaf, nac i farwolaeth ychwaith. Ni bydd byth mwyach na niweidiau allanol, nac achos o boenau tufewnol: nis teimlant hyny mwy: ïe hwy a gant ieuengctyd a grym diddarfod; heb fod hyth yn ddarostyngedig i'r adfeiliad yr oedd henaint yn ei ddwyn arnynt yn y bywyd hwn.

*Yn ail,* Hwy a fyddant yn gyrph gogoneddus; nid yn unig yn brydferth, yn hardd, ac yn lluniaidd, eithr yn llawn o ddysgleirdeb a gwychder. Nid yw'r gwyneb tecaf, na'r corph mwyaf lluniaidd, sydd yn awr i'w weled yn y byd, ddim i'w henwi mewn cymhariaeth i gorph y distadlaf o'r saint yn yr adgyfodiad; canys "yna y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul," Math. xiii. 43. Os oedd gwyneb Moses yn gor-ddysgleirio pan ddaeth i waered o'r mynydd; ac os oedd gwyneb Stephan fel gwyneb angel, pan y safodd o flaen y cynghor; pa faint mwy prydferth, gogoneddus, ac ardderchoglawn, fydd gwynebau y saint pan ddiosgant eu holl lygredigaeth, ac y dysgleiriant fel yr haul? Ond ystyriwch iad yw y prydferthwch hwn o eiddo y saint ddim yn cael ei yfyngu i'w gwynebau yn unig, eithr yn ymdaenu dros eu oll gyrph; canys y mae yr holl gorph yn cael ei gyfodi mewn gogoniant, ac yn un ffurf a chorph gogoneddus eu Harglwydd a'u Hiachawdwr; y'ngwedd-newidiad yr hwn yr oedd nid yn unig ei wyneb, ond hefyd "ei ddillad cyn wyned a'r goleuni," Math. xvii. 2. Beth bynag oedd anafau neu anffurfiadau cyrph y saint pan roddwyd hwynt yn y bedd, wedi dygwydd drwy ddamweiniau, yn eu bywyd, neu achosion dirgelaidd pan y ffurfiwyd hwynt yn y groth, hwy a gyfodant o'r bedd yn lân oddiwrthynt oll. Ond bwriwch fod nodau yr Arglwydd Iesu, creithiau neu ôl y briwiau a'r cleisiau a gafodd rhai o'r saint tra ar y ddaear, yn aros ar eu cyrph ar ol yr adgyfodiad; megys yr oedd ôl yr hoelion yn nghorph yr Arglwydd Iesu, ar ol ei adgyfodiad, byddai y nodau hyny ar

y saint yn arwyddion o ragoriaeth, ac yn ychwanegu at eu gogoniant, yn hytrach nag yn eu hanmhrydferthu. Ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn sicr na fydd llygaid Isaac yn dywyll, na Iacob yn gloff o'i glun; na Lea a'i llygaid yn weiniaid, na Mephibosheth yn gloff o'i draed; canys fel y tawdd yr eurych yr hen lestr methiedig, gan ei fwrw drachefn mewn mold newydd, a'i ddwyn allan mewn dysgleirdeb newydd; felly caiff y corph gwael, wedi ei falurio yn y bedd, ddyfod allan yn yr adgyfodiad, mewn perffaith degwch a llunieidd-dra prydweddol.

*Yn drydydd,* Hwy a fyddant yn gyrph neithol a grymus. Gan nad yw y dynion cryfaf ar y ddaear ond gweiniaid a marwol, gellir yn deilwng eu cyfrif yn llesg a dinerth: pa faint bynag yw eu nerth, buan y treulia ac y derfydd. Mae llawer o'r saint yn bresennol ag iddynt gyrph gwanach nag ereill: ond (gydâ golwg ar Zech. xii. 8.) "y llesgaf o honynt y dydd hwnw a fydd fel Dafydd, a thŷ Dafydd fydd fel Duw." Mae difinydd difrifol yn dywedyd y bydd un yn yr adgyfodiad yn gryfach na chant, ïe, na miloedd yn bresennol. Diammeu y bydd nerth y cyrph gogoneddus yn fawr, ac yn dra mawr wrth ystyried y cynnaliant ragorol dragywyddol bwys gogoniant. Nid yw y corph marwol mewn un modd yn gyfyddas i'r fath sefyllfa. A ddichon gormod llawenydd beri angau, cystal a gormod tristwch? Ac a ddichon corph marwol gynnal pwys gogoniant? A ddichon efe orsefyll mewn undeb ag enaid wedi ei lenwi â llawenydd y nef? Na ddichon yn sicr. Fe suddai corph marwol dan y fath lwyth, ac fe wnai y cyfryw lanwad i'r llestr pridd deilchioni yn chwilfriw. Mae yr ysgrythyr wedi mynegi i ni yn amlwg, "nas dichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw," (1 Cor. xv. 50.) hyny yw, yn eu cyflwr llesg presennol, ïe pe byddent gig a gwaed cawr. Pa mor gryfion y rhaid i'r llygaid corphorol fod, fel er tragywyddol gysur i'r enaid, y gallont edrych ar ogoniant ysplenydd y Ierusalem newydd, a chraffu yn ddiysgog ar ragorol ogoniant a dysgleirdeb y dyn Crist Iesu, yr Oen, yr hwn yw goleuni y ddinas hono, trigolion pa un a ddysgleiriant fel yr haul! Mae Arglwydd y nefoedd yn awr, o'i drugaredd, yn cadw gwyneb ei orsedd yn ol, ac yn taenu ei gwmwl drosti; fel na therfysger marwolion gan belydrau y gogoniant sydd yn dysgleirio oddiwrthi, Iob xxvi. 9. Ond y pryd hwnw fe symudir y llen, ac y nerthir hwythau i edrych

ırni, er eu hannrhaethol lawenydd. Mor rymus y rhaid i'w :yrph fod, y rhai ni orphwysant ddydd na nos; eithr yn ldibaid yn y deml nefol, yn canu ac yn clodfori Duw, heb udded, yr hyn, sydd wendid y mae marwolion llesg yn darostyngedig iddo, ond yn aumherthynol i'r cyrph gogneddus?

*Yn olaf,* Hwy a fyddant yn gyrph ysprydol. Nid am y ant eu troi yn ysprydion; eithr am y byddant yn ysprydol, o an eu hansoddau a'u galluoedd ysprydol Fe fydd y corph n hollol offerynol i'r enaid, yn ddarostyngedig iddo, ac yn ael ei lywodraethu ganddo; ac am hyny ni bydd yn rhwystr 'w fywiogrwydd, ac ni bydd chwant anianol yn fagl iddo. Ni bydd eisiau ei gadw i lawr, nac i'w lusgo i wasanaeth Duw. Mae y corph yn effeithio cymmaint ar yr enaid yn y ıywyd hwn, fel, yn iaith yr ysgrythyr, y dywedir ei fod yn ;nawdol: ond y pryd hwnw fe fydd y corph yn ysprydol, yn barod i wasanaethu yr enaid yn holl orchwylion y nefoedd, ac yn hyny yn unig; fel pe na byddai weithian ddim mwy o perthynas rhyngddo a'r ddaear na phe bai yn yspryd. Ni bydd arno ddim angen mwyach am gyfreidiau cynnaliaethol y bywyd hwn, megys, bwyd a dillad, a'r cyffelyb, Dad. vii. 16, "Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach." "Canys yn yr adgyfodiad nid ydynt yn gwreica, nac yn gwra, eithr y maent fel angylion Duw." Yna y bydd y saint yn gryfion heb fwyd a diod, yn gynhes heb ddillad, yn iolliach heb physygwriaeth, ac yn fywiog yn wastad heb gysgu un amser, ond yn "ei wasanaethu ef ddydd a nos yn ei deml," Dad. vii. 15. Ni bydd arnynt ddim mwy o eisiau y pethau hyn nag sydd ar ysprydion o'u heisiau. Hwy a fyddant mor gyflym ac mor fywiog ag ysprydion, ac o'r cyfansawdd mwyaf dianmhur. Y corph sydd yn awr yn drwsgl ac yn hwyrdrwn, a fydd y pryd hwnw yn hollol heinif. Ni bydd yno ddim o'r fath beth a phrudd-glwyf i drymhâu y galon, ac i lesghâu yr yspryd. Pa le bynag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl y saint fel cynnifer o eryrod. Nis treiddiaf yn mhellach i'r mater yma: Y dydd a'i dengys.

Mewn perthynas i ansoddau cyrph y rhai drygionus yn yr adgyfodiad, yr wyf yn gweled nad yw yr ysgrythyr yn dywëyd ond ychydig am danynt. Beth bynag fydd eu hanghen, ni chant gymmaint a diferyn o ddwfr i oeri eu tafodau, Luc

xxi. 24, 25. Beth bynag a aller ddywëyd am eu gwendid, y mae yn sicr y cynnelir hwynt byth mewn bywyd, fel y byddo raid iddynt farw bob amser: rhaid iddynt ddal i fynu, pa mor anewyllysgar bynag a fyddont, dan lwyth o ddigofaint, ac ni chant drengu dano. "Mwg eu poenedigaeth hwy sydd yn myned i fynu yn oes oesoedd; na nid ydynt hwy yn cael gorphwysdra ddydd na nos." Mae yn ddiammeu na chant gyfranogi o ogoniant a harddwch y saint. Mae eu holl ardderchogrwydd yn marw gydâ hwynt, ac nis cyfyd drachefn. Mae Daniel yn mynegi i ni " y deffroant i warth a dirmyg tragywyddol," pen. xii. 2. Mae cywilydd yn dilyn pechod, fel y mae y cysgod yn dilyn y corph: ond y mae y rhai drygionus yn y byd hwn yn rhodio yn y tywyllwch, ac yn fynych dan hug: eithr pan ddelo y Barnwr â thân fflamllyd, yn y dydd olaf, fe'u gwneir yn amlwg; fe gymmerir ymaith eu hug, a gwarth eu noethder a wneir yn eglur iddynt hwy eu hunain ac i ereill, ac a orchuddia eu hwynebau â chywilydd. Fe fydd eu cywilydd yn rhy ddwfn i allu gwrido: ond pob gwyneb a gasgl barddu, yn y dydd hwnw, pan yr elont allan o'u beddau fel drwg-weithredwyr o'r carchar i'r dienyddle. Y rhai prydferthaf, sydd yn ymfalchio yn harddwch eu cyrph, heb ystyried gwrthuni eu heneidiau, a ymddangosant y pryd hwnw mewn gwedd erchyll, ac â gwyneb-pryd cuchiog fel angau. Eu hedrychiad a fydd yn ddychrynllyd, ar olwg arnynt yn arswydus, yn dyfod o'u beddau fel ellyllon uffernol o'r pydew. Hwy a gyfodant hefyd i ddirmyg tragywyddol. Yna y byddant y creaduriad mwyaf dirmygus, wedi eu llenwi a dirmyg oddiwrth Dduw, fel llestri anmharch, beth bynag a fu y defnydd anrhydeddus a wnaethpwyd o honynt yn y byd hwn; ac fe'u llenwir hefyd a dirmyg oddiwrth ddynion. Byddant yn ddirmygus yngolwg y saint, ïe, y'ngolwg y rhai hyny o'r saint ag oedd yn eu hanrhydeddu yma, naill ai o herwydd eu buchel sefyllfa, a doniau Duw ynddynt, neu o herwydd eu bod o'r un natur ddynol a hwy eu hunain. Eithr yn y dydd hwnw ymddengys eu cyrph fel cynnifer o furgynod ffiaidd, a'r rhai a ant allan ac o edrychant arnynt gyd ag atgasrwydd; ïe, " byddant yn ffieidd-dra gan hob cnawd," Esay lxvi. 24. Y gair a gyfieithir yma ffieidd-dra, sydd yr un ag a gyfieithir yn y testun arall yn ddirmygus: ac y mae Esay a Daniel yn cyfeirio at yr un peth, sef, atgasrwydd y drygionus yn yr adgyfodiad. Hwy fyddant yn ffiaidd yngolwg eu gilydd. Ni bu y trueiniaid allan erioed mor serchog tu ag

lydd, ag y byddant y pryd hwnw yn atgas y'ngolwg
d; y cyfeillion anwylat mewn pechod a ddirmygant
ld: a'r gwyr drygionus, mawrion ac anrhydeddus,
hir gan eu deiliaid drygionus, eu gweinidogion a'u
lynion, mwy na'r dom yn yr heolydd.

*ydd* 1. O gysur i bobl Dduw. Mae athrawiaeth yr
iad yn ffynon o ddyddanwch a llawenydd i chwi:—
iwch am dani, O gredinwyr, pan fyddoch yn nhŷ
;wedi colli eich perthynasau duwiol, neu eich cy-
" fel na thristaoch, megys ereill, y rhai nid oes
it obaith;" canys chwi a gewch gyfarfod â hwynt
ı, 1 Thes. iv. 13, 14. Nid ydynt ond wedi gorwedd
i orphwys yn eu gwelyau dros enyd fechan, (Esay
ond yn moreu yr adgyfodiad hwy a ddeffroänt eil-
ac a ddeuant allan o'u beddau. Nid oedd y llestr i
nd ud garw, a llawer o aumburedd o fettel gwael
yr oedd yn rhy wan, yn rhy wael, ac yn rhy ddistadl
hôd, pa mor ddysglaer bynag oedd yn y tŷ isod. Yr
di agenu, ac wedi ei halogi: ac am hyny yr oedd yn
haid ei ail doddi, fel y byddai iddo gael ei buro, a'i lunio
gogoneddus. Aroswch ychydig, a chwi a gwech ei
ı dyfod allan o ffwrnes y ddaear, yn ddysgleiriach
; ie, fel yr haul yn myned rhagddo yn ei nerth. A
ch chwi eich babanod yn y bedd? chwi a gewch eu
drachefn. Mae eich Duw chwi yn galw ei hun yn
'ch had; yr hyn, yn ol eglurhâd ein Hiachawdwr,
sicrhâu adgyfodiad gogoneddus y corph. Am hyny,
i'r cyfammod y darfu chwi ei gofleidio, drosoch eich
a thros eich plant, y rhai sydd yn awr yn gorwedd
idd, gysuro eich calon, yn y gobaith gorfoleddus, y
hwy yn ogoneddus, drwy rinwedd y cyfammod hwnw;
l mwyach yn blant o oed, eithr wedi eu dwyn i
faintioli, megys y tybir yn gyffredinol. Na ddi-
chwi oblegid corph gwan ac afiach; y mae dydd yn
y byddant yn gwbl iach. Yn yr adgyfodiad, ni bydd
ìus yn ddarostyngedig i'w *fynych wendid;* ei gorph,
oedd wan ac afiach o'i ieuengctyd, *a gyfodir mewn*
ɔydd Lazarus yn iach ddianaf, pan gyfodir ei gorph
*gredig.* Fe allai mai prin y gelli fyned ddeucant o
gyfarfod yr Arglwydd yn yr ordeiniadau cyhoedd;

etto mae'r dydd yn dyfod pan na bydd dy gorph yn attaliad i ti mwy, eithr ti a gyfarfyddi yr Arglwydd yn yr awyr, 1 Thes. iv. 17. Fe fydd y saint yn dyfod o'r bedd yn debyg fel yr Israeliaid yn dyfod o'r Aipht, Psal. cv. 37. "Heb un llesg yn y llwythau." A oes i ti gorph gwrthun neu afluniaidd? Y mae yna ogoniant o'th fewn a esyd bob peth yn drefnus oddi allan y pryd hwnw; yn ol holl ddymuniad dy galon. Efe a gyfyd yn gorph gogoneddus, prydferth, hardd, a lluniaidd. Os aiff anmhrydferthwch a gwrthuni gydag ef i'r bedd, ni ddaw dim o honynt i'w ganlyn oddiyno. O na fyddai y rhei'ny sydd mor awyddus am fod yn hardd ac yn deg, a llai o brysurdeb arnynt i wneuthur eu hunain felly drwy eu dyfais ynfyd a phechadurus; eithr ystyried a dysgu y dull nefol o brydferthu y corph, gan ymdrechu yn awr i ddyfod yn ogoneddus o fewn, drwy rasusau yr Ysbryd; hyn o'r diwedd a'u gwnai yn serchiadol ac yn brydferth yn dragywydd. Gwir yw y bydd raid i ti, O gredadyn, ymaflyd ag angau, a chael y codwm cyntaf; eithr ti a gyfodi drachefn, ac a orfyddi yn y diwedd. Rhaid it' fyned i waered i'r bedd, ac er y bydd yn *hir gartref* i ti, eto ni bydd yn dragywyddol gartref i ti. Ni chai glywed llais dy gyfeillion yno; ond ti a gai glywed llais Crist yno. Fe allai y cymmerir di yno gyd â galar, ond ti a ddeui oddiyno mewn llawenydd. Diau y gedy dy gyfeillion di yno; ond ni'th âd dy Dduw di. Yr hyn a ddywedodd Duw wrth Iacob y'nghylch ei fynediad i waered i'r Aipht, (Gen. xlvi. 3, 4.) y mae yn ei ddywedyd wrthyt tithau wrth dy fyned i waered i'r bedd; "Nac ofna fyned i waered—myfi a af i waered gyd â thi,—a myfi gan ddwyn a'th ddygaf i fynu drachefn." O gysur sylweddol! O obaith gogoneddus! "Am hyny diddenwch eich hunain â'r ymadroddion hyn," 1 Thes. iv. 18.

Defnydd 11. O ddychryn i'r holl rai diadgenedledig. Chwychwi y rhai sydd etto yn eich cyflwr naturiol, edrychwch ar y gyfran yma o gyflwr tragywyddol; ac ystyriwch beth fydd eich rhan chwi ynddo, os na ddygir chwi mewn amser i gyflwr o râs. Meddwl, O bechadur, am y diwrnod hwnw, pan seinio yr udgorn, wrth lef pa un y dryllir holltau y pwll, ac yr egyr dôrau 'r bedd, ac y rhydd y dyfnderoedd difàol i fynu eu meirw, ac y bwria y ddaear i fynu yr eiddo hithau: ac y gollwng angau ei garcharorion yn rhydd yn mhob lle,

gydâ braw; ac yr ail unir dy enaid a'th gorph truenus, i'w gosod ger bron brawdle Duw. Yna y rhoddit fil o fydoedd pe baent ar dy helw, ymaith yn llawen ar yr ammod i ti gael gorwedd yn y bedd, gydâ 'r ganfed ran o'r esmwythder y gorweddaist gartref lawer gwaith ar ddydd yr Arglwydd: neu os na chait hyny, am gael bod yn ddim ond edrychwr a'r orchwylion y diwrnod hwnw; megys y buost ar lawer odfa sobr, a gwledd orfoleddus yr efengyl: neu ynte os nad allid pwrcasu y cyfryw arbediad, ti a'u rhoddit am i fynydd neu graig syrthio arnat, a'th guddio o wydd yr Oen. O! fel y mae dynion wedi eu llygad-tynu i ofer-dreulio amser gwerthfawr eu bywyd, y'mron mor ddiofal ynghylch marw, a phe byddent yr anifeiliaid a ddyfethir! Bydd rhai yn arfer pennodi y lle i roddi eu cyrph i orwedd; heb erioed ystyried a fydd y rhei'ny yn welyau y cant ddeffro o honynt mewn llawenydd, yn moreu yr adgyfodiad, neu ynte yn garcharau o ba rai eu dygir allan i dderbyn y ddedryd ofnadwy. Cofiwch mai yn awr yw eich hau chwi; ac megys yr hauoch, felly y medwch. Mae amser hau Duw yn dechreu yn angau; ac yn yr adgyfodiad y caiff cyrph y rhai drygionus, y rhai a hauwyd yn llawn o bechodau, y rhai a orweddant gydâ hwynt yn y pridd, (Iob xx. 11.) gyfodi drachefn yn bechadurus, yn druenus, ac yn salw. Eich cyrph, y rhai sydd yn awr yn arfau pechod, a rydd yr Arglwydd heibio yn angau i'w cadw i'r tân; ac yn yr adgyfodiad, efe a'u dwg allan i'w llosgi. Y corph hwnw ar nid yw yn awr yn gwasanaethu Duw, ond yn cael ei gamarferyd mewn aflendid ac anlladrwydd, a gyfodir y pryd hwnw yn ei holl ddiffeithder, i lettya o hono rhagllaw gydâg ysprydion aflan byth. Bydd corph y meddwyn yn hongcian am byth, o herwydd gwin digofaint Duw, yr hwn a dywelltir iddo yn ddigymmysg. Y rhai sydd yn awr yn difyru eu hunain mewn gloddest, a gant ymdreiglo mewn dull arall; pan, yn lle eu caneuon a'u peroriaeth, y cant glywed swn yr udgorn diweddaf. Mae llawer yn ymboeni eu cyrph er mwyn elw bydol; y byddai yn anhawdd ganddynt eu blino er budd i'w heneidiau: drwy lafurio yn ddygn afresymol, hwy a'u cwbl anghymhwysant i wasanaeth Duw; a chwedi darfod, hwy a'i cyfrifant yn rheswm da i esgeuluso dyledswydd, eu bod eisoes wedi myned yn rhy flinedig gyd â gorchwylion ereill: ond mae'r dydd yn dyfod, pan y gorfydd iddynt oddef llafur trwmaf tebyg... Hwy a gerddant lawer milltir er mwyn y bol a'r

cefn, y rhai nid ant hanner milltir er budd i'w heneidiau anfarwol; bydd y rhai sydd drwy 'r wythnos yn weddol iach, erbyn y sabbath yn glafaidd a gwanllyd. Ond pan leisio 'r udgorn, fe ddaw y meirw o byd i'w traed, ac ni bydd yr un yn eisiau yn y gynnulleidfa fawr hòno. Pan y bydd cyrph y saint yn dysgleirio fel yr haul, bydd dychrynllyd yr olwg ar eu herlidwyr. Dychrynllyd fyd cyflwr y rhai gynt a gauasant y saint mewn carcharau budron, gan eu gwaradwyddo, eu llosgi yn lludw, eu crogi, a gosod i fynu eu penau a'u dwylaw mewn manau cyhoedd, i beri i ereill ofni ffordd cyfiawnder yr hon y dyoddefodd y rhai hyny o'i phlegid. Llawer gwyneb ag sydd yn awr yn deg a fydd y pryd hwnw yn casgla parddu. Nis hoffir ac nis mynwesir mwyach am yr harddwch yr hwn sydd a phryf wrth ei wraidd a'i try yn ffiaidd ac yn afluniaidd. Och! pa fath harddwch yw hwnw, ag y mae calon anghenfilaidd, afluniaidd ac afraslon o dano? Beth ydyw hwn ond paent salw, adliw disylwedd, yr hwn á âd y corph o gymmaint yn hyllach o flaen y tân fflamllyd, yn mha un yr ymddengys y barnwr o'r nef, " gan roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i'r efengyl," 1 Thes. i. 7, 8. Fe'u dïosgir o'u holl addurniadau, fel na chaffont gadechyn i guddio eu noethni; ond bydd eu celanedd yn ffieid-dra yngolwg pob cnawd, yr hyn a bair i harddwch a gogoniant y rhai cyfiawn ymddangos yn llawer mwy dysglaer.

Yn awr yw yr amser i chwi gael gafael ar ran yn adgyfodiad y rhai cyfiawn. Ac os chwennychech gael hyny, ymunwch ag Iesu Grist drwy ffydd, gan ymgyfodi yn ysprydol o'ch pechodau, a gogoneddu Duw yn eich cyrph. Efe " yw yr adgyfodiad a'r bywyd," Ioan xi. 25. Os bydd eich cyrph yn aelodau o Grist, ac yn demlau yr Yspryd Glân; mae yn ddiammau y cyfodant mewn gogoniant. Ewch i'r arch yn awr, a chwi a ddeuwch allan mewn llawenydd mewn byd newydd. Cyfodwch o'ch pechodau; dïosgwch y bedd-wisgoedd hyn, bwriwch ymaith eich chwantau gynt. Pa fodd y gall neb ddychymmygu y bydd i'r rhai sydd yn parhâu yn farw tra y byddont byw, ddyfod allan, yn y dydd olaf, *i adgyfodiad bywyd?* Eithr hyny a fydd braint y rhai oll a gyssegrant eu cyrph a'u heneidiau i'r Arglwydd drwy ffydd, i'w ogoneddu ef â'u cyrph yn gystal a'u heneidiau; gan fyw a gweithredu iddo ef, ac erddo ef; ïe, a dyoddef drosto ef hefyd, pan y galwo efe arnynt i wneuthur hyny.

# PEN IV.

## Y FARN GYFFREDINOL.

MATH. xxv. 31, 32, 33, 34, 41, 46.

*ab y dyn pan ddel yn ei ogoniant, a'r holl angylion ctaidd gydag ef, yna yr eistedd ar orseddfaingc ei niant; a chyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd e efe a'u didola hwynt oddiwrth eu gilydd, megys y di- a'r bugail y defaid oddiwrth y geifr: ac a esyd y defaid ei ddeheulaw, ond y geifr ar yr aswy. Yna y dywed y enin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuwch, chwi fendi- ligion fy Nhad, &c. Wrth y rhai a fyddant ar y llaw vy, Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, &c.—A'r rhai hyn ant i gosbedigaeth dragywyddol; ond y rhai cyfiawn i yd tragywyddol.*

EDI i'r meirw gael eu cyfodi, ac i'r rhai a fyddo yn byw delo y Barnwr gael eu newid, yna y canlyn y farn dinol, yr hon a ddarlunir yn eglur ac yn ofnadwy yn y n yma o'r ysgrythyr; lle y cymmerwn sylw ar y pethau nol. (1.) Dyfodiad y Barnwr; " A Mab y dyn, pan yn ei ogoniant," &c. Y Barnwr yw Iesu Grist, Mab ; yr hwn, drwy ei hollalluowgrwydd, fel y mae yn v, a gyfyd y meirw. Efe hefyd a elwir, y Brenin, adn. Oblegid fod barnu y meirw yn weithred berthynol i d freninol y Cyfryngwr, efe a ddaw mewn gogoniant; goneddus yn ei berson, a gosgordd-lu gogoneddus yn ei n, sef yr holl angylion sanctaidd, i weini iddo ar yr sur difrifol hwn. (2.) Y Barnwr yn esgyn i'r orsedd. ei fod ef yn Frenin, am hyny gorsedd freninol ydyw, edd ogoneddus; " Efe a eistedd ar orseddfaingc ei ogon-" adn. 31. (3.) Cyd-gynnulliad y pleidiau. Y rhai a fydd yr holl genedloedd: pawb a phob un, mawr ach, o bob cenedl, a fu, y sy, ac a fydd ar wyneb y

ddaear; hwy oll a gesglir o'i flaen ef; ac a osodir ger bron ei frawdle ef. (4.) Eu didoliad. Efe a ddidola y defaid etholedig o blith y geifr gwrthodedig, ac a esyd bob un ar wahan oddiwrth eu gilydd: fel bugail a bortho ei ddefaid a'r geifr gyd â'u gilyd ar hyd y dydd, ac a'u didola y nos, adn. 32. Y duwiol a esyd efe ar ei ddeheulaw, fel y lle mwyaf anrhydeddus; a'r rhai drygionus ar yr aswy, adn. 33. Etto fe fydd y ddwy blaid o'i flaen ef, adn. 32. Ymddengys fod hyn yn cyfeirio at arferiad yn y llysoedd Iuddewig; lle yr eisteddai un ar deheulaw y barnwyr, yr hwn a ysgrifenai ddedryd y gollyngdod ac un arall ar eu haswy yr hwn a ysgrifenai ddedryd y collfarniad. (5.) Dedryd y pleidiau, a hyny yn ol eu gweithredoedd; y cyfiawn a ryddheir, a'r drygionus a gondemnir, adn. 34, 41. *Yn olaf*, Cyflawniad y ddwy ddedryd, drwy yru y drygionus ymaith i uffern, a chymmeryd y rhai cyfiawn i'r nefoedd adn. 45.

---

## ATHRAWIAETH.

### *Fe fydd Barn Gyffredinol.*

Yr athrawiaeth yma yn (1.) a Gadarnhaf; (2.) a Eglurhaf; ac yn (3.) a Gymhwysaf.

1. I gadarnhâu y gwirionedd mawr hwn, y bydd barn gyffredinol;

*Yn gyntaf*, Y mae hyn yn amlwg oddiwrth dystiolaethau eglur yr ysgrythyrau. Fe rybyddiwyd y byd yn mhob oes mewn perthynas iddo Enoch, cyn y diluw, a ddysgodd hyn yn ei brophwydoliaeth, a adroddir udas 14, 15. "Wele, y mae yr Arglwydd yn dyfod gydâ myrddiwn o'i saint, i wneuthur barn yn erbyn pawb," &c. Mae Daniel yn ei ddisgrifio, pen. vii. 9, 10, "Edrychais hyd oni fwriwyd i lawr y goreuddfeydd, a'r Hen ddihenydd a eisteddodd; ei wisg oedd cyn wyned a'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur; ei orseddfa yn fflam dân, a'i olwynion yn dân poeth. Afon danllyd oedd yn rhedeg, ac yn dyfod allan oddi ger ei fron ef: mil o filoedd a'i gwasanaethent, a myrdd fyrddiwn a safent ger ei fron: y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau."

Mae yr Apostol yn dra eglur yn Act. xvii. 31, " Efe a osododd ddiwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe." Gwel Math. xvi. 27. 2 Cor. v. 10. 2 Thes. 1. 7—10. Dad. xx. 11—15. Mae Duw nid yn unig wedi ei ddywedyd, ond hefyd wedi ei dyngu, Rhuf. xiv. 10, 11, " Canys gosodir ni oll ger bron gorseddfainge Crist. Canys y mae yn ysgrifenedig, Byw wyf fi, medd yr Arglwydd; pob glin a blyga i mi, a phob tafod a gyffesa i Dduw." Felly y mae gwirionedd Duw wedi ei wystlo yn ddifrifol.

*Yn ail,* Mae uniondeb cyfiawnder, a daioni Duw yn galw am y farn o angenrheidrwydd, fel y mae efe yn ben-llywodraethwr y byd, yn gymmaint a'u bod yn gofyn ei bod yn dda ar y cyfiawn ac yn ddrwg ar yr anwir. Er hyny, mynych yr ydym yn awr yn gweled anwiredd yn dderchafedig, a gwirionedd a chyfiawnder yn syrthio yn yr heol; duwioldeb a orthrymir, tra y mae drwg-fuchedd ac annuwioldeb yn fuddugoliaethus. Mae hyn yn beth mor gyffredin fel y mae yn rhaid i bob un sydd yn dewis ffordd sancteiddrwydd ei chydbrisio â cholli yr hyn oll sydd ganddo, a'r hyn a ddichon y byd gymmeryd oddiarno, Luc xiv. 26, " Os daw neb attaf fi, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddysgybl i mi." Ond y mae yn anghytunol â chyfiawnder a daioni Duw fod amgylchiadau dynion yn parhâu o hyd yn yr agwedd yma, fel y maent i'w gweled o'r naill genedlaeth i'r llall; eithr bod i bob dyn gael ei wobrwyo yn ol ei weithredoedd: a chan na wneir hyny yn y bywyd hwn, mae yn rhaid bod barn i ddyfod; " Canys cyfiawn yw ger bron Duw, dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi, ac i chwithau y rhai a gystuddir, esmwythdra, gydâ ni, yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef," 2 Thes. i. 6, 7. Fe ddaw diwrnod pan y caiff pethau eu cyfnewid; ac y caiff y rhai drygionus eu galw i roddi cyfrif am eu holl bechodau, ac i ddyoddef y gospedigaeth ddyledus am danynt; ac y caiff y duwiolion fod yn llwyddiannus; canys, fel y mae yr apostol yn ymresymu dros adgyfodiad dedwydd y saint, " Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r holl ddynion ydym ni," 1 Cor. xv. 19 Mae yn wir fod Duw weithiau yn cospi y drygionus yn y bywyd hwn, fel y gwypo dynion ei fod yn Dduw a farn ar y ddaear: ond er hyny y mae llawer o ddryg-

ioni yn aros heb ei gospi, ac heb ei ddadguddio, yr hyn sydd yn wystl o farn i ddyfod. Pe na chospid neb o'r rhai drygionus yma, hwy a benderfynent, fod Duw wedi gadael y ddaear; pe cospid hwy oll yma, byddai dynion yn dueddol i feddwl na bydd dim cyfrif yn ol llaw: am hyny, drwy ddoethineb Duw, fe gospir rhai, ac ni chospir ereill. Weithiau y mae yr Arglwydd yn taro pechaduriaid ar y weithred o bechu; i ddangos i'r byd ei fod ef yn dyst i'w holl ddrygioni, ac y geilw efe hwy i gyfrif am dano. Weithiau y mae efe yn oedi yn hir cyn taro, fel y dangoso i'r byd nad yw efe yn anghofio drwg weithredoedd dynion, er nad yw yn eu cospi yn ddioed. Heblaw hyn oll, mae pechodau llawer yn byw ar eu hol, ac y mae 'r ffynon anmhur, a agorwyd ganddynt, yn rhedeg yn hir ar ol iddynt hwy feirw a myned ymaith. Megys yn amgylchiad Ieroboam brenin cyntaf y deg llwyth, pechod yr hwn a redodd ymlaen o hyd nes y darfu y deyrnas hono, 2 Bren. xvii. 22, 23. "Meibion Israel a rodiasant yn holl bechodau Ieroboam, y rhai a wnaeth efe, heb gilio oddi wrthynt: nes i'r Arglwydd fwrw Israel allan o'i olwg."

*Yn d ydydd,* Y mae adgyfodiad Crist yn brawf sicr y bydd dydd barn. Mae Paul yn arferyd y rheswm hwn i argyhoeddi yr Atheniaid, y barna Crist y byd; gan roddi ffydd (medd efe) i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw," Act. xvii. 31. Mae y Barnwr wedi ei enwi eisoes, ei fraint-lythyr wedi ei ysgrifenu a'i selio, ïe, ac wedi ei ddarllen i bob dyn, yn ei adgyfodiad ef oddiwrth y meirw. Drwy hyn y mae Duw yn rhoddi ffydd i ni am dano, (ar ymyl y ddalen, *rhoddi sicrwydd*). Trwy gyfodi Crist oddiwrth y meirw, efe a ddangosodd ei warant ef fel Barnwr y byd. Pan, yn nyddiau ei ddarostyngiad, y gosodwyd ef ger bron brawdle, y cyhuddwyd ef, ac yr achwynwyd arno, ac yr euog farnwyd ef gan ddynion; efe a fynegodd iddynt yn amlwg am y farn hon, ac mai efe ei hun a fyddai y Barnwr, Math. xxvi. 64. "Ar ol hyn y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymylau y nef." Ac yn awr, gan ddarfod ei adgyfodi ef o feirw, er iddo gael ei farnu yn gablwr am ddywedyd hyny; onid yw yn brawf anwrthwynebol, o'r nef, o wirionedd yr hyn a ddywedodd? Ac heblaw hyny, dyma un o brif ddybenion marwolaeth ac adgyfodiad Crist; oblegid er mwyn hyn y bu farw Crist, ac yr adgyfododd, ac y bu fyw drachefn hefyd, fel yr arglwyddiaethai, (h. y. fel y byddai yn Arglwydd Farnwr, fel y mae

yn amlwg oddiwrth y geiriau o'r blaen) ar y meirw a'r byw hefyd," Rhuf. xiv. 9.

*Yn olaf*, Mae pob dyn yn dwyn gydag ef dystiolaeth o hyn yn ei fynwes ei hun, Rhuf. ii. 15, " Y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau, a'u cydwybod yn cyd dystiolaethu, a'u meddyliau yn cyhuddo eu gilydd neu yn esgusodi." Mae brawdle oddifewn i bob dyn; cydwybod yw 'r cyhuddwr, y tyst, a'r barnwr, yn rhwymo y pechadur i farn Duw. Y mae hyn yn llenwi yr edyn mwyaf penrhydd â dychryn a chnofeydd tufewnol pan y cyflawno ryw drosedd ysgeler; ac mewn effaith yn ei wysio i atteb am dano o flaen barnwr byw a meirw. Ië y mae yn gwneyd hyn pan fyddo r trosedd yn ddirgel ac yn guddiedig oddiwrth lygaid pob dyn byw. Y mae yn cyrhaedd y rhai'ny nad all cyfreithiau dynion mo'u cyrhaedd, o herwydd cymmaint eu dichell. Pan ddiango dynion rhag barn eu cyd-greaduriaid; etto, elont i'r lle y mynont mae cydwybod fel swyddog prif Farnwyr, yn cadw gafael ynddynt, ac yn eu dal yn ei gadwynau i farnedigaeth y dydd mawr. A pha un bynag a wnelont a'i diangc rhag cosp dynion, neu syrthio yn llaw, cyfiawnder cyhoeddus pan y byddont fod angau yn nesâu, maent yn teimlo o'u mewn arswyd rhag y cyfrif sydd i ddyfod; ac y maent yn gorfod gwrando ag ef yn yr oriau mwyaf difrifol hyn o'u bywyd. Ac oes rhai heb ddim o hyn yn ymddangos ynddynt, nid oes genym ddim sail amgenach oddiar hyny i gasglu i'r gwrthwyneb, nag sydd genym i gasglu nad oes dim poen ar ddynion oblegid nad ydynt yn gruddfan; na bod marw ond megys ellwair, oblegid bod rhai yn ymddangos yn ddiystyr o hono el y cyfryw. Fe ellir rhoi gwyneb da ar gydwybod ddrwg. pha mwyaf anobeithiol a fyddo cyflwr dynion, lleiaf all o wymau y maent yn dybied arnynt eu hunain i sylwi ar eu cyflwr a'u hamgylchiad. Ond pob un a chwilio ei hun yn difrifol, a gaiff ynddo ei hun dystiolaeth am y farn a fydd. Nid oedd hyd yn nod y cenedloedd ddim heb ddrych-feddwl o hyn, er eu bod yn ei gymmysgu â'u dychymmygion eu hunain. Am hyny, er bod rhai o'r Atheniaid, pan glywsant am yr adgyfodiad, yn gwatwar, Act xvii. 32, etto nid oes dim son am bod yn gwatwar pan y clywsant am y farn gyffredinol, ad. 31.

II. Tu ag at eglurhâu, dichon y pethau canlynol wasanaethu i roddi golygiad ar natur gorchwylion y dydd mawr

mawr

*Yn gyntaf,* Duw a farna y byd drwy Iesu Grist. "Efe a farna y byd mewn cyfiawnder, trwy 'r gwr a ordeiniodd efe," Act. xvii 31. Y Salmydd a ddywed i ni, "Fod Duw ei hun yn Farnwr," Psal l 6. Mae y Drindod lan fendigaid, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glan yn Farnwr o ran awdurdod cyfreithiol, arglwyddiaeth, a nerth; eithr y Mab wedi ymgnawdoli ydyw y barnwr, o ran goruchwyliaeth ac ymarferiad penodol o'r gallu hwnw Fe gyflawnir gorchwylion y farn ganddo ef, fel Cyfryngwr breninol; canys y mae ganddo awdurdod dirprwyol i farnu oddiwrth y Tad, fel ei was, ei frenin, yr hwn "a osododd ar Sïon ei fynydd sanctaidd," (Psal. ii. 6), ac iddo ef "y rhoddodd efe bob barn," Ioan v. 22. Y mae hyn yn rhan o dderchafiad y Cyfryngwr, a roddir iddo o herwydd ei ymddarostyngiad gwirfoddol, Phil. ii. 8, 9, 10, "Efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe angau y groes. O herwydd pa ham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw," (*h. y.* gallu ac awdwrdod ar bawb, sef,) "fel yn enw Iesu, (nid yr enw Iesu; nid yw hwnw yn enw goruwch pob enw, gan ei fod yn gyffredin i ereill, megys Iustus, Col. iv. 11. a Iosua, Heb. iv. 8.) y plygai pob glin." Yr hyn a eglurir gan yr apostol ei hun, yn y geiriau "sefyll ger bron gorsedd-faingc Crist," Rhuf. xiv. 10, 11. Felly yr hwn a farnwyd ac a gondemniwyd gan ddynion, a fydd Farnydd dynion ac angylion.

*Yn ail,* Iesu Grist y barnwr, a ddisgyn o'r nef i'r awyr, (1 Thes. iv. 16, 17.) a ddaw "ar gymylau y nef, gyda â nerth a gogoniant mawr," Math. xxiv. 30. Bydd ei ddyfodiad hwn yn syndod dirfawr i'r byd, yr hwn ar ei ddyodiad a fydd mewn dwfn ddiofalwch: y morwynion ffol yn huno, a'r rhai call yn hepian. Y pryd hwnw y bydd mawr lolldest a llygredd yn y byd, heb fawr o sobrwydd na gwyliadwriaeth; lliaws mawr o drafferthion bydol, ac ychydig iawn o ffydd a sancteiddrwydd. "Ac megys y bu yn nyddiau Noah, felly y bydd hefyd yn nyddiau Mab y dyn. Yr oeddynt yn bwyta, yn yfed, yn gwreica, yn gwra, hyd y dydd yr aeth Noah i mewn i'r arch; a daeth y diluw; ac a'u dyfethodd hwynt oll Yr un modd hefyd ag y bu yn nyddiau Lot: yr oeddynt yn bwyta, yn yfed, yn prynu, yn gwerthu, yn plannu, yn adeiladu.—Fel hyn y bydd yn y dydd y dadguddir Mab y dyn," Luc xvii. 26, 27, 28, 30. Fe oddiwedda dyfodiad y Barnwr rai yn y marchnadoedd, yn prynu ac

yn gwerthu; rhai wrth eu byrddau, yn bwyta, ac yn yfed, yn llawen; ereill yn brysur yn gwneyd planfeydd newyddion; rhai yn adeiladu tai newyddion; ïe bydd dydd prïodas rhai, yn ddydd barn iddynt hwy ac i bawb. Ond pan ddelo 'r Barnwr, fe ddyrysir y marchnadoedd; fe deifl y prynwr ymaith yr hyn a brynodd; fe ollynga y gwerthwr i lawr ei arian; fe'u cyfodir oddiwrth eu byrddau ac fe ddiffoddir eu digrifwch ar darawiad amrant: er dodi y planigyn yn y ddaear, ni chaiff y garddwr aros i fwrw pridd o'i amgylch; fe deifl y crefftwyr ymaith eu harfau, pan na bo'r tŷ ond ar hanner ei wneyd, ac ni ofala y perchenog am dano mwyach; rhaid i'r prïod-fab, y brïod-ferch, a'u cyfeillion adael y neithior, ac ymddangos o flaen y frawdle: canys, "Wele, y mae efe yn dyfod gyd â'r cymylau; a phob llygad a'i gwel ef," Dad i. 7. Efe a ddaw yn dra ardderchog; oblegid efe a ddaw, yn ngogoniant ei Dad, gyd â'r angylion sanctaidd," Marc viii. 38. Pan ymddangosodd yn y cnawd, i farw dros bechaduriaid, fe roddodd heibio wisgoedd ei ogoniant, fe'i dirmygwyd ac fe'i gwrthodwyd gan ddynion; ond pan ddel drachefn, i farnu 'r byd, fe fydd ei ogoniant gweledig a'i anrhydedd yn gytryw, fel y bwria orchudd tragywyddol dros bob gogoniant daearol, ac a leinw ei ddynion penaf ag ofn a dychryn. Ni bu gan dywysog na phenadur erioed y fath osgordd-lu ardderchog, ag a fydd yn canlyn y Barnwr hwn: fe ddaw yr holl angylion sanctaidd gydag ef, er ei anrhydedd ac i'w wasanaeth. Yna efe yr hwn a arweiniwyd at y groes gan fintai o filwyr, a ddaw i'r frawdle, nid â lliaws o lu nefol, ond â'r holl lu o angylion; "a'r holl angylion sanctaidd," medd y testun.

*Yn drydydd,* Ar ddyfodiad y Barnwr, rhoddir yr wŷs i'r pleidiau, drwy sain yr udgorn diweddaf; wrth ba un y cyfyd y meirw, ac y newidir y rhai byw: am yr hyn y soniwyd o'r blaen, 1 Thes. iv. 16, 17. O udgorn croch, a glywir ar unwaith o bob congl i'r ddaear a'r môr! O lef aruthrol, yr hon nid yn unig a gyffry y rhai sy yn cysgu yn llwch y ddaear, eithr a'u deffry yn effeithiol, ac a'u cyfyd o'u cwsg, ac a'u dyrcha o farwolaeth! Pe dadseiniai udgyrn yn awr, pe curai tabyrddau, pe crochlefai milwyr ffrochwyllt, gan ladd dynion; gwragedd a phlant yn rhedeg ac yn gwaeddi, a'r archolledig yn gruddfan ac yn marw; ni aflonyddai hyny ddim ar y rhai sydd yn y beddau mwy na phe bai y byd mewn llawn llonyddwch. Ië pe bai gwyntoedd tymhestlog yn bwrw i lawr y

derw uchel-frig, a'r moroedd yn rhuo ac yn llyngcu i fynu y llongau, y taranau erchyllaf yn tramwyo y nefoedd, mellt yn flamio o bob parth, y ddaear yn crynu, yn siglo, yn ymagor, ac yn llyngcu dinasoedd cyfain, ac yn claddu lluoedd ar unwaith; fe fyddai 'r meirw er y cwbl yn mwynhâu cyflawn orphwysdra, ac yn cysgu mor drwm yn y llwch, er symudo eu llwch hwynt o'i le. Ond wrth sain yr udgorn hwy a ddeffroant oll. Nis gallant gysgu dim yn hwy na'r boreu hwnw: pan ddaw 'r amser i ben y rhaid barnu y meirw, rhaid iddynt ddyfod o'u beddau, ac ymddangos o flaen y Barnwr.

*Yn bedwerydd.* Y Barnwr a eistedd ar yr orsedd; efe a eistedd ar orsedd-faingc ei ogoniant. Fe safodd ef ei hun o flaen brawdle unwaith ar y ddaear, ac a euog-farnwyd fel drwg weithredwr: ond yna yr eistedd efe ar ei orsedd-faingc ei hun, ac a farna y byd. Unwaith fe fu efe dan hoelion ar y groes, wedi ei orchuddio â gwaradwydd: ond yna yr eistedd efe ar orsedd gogoniant. Pa beth a fydd yr orsedd hon, pa un a'i cwmwl dysclaer, a'i pa beth, nis ymofynaf. Fe gaiff ein llygaid atteb y gofyniad hwn yn gyflawn. Ioan "a welodd orsedd wen fawr," Dad. xx. 11. "Ei orseddfa (medd Daniel) yn fflam dân, a'i olwynion yn dân poeth," pen vii. 9. Beth bynag a fydd, y mae yn ddiammeu y bydd yn orsedd ogoneddus annhraethol; mewn cymhariaeth i'r hon, nid yw yr orsedd fwyaf gogoneddus ar y ddaear ond megys eisteddfa ar domen; a bydd yr olwg arni yn gymmaint syndod i freninoedd, y rhai a fuant yn eistedd ar orseddfâu yn y bywyd yma, ag i'r cardotwyr a eisteddant ar domenau. Hi a fydd yn orsedd, o ran gwychder ac ardderchogrwydd yn gyfattebol i fawrhydi yr hwn a eistedd arni. Ni bu gan farnydd erioed y fath orsedd, ac ni bu ar orsedd erioed y fath farnydd.

Gan adael heibio ymofyn am natur yr orsedd hyd y dydd hwnw, mae yn fwy perthynol i ni ystyried pa fath farnydd a fydd yn eistedd arni; am yr hyn nid ydym wedi ein gadael i ddychymmygion ansicr. Fe fydd y Barnwr ar ei orsedd, (1.) Yn Farnwr gweledig, gweledig i lygaid ein cyrph, Dad. i. 17, "Pob llygad a'i gwel ef." Pan y rhoddodd Duw y gyfraith ar Sinai, ni welodd y bobl lun dim, ond yn unig clywed llais; ond pan alwo efe y byd i roddi cyfrif, pa fodd y cadwasant ei gyfraith; gan mai y dyn Crist fydd y barnwr, ni a gawn weled ein Barnwr â'n llygaid, naill ai er ein tragywyddol gysur, neu ein dychryn; yn ol y croesawiad yr ydym yn ei roddi iddo yn bresennol. Y corph hwnw a groeshoeliwyd y

tu allan i byrth Ierusalem rhwng dau leidr, a welir y pryd hwnw ar yr orsedd-faingc, yn dyscleirio mewn gogoniant. Yr ydym ni yn awr yn ei weled yn gysgodol yn sacrament ei swper; mae y saint yn ei weled â llygad ffydd: ond y pryd hwnw fe'i gwel pawb ef, â'u llygaid hyn sydd yn awr yn eu penau. (2.) Barnwr a chanddo gyflawn awdurdod a gallu, i roddi i bob un yn ol ei weithredoedd. Y mae gan Grist, fel Duw, awdurdod o hono ei hun; ac fel Cyfryngwr, y mae ganddo allu ac awdurdod cyfreithiol, yr hwn a osododd y Tad arno, yn ol y cyfammod a fu rhwng y Tad â'r Mab, am brynedigaeth pechaduriaid. A bydd ei ddwyfol ogoniant yn oleuni, wrth yr hwn y gwel pob dyn yn amlwg i ddarilen ei awdurdod i'r gorchwyl mawr ac anrhydeddus hwn. "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear," Math. xxviii. 18. Y mae ganddo "agoriadau uffern a marwolaeth," Dad. i. 18. Ni cheir apelio oddiwrth yr orsedd hon; gwedi pasio y ddedryd yno unwaith, hi a saif byth; ni bydd dim cyfnewid arni. Mae pob apelio yn cael ei wneuthur o lŷs îs i un a fo uwch: eithr pan roddo Duw y ddedryd yn erbyn dyn, pa le y caiff efe lŷs uwch i gymmeryd ei fater iddo? Barn y Cyfryngwr fydd y farn hon, ac am hyny y farn olaf a fydd. Os bydd yr Eiriolwr yn ein herbyn, pwy a all fod drosom? os euog-farna Crist ni, pwy a'n rhyddha ni? (3.) Barnwr o ddoethineb anfeidrol. Ei olygon a dreiddiant i, ac a eglur ddirnadant yr amgylchiadau mwyaf dyrys. Mae ei hollwybodaeth yn ei gymhwyso i farnu y meddyliau drigelaf, cystal a'r geiriau a'r gweithredoedd. Ni ddichon y pechadur cyfrwysaf mo'i drech-ddichellu ef, na thrwy unrhyw ymddygiad ystrywgar, leihâu y bai. Mae efe yn chwiliwr y calonau, rhag yr hwn nis gall dim fod yn guddiedig nac yn ddyrys; eithr "pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef," Heb. iv. 13. (4.) Y Barnwr cyfiawnaf; Barnwr perffaith onest. Barnwr cyfiawn yw efe, (2 Tim. iv. 8), a'i orsedd, yn orsedd wen fawr, (Dad xx. 11), oddiar yr hon ni ddaw un farn na byddo yn gwbl lân a difrychau. Byddai y Thebaniaid yn darlunio cyfiawnder yn ddall, ac heb ddwylaw: oblegid ni ddylai barnwyr, dderbyn wyneb na chymmeryd gwobr. Yr Areopagiaid a arferent farnu yn y tywyllwch; fel na sylwent pwy a lefarai, eithr beth a lefarid. Ni bydd derbyn wyneb gyd â'r barnwr fydd yn eistedd ar yr osedd hon; ni pharcha efe y cyfoethog mwy na'r tlawd; ond barn uniawn a â allan yn achos pob un. *Yn olaf,* Barnwr holl-

alluog, a ddichon gyflawni ei ddedryd. Ni all nerth cyfunol cythreuliaid a drwg-ddynion ynghyd ddim ei wrthsefyll. Ni allant luddias cyflawniad y ddedryd yn eu herbyn, am un munud; llawer llai nis gallant ei lluddias yn hollol. "Mil o filoedd (o angylion) a'i gwasanaethant," Dan. vii. 10. Ac âg anadl ei enau, y gall efe yru y genfaint felldigedig i'r lle y myno.

*Yn bummed,* Fe gyd-ymddengys y pleidiau. Sef dynion ac angylion. Er fod y rhai olaf, sef yr angylion syrthiedig, yn agored i ddigofaint Duw, ac wedi eu bwrw i lawr i uffern; a pha le bynag yr elont, y maent yn dwyn eu huffern gydâ hwynt; etto y mae yn amlwg ddarfod eu "cadw i farnedigaeth," (2 Pedr ii. 4.), sef, "i farn y dydd mawr," Iudas 6. Ac yna y bernir hwynt yn arbenig ac yn gyhoedd, 1 Cor. vi. 3, "Oni wyddoch chwi y barnwn ni angylion?" Y dydd hwnw y cant atteb am eu crefft o bechu a hudo i bechod, yr hyn y buont yn ei ddilyn o'r dechreuad. Yna y caiff llawer basterdyn a roddodd Satan wrth ddrws y saint, ond na fabwysiadwd ganddynt hwy, eu rhoddi wrth ddrws eu tâd priodol, hwnw yw y diafol; ac efe a dderbyn y gosp gyfaddas iddo am yr holl ddianrhydedd a roddodd efe ar Dduw, a'r holl niwed a wnaeth efe i ddynion. Yr ysprydion drygionus hyny sydd yn awr mewn cadwynau, (ond nid mor gaeth, fel nad allant fyned oddiamgylch fel llewod rhuadwy gan geisio y neb y gallont ei lyngcu), a dderbyniant y pryd hwnw eu dedryd olaf, ac a gant eu çau i fynu yn eu ffau, sef yngharchar uffern; lle eu cedwir mewn penyd dirfawr ac annhraethol, i dragywyddoldeb, Dad. xx. 10. "A diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo, hwynt, a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan, lle y mae y bwystfil a'r gau brophwyd; a hwy a boenir ddydd a nos yn oes oesoedd." Gydâ golwg ar hyn y dywedodd y cythreuliaid wrth Grist, "A ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser," Math. viii. 29.

Ond yr hyn sydd yn benaf yn perthyn i ni sylwi arno, yw cyflwr dynion yn y dydd hwnw. Rhaid i bob dyn ymddangos ger bron y frawdle hon. Pawb o bob rhyw, o bob oed, ansawdd, a sefyllfa; mawrion a bychain, boneddig ac anfoneddig: heb esgusodi neb. Adda ac Efa, a'u holl feibion a'u merched; pob un ag y bu iddo, ac y bydd iddo hyd ddiwedd y byd, enaid byw wedi ei uno â chorph; a wnant i fynu y gynnulleidfa fawr hono. Ië, y rhai hyny a wrthodent ddyfod at orsedd grâs; a ddygir o flaen brawdle cyfiawnder: canys

ni ellir cael ymguddfa rhag llygaid y Barnwr yr hwn sy'n gweled pob peth, na diangc o ŵydd yr hwn sydd yn bresennol yn mhob man, na gwrthwynebu yr hwn sydd wedi ei arfogi â hollalluowgrwydd. "Rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, 2 Cor. v. 10. "Cyd-gesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd," medd y testun. Hyn a wneir drwy weinidogaeth angylion. Ganddynt hwy y cesglir yr etholedigion y'nghyd, Marc iii. 27, "Ac yna yr enfyn efe ei angylion, ac y cynnull ei etholedigion oddiwrth y pedwar gwynt" A hwy hefyd a gasglant yr annuwiolion, Math. xiii. 40, 41, "Felly y bydd yn niwedd y byd hwn. Mab y dyn a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynnullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd." O bob congl i'r byd y cesglir y trigolion i'r lle y gesyd efe ei orseddfa i farn.

*Yn chweched*, Fe ddidolir y cyfiawn a'r drygionus oddiwrth eu gilydd; gosodir cymdeithas hardd y defaid etholedig ar ddeheulaw Crist, a'r geifir gwrthodedig ar ei aswy. Ni bydd dim angenrheidrwydd i aros diwedd y prawf cyn gwneyd y didoliad; oblegid fe gyfyd y pleidiau o'u beddau âg arwyddion allanol amlwg o wahaniaeth; fel yr amlygwyd o'r blaen. Mae yn ymddangos y gweithredir y didoliad drwy y cynnulliad dwbl a grybwyllwyd o'r blaen; un cynnulliad o'r etholedigion, Math. xiii. 27. a'r llall o'r rhai a wnant anwiredd, Math. 41. Yr etholedigion wedi eu cipio i fynu yn y cymylau, a gyfarfyddant yr Arglwydd yn yr awyr, Thes iv. 17, ac felly eu gosodir ar ei ddeheulaw: a'r annuwiolion a adewir ar y ddaear, Math. xxiv. 40, ar aswy law y Barnwr. Yna y bydd didoliad hollol rhwng y ddwy blaid, y rhai oeddynt yn wastadol yn groes i'w gilydd yn eu hegwyddorion, dybenion, a dull eu buchedd, y rhai, pan oeddynt gyd â'u gilydd, oeddynt yn faich i'w gilydd, dan ba un yr oedd un yn gruddfan, a'r llall yn cynddeiriogi: eithr y pryd hwnw fe'u gwahenir yn gwbl, ac ni ddeuant ynghyd byth mwyach. Yr haiarn a'r pridd ('r wyf yn cyfeirio at Daniel ii. 41, 43.) y rhai nid ymgymmysgent, a gwbl wahenir; un yn cael ei angno i fynu gan rinwedd tynedigol y gareg a dorwyd o'r mynydd, sef, Iesu Grist; a'r llall a adewir ar y ddaear, i'w sathru dan draed.

Yn awr, gadewch i ni edrych ar y llaw ddehau, ac yno y gwelwn gymdeithas ardderchog o saint, yn dyscleirio fel cynnifer o sêr yn eu cylchoedd; ac âg wynebpryd siriol yn edrych ar yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc. Yma

y bydd dan ölygiad rhyfedd, y rhai nid arferai y byd eu gweled. (1) Cynulleidfa fawr o saint, heb gymmaint ag un rhagrithiwr yn eu plith. Yr oedd Cain waedlyd yn nheulu Adda. Ham felldigedig yn nheulu Noah, yn yr arch: Iudas fradwraidd yn nheulu Crist ei hun: ond yn y dyrfa hòno, ni bydd neb ond rhai sefydlog, aelodau Crist, o'r un Tad oll. Golygiad yw hwn a geidwir hyd y diwrnod hwnw. (2) Yr holl dduwiolion ar yr un tu. Anfynych os nid un amser, y mae y saint ar y ddaear mor gydsyniol, na byddo rhyw dant anghyweir yn eu mysg. Nis gellir dysgwyl i ddynion y rhai nid ydynt yn gweled ond mewn rhan, er eu bod oll yn tynu tu a'r un ddinas, gyd-weled am bob cam o'r ffordd: na, ni wiw i ni ddysgwyl ei weled yn y cyflwr anmherffaith yma. Ond y dydd hwnw y cyferfydd Paul a Barnabas yn unfryd a heddychol, er fod unwaith gymmaint cynnwrf rhyngddynt, fel yr ymadawsant oddiwrth eu gilydd, Act. xv 39. Ni bydd ymraniadau mwyach, na neillduadau ymhlith y rhai a fyddo yn perthyn i Grist. Yr holl dduwiolion o bob pleidiau a fyddant yr amser hwnw ar yr un ochr; beth bynag oedd eu hanghytundeb yn y pethau lleiaf, pan oeddynt yn y byd, etto hyd yn nod, y pryd hwnw, yr oeddynt yn cyd-gyfarfod yn yr un Arglwydd Iesu Grist, drwy wir a bywiol ffydd, ac yn yr un ffordd o sancteiddrwydd neu dduwiòl ymarferiad. A'r rhagrithwyr drygionus, o ba blaid bynag y byddont, a yrrir gyd â gweithredwyr anwiredd.

Edrychwch ar y llaw aswy, ac yno y gwelwch y geifr melldigedig (yr holl rai drygionus, o Cain, hyd y dyn annuwiol olaf a fydd yn y byd) wedi eu casglu ynghyd yn un dorf fwyaf truenus. Mae llawer cynnulleidfa o'r rhai drygionus yn bresennol; ond y pryd hwnw ni bydd onid un. Eithr byddant i gyd yno, wedi eu cynnull ynghyd fel un gyr i'r lladdfa, yn udo, ac yn nadu, yn llefain ac yn wylofain, o herwydd y trueni a ddaeth, ac sydd yn dyfod arnynt. A chofia, mai nid edrychwr yn unig fyddi di, i edrych ar y ddwy blaid wahanol hyn; ond rhaid i ti dy hunan gymmeryd dy le yn un o'r ddwy, a chael dy ran yn y gymdeithas, ar ba law bynag y byddo. Y rhai sydd yn awr yn casâu cymdeithas y saint yn fwy nag un gymdeithas, a fyddent y pryd hwnw yn llawen o gael cannatâd i fyned i'w plith; pe na byddai ond i orwedd wrth eu traed. Ond y dydd hwnw ni cheir yr un efryn yn mhlith y gwenith; efe a lwyr lanhâ ei lawr dyrnu. Llawer o wŷr y llaw ddehau yn y byd hwn, a fyddant yn wŷr y llaw

'y yn y dydd hwnw. Llawer o'r rhai sydd raid iddynt l y blaen, a bod ar ddeheulaw y rhai sydd well na hwynt, y cyfiawn a ragora ar ei gymydog), a droir ar y llaw aswy amser hwnw megys y trueiniaid mwyaf dirmygedig. O · ddychrynllyd a fydd y didoliad hwn i'r annuwiol! Mor wydus fydd y cynnulliad hwn ynghyd yn un dorf iddynt y! Yr hyn ni chredant yn awr, a gant ei weled y pryd n, sef, mai ychydig fydd y rhai cadwedig. Maent yn awr ei dybied yn ddigon os byddant yn debyg i'w cymydogion, bod yn ddiogel wrth ddilyn y lliaws mwyaf; ond ni weinla y dorf fydd ar y llaw aswy ddim cysur iddynt. Pa fath d a ddeil y dyn annuwiol dan yr enw o Gristion pan welo ei hun yn cael ei osod ar yr un llaw a'r Tyrciaid a'r Paganiaid! Mor chwerw i feddwl dynion fydd gweled eu hunain sefyll, Protestaniaid diras gyd â Phapistiaid eulunaddol; gweddiwyr ynghyd a'u cymydogion y rhai a wawdient arferiadau crefyddol; proffeswr ffurfiol, dieithriaid i'r ail edigaeth, a grym duwioldeb, gyd âg erlidwyr! Yn awr, y ae llawer o wahanol gymdeithasau yn y byd, ond y pryd nw, fe fydd yr holl annuwiolion yn un gymdeithas. Ac r ddychrynllyd fydd wynebau y rhai fu yn cyd bechu y naill llall yno! O! y fath ysgrechiadau alaethus a fydd gan y teiniwr a'i butain pan ymgyfarfyddont; a chan y meddwon hai a dreuliasant lawer diwrnod digrif gyd â'u gilydd, pan lont wynebau eu gilydd: a chan y gwr a'r wraig, y rhieni plant, y meistriaid a'r gweinidogion, a chymydogion, y i a fuant yn faglau ac yn dramgwyddiadau y naill i'r llall, lystryw eu heneidiau eu hunain, a'u perthynasau, pan ymarfyddant drachefn yn y fintai druenus hóno. Yna y ld rhegu yn lle cyfarch; ac ymrwygo, ac ymgreuloni y ll yn erbyn y llall, yn lle ymgofleidio fel y byddent arferol it.

*Yn seithfed,* Fe brofir y pleidiau. Ni all fod dim anhawsyn y prawf o du y Barnwr, gan ei fod ef yn hollwybodol, ni ddichon i ddim fod yn guddiedig rhagddo. Ond, fel y aeler ei farn uniawn yn eglur i bawb, efe a ddwg guddiedig hau 'r tywyllwch i ddysglaer oleuni drwy y prawf hwnw, Cor. iv. 5.

Fe brofir dynion, *yn gyntaf,* am eu gweithredoedd: canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa bynag a fyddo ai da, ai drwg," Preg. xii. 15. Fe brawf y

Barnwr ymarweddiad pob dyn, ac a esyd y gweithredoedd a wnaethpwyd yn y corph, a'u holl amgylchiadau, yn eu lliw eu hunain. Yna y dangosir llawer o weithredoedd, a ganmolid ac a glodforid gan ddynion, megys rhai da ac union, eu bod yn ddrwg ac yn ffiaidd yngolwg Duw: a llawer o weithredoedd y rhai a gondemnir gan y byd, a gymmeradwyir ac a ganmolir gan y Barnwr mawr, megys rhai da ac uniawn. Pethau dirgel a ddygir i'r goleu; a'r pethau oedd guddiedig o olwg y byd, a ddadguddir. Anwireddau, y rhai a ymguddiasant mewn dirgel-fanau er gwaethaf pob ymofyniad dynol, y pryd hwnw a ddygir allan er gogoniant Duw, a gwaradwydd y pechaduriaid diedifeiriol a'u cuddiasai hwynt. Y mae'r byd yn bresennol yn ymddangos yn ffiaidd iawn yngolwg y rhai sydd yn ymarfer duwioldeb: ond y pryd hwnw fe ymddengys yn fil ffieiddiach, pan y dadguddir y pethau a wneir gan ddynion yn y dirgel. Adgoffheir pob gweithred dda; a'r grefydd guddiedig a'r gweithredoedd da, y rhai y mae y saint yn ddiwyd yn eu cuddio o olwg dynion, ni byddant guddiedig mwyach: canys er na chaniatâ yr Arglwydd i ddynion gyhoeddi bob un ei ddaioni, etto efe ei hun a'i gwna mewn amser cyfaddas. *Yn ail,* fe fernir eu geiriau. Math. xii. 37, "Canys wrth dy eiriau y'th gyfiawnhêir, ac wrth dy eiriau y'th gondemnir." Ni ebargofir un gair a ddywedwyd dros Dduw a'i achos yn y byd, oddiar gariad atto ef. Fe'u cedwir mewn coffadwriaeth, ac fe'u dygir ymlaen fel tystiolaethau o ffydd, a hawl yn Nghrist. Mal. iii. 16, "Yna y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd a lefarasant bob un wrth ei gymydog, a'r Arglwydd a wrandawodd, ac a glybu: ac ysgrifenwyd llyfr coffadwriaeth ger ei fron ef"—Adn. 17, "A byddant eiddo fi, medd Arglwydd y lluoedd, y dydd y gwnelwyf brïodoledd." A'r tafod a lafarai ar antur, a gyffesa y pryd hwnw i Dduw; a chaiff y llefarwr wybod ddarfod dilyn ei araeth, a bod pob gair a ddaeth dros ei wefusau halogedig wedi ei ddynodi. "Am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant gyfrif yn nydd y farn," Math. xii. 36. Ac os rhoddant gyfrif am bob gair segur, sef pob gair a lefarer heb fod i ddim dyben da, er gogoniant i Dduw, na'u budd eu hunain na'u cymydogion; pa faint mwy yr adgoffëir geiriau drygionus dynion, eu llwon pechadurus, eu rhegfëydd, eu celwyddau, eu hymadroddion llygredig, a'u geiriau chwerwon? Fe gyfyd tafodau llawer y pryd hwnw yn dystion i'w herbyn, ac a'u handwyant. *Yn drydydd,* Fe ddygir meddyliau dynion i'r farn: fe eglura y

Barnwr "fwriadau y calonau," 1 Cor. iv. 5. Mae meddyliau tu hwnt i gyrhaedd barn ddynol, ond nid tu hwnt i farn Duw yr hwn sy'n chwilio y calonau, ac a ŵyr feddyliau dynion heb gynorthwy arwyddion i'w canfod. Fe ddadguddir dybenion dirgelaidd gweithredoedd dynion yn y dydd hwnw; a'r pechodau, na ddaethant erioed y tu allan i'r galon, a amlygir. O y fath olygfa a fydd ar natur lygredig, pan ei tröir y tu gwrthwyneb allan, ac y dynoethir ei holl frydfeddyliau budron! Yna y dynoethir y pydrni sydd yn llawer bedd gwyngalchog, aflendid y meddwl, yr anlladrwydd, y llofruddiaeth a'r dygasedd sydd yn awr yn llechu ynghalonau dynion, megys mewn ystafelloedd dychymmygion; a'r daioni oedd yn nghalonau dynion nis bydd guddiedig ddim yn hwy. Os bu yn eu calonau adeiladu tŷ i'r Arglwydd, hwy a gant glywed, mai da y gwnaethant bod hyny yn eu calon.

Bydd y prawf hwn yn gyfiawn ac yn ddiduedd, yn fanwl ac yn dreiddiol, yn amlwg a goleu. Y Barnwr sydd Farnwr cyfiawn, ac a rydd uniondeb i bawb. Y mae ganddo glorian cywir i weithredoedd da a drwg, i galonau didwyll a rhai twyllodrus. Yna y caiff y gorchudd ffigys-ddail o ragrith ei chwythu o'r neilldu, ac yr ymddengys noethder y rhagrithiwr; fel pan ddaeth yr Arglwydd i farnu Adda ac Efa, "gyd ag awel y dydd," Gen. iii. 8. "Y tân (yr hwn a brawf bethau oreu) a brawf waith pawb, pa fath ydyw," 1 Cor. iii. 13. Mae barn dyn yn fynych yn gymmysglyd ac yn ddyrys; ond yno fe fydd y cwbl yn oleu ac yn amlwg, fel pe eu hysgrifenasid â phelydrau 'r haul. Bydd yn eglur i'r Barnwr, i'r hwn ni bydd yr un mater yn ddyrys; ac i'r pleidiau, fe wneir y cwbl yn amlwg, Judas 15. Caiff y lluoedd o bob tu weled bod y Barnwr yn bur pan farno: canys yna y nefoedd a ddadganant ei gyfiawnder, yn nghlywedigaeth yr holl fyd; ac felly ei gwybyddir yn gyffredinol, Psal. l. 6.

Oddiar yr ystyriaethau hyn y gosodir allan y prawf hwn yn yr ysgrythyr, yn gyffelyb i agoryd Llyfrau; ac y dywedir fod dynion yn cael eu "barnu wrth y pethau fydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau," Dad. xx. 12. Nid rhaid i Farnwr y byd wrth lyfrau o'i flaen, fel na byddo iddo gamgymmeryd mewn perthynas i gyfraith na gweithred, oblegid y gŵyr efe bob peth yn ddiball: ond y mae yr ymadrodd yn dal allan y bydd ei weithrediadau yn eithaf manwl, cywrain, cyfiawn, ac ar seiliau da bob cam. Felly y mae pedwar o lyfrau i gael eu hagoryd y diwrnod hwnw.

*Yn gyntaf,* Llyfr coffadwriaeth Duw, neu ei hollwybodaeth, Mal. iii. 16. Mae hwn yn gof-lyfr manwl o gyflwr pob dyn, ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd, da a drwg: y mae megys dydd-lyfr, yn yr hwn y mae yr Arglwydd yn rhoddi i lawr yr hyn oll sydd yn cymmeryd lle ynghalonau dynion, yn dyfod dros eu gwefusau, ac yn dygwydd yn eu bucheddau; ac y mae y llyfr yn cael ei lenwi bod dydd y byddo dyn byw. Mae pechodau a gweithredoedd da dynion yn cael eu coffâu ynddo, ynghyd a'u holl amgylchiadau, dirgel a chyhoeddus. Yr hwn y cofrestrir eu holl freintiau, trugareddau tymmorol ac ysprydol, a roddwyd ryw bryd yn eu dwylaw; yr attaliadau, yr annogaethau, a'r ceryddon a roddwyd iddynt gan athrawon, cymydogion, cystuddiau, a'u cydwybodau eu hunain; pob peth yn ei drefn briodol. Y llyfr hwn a ddefnyddir yn unig megys achwyniad yn erbyn yr annuwiol; ond fe fydd'o ddefnydd arall mewn perthynas i'r duwiol, sef coffhâd o'u daioni. Wrth yr agoriad o hono, y deallir gwaith y Barnwr yn dwyn i'r goleu yr hyn sydd yn ysgrifenedig ynddo; sef megys pe darllenid yr achwyniad a'r coffhâd yn wahanredol yn nghlywedigaeth y naill a'r llall.

*Yn ail,* Llyfr cydwybod a agorir, ac a fydd megys mil o dystion i brofi 'r gwirionedd; Rhuf. ii. 15, "Y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau, a'u cydwybod yn cyd-dystiolaethu." Cyhuddwr yw cydwybod sydd yn myned gydâ phob dyn i bob man lle yr elo, gan gadw cyfrif o'i weithredoedd, y rhai a wneir yn y corph, ac fel pe bai, yn eu nodi i lawr mewn llyfr; yr hwn pan ei hagorer, cair gweled ei fod yn cynnwys cymmaint arall a'r llall, mor belled ag y mae yn perthyn i gyflwr ac amgylchiad dyn ei hun. Mae llawer wedi ei ysgrifenu yn y llyfr hwn, nas gellir ei ddarllen yn bresennol; gan fod ysgrifen cydwybod mewn llawer amgylchiad yn debyg i'r ysgrifen a wneler a sûg eur-afal *(lemon),* yr hwn nis gellir ei ddarllen hyd oni ddalier o flaen tân; eithr yna y geill dynion ei ddarllen yn eglur ac yn groyw. Y tân yr hwn a brawf waith pob dyn, a wna lyfr cydwybod yn ddarllenadwy drwyddo oll. Er bod y llyfr yn awr yn seliedig (y gydwybod yn ddall, mud, a byddar), fe dorir y seliau, a'r llyfr a agorir. Ni bydd mwyach gydwybod fethiedig na chyfeiliornus ymblith y rhai ar y llaw ddehau, na'r rhai ar yr aswy. Ni bydd yno un gydwybod ddystaw, llawer llai ni bydd yr un wedi ei serio, yn mysg yr holl haid annuwiol; eithr bydd eu cydwybodau

yn dra chraff a bywiog yn y dydd hwnw. Ni bydd yr un y pryd hwnw a eilw y da yn ddrwg, na'r drwg yn dda. Ni allant gynnwys anwybodaeth o'r hyn ag yw pechod, na pha bethau sydd bechod: a chyfrwys ddadleu dynion dros eu chwantau a drechir dros byth gan eu cydwybodau eu hunain. Ni chaiff neb y ffafr (os gallaf ddywedyd felly) o lechu dan orchudd hudoliaeth; eithr fe argyhoeddir pob un gan ei gydwybod. Hwy a gant edrych ar y llyfr hwn, boddlon neu beidio, ei ddarllen, a chywilyddio, a sefyll yn fud, gan wybod nad oes dim yn cael ei roddi yn eu herbyn yn amryfus; oblegid llyfr yw hwn ag oedd yn wastad yn eu cadwraeth hwy eu hunain. Fel hyn y gwna y Barnwr i bob dyn weled ei hunan yn nrych ei gydwybod ei hun, yr hyn a wna orchwyl cyflym.

*Yn drydydd,* Agorir llyfr y gyfraith. Y llyfr hwn ydyw y prawf a'r rhëol wrth ba un y gwybyddir beth sydd uniawn a pheth sydd anwir; ac hefyd pa ddedryd a rodder yn ol hyny, ar y rhai sydd dani. Mewn perthynas i agoriad y llyfr hwn yn y rhan gyfreithiol o hono, yr hyn sydd yn dangos beth yw pechod a pheth yw dyledswydd, mae hyn yn cymmeryd lle gyd ag agoriad llyfr cydwybod. Canys y mae y gydwybod yn cael ei rhoddi gan y Deddf-roddwr goruchel, yn mynwes pob dyn, i fod iddo yn athraw cyfrinachol, i ddangos y gyfraith iddo; ac yn bregethwr neillduol i gymhwyso yr unrhyw atto: a'r dydd hwnw, hi a fydd yn gwbl addas i'w gorchwyl; felly y bydd y gydwybod ag sydd yn awr yn hollol gysglyd, y pryd hwnw yn gallu darllen areithiau dychrynllyd y gyfraith yn dra manwl. Ond gellir meddwl mai yr hyn y cyfeirir atto (yn benaf) wrth agoriad y llyfr hwn, ydyw agoriad y rhan hono o honaw ag sydd yn pennodi taledigaeth gweithredoedd dynion. Mae y gyfraith yn awr yn addo bywyd, am berffaith ufudd-dod; ond ni cheir neb ar y llaw ddehau na'r aswy, a ymhónant i'r cyfryw, beth pan unwaith yr agorer llyfr cydwybod: y mae yn bwgwth marwolaeth am anufudd-dod, ac a'i dwg yn effeithiol ar y rhai oll a fyddo dan ei hawdurdod. A'r rhan hono o lyfr y gyfraith, pa un sydd yn pennodi taledigaeth am waith dynion, a agorir yn unig er mwyn dangos beth fydd rhan yr annuwiolion, fel y gallont yno ddarllen eu dedryd cyn ei chyhoeddi. Eithr nis agorir ef er mwyn gweled dedryd y saint; canys ni allwyd erioed gael dedryd o ryddhâd pechadur, allan o'r llyfr hwnw. Mae y gyfraith yn addo bywyd, nid fel y mae hi yn rhëol gweithredoedd, ond fel y mae yn gyfammod gweithredoedd;

am hyny ni allai dyn dieuog ddim hóni hawl i fywyd am ei ufudd-dod, hyd oni thröed y gyfraith ar ddull cyfammod, fel y dangoswyd o'r blaen. Eithr o herwydd cael o'r saint, yn y bywyd hwn, eu dwyn dan gyfammod newydd, sef y cyfammod grâs, hwy a fuant feirw i'r ddeddf, fel cyfammod gweithredoedd, a hithau a fu farw iddynt hwythau. Gan hyny, megys nas gallant fod mewn ofn marwolaeth oddiwrthi, felly nis gallant gael dim gobaith am fywyd oddiwrthi, oblegid "nad ydynt dan y ddeddf, eithr dan râs," Rhuf. vi. 14. Ond i gael eu dyfarniad hwy, rhaid agor llyfr arall; am yr hwn y soniwn yn y lle nesaf.

Felly fe agorir llyfr y gyfraith i gael y ddedryd yn erbyn y rhai a fyddant ar y llaw aswy: ac wrth hwnw hwy a welant yn eglur uniondeb y farn yn eu herbyn, a bod y Barnwr yn ymddwyn yn gyson â'r gyfraith. Eithr fe fydd hyn o wahaniaeth, sef, y caiff y rhai hyny nad oedd ganddynt ddim ond deddf natur, ac na buant fyw dan unrhyw ddadguddiad neillduol, eu barnu wrth y gyfraith hòno yr hon oedd ganddynt yn eu calonau; a'r hon gyfraith sydd yn tystio "fod y rhai sy yn gwneuthur y cyfryw bethau (am y rhai y byddant yn cael eu cyhuddo) yn haeddu marwolaeth, Rhuf. i. 32. Ond y rhai yr oedd y gyfraith ysgrifenedig ganddynt, at y rhai y daeth gair Duw, megys y swniodd yn yr eglwys weledig, a fernir wrth y gyfraith ysgrifenedig hono. Felly y dywed yr Apostol, Rhuf. ii. 12. "Oblegid cynnifer ag a bechasant yn ddiddeddf (ysgrifenedig), a gyfrgollir hefyd yn ddiddeddf (ysgrifenedig); a chynnifer ag a bechasant yn y ddeddf (*h. y.* dan y ddeddf ysgrifenedig), a fernir wrth y ddeddf (ysgrifenedig)."

*Yn olaf,* "A llyfr arall a agorir, yr hwn yw llyfr y bywyd," Dad. xx 12. Yn yr hwn y mae enwau yr holl etholedigion wedi eu hysgrifenu, fel y dywedodd Crist wrth ei ddyscyblion, Luc. x. 20. "Eich enwau sydd yn ysgrifenedig yn y nefoedd." Mae 'r llyfr hwn yn cynnwys bwriadau grasol ac anghyfnewidiol Duw, i ddwyn yr holl etholedigion i fywyd tragywyddol; ac mewn trefn i wneuthur hyny, y byddai iddynt gael eu prynu â gwaed ei Fab, eu galw yn effeithiol, eu cyfiawnhâu, eu mabwysiadu, eu sancteiddio, a'u hydgyfodi ganddo yn y dydd diweddaf yn ddibechod. Mae yn awr yn cael ei gadw yngofal y Cyfryngwr, megys llyfr trefn ei deyrnas; ac, wedi gorphen y gwaith a roddodd y Tad iddo i'w wneuthur, yn y dydd mawr hwnw, efe a ddwg y llyfr ymlaen ac a'i hegyr, ac a gyhoedda y personau a enwir

'nddo, "ger bron ei ogoniant ef yn ddifeius," Iudas 24. ' Heb frycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw," Eph v. 7. Ni bydd un yn ol o'r holl rai sydd a'u henwau yn y yfr. Fe'u ceir wedi eu cyfaddasu yn ol trefniad y llyfr, wedi u prynu, eu galw, eu cyfiawnhâu, eu sancteiddio, a'u hadgy-odi, heb un brycheuyn: a pha beth sydd yn ol bellach, ddieithr, yn ol y llyfr, iddynt gael cyrhaeddyd y dyben mawr, ef bywyd tragywyddol? Gellir casglu hyn oddiwrth yr ddewid werthfawr hono, Dad. iii. 5, "Yr hwn sydd yn orchfygu, hwnw a wisgir mewn dillad gwynion (gan ei fod vedi ei dderchafu i ogoniant); ac ni ddilëaf ei enw ef allan o yfr y bywyd, ond mi a gyffesaf ei enw ef (fe'i darllenir allan mhlith y lleill o etholedigion Duw) ger bron fy Nhad, a her bron ei angylion ef." Dyma sail gollyngdod y saint, a ail y dyfarniad gwynfydedig a dderbyniant. Pan agorir lyfr y bywyd, fe gaiff pawb wybod pwy a etholwyd, a phwy i etholwyd. Dim yn ychwaneg am brawf y pleidiau.

*Yn wythfed*, Yna y cyhoedda y Barnwr; y ddedryd fendig-edig ar y saint, "Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er seiliad y byd," Math. xxv. 34. Y mae yn bur debygol y cyhoedda y dyn Crist y ddedryd gyda llef uchel; yr hon a gaiff nid yn unig yr holl saint, ond yr holl annuwiolion hefyd, ei chlywed a'i deall. Pwy a ddichon amgyffred y llawenydd annhraethol i'r hwn y bydd y rhai dedwydd hyny yn clywed y geiriau ayn? pwy a all ddirnad y gorfoledd a dywelltir i'w calonau gyd ag i'r geiriau hyn gyrhaedd eu clustiau? a phwy a ddichon amgyffred pa faint o uffern a ymdywallt i galonau yr holl fintai annuwiol wrth glywed y geiriau nefol hyn? Y mae yn sicr y cyhoeddir y ddedryd hon o flaen dedryd colledigaeth. Math. xxv. 34. "Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuwch chwi fendigedigion," &c. Adn. 41. "Yna y dywed efe hefyd wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig," &c. Ni fydddai anghenrheidrwydd am y drefn yma, rhag dychrynu o'r saint wrth glywed dedryd yr annuwiolion: nis dichon iddynt hwy gael y cyfryw ddychryn, y rhai a dderchafwyd mewn gogon-iant, a gipiwyd i gyfarfod yr Arglwydd yn yr awyr, heb arnynt frycheuyn; ac eneidiau y rhan fwyaf o honynt wedi bod yn preswylio yn hir yn y nefoedd o'r blaen. Eithr y pryd hwnw fe'u cymmerir mewn trefn i eistedd ar orsedd barn, megys cyd-orseddwyr Crist yn erbyn y rhai drygionus, yr hyn a fawr chwanega eu poen. Fe fydd yn uffern iddynt

gael eu cadw o'u heffeiriad nes y gwelont ddrysau y nefoedd yn agor i dderbyn y saint, y rhai a fu unwaith yn byw yn yr un byd a hwythau, ac fe allai yn yr un wlad, yr un plwyf, neu yr un dref, ac yn eistedd dan yr un weinidogaeth a hwythau. Fel hyn y cant weled y nefoedd o hirbell, yr hyn a wna eu hufferin yn boethach. Fel y pendefig anghrediniol hwnw, 2 Bren. vii. 19, 20, Hwy a gant "weled (yr helaethrwydd) â'u llygaid, ond ni fwytant o hono." Bydd pob gair o'r ddedryd fendigedig megys pe saethid cynnifer o bicellau gwenwynig i'w calonau, pan y gwelant yr hyn a gollasant, a chasglu oddiwrth hyny beth a allant hwythau ddysgwyl-gael.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn ar y saint "yn ol eu gweithredoedd," Dad. xx. 12; ond *nid am* eu gweithredoedd, nac am eu ffydd ychwaith, fel pe buasai bywyd tragywyddol wedi cael ei deilyngu ganddynt. Mae'r cyhoeddiad ei hun yn dadymchwelyd y dyb afresymol hon. Yr oedd y deyrnas i'r hon y galwyd hwynt, wedi ei pharotoi iddynt er seiliad y byd; ac nid ei gadael i gael ei theilyngu ganddynt hwy, y rhai nid ydynt ond megys er doe. Maent yn cael ei meddiannu fel meibion, ac nid fel gweision yn ennill eu cyflog. Fe'u prynwyd â gwaed Crist, ac fe'u gwisgwyd yn ei gyfiawnder glân ef, a hyn fydd achos priodol eu rhyddhâd. Cawsant hefyd eu haddasu i'r nefoedd, drwy sancteiddiad ei Yspryd ef: ac felly y bydd *yn ol* eu gweithredoedd. Felly y caiff y byd annuwiol weled y pryd hwn, y gwna Barnwr byw a meirw ddaioni i'r rhai daionus. Am hyny y chwanegir at y ddedryd, "Canys bum newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd," &. adn. 35, 36. Yr hyn sydd yn dangos, nid sail ond tystiolaeth eu hawl i'r nefoedd: fel pe dywedai Barnwr ei fod ef yn rhyddhâu dyn y gyrid arno am ddyled, o herwydd bod tyst yn tystiolaethu ei bod wedi ei thalu eisoes. Felly y dywed yr apostol, 1 Cor. x. 5, "Eithr ni bu Duw foddlon i'r rhan fwyaf o honynt; canys cwympwyd hwynt yn y diffaethwch." Nid eu cwymp yn y diffaethwch oedd yr achos o anfoddlonrwydd Duw tu ag attynt, ond yr amlygiad o hono. Ac fel hyn y mae ein Harglwydd yn dysgu i ni y cyssylltiad anghenrheidiol sydd rhwng gogoniant a gweithredoedd da, sef gweithredoedd efengylaidd dda; gweithredoedd perthynol i Iesu Grist, ac wedi eu gwnëyd drwy ffydd ynddo ef a chariad atto, heb yr hyn ni wneir cyfrif o honynt ... hwnw. Ac fe gaiff y saint eu barnu yn ol eu

gweithredoedd mor belled fel ag y bydd y graddau o ogoniant yn eu plith yn gyferbyniol i'r gweithredoedd hyny: canys y mae yn wirioneddl safadwy y caiff "Yr hwn sydd yn hau yn brin, fedi hefyd yn brin," 2 Cor. ix. 6.

Fel hyn y caiff gweithredoedd da y duwiolion eu gwobrwyo yn hardd, ond er hyny yn rhad; gwobr o ras, nid o ddyled. Yr hwn a'u lleinw â rhyfeddod wrth weled trysorau rhad ras, ac ymostyngiad yr Arglwydd i gymmeryd sylw, yn enwedig y fath sylw cyhoeddus o'u gweithredoedd gwaelion a diwerth. Fe ymddengys mai hyn sydd i'w ystyried oddiwrth yr atteb a ddywedir a roddant, "gan ddywedyd, Arglwydd, pa bryd y'th welsom yn newynog?" &c. adn. 37, 38, 39. Ac oni bydd yn rhesymol iddynt ryfeddu wrth weled eu hunain yn eistedd wrth swper priodas yr Oen, oherwydd iddynt hwy roddi cinio neu swper, neu ychydig fwyd neu ddïod (o'r fath ag oedd ganddynt) er mwyn Crist, i un o'i aelodau newynog neu sychedig! O y fath gynhauaf toreithiog a ganlyn oddiar had gweithredoedd da! afonydd o hyfrydwch a darddant (fe allai) oddiwrth gwpanaid o ddwfr oer a rodder i ddysgybl, yn enw dysgybl! trigfanau mewn tragywyddol ogoniant oddiar roddi lletty noswaith i sant dyeithr! gwisgoedd o ogoniant tragywyddol a roddir yn lle dilledyn newydd, neu (fe allai) am hen un, a rodder i ryw sant na feddai mo'r gwisgiad angenrheidiol! Ymweliad â sant claf, a wobrwyir gan Grist ei hun, pan ddel y'ngogoniant ei Dad, gyd â'r holl angylion sanctaidd! ymweliad âg un tlawd mewn carchar, dros achos Crist, a wobrwyir âg ymweliad gan Farnwr pawb, yr hwn a gymmer y gofwywr gyd ag ef i balas y nefoedd, i fod yno gyd ag ef byth! Y pethau hyn a fyddant yn ddefnyddiau rhyfeddod diddarfod; ac a ddylent fod yn foddion i gynhyrfu pawb i hau yn helaeth mewn amser, tra y byddo tymmor hau gweithredoedd da yn para. Ond argraff Crist ar y gweithredoedd da, sydd yn gosod gwerth arnynt yngolwg y Duw grasol; a hyn debygid y mae ein Harglwydd yn cyfeirio atto yn ei attebiad, adn. 40, "Yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

*Yn nawfed,* Gwedi i'r saint dderbyn eu barn eu hunain, "hwy a farnant y byd," 1 Cor. vi. 2. Ni chyflawnwyd mo hyn pan y trôdd yr ymerodraeth yn Gristionogol, ac y gwnaed Cristionogion yn swyddogion. Na ddo; mae y Salmydd yn dywedyd i ni fod "yr ardderchawgrwydd hyn (yn perthyn)

i'w holl saint ef," Psal. cxlix. 9. Ac y mae yr apostol yn y lle a grybwyllwyd, yn ychwanegu, "Ac os trwoch chwi y bernir y byd, a ydych chwi yn anaddas i farnu y pethau lleiaf?" adn. 3. "Oni wyddoch chwi y barnwn ni angylion?" Pan eu gelwir, hwy a ddeuant i dderbyn eu teyrnas, yngwydd angylion a dynion: hwy a ant megys oddiwrth y bar i'r orsedd; "Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo ef eistedd gyd â mi ar fy ngorsedd-faingc, Dad. iii. 21. Hwy a gant, nid yn unig, farnu y byd yn Nghrist eu pen, drwy eu cymmundeb ag ef, trwy gymharu eu gweithredoedd hwy â'r eiddo yr annuwiolion, neu drwy dystiolaethu yn eu herbyn; eithr hwy a fyddant yn gyd-oreseddwyr â Christ y barnwr, gan roddi eu llais yn eu herbyn, gan gydsynio ag uniondeb ei farn ef, a dywedyd, *Amen* gyd â'r ddedryd a gyhoeddir yn erbyn yr holl rai drygionus; megys y dywedir am y saint, wrth farnu y buttain fawr, Dad. xix. 1, 2, "Aleluia— oblegid cywir a chyfiawn yw ei farnau ef." Fel hyn y llywodraetha y rhai cyfiawn arnynt yn moreu yr adgyfodiad, Psal. xlix. 14. Yna, ac nid yn gynt, y cwbl gyflawnir yr hyn a ddarllenwn yn Psal. cxlix. 6, 7, 8, 9, "Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau, a chleddyf dau-finiog yn eu dwylaw; i wneuthur dïal ar y cenedloedd, a chosp ar y bobloedd. Yr ardderchawgrwydd hyn sydd i'w holl saint ef." O! y fath gyfnewidiad amgylchiadau a ymddengys y pryd hwnw! y fath olwg aruthrol a fydd gweled eglwys-wyr a gwladwriaethwyr annuwiol yn sefyll fel carcharorion o flaen y saint, y rhai a farnasant megys hereticiaid, gwrthryfelwyr, a bradwyr! gweled y cyfoethogion galluog a'u hwynebau yn glasu wrth sefyll o flaen yr rhai y buont yn eu gorthrymu! gweled y gwatwarwr yn sefyll dan grynu o flaen y rhai a watworodd! a'r bydol ddoethyn o flaen y rhai a gyfrifodd efe yn ynfydion! Yna y bydd wynebau dirmygus y saint yn wynebau dychrynllyd i'r annuwiolion: a'r rhai oeddynt unwaith yn gân i'r meddwon, a fyddant y pryd hwnw yn arswyd iddynt. Rhaid i bob cam gael ei unioni yn y diwedd, ac i bawb gael ei osod yn ei le priodol ei hun.

*Yn ddegfed,* Y Barnwr a gyhoedda y goll-farn ar y dyrfa annuwiol. "Yna y dywed efe wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig i'r tan tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion," adn. 41. O ddedryd ddychrynllyd! a hyny o'r un genau ag y daeth dedryd y gollyngdod o'r blaen. Yr oedd hyny yn

ychwanegu adfyd yr Iuddewon, ddarfod i'w dinas gael ei dinystrio gan un oedd yn cael ei gyfrif yn "anwylyd y byd." Ac O! y fath ychwanegiad at drueni y rhai annuwiol fydd mai *Efe* a gyhoedda y ddedryd hon hefyd! clywed y felldith o fynydd Sïon, a fydd yn ddychrynllyd iawn yn ddiammeu; cael eu coll-farnu gan yr hwn a ddaeth i gadw pechaduriaid, a fydd yn ddwbl farnedigaeth. Eithr felly y bydd. Oen Duw a rua fel llew yn eu herbyn: efe a'u hysgymmuna ac a'u gyr o'u ŵydd yn dragywydd, â dedryd oddiar ei orsedd, gan ddywedyd, "Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig:" efe a'u dyfarna i dân tragywyddol, i gymdeithas cythreuliaid yn oes oesoedd. Y ddedryd hon hefyd y mae yn debygol a gyhoeddir â llef uchel, gan y dyn Crist. A'r holl saint a ddywedant, "Aleluia, cywir a chyfiawn yw ei farnu ef." Nid oedd neb mor dosturiol a'r saint, pan oeddynt ar y ddaear, yn amser amynedd Duw. Ond y pryd hwnw fe fydd y tymmor drosodd: eu tosturi tu ag at yr annuwiol a lyngcir gan lawenydd yn ngogoniant y Cyfryngwr, ac yn y farn uniawn a wna efe, drwy yr hon y gesyd efe ei elynion yn droed-faingc i'w draed. Er yr arferai y cyfiawn alaru yn y dirgel oberwydd eu balchder, ac oblegid na wrandawent; etto y pryd hwnw "efe a lawenycha pan welo ddïal, efe a ylch ei draed yn ngwaed yr annuwiol," Psal. lviii. 10. Ni ddangosir dim tosturi tuag atynt yno gan eu perthynasau agosaf. Y wraig dduwiol a ganmola uniondeb y Barnwr yn ngholl-farn ei gwr annuwiol: y gwr duwiol a ddywed *Amen* gyd â choll-farn yr hon a orweddai yn ei fynwes: y rhïeni duwiol a ddywedant Aleluia pan gyhoedder y ddedryd yn erbyn eu plentyn annuwiol: a'r plentyn duwiol a gymmeradwya o'i galon farnedigaeth ei rïeni drygionus, y tad a'i hennillodd a'r fam a'i hymddug. Bydd y ddedryd yn gyfiawn, fe'u bernir yn ol eu gweithredoedd, Dad. xx. 12.

Ni wneir dim cam â hwynt; "Canys bum newynog, (medd ein Harglwydd,) ac ni roisoch i mi fwyd: bu arnaf syched, ac ni roisoch i mi ddïod: bum ddyeithr, ac ni'm dygasoch gydâ chwi; noeth, ac ni'm dilladasoch: yn glaf ac yn ngharchar, ac ni ymwelsoch â mi." adn. 42, 43. Mae hyn nid yn unig yn brawf o'u cyflwr drygionus a melldigedig, eithr hefyd yn achosion ac yn seiliau o'u colledigaeth: canys er nad yw gweithredoedd da yn teilyngu iachawdrwiaeth, etto mae gweithredoedd drwg yn haeddu colledigaeth. Un math o bechodau yn unig sydd yn cael eu crybwyll yma, sef

pechodau o esgeulusiad; nid am mai y rhai hyn yn unig a gaiff eu dadguddio, (canys fe wna agoriad y llyfrau y cwbl yn amlwg,) ond, o herwydd y bydd y rhai hyn, pe na bai dim yn rhagor, yn ddigon i goll-farnu pechaduriaid anmhardynol. Ac os euog-farnir dynion am bechodau o esgeulusiad, pa faint mwy am bechodau o weithrediad? Mae yr esgeulusdra o weithredoedd o elusen a thosturi yn cael sylwi arno yn neillduol, er mwyn cau safnau y rhai drygionus; canys y mae yn dra theg rhoddi "barn ddidrugaredd i'r hwn ni wnaeth drugaredd," Iago ii. 13.* Y mae y crybwylliad o'r esgeulusiad o weithredoedd o elusen a thosturi tuag at aelodau adfydus Crist, yn rhoi ar ddeall mai barn y rhai a glywsant am Grist yn yr efengyl sydd yn fwyaf neillduol yn cael cyfeirio atti yn y gyfran hon o'r ysgrythyr; ac mai gwrthod Crist fydd y prif achos o golledigaeth y rhai sydd yn clywed yr efengyl; eithr y mae gelyniaeth calon y rhai drygionus yn ei erbyn ef ei hun, yn cael ei amlygu yn awr yn eu hymddygiad tu ag at ei aelodau.

Ofer fydd iddynt ddywedyd, "Pa bryd y'th welsom yn newynog, neu yn sychedig?" &c. adn. 44. Canys y mae yr Arglwydd yn cyfrif, ac efe a gyfrifa angharedigrwydd y byd tu ag at ei bobl, yn angharedigrwydd tu ag ato ef ei hun; "Yn gymmaint ag nas gwnaethoch i'r un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau," adn. 45. O y bwyd a'r ddïod a annedwydd arbedwyd pan oedd aelod i Grist mewn angen am danynt! O esgeulusdra gresynus, na buasai y sant dyeithrol yn cael ei gymmeryd i mewn! buasai yn well iddynt adael eu hystafell eu hunain, a'u gwely eu hunain, na'i adael ef heb letty. O wisgoedd atgas, gall yr annuwiol ddywedyd, y rhai oedd yn fy nhŷ, wedi eu cloi yn fy nghoffr, neu yn crogi yn fy nillad-gell, yn lle eu dwyn allan i ddilladu y cyfryw un! O na buaswn yn dïosg fy hun, yn hytrâch nag iddo ef fod yn noeth! O orchwylion melldigedig, a'm lluddiasant rhag ymweled â'r cyfryw sant pan oedd yn glaf! O na buaswn yn hytrach yn gwylied nosweithiau cyfain gyd âg ef. O y fath adyn oeddwn! pa fodd yr eisteddwn yn esmwyth yn fy nhŷ, yn lle ymweled ag ef pan oedd yngharchar? Ond yn awr y mae pethau wedi newid? gweision Crist a fwytânt; minnau a newynaf; hwy a yfant; minnau a sychedaf; hwynt hwy a lawenychant, a minnau a fydd cywilydd arnaf, Esay lxv. 13; hwy a gymmerir i mewn, minnau a fwrir allan, ac a orchymynir i fyned ymaith; hwynt hwy a ddilladir â gwisg-

ld gogoniant, a minnau wyf yn rhodio yn noeth, ac y
ient yn gweled fy anhardd wch, Dad. xvi. 15. Maent hwy
cael eu codi yn uchel, o gyrhaedd poen a chlefyd; ond
aid i mi orwedd mewn gofid, Esay l. 11. Cant hwy fyned
awr i balas y nef, ond rhaid i mi fyned i garchar uffern.

Eithr os bydd ein Harglwydd fel hyn yn ddigofus wrth ddyn-
n oblegid eu hesgeulusdra i gynnorthwyo ei bobl yn y cyf-
w gyfyngderau: beth a all y rhai hyny ddysgwyl, y rhai a
iant yn ddyfeiswyr ac yn offerynau i ddwyn y cyfyngderau
yny arnynt? Os porthir y rhei'ny â digofaint y rhai ni
hortbent y saint, pan oeddynt yn newynog; beth a ddaw o'r
hai hyny a'u hyspeilient, ac a ddygent eu bara oddiarnynt?
)! y fath gwpan llawn o ddigofaint a fydd cyfran y rhei'ny,
' rhai yn lle rhoddi iddynt na bwyd na diod, pan yn newynog
ieu yn sychedig, a'i cyfrifent yn drosedd i ereill eu croesawi,
gan feddwi eu hunain â'u gwaed? Gorfydd i'r rhai na chym-
merent bobl yr Arglwydd i'w tai, pan yn ddyeithriaid, lettya
gydâ diafliaid byth: gan hyny pa fath letty a gaiff y rhai a'u
iymlidiasant o'u tai eu hunain, ac o'u gwlad enedigol, gan eu
gwneyd yn ddyeithriaid? Fe gondemnir dynion o herwydd
peidio a'u dilladu, pan yn noethion; gan hyny, pa mor
lrwm fydd dedryd y rhai a'u diosgasant, ac a'u gyrasant
ymaith yn noethion? Diammeu, os llym-gospir hwy am
eidio ymweled â hwynt yn eu hadfyd, neu yngharchar; ni
ldiangc y rhei'ny heb ddedryd athrist, y rhai a'u bwriasant i
garcharau, a chaledi, nes niweidio eu hiechyd, i ddwyn an-
iwyldeb arnynt, ac i fyrhâu eu dyddiau mewn carchar neu
llan o garchar.

I guddio y fath arferion drygionus a'r rhai'n, fe gymmer
ynion arnynt fod ganddynt barch i Grist a chrefydd, tra y
iaent yn ymddwyn fel hyn tu ag at ei aelodau, y rhai sydd yn
iodio yn ei ffyrdd, ac yn ufuddhâu i'r gwirionedd. Fe'u
sgrifir megys yn dywedyd, "Pa bryd y'th welsom yn newyn-
g, neu yn sychedig, neu yn ddyeithr, neu yn noeth, neu yn
af, neu yngharchar, ac ni weiniasom i ti?" adn. 44. Megys
dywedent, Gwir yw i ni nacâu rhoddi ein bwyd, diod, dillad,
tty, a'n hymweliadau, ond nid i Grist; eithr i ryw fath o
bl â gair drwg iddynt, y rhai oedd yn aflonyddu y byd,
Act. xvii. 6.) ac yn blino Israel, (1 Bren. xviii 17.) rhyw
lynion anwadal a phenchwiban, a'u cyfreithiau yn amra-
elio oddiwrth yr holl bobl, cynhenus a gwrthryfelgar, nad
eddynt yn gwneuthur cyfreithiau y brenin, ac am hyny yn

haid o bobl tra pheryglus; nid buddiol oedd i'r brenin eu dyoddef hwynt, Esth. iii 8. Ond er i bobl daflu anwiredd ar y duwiolion, a'u ditenwi er mwyn ymddwyn tu ag atynt fel drwg weithredwyr; ni lesâ yr holl esgusion hyn ddim iddynt, yn y dydd mawr, o flaen y Barnwr cyfiawn, nac o flaen eu cydwybodau eu hunain ychwaith: ond ceir gweled mai gwir wreiddyn eu gelyniaeth yn erbyn y saint, yw eu gelyniaeth yn erbyn Crist ei hun, yr hyn ni allant ei wrthbrofi. Fe ymddengys mai hyn yw sylwedd gwrthddadl y damnedigion, (adn. 44.) a'r atebiad iddo, (adn. 45,) "Yn gymmaint ag na's gwnaethoch i un o'r rhai lleiaf hyn, ni's gwnaethoch i minnau."

*Yn olaf,* Gwedi cyhoeddi y ddedryd ar y ddwy blaid, yna y canlyn y cyflawniad o honi, adn. 46 "A'r rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol; ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol." Ni oedir y gosp ar y damnedigion, ond bydd raid iddynt fyned i'w lle yn ddïoed; fe'u gyrir oddiwrth y frawdle i uffern: a'r saint a ant i balas y brenin, (Psal. xlv. 15.) sef i'r nefoedd, trigfa y rhai gwynfydedig. Ond ein Harglwydd Grist, a'i ardderchog ganlynwyr a feddiannant y maes y diwrnod hwnw, ac a gant weled cefnau eu holl elynion; canys y damnedigion a ant ymaith gyntaf.

Yn y dydd hwn i'r Arglwydd, y dydd mawr, y bydd y cydlosgiad cyffredinol; trwy yr hwn yr â heibio y nefoedd weledig, y ddaear, a'r môr. Nid oblegid y cânt eu dileu neu eu diddymu; nid hyny yw effeithiau tân: eithr hwy a doddir, ac a burir gan y tân, oddiwrth holl effeithiau pechod a'r felldith, oedd arnynt; ac yna eu hadnewyddir ac eu gwneir yn fwy ardderchog a safadwy. Am y cydlosgiad hwn y mae yr apostol Pedr yn dywedyd, 2 Pedr iii. 10. "Eithr dydd yr Arglwydd a ddaw megys lleidr y nos; yn yr hwn y nefoedd a ant heibio gydâ thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir." Gwel hefyd adn. 7, 12. Ac am adnewyddiad y byd, mae efe yn ychwanegu, adn. 13, "Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ol ei addewid ef, yn eu dysgwyl, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu."

Mae yn ymddangos yn fwyaf cyson a'r ysgrythyrau, ac â natur y peth, i ni farnu y bydd y cydlosgiad hwn yn cymmeryd lle yn ganlynol i'r farn gyffredinol; ac y cyhoeddir y ddedryd ar y ddwy blaid yn flaenorol. Ac yr wyf fi yn ei farnu yn debygol y cymmer efe le gyd â chyflawniad y ddedryd yn erbyn

y damnedigion; fel, yn ol y ddedryd, y gyrir hwy ymaith, ac y bydd i'r nefoedd a'r ddaear fyned heibio, ynghyd ac ar unwaith, gyd â'r cerydd digllawn oddiar yr orsedd, yn dysgubo ymaith y damnedigion allan o'r byd, yn y tân hwn, i'r tân tragywyddol a barotowyd i ddiafol a'i angylion. Yr un modd ag yn amser y diluw, â pha un y mae yr apostol Pedr yn cymharu y cydlosgiad neu oddeithiad y byd, (2 Pedr iii. 6, 7) bydd y byd ei hun a'r rhai drygionus sydd ynddo yn cyd syrthio; fel y darfu yr un dwfr ag a foddodd y ddaear foddi ei thrigolion. Canys nid yw yn debygol y caiff y rhai drygionus sefyll ar y ddaear newydd, yn yr hon y mae cyfiawnder yn cartrefu; 2 Pedr iii. 13: a'r ddaear yma a ffeda ymaith, (yr hyn sydd, mae'n debygol, yn arwyddo mawr frys,) a hi a ffy oddiwrth wyneb yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-fainge, Dad. xx. 11. "A mi a welais orsedd-fainge wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddiwrth wyneb yr hwn y ffôdd y ddaear a'r nef." Mae cyflawniad y ddedryd ar yr annuwiolion, yn cael ei ddyscrifio hefyd fel hyn; "Y rhai a ddyoddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol oddi ger bron; (neu oddiwrth wyneb) yr Arglwydd," 2 Thes. i. 9. Yr un ydyw y gair gwreiddiol yn y ddau le; ac wrth eu cymharu gellir casglu, y bydd y creaduriaid hyn, y rhai a gamarferwyd gan yr annuwiol, yn sefyll yn dystion yn eu herbyn yn y farn, ac ar ol cyhoeddi y ddedryd ar y camarferwyr, hwy a ant ymaith gyd â hwynt oddi ger bron wyneb y Barnwr. Y mae yn wir fod ffoad y ddaear a'r nefoedd yn cael ei grybwyll o flaen y farn yn (Dad. xx. 11.); ond nid yw hyny yn profi y cymmer hyn le o flaen y farn, mwy nag y mae crybwylliad am y farn (adn. 12.) o flaen yr adgyfodiad (adn. 13.) yn profi y bydd y farn o flaen yr adgyfodiad. Ymhellach, peth hynod yw, ynghyflawniad y ddedryd, Dad. xx. 14, 15, bod nid yn unig y colledigion yn cael eu bwrw i'r llyn, eithr bod marwolaeth ac uffern yn cael eu bwrw iddo hefyd: holl effeithiau pechod, a'r felldith a symudir o'r byd, fel yr achosion o'i ddodi ar dân, a hwy a gyfyngir i le y damnedigion. Heblaw hyn oll, mae yn amlwg, mai llosgiad fydd diwedd y byd: ac fe ddywed yr apostol (1 Cor. xv. 24, 25.) mai "yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad, wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed." Rhaid i'r peth olaf

yma gael ei wyned cyn y diwedd; ac felly mae yn ymddangos y caiff y peth ei gwblhâu drwy gyflawni y ddedryd a gyhoeddir yn erbyn y drygionus yn nydd y farn.

Yn awr, os oedd llosgiad Sodom a Gomorrah, yr hyn sydd yn cael ei roddi yn esampl, (Iud. 7.), mor ddychrynadwy; pa mor ddychrynllyd fydd y dydd hwnw, pan y bydd yr holl fyd yn fflam ar unwaith! Pa olwg fydd ar y bydolwyr gresynol, pan fydd eu hanwylyd, y byd, oll ar dân? Yna y cestyll cedyrn, a'r palasau mawrwych, a'u dodrefn costus, a oddeithir yn y fflam yr un ffunud a'r bythod distadlaf. Pa galon a all gwbl ddirnad y dychryn a rydd y dydd hwnw i'r rhai drygionus, pan y caiff holl adeilwaith y nefoedd a'r ddaear eu dattod gan y tân! O mor resynol fydd y fintai a yrir oddiwrth y frawdle i'r llyn, â thân o'u mewn, a thân oddi allan, tân o'u hôl, ac o bob tu iddynt, a thân o'u blaen yn dysgwyl am danynt yn y llyn; ac yno y dilyn y tân hwn hwynt, er dim a ymddengys yn amgen!

Eithr am y lle y bydd y farn, er bod rhai yn cyfeirio at ddyffryn Iehoshaphat; etto ein Harglwydd, yr hwn a wyddai yn anffaeledig, pan ofynwyd y cwestiwn hwn iddo gan y dysgyblion, *Pa le, Arglwydd?* ni ddywedodd efe ddim yn ychwaneg wrthynt na, "pha le bynag y byddo'r corph, yno yr ymgasgl yr eryrod, Luc xvii. 37. Ar ol y cyfryw atteb, mae yn ormod rhyfyg i ddynion adnewyddu y gofyniad. Mewn perthynas i'r amser y bydd, gwaith ofer i ddynion chwilio am y peth a fwriadodd yr Arglwydd ei gadw yn gyfrinachol, Act. i. 7. "Ni pherthyn i chwi wybod yr amseroedd, na'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun." Mae yr Apostol Paul ar ol rhoddi dysgrifiad eglur o ail ddyfodiad Crist, 1 Thes iv. 16, 17 yn ychwanegu, (pen. v. 1, 2), " Eithr am yr amserau a'r prydiau, frodyr, nid rhaid i chwi ysgrifenu o honof atoch: oblegid chwi a wyddoch eich hunain yn hyspys, mai felly y daw dydd yr Arglwydd fel lleidr yn y nos." Er hyny, darfu rhai, mewn amrywiol oesoedd antulio yn eon i bennodi yr amser; ac amrywiol flynyddoedd arbenig, y rhai sydd yn awr wedi pasio, a gyhoeddwyd i'r byd, megys amser y diwedd; a hyny gan ddynion a geisient dreiddio i ddirgeledigaethau Duw. Amser a ddangosodd i'r byd mor ryfygus ac ynfyd oedd y cyfryw: ac y mae yn debygol na bydd y rhei'ny ddim mwy llwyddiannus yn eu tybiau, y rhai y mae eu hamserau pennodedig etto heb ddyfod i ben. Ymfoddlonwn

yn sicrwydd ei ddyfodiad. Fe gadwodd Duw yr amser yn guddiedig oddiwrthym, fel y byddem beunydd yn barod iddo, Math. xxv. 13, "Gwyliwch gan hyny; am na wyddoch na'r dydd na'r awr y daw Mab y dyn." A chofiwn fod dydd olaf ein bywyd yn penderfynu ein cyflwr ni yn nydd olaf y byd: ac fel y byddom farw, felly y'n bernir.

Mi a gaf derfynu y mater yma gydâ gwneuthur peth cymhwysiad o'r hyn a ddywedwyd.

Defnydd I. Er cysur i'r holl saint. Mae yma helaethrwydd o ddyddanwch i bawb ag sydd mewn cyflwr o râs. Beth bynag yw eich goddiau yn y byd, fe ad-delir i chwi y dydd hwnw am eich holl golledion. "Er gorwedd o honoch ymysg y crochanau, byddwch fel esgyll colomen wedi eu gwisgo âg arian, a'i hadenydd âg aur melyn," Psalm. lxviii. 13. Er bod y byd yn eich gwatwar, yn barnu arnoch, ac yn eich condemnio; fe'ch rhyddhâ y Barnwr chwi yn y dydd hwnw, ac a ddwg allan eich cyfiawnder fel y goleuni. Ceir gweled y pryd hwnw mai ynfydion y byd oedd yr unig rai doethion oedd ynddo. Er bod y groes yn drom, da y gellwch ei dwyn, gan ddysgwyl coron cyfiawnder, yr hon a rydd y Barnwr cyfiawn i chwi y dydd hwnw. Os yw y byd yn eich diystyru, ac yn ymddwyn tu ag atoch gydâ'r anfri mwyaf, na ofelwch: y mae y dydd yn dyfod pan y cewch eistedd gyd â Christ ar ei orsedd. Na ddigalonwch o herwydd amlra profedigaethau: eithr gwrthwynebwch ddiafol gyd â hyder o gael cwbl fuddugoliaeth; canys chwi a gewch farnu temtiwr yn y diwedd. Er eich bod yn awr yn ymdrechu yn erbyn corph y farwolaeth, chwi a gewch eich holl elynion dan eich traed yn y diwedd, ac fe'ch gosodir yn ddifeius ger bron ei ogoniant ef. Na lwfrhäer chwi gan arswyd y dydd hwnw, pan y meddylioch am dano: gadewch i'r rhai a ddirmygasant y Barnwr, ac sydd yn parhâu yn elynion iddo ef ac ffordd sancteiddrwydd, ddihoeni a phen-grymu pan feddyliont am ei ddyfodiad; ond dyrchefwch chwi eich penau mewn llawenydd, canys eich dydd olaf fydd eich dydd goreu. Y Barnwr yw eich pen, eich priod, eich prynwr, a'ch eiriolwr. Rhaid i chwi ymddangos o flaen y frawdle, ond ni chondemnir chwi, Ioan v. 24. Nid yn eich herbyn, ond drosoch y bydd ei ddyfodiad ef. Efe a ymddangosodd yn y cnawd i ymud y rhwystrau cyfreithiol oddiar ffordd y brïodas ys-

faingc? Y mae genyt yn awr graig o'th fewn, calon o adamant, fel yr wyt yn gallu cyfrif picellau y gair fel sofl, a chwerthin wrth ysgydwad gwaywffon: ond fe hyllt y graig yna wrth yr olwg ar y Barnwr; fe dyr y galon galed yna y pryd hwnw, a thi a wyli ac a aleri, pan na bydd wylo a galaru o un lles. Rhwymau angau a syrthiant ymaith; y bedd a'th chwyda allan; a'r mynyddoedd a neidiant oddiwrthyt, a'r creigiau a wrthodant dy falu yn llwch. Pa fodd y gall y llygaid melldigedig yna oddef yr olwg ar y Barnwr! wele efe yn dyfod! Pa le y mae y tyngwr atgas, yr hwn a agorodd ei friwiau? y bydol-ddyn gresynol, yn awr a'i dduw wedi ei adael? y rhagrithiwr ffurfiol, yr hwn a'i cusanodd ac a'i bradychodd? gwawdwyr yr efengyl, y rhai a'i gyrasant ymaith yn ei genadon gruddfanus, a halogasant ei ordinhadau, ac a sathrasant dan eu traed ei werthfawr waed ef? O lofrudd, y gwr a laddwyd yw dy Farnwr: dyna fe yr hwn yr ymddygaist mor greulon tu ag ato: wele Oen Duw yr hwn a ddibrisiaist, yn ymddangos fel llew i'th erbyn. Pa fodd y goddef dy galon bicellau ei olygon tanllyd! y galon greigaidd yna sydd yn awr yn annhreiddiadwy, y pryd hwnw hi a chwilfriwir; yr wyneb sydd yn awr yn nacâu gwridio, y pryd hwnw a gasgl barddu: saethau digofaint a drywanant, lle mae saethau argyhoeddiadau yn awr yn methu menu. A pha beth yr attebi iddo ef, pan gyfodo a'th gyhuddo, o herwydd dy anghrediniaeth, a'th anedifeirwch? A ddywedi di na rybuddiwyd mo honot! Mae dy gydwybod o'th fewn yn dy wrth-dystio: mae ocheneidiau dirgel a lludded y rhai a fu yn dy rybyddio, yn tystio i'th erbyn. Pe mynegai plentyn neu hurtyn i ti fod dy dŷ ar dân, ti a redit i'w ddiffodd yn ddioedi; ond, mewn pethau o dragywyddol bwys, mae dynion yn gyntaf yn llenwi eu calonau â rhagfarn, yn erbyn y cenadon, a chwedi hyny yn taflu eu cenadwri o'u tu ol. Ond y ffol-ddyfeisiau a'r ffug-esgusion hyn ni thyciant pan ddelo dydd yr Arglwydd. Pa fodd y goddefa y clustiau melldigedig yna, sydd yn awr yn fyddar i alwad yr efengyl, sydd yn gwahodd pechaduriaid at Grist, glywed y ddedryd arswydus, "Ewch oddi wrthyf rai melldigedig i'r tân tragywyddol, a barotowyd i ddiafol a'i angyllion?" Ni bydd yno un gwrandawr cysglyd: ni bydd calon neb yn crwydro y pryd hwnw: bydd eu calonau a'u llygaid wedi eu sefydlu ar eu trueni, am yr hwn ni chredant yn awr. O na wyddem yn ein dydd hwn y pethau a berthynant i'n heddwch.

*Yn ddiweddaf,* Cymmerwch eich cynghori i gredu y gwirionedd mawr hwn; a chredwch ef fel y parotôch erbyn y farn mewn pryd. Gosodwch i fynu frawdle ddirgelaidd yn eich mynwesau eich hunain, a gelwch eich hunain yno i gyfrif yn fynych. Gwnewch y Barnwr yn gyfaill i chwi mewn pryd, drwy ei dderbyn yn nghynnygiad yr efengyl; a rhoddwch bob diwydrwydd, fel eich caffer yn Nghrist y dydd hwnw. Bwriwch ymaith weithredoedd y tywyllwch, a byddwch fyw bob amser, ac ymhob lle, fel ped faech yn credu eich bod dan sylw eich Barnwr, yr hwn a ddwg bob gweithred i farn, â phob peth dirgel. Byddwch ffrwythlon mewn gweithredoedd da, gan wybod mai fel yr hauoch felly y medwch. Byddwch yn dduwiol tu ag at Dduw, yn gyfiawn ac yn garedig tu ag at ddynion. Trysorwch i chwi eich hunain helaethrwydd o weithredoedd cariad a thosturi tu ag at y rhai sydd mewn cyfyngder, yn enwedig y rhai sydd o deulu y ffydd, fel y dyger y cyfryw weithredoedd fel tystiolaethau o'ch perthynas â Christ. Na chauwch ymysgaroedd eich tosturi yn awr yn erbyn yr anghenus; rhag na chewch chwithau ddim trugaredd yn y dydd hwnw. Yn eich holl weithredoedd, gofelwch am fod yn syml ac yn ddiragrith; gan amcanu yn y cwbl, at ogoniant eich Harglwydd, a thystiolaethu eich cariad tu ag ato, ac ufuddhau i'w orchymynion. Gadewch i'r rhagrithwyr, y rhai sydd yn derbyn eu gwobr, gyhoeddi bob un ei rinwedd ei hun, ac udganu pan wnelont elusen. Yspryd gwael ac anghrist'nogaidd ydyw yr un na all gael boddlonrwydd mewn gweithred dda oddieithr iddi gael ei gwnëyd yn gyhoedd ger bron ereill: mae yn gwbl anweddus i ddyn a fo yn credu y daw yr udgorn diweddaf i alw ynghyd yr holl fyd; a cher eu bron, y Barnwr ei hun a gyhoeddha y gweithredoedd a fydd yn wirioneddol dda, er mor ddirgel bynag y byddont wedi eu cyflawni. Byddwch byw mewn dysgwyliad crediniol am ddyfodiad yr Arglwydd. Bydded eich lwynau yn wastad wedi eu gwregysu, a'ch canwyllau yn oleu: fel pan ddelo, pa un bynag ai yn nydd olaf eich bywyd, ai yn nydd olaf y byd, y galloch ddywedyd mewn llawenydd, " Wele, dyma ein Duw ni, gobeithiasom ynddo."

# PEN V.

## TEYRNAS NEFOEDD.

**MATH. xxv. 34.**

*Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd.*

Gwedi llefaru am y farn gyffredinol oddiwrth y gyfran yma o'r ysgrythyr; rhan o ba un ydyw y testun presennol; a chan fy mod i lefaru am dragywyddol ddedwyddwch y saint, a thragywyddol drueni yr annuwiol, oddiwrth y gwahanol ddedryd a gyhoeddir arnynt yn y dydd mawr; mi a'u cymmeraf yn y drefn yr ydym yn eu cael wedi eu rhoddi o'u blaen; a hyny yn hytrach, o herwydd fod dyfarniad y rhai cyfiawn yn cael ei chyhoeddi yn gyntaf, ac felly yn cael dechreu ei chyflawni yn gyntaf, er fe allai yr hollol gyflawnir y llall cyn i hon gael ei chwbl orphen.

Mae geiriau y testun yn cynnwys y ddyfarniad orfoleddus ei hun, yngbyd â hanesiol arweiniad i mewn iddi, yr hon sydd yn adrodd i ni pa fodd y cyhoedda y Barnwr y ddedryd; y Brenin, Iesu Grist; y pleidiau uwch ben y rhai y cyhoeddir, sef y rhai ar ei ddeheulaw; a'r amser, sef pan fyddo y prawf drosodd. Am y pethau hyn, mi a lefarais eisioes. Y ddyfarniad ei hun ydym yn awr i'w hystyried; "Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad," &c. Sefwch yn ol, O chwychwi eifr aflan; ewch o'r ffordd, hob enaid diadgenedledig, na unwyd a Christ: nid i chwi y mae hyn. Deuwch chwi, O saint y rhai a symudwyd o'u cyflwr natur, i gyflwr o ras: gwelwch yma y cyflwr o ogóniant yn eich dysgwyl. Mae gogoniant wedi ei ddodi i lawr i ni mewn geiriau a sillafau; drych, yn mha un y gellwch weled eich tragywyddol ddedwyddwch; cynllun, neu ddarluniad o dŷ Tad Crist, lle y mae llawer o drigfanau.

Mae y ddyfarniad ogoneddus hon yn cynnwys dau beth: (1.) Y dedwyddwch cyflawn a bennodir i'r saint, sef *y deyr-*

's, (2) Eu derbyniad rhwysg-fawr iddi, " Deuwch chwi ndigedigion fy Nhad, etifeddwch," &c. *Yn gyntaf*, Mae cyflawn ddedwyddwch yn deyrnas. Teyrnas yw uchafion dol wynfyd ;—nid oes dim ar y ddaear yn fwy na theyrnas: ı hyny y mae cuddiedig bwys gogoniant y nef yn cael ei al allan i ni dan gyffelybiaeth teyrnas. Ond nid teyrnas gyedin ydyw hon, *y deyrnas* ydyw; teyrnas nefoedd, yn agori ar boll deyrnasoedd y ddaear mewn gogoniant, anydedd, buddioldeb, a dyddanwch, yn anfeidrol fwy nag y aent hwy yn rhagori ar gyflwr isel a distadl y cardotyn yn fratiau ar y domen. *Yn ail*, Gwelwn yma dderbyniad wysg-fawr y saint i'w teyrnas hono, " Deuwch chwi, feddwch y deyrnas," Yngwydd angylion, dynion a diafliaid, ıent yn cael eu gwisgo â breninoliaeth, a'u huchel urdd-ınio ger bron yr holl fyd, gan Iesu Grist, etifedd pob peth, n yr hwn y mae pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. ae eu hawl i'r deyrnas yn cael ei arddelw a'i gydnabod yn benig! Maent yn cael eu derbyn iddi fel etifeddion dibet-s o'r deyrnas, i'w meddiannu drwy dreftadaeth neu goelbren, l y mae y gair yn prïodol arwyddocâu; oblegid, gynt, wrth elbren y rhenid etifeddiaethau, megys Canaan i Israel, cynfunedig Duw, fel eu gelwid, Ecsod. iv. 22. Ac oblegid ai teyrnas y Tad yw hon, y maent hwy yn cael eu cyd-bod yn gyhoeddus ar eu derbyniad iddi, megys bendigedion Tad Crist; yr hon fendith a roddwyd iddynt ymhell cyn yn, eithr yn awr hi a gyhoeddir ac a gâdarnhëir iddynt gan Cyfryngwr, yn enw ei Dad. Gellir sylwi nad yw efe yn ywëyd, chwi fendigedigion *y* Tad, ond chwi fendigedigion *y* Nhad; i ddangos i ni, fod pob bendith yn deilliaw i ni ddiwrth y Tad, ffynon y bendithion, fel y mae efe yn Dduw c yn Dad ein Harglwydd Iesu Grist, drwy yr hwn y'n bendithir, Eph. i 3. Ac, yn olaf, fe'u derbynir i'r deyrnas hon, el un wedi ei pharotoi iddynt er seiliad y byd, yn ohragywyddol fwriad Duw, cyn eu bod hwynt, nac un o honynt; el y caffo yr holl fyd weled mai dawn Duw yw bywyd ragywyddol.

---

## ATHRAWIAETH.

*Fe wneir y Saint yn gwbl ddedwydd yn y meddiant o Deyrnas Nefoedd.*

Yma mi a ystyriaf ddau beth; (1.) Natur y deyrnas hon.

(2.) Derbyniad y saint iddi. Ac yna mi a dynaf rai casgliadau ymarferol oddiwrth y cyfan.

YN GYNTAF, Am natur teyrnas nefoedd, nid yw ein gwybodaeth ni am dani ond anmherffaith iawn; canys, "Ni welodd llygad ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef. 1 Cor ii 9. Megys yr arfer rhieni ddysgu eu plant bychain drwy gyffelybiaethau cynnefin, am y pethau na byddo ganddynt hwy, heb hyny, fawr o amgyffred; felly ein Duw daionus, gan ystyried ein gwendid, a welodd yn dda ddarlunio dedwyddwch y nef i ni, drwy gyffelybiaethau wedi eu cymmeryd oddiwrth bethau daearol, ardderchog yngolwg dynion; o herwydd y byddai datguddiadau noeth o ogoniant nefol, wedi eu diosg oddiwrth gyffelybiaethau daearol, yn rhy ddysclaer i'n llygaid gweiniaid ni, a ni a ddyrysem yn yr olwg arnynt. Gan hyny yn awr, nis gall un ond siarad fel plentyn am y pethau hyny, y rhai a ddadguddia 'r dydd yn amlwg.

Mae cyflwr gogoniant yn cael ei ddarlunio dan gyffelybiaeth teyrnas; teyrnas, ymhlith dynion, ydyw y peth y mae mwyaf o dda bydol yn ymgyfarfod. Yna y caiff pob sant, fel brenin, feddiannu teyrnas. Bydd holl deiliaid Crist yn freninoedd, pob un a'i goron ar ei ben. Eithr ni raid i'r brenin mawr mor diosg ei frenindod, ond caiff ei holl blant gydgyfranogi o'i deyrnas ef.

I. Rhoddir gallu ac awdurdod breninol i'r saint. Nid titlau gweigion y mae ein Harglwydd yn eu rhoddi i'w rai anwyl; efe a'u gwna yn freninoedd yn wir. Bydd llywodraeth y saint yn llywodraeth yn rhagori ymhell ar un y penaeth mwyaf a fu erioed ar y ddaear. Byddant yn feistriaid hollol ar bechod, yr hwn a fu unwaith yn feistr arnynt hwy. Bydd ganddynt lywodraeth hollol ar eu hysprydoedd eu hunain: a chwbl awdurdod ar eu serchiadau a'u tueddiadau, y rhai sydd yn awr yn peri iddynt gymmaint o flinder: fe gaiff gwreiddyn terfysgus serchiadau llygredig ei ddystrywio am byth o'r deyrnas hono, fel nad allo roddi iddynt y blinder lleiaf mwyach. Cant awdurdod ar y cenedloedd, y rhai annuwiol o bob cenedl, "a'u llywodraethu â gwïalen haiarn," Dad. ii. 26, 27. Yr holl fyd o annuwiolion a ddryllir o'n blaen; a Satan a sethrir dan eu traed, Rhuf. xvi. 20. Ni ddichon efe byth eu hudo â themtasiwn mwyach: ond efe a farnir ganddynt; ac yn eu gwydd a fwrir, ynghyd a'r gethern wrthodedig, i'r llyn o dân a brwmstan. Felly y llywodraethant ar eu gorthrymwyr. Wedi ymdrechu bardd ymdrech y ffydd, a chael y fuddugoliaeth,

Crist a'u croesawa fel y darfu Iosuah â'i gadpeniaid, gan beri iddynt "nesâu, a gosod eu traed ar yddfau y breninoedd," Ios. x. 24.

II. Hwy a gant arwyddion brenindod. Yn orsedd, Crist a rydd iddynt eistedd gyd ag ef ar ei orsedd-faingc, Dad. iii. 21. Hwy a dderchefir i'r anrhydedd a'r urddas uchaf ag a ddichon fod iddynt; ac a gant ei fwynhâu yn dragywyddol mewn llonyddwch diderfysg a diderfyn, ar ol yr holl dreigliadau y maent yn eu cyfarfod yn y byd, ar y ffordd i'r orsedd. Yn goron, hwy a gant anniflanedig goron y gogoniant, 1 Pedr v. 4. Nid coron o flodau, fel y bydd weithiau gan ddeiliaid, cwncwerwyr, neu fuddugoliaethwyr: y cyfryw goronau a wywant yn ebrwydd; ond eu coron hwy ni wywa byth. Nid coron o aur fel y rhai a wisga breninoedd daearol; canys hyd yn nod coronau o aur a anurddir yn fynych, ac ar y goreu, nis gallant wnëyd y rhai a'u gwisgont yn ddedwydd. Eithr coron o ogoniant a fydd. Mae coron gogoniant yn goron bywyd, (Dad. ii. 10.) bywyd diddiwedd: coron nas gall angau byth wnëyd iddi syrthio oddi am ben un. Rhaid mai coron barhâus ydyw, o herwydd mai coron cyfiawnder yw, 2 Tim. iv. 8. Hi a bwrcaswyd iddynt â chyfiawnder Crist, yr hwn a gyfrifir iddynt; a hwy a barotöir iddi drwy gyfiawnder egwyddorol: cyfiawnder neu ffyddlondeb Duw sydd yn ei sicrhâu iddynt. Yn deyrnwïalen, hwy a gant wïalen haiarn, (Dad. ii. 27.) arswydus i'r holl fyd drygionus; a chleddyf hefyd, "cleddyf dau-finiog yn eu dwylaw, i wneuthur dïal ar y cenedloedd, a chosp ar y bobloedd, Psal. cxlix. 6, 7. Hwy a gant wisgoedd breninol. Gwisgoedd gwynion ydyw y gwisgoedd breninol yn y deyrnas hon, Dad. iii. 4. "Hwy a rodiant gydâ mi mewn dillad gwynion." A'r rhai hyn sydd, mewn modd neillduol, yn dangos gogoniant annirnadwy cyflwr y saint yn y nefoedd.

Mae yr Arglwydd wedi gweled bod yn dda ddarlunio gogoniant cyflwr y saint, dan y gyffelybiaeth o gael eu gwisgo mewn dillad gwynion. Fe addewir i'r gorchfygwr "gael ei wisgo mewn dillad gwynion," Dad. iii. 5. Mae yr henuriaid oddiamgylch yr orsedd wedi eu "gwisgo mewn dillad gwynion," pen. iv. 4. A'r dyrfa ger bron yr orsedd sydd wedi "eu gwisgo mewn gynau gwynion," pen. vii. 9 "wedi eu gwigo mewn gynau gwynion," adn. 13. "wedi eu cannu yngwaed yr Oen," adn. 14. Yr wyf yn cyfaddef mai at gyflwr y saint ar y ddaear y mae y ddwy adnod olaf yn

G e

cyfeirio: etto mae yr ymadroddion wedi eu benthyca oddiwrth gyflwr yr eglwys yn y nefoedd. Pob gwisgoedd, a elwir yn brïodol felly, ydynt arwyddnodau pechod a chywilydd, ac fe'u dodir heibio gan y saint, pan ddelont i'w cyflwr o ogoniant. Eithr pe d ystyriem ar ba achlysuron yr arferid eu gwisgo, ni a gaem weled llawer o'r nefoedd ynddynt.

*Yn gyntaf,* Y Rhufeiniaid, pan y rhyddhâent eu caethweision, a roddent iddynt wisgoedd gwynion, fel arwyddnodau o'u rhyddhâd. Felly y saint y dydd hwnw, a wisgant eu dillad gwynion; canys hwnw fydd diwrnod "rhyddid gogoniant plant Duw," (Rhuf. viii. 21.), "dydd prynedigaeth eu corph," adn. 23. ni chânt mwyach weled tŷ y caethiwed, na gorwedd mwyach ymhlith y crochanau. Os cymharwn gyflwr y saint ar y ddaear â chyflwr y rhai drygionus, y mae yn wir yn gyflwr o ryddid; pan nad yw y llall ond cyflwr o gaethiwed: ond mewn cymhariaeth â'u cyflwr yn y nefoedd, nid yw cyflwr y saint ar y ddaear ond caethiwed. Y mae sant ar y ddaear yn wir yn dywysog ieuangc, ac yn etifedd y goron; a gellir dywëyd mai, '*R'wy'n gweini,* yw ei arwydd-air *(motto)*; canys "tros gymmaint o amser ag y mae yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl," Gal. iv. 1. Beth yw gruddfanau y saint, y gorchwylion gwael a swga sydd ganddynt weithiau mewn llaw, y dillad budron a charpiog y maent yn eu gwisgo, onid cynnifer o arwyddnodau o'r caethiwed cymharol hwn? Ond ar y dydd y daw y saint i feddiant o'r goron, hwy a dderbyniant eu cyflawn ryddid, ac ni wasanaethant mwyach. Hwy a gwbl ryddheir oddiwrth bechod, y gwaethaf o bob drygau, ynddo ei hun, ac yn eu hofnau hwythau: mor fawr, ynte, fydd y rhyddid hwnw, pan y dywedir am yr Alphtiaid y rhai y maent yn eu gweled heddyw, na chânt eu gweled byth ond hyny? Byddant yn rhydd oddiwrth bob temtasiwn i bechu: ni ddichon Satan na'i offerynau mo'u cyrhaeddyd i'w temtio mwy. Yna y rhoddir cyflawn atteb ad i'r weddi hóno a fynych erfyniasant, "Nac arwain ni i brofedigaeth." Ni ddichon on sarph wenwynig ddyfod i'r baradwys fry; yno nis gellir gosod na hoenyn na magl i ddal traed y saint; gallant yno rodio yn ddiarswyd, canys ni byddant mewn perygl; nid oes yno na ffau llewod na mynydd llewpardiaid, yn ngwlad yr addewid. Ie, fe eu gosodir allan o gyrhaedd y posiblrwydd i bechu, canys byddant wedi eu sefydlu mewn rhinwedd. Yna y perffeithir rhyddid eu hewyllys, i fod byth

yn sefydlog mewn daioni yn anghyfnewidiol. A hwy a ryddheir oddiwrth holl effeithiau pechod: "Marwolaeth ni bydd mwyach, ni thrîstwch na llefain, na phoen ni bydd mwyach," Dad. xxi. 4. Pa deyrnas sydd debyg i hon? Mae angau yn awr yn medru myned i'r palas, mor hawsed ag i'r bwthyn: mae gofid yn llenwi calon yr hwn sydd yn gwisgo coron ar ei ben: nid yw gwisgoedd breninol yn ddim amddiffyniad rhag poen, ac wylo o herwydd poen. Ond ni fydd dim trallod yn y nefodd. Pob gwaradwydd a ddilëir ac ni ddifera deigryn dros eu gruddiau, mwy. Ni chwynant mwyach eu bod yn cael eu gadael; ni chuddia yr Arglwydd byth ei wyneb oddiwrthynt; eithr haul cyfiawnder a dywyna arnynt yn eithaf ei ddysgleirdeb, nes chwalu pob cymylau, a rhoddi iddynt ddydd gwastadol, heb un gradd o dywyllwch byth. Diluw o ddigofaint, ar ol y daran arswydus oddiar yr orsedd, a ysguba y rhai drygionus ymaith oddir ger bron y frawdle, i lyn o dân: eithr yn gyntaf fe ddygir y saint, fel Noah, i'r arch o gyrhaedd y niwed.

*Yn ail*, Arferid gwisgoedd gwynion fel arwyddion o burdeb. Am hyny y mae "gwraig yr Oen wedi ei gwisgo â lliain main glân a dysglaer," Dad. xix. 8. A'r rhai sydd yn sefyll ger bron yr orsedd-faingc, "a olchasant eu gynau, ac a'u cannasant yngwaed yr Oen," pen. vii. 14. Yna y saint a wisgant wisgoedd o berffaith burdeb, ac a ddyscleiriant mewn sancteiddrwydd difrychau, fel yr haul yn ei nerth, heb y cwmwl lleiaf i attal ei lewyrch. Cwbl ddiniweidrwydd a adferir iddynt y pryd hwnw, a phob ymddangosiad o bechod a ddeolir yn mhell o'r deyrnas hono. Mae euogrwydd pechod a'i allu llywodraethol, yn y byd hwn, wedi eu cymmeryd o'r saint; "ond y mae pechod yn trigo ynddynt, Rhuf. vii. 20. Eithr yno, ni bydd pechod ynddynt mwy: llwyr lanheir hwynt oddiwrth lygrediaeth: fe ddiwreiddir gwreiddyn chwerwedd, ac ni adewir y gweddill lleiaf o hono yn ol yn eu heneidiau; fe fydd eu natur yn hollol bur a dibechod. Ni bydd dim tywyllwch yn eu meddwl; ond fe fydd deall pob un o'r saint, pan y delont i'r deyrnas hono, fel pellen bur o oleuni digymmysg. Ni bydd yno y gwrthwynebiad lleiaf i'r hyn sydd dda, na'r tueddiad lleiaf at ddrwg, yn eu hewyllysiau: eithr hwy a ddygir i berffaith gydffurfiad âg ewyllys Duw; fe eu bendithir a phurdeb angylaidd, ac a'u sefydlir ynddo. Ni bydd eu serchiadau yn agored i'r anhwyl na'r

adwys fry; wrth rodio yno, daw i'w cof y dydd y rho heb yr haul.

Ac yn awr, pan y maent yn ymddangos yn fuddugol mewn gwisgoedd gwynion, y mae yn arwydd eu bo cyrhaeddyd heddwch anrhydeddus; y cyfryw heddwch na gelynion mo'i aflonyddu mwyach. Felly y bydd pob peth ynol i'w sefyllfa filwriaethus yn cael ei ddodi heibio y cleddyf i lawr; ac ymaflant yn mhin yr ysgrifenydd goffa ei glodydd ef, trwy yr hwn y gorchfygasant. hadau cyhoedd, pregethu, cymuno, a ddodir beibio rhydeddus; nid oes deml yno, Dad. xxi. 22. Fe fu hyn yn felys iddynt; eithr wedi yr el yr ymdeithwy adref, fe geuir pob lletty a barotoisid i'w croesawi ar y diffoddir y canwyllau pan gyfodo yr haul; fe dynir i tabernacl a arferwyd yn yr anialwch, pan ddel y ogoneddus i gymmeryd ei le. Llawer o ddyledswy saint a ddodir heibio y pryd hwnw; megys y dyry ffon o'i law, pan ddelo i ben ei daith. Yna y troir g yn glodfori; a chan na bydd dim pechod i'w gyfadde anghenion i'w diwallu; cyfaddefiad ac erfyniad a ly fynu gan ddïolchgarwch tragywyddol. Ni bydd dim yn y nefoedd: hauasant mewn dragrau, daeth yr a fedi mewn gorfoledd, "ac fe sych Duw ymaith bob oddiwrth eu llygaid" Dad. xxi. 4. Ni bydd eisiau weiddio pechod; ac ni raid wrth hunan-ymholiad. rhaid iddynt wylied mwyach; bydd y perygl drosodd. ynedd fydd wedi cael ei pherffaith waith, ac ni bydd am dani yno. Ffydd a droir yn olwg, a gobaith a lyng y mor o brofiad a chyflawn fwynhâd. Bydd yr holl ryfelwyr wedi eu cwbl ddarostwng, a'r saint a eistedd esmwyth ar eu gorsedd-feingciau: ac felly y byddinoedd hen heidiol yn amser y rhyfel ysprydol, a ollyngir yn a hwy a gynnaliant eu buddugoliaeth mewn cyflawn hed

*Yn olaf,* Gwisgoedd gwynion a arferid ar ddyddiau ion, yn arwydd o lawenydd. Ac felly y gwisgir y mewn gwisgoedd gwynion; canys hwy a gadwant dragy Sabbath i'r Arglwydd, Heb. iv. 9. " Y mae gan orphwysfa (neu gadwad sabbath) etto yn oll i bobl D Y Sabbath, yngbyfrif y saint, ydyw brenines dyddi hwy a gant sabbathyddiaeth gwastadol yn nheyrnas nef ac felly bydd eu dillad yn wynion bob amser. Hwy orphwysdra tragywyddol, a llawenydd dirwystr; can

orphwysle yw y nefoedd, lle y gall dynion gysgu tragywyddoldeb heibio; (yno ni orphwysant na dydd na nos;) ond eu gwaith yw eu gorphwysdra a'u hadfywiad gwastadol, a llafur blinder ni bydd yno. Maent yno yn gorphwys yn Nuw, yr hwn yw canol-bwynt eu heneidiau. Yno y deuant o hyd i gyflawnder neu ddigonolrwydd eu holl ddymuniadau; gan gael llawn fwynhâd o Dduw, a chymundeb dirwystr ag ef. Dyma y nôd y mae yr enaid yn wastadol yn aneswyth nes ei gyrhaeddyd; ond pan ei cyrhaedder, y mae yn ymdawelu; canys efe yw y nod eithaf, ac ni all yr enaid fyned ymhellach. Ni dichon ddirnad, ewyllysio, na dymuno dim yn chagor; ond ynddo ef y mae yn cael yr hyn sydd yn gydfesurol â'i ddymuniadau diderfyn. Dyma ddyben dedwyddol holl lafur y saint; mae eu llafur a'u gofidiau yn cynnyrchu gorphwysdra gorfoleddus. Y Caldeaid a fesurent eu dyddiau naturiol gan rodii y dydd yn gyntaf a'r nos yn olaf; ond yr Iuddewon a gyfrifent y nos yn gyntaf, a'r dydd yn olaf. Yr un ffunud y mae y rhai drygionus yn dechreu gydâ diwrnod o esmwythdra a difyrwch, ond yn diweddu gydâ nos o dragywyddol boen a gofid; eithr y mae pobl Dduw yn cael eu nos drymllyd yn gyntaf, gwedi hyny y daw eu dydd o dragywyddol orphwysdra. Hyn a grybwyllodd Abraham, yn y ddammeg, wrth y gwr goludog yn uffern, Luc. xvi 25, "Ha fab coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y dyddenir ef, ac y poenir dithau."

III. Os gofyn neb yn mha le y mae teyrnas y saint yn sefyll; nid yn y byd hwn; y mae mewn gwlad well, hyny ydyw, un nefol, (Heb. xi. 16.); gwlad well na'r oreu sydd yn y byd hwn; sef y Ganaan nefol, tir Immanuel, lle nad oes dim yn eisiau i wnéyd hapusrwydd y preswylwyr yn gyflawn. Dyma 'r wlad ddedwydd, yr hon a fendithiwyd â thragywyddol dymmor ffrwythlawn, lle y ceir pob peth angenrheidiol a chyfaddas er hyfrydwch. Yno y bwyty dynion fara angylion; fe eu porthir â'r manna cuddiedig, (Dad. ii. 17.), heb ddim trafferth i'w gasglu; llawn ddigonir hwynt â ffrwythau y wlad, yr hwn a gant ei fwyta heb y llafur lleiaf i'w cyrhaeddyd. Gwlad yn mwynhâu dydd gwastadol, canys ni bydd nos yno, Dad. xxi. 25. Mae tywyniad haul yn wastadol yn prydferthu y wlad well hono, ond nid oes yno ddim gwrês annymunol. Ni welir un cwmwl yno byth: etto nid gwlad o sychder yw; mae y prenau a blannodd yr Arglwydd yn sefyll ger llaw afonydd dyfroedd, ac ni bydd arnynt byth eisiau lleithdra, canys hwy a gant eu diwallu yn

wastadol â'r Yspryd, drwy Iesu Grist oddiwrth y Tâd. Dyma'r wlad o ba un y daeth ein Harglwydd, ac i hon yr aeth efe drachefn; y wlad oedd gan yr holl batriarchiaid a'r prophwydi sanctaidd mewn golwg, tra ar y ddaear; a thu a hon y milwriodd yr holl saint a aethant o'n blaenau; ac iddi hi y nofiodd y merthyron yn orfoleddus, drwy for o waed. Ar y ddaear yma y mae pererindod y saint; a hòno yw y wlad lle cant orphwysdra tragywyddol.

IV. Y ddinas freninol yw y ddinas fawr hòno, y Jerusalem sanctaidd, a ddisgrifir yn helaeth yn Dad. xxi. 10, hyd ddiwedd y bennod. Y mae yn wir fod rhai difinyddion dysgedig o'r farn mai ar y ddaear yma y mae y ddinas hon; ond y mae y pethau hynotaf yn y disgrifiad, yn ymddangos i mi yn fwy cyson â barn y rhai sydd yn ein cyfeirio i ymofyn am dani mewn byd arall) Caiff y saint deyrnasu yn y ddinas sydd a'i muriau o jaspis, (adn. 11.) a sylfeini ei muriau sydd wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr, (adn 19.) a'i hëolydd o aur pur, (adn. 21.) felly y gosodir eu traed hwynt ar y peth y mae pobl y byd hwn yn gosod eu calonau Dyma y ddinas a barotöwyd iddynt gan Dduw, (Heb. xi. 16.) dinas ag iddi sylfeini, (adn. 10) dinas barhâus, (pen. xiii. 14) yr hon a saif yn flodeuog pan fyddo holl ddinasoedd y byd yn lludw; ac nid ysgógir pan y dadymchwelir sylfeini y byd. Dinas ydyw na chyfnewid byth mo'i phreswylwyr: ni symudir un o honynt o honi byth; canys bywyd ac anfarwoldeb sydd yn teyrnasu yno, a marwolaeth nid all fyned i mewn iddi. Fe'i bendithiwyd a thangnefedd perffaith a pharhâus, yr hyn nis aflonyddir byth yn y mesur lleiaf Nis gall dim oddi allan ei haflonyddu, am hyny ei phyrth hi ni chauir ddim y dydd, ac ni bydd nos yno, Dad. xxi. 25. Nis gall dim oddifewn ei haflonyddu. Ni bydd dim eisiau lluniaeth yno, dim prinder; dim anghydfod rhwng y trigolion. Beth bynag yw'r amrafaelion sydd rhwng y saint yn bresennol, ni bydd yno ddim o ôl y gwrthdarawiadau oedd rhyngddynt gynt. Cariad at Dduw, ac at eu gilydd a berffeithir: a'r rhai hyny o honynt sydd yn awr yn sefyll bellaf oddiwrth eu gilydd; a ymgofleidiant yno yn orfoleddus ac yn hyfryd.

V. Y palas breninol yw Tŷ Tad Crist, y'mha un y mae llawer o drigfanau, Ioan xiv. 2. Yno y preswylia y saint byth. Dyma'r ty a ddarparwyd i holl etifeddion gogoniant, hyd yn nod i'r rhai hyny o honynt ag sydd yn byw yn awr

yn y bythod gwaelaf, neu ynte heb le i roi eu penau i lawr. Yn gymmaint a bod ein Harglwydd yn galw ei saint i etifeddu teyrnas, efe a ddarpara iddynt dŷ cyfattebol i'r urddas y mae yn ei ddodi arnynt. Bydd y nefoedd yn dŷ cyfleus, helaeth, ac ardderchog i'r rhai y mae y brenin yn chwennych eu hanrhydeddu. Ni bu erioed dŷ wedi eu brynu mor ddrud a hwn, sef pwrcas gwaed y Cyfryngwr; a dim llai nis pwrcasai iddynt: ni bu erioed gymmaint trafferth i gyfaddasu preswylwyr i'w rhoi mewn tŷ. Yr oedd y saint wrth natur yn hollol anghyfaddas i'r tŷ hwn, ac ni allasai diwydrwydd na medrusrwydd dynol eu gwneyd yn addas iddo. Eithr y Tad a roddodd y preswylwyr bwriadol i'r Mab, i'w prynu ganddo: y Mab a dalodd y pridwerth drostynt, sef ei werthfawr waed ei hun; fel, trwy ganiatâd cyfiawnder y galler eu derbyn i'r tŷ: a'r Yspryd Glân sydd yn eu sancteiddio trwy ei râs, fel y byddont yn gymhwys i fyned lle na ddichon lim aflan fyned i. mewn. Ac nid rhyfedd, canys i balas y brenin y maent yn myned, (Psal. xiv. 15.) tŷ y deyrnas, lle y gosododd efe ei orsedd; ac yr amlyga ei ogoniant, mewn modd neillduol, tu hwnt i ddim a ddichon dynion ei amgyffred.

VI. Paradwys yw gardd y palas. "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys," eb ein Hiachâwdwr wrth y lleidr edifeiriol ar y groes, Luc xxiii. 43. Mae'r nefoedd yn baradwys lle y ceir pleser a hyfrydwch, lle y mae coed a dwfr; Afon bur o ddwfr y bywyd disglaer fel y grisial, yn dyfod allan o orsedd faingc Duw a'r Oen; ac o bob tu i'r afon y mae pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth," Dad. xxii. 1, 2. Mor ddedwydd y allasai Adda ddiniweid fod yn y baradwys ddaearol, lle nad oedd dim yn eisiau tu ag at ei ddiwallu na'i ddifyru! Eden oedd y man hyfrydaf o'r ddaear cyn ei llygru, a pharadwys oedd y man hyfrydaf yn Eden: ond beth yw daear mewn cymhariaeth i'r nefoedd? Mae y saint pan eu gogonedder yn cael eu derchafu i'r baradwys nefol. Yno y cant nid yn unig weled, ond "bwyta o bren y bywyd, yr hwn sydd yn nghanol paradwys Duw," Dad. ii. 7. Hwy a gant weled gogoniant y Cyfryngwr, a'u digoni â'i ddaioni. Ni bydd yno un cleddyf danllyd i gadw ffordd pren y bywyd; eithr hwy a gant fwyta o hono wrth eu dymuniad, a byw yn dragywydd. A hwy a gant yfed o afon hyfrydwch, (Psal. xxxvi. 8.) yr hyfrydwch

melysaf a phuraf, yr hwn sydd i'w gael yn nhir Immanuel, a mwŷnio mewn môr o hyfrydwch digymmysg yn oes oesoedd.

VII. Hwy a gânt drysorau breninol, ddigon i gynnal yr urddas y'u derchafir iddo. Gan fod heolydd y ddinas o aur pur, a'i deuddeg porth o ddeuddeg perl; rhaid bod eu trysor yn rhagori ar aur a pherlau. Tragywyddol bwys gogoniant ydyw, 2 Cor. iv. 17. O drysor gwerthfawr! trysor na heneiddia, ac ni lygra gwyfyn na rhwd; trysor nas dichon i neb ei ladrata oddiarnynt, Math. vi. 20. Ni bu deyrnas erioed yn meddu y fath drysorau gwerthfawr, na'r fath amrywiaeth trysorau: canys "yr hwn sy yn gorchfygu a etifeddu bob peth," Dad. xxi. 7. Nid oes un drysorfa ar y ddaear yn cynnwys pob peth: pe cesglid hwy oll ynghyd yn un, fe fyddai llawer mwy o bethau gwerthfawr yn eisiau yn yr un hono, nag sydd i'w cael yno. Hyn gan hyny yw trysor neillduol y breninoedd hyny a gânt etifeddu teyrnas nefoedd. Ni bydd arnynt eisiau dim tu ag at eu gwneuthur yn hollol wrth eu bodd. Y maent yn awr yn gyfoethog mewn gobaith; eithr yno bydd eu cyfoeth ganddynt mewn meddiant. Y mae pob peth yn eiddynt hwy yn awr o ran hawl: yno bydd pob peth yn eiddynt mewn mwynhâd.—Gallant deithio byth yn nhir Immanuel, ac edrych ar ei gogoniant a'i chyfoeth gydâ'r meddwl boddhâol fod yr oll a welont yn eiddynt hwy. Mae yn resyn fod y rhai'n yn medru bod yn anesmwyth o eisiau pethau da y ddaear hon, y rhai a allant fod yn sier y cânt etifeddu pob peth yn y diwedd.

VIII. Eithr ni bydd yno un teml o waith llaw, dim gwasanaethu Duw yn gyfryngedig drwy arferiad ordinhâdau, fel yma ar y ddaear; etto, mae gan y deyrnas hon yr "Arglwydd Dduw Hollalluog yn deml iddi, a'r Oen yw ei theml hi," Dad. xxi. 22. Megys mai 'r deml oedd gogoniant gwlad Canaan, felly y deml fry fydd gogoniant y nefoedd. Fe gymmerir y saint i mewn yno fel breninol offeiriaid, i drigo yn nhy yr Arglwydd byth: canys yno fe wna Iesu Grist bob un o'i saint yn "golofn yn nheml Dduw, ac allan nid ânt mwyach." Dad. iii. 12, fel yr arferai yr offeiriaid a'r Lefiaid fyned yn eu cylchoedd, allan o'r deml ddaearol. Yno y caiff y saint gweled y gogoniant, y dwyfol bresennoldeb, ynghyd â'r cymmundeb mwyaf cyfeillgar a dirwystr â Duw: yno y cânt Iesu Grist, fel yr arch wirioneddol, yn yr hon y caiff y gyfraith danllyd ei chuddio o'u golwg am byth: a'r drugareddfa, oddiar yr hon ni anadlir dim ond tangnefedd tragywyddol ac ewyllys da tu ag atynt: y cerubiaid, sef cymdeithas angylion

sancteiddiol, y rhai a gydunant â hwy i dragywyddol ryfeddu dirgelwch Crist: y canwyllbren aur a'i saith lusern, canys gogoniant Duw a'i goleua hi, a'i goleuni hi yw'r Oen, Dad xxi. 23. Mae allor yr arogl-darth, yn eiriolaeth Crist. "yr hwn sydd yn byw bob amser i eiriol drostynt," (Heb. vii, 25) yn wastadol yn dangos haeddedigaethau ei angau a'i ddyoddefiadau, ac byth yn effeithiol ac yn ewyllysgar ar fod i'r rhai a roddodd ei Dad iddo, gael bod gydag ef: a bwrdd y bara dangos, yn y wledd wastadol, a gant gyd â'u gilydd yn y mwynhâd o Dduw. Mae hyn yn fy arwain i ystyried yn fwy neillduol,

IX. Y gymdeithas yn y deyrnas hono. Beth a leshâi gallu breninol, ac awdurdod, arwyddion breninoliaeth, trysorau gwerthfawrocaf, a holl freuintiau teyrnas, heb gymdeithas gysurus? Cafodd rhai penau coronog dreulio eu hoes yn athrist o eisiau hyn: Nid oedd eu palasau iddynt ond megys carcharau, a'u holl arwyddion anrhydedd, ond megys cadwynau carcharor: tra yr oedd pawb yn eu casâu, nid allent ymddiried mewn neb, na chael cymdeithas gysurus â neb. Ond y mae y rhan fwyaf o ddedwyddwch y nef yn gynnwysedig yn y gymdeithas wynfydedig a fwynha y saint yno. I eglurhâu hyny, ystyriwch yr ychydig bethau a ganlyn:

*Yn gyntaf*, Bydd cymdeithas y saint yn eu plith eu hunain yn rhan nid bechan o ddedwyddwch y nef. Mae cymdeithas y saint ar y ddaear yn dra gwerthfawr gan y rhai oll sydd yn teithio drwy 'r byd i Seion: ac ni ddichon cy'mdeithion mewn pechod byth gael y fath wir hyfrydwch a phleser y naill yn y llall ag y mae pobl yr Arglwydd yn ei gael weithiau wrth weddio gyd â'u gilydd, ac wrth ymddyddan â'u gilydd ynghylch y pethau y mae'r byd yn ddieithr iddynt. Nid yw cymdeithas y saint yma ond bechan ar y goreu: ac y mae rhai o honynt wedi eu sefyllu felly, fel y maent yn ymddangos iddynt eu hunain fel pe baent yn byw yn unig; allan o gyrhaedd pawb o'r cyfryw ag y chwennychent agor eu mynwes iddynt yn achos eu cyflwr ysprydol. Maent yn ocheneidio gan ddywedyd, "Gwae fi! canys ydwyf fel casgliadau ffrwythydd haf,—nid oes swp o rawn i'w bwyta—darfu am y duwiol oddiar y ddaear," Mica vii. 1, 2. Ond yn nghynnulleidfa y rhai cyntafanedig yn y nefoedd, ni bydd neb o'r saint a fu nac a fydd ar y ddaear, yn eisiau. Hwy a fyddant oll ynghyd yn yr un lle, oll yn meddiannu yr un deyrnas, ac

oll yn cyd-eistedd wrth swper priodas yr Oen. Yma, nid yw y goreu o'r saint ddim heb ei annmherffeithrwydd, yr hyn sydd yn gwneuthur eu cymdeithas yn llai dymunol: eithr yno y byddant yn berffaith, " heb arnynt na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw," Eph. v. 27. A bydd pob annmherffeithrwydd naturiol yn gystal a rhai pechadurus, wedi eu symud; hwy a " ddyscleiriant fel dyscleirdeb y ffurfafen," Dan. xii. 3.

Yno y cawn weled Adda ac Efa yn y baradwys nefol, yn bwyta wrth eu dymuniad o ffrwyth pren y bywyd; Abraham, Isaac a Iacob, a'r holl batrieirch sanctaidd, heb grwydro mwyach o wlad i wlad, eithr wedi cyrhaedd eu gorphwysfa dragywyddol: yr holl brophwydi yn gwledda eu llygaid ar ardderchawgrwydd yr hwn y prophwydasant am ei ddyfodiad; yr holl ferthyri sanctaidd yn eu gwisgoedd gwynion lleision, a'u coronau ar eu penau; y breninoedd duwiol wedi eu derchafu i deyrnas ddisigl; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, yn dyscleirio fel ser byth yn dragywydd. Yno y cawn weled ein cyfeillion, ein parthynasau, a'n cydnabyddiaeth duwiol, yn golofnau yn nheml Duw, heb orfod myned allan oddiwrthym mwyach Ac y mae tu hwnt i ysgatfydd, y bydd y saint yn adnabod eu gilydd yn y nefoedd: neu o leiaf y byddant yn adnabod eu cyfeillion, a'u perthynasau, a'r rhai yr oeddynt yn gydnabyddus a hwynt ar y ddaear, a'r cyfryw ag a fuont fwyaf enwog yn yr eglwys: etto fe fydd yr adnabyddiaeth hono wedi ei llawn buro oddiwrth bob daearol feddyliau a serchiadau. Fe ymddengys fod hyn yn cael ei gynnwys yn y dedwyddwch perffaith y caiff y saint eu derchafu iddo yno Os gwyddai Adda pwy a pha beth oedd Efa, ar yr olwg gyntaf, pan ddug yr Arglwydd Dduw hi atto ef, (Gen. ii 23, 24.) pa ham yr ammheua neb y bydd i wŷr a gwragedd, rhieni a phlant adnabod eu gilydd yn y gogoniant? Os bydd y Thessaloniaid, y rhai a ddychwelwyd drwy weinidogaeth Paul, yn goron gorfoledd iddo ger bron ein Harglwydd Iesu Grist yn ei ddyfodiad, (1 Thes. ii. 19.) pa ham nas gall un benderfynu, y bydd gweinidogion y gair yn adnabod eu cynnulleidfäoedd, a'r cynnulleidfäoedd eu gweinidogion, yn y nefoedd? Os adnabu y dyscyblion Moses ac Elïas ar fynydd, y gwedd-newidiad, y rhai nis gwelsent erioed o'r blaen, (Matth. xvii. 4.) y mae genym sail i feddwl yr adnabyddwn ninnau hwynt hefyd, yngbyd a'r rhai cyffelyb

ddynt, pan elom i'r nefoedd. Bydd cymmundeb y saint yn hwbl gyfeillgar yno; "hwy a eisteddant gyd ag Abraham, Isaac a Iacob yn nheyrnas nefoedd," Math. viii 11. Fe ddygwyd Lazarus gan angylion i fynwes Abraham, (Luc xvi. 22) yr hyn sydd yn arwyddo cymdeithas agos ac anwyl. Er na bydd yno wahaniaeth tafodau, (1 Cor. xiii. 8) etto nid wyf fi yn ammeu dim na bydd arferiad ymadroddion yn y nef; ac y bydd y saint yno yn gogoneddu Duw yn eu cyrph, cystal ag yn eu hysprydoedd, gan osod allan ei foliant a'i ferydd. (Ond am yr iaith, ni a gawn ddeall beth a fydd, pan elom yno) Paul a gipiwyd i fynu i'r drydedd nef, sef i y gwynfydedigion, ac yno y clywodd "eiriau annrhaethlawy, y rhai nid yw gyfreithlon i ddyn eu hadrodd," 2 Cor. xii. 4. Moses ac Elïas, ar y mynydd gyd â Christ, a ymlyddanasant ag ef, Math. xvii. 3; "ac a ddywedasant am ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Ierusalem, Luc ix. 31.

*Yn ail,* Fe gaiff y saint gymdeithas â'r holl angylion sanctaidd yno. Myrddiwn o angylion a fydd yn gyfeillion iddynt a eu cyflwr o ogoneddiad. Dedwydd oedd y Bugeiliaid y rhai a glywsant gân y llu nefol, pan aned Crist! ond llawer dedwyddach a fydd y rhai a gant uno eu lleisiau â'r eiddynt hwy, yn nghyd-gôr y saint a'r angylion yn y nef, pan y gogonedder ef yn y rhai oll a fyddo o'i amgylch! Y pryd hwnw y cawn ddyfod yn gydnabyddus â'r ysprydion gwynfydedig hyny na phechasant erioed. Mor loywon y dysgleiria y sêr boreuol hyn, yn y palas sanctaidd! ysprydion gwasanaethgar oeddynt i'r rhai a gaent etifeddu iechydwriaeth, ac a garent er mwyn eu Harglwydd a'u Meistr; castellent o'u hamgylch, i'w cadw rhag niweid: mor orfoleddus y croesawant hwynt i'w tragywyddol bebyll, ac y llawenychant o'u gweled i'r diwedd yn eu teyrnas, fel y llawenycha athraw yn llwyddiant ei ysgolheigion! Ni bydd ar y saint mo'u harswyd mwyach, fel y byddai arnynt gynt: y pryd hwnw byddant wedi diosg marwoldeb, a gwendidau y cnawd, ac felly yn debyg i angylion Duw, yn gymhwys i gymdeithasu â'r rhai dysglaer hyn. Ac oll wedi eu dwyn dan un pen, yr Arglwydd Iesu Grist, hwy a gydseiniant foliant Duw a'r Oen, gan ddywedyd â llef uchel, Teilwng yw yr Oen, yr hwn a laddwyd," &c. Dad. v. 12. Pa un a fydd i'r Angylion gymeryd cyrph awyraidd, (fel y tybia rhai), fel y gweler hwynt â llygaid corphorol y saint, a bod mewn ansawdd agosach i ymddyddan â hwynt, hyn nis gwn; eithr gan eu bod yn

gallu ymddyddan a'u gilydd, nis gallwn farnu yr attelir hwynt rhag ymddyddan a'r saint.

*Yn olaf,* Hwy a gant gymdeithasu â'r Arglwydd e hun yn y nef, cymmundeb gogoneddus â Duw a Christ, yr hyn yw perffeithrwydd dedwyddwch. Yr wyf yn dewis llefaru am gymundeb â Duw, a'r dyn Crist, ynghyd; oblegid, megys yr ydym yn cael ein gras drwy Grist, felly drwyddo ef hefyd y daw gogoniant i ni, o herwydd y dyn Crist (os goddefir yr ymadrodd) yw canolbwynt y gogoniant dwyfol yn y nef, o'r hwn y cyfrenir ef i'r holl saint. Mae hyn yn cael ei roddi ar ddeall i ni oddiwrth yr ysgrythyrau sydd yn darlunio dedwyddwch y nef mewn " bod gyda Christ." Luc xxiii. 43, " Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys." Ioan xvii. 24, " Y Tad, y rhai a roddaist i mi yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod ô honynt hwythau hefyd gydâ myfi ; (ac yn neillduol i'r perwyl hwn y mae yr hyn a ganlyn) fel y gwelont fy ngogoniant." 1 Thes. iv. 17, " Felly y byddwn yn wastadol gydâ 'r Arglwydd," sef gydâ 'r Arglwydd Grist, yr hwn a gyfarfyddwn yn yr awyr. Fe ymddengys hefyd mai hyn sydd yn cael ei arwyddo yn yr ysgrythyrau hyny lle mae Duw a'r Oen, yr Iachawdwr lladdedig, yn cael eu crybwyll ynghyd, ymherthynas i ddedwyddwch y saint yn y nef, Dad. vii. 17, " O blegid yr Oen, yr hwn sydd ynghanol yr orseddfaingc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynonau bywiol o ddyfroedd : a Duw a sych ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt." Pen. xxi. 3, " Wele y mae pabell Duw gyda dynion, ac efe a drig gydâ hwynt," sef yr un modd ag yn y tabernacl, (fel y mae y gair yn arwyddo ;) hyny yw, ynghnawd Crist, (cymharer Ioan i. 14,) ac adn. 22, " Yr Aglwydd Dduw Hollalluog, a'r Oen, yw ei theml hi." Yn hyn y mae dedwyddwch penaf y saint yn y nefoedd yn gynnwysedig; ac heb hyn ni byddent byth yn ddedwydd, er preswylio yn y lle ardderchog hwnw, a mwynhâu cymdeithas angylion yno. Yr hyn a anturiaf fi ei ddywedyd am dano a gynnwysir mewn tri pheth :

*1af,* Fe gaiff y saint yn y nefoedd fwynhâu hyfryd bresennoldeb Duw, a'r Oen : " Duw ei hun a fydd gydâ hwynt," Dad. xxi. 3. a hwy a fyddant yn wastadol gyd â'r Arglwydd. Y mae Duw yn bresennol yn mhob man o ran ei hanfod ; mae ei neillduol bresennoldeb grasol gan y saint ar y ddaear : ond yn y nefoedd hwy a gant ei bresennoldeb gogoneddus. Yno y cant eu dwyn at orsedd y Brenin mawr, a sefyll ger ei fron ef, lle y mae efe yn dangos ei ogoniant annhraethol. Yno y bydd tabernacl Duw ganddynt, ar ba un y bydd cwmwl y gogoniant yn gorphwys, gogoneddus natur ddynol Crist, yn

yr hwn y mae cyflawnder y Duwdod yn preswylio; nid dan len, fel yn nyddiau ei ddarostyngiad, eithr yn dysgleirio drwy ei gnawd bendigaid, (fel y gwelo 'r holl saint ei ogoniant), yr hyn a wna y corph hwnw yn fil mwy gogoneddus na'r haul: felly nid rhaid i'r ddinas wrth yr haul, na'r lleuad, "canys gogoniant Duw a'i goleua hi, a'i goleuni hi, (neu yn hytrach, ei chanwyll hi), ydyw yr Oen" Dad. xxi. 23, *h. y.* yr Oen yw y goleuad, neu y corph goleuol, yr hwn sydd yn rhoddi goleuni i'r ddinas; fel y mae yr haul a'r lleuad yn awr yn rhoddi goleuni i'r byd, neu fel y mae canwyll yn goleuo ystafell dywell: a'r goleuni a dywyna oddiwrth y goleuad gogoneddus hwnw, i'r ddinas, ydyw gogoniant Duw. Fe fu y ganwyll hono yn llosgi yn wanaidd iawn, yr oedd wedi ei chuddio dan lestr, yn amser ei ddarostyngiad ef; oddieithr weithiau i rai o'r pelydrau hyn dywynu allan, nes serenu llygaid yr edrychwyr: eithr yn awr y mae wedi ei dderchafu yn ninas Duw, lle y mae yn dysgleirio, ac y dysgleiria mewn perffaith ogoniant byth. Fe'i dodwyd heibio weithiau fel maen wedi ei lysu gan yr adeiladwyr: ond yn awr, ac o hyn allan, a fydd, yn llewyrch neu oleuni y ddinas hono; a hyny megys "maen o'r gwerthfawrocaf; megys maen jaspis, yn loyw fel grisial," adn. 11.

Pwy a ddichon ddirnad dedwyddwch y saint yn ystafell-gwyddfod y brenin mawr, lle yr eistedd efe yn ei deyrn-gadair, gan beri i'w ogoniant ymddangos yn ardderchog yn y dyn Crist? Mae ei bresennoldeb grasol yn gwneuthur cyfnewidiad dirfawr ar y saint yn y byd hwn: rhaid ynte y bydd i'w bresennoldeb gogoneddus yn y nefoedd beri i'w grasau weithredu a'u galluoedd dderchafu hyd yr eithaf. Mae y saint yn profi y gall presennoldeb Duw, yn ei ras, wnëyd nefoedd fechan o fath o uffern: pa mor fawr ynte y rhaid y bydd gogoniant y nef lle mae ei bresennoldeb ef yn ei ogoniant! Os yw canwyll yn prydferthu graddau ar fwthyn neu garchar, pa fodd ynte y prydfertha yr haul dysglaer y palas neu baradwys! Gwnaeth presennoldeb grasol Duw yr anialwch yn hyfryd i Moses, dyffryn cysgod angau i Ddafydd, ffwrn dân i'r tri llange: pa brydferthwch hyfrydlon a ddyry haul cyfiawnder, pan lewyrcho yn ngrym ei ddysgleirdeb ar heol y ddinas yr hon sydd o aur pur? Y presennoldeb gogoneddus hwn o eiddo Duw yn y nefoedd a rydd ogoniant ar y saint eu hunain. Nid yw'r ardd hyfrydaf ddim yn brydferth pan ymdaeno cysgodau y nos drosti; ond y mae dysgleirdeb yr haul yn prydferthu y mynyddoedd duaf: felly y rhai sydd yn awr

fel Costrelau mewn mwg, pan osodir hwynt yn nhresennoldeb gogoneddus Duw, a fyddant yn ogoneddus yngHorph ac enaid.

2il, Y saint yn y nefoedd a gant lawn fwynhâd o Dduw a'r Oen. Dyma 'r hyn a berffaith foddhâ y crëadur rhesymol; ac yn hyn y mae tragywyddol orphwysfa y saint. Hyn a ddiwalla eu holl anghenion, ac a leinw ddymuuiadau eu heneidiau, y rhai wedi y cwbl a gaffont yma, sydd yn llefain, *Moes, moes,* ac nid heb ryw anesmwythder; o herwydd er eu bod yn mwynhâu Duw, etto nid ydynt yn ei gyflawn fwynhâu. Am ddull ac ansawdd y mwynhâd hwn, y mae ein Harglwydd yn dywëyd i ni, Ioan xvii. 3, "Hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." Yn awr y mae dwy ffordd, i adnabod gwrthddrych dymunol yn berffaith a digonol; un trwy olwg, a'r llall trwy brofiad: mae golwg yn boddio y deall, a phrofiad yn boddio yr ewyllys. Felly gellir dywedyd, fod y saint yn mwynhâu Duw a'r Oen yn y nefoedd, (1.) Drwy wybodaeth amgyffredol; (2.) Drwy wybodaeth brofiadol; a phob un yn berffaith, sef yn ol cyrhaeddiad a galluoedd y crëadur; yn amgen mae gwybodaeth berffaith crëadur am Fod anfeidrol yn anmhosibl. Mae y saint ar y ddaear yn mwynhau Duw, yn y wybodaeth y maent yn ei gael o hono drwy hanes am dano, o'i air sanctaidd, yr hwn y maent yn ei gredu; y maent hefyd yn ei weled mewn gradd yn nrych yr ordinhadau, y rhai sydd megys yn darlunio cynllun o'r prïodfab, neu gysgod o hono, tra y mae efe yn absennol: y mae ganddynt hefyd radd o wybodaeth brofiadol o hono, y maent yn profi fod yr Arglwydd yn dirion, a bod Duw yn drugarog. Eithr y saint fry nid rhaid iddynt wrth hanes y Brenin, maent yn ei weled ef ei hun; gan hyny mae ffydd yn diflanu; maent yn gweled ei wyneb ef ei hun; am hyny ni bydd ordinhadau mwyach: ni bydd dim angen am ddrych: hwy a gant yfed, ac yfed yn helaeth o'r hyn a brofasant: ac felly mae gobaith yn diflanu, canys y maent y cael eu dymuniadau i'r eithaf.

1. Fe gaiff y saint yn y nefoedd fwynhâu Duw a'r Oen, drwy olwg, a hyny yn y modd perffeithiaf, 1 Cor. xiii. 12, "Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dammeg; ond yna, wyneb yn wyneb." Yma nid yw ein golwg ond cyfryngol, megys drwy ddrych, ymha un nid ydym yn canfod pethau yn sylweddol, eithr delw pethau; ond yno ni a gawn olwg ddigyfrwng ar Dduw a'r Oen. Yma nid yw ein gwy-

bodaeth ond tywyll; yno y bydd yn oleu heb y gradd lleiaf o dywyllwch. Yn awr y mae'r Arglwydd yn ymddyddan a'i saint drwy ddellt yr ordinhadau; ond yna byddant gyd ag ef yn yn ei ystafell wyddfod. Mae yn awr len rhyngom a'i wyneb gogoneddus: ond pan elom i'r ty uchod, bydd y llen hòno, drwy ba un y mae rhai pelydrau yn awr yn tywynu, wedi ei thynu ymaith yn llwyr; ac yna y rhagoriaethau a'r perffeithiau, y rhai nis gwelir yn awr gan ddynion, a ddadguddir yn amlwg, canys ni a gawn "weled ei wyneb," Dad. xxii. 4. Fe ymddengys ddarfod benthyca yr ymadrodd hwn oddiwrth yr anrhydedd a roddir ar rai mewn llysoedd breninoedd, drwy fod yn gweini i berson y brenin. Y ydym yn darllen yn Ier. lii, 25, am "seithwyr o weision penaf y brenin" (yn ol yr Hebraeg, rhai yn gweled wyneb y brenin.) O ogoniant annhraethol! Mae y Brenin mawr yn cadw ei lŷs yn y nefoedd, a bydd yr holl saint yn wyr llys iddo, yn wastadol yn agos at berson y Brenin, ac yn gweled ei wyneb. "Gorseddfainge Duw a'r Oen a fydd ynddi hi, a'i weision ef a'i gwasanaethant ef, a hwy a gant weled ei wyneb ef," Dad. xxii 3, 4.

(1.) Hwy a gant weled Iesu Grist â'u *llygaid* corphorol, gan na bydd iddo ef byth ddïosg ei natur ddynol. Hwy a gant yn wastadol weled y corph gogoneddus hwnw, yr hwn sydd wedi ei uno yn bersonol â'r natur ddwyfol, a'i ddercharfu goruwch tywysogaethau ac awdurdodau, a phob enw a enwir. Yno y cawn weled, â'n llygaid, y corph hwnw a aned o Mair yn Bethlehem, ac a groeshoeliwyd yn Ierusalem rhwng dau leidr; y pen bendigaid hwnw a goronwyd â drain; yr wyneb y poerwyd arno; y dwylaw a'r traed a hoeliwyd ar y groes; i gyd yn dysgleirio mewn gogoniant annirnadwy. Bydd gogoniant y dyn Crist yn denu sylw yr holl saint, ac a ryfeddir gan y rhai oll a gredant, 2 Thes. i. 10. Pe byddai pob seren yn y ffurfafen yn llewyrchu fel yr haul yn ei rym, ac i'r haul ychwanegu yn ei ddysgleirdeb, nes rhagori cymmaint ar y sêr, gwedi hyny, ag y mae yn ragori arnynt yn bresennol; fe allai y dangosai hyny ryw led debygoliaeth o ragoroldeb gogoniant Crist mewn cymhariaeth i eiddo y saint: canys er y bydd i'r saint ddysgleirio fel yr haul; etto nid hwynt hwy, ond yr Oen a fydd goleuni y ddinas. Fe syrthiodd y doethion i lawr, ac a'i haddolasant ef, pan welsant ef yn ddyn bach gyd â Mair ei fam yn y tŷ. Ond O yr olwg hyfryd, fydd arno yn ei deyrnas, ar ei orsedd, ar ddeheulaw y Tad! "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd," (Ioan i. 14,) a

gogoniant Duw a ddysgleiria drwy y cnawd hwnw, ac o hono y tardda llawenydd y nef i'r saint, y rhai a gant weled a mwynhâu Duw, yn Nghrist. Canys am na wahanir byth mor undeb sydd rhwng Crist â'r saint, ac y parhânt yn aelodau o hono ef byth; ac nas gall yr aelodau dderbyn eu bywyd, ond oddiwrth eu pen; oblegid nad all yr hyn sydd yn anymddibynol ar y pen, o ran dylanwadau bywiol, ddim bod yn aelod: am hyny y bydd Iesu Grist yn rhwymyn undeb bythol, rhwng Duw a'r saint; o'r hyn y tardda eu bywyd tragywyddol, Ioan xvii. 2, 3, "Megys y rhoddaist, iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddaist iddo, y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol. A hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw," &c. adn. 22, 33, "A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megys yr ydym ni: myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un." Gan hyny mae mwynhâd *digyfrwng* o Dduw yn y nefoedd, i'w ddeall mewn *dodi heibio* y gair a'r ordinhadau, a'r cyfryw foddion allanol drwy ba rai yr ydym yn mwynhâu Duw yn y byd yma; ac nid fod y saint yn bwrw ymaith eu hymddibyniad ar eu Pen am ddylanwadau bywiol: na, "yr Oen yr hwn sydd yn nghanol yr orsedd-faingc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt, at ffynonau bywiol o ddyfroedd," Dad. vii. 17.

Pan y caffom ei weled ef, yr hwn a fu farw drosom, fel y caem ni fyw yn dragywydd, yr hwn drwy ei gariad anghymharol a nofiodd drwy fôr coch digofaint Duw, i wneuthur llwybr i ni fyned trwodd yn ddïogel i wlad Canaan; yna y cawn weled y fath un gogoneddus oedd efe, yr hwn a ddyoddefodd hyn i gyd drosom ni; na allai y croeso yr oedd efe yn ei gael yn y tŷ fry; na holl aleluiau yr angylion mo'i attal rhag gwrando grudfanau y dorf drangciedig ar y ddaear, a dyfod i waered i'w cynnorthwyo; a'r fath ogoniant a ddïosgodd er ein mwyn ni. Yna y byddwn yn fwy abl i "amgyffred gydâ'r holl saint, beth yw y lled, a'r hyd, a'r uchder, a'r dyfnder; a gwybod cariad Crist yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth," Eph. iii. 18, 19. Pan gofio y saint mai 'r dyfroedd digofaint yr aeth efe iddynt, a droes yn ffynonau iechydwriaeth o ba rai y tardd eu holl lawenydd; a darfod iddynt hwy gael phïol iechydwriaeth yn lle y cwpan chwerw a roddodd ei Dad iddo ef i'w yfed, rhag yr hwn yr oedd ei

natur ddynol ddibechod yn crynu; pa fodd y llama eu calonau o'u mewn, ac y llosgant gan gariad seraphaidd, fel marwor meryw, ac y dadseinia yr uchelderau gan eu caniadau ymwared! Yr Iuddewon, wrth gadw gwyl y pebyll, (yr hon oedd y llawenaf o'u gwyliau, ac yn para saith niwrnod,) a arferent amgylchu yr allor bob dydd, gan ganu hosanna, a changau o fyrtwydd, palmwydd, a helyg, yn eu dwylaw, (y ddau gyntaf yn arwyddo buddugoliaeth, a'r olaf yn arwyddo diweirdeb,) ac ar yr un pryd yn plygu eu canghenau tu'r allor. Pan gyflwyner y saint fel morwyn bur i Grist, ac fel buddugoliaethwyr â'u palmwydd yn eu dwylaw, mor orfoleddus yr amgylchynant yr allor yn oes oesoedd, gan ganu eu hosannau, neu yn hytrach eu haleluiau, a phlygu eu palmwydd tu a'r allor, i gydnabod eu hunain yn ddyledus i'r Oen a laddwyd, ac a'u prynodd hwynt â'i waed! Ac â hyn yn cytuna yr hyn a welodd Ioan, Dad vii. 9, 10, "Tyrfa fawr—yn sefyll ger bron yr orsedd-faingc, a cher bron yr Oen, wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion, a phalmwydd yn eu dwylaw; ac yn llefain â llef uchel, gan ddywedyd, Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-faingc, ac i'r Oen."

(2.) Hwy a gant *weled Duw*, Math. v. 8. Hwy a fyddant yn ddedwydd o gael gweled y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, (nid â'u llygaid corphorol, i ba rai y mae Duw yn anweledig; 1 Tim. 1. 17. ond) â llygaid eu deall; wedi eu cynnysgaeddu â'r wybodaeth helaethaf ac egluraf am Dduw a'i bethau, ag y mae yn bosibl i greadur fod. Hyn a elwir yn weledigaeth wynfydedig, ac mae yn berffeithiad dealltwriaeth, i eithaf arwyddocâd y gair. Nis gall marwolion ar y ddaear gael ond darluniad tywyll o ogoniant Duw, dim ond megys golwg ar y tu cefn iddo, Ecs xxxiii. 23. Eithr yno hwy a gant weled ei wyneb ef, Dad. xxii. 4. Hwy a gant ei weled ef yngbyflawnder ei ogoniant, a'i weled yn ddibaid. eithr nid yw yr olwg y maent yn ei gael arno yma, ond megys wrth iddo fyned heibio, Ecs. xxxiv. 6. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng yr olwg ar frenin yn ei ddillad nos yn myned heibio i ni ar frwst; a chael edrych arno mewn bamddem, yn eistedd ar ei deyrn-gadair yn ei freninol wisgoedd, a'i goron ar ei ben, a'i deyrn-wialen yn ei law: y cyfryw fydd y gwahaniaeth rhwng yr amlygiadau helaethaf a roddodd Duw o hono ei hun erioed i'r saint ar y ddaear, a'r amlygiadau o'i ogoniant a geir yn y nef. Yno y caiff y saint borthi eu lly-

gaid arno yn ddirwystr yn dragywydd, a syllu byth ar ei briodoliaethau gogonedus. Ac megys y caiff eu llygaid corphorol eu cryfhau, a'u haddasu i edrych ar ardderchog fawrhydi y dyn Crist; fel yr edrych eryrod ar yr haul heb eu dallu ganddo; felly derchafir eu meddyliau yn y fath fodd fel y byddant yn addas i weled Duw yn ei ogoniant: fe ëangir eu galluoedd yn ol y mesur a welo efe yn dda amlygu o hono ei hun iddynt er eu cyflawn hapusrwydd.

Gan fod yr olwg wynfydedig yma ar Dduw, yn hollol uwchlaw ein cyrhaeddiadau presennol, nis dichon i ni fod ond tywyll iawn yn ei gylch. Eithr fe ymddengys fod yma rywbeth amgen na golwg ar y gogoniant hwnw, a welwn a'n *llygaid corphorol*, yn y saint ac yn y dyn Crist, nac unrhyw wychder na dysgleirdeb *oddiwrth* y Duwdod: canys ni all un peth crëedig fod yn ddaioni ac yn hapusrwydd penaf i ni, na chwbl ddigoni ein heneidiau; ac y mae yn amlwg fod y pethau hyn yn wahanol i Dduw ei hun. Am hyny yr wyf yn barnu, y caiff eneidiau y saint weled Duw ei hun; felly y mae'r ysgrythyr yn rhoi ar ddeall i ni, y cawn ei "weled wyneb yn wyneb, ac adnabod megys y'n hadwaenir," 1 Cor. xiii. 12. ac y "cawn ei weled ef megys ag y mae," 1 Ioan iii 2. Etto nis gall y saint byth gael amgyffred cymmesur o Dduw: nis gallant ddirnad yr hyn sydd anfeidrol. Hwy a allant gyffwrdd a'r mynydd, eithr nis gallant ei gofleidio yn eu breichiau. Nis gallant weled yr hyn sydd yn tyfu o bob tu iddo ar un golwg: ond fe fydd y dwyfol berffeithrwydd yn faes diderfyn, lle y caiff y saint rodio byth, a gweled mwy fwy o Dduw o hyd; am nad allant byth gyrhaedd terfyn i'r hyn sydd yn anfeidrol. Gallant ddwyn eu llestri at y môr hwn bob moment a'u llenwi â dyfroedd newyddion. O y fath olwg brydferth a fyddai gweled yr holl gynneddfau, a'r rhinweddau serchog sy'n wasgaredig ymhlith y creaduriaid, wedi eu casglu yn un! ond ni fyddai y cyfryw olwg ond anfeidrol islaw i'r olwg wynfydedig a gaiff y saint yn y nefoedd. Canys hwy a gant weled Duw, yn yr hwn y mae yr holl berffeithiau hyn yn ymddangos yn rhagorol, ynghyd a rhyfeddodau anfeidrol fwy nag sydd i'w gweled yn y crëaduriaid. Ynddo ef y cant weled pob peth dymunol, a dim ond sydd ddymunol.

Yna y'u cwbl foddlonir mewn perthynas i gariad Duw tuag attynt, er eu bod yn awr yn barod i'w ammau ar bob achlysur. Ni bydd raid iddynt mwyach berswadio eu hunain mewn perthynas iddo, drwy nodau, arwyddion, a thystiolaethau: bydd

ganddynt wybodaeth drwyadl o hono. Hwy a gant (gyd â'r parch mwyaf y crybwyller) edrych i galon Duw, a gweled yno y cariad oedd ganddo tu ag attynt er tragywyddoldeb, ynghyd a'r cariad a'r ewyllys da a fydd ganddo iddynt rhag-llaw. Fe gaiff y saint ddealltwriaeth gwbl eglur o air Duw, *canys yn ei oleuni ef y gwelwn ni oleuni*, Psal. xxxvi. 9. Bydd goleuni y gogoniant yn esponiad trwyadl ar y Bibl, ac a ddettyd boll gelyd glymau difeinyddiaeth. Nid oes llawenydd ar y ddaear i'w gymharu â'r llawenydd sydd yn deillio oddiwrth gael allan wirionedd; na chael allan unrhyw wirionedd i'w gymharu â gwirionedd ysgrythyrol, yr hyn a geir drwy Yspryd yr Arglwydd i'r enaid. "Llawen ydwyf fi oblegid dy air," medd y Salmydd, "fel un yn cael ysglyfaeth lawer," Psal. cxix. 162. Etto nid ydym yn cael ond dadguddiad anmherffaith o hono yma. Mor orfoleddus ynte a fydd cael gweled yr holl drysor a guddiwyd yn y maes yn cael ei agoryd! Fe'u dygir hefyd i ddeall gweithredoedd Duw. Yna y gwneir yn amlwg brydferthwch gwaith creadigaeth a rhagluniaeth. Gwybodaeth naturiol a ddygir i berffeithrwydd yngoleuni gogoniant. Yna y torrir allan wê Rhagluniaeth, mewn perthynas i'r eglwys, a phob dyn, ac y gosodir hi ger bron llygaid y saint: a hi a ymddengys yn gymmysg-wê dra phrydferth, fel y cyd-dystiolaethant yn yr olwg arni, "Da y gwnaeth efe bob peth." Ond gwaith prynedigaeth, mewn modd neillduol, a fydd yn rhyfeddod dragywyddol i'r saint, a hwy a fawrygant ac a glodforant y drefn ardderchog yn oes oesoedd. Yna y cant lawn olwg ar ei chyfaddasrwydd i'r dwyfol briodoliaethau, ac i gyflwr pechaduriaid; ac eglur ddarllen y cyfammod a fu rhwng y Tad a'r Mab, er tragywyddoldeb ynghylch eu hiachawdwriaeth. Hwy a folant ac a ryfeddant, a ryfeddant ac a folant byth, y dirgeledigaethau o ddoethineb a chariad, daioni a sancteiddrwydd, trugaredd ac uniondeb, a ymddengys yn y drefn ardderchog. Eu heneidiau a ddiwellir byth yn yr olwg ar Dduw ei hun, ac ar eu hetholedigaeth gan y Tad, eu prynedigaeth gan y Mab, a'r cymhwysiad o'r unrhyw gan yr Yspryd Glân.

2. Caiff y saint yn y nefoedd fwynhâu Duw yn Nghrist drwy wybodaeth brofiadol, yr hyn sydd pan fo 'r gwrthddrych ei hun yn cael ei roddi a'i feddu. Hyn ydyw y cyfranogiad o ddaioni Duw i'r llawn fesur; yr hyn yw perffeithrwydd yr ewyllys i eithaf yr ymadrodd. "Yr Oen a'u harwain hwynt at ffynonau bywiol o ddyfroedd," Dad. vii. 17. Nid yw y

rhai'n ddim amgen na Duw ei hun, ffynon y dyfroedd byw, yr hwn a amlyga ei hun iddynt yn hael a hollol. Efe a dywallt ei ddaioni i'w heneidiau byth : ac yna y cant brofiad bywiol o'r holl ddaioni hwnw y clywsant am dano ac y credasant ei fod ynddo ef, ac o'r hyn y maent yn ei weled yuddo drwy oleuni gogoniant. Hyn a fydd yn esponiad ymarferol tragywyddol ar y gair hwnw, y mae dynion ac angylion yn methu ei ddehongli yn iawn, sef, Duw ei hun—*a fydd yn Dduw iddynt*, Dad. xxi 3. Duw a hyspysa ei hun iddynt yn gyflawn : ni ddodir hwynt mwyach i brofi ffrydiau y daioni dwyfol mewn ordinhadau, fel y byddent arferol, eithr cant yfed o lygad y ffynon. Ni chroesawir hwynt mwyach bob yn damaid a llymaid, ond fe'u llenwir â holl gyflawnder Duw. A hyn fydd rhan pob un o'r saint : canys er mewn pethau creedig fod yr hyn a rodder i un yn cael ei attal oddiwrth y llall : etto daioni anfeidrol a ddichon gyfranu ei hun i bawb, a digoni pawb. Y rhai sydd yn etifeddion i Dduw, yr etifeddiaeth fwyaf, a gant yno lawn feddiant o'u hetifeddiaeth : a'r Arglwydd a egyr iddynt drysorau ei ddaioni, fel y byddo eu mwynhâd yn gyflawn Ni chyfyngir mo'nynt at un mesur pennodol : ond bydd eu mwynhâd mor helaeth ag y bydd eu galluoedd ar ol eu hëangu. Nis gall llestr bychan gynnwys yr eigion, felly nis gall creadur meidrol gynnwys daioni anfeidrol : eithr ni osodir un mesur ar y mwynhâd, namyn yr hyn a ddeillia oddiar alluoedd y creadur. Felly, er y bydd graddau o ogoniant etto fe lenwir pawb, ac a gant yr hyn a annont ; er y bydd rhai yn gallu cynnwys mwy nag ereill, ni bydd dim eisiau ar neb ; llawn ddigonir pawb, a byddant yn berffaith wynfydedig yn y cyflawn fwynhâd o'r daioni dwyfol, yn ol eu galluoedd. Fel pan lanwer amrywiol bottelau, y mae rhai yn cynnwys mwy na'r lleill ; etto mae yn mhob un yr hyn a anno. Y saint a gant bob peth, yn Nuw, er digoni eu holl ddymuniadau. Nis gall un peth creedigol ddigoni ein holl ddymuniadau : dichon dillad ein cynhesu, ond ni allant ein porthi ; mae goleuni yn ddymunol, ond nis gall ein meithrin : eithr yn Nuw ni a gawn ein holl ddymuniadau, ac ni ddymunwn ddim ond sydd ynddo. Bydd y rhei'ny yn ddedwydd, sef y rhai na ddymunant ddim ond a fo dymunol, ac yn y cwbl yn cael y cwbl a ddymunant. Bydd Duw oll yn oll i'r saint : bydd iddynt yn fywyd, iechyd, cyfoeth, anrhydedd, tangnefedd, a phob peth da. Efe a hyspysa ei hun yn rhwydd iddynt ; ni chauir drws dyfodiad atto am un munud byth. Gallant gymmeryd ffrwyth pren y bywyd

y mynant, canys hwy a'i cant o bob tu i'r afon, Dad. i. 2. Ni fydd un llen rhyngddynt a Duw, i'w symud mwy; bydd ei lawnder yn agored iddynt yn wastadol. Ni bydd drws i guro wrtho yn y nef; dim gofyn cyn derbyn: yr glwydd a ganiatâ i'w bobl nesâu atto yn ddirwystr yno. Maent yn awr mewn rhan yn gyfranogion o'r dduwiol an; ond yno y byddant yn berffaith gyfranog o honi; hyny , fe gyfrana Duw iddynt ei ddelw ei hun, a wna i'w holl ıioni, nid yn unig fyned heibio o flaen eu hwyneb, ond ned iddynt, ac argraffu delw ei berffeithiau ef arnynt, mor led ag y dichon creadur dderbyn yr unrhyw; ac oddiar n y tardd perffaith debygoliaeth iddo ef, yn mhob peth ynynt ac oddiamgylch iddynt, a hyn a gwbllâ hapusrwydd y ;adur. Mae yn eglur mai hyn sydd yngolwg y Salmydd, al. xvii. 15, "Digonir fi pan ddibunwyf a'th ddelw di;" ·ffaith ddelw Duw yn dilyn y weledigaeth wynfydedig. Felly lywed Ioan, 1 Ioan iii. 2. "Byddwn yn gyffelyb iddo, legid ni a gawn ei weled ef megys ag y mae" Yna bydd undeb mwyaf agos a chyfeillgar rhwng Duw a'r saint: dd Duw ynddynt hwy, a hwythau yn Nuw, mewn dull o ıdeb ardderchog a pherffaith; oblegid yna y cant drigo ewn cariad perffaith "Duw cariad yw, yr hwn sydd yn os mewn cariad sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo ıtau," 1 Ioan iv 16. O y fath undeb fydd rhwng y saint a uw, ac yntau â hwythau; pan na welo efe ddim ynddynt ıd ei ddelw ei hun; pan berffeithier eu cariad, heb un ıian, ond un dduwiol yn aros ynddynt; ac y caffo pob amherffeithrwydd ei lyngcu i fynu yn eu gweddnewidiad ogoneddus ar ddelw Duw! Bydd eu cariad at Dduw yn digymmysg pan ei purer oddiwrth hunan-gariad; fel na baront ddim ond Duw, ac yn Nuw. Ni bydd mwyach yn esg ac egwan, eithr fe lysg fel marwor meryw. Goleuni eb dywyllwch a fydd, tân fflamllyd heb fwg. Fel y mae y lo byw, pan elo yr holl ireidd-dra allan o hono, i gyd yn dân, elly y bydd y saint i gyd yn gariad, pan ddelont i lawn fwynhâd o Dduw yn y nef, mewn adnabyddiaeth amgyffredol a hrofiadol o hono, drwy weled a llawn gyfranogi o'i ddaioni.

*Yn olaf,* Oddiwrth y presennoldeb gogoneddus a'r mwynhâd wn, y deillia llawenydd annhraethadwy, â'r hwn y llenwir saint." Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron," Psal. xvi. 1. Mae y saint weithiau yn mwynhâu Duw yn y byd, pan y nac eu llygaid yn cael eu hattal rhag canfod hyny, nid ydynt 'n cael cysur y mwynhâd: ond pan symudir pob camgymneriad, *hwy a gant nid* yn unig fwynhâu Duw, ond hefyd

orphwys yn y mwynhâd, gydâ llawenydd a boddlondeb annhraethol. Mae dymuniad am bethau daearol yn creu trallod, a'r mwynhâd o honynt yn fynych yn terfynu mewn ffieiddiad o honynt. Ond er y bydd y saint yn y gogoniant yn wastadol yn chwennych mwy fwy o Dduw, etto ni bydd eu dymuniadau yn anesmwyth, oblegid bydd cyflawnder y Duwdod bob amser yn agored iddynt; am hyny ni newynant mwyach, ni chant ddim anesmwythdra oddiwrth eu blys tragywyddol i'r manna cuddiedig: ac ni phar mwynhâd gwastadol iddynt ei ffieiddio; ni thybiant byth iddynt gael gormod; am hyny ychwanegir, "ni ddisgyn arnynt na'r haul, na dim gwres," Dad. vii. 16. Bydd y mwynhâd o Dduw a'r Oen yn newydd byth iddynt, drwy oesoedd tragywyddoldeb: canys hwy a yfant o ffynonau bywiol o ddyfroedd, lle mae dyfroedd croyw yn tarddu yn helaeth yn wastadol, adn. 17. Hwy a gant fwyta o bren y bywyd, yr hwn sy'n cynnyrchu amrywiaeth, sef deuddeg rhyw ffrwyth, a'r rhei'ny yn newydd bob amser, canys y mae yn eu dwyn bob mis. Dad. xxii. 2. Bydd eu llawenydd yn bur ac yn ddigymmysg, heb ddim gwaddod o ofidiau; nid yn ddisylwedd ac yn ddiflanedig, eithr yn sylweddol ac yn barhâus, yn ddi-dor. Hwy a "ant i lawenydd," Math. xxv. 21. "Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd" Mae yr ymadrodd braidd yn anarferol, ac yn dwyn ar gof i mi y gair hwnw yn nyoddefaint ein Hiachawdwr, Marc xiv. 34, "Mae fy enaid yn athrist hyd angau" 'R oedd ei enaid wedi ei amgylchu â thristwch, (fel y goddef y gair a arferir yma ei ddeall,) llifeiriaint gofidiau a'i hamgylchynasant ef o bob tu; tröed ei wyneb y ffordd y mynai, gofidiau oedd o'i flaen; hwy a dardddent arno o'r nefoedd a'r ddaear, ac uffern, ar unwaith: fel hyn yr aeth efe i dristwch, ac am hyny y dywedodd, Psal. lxix. 2, "Daethum i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrwd a lifodd drosof." Eithr pa ham y bu hyn i gyd, onid er mwyn i'w eiddo gael myned i mewn i lawenydd? Mae llawenydd weithiau yn dyfod i mewn i ni yn bresennol, drwy lawer o lafur i'w gael, pan yr ydym wedi ein hamgylchu a gofidiau: ond y pryd hwnw, nid yn unig fe ddaw llawenydd i ni, eithr cawn ninnau fyned i'r llawenydd, a nofio yn dragywydd mewn môr o lawenydd; lle na chawn weled dim ond llawenydd, edrychom y ffordd y mynom. Y presennoldeb a'r mwynhâd o Dduw a'r Oen, a'n digona â phleserau yn oes oesoedd: a gogoniant ein heneidiau a'n cyrph oddiwrth hyny, a rydd i ni hyfrydwch diddarfod. Er mor gaeth y mae y saint gan ys-

pryd trymder yn awr, fe ymedy a hwynt yno: eu galar a droir yn ganiadau llawenydd, a chostrelau dagrau a droir yn afonydd hyfrydwch. Dedwydd yw y rhai sydd yn awr yn hau mewn dagrau, y rhai a darddant yn llawenydd yn y nefoedd, nes crymu eu penau yno gan bwys gogoniant!

Hyd yma am y gymdeithas yn nheyrnas y saint.

X. Yn y lle *olaf*, fe bery teyrnas nef yn dragywydd. Mae pob peth sydd ynddi yn dragywyddol, gan hyny fe gaiff y saint sicrwydd diymod a chwbl gadarnhâd am dragywyddol barhâd yr unrhyw. Mae hyn yn rhan angenrheidiol o berffaith hapusrwydd: canys mae'r gronyn lleiaf o ansicrwydd am barhâd unrhyw ddaioni, yn peri i un ofni, anobeithio, a gofidio; yr hyn sydd yn gwbl anghyson â pherffaith ddedwyddwch. Ond y gwynfydedigion nid ofnant byth; ac ni chaut achos i ofni dim colled: hwy a gant fod yn wastadol gyd â'r Arglwydd, 1 Thes. iv. 17. Hwy oll a gyrhaeddant gwbl sicrwydd nad all dim eu gwahanu oddiwrth gariad Duw, nac oddiwrth lawn fwynhâd o hono, byth. Mae yr etifeddiaeth sydd ynghadw yn y nef yn anllygredig; nid oes dim hadau llygredigaeth ynddi ei hun, i'w gwneuthur yr agored i adfeilio; eithr hi a bery yn oes oesoedd: y mae yn ddihalog; nis geill dim oddiallan ei hanmhrydferthu, ac nid oes ynddi ei hun ddim i flino y rhai sydd yn ei mwynhau: ac am hyny ni ddiflana ymaith; eithr a bery byth yn ei dysgleirdeb creedigol, a'i phrydferthwch dechreuol, 1 Pedr i. 4. Hyd yma am natur teyrnas nefoedd.

Yn ail, Awn ymlaen yn awr i lafaru am dderbyniad y saint i'w teyrnas hon; lle y caf grybwyll yn fyr am ddau beth: (1.) Dull y derbyniad yn y galwad arnynt gan y barnwr, i ddyfod i'w teyrnas. (2.) Yr ansawdd yn mha un y derbynir ac y dygir hwynt iddi.

I. Mae y testun yn dangos, y cant eu derbyn gydâ llais oddiar yr orsedd; Y Brenin yn eu galw oddiar yr orsedd, ger bron angylion a dynion, i ddyfod i'w teyrnas. Nid yw *Deuwch* ac *ewch* ond geiriau byrion, etto y maent yn gyfryw ag a rydd destun myfyrdod i holl ddynolryw drwy oesoedd tragywyddoldeb: yn gymmaint a bod tragywyddol hapusrwydd yn ymddybynu ar y naill, a thragywyddol drueni ar y llall. Y mae yr Arglwydd yn awr yn gwahodd y gwaethaf o bechaduriaid, ag sydd yn clywed yr efengyl, i *ddyfod;* ond y mae y rhan fwyaf yn gwrthod dyfod atto. Mae rhyw ychydig o rai y cyffyrddwyd a'u calonau drwy ei Yspryd, yn derbyn

yr alwad, ac y mae eu henaid o'u mewn yn dywedyd, "Wele ni yn dyfod attat:" maent yn rhoddi eu hunain i'r Arglwydd, yn ymwrthod a'r byd ac a'u chwantau; yn cymmeryd ei iau ef, ac nid ymwrthodant â hi yngwres y dydd, pan y mae ei phwysau, fe allai, yn gwneyd iddynt chwysu y gwaed o'u cyrph. Edrychwch ar yr ynfydion! medd y bydd anianol, i ba le y maent yn myned? Ond aroswch ychydig, O fyd anghall! O'r un genau ag y cawsant yr alwad y maent yn awr yn ei dilyn, cant alwad arall i'w gwobrwyo am y cwbl. "Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas."

Fe gaiff y saint felysder annhraethol yn yr alwad yma i *ddyfod*. (1.) Drwy hon mae Iesu Grist yn dangos ei ddymuniad am eu cymdeithas yn y tŷ uchod, fel y byddont yn wastadol gydag ef yno. Fel hyn yr egyr efe ei galon iddynt, megys y darfu ef i'w Dad o'r blaen mewn perthynas iddynt, gan ddywedyd, "Y Tad, yr wyf yn ewyllysio—lle yr wyf fi fod o honynt hwythau hefyd gydâ myfi," Ioan xvii. 24. Yna y saif llafur ei enaid ger bron ei orsedd, nid yn unig yr eneidiau, eithr y cyrph a brynodd efe; rhaid eu cael, oblegid rhaid iddo ef gael ei *ddiwallu*. (2.) Yma y'u gwahoddir yn barchus i swper neithior yr Oen. Fe'u gwahoddwyd at y bwrdd isod gan lais y gweision, a dirgel weithrediadau yr Yspryd ynddynt; a hwy a ddaethant i gyfranogi o wledd y dwyfol gymmundeb yn y tŷ isaf: ond Iesu Grist yn ei berson ei hun a'u gwahodd hwynt ger bron yr holl fyd, at y bwrdd uchod. (3.) Drwy hyn fe'u derbyn i drigfanau gogoniant. Mae agoriadau y nefoedd wrth wregys ein Cyfryngwr breninol. Rhoddwyd iddo ef bob awdurdod, (Math. xxviii. 18.), ac nid â neb i mewn yno ond y rhai y caniatao efe iddynt. Pan oeddynt ar y ddaear, gydâ 'r rhan arall o'r byd, efe a agorodd ddrysau tragywyddol eu calonau, a aeth i mewn iddynt, ac a'u cauodd drachefn; fel nad allai pechod byth ddyfod yn ol, i deyrnasu yno fel o'r blaen; ac yn awr efe a egyr ddrysau 'r nefoedd iddynt, a gymmer ei golomenod i mewn i'r arch, ac a'u cau hwynt i mewn yno; fel nas gall y ddeddf, angau, nac uffern, byth eu cael allan mwyach. Pan oedd y saint yn y bywyd hwn yn ymdrechu i fyned i mewn i'r orphwysfa hono: byddai Satan yn wastad yn eu llusgo yn ol, a'u llygredigaethau yn eu gwasgu i lawr; fel na byddai ganddynt weithiau ddim ond rhawnyn addewid i lynu wrtho, (os goddefir yr ymadrodd,) gan ofni syrthio i'r llyn o dân: eithr y pryd hwnw fe

rydd Crist y gair iddynt gael eu derbyn i mewn; ac yna byddant o gyrhaedd pob perygl. *Yn olaf,* Fel hyn y mae efe yn llefaru wrthynt fel un yn eu cyflwyno i'r deyrnas, i ystafell wyddfod y brenin mawr, ac at yr orsedd. Iesu Grist yw ysgrifenydd mawr y nef, i'r hwn y perthyn dwyn y saint i wyddfod grasol Duw, ac iddo ef yn unig y perthyn eu dwyn i wyddfod gogoneddus Duw yn y nefoedd. Yn wir ni byddai y nef ond lle dieithr iddynt oni bai fod Iesu Grist yno; eithr y Mab a gyflwyna ei frodyr i deyrnas ei Dad, hwy a gant fyned i mewn "gydag ef i'r brïodas." Math. 25. 10.

II. Ystyriwn yn mha ansawdd y dygir hwynt i mewn ganddo.

*Yn gyntaf,* Efe a'u dwg hwynt i mewn fel bendigedigion ei Dad; felly y mae yr alwad oddiar yr orsedd, "Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad," &c. I dŷ Tad Crist y maent i fyned: am hyny mae efe yn dwyn ar gof iddynt eu bod yn fendigedig gan ei Dad, yn anwyl gan y Tad, yn gystal a chanddo ef ei hun. Hyn sydd yn gwneuthur y nefoedd yn gartref iddynt, sef am mai tŷ Tad Crist ydyw, lle y gallant fod yn hyderus am gael croeso, gan eu bod wedi ymbrïodi â'r Mab, ac yn ddewisedig y Tad i'r dyben hwnw. Efe a'u dwg i mewn er mwyn ei Dad, cystal ag er ei fwyn ei hun: bendigedigedigion y Tad ydynt; yr hwn, megys y mae yn ffynon y Duwdod, sydd hefyd yn ffynon yr holl fendithion a roddir i ddynion. Rhai ydynt, y bwriadodd Duw wneuthur lles iddynt er tragywyddoldeb. Yr oeddynt yn fendigedig yn yr arfaeth dragywyddol, oherwydd eu hethol i fywyd tragywyddol. Pan agorwyd llyfr y bywyd, cafwyd eu henwau yn ysgrifenedig ynddo; felly nid yw eu dwyn hwynt i mewn i'r deyrnas ddim ond eu dwyn i'r hyn a fwriadodd y Tad iddynt er tragywyddoldeb: fe achubodd y Mab, hwynt "yn ol ei arfaeth ef," sef y Tad, 2 Tim. i. 9. *Fe lefarodd y Tad yn dda wrthynt* yn ei air, yr hwn y rhaid ei gwbl gyflawni y pryd hwnw. Yr oedd ganddynt ei addewid ef am y deyrnas, a hwy a fuont fyw a marw mewn ffydd ynddi: ac yn awr y maent yn dyfod i dderbyn yr hyn a addawyd. Efe a *wnaeth yn dda iddynt.* Mae rhodd yn cael ei galw yn fynych yn yr ysgrythyr yn fendith; ac y mae bendith Duw yn wastad yn ddiffuant fel bendith Isaac, drwy yr hon y gwnaethpwyd Iacob yn etifedd iddo: hwynt hwy oll, drwy ei râs ef, a gyfiawnhâwyd, a sancteiddiwyd, ac a nerth-

wyd i barhâu hyd y diwedd; yn awr fe'u derchafir mewn gogoniant, ac wedi eu profi, maent yn sefyll yn y farn: a pheth sydd yn ol iddynt, ond ar fod i Dduw goroni gwaith ei râs ynddynt, drwy roddi iddynt eu teyrnas, yn y llawn fwynhâd o hono ei hun hyth? *Yn ddiweddaf,* Hwynt hwy yw y rhai a gyssegrodd Duw; yr hyn hefyd yngbyfrif yr ysgrythyr sydd fath o fendith, 1 Cor. x. 16. Duw a'u neillduodd iddo ei hun, i fod yn freninoedd ac yn offeiriad iddo ef; ac y mae'r Cyfryngwr yn eu dwyn i mewn fel y cyfryw i'w teyrnas a'u hoffeiriadaeth.

*Yn ail,* Fe'u cyflwyna Crist hwynt fel etifeddion y deyrnas, i gymmeryd meddiant gweithredol o honi. "Deuwch chwi fendigedigion, etifeddwch y deyrnas." Maent yn blant i Dduw drwy adgenedliad a mabwysiad: "Ac os plant, etifeddion hefyd; sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ," Rhuf. viii. 17. Dyna 'r pryd y bydd cynnulleidfa y rhai cyntafanedig ger bron yr orsedd: bydd amser eu mebyd wedi myned heibio, a'r amser a bennodwyd gan y Tad i dderbyn yr etifeddiaeth, wedi dyfod i ben. Y Cyfryngwr a bwrcasodd yr etifeddiaeth iddynt â'i waed ei hun; mae gweithred eu hawl a'u tystiolaeth wedi ei thynu er ystalm, a'i chofrestru yn y Bibl: ïe, maent wedi cymmeryd meddiant o'u hetifeddiaeth, yn mherson Iesu Grist, fel eu dirprwywr, pan esgynodd efe i'r nefoedd, "i'r man yr aeth y Rhagflaenor drosom ni," Heb. vi. 20. Nid oes dim yn ol, ond iddynt fyned i mewn i feddiant personol o honi, yr hyn sydd yn dechreu yn angau, ac yn cael ei berffeithio yn y farn; pan el y saint, yn eu cyrph, cystal a'u heneidiau, i'w teyrnas.

*Yn olaf,* Fe'u dygir iddi fel y rhai y parotowyd hi ar eu medr, er seiliad y byd. Fe barotowyd y deyrnas ar eu medr yn nhragywyddol fwriad Duw, cyn rhoddi bod i un o honynt; yr hyn sydd yn dangos mai rhodd o rad râs ydyw iddynt. Yr ydoedd yn y bwriad dwyfol er tragywyddoldeb fod i'r cyfryw deyrnas gael ei pharotoi i'r etholedigion; a bod i'r holl rwystrau a luddiai iddynt ei chyrhaeddyd gael eu symud o'r ffordd; ac heblaw hyny, yn yr un arfaeth, fe bennodwyd lle pob un ynddi, ac fe'i neillduwyd i'w gadw iddo, fel y byddai i bob un o'r plant pan y delo adref yn y diwedd i dŷ ei Dad, gael ei le yn dysgwyl am dano, ac yn barod iddo: fel yr oedd lle Dafydd yn wag wrth fwrdd Saul, pan nad oedd efe yno ei hun i eistedd ynddo, 1 Sam. xx. 25. Ac yn awr, wedi dyfod yr amser pennodol, fe'u dygir i mewn i gymmeryd eu gwahanol lefydd yn y gogoniant, y rhai a neillduwyd ac a gad-

wyd ar eu medr, hyd nes deuant i'w cymmeryd.

DEFNYDD. Mi a derfynaf fy araeth ar y mater yma gydâ gair o gymhwysiad. (1) I bawb sy'n houni hawl i'r deyrnas hon. (2.) I'r rhai sydd a hawl wirioneddol iddi. (3.) I'r rhai nad oes ganddynt ddim hawl iddi

*Yn gyntaf,* Yn gymmaint a bod yn amlwg nad oes dim derbyniad plith draphlith i deyrnas nefoedd, ac nad oes neb i'w chael ond y rhai y profwyd eu hawl iddi yn ddifrifol gan y Barnydd mawr, ac ar ol y cyfryw brawf gaffael allan fod ganddynt hawl dda a safadwy; mae yn anghenrheidiol i ni oll ymofyn a chwilio yn ddiduedd, a allwn ni wirio a chadarnhau ein hawl i'r deyrnas hon, yn ol cyfreithiau y deyrnas sy'n gynnwysedig yn yr ysgrythyr lân?

Y gobaith am y nefoedd ag sydd gan y rhan fwyaf o bobl, sydd a'i sail ar y tywod yr hwn ni ddeil brawf; nid oes sail iddo yn ngair y gwirionedd, ond yn eu dychymmygion hudol eu hunain: y cyfryw obaith a âd ei meddiannydd yn druenus ac yn siomedig yn y diwedd. Gan hyny y mae nid yn unig yn ddyledswydd eithr hefyd yn fuddiol, i ni brofi y mater yn ddiduedd, mewn pryd. Os cawn allan nad oes genym un hawl wirioneddol i'r nefoedd, yr ydym etto o fewn cyrhaedd iddi; ac ni a allwn gael yr hyn nid yw genym: eithr os cawn allan fod genym hawl iddi, bydd genym y cysur o allu edrych tu a thragywyddoldeb gydâ hyfrydwch; yr hyn yw y cysur mwyaf a ddichon dyn gael yn y byd. Os gofynwch, Pa fodd y gallwn wybod a oes genym hawl i'r nefoedd, ai nid oes? Yr wyf yn atteb, y rhaid i chwi wybod hyny wrth y cyflwr yr ydych yn awr ynddo. Os ydych etto yn eich cyflwr natur yr ydych yn blant digofaint, ac nid yn blant y deyrnas hon; canys mae y cyflwr hwnw, i'r rhai sydd yn byw a marw ynddo, yn diweddu mewn tragywyddol drueni. Os dygwyd chwi i gyflwr o râs, y mae genych hawl gyfreithlawn i gyflwr o ogoniant; canys y mae grâs yn sicr o derfynu mewn gogoniant yn y diwedd. Etifeddiaeth ydyw y deyrnas yma, nad oes gan neb hawl gyfiawn iddi ond plant Duw. Felly yr ydym yn dyfod yn blant Duw drwy ail-enedigaeth ac undeb â Christ ei Fab ef; "ac os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ," Rhuf. viii. 17. Dyma, ynte yw yr arwyddion arbenig wrth ba rai y gellir profi ein hawl i gyflwr o ogoniant. Ac am hyn yr wyf yn eich cyfeirio at yr hyn a ddywedwyd am gyflwr o ras, er mwyn

eglurhau i chwi mewn perthynas i'ch hawl i ogoniant.

Os ydych yn etifeddion gogoniant, mae teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi drwy rinwedd eich ail-enedigaeth a'ch undeb â Christ. (1.) Gan deyrnas nefoedd y mae 'r orsedd yn dy galon, os oes genyt ti hawl i'r deyrnas hono: mae Crist ynot ti, ac y mae Duw ynot ti: ac wedi ei ddewis ef yn rhan, mae dy enaid wedi cymmeryd i fynu ei orphwysfa wastadol ynddo ef, ac nid yw yn medru cael un gorphwysfa wrth ei fodd ond ynddo ef; fel y golomen nes ei dyfod i'r arch. Atto ef y mae tuedd greddfol yr enaid, drwy rinwedd yr anian newydd, o'r hon y mae etifeddion gogoniant yn gyfranog, Psal. lxxiii. 25, "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gydâ thydi." (2.) Mae deddfau y nefoedd yn dy galon, os ydwyt yn etifedd y nefoedd, Heb. viii. 10, "Mi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddyliau, ac a'u hysgrifenaf hwynt yn eu calonau." Mae dy feddwl wedi ei oleuo yn y wybodaeth o gyfreithiau y deyrnas, drwy Yspryd yr Arglwydd, athraw etifeddion gogoniant; canys pwy bynag fyddo heb ddysgeidiaeth, diammeu na fydd etifeddion y goron ddim hebddo. Mae yn ysgrifenedig yn y prophwydi, "A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw," Ioan vi. 45. Gan hyny, er i dad a mam eu gadael yn ieuaingc, neu fod yn ddifater am eu dwyn i fynu yn gristionogol, a chael eu rhoi yn foreu i ennill eu bara beunyddiol, etto ni chânt fod yn fyr o ddysgeidiaeth. Ac heblaw hyny, fe newidiwyd dy galon, ac yr wyt yn dwyn delw Duw, yr hon sy'n gynnwysedig mewn "cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd," Eph. iv. 24. Mae dy enaid yn gymmodlon â holl ddeddf Duw, ac mewn rhyfel a phob pechod adnabyddus. Ofer i'r rhei'ny honni hawl i'r deyrnas sanctaidd, y rhai nid ydynt sanctaidd yn eu calon a'u buchedd; canys "heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd," Heb. xii. 14. Os ydyw 'r nefoedd yn orphwysfa, i lafurwyr ysprydol, y mae, ac nid i segurwyr. Os ydyw yn fuddugoliaeth dragywyddol nid yw y rhei'ny ddim a'r y ffordd, yno, y rhai sydd yn esgeuluso y rhyfel ysprydol, ac heb ofalu am farweiddio llygredd, gwrthwynebu profedigaeth, a thori eu ffordd yno drwy wrthwynebiadau 'r diafol, y byd, a'r cnawd. (3.) Y trysor yn y nef yw y peth penaf yr ydych yn ei barchu ac yn ei ddymuno; dyna eich trysor chwi, a "lle mae eich trysor, yno mae eich calon hefyd," Math. vi. 21. Os nid y pethau a welir, ond y pethau ni welir, y mae dy galon yn gofalu ac yn awyddu mwyaf am eu cael; os ydwyt yn masnachu â'r nefoedd, a'th farsiandïaeth benaf yno;

mae yn arwydd mai yno mae dy drysor, canys y mae dy galon yno. Ond os wyt yn un o'r rhai ag sy'n rhyfeddu pa ham y mae cymmaint o ddadwrdd ynghylch y nefoedd a bywyd tragywyddol, fel pe gwnai llai y tro; mae yn debyg na chai di byth fyned ar ei chyfyl hi. Mae dynion cnawdol yn gwerthfawrogi eu hunain yn ol eu trysorau daearol; yn eu barn hwy, mae pethau a welir yn llawer trymach na'r pethau ni welir, ac nid oes colledion yn effeithio arnynt gymmaint a cholledion daearol; ond y mae etifeddion coron gogoniant yn gwerthfawrogi eu hunain yn ol eu trysorau yn y nef, ac ni roddant hwy eu hetifeddiaeth ddaearol yn yr un clorian a'u teyrnas hwy, ac ni chaiff colled ddaearol gymmaint o effaith ar eu calonau; ag a gaiff meddwl am golli 'r nef. Lle y ceir y blaenffrwythau hyn o'r nefoedd, mae tragywyddol bwys gogoniant yn sicr o ddilyn; a diau, yn ol yr ysgrythyr fod y diffyg o'r rhai'n yn brawf sicr o etifedd digofaint.

*Yn ail,* Bydded i etifeddion y deyrnas ymddwyn yn addas i'w proffes a'u hurddas. Bucheddwch fel rhai yn meddu ffydd a gobaith am y deyrnas ogoneddus hon; bydded eich ymarweddiad yn y nefoedd, Phil. iii. 20 Ymhyfryded eich heneidiau mewn cymundeb â Duw tra y byddoch ar y ddaear, gan mai yn y cymundeb ag ef yr ydych yn dysgwyl eich dedwyddwch yn y nef. Bydded sawyr y nefoedd ar eich geiriau a'ch gweithredoedd; ac yn eich ymarweddiad tebygolwch i'r wlad yr ydych yn myned iddi; fel y galler dywedyd am danoch fel am frodyr Gideon, Barn. viii. 18, "Pob un o ddull meibion brenin." Arosed yn eich meddwl ddirmyg sanctaidd ar y byd, a'r pethau sydd ynddo Er bod ereill, pethau daearol pa rai yw eu pethau goreu, yn gosod eu calonau arnynt; etto fe weddai i chwi osod eich traed arnynt, oblegid bod eich pethau goreu chwi yn y nefoedd. Nid yw y byd hwn ond gwlad y mae eich ffordd yn myned drwyddi i dir Immanuel: am hyny ewch drwyddo fel deieithriaid a phererinion; heb ymyraeth a'i drafferthion, i afrwyddo eich taith: nid yw yn gweddu i'r neb a anwyd i'r palas, osod eu calon ar fythod, i fyw ynddynt; ac i rai yn rhedeg am gampdlws aur, droi o'r ffordd, i gasglu cerig yr afon: ond llawer mwy anweddus i etifedd teyrnas nefoedd ymguddio ymysg nwyfau y byd hwn, pan y dylai fyned i dderbyn ei goron. Mae y camp-dlws sydd wedi ei osod o'ch blaen yn deilwng o'r awyddfryd, y bywiogrwydd, a'r diwydrwydd mwyaf: ac y mae gwroldeb sanctaidd, calondid a mawrfrydigrwydd, yn gweddu i etifeddion y goron. Nis gellwch ei chael heb ym-

lodd eich ffordd atti, drwy anhawsderau oddifewn ac oddiallan: ond y mae y deyrnas sydd o'ch blaen yn ddigonol i bwyso y cwbl, ïe, pe byddai i chwi gael eich galw i wrthwynebu byd at waed. Dewisiwch groes Crist o flaen coron y byd, ac eisiau yn llwybr dyledswydd o flaen esmwythder a chyfoeth ar lwybr pechod: "Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gydâ phobl Dduw, na chael mwynhâant pechod dros amser," Heb. xi. 25. Mewn tafarn gyffredin, gall fod gwell byd ar y dieithriaid, na'r plant; ond y gwahaniaeth yw hyn. Nid oes ar y plant ddim i'w dalu am eu croeso; ond mae dieithriaid yn cael *bil*, a rhaid iddynt dalu am bob peth a gawsant. Pe ystyriem y cyfrif fydd raid i'r annuwiolion roddi am holl weniadau cyffredin rhagluniaeth yn y byd hwn, ni rwgnachem iddynt eu pethau da yma, ac ni chwynem am fod Duw yn cadw ein pethau goreu hyd yn ddiweddaf. Fe wna y nefoedd at-dalu i'r saint am eu holl golledion, ac yno y sychir ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid.

Mae yn werth sylwi fod y fath amrywiaeth o ymadroddion ysgrythyrol ynghylch dedwyddwch y nef, ag a ddichon gyfatteb i brofiad gofidus pob un o'r saint. A ydynt hwy yn cael eu gorthrymu? Y mae y dydd yn dyfod pan y cant arglwyddiaethu. A ydyw eu hanrhydedd wedi ei ddarostwng i'r llwch? fe ei cyfodir drachefn drwy gael gorsedd i eistedd, a choron ar eu penau, a theyrnwialen yn eu dwylaw. A ydynt yn dlawd? mae y nefoedd yn drysor. Os bu orfod arnynt adael eu trigfanau eu hunain, etto mae tŷ Tad Crist yn barod iddynt. A yrwyd hwynt i'r anialwch? mae dinas wedi ei pharotoi iddynt. A alltudiwyd hwynt o'u gwlad enedigol? hwy a gant etifeddu gwlad well. Os ymddifedir hwynt o'r ordinhadau cyhoeddus, yr Arglwydd Dduw Hollalluog a'r Oen ydynt y deml yno, lle y maent hwy yn myned; teml, nas gall neb gau ei drysau: os yw eu bywyd yn llawn chwerwder, mae y nefoedd yn baradwys o hyfrydwch: Os ydynt yn gruddfan dan weddillion caethiwed ysprydol, y mae rhyddid gogoneddus yn eu haros. A ydyw eu dillad budron yn eu cywilyddio? mae y dydd yn dyfod, pan y cant ddillad gwynion, glân a dysglaer. Mae'r frwydr yn erbyn cig a gwaed, tywysogaethau ac awdurdodau, yn wir yn flin; ond y mae buddugoliaeth ardderchog yn eu haros. Os yw llafur a lludded bywyd cristionogol yn fawr, y mae tragywyddol orphwysdra iddynt yn y nef. A ydynt hwy yn cael eu cyfrif yn annheilwng o gymdeithas yn y byd? fe'u derbynir i gym-

deithas angylion yn y nef. A ydynt hwy yn cwyno o herwydd aml gwmwl a'r eu cymmundeb â Duw? yno nid rhaid iddynt fyned allan mwyach, ond cant weled ei wyneb yn oes oesoedd. Os ydynt yma mewn tywyllwch, mae hi yno yn oleu tragywyddol. Os gorfydd iddynt ymdrechu ag angau, yno hwy a gant fywyd tragywyddol. Ac i grynöi y cwbl mewn un gair, " Yr hwn sydd yn gorchfygu, a etifedda bob peth," Dad. xxi. 7. Efe a gaiff dangnefedd ac amledd, llwydd a llawenydd, pob peth dymunol; llawn ddigonolrwydd i'w ddymuniadau ëangaf. Bydded gan hyny i'r rhai sy'n dysgwyl am y nefoedd godi eu penau gyda llawenydd, ymwregysu, ac felly redeg fel y caffont afael; gan fathru pob peth a'u rhwystro yn eu ffordd i'r deyrnas. Na chyfrifont byth un dyledswydd yn rhy galed, yr un groes yn rhy drom, dim llafur yn ormod, fel y gallont gyrhaedd coron gogoniant.

*Yn olaf,* Bydded i'r neb sydd heb hawl i deyrnas nefoedd, ddeffroi i'w cheisio gydâ phob diwydrwydd. Dyma'r amser i blant digofaint ddyfod yn etifeddion gogoniant: a thra bo'r ffordd i hapusrwydd trag'wyddol yn agored, nid oes dim amser i eistedd yn llonydd a segura. Dyrchefwch eich calon tu a'r gogoniant a ddadguddir: ac na orweddwch yn eich unman ar y ddaear wywedig hon. Pa lesâd a wna eich holl fwyniant bydol i chwi, tra y byddoch heb sail safadwy i ddysgwyl nefoedd, pan elo y bywyd hwn heibio? Y cyfoeth a'r anrhydedd, yr elw a'r pleserau hyny, y bydd raid eu claddu gyda ni, ac nas canlynant ni i fyd arall, nid ydynt ond cynnysgaeth wael, ac a'n gadawant yn annedwydd yn y diwedd. O! paham y mae dynion mor awyddus i dderbyn eu gwynfyd yn eu bywyd! paham na baent yn gofalu i sicrhâu iddynt eu hunain hawl i deyrnas nefoedd, yr hon ni chymmerid byth oddiarnynt, eithr a fyddai iddynt yn etifeddiaeth ddigonol i'w gwneuthur yn ddedwydd i dragywyddoldeb! Os ydych yn chwennych anrhydedd, yno y gellwch gael yr anrhydedd uchaf, ac a bery pan fo anrhydedd y byd yn gorwedd yn y pridd; ac os cyfoeth a chwennychech, chwi gewch drysor yn y nef; ac yno y mae hyfrydwch yn dragywydd. O! na fyddwch yn ddirmygwyr yr hyfryd wlad, ac na fernwch eich hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol; eithr yn hytrach prïodwch yr etifedd, a bydd y nefoedd i chwi yn gynnysgaeth; ymaflwch yn Nghrist, fel y cynnygir ef i chwi yn yr efengyl, a chwi a etifeddwch bob peth. Rhodiwch yn llwybr sancteiddrwydd, ac efe a'ch arwain i'r nefoedd. Yn-

leddwch yn erbyn pechod a Satan, a chwi a dderbyniwch y goron; ymwrthodwch a'r byd, a drysau y nefoedd a agorir i'ch derbyn.

# PEN VI.

## UFFERN.

MATH. xxv. 41.

*Yna y dywed efe hefyd wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion.*

Pe na buasai trigfan dragywyddol arall heblaw nefoedd, mi a fuaswn yma yn terfynu fy nhraethawd mewn perthynas i gyflwr tragywyddol dyn: eithr gan weled fod yn y byd arall, garchar i'r drygionus, heblaw palas i'r saint, rhaid i ni hefyd ymofyn ynghylch y cyflwr o dragywyddol drueni; yr hwn y bydd raid i'r dynion gwaethaf ei oddef, heb lefain, "A ddaethost ti i'n poeni cyn yr amser?" gan fod etto fodd i ffoi rhag y llid a fydd; a'r hyn oll a ellir dywëyd am y cyflwr hwnw sy'n rhy fyr i ddarlunio yr hyn a fydd raid i'r damnedigion ei deimlo; canys pwy a ddeall nerth soriant Duw?

Y peth diweddaf a wnaeth ein Harglwydd, cyn ymadael a'r ddaear oedd, "Efe a gododd ei ddwylaw, ac a'u bendithiodd hwynt," Luc xxiv. 50, 51. Eithr y peth diweddaf a wna efe cyn gadael yr orsedd, fydd melldigo a chondemnio ei elynion; fel y deallir oddiwrth y testun yr hwn sydd yn cynnwys y ddedryd arswydus, lle mae tragywyddol drueni y rhai drygionus wedi ei grynöi ynghyd. Yma mae tri pheth i sylwi arnynt. *Yn gyntaf*, Cyflwr y rhai condemnedig, *rhai melldigedig*. Y barnwr wedi caffael fod melldith y ddeddf yn gorwedd arnynt, fel troseddwyr, efe a'u denfyn ymaith gyda hi, oddi ger ei fron i uffern, i'w llwyr ddyoddef. *Yn ail*, Y gosp a osodir arnynt: ac y rhwymir hwynt atti drwy rym y felldith. Ac y mae hon yn ddeublyg, cosp o golled, yn yr ysgariad oddi wrth Dduw a Christ, *Ewch oddiwrthyf;* a chosp o deimlad, yn y dygn boenau tostaf, *Ewch oddiwrthyf i'r tân*. *Yn drydydd*, Trymhâd eu poenedigaethau. (1.) Y maent yn barod iddynt, nid gwiw iddynt ddysgwyl munud o oediad. Mae'r tân wedi ei barotoi, ac yn barod i losgi y rhai a fwrier iddo. (2) Hwy a gant gymdeithas cythreuliaid yn

ıenau, cant eu cau gyda hwynt yn uffern. Rhaid iddynt l i'r tân a barotowyd i Beelzebub penaeth y cythreul- a'i angylion; sef, yr angylion drwg a syrthiasant gyd , ac a aethant yn gythreuliaid. Fe ddywedir ddarfod ei oi iddynt hwy; oblegid iddynt hwy bechu a chael eu ' i uffern, cyn i ddyn bechu. Mae hyn yn llefaru dych- nwy i'r damnedigion, y bydd raid myned i'r un poenau · un lle poenus, a'r diafol a'i angylion. Hwy a wran- ıant ei ddeniadau, am hyny bydd raid iddynt gyfranogi ɔenau: ei waith ef a fynent wneuthur, a rhaid iddynt hyn ei gyflog ef, sef marwolaeth. Yn y bywyd hwn hwy :unasant a'r cythreuliaid, yn eu gelyniaeth yn erbyn Duw rist, a ffordd sancteiddrwydd; ac yn y nesaf rhaid idd- ettya gydâ hwynt. Fel hyn y caiff yr holl eifr eu cau â'u gilydd; oblegid y mae yr enw hwnw yn berthynol i'r reuliaid ac i ddynion drwg, yn ol yr ysgrythyrau, Lef. 7. Mae'r gair a gyfieithir cythreuliaid, yn arwyddo rhai 'og, neu eifr, oblegid ar lun y creaduriaid hyny y byddai threuliaid yn fwyaf tueddol i ymrithio i'w haddolwyr.

Y trymhâd diweddaf o'u poenau yw eu tragywyddol ıâd; bydd raid iddynt fyned i dân tragywyddol. Hyn l yn chwanegu eu trueni i'r radd eithaf, sef na bydd ı ddiwedd arno.

## ATHRAWIAETH.

*gaiff y rhai drygionus eu cau i fynu dan felldith Duw, mewn tragywyddol drueni gyd a'r cythreuliaid yn uffern.*

Gwedi dangos y bydd adgyfodiad i'r corph, ac y bydd barn fredinol, nid wyf yn tybied yn angenrheidiol ychwanegu rofi sicrwydd y cospedigaethau sydd i ddyfod. Yr un gyd- bod ag sydd mewn dynion am farn i ddyfod, sydd hefyd yn tiolaethu sicrwydd y gosp i ddyfod. Ni bydd cosp y dam- ligion yn ddiddymiad iddynt, hyn a ddangosir yn amlwg yr araeth ganlynol. Wrth draethu ar y testun brawychus n, mi a gaf ystyried y pedwar peth canlynol. (1.) Y fell- h dan yr hon y caiff y damnedigion eu cau i fynu. (2.) Eu ıeni dan y felldith hono. (3.) Eu cymdeithas â'r cyth- ıliaid yn y cyflwr hwnw. (4.) Tragywyddol barhâd y cwbl.

I. Mewn perthynas i'r felldith dan yr hon y cauir y dam- digion i fynu yn uffern; hyn yw dedryd arswydus y ddeddf

wrth yr hon y maent wedi eu rhwymo i ddyoddef digofaint Duw, fel troseddwyr. Nid pan y safont ger bron y frawdle, a phan y derbyniont eu dedryd, y mae y felldith hon yn ymaflyd ynddynt gyntaf: eithr fe'u ganwyd dani, hwy a aethant drwy y byd yma dani, hwy a fuont feirw dani, a adgyfodant o'u beddau dani; a chan mai dani y caiff y Barnwr hwynt, efe a'u denfyn hwynt ymaith gyda hi i'r pwll; ac yno y gorweddant dani dros holl oesoedd tragywyddoldeb. Mae pob dyn wrth natur dan y felldith? ond fe'i symudir oddiar yr etholedigion drwy effaith eu hundeb â Christ. Y mae hi yn aros ar y lleill o ddynolryw, ac o'i herwydd y maent yn rhwymi ddystryw, ac yn neillduedig i ddrwg, fel y gellir darlunio'r felldith oddiwrth Deut. xxix. 21. "A'r Arglwydd a'i neilldua ef i gael drwg." Felly y colledigion a fyddant byth yn bobl wedi eu cyflwyno i ddystryw; wedi eu neillduo â'u didoli i ddrwg, o blith y lleill o ddynolryw, fel llestri digofaint, wedi eu gosod i fynu fel nodau i saethau dwyfol lid, a'u gwneuthur yn dderbynfëydd ac yn attegion dialedd.

Mae blaen-ffrwyth y felldith hon ar y ddaear, yr hyn sydd gyngwystl o'r clamp sydd i'w ganlyn. Ac oddiwrth hyn y mae yn canlyn, fel y mae rhoddion amserol a thragywyddol wedi eu rhwymo ynghyd, yn yr un ymadroddion, yn yr addewid i bobl yr Arglwydd, Esay xxxv. 10, "A gwaredigion yr Arglwydd a ddychwelant ac a ddeuant i Sion," &c. gan gyfeirio at y dychweliant o Babilon, ac at fynediad y saint i'w tragywyddol orphwysfa yn y nef: felly y mae trueni amserol a thragywyddol gelynion Duw, weithiau yn cael eu cyssylltu yn yr un ymadrodd yn y bygythiad, megys Esay xxx. 33. "Canys darparwyd Tophet er doe, ïe, parotowyd hi i'r brenin, efe a'i dyfnhâodd hi, ac a'i ehangodd: ei chynneuad sydd dân a choed lawer; anadl yr Arglwydd, megys afon o frwmstan sydd yn ei hennyn hi." Yr hyn sydd yn cyfeirio at ddinystr amserol a thragywyddol yr Assyriaid, y rhai a syrthiasant drwy law yr angel o flaen Ierusalem. Gwel hefyd Esay lxvi. 24. Beth yw y *dallineb barnol* i'r hwn y mae llawer yn cael eu rhoddi i fynu, "Yn y rhai y dallodd duw y byd hwn feddyliau y rhai digred," 2 Cor. iv. 4, ond blaenffrwyth uffern a'r felldith? Mae eu haul yr machlud hanner dydd; mae eu tywyllwch yn chwanegu yn ddiorphwys nes diweddu mewn tywyllwch eithaf. Llawer ffrewyll y mae cyd-wybod yn eu rhoddi i'r annuwiol yn y tywyllwch, nad ydyw y byd yn gwybod dim oddiwrthynt: a pheth yw hyny ond bod y

ŵyf na bydd marw, cisioes yn dechreu eu cnoi? ac nid oes un o'r brathiadau hyny nad allant ei alw yn *Ioseph*, canys yr Arglwydd a *ddyru ychwaneg*; neu yn hytrach *Gad*, oblegid *mae tyrfa yn dyfod.* Mae y dafnau hyn o ddigofaint yn rhag-arwyddion arswydus o'r gawod sydd i ganlyn. Weithiau y maent yn cael eu rhoddi i fynu i'w gwyniau gwarthus, fel na allont eu darostwng mwyach, Rhuf. i. 26. Felly mae eu chwantau yn cynnyddu fwy fwy tuag at berffeithrwydd, os goddefir yr ymadrodd. Fel y mae gras yn cyrhaeddyd perffeithrwydd yn y nefoedd, felly mae pechod yn uffern yn cyrhaeddyd y radd eithaf; ac fel y mae pechod fel hyn yn chwanegu yn y dyn, agosaf a thebycaf yw i uffern. Mae yma dri pheth a golwg arswydus arnynt. *Yn gyntaf,* Mae pob peth a allai wneuthur les i eneidiau dynion wedi mallu iddynt; fel y mae eu bendithion wedi eu melldithio, (Mal. ii. 2.) pregethau, gweddïau, cynghorion, ceryddon, y rhai sydd yn nerthol tu ag at ereill, iddynt yn gwbl aneffeithiol iddynt hwy. *Yn ail,* Pan y mae dynion yn myned rhagddynt i bechu yngwyneb ceryddon amlwg oddiwrth yr Arglwydd, mewn ordinhadau a rhagluniaethau: mae Duw yn eu cyfarfod ar lwybr eu pechod â gwïalenodiau, ac megys yn eu curo yn ol; etto rhuthro ymlaen y maent hwy. Beth a all fod yn debycach i uffern lle y mae Duw yn wastad yn ceryddu, a'r colledigion yn wastad yn pechu yn ei erbyn? *Yn olaf,* Pan fyddo pob peth a gyfarfyddo â dyn yn cael ei droi yn gynnud i'w chwantau. Fel hyn nid yw adfyd na hawddfyd, tlodi na chyfoeth, diffyg ordinhadau, na'u mwynhâd, i gyd ond meithrin llygredigaethau lawer. Mae eu cylla llygredig yn halogi pob peth a gaffont, ac nid yw'r cwbl ond chwanegu gor-llifiau afiach.

Ond mae y cynnauaf llawn yn canlyn y trueni hwnw dan ba un y gorweddant byth yn uffern; y llid hwnw, yr hwn, trwy ym y felldith, a ddaw arnynt hyd yr eithaf; yr hyn yw cwbl gyflawniad y felldith. Mae y cwmwl du hwn yn ymagor uwch eu penau, a'r mellt yn eu llachio, drwy y llais brawychus hwnw oddiar yr orsedd, "Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig," &c. Hyn a rydd i'r holl rai drygionus olwg echrydus ar yr hyn sydd yn mynwes y felldith. (1.) Mae'n llais o ddirfawr lid, a digofaint, a cherydd ffyrnig oddiwrth Llew o lwyth Iudah. Ei olygon a fyddant yn ddychrynadwy iawn iddynt; ei lygaid a fwriant fflamiau tân arnynt;

a'i eiriau a drywanant eu calonau, fel picellau gwenwynig. Pan orchymyn efe hwynt fel hyn oddiger ei fron yn dragywydd, ac yr ymlid efe hwynt ymaith oddiwrth ei *orsedd* â gair ei enau, hwy a gant weled mor danbaid y llysg ei ddigofaint yn ei galon yn eu herbyn am eu pechodau. (2.) Mae yn llais o ddirmyg a diystyrwch oddiwrth yr Arglwydd. Fe fu amser y tosturiwyd wrthynt, ac yr attolygwyd arnynt dosturio wrthynt eu hunain, a dyfod yn eiddo 'r Arglwydd: eithr hwy a'i diystyrasant ef, ac ni fynent mo hono; ond yn awr hwy a gant eu claddu o'i olwg ef, dan ddirmyg tragywyddol. (3.) Mae yn llais o gasineb eithaf. Yna y bydd i'r Arglwydd eu cau allan o ymysgaroedd ei gariad a'i dosturi. "Ewch, chwi rai melldigedig:" fel pe dywedai, Nis gallaf oddef yr olwg arnoch: nid oes gymmaint ag un bwriad o ddaioni tu ag attoch yn fy nghalon; ac ni chewch glywed un gair gobeithiol oddiwrthyf mwyach. *Yn olaf,* Llais ydyw o dragywyddol wrthodiad oddiwrth yr Arglwydd. Efe a arch iddynt fyned ymaith, ac felly efe a'u bwria oddiwrtho am byth. Fel hyn y cauir drws y nefoedd yn eu herbyn; y sicrheir y gagendor rhyngddynt a hi, ac y gyrir hwynt i'r pwll. Yna, pe llefent gydâ'r difrifwch mwyaf, "Arglwydd, Arglwydd, agor i ni," ni chant un atteb, ond, "Ewch, ewch, chwi rai melldigedig." Fel hyn y cauir y colledigion dan y felldith.

DEFNYDD *cyntaf,* Bydded i bawb ag sydd etto yn eu cyflwr natur, a than y felldith, ystyried hyn, a ffoi at Iesu Grist mewn pryd fel y gwareder hwynt o dan y felldith. Pa fodd y gellwch gysgu yn y cwflwr hwn, gan fod wedi eich amgylchu gan y felldith! Mae Iesu Grist yn dywedyd wrthych yn awr, Deuwch, chwi rai melldigedig, mi a gymmeraf y felldith oddiarnoch, ac a roddaf i chwi y fendith. Mae dyfroedd y cyssegr yn awr yn rhedeg, i iachâu y tir diffaith; gofelwch am eu defnyddio i'r dyben hwnw i'ch eneidiau eich hunain, ac arswydwch megys uffern, rhag na chewch ddim budd oddiwrthynt. Cofiwch na bydd i'r lleoedd lleidiog (y rhai nid ydynt na môr na sych-dir, cynllun addas o ragrithwyr) a'r corsydd (lle ni thyf coed, ac ni heigia pysgod, y rhai y gâd dyfroedd y cyssegr hwynt fel y'u cawsant, yn eu diffeithdra) ddim cael eu hiachâu; (gan eu bod yn gwrthod yr unig feddyginiaeth) i halen y rhoddir hwynt, (a adewir yn ddiffeithwch tragywyddol, ac a osodir yn arwyddion tragywyddol o ddigofaint Duw, ac a gauir byth dan y felldith,) Ezec. xlvii. 11. *Yn ail,* Ystyried rhegwyr hyn, geneuau y rhai

sydd yn llawn o felldithio eu hunain ac ereill. Yr hwn sy'n ymwisgo â melldith, melldith "a ddaw fel dwfr i'w fewn ef, ac fel olew i'w esgyrn ef," Psal cix. 18. oni attelir hi drwy edifeirwch. Ei holl felldithion a ddisgynant ar ei ben ei hun yn y dydd y saif efe o flaen gorseddfaingc Duw: ac efe a gaiff deimlo dirfawr bwys melldith Duw, yr hon y mae efe yn awr yn ei divstyru.

II. Mi a af ymlaen i son am drueni y colledigion, dan y felldith hono; trueni na ddichon tafodau dynion ac angylion mo'i gyflawn ddisgrifio. Mae gweithredoedd Duw bob amser fel efe ei hun: nid oes ewyllys da fel yr eiddo ef, a'i ddigofaint a'i ddychryniadau sydd yn anghymharol. Megys y mae y saint yn y nef yn y radd uchaf o hapusrwydd, felly y mae y colledigion yn uffern yn cyrhaeddyd y radd eithaf o drueni. Yma mi a gaf ymofyn yn ddifrifol ynghylch dau beth, y gosp o golled, a'r gosp o deimlad yn uffern. Eithr gan fod y rhai'n hefyd yn bethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, mae yn rhaid i ni (fel y gwna daearyddion) adael gwagle ehang am y tir anadnabyddus, yr hwn a ganfyddir y dydd hwnw.

*Yn gyntaf,* Y gosp o golled a gaiff y damnedigion ddyoddef, ydyw ysgariad oddiwrth yr Arglwydd, fel y gwelwn oddiwrth y testun, "Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig." Hyn a fydd megys maen ar ddrws eu bedd, fel "y dalent o blwm," Zech. v. 7, 8. a'u ceidw i lawr byth. Fe'u hysgerir am byth oddiwrth Dduw a Christ. Crist yw'r ffordd at y Tad; eithr fe gauir y ffordd yn oes oesoedd, rhagddynt hwy, fe dynir y bont, a'r gagendor mawr a sicrheir; felly y cauir hwynt i fynu mewn ysgariad tragywyddol oddiwrth Dduw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân. Fe'u hysgerir o'r man y mae y dyn Crist Iesu, ac ni ddeuant byth i eisteddfod y gwynfydedigion, lle y mae efe yn ymddangos yn ei ogoniant, ond fe'u bwrir allan *i dywyllwch eithaf,* Math. xxii. 13. Gwir yw nas gellir eu hysgaru o fod yn mhresennoldeb Duw, ni allant fod lle nad yw efe; gan ei fod yn llanw pob lle: "Os cyweiriaf fy ngwely yn uffern," medd y Salmydd, "wele di yno," Psalm cxxxix 8. Eithr hwy a fyddant yn druenus annhraethol, yn eu hysgariad perthynasol oddiwrth Dduw. Er ei fod ef yn bresennol hyd yn nod yn nghanolbwynt eu heneidiau, (os goddefir yr ymadrodd), tra y maent wedi eu hamgylchu gan y fflamiau tanllyd, yn y tywyllch eithaf; yn unig i'w porthi â gwinegr ei ddigofaint, ac â ffrydiau o'i gyfiawnder dïaledd-

ol; ond ni chant byth brofi o'i ddaioni a'i haelioni mwyach, na chael y pelydryn lleiaf o obaith oddiwrtho. Hwy a gant weled fod ei galon wedi ei hollol ddieithro oddiwrthynt, ac nas dichon fod tu ag attynt; ac mai hwy yw y blaid y bydd yr Arglwydd yn ddig wrthynt byth. Hwy a gant eu hamddifadu o bresennoldeb gogoneddus a'r mwynhâd o Dduw; ni chant ddim rhan yn y weledigaeth wynfydedig; na gweled dim yn Nuw yn garedig tu ag atynt, namyn un don o ddigofaint yn cyfodi ar ol y llall. Hyn a ddwg arnynt ddiluw gorchuddiol o ofidiau yn ddiddiwedd. Ni chant byth brofi o'r afonydd o hyfrydwch y mae'r saint yn eu mwynhâu yn y nefoedd; ond cant auaf tragywyddol, a nos barhäol, o herwydd bydd haul cyfiawnder wedi machlud arnynt, a hwythau wedi eu gadael mewn tywyllwch eithaf. Pa faint bynag yw dedwyddwch y nef, cymmaint a hyny fydd eu colled hwynt; canys ni chant byth ddim o honi.

Yr ysgariad hwn ar y drygionus oddiwrth Dduw a fydd, (1.) Yn ysgariad anewyllysgar. Maent yn awr yn cilio oddiwrtho, ni ddeuant atto, er eu galw, er erfyn arnynt a'u hanog i ddyfod: ond y pryd hwnw fe'u gyrir oddiwrtho, pan y byddai dda ganddynt gael bod gyd ag ef. Er fod dirmygwyr yr efengyl yn gofyn yn fynych, Beth yw dy anwylyd rhagor anwylyd arall? ond ni ofynir y fath gwestiwn y'mblith y dorf golledig; canys yna hwy a gant weled mai yn y mwynhâd o Dduw yn unig y mae dedwyddwch dyn yn gynnwysedig, a bod ei golli ef yn golled anmhrisiadwy. (2.) Bydd hefyd yn ysgariad cwbl a hollol. Er bod yr annuwiolion yn ysgaredig oddiwrth Dduw yn y bywyd yma, etto y mae math o fasnach rhyngddynt: y mae efe yn rhoddi llawer anrheg dda iddynt, a hwythau yn rhoddi, o leiaf, ambell air da iddo yntau; fel nad yw y tangnefedd yn hollol ddiobaith. Ond y pryd hwnw y gwneir ysgariad hollol, pan y bwrir y colledigion i'r tywyllwch eithaf, lle na bydd y pelydryn lleiaf o oleuni na ffafr oddiwrth Dduw; yr hyn a rydd ddiwedd ar eu holl air da iddo yntau. *Yn olaf,* Fe fydd yn ysgariad bythol; hwy a ymadawant ag ef heb gyfarfod mwy, eithr i gael eu cau i fynu mewn tragywyddol fraw ac anobaith. Fe fu rhyw gyfathrach rhwng Iesu Grist a'r anghredinwyr, yn cael ei gychwyn a'i ddadwneyd yn fynych. ond yn awr fe'i torir am byth, ac ni bydd i un genadwri o ffafr ac ewyllys da dramwy rhwng y pleidiau mwy.

Y gosp yma o golled yn yr ysgariad hollol a bythol oddi-

wrth Dduw, sydd drueni tu hwnt i amgyffred dyn, ac nid all dim ond profiad y colledigion yn unig ei ddeall. Eithr fel y caffom ryw dyb-feddwl am yr erchylldod o hono, ystyrier y pethau canlynol.

1*af*, Duw yw y daioni penaf, gan hyny rhaid mai ysgariad oddiwrtho ef yw y drwg penaf. Mae ein gwlad enedigol, ein perthynasau, a'n bywyd, yn dda; ac am hyny mae cael amddifadu o honynt yn cael ei gyfrif yn ddrwg mawr: a pho mwyaf a fyddo gwerth unrhyw beth, mwyaf niwed fydd ei golli. Am hyny, gan mai Duw yw y daioni penaf, ac nad oes daioni i'w gymharu ag ef, ni ddichon bod unrhyw golled gymmaint a'i golli ef. Llawn fwynhâd o hono ef yw yr hapusrwydd uchaf a ddichon creadur ei gyrhaeddyd: ac ysgariad hollol a bythol oddiwrtho yw y trueni eithaf y gellir darostwng creadur rhesymol iddo. Mae i un gael ei droi ymaith gan ddynion, gan ddynion da, gan y goreu o ddynion, yn drwm: beth ynte a fydd cael gwrthodiad gan Dduw, gan ddaioni ei hun!

2*il*, Duw yw ffynon pob da, o'r hon y mae pob daioni yn tarddu i'r creaduriaid, ac yn parhau ynddynt, ac iddynt. Pa ddaioni neu berffeithrwydd bynag, naturiol neu foesol, sydd mewn unrhyw greadur, o Dduw y mae yn deillio, ac arno mae yn ymddibynu, fel y mae goleuni yn deillio o, ac yn ymddibynu ar yr haul; canys y mae pob bod creadigol, fel y cyfryw, yn ymddibynol. Gan hyny, rhaid yw y bydd ysgariad hollol oddiwrth Duw, drwy yr hyn yr attelir pob cymmundeb cysurus rhwng Duw a'r crëadur rhesymol, yn dwyn gydag ef gwmwl cyfangwbl ar holl oleuni dyddanwch ac esmwythder o bob math. Os na bydd ond un ffenestr, neu le agored, ar dŷ, ac os cwbl gauir yr unrhyw i fynu, mae yn amlwg na ddichon bod dim ond tywyllwch yn y tŷ hwnw. Mae ein Harglwydd yn dywedyd i ni (Math. xix. 17), "Nid oes neb da ond un, sef Duw." Nid oes dim da na dyddanus yn ddechreuol o'r creadur: Pa beth bynag da neu ddyddanus a gaiff un ynddo ei hun, megys iechyd corphorol, tawelwch meddwl; pa felysder bynag, esmwythder, pleser, neu hyfrydwch, a gaffo dyn mewn creaduriaid ereill, megys mewn bwyd, diod, crefftiau a chelfyddydau; nid yw y rhai'n i gyd ond rhyw belydrau gweiniaid o'r dwyfol berffeithrwydd, yn deillio oddiwrth Dduw i'r creadur, ac yn ymddybynu arno ef am ddylanwadau parhâus tuag at eu cynnaliaeth, a phe pallai yr unrhyw, diflanent yn y fan; canys ni all fod un peth creedig-

ol yn fwy neu yn well i ni, na'r hyn y gwnelo Duw ef. Mae yr holl ffrydiau o gysuron yr ydym yn yfed o honynt, ynom neu allan o honom ein hunain, yn tarddu o Dduw megys y ffynonell o honynt; a phan attalier eu rhediad attom, maent oll dan anghenrheidrwydd i sychu i fynu. Felly pan goller Duw, collir pob peth da a dyddanus gyd ag ef, pob hawddfyd ac esmwythder corph a meddwl, Hos. ix. 12. "Gwae hwynt, pan ymadawaf oddi wyrthynt." Pan ysgarir y rhai drygionus yn hollol ac am byth oddiwrtho ef, yr hyn oll sydd yn gysurus ynddynt ac o'u hamgylch, a ddychwelant i'w ffynon; fel yr â y goleuni gydâ'r haul, ac y daw y tywyllwch yn ei le. Felly yn eu hysgariad oddiwrth Dduw, pob tangnefedd a bellheir oddiwrthynt, a phoen corph ac ing enaid, a ddaw yn ei le: pob llawenydd a ymedy, a gofid digymmysg a erys o'u mewn: pob tawelwch ac esmwythder a'u gâd, a hwy a lenwir â dychryn ac â chynddaredd: gobaith a ffy ymaith, anobaith a ymeifl ynddynt: gweithrediadau cyffredinol yr Yspryd, y rhai sydd yn awr yn eu hattal, a gymmerir oddiwrthynt am byth, a phechod a ddaw i mewn i'r radd eithaf. Ac yma y cawn olwg echryslawn ar y drych ofnadwy o bechod a thrueni, y rhai a welir yn y creadur, pan y cwbl ysgarir ef oddiwrth Dduw, ac y gadewir ef iddo ei hun; a gellir gweled fod yr ysgariad hwn yn uffern ar uffern.

Gwedi eu hysgaru oddiwrth Dduw, hwy a ymddifadir o bob daioni. Bydd y pethau da y maent yn gosod eu calon arnynt yn y byd yma, y pryd hwnw allan o'u cyrhaedd. Ni all y cybydd fwynhau ei gyfoeth yno, na'r dyn uchelgais ei anrhydedd, na'r anianol ei bleserau, nac un diferyn o ddwfr i oeri ei dafod, Luc xvi. 24, 25. Ni bydd na bwyd na diod yno i nerthu y diffygiol; dim cwsg i adfywio y lluddiedig; dim peroriaeth, na chy'mdeithion difyr i ddyddanu ac i loni y trallodedig. Ac am y pethau da a ddirmygasant hwy yn y byd, ni chant byth glywed am danynt na'u gweled drachefn. Ni bydd yno ddim cynnygion o Grist, na maddeuant, na heddwch; dim ffynonau iachawdwriaeth yn mhwll colledigaeth. Mewn gair, hwy a gant eu hamddifadu o ba beth bynag a all fod er cysur iddynt, oblegid y cant eu hysgaru yn hollol a bythol oddiwrth Dduw, ffynon pob daioni.

*3ydd,* Mae dyn yn naturiol yn chwennych bod yn ddedwydd, yr hyn a ddengys fod ei gydwybod yn mynegi iddo nad yw efe yn hunan-ddigonol; ac am hyny mae ynddo ryw ddymuniad o hyd am ryw beth oddiallan iddo ei hun, i'w wnëyd

yn hapus: a chan fod yr enaid, o ran ei wneuthuriad a'i gyfansoddiad naturiol, yn alluog i fwynhâu Duw, ac nad oes dim arall gogyhyd â'i ddymuniadau, nis gall byth gael gorphwysdra gwirioneddol a sylweddol ond yn ymwynhâd o Dduw. Nis gall creadur rhesymol ddiddymu y dymuniad hwn byth, na all byd yn nod yn uffern. Ond tra mae yr annuwiolion ar y ddaear, maent yn ymofyn am ddedwyddwch yn y crëadur; a phan ballo un, ânt at y llall: fel hyn y maent yn treulio eu hamser yn y byd, gan dwyllo eu heneidiau eu hunain, a'u hudo â gwag-obaith. Eithr yn y byd arall, gwedi i bob cysur yn y crëadur ballu ar unwaith, ac i'r cysgodau y maent yn awr yn eu dilyn, i gyd ddiflanu mewn munudyn, hwy a ysgarir yn holloll ac am byth oddiwrth Dduw, ac a welant ddarfod iddynt fel hyn ei golli. Felly fe gauir drysau daear a nefoedd yn eu herbyn ar unwaith. Hyn a wna eu hing yn annhraethol, tra y byddant yn byw mewn cnofëydd tragywyddol o newyn am ddedwyddwch, yr hwn y gwyddant yn sicr nas diwellir byth yn y mesur lleiaf, gan y bydd pob drws wedi ei gau yn eu herbyn. Pwy all ddirnad fel y bydd yr ysgariad hwn oddiwrth Dduw yn archolli y colledigion hyd y galon! pa fodd y gruddfanant ac yr ymgynddeiriogant dano, a pha fodd y bydd iddo eu brathu a'u cnoi drwy oesoedd tragywyddoldeb!

*4ydd*, Y colledigion a gant wybod fod rhai yn berffaith hapus yn y mwynhâd o'r Duw hwnw oddiwrth ba un yr ysgarwyd hwynt: a hyn a chwanega y teimlad o'u colled, am nad allant byth gyfranogi â'r rhai dedwydd hyny. Yn gymmaint a'u hysgaru oddiwrth Dduw, fe'u hysgerir o gymdeithas saint ac angylion yn y gogoniant. Gallant weled Abraham o hirbell a Lazarus yn ei fynwes, (Luc. xvi. 23.), ond ni allant byth ddyfod i'r gymdeithas; eithr fel gwahangleifion aflan, fe'u gyrir o'r gwersyll, ac fe'u hysgymunir o ŵydd Duw a'i holl saint. Mae rhai o'r farn, y bydd pob dyn yn y nefoedd ac yn uffern yn gwybod pob peth a ddygwyddo yn mhob un o'r ddau le. Beth bynag am hyn, mae genym sail y'ngair Duw i gasglu y bydd gan y colledigion wybodaeth berffaith am ddedwyddwch y saint yn y nefoedd; oblegid beth arall a ellir ei ddeall wrth fod y gwr goludog yn uffern yn gweled Lazarus yn mynwes Abraham? Un peth sydd amlwg, sef y bydd i'w poenau eu hunain roddi iddynt y cyfryw amgyffrediadau am ddedwyddwch y saint, ag sydd gan ddyn claf am iechyd, neu garcharor am ryddid. Ac megys nad allant lai na meddwl am ddedwyddwch y rhei'ny yn y nef, mwy nag

y gallant fod yn foddlonus i'w cyflwr eu hunain, felly bydd pob meddwl am yr hapusrwydd hwnw yn chwanegu eu colled. Fe fyddai yn ofid nid bychan i ddyn newynog weled ereill yn gwledda yn helaeth, tra y byddo ef wedi ei gadwyno fel nas gall gael un briwsionyn i lonyddu cnofeydd ei goluddion. Fe fyddai dwyn cynghanedd a dawnsio at ddyn a fyddo yn dyoddef ing-boenau, yn chwanegiad i'w gystudd: pa fodd ynte y gwna caniadau y saint, yn eu mwynhâd o Dduw, i'r colledgion ruddfan o herwydd eu hysgariad oddiwrtho!

*5ed*, Hwy a gofiant y bu amser pan y gallasent hwythau gael eu gwneuthur yn gyfranogion o gyflwr gwynfydedig y saint, yn eu mwynhâd o Dduw: a hyn a chwanega eu teimlad o golled. Geill pawb gofio fod unwaith bossiblrwydd i hyny: eu bod hwy unwaith yn y byd, yn rhyw gonglau o'r hwn yr oedd ffordd iachawdwriaeth yn cael ei dangos i ddynion; ac a ofidiant am na buasent yn myned o amgylch y byd, nes daethent o hyd iddi. Dirmygwyr yr efengyl a gofiant gyda galar chwerw, ddarfod i Iesu Grist, a'i holl ddoniau gael ei gynnyg iddynt; iddynt gael eu hannog, eu cymmell, ac erfyn arnynt ei dderbyn, ond nis gwnaent; ac iddynt gael eu rhybyddio am y trueni y maent yn awr yn ei deimlo, a'u hannog i ffoi rhag y llid a fydd, ond ni wrandawent. Dirmygu cynnygiad yr efengyl a wna uffern boeth, a cholli nefoedd gynnygiedig a fydd yn bwysau suddedig ar ysprydoedd yr anghredinwyr yn uffern. Fe gofia rhai y bu tebygolrwydd iddynt fod yn dragywyddol ddedwydd; ac iddynt unwaith roddi arwyddion gobeithiol y byddent felly, ac nad oeddynt ymhell oddiwrth deyrnas Dduw; a darfod iddynt unwaith o fewn ychydig gydsynio a'r cytundeb dedwydd; ac iddynt ymaflyd yn y pin (megys) i ddodi eu llaw wrth y weithred briodas rhwng Crist a'u heneidiau; eithr fel y bu'r anffawd, hwy a adawsant i'r pin syrthio, ac a droisant yn ol oddiwrth yr Arglwydd at eu chwantau drachefn. Ac ereill a gofiant, eu bod yn tybied eu hunain yn sicr o'r nefoedd; eithr, gan fod wedi eu dallu gan falchder a hunan-dyb, yr oeddynt uwchlaw i'r ordinhadau, a thu hwnt i addysg, ac ni chwilient i mewn i'w cyflwr, yr hyn a'u handwyodd: eithr yna hwy a ddymunant yn ofer, na buasent yn cyfrif eu hunain yn rhai gwaethaf yn y gynnulleidfa yr oeddynt yn byw ynddi, a hwy a felldigant y dyb fawr oedd ganddynt am danynt eu hunain, ac oedd gan ereill am danynt hefyd. Fel hyn y brathir y colledigion, o herwydd y gallasent ochelyd y golled hon.

*Yn olaf,* Hwy a welant fod y golled yn anadferol; y rhaid iddynt byth orwedd dani, heb gael byth bythoedd eu hadferu. Pe gallai y colledigion, ar ol miliwnau o oesoedd yn uffern, ad-ennill yr hyp a gollasant, byddai hyny yn rhyw sail obaith: ond mae y trysor wedi ei golli, ac nis gellir byth ei gael. Mae yma ddau beth a'u brathant at y galon, (1.) *Nas gwybuant mo'i werth nes ei golli yn anadferol.* Pe rhoddai dyn ystên bridd ymaith am ryw ychydigyn, a bod yr ystên yn llawn o aur, ac yntau heb wybod beth oedd ynddi, nes ei bod wedi myned yn hollol o'i gyrhaedd, ac yn anadferol; pa fodd y gwnai y weithred ynfyd hon ei ofidio, pan y delai i wybod pa gyfoeth oedd ynddi! Dichon amgylchiad y cyfryw ddwyn rhyw radd o gyffelybiaeth i gyflwr dirmygwyr yr efengyl, pan " godont eu golwg yn uffern," a gweled y peth er eu gofid nas gwelant yn awr er eu hiachawdwriaeth. (2.) *Darfod iddynt ei golli am dom a-cholled;* gwerthu eu rhan o'r nefoedd, heb gyfoethogi eu hunain â'r gwerth. Hwy a gollasant y nefoedd am elw daearol a phleserau, ac yn awr y maent wedi colli y ddau. Mae cwpan y meddwyn wedi myned, cyfoeth y cybydd, hyfrydwch y cnawdol, ac esmwythder y dïogyn; nid oes yn awr ddim wedi ei adael i'w cysuro. Gwir yw fod yr hapusrwydd a gollasant etto yn para, ond nis gallant hwy gael byth ran ynddo.

DEFNYDD. Bechaduriaid, cymmerwch eich perswadio i ddyfod at Dduw drwy Iesu Grist; i undeb ag ef drwy Gyfryngwr, fel y gwareder chwi rhag yr ysgariad arswydus hwn oddiwrtho. O brawychwch rhag gorfod byw mewn cyflwr o ysgariad oddiwrth Dduw, rhag i'r hyn yr ydych yn awr yn ei ddewis fod yn gospedigaeth dragywyddol i chwi rhagllaw. Na wrthodwch gymmundeb â Duw, nac esgeuluswch gymmundeb â'r saint, canys trueni y colledigion a fydd cael eu gyru o'u cymmundeb hwynt. Peidiwch ag adeiladu mur y gwahaniaeth rhyngoch a Duw, drwy barhâu yn eich gyrfa bechadurus: yn hytrach edifarhewch mewn pryd, ac felly tynwch y mur i lawr; fel na ddoder y maen uchaf arno, ac iddo sefyll byth rhyngoch a dedwyddwch. Crynwch wrth feddwl am gael eich gwrthod a'ch hysgaru oddiwrth Dduw. Gan bwy bynag y caffo dynion eu gwrthod ar y ddaear, yn gyffredin hwy a gant ryw rai a dosturia wrthynt; ond os ysgarir chwi fel hyn oddiwrth Dduw, chwi a gewch weled pob drws wedi ei gau yn eich herbyn. Ni thosturia neb wrthych yn y nefoedd: ni thosturia saint nac angylion wrth y rhai a gwbl wrthodwyd gan Dduw; ni thosturia neb wrthych yn

uffern, lle nad oes dim cariad ond câs—pawb yn gâs gan Dduw, yn gâs at Dduw, ac yn gâs at eu gilydd, Dyma ddydd o golledion ac ofnau. Mi a ddangosaf i chwi golled y byddai dda i chwi ei hofni mewn pryd: ofnwch golli Duw: os collwch ef, chwi a gewch dragywyddoldeb maith i ruddfan galarnadau am y golled. O hurtrwydd dychrynllyd! mae dynion mewn gofal dirfawr a phryder rhag colledion bydol: ond y maent mewn perygl o golli mwynhâd o Dduw byth bythoedd; mewn perygl o golli y nefoedd, cymmundeb â'r saint, a phob peth da i enaid a chorph, mewn byd arall; ac etto mor ddiofal yn y mater hwn, a phed faent heb allu i ystyried dim. O cymberwch y dydd hwn â'r dydd y mae y testun yn cyfeirio atto! Heddyw y mae y nefoedd yn agored i'r rhai sydd hyd yn hyn wedi gwrthod Crist, *ac etto mae lle,* os deuant; ond y dydd hwnw fe gauir y drws, Yn awr y mae Crist yn dywedyd wrthych, *deuwch;* yna y dywed efe wrthych, *ewch;* yn gymmaint ag nas deuech pan y'ch gwahoddid. Yn awr y mae tosturi yn cael ei ddangos; mae Duw yn tosturio wrthych, mae ei weision yn tosturio wrthych, ac yn mynegi i chwi fod y pwll o'ch blaen, ac yn llefain arnoch, na wneloch i chwi eich hunain ddim niwed; ond yno ni chewch ddim tosturi oddiwrth Dduw na dyn.

*Yn ail,* Fe gospir y colledigion yn uffern â chosp o *deimlad;* bydd raid iddynt fyned oddiwrth Dduw i dân tragywyddol. Nid wyf yn meddwl ymddadleu pa fath dân yw tân uffern; pa un a'i tân defnyddiol yw, ai nadê. Y profiad a wna fwy na rhoi boddlondeb i gywreinrwydd y rhai sydd yn fwy tueddol i ymddadleu yn ei gylch nag i'w ochelyd. Nid af ychwaith i ymyraeth â'r cwestiwn, Pa le mae y tân? Mae yn ddigon dywedyd y daw pechaduriaid anedifeiriol o hyd i'r " pryf nad yw yn marw, a'r tân nad yw yn diffodd" yn rhywle. Ond, (1.) mi a gaf ddangos, pa fath bynag o dân ydyw, y mae yn fwy angerddol ac arswydus na dim tân a feddwn ni ar y ddaear. (2.) Mi gaf ymofyn ynghylch natur y poenau tanllyd hyn.

Mewn perthynas i'r *cyntaf* o'r rhai'n :—Llosgi yw y gosp fwyaf dychrynllyd ag y sydd, ac yn dwyn y poenau mwyaf arteithiol gyd ag ef. A pha wobr y gellid cymhell dyn i ddal dim ond ei law yn fflam canwyll am awr? Ni thyciai yr holl blescrau a aller eu dyfeisio ar y ddaear ddim i berswadio y dyn mwyaf glwth i anturio aros un hanner awr mewn ffwrn danllyd; ac ni thyciai yr holl gyfoeth sydd yn y byd i gael gan un mwyaf cybyddlyd wneuthur hyny: etto, ar ammodau

llawer îs mae y rhan fwyaf o ddynion, mewn effaith, yn rhoddi eu hunain yn agored i dân tragywyddol yn uffern, yr hwn sydd yn fwy angerddol na dim tân y gwyddom ni am dano yn y byd; fel yr ymddengys oddiwrth yr ystyriaethau canlynol:

1. Megys y mae grâs yn cyrhaedd perffeithrwydd yn y nefoedd, a llwydd a llawenydd yn cyrhaedd eu gradd uchaf yno; felly o herwydd y bydd pechod wedi cyrhaedd ei radd eithaf yn uffern, mae y gosp yn berffaith yno hefyd. Gan hyny, megys y bydd llawenydd y nef yn llawer mwy na dim llawenydd y mae y saint yn ei gael ar y ddaear, felly bydd cospedigaethau uffern yn llawer mwy nag unrhyw boenau daearol; nid yn unig o ran eu parhâd, eithr hefyd o ran yr angerdd a'r artaith o honynt.

2. Pa ham y mae pethau byd arall yn cael eu darlunio i ni mewn gwisg ddaearol; onid o herwydd bod gwendid ein hamgyffrediadau mewn perthynas i'r cyfryw bethau (y rhai y rhyngodd bodd i Dduw ymostwng attynt) yn gofyn hyny; ac i ddangos yn wastad fod pethau byd arall yn berffeithiach yn eu rhyw, na'r hyn a fyddo yn eu cynnrychioli? Pan y mae y nefoedd yn cael ei darlunio i ni dan ddull dinas, â'i phyrth o berlau, a'r heolydd o aur; ni ddylem ddysgwyl y bydd aur a pherlau yno, y rhai a werthfawrogir gymmaint ar y ddaear, eithr rhyw bethau rhagorach na'r pethau teccaf a gwerthfawrocaf yn y byd: gan hyny pan y clywom am dân uffern, ni a ddylem wrth hyny ddeall rhywbeth mwy angerddol, treiddiol, a phoenydiol na dim tân a welodd ein llygaid erioed. Ac yma y mae yn werth ystyried, bod poenau uffern yn cael eu darlunio mewn llawer dull heblaw tân; y rheswm am yr hyn sy'n amlwg, sef, fel y byddai i'r echrysdod sydd yn fyr yn y naill ddull o uffern gael ei wneuthur i fynu mewn un arall. Pa ham y mae dedwyddwch y nef yn cael ei ddarlunio dan yr enwau, *trysor, paradwys, gwledd, garphwysdra,* &c. onid o herwydd nad oes yr un o'r pethau hyn yn ddigonol i'w ddarlunio! Yr un ffunud y mae poenau uffern yn cael eu darlunio wrth y dyb o dân, i'r hwn y mae y colledigion yn cael eu bwrw. Darluniad echryslawn yn ddïau! etto nid yn ddigonol i ddangos trueni cyflwr pechaduriaid ynddynt. Am hyny yr ydym hefyd yn clywed am "ail farwolaeth," (Dad. xx. 6.) oblegid fod y colledigion yn uffern yn marw bob amser; ac am "gerwyn digofaint Duw," (pen. xiv. 19.) yn yr hon y "sethrir hwynt yn nig, ac y methrir hwynt yn llidiawgrwydd yr Arglwydd," (Esay lxiii. 3.) gwesgir, dryllir, a

uffern, lle nad oes dim cariad ond câs—pawb yn gâs gan Dduw, yn gâs at Dduw, ac yn gâs at eu gilydd, Dyma ddydd o golledion ac ofnau. Mi a ddangosaf i chwi golled y byddai dda i chwi ei hofni mewn pryd: ofnwch golli Duw: os collwch ef, chwi a gewch dragywyddoldeb maith i ruddfan galarnadau am y golled. O hurtrwydd dychrynllyd! mae dynion mewn gofal dirfawr a phryder rhag colledion bydol: ond y maent mewn perygl o golli mwynhâd o Dduw byth bythoedd; mewn perygl o golli y nefoedd, cymmundeb â'r saint, a phob peth da i enaid a chorph, mewn byd arall; ac etto mor ddiofal yn y mater hwn, a phed faent heb allu i ystyried dim. O cymberwch y dydd hwn â'r dydd y mae y testun yn cyfeirio atto! Heddyw y mae y nefoedd yn agored i'r rhai sydd hyd yn hyn wedi gwrthod Crist, *ac etto mae lle,* os deuant; ond y dydd hwnw fe gauir y drws, Yn awr y mae Crist yn dywedyd wrthych, *deuwch;* yna y dywed efe wrthych, *ewch;* yn gymmaint ag nas deuech pan y'ch gwahoddid. Yn awr y mae tosturi yn cael ei ddangos; mae Duw yn tosturio wrthych, mae ei weision yn tosturio wrthych, ac yn mynegi i chwi fod y pwll o'ch blaen, ac yn llefain arnoch, na wneloch i chwi eich hunain ddim niwed; ond yno ni chewch ddim tosturi oddiwrth Dduw na dyn.

*Yn ail,* Fe gospir y colledigion yn uffern â chosp o *deimlad;* bydd raid iddynt fyned oddiwrth Dduw i dân tragywyddol. Nid wyf yn meddwl ymddadleu pa fath dân yw tân uffern; pa un a'i tân defnyddiol yw, ai nadê. Y profiad a wna fwy na rhoi boddlondeb i gywreinrwydd y rhai sydd yn fwy tueddol i ymddadleu yn ei gylch nag i'w ochelyd. Nid af ychwaith i ymyraeth â'r cwestiwn, Pa le mae y tân? Mae yn ddigon dywedyd y daw pechaduriaid anedifeiriol o hyd i'r "pryf nad yw yn marw, a'r tân nad yw yn diffodd" yn rhywle. Ond, (1.) mi a gaf ddangos, pa fath bynag o dân ydyw, y mae yn fwy angerddol ac arswydus na dim tân a feddwn ni ar y ddaear. (2.) Mi gaf ymofyn ynghylch natur y poenau tanllyd hyn.

Mewn perthynas i'r *cyntaf* o'r rhai'n :—Llosgi yw y gosp fwyaf dychrynllyd ag y sydd, ac yn dwyn y poenau mwyaf arteithiol gyd ag ef. A pha wobr y gellid cymhell dyn i ddal dim ond ei law yn fflam canwyll am awr? Ni thyciai yr holl bleserau a aller eu dyfeisio ar y ddaear ddim i berswadio y dyn mwyaf glwth i anturio aros un hanner awr mewn ffwrn danllyd; ac ni thyciai yr holl gyfoeth sydd yn y byd i gael gan un mwyaf cybyddlyd wneuthur hyny: etto, ar ammodau

llawer îs mae y rhan fwyaf o ddynion, mewn effaith, yn rhoddi eu hunain yn agored i dân tragywyddol yn uffern, yr hwn sydd yn fwy angerddol na dim tân y gwyddom ni am dano yn y byd; fel yr ymddengys oddiwrth yr ystyriaethau canlynol:

1. Megys y mae grâs yn cyrhaedd perffeithrwydd yn y nefoedd, a llwydd a llawenydd yn cyrhaedd eu gradd uchaf yno; felly o herwydd y bydd pechod wedi cyrhaedd ei radd eithaf yn uffern, mae y gosp yn berffaith yno hefyd. Gan hyny, megys y bydd llawenydd y nef yn llawer mwy na dim llawenydd y mae y saint yn ei gael ar y ddaear, felly bydd cospedigaethau uffern yn llawer mwy nag unrhyw boenau daearol; nid yn unig o ran eu parhâd, eithr hefyd o ran yr angerdd a'r artaith o honynt.

2. Pa ham y mae pethau byd arall yn cael eu darlunio i ni mewn gwisg ddaearol; onid o herwydd bod gwendid ein hamgyffrediadau mewn perthynas i'r cyfryw bethau (y rhai y rhyngodd bodd i Dduw ymostwng attynt) yn gofyn hyny; ac i ddangos yn wastad fod pethau byd arall yn berffeithiach yn eu rhyw, na'r hyn a fyddo yn eu cynnrychioli? Pan y mae y nefoedd yn cael ei darlunio i ni dan ddull dinas, â'i phyrth o berlau, a'r heolydd o aur; ni ddylem ddysgwyl y bydd aur a pherlau yno, y rhai a werthfawrogir gymmaint ar y ddaear, eithr rhyw bethau rhagorach na'r pethau tecaf a gwerthfawrocaf yn y byd: gan hyny pan y clywom am dân uffern, ni a ddylem wrth hyny ddeall rhywbeth mwy angerddol, treiddiol, a phoenydiol na dim tân a welodd ein llygaid erioed. Ac yma y mae yn werth ystyried, bod poenau uffern yn cael eu darlunio mewn llawer dull heblaw tân; y rheswm am yr hyn sy'n amlwg, sef, fel y byddai i'r echrysdod sydd yn fyr yn y naill ddull o uffern gael ei wneuthur i fynu mewn un arall. Pa ham y mae dedwyddwch y nef yn cael ei ddarlunio dan yr enwau, *trysor, paradwys, gwledd, garphwysdra,* &c. onid o herwydd nad oes yr un o'r pethau hyn yn ddigonol i'w ddarlunio! Yr un ffunud y mae poenau uffern yn cael eu darlunio wrth y dyb o dân, i'r hwn y mae y colledigion yn cael eu bwrw. Darluniad echryslawn yn ddïau! etto nid yn ddigonol i ddangos trueni cyflwr pechaduriaid ynddynt. Am hyny yr ydym hefyd yn clywed am "ail farwolaeth," (Dad. xx. 6.) oblegid fod y colledigion yn uffern yn marw bob amser; ac am "gerwyn digofaint Duw," (pen. xiv. 19.) yn yr hon y "sethrir hwynt yn nig, ac y methrir hwynt yn llidiawgrwydd yr Arglwydd," (Esay lxiii. 3.) gwesgir, dryllir, a

malurir hwynt yn ddiddiwedd; y pryf nad yw yn marw" (Marc ix. 44.) yr hwn a'u cnöa byth bythoedd; "y pwll diwaelod," lle y byddant yn suddo yn oes oesoedd, Dad. xx. 3. Y mae yn cael ei alw nid yn unig yn dân, ond "llyn o dân a brwmstan," (adn 19.) "llyn yn llosgi o dân a brwmstan," (pen. xix. 20.) mwy dychrynadwy na dim a fedrwn ei ddychymmygu. Etto, o herwydd bod tân yn rhoddi goleuni, a goleuni (fel y dywed Solomon, Preg. xi. 7,) yn felys, ni bydd yno ddim goleuni, ond tywyllwch, tywyllwch eithaf, Math. xxv. 30 Mae yn rhaid mai nos dragywyddol a fydd arnynt, canys ni bydd yno ddim a ddichon fod mewn un mesur yn gysurus nac yn adfywiol.

3. Nis gall ein tân ni ddim cael effaith ar yspryd, ond a gaffo mewn ffordd o gyd-ymdeimlad â'r corph â pha un y mae wedi ei uno: eithr fe dreiddia tân uffern nid yn unig i'r corph, ond hefyd i eneidiau y colledigion yn ddigyfrwng; oblegid fe'i parotowyd i ddïafol a'i angylion, yr ysprydion drygionus hyny nad all dim tân sydd ar y ddaear wnëyd niwed iddynt. Mae Iob yn cwyno yn chwerw dan geryddon llaw dadol Duw, gan ddywedyd, "Y mae saethau yr Hollalluog ynof, y rhai y mae eu gwenwyn yn yfed fy yspryd," Iob vi. 4. Ond O, pa fodd y brathir ysprydoedd y colledigion gan saethau cyfiawnder dïaleddol! pa fodd yr yfir hwynt gan wenwyn y felldith ar y saethau hyn! mor angerddol y rhaid bod y tân hwnw a dreiddia yn ebrwydd hyd at yr enaid, ac a wna losgiad tragywyddol yn yr yspryd, y rhan fwyaf bywiol a thyner o ddyn, yn mha un y mae archollion neu boen yn fwyaf annyoddefol!

*Yn olaf,* Mae parotôad y tân hwn yn dangos mor annhraethol angerddol ac ofnadwy ydyw. Mae y testun yn ei alw yn dân wedi ei barotôi; ïe, y tân a barotôwyd, mewn ffordd o hynodrwydd Megys na chafodd y tri llangc eu bwrw i dân cyffredin, eithr i dân ar achlysur bennodol, yr hwn oedd yn boeth ragorol, a'r ffwrn yn saith boethach nag arferol, Dan. ii. 19, 22; felly y caiff y rhai damnedig yn uffern dân wedi ei barotoi, na pharotôdd celfyddyd ddynol erioed mo'i gyffelyb; tân o barotôad Duw ei hun ydyw, o gynnyrchiad doethineb anfeidrol i ddyben neillduol, i amlygu y cyfiawnder dwyfol mwyaf manwl a llym yn erbyn pechod; yr hyn sydd yn ddigonol i brofi i ni y dygnedd annhraethol o hono. Mae Duw yn wastad yn gweithredu mewn modd neillduol yn addas i'w fawredd anfeidrol ei hun, pa un bynag

ai dros, ai yn erbyn y creadur: ac am hyny, megys y mae y pethau a ddarparodd efe i'r rhai a'i carant ef yn fawr ac yn dda annbraethol ac annirnadol, felly gallwn benderfynu fod y pethau a ddarparodd efe yn erbyn y rhai a'i casânt, yn fawr ac yn ofnadwy, tu hwnt i ddim a all dyn fynegi na meddwl am dano. Tân a choed lawer ydyw tanllwyth Tophet, marwor y tân hwnw ydynt farwor meryw, (math o bren, pan ei doder yn tân, a lysg yn dra thanbaid, Psal. cxx. 4.) "ac anadl yr Arglwydd megys afon o frwmstan, sydd yn ei bènyn hi," Esay xxx. 33 Mae tân yn llai neu yn fwy tanbaid yn ol ei ddefnydd, ac yn ol yr awel a fyddo yn ei chwythu. Pa galon a all gwbl ddirnad mor frawychus ydyw marwor meryw pan eu chwyther gan anadl yr Arglwydd? Ië, fe fydd Duw ei hun yn dân ysol, (Deut. iv. 24.) i'r colledigion; yn bresennol ddigyfrwng, megys tân ysol yn eu heneidiau a'u cyrph. Peth ofnadwy yw syrthio i dân, neu i un gael ei gau mewn ffwrn danllyd; ond y mae ofn y pethau hyn yn diflanu, wrth ystyried mor ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw, yr hyn yw rhan y colledigion; canys "pwy a drig gydâ'r tân ysol? pwy a breswylia gydâ llosgfeydd tragywyddol?" Esay xxxiii. 14.

Mewn perthynas i'r *ail* bwngc a amcanwyd, sef, natur y poenau tanllyd yn uffern,

1. Hwy a fyddant yn boenau cyffredinol, fe boenir pob rhan o'r crëadur yn y fflam hono. Pan fwrier un i ffwrn o dân poeth, mae y tân yn treiddio hyd yn nod i'r ymysgaroedd, ac nid yw yn gadael un aelod heb gyffwrdd ag ef: pa ran gan hyny a ddichon gael esmwythder, pan y bydd y colledigion yn nofio mewn llyn yn llosgi o dân a brwmstan? Yno y poenydir eu cyrph, ac y rhostir hwynt byth. Ac megys y pechasant yn mhob rhan o honynt, felly y cant eu poeni yn mhob rhan; fel na byddo ganddynt ochr iach i droi arni: canys pa iechyd nac esmwythder a ddichon un rhan o'r corph hwnw gael, yr hwn a ysgerir oddiwrth Dduw, a phob adfywiad oddiwrtho ef, a beunydd dan loesau yr ail farwolaeth, yn marw bob amser ond heb farw byth? Eithr megys mai yr enaid oedd y penaf yn pechu, efe fydd y penaf yn dyoddef hefyd, gwedi ei lenwi o ddigofaint a dïaledd Duw am bechod. Fe fydd y colledigion dros byth dan argraffiadau dwysaf o gyfi wnder dialeddol Duw i'w herbyn: a'r tân hwn a dawdd eu heneidiau o'u mewn fel cwyr Pwy a edwyn nerth y sorriant hwnw a gafodd y fath effaith ar y Cyfryngwr pan oedd

yn sefyll yn lle pechaduriaid, Psal. xxii. 14. "Fy nghalon sydd fel cwyr, hi a doddodd ynghanol fy mherfedd?"—Fe lenwir eu meddwl â dychryniadau arswydus rhag llid anghymmodlon Duw: a phob peth a allont feddwl am dano, a fu, y sydd, ac a fydd, ni wna ond chwanegu eu penyd i'w hing. Fe groesir eu hewyllys yn mhob peth yn dragywydd: fel yr oedd eu hewyllys hwy yn wastad yn groes i ewyllys gorchymynol Duw; felly Duw, yn ei ymddygiad tu ag attynt hwythau, yn y byd arall, a geidw ryfel â'u hewyllys byth. Ni chant yr hyn a ddymunant yn y mesur lleiaf; ond yr hyn ni chwennychant a fwrir arnynt yn ddiochelyd. Ac o ganlyniad ni thardd un serch ddymunol yn eu calon mwyach: eu hoffder o foddlondeb, llawenydd, a hyfrydwch, mewn unrhyw wrthddrych, beth bynag a fyddo, a ddiwreiddir; a hwy a lenwir o lid, digofaint a chynddaredd yn erbyn Duw, hwy eu hunain, a'u cyd-greaduriaid, pa un bynag a'i dedwydd yn y nef, a'i gresynol yn uffern fel hwy eu hunain. Hwy a suddir mewn gofid, a arteithir â chur, a lenwir â dychryn, a archollir hyd y galon gan ddrygnawsedd, ac a frathir beunydd gan anobaith; yr hyn a bâr iddynt wylo a rhingcian eu dannedd a chablu yn dragywydd, Math xxii. 13, "Rhwymwch ei draed a'i ddwylaw, a chymmerwch ef ymaith, a theflwch i'r tywyllwch eithaf; yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd." Dad. xvi. 21. "A chenllysg mawr, fel talentau a syrthiasant o'r nef ar ddynion: a dynion a gablasant Dduw am bla'r cenllysg; oblegid mawr iawn ydoedd eu pla hwynt" Bydd cydwybod megys pryf i'w cnoi a'u hysu; atgno meddwl am eu pechodau a ymeifl ynddynt, ac a'u poenydia yn dragywydd, ac ni allant ymysgwyd oddiwrtho, fel yr arferent gynt; canys "yn uffern—nid yw eu pryf yn marw," Marc ix. 45, 46. Ni bydd eu cof o ddim defnydd ond i chwanegu eu poen, a phob adfyfyriad newydd a ddwg loes arall o ing, Luc xvi. 25, "Ac Abraham a ddywedodd, (sef wrth y gwr goludog yn uffern,) Ha fab, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd."

2. Mae poenau uffern yn lliosog. Bwriwch fod dyn, ar yr un pryd, dan arteithiau, y troedwst, y graeanwst, a phob afiechyd a phoenau a gyd-gyfarfu erioed yn yr un corph; ni byddai poen y cyfryw ond ysgafn mewn cymhariaeth i boenau y colledigion. Canys megys y mae pob peth da a dymunol yn absennol o uffern, felly y mae pob drygau yn cydlifo yno; canys bydd holl effeithiau pechod a'r felldith yn cyfarfod yno

wedi'r farn ddiweddaf, Dad. xx. 14, " Marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân." Yno y cant garchar na ddiangant byth o hono; llyn o dân, yn mha un y byddant yn nofio ac yn llosgi byth; pwll na chant byth waelod iddo. Y pryf ni bydd marw a ymborth arnynt fel ar gyrph wedi eu claddu: y tân ni ddiffydd a'u goddeithia fel cyrph a losger. Eu llygaid a gedwir mewn tywyllwch du, heb y llewyrch cysurus lleiaf o oleuni; a'u clustiau a lenwir âg oernad y gethern uffernol. Ni chant archwaethu dim ond gwinegr digofaint Duw, gwaddod cwpan ei lidiawgrwydd. Drygsawr y llyn brwmstan llosgiedig a fydd yr arogl yno; a hwy a gant deimlo eithaf poen yn oes oesoedd.

3. Poenau mwyaf arteithiol ac angerddol o fyddant, y rhai a barant " wylofain a rhingcian dannedd," Math. xiii. 42. a xxii. 13. Fe eu darlunir i ni dan gyffelybrwydd loesau esgor, y rhai sydd yn dra llymion a dygn. Felly y dywed y gwr goludog yn uffern, Luc xvi. 24, " Fe'm poenir" (hyny yw, fel un mewn gwewyr esgor) " yn y fflam hon." O loesau dychrynllyd! gwewyr ofnadwy, yn y rhai y bydd enaid a chorph yn yr ing ynghyd! gwewyr diymwared, diobaith, a diddiwedd! Mae y gair a arferir am uffern, Math. v 22. ac amrywiol fanau ereill o'r Testament newydd, yn briodol yn arwyddo Glyn Hinnom: o herwydd bod yr enw yn cael ei gymmeryd oddiwrth ddyffryn meibion Hinnom, yn yr hwn yr oedd Tophet, (2 Bren. xxiii. 10), lle y byddai eilunaddolwyr yn offrymu eu plant i Moloch. Dywedir mai delw fawr o bres ydoedd hwn, a breichiau fel dyn; yr hwn wedi ei boethi â thân o'i fewn, dodid y plentyn rhwng breichiau y ddelw: ac fel na chlywai y rhieni ysgrechiadau y plant wrth losgi i farwolaeth, hwy a gurent dabyrddau tra y parhai yr offrymiad arswydus; ac oddiwrth hyny y galwyd y lle Tophet. Fel hyn y mae dygnedd uffern-boenau yn cael eu darlunio i ni. Fe oddefodd rhai arteithiau gorthrwm ar y ddaear, gydâg ystyfnigrwydd aruthrol, a dewredd ëofn: ond fe balla dewredd dynion, pan syrthiont i ddwylaw y Duw byw, ac heb obaith byth gael diangfa. Y mae yn wir y bydd graddau o boenau yn uffern; " esmwythach fydd i Tyrus a Sidon," nag i Corazin a Bethsaida, Math. xi. 21, 22. Eithr y mae y baich lleiaf o ddigofaint yno yn rhy drwm i'w ddwyn; canys pa fodd y dichon calon y crëadur oddef, na'i ddwylaw gael grym, pan y bydd Duw ei hun yn dân ysol iddo? Pan rwymer yr efrau yn ysgubau i'w llwyr losgi, fe fydd ysgubau

o gybyddion, o feddwon, o dyngwyr, o odinebwyr, o ragrithwyr ffurfiol, o anghrefyddwyr, ac o ddirmygwyr yr efengyl, a'r cyffelyb: a phan fwrir y gwahanol ysgubau i dan uffern, fe lysg rhai yn fwy tanbaid nag eraill, yn ol fel y byddo eu pechodau yn fwy ysgeler nag eraill: fe enyn fflam danbeitiach mewn ysgub o rai drwg-fucheddol nag mewn ysgub o foesolwyr ciras: fe fydd y ffwrn yn boethach i'r rhai a bechasant yn erbyn goleuni, nag i'r rhai a fu byw yn y tywyllwch, Luc xii 47, 48, " A'r gwas hwnw, yr hwn a wybu ewyllys ei arglwydd, ac nid ymbarotodd, ac ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef, a gurir â llawer ffonnod. Eithr yr hwn ni wybu, ac a wnaeth beth yn haeddu ffonnodiau, a gurir ag ychydig ffonnodiau." Eithr y ddedryd gyffredinol iddynt oll, (Math. xiii. 30.) " Rhwymwch hwy yn ysgubau i'w llwyr-losgi," sydd yn dangos tanbeidrwydd a dygnedd y poenau uffernol i'r radd eithaf.

4. Hwy a fyddant yn ddidor: ni bydd dim arbed yno; dim gorphwysdra, na fydd am funud. " Hwy a boenir ddydd a nos yn oes oesoedd," Dad. xx. 10. Nid oes nemawr mor helbulus yn y byd yma, na byddant yn cael gorphwysdra weithiau; ond ni chaiff y colledigion ddim; hwy a gymmerasant eu hesmwythdra yn yr amser yr oedd Duw wedi ei bennodi i weithio. Nid oes nemawr ystormydd i'w gweled na bo rhyw yspaid rhwng y cawodydd: ond ni bydd dim tor ar yr ystorm a ddisgyn ar yr annuwiolion yn uffern. Yno dyfnder a eilw ar ddyfnder, a thonau digofaint yn wastadol a dreigla drostynt. Yno y nefoedd a fydd yn wastad yn ddu iddynt, a hi a fydd yn nos dragywyddol iddynt, ond heb ddim gorphwysdra, Dad. xiv. 11. " Nid ydynt hwy yn cael gorphwysdra ddydd na nos"

5. Ni thosturir wrthynt. Mae y cospedigaethau a roddir ar y drwgweithredwyr penaf ar y ddaear, yn ennill peth tosturi oddiwrth y rhai a'u gwelont yn eu poenau: ond ni thosturia neb wrth y colledigion. Ni thosturia Duw wrthynt, eithr efe " a chwardd yn eu dïaledd hwynt," Diar. i. 26. Y dyrfa fendigedig yn y nef a lawenychant yn nghyflawniad cyfiawn farn Duw, ac a ganant tra byddo y mwg yn codi yn oes oesoedd, Dad. xix. 3, " Ac eilwaith y dywedasant, Aleluia: A'i mwg hi a gododd yn oes oesoedd." Nis gellir dysgwyl tosturi oddiwrth y dïafol a'i angylion, y rhai sydd yn ymhyfrydu yn ninystr dynion, ac ydynt ac a fyddant byth heb ddim tosturi ynddynt. Ac ni thosturia y naill wrth y

llall ychwaith yno, lle y mae pob un yn wylofain ac yn rhingcian ei ddannedd, dan ei ing a'i boen annyoddefol ei hun. Serch naturiol a ddiffydd yno: y rhïeni ni charant eu plant, na phlant eu rhïeni, ni thosturia y fam wrth y ferch yn y fflamiau hyny, ac ni thosturia y ferch wrth y fam; y mab ni ofala am ei dad yno; na'r gweinidog am ei feistr, lle y bydd pob un yn gruddfan dan ei benyd ei hun.

*Yn Olaf,* I lawn orphen eu trueni, fe fydd eu poenau yn dragywyddol, Dad. xiv. 11. "A mwg eu poenedigaeth hwy sydd yn myned i fynu yn oes oesoedd." Och! y fath gyflwr dychrynllyd yw hwn, sef poenydio yn yr holl gorph a'r enaid, a hyny nid ag un math o boen, eithr llawer; i gyd yn eithaf arteithiol, i gyd yn ddidor, ac heb ddim tosturi oddiwrth neb! pa galon a ddichon amgyffred y cyfryw bethau yn ddiarswyd? Ond er hyny, pe byddai y cyflwr truenusaf hwn ryw bryd i ddarfod, fe roddai hyny ryw gysur; ond poenau y colledigion ni ddarfyddant: am hyn, mwy rhagllaw.

DEFNYDD. Dysgwch oddiyma, (1.) Ddrwg pechod. Ffrwd ydyw a ddwg y pechadur i waered nes ei lyngcu i fynu mewn môr o lid. Mae pleserau pechod yn rhy ddrud i'w prynu â llosgfeydd tragywyddol. Pa lesâd a wnae gwisg borphor y gwr goludog, a'i fywiolaeth helaethwych, pan y gwisgid ef yn uffern â fflamiau porphor, heb ddiferyn o ddwr i oeri ei dafod? Och! fod dynion yn medru anwesu eu hunain mewn pechod yr hwn a fydd mor chwerw yn y diwedd! eu bod yn yfed mor awyddus o'r fath gwpan gwenwynig, a choleddu y sarph yn eu mynwesau, a'u brath hyd y galon, ac a gnoa eu coluddion allan yn y diwedd! (2.) Pa fath Dduw y mae a wnelom ag ef; y fath gasineb sydd ganddo at bechod, ac mor llym y cospa efe ef. Gwybyddwch fod Duw yn berffaith gyfiawn yn gystal ag yn berffaith drugarog, ac na feddyliwch ei fod yn debyg i chwi eich hunain: ymaith a'r camgymeriad marwol hwnw cyn y byddo yn rhy ddiweddar, Psal. l. 21, 22, "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun, ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid. Deallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw, rhag i mi eich rhwygo fel na byddo gwaredydd:" Y tân a barotowyd i ddiafol a'i angylion, er tywylled yw, a ddengys fod Duw yn ddïalydd llym ar bechod. *Yn olaf,* Yr angheurheidrwydd anhepgorol o ffoi at Iesu Grist drwy ffydd; a'r unrhyw angenrheidrwydd am edifeirwch a sancteiddrwydd calon a buch-

edd. Y mae dialydd y gwaed yn dy ddilyn, O bechadur! brysia a diangc i'r ddinas noddfa. Ymolch yn y ffynon o waed y Cyfryngwr, fel na threngych yn y llyn o dân. Agor dy galon iddo, rhag i'r pwll gau ei safn am danat. Gâd dy bechodau, onidê hwy a'th andwyant: lladd hwynt onidê hwy a fyddant yn angau i ti byth bythoedd.

Na fydded i ofnau tân uffern dy arwain i galedu dy galon etto yn ychwaneg, fel y gwna llawer: os coleddi y meddwl annuwiol hwnw, sef, " Nid oes obaith," Ier. ii. 25., yr hyn sydd fe allai yn fwy cyffredin yn mhlith gwrandawyr yr efengyl, nag y mae llawer yn meddwl. Ond y mae gobaith i'r gwaethaf o bechaduriaid, a ddel at Iesu Grist. Os nad oes ynot ddim cymhwysderau da, (fel yn ddiammeu na ddichon fod mewn dyn anianol, na dim mewn neb ond a dderbynier oddiwrth Grist,) gwybydd na rwymodd efe dy dderbyniad wrth dy gymhwysderau da: cymmer di ef a'i iechydwriaeth, sydd yn cael eu cynnyg yn rhad i bawb y delo yr efengyl attynt. " Yr hwn sydd yn ewyllysio, cymmered o dwfr y bywyd yn rhad," Dad. xxii. 17.—" Yr hwn a ddel attaf fi, ni's bwriaf ef allan ddim," Ioan. vi. 37. Creadur pechadurus ydwyt, y mae yn wir, ac ni elli edifarhâu: yr wyt yn halogedig, ac ni elli wnëyd dy hun yn sanctaidd: ie, ti a amcanaist edifarhâu, a bod yn sanctaidd, eithr er hyn ti a fethaist edifarhâu na diwygio, nac ymsancteiddio, ac am hyny, " Ti a ddywedaist, Nid oes obaith. Nac oes, canys cerais dïeithriaid, ac ar eu hol hwynt yr af fi." Yn wir nid yw yn rhyfedd na lwyddaist yn ol dy ddysgwyliad, am i ti bob amser ddechreu dy waith o chwith. Eithr yn flaenaf oll, anrhydedda di Dduw, drwy gredu y dystiolaeth a dystiolaethodd efe am ei Fab, sef bod bywyd tragywyddol ynddo ef: ac anrhydedda Fab Duw, drwy gredu ynddo ef, hyny yw ei gofleidio, a derbyn cynnygiad rhad yr efengyl o Grist a'i iachawdwriaeth ef i'th achub oddiwrth dy bechodau, ac oddiwrth ddigofaint; gan ymddiried iddo ef yn hyderus am gyfiawnder i'th gyfiawnhâu, ac hefyd am sancteiddhâd; gan wybod ddarfod " ei wneuthur ef i ni gan Duw yn gyfiawnder ac yn sancteiddrwydd," 1 Cor. 1 30. Gan hyny, os gelli roi cymmaint cred i air Duw ag a roddit ar air gwr gonest a gynnygio i ti anrheg, gan ddywedyd, Cymmer, ac eiddo ti yw; ti a elli gredu fod Duw yn Dduw i ti, Crist yn eiddo ti, ei iachawdwriaeth yn eiddo ti, maddeuwyd i ti dy bechod, y mae i ti ynddo ef nerth i edifarhâu, ac i fyw yn sanctaidd; canys y mae yr holl bethau hyn yn cael eu cynnyg

i ti yn rhad yn yr efengyl. Trwy gredu yn Mab Duw, ti a gyfiawnhéir. a'r felldith a symudir. A thra y byddo hon yn gorphwys arnat ti, pa fodd y dichon i ti ddwyn ffrwyth i sancteiddrwydd? Eithr gwedi symud y felldith, y mae y farwolaeth yr hon a gymmerodd afael ynot yn yr Adda cyntaf, (yn ol y bygythiad, Gen. ii. 17.) yn cael ei chymmeryd ymaith. Ac o ganlyniad i hyn, ti a gei weled rhwymau anwiredd (y rhai sydd yn awr yn dy ddal yn gaeth mewn anedifeirwch) wedi eu dryllio yn chwilfriw, fell rhwymau marwolaeth; ac yna y gelli edifarhâu yn wir o'r galon: ti a gei yspryd y bywyd yn ol i'th enaid ar ymadawiad pa un y daeth marwolaeth i mewn yn y dechreu; ac felly o hyny allan y galluogir di i fyw i gyfiawnder. Nid yw cyflwr neb mor ddrwg nad ellir ei wellhâu fel hyn, mewn amser, fel y byddo yn berffaith dda i dragywyddoldeb: ac nid yw cyflwr neb mor dda, mewn un ffordd amgen, nad andwyir ef mewn amser ac i dragywyddoldeb.

III. Y colledigion a gant gymdeithas cythreuliaid yn eu cyflwr truenus yn uffern: oblegid rhaid iddynt fyned i'r "tân a barotowyd i ddïafol a'i angylion." O gymdeithas ofnadwy! O gymmanfa ddychrynllyd! pwy a ddewisai drigo mewn palas lle bo cythreuliaid yn tramwy? Bod i un gael ei gaethiwo i'r man hyfrydaf o'r ddaear, gydâ'r diafol a'i ellyllon uffernol, a fyddai yn gaethiwed mwyaf arswydus. O fel y pallai calonau dynion, ac y safai eu gwallt ar eu pen, pan y gwelent eu hunain yn y cyfryw gyflwr wedi eu hamgylchu gan yr haid uffernol! Ond och! pa faint mwy dychrynllyd a fydd iddynt gael eu bwrw gydâ'r cythreuliaid i'r un tân, eu cloi i fynu gydâ hwynt yn yr un dyfngell, a'u cau i fynu yn yr un pwll! Nid ydyw bod i un gael ei gau mewn ffau llewod rhuadwy, a chael ei wregysu o amgylch â seirph, a'i gylchynu gan aspiaid gwenwynig, ac i'w ymysgaroedd gael eu bwyta gan wiberod; ïe, ni byddai hyn oll ar unwaith, ond cymhariaeth rhy wael i ddangos trueni y colledigion, pan eu cauer i fynu yn uffern gydâ'r dïafol a'i angylion. Y maent yn awr yn myned oddiamgylch gan geisio y neb a allont ei lyngcu: eithr yna y cyfyngir hwynt i'w ffau eu hunain, gydâ'u hysglyfaeth. Hwy a lenwir hyd yr ymyl â llid Duw, a derbyniant eu cyflawn benyd, (Math. viii. 29.) rhag yr hon y maent yn crynu wrth ei dysgwyl, (Iago ii. 19.) yna y bwrir hwynt i'r tân a barotowyd iddynt. O fel y rhua ac y rhwyga y llewod hyn! ac y chwyth-leisia y seirph yma! ac y chwyda y dreigiau hyn dân! y fath ing, arswydus a ymeifl yn y coll-

edigion, pan y gwelont eu hunain yn y llyn o dân, gyd â'r diafol yr hwn a'u hudodd hwynt: wedi eu tynu yno gertydd llinynau sidanaidd temtasiynau, gan yr ysprydion drwg hyn; ac wedi eu rhwymo gydâ hwynt mewn cadwynau tragywyddol dan dywyllwch! Dad. xx. 10, "A diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo hwynt, a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan, lle y mae y bwystfil â'r gau-brophwyd; a hwy a boenir ddydd a nos, yn oes oesoedd."

O nad ystyriai dynion hyn mewn pryd, nad ymwrthodent â'r diafol a'i chwantau, a glynu wrth yr Arglwydd mewn ffydd a sancteiddrwydd. Pa ham y dewisa dynion y cyfryw gyfeillion yn y byd yma, ac yr ymhyfrydant yn y cyfryw gymdeithasau, na ddymunent gyfeillachu â hwynt yn y byd arall? Y rhai ni charant gyfeillach y saint ar y ddaear, ni chant ddim o hono yn nhragywyddoldeb: eithr megys mai cymdeithion annuwiol a hoffent yn y byd hwn, hwy a gant ddigon yn y byd a ddaw; pan y caffont dragywyddoleb i'w dreulio ynghymdeithas ruddfanus a chableddus y cythreuliaid a'r damnedigion yn uffern. Ystyried y rhei'ny yn ddifrifol sydd yn arferyd galw ar *ddiawl i'w cipio*, y bydd y gymdeithas a wahoddant mor fynych yn ofnadwy yn y diwedd, pan y delo.

IV. Ac, *yn olaf*, Gadewch i ni ystyried tragywyddol barhâd y cwbl, truenus gyflwr diddiwedd y colledigion yn uffern.

*Yn gyntaf*, Pe medrwn, mi a ddangoswn beth yw tragywyddoldeb; sef tragywyddoldeb y crëadur. Eithr pwy a ddichon fesur dyfroedd y môr? pwy a ddichon rifo dyddiau, blynyddoedd, ac oesoedd tragywyddoldeb, y rhai sydd yn anfeidrol fwy lliosog na defnynau yr dyfnder mawr? Nis gall neb amgyffred tragywyddoldeb ond y Duw tragywyddol. Môr ydyw tragywyddoldeb, na's gwelwn byth lân iddo; dyfnder ydyw, na chawn byth waelod iddo; dyryswch, na's gallwn byth ddyfod yn rhydd o hono, nac yn dragywydd ddyfod o hyd i'r ddôr. Gellir dywedyd dau beth am dano, (1.) Y mae dechreu iddo. Nid oes dim dechreu i dragywyddoldeb Duw, ond y mae dechreu i dragywyddoldeb y crëadur. Fe fu amser pan nad oedd un llyn o dân; a'r rhai sydd wedi bod yno ers miloedd o flynyddoedd, a fuant unwaith mewn amser fel yr ydym ni yn awr. Ond, (2.) Ni bydd byth ddiwedd iddo. Mae y cyntaf a aeth i'r tragywyddol wae, mor belled oddiwrth ei ddiwedd, ag y bydd yr olaf a â yno ar ei fynediad i mewn

yno. Mae y rhai a nofiasant bellaf i'r eigion, mor belled oddiwrth gyrhaedd y tir, ag oeddynt y funud gyntaf yr aethant iddo: ac ymhen miloedd o oesoedd gwedi hyn, hwy a fyddant mor belled oddiwrtho ag erioed. Gan hyny parhâd ydyw y tragywyddoldeb sydd o'n blaen, ag iddo ddechreu, ond heb ddiwedd. Dechreu heb ganol ydyw, a dechreu heb ddiwedd. Ar ol miliynau o flynyddoedd ni bydd ond dechreu. *Llid a fydd*, a fydd llid Duw yn uffern byth. Eithr nid oes canol yn nhragywyddoldeb. Pan elo heibio filiynau o oesoedd yn uffern, ni bydd dim cyfartalwch rhwng yr hyn a fydd wedi myned heibio â'r hyn fydd yn ol: na fydd, mwy nag sydd rhwng diferyn o ddwfr a syrthio oddiwrth ben bys, â'r holl ddyfroedd sydd yn y môr. Nid oes ddiwedd iddo; tra bo Duw bydd yntau. Mynediad i mewn ydyw heb fynediad allan, oesoedd olynol diddiwedd, awr-wydr yn rhedeg yn wastad, heb byth redeg allan.

Ystyriwch fel y mae oriau, dyddiau, misoedd, a blynyddoedd y naill yn dilyn y llall; a meddyliwch am dragywyddoldeb, lle y mae olyniad gwastadol heb ddiwedd. Pan eloch allan yn y nos, a gweled sêr y nefoedd, fel y maent yn aneirif, meddyliwch am oesoedd tragywyddoldeb; gan gofio ar yr un pryd, fod rhifedi pennodol o ser, ond nid oes rhif ar oesoedd tragywyddoldeb Pan weloch ddwfr yn rhedeg, meddyliwch mor ofer a fyddai i chwi eistedd i lawr ar ei fin, i ddysgwyl iddo redeg i gyd heibio, fel y galloch fyned drosodd; gwelwch fel y mae dwfr o'r newydd yn dyfod ar ol yr un a aeth heibio: yma y gwelwch ddarluniad o dragywyddoldeb, yr hwn sydd afon na sych, byth i fynu. Mae gan y rhai sydd yn gwisgo modrwyau, ddarlun o dragywydoldeb am eu bysedd; ac y mae gan y rhai sydd yn trin y droell, gynllun o dragywyddoldeb o'u blaen; canys edrychont ar y man y mynont i'r fodrwy neu'r olwyn, hwy a welant ran arall tu hwnt i hyny, ac ar ba funud bynag o dragywyddoldeb y syllioch, y mae o hyd un arall tu hwnt iddo. Pan fyddoch yn rhodio yn y meusydd, a gweled gwair ar hyd y tir, na's dichon un dyn eu rhifo, meddyliwch ynoch eich hunain, pan el heibio gynnifer o filoedd o flynyddoedd ag sydd o wellt yn y maesydd fe fyddai diwedd i'r rhei'ny ryw bryd; ond ni fydd diwedd i dragywyddoldeb. Pan edrychoch ar fynydd, bwriwch yn eich meddwl, pa hyd y byddai yn cael ei symud, pe deuai aderyn bach ond unwaith bob mil o flynyddoedd, a chymmeryd ymaith un llwchyn; fe symudid y mynydd ryw bryd

felly, ac a ddarfyddai; ond ni dderfydd tragywyddoldeb byth. Meddyliwch yr un peth am holl fynyddoedd y byd; ie, am y byd i gyd yn grwn. Nid yw yr holl ronynau o ba rai y mae yr holl ddaear yn gynnwysedig ddim yn aneirif; am hyny fe gymmerid y gronyn olaf ymaith yn y diwedd, yn y modd y crybwyllwyd: ond pan y deuai y gorchwyl annyben hwn i ben, ni byddai tragywyddoldeb, mewn effaith, ond dechreu.

Dyma rai darluniadau breision o dragywyddoldeb; ac yn awr, ychwanegwch drueni a gwae at y tragywyddoldeb hwn, a pha dafod a ddichon ei ddarlunio! pa galon a ddichon ei ddirnad! ymha glorian y gellir pwyso y cyfryw drueni a gwae?

*Yn ail,* Bwriwn olwg ar y pethau sydd yn dragywyddol ynghyflwr y colledigion yn uffern. Beth bynag sydd yn gynnwysedig yn y ddedryd ofnadwy, mewn perthynas i'w cyflwr tragywyddol, mae'r cwbl yn ddiddiwedd: gan hyny, mae holl ddefnyddiau alaethus eu cyflwr gresynol, yn dragywyddol; ni ddarfyddant byth. Mae y testun yn crybwyll yn bennodol fod y tân i ba un y maent yn myned, yn dan tragywyddol. Ac y mae ein Harglwydd yn mynegi i ni mewn lle arall, nad yw y tân byth yn diffodd yn uffern, (Marc ix. 43.); gyda golwg ar lyn Hinnom, yn yr hwn, heblaw y tân a grybwyllwyd eisoes, i losgi y plant i Moloch, yr oedd tân arall yn llosgi yn wastadol, i ddifa cyrph meirw a budreddi Ierusalem: felly mae yr ysgrythyr, wrth ddarlunio tân uffern drwy dân y glyn hwnw, yn dangos ei fod nid yn unig yn dra thanbaid, eithr hefyd yn dragywyddol. Gan hyny, yn gymmaint ag y bydd raid i'r colledigion, megys rhai melldigedig, fyned i'r tân tragywyddol, y mae yn amlwg,

1af, Y bydd y colledigion eu hunain yn dragywyddol; hwy a fyddant mewn bod yn oes oesoedd, ac ni ddystrywir ac ni ddiddymir eu sylwedd byth. I ba ddyben y bydd y tân yn dragywyddol, os na fydd y rhai a fwrir iddo yn dragywyddol hefyd! Y mae yn eglur fod parhâd y tân yn chwanegu trueni y colledigion; a diau, os diddymir hwynt, neu os difodir eu sylwedd, na bydd o ddim gwahaniaeth iddynt hwy, pa un a fydd y tân yn dragywyddol, ai nis bydd. Iê, hwy a ant i dân tragywyddol, ac a gospir ynddo yn dragywyddol; Math. xxv 40, "Y rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol." Fel hyn y bydd cyflawniad y ddedryd yn dangos yn ddilys ei harwyddocâd Mae yn rhaid i'r pryf nad yw yn marw gael gwrthddrych i fyw ynddo: y rhai ni bydd gorphwysdra iddynt ddydd na nôs, (Dad. xiv. 11.), ond a

boenir ddydd a nos yn oes oesoedd, (pen. xx. 10.), yn sicr a fyddant mewn bod byth oythoedd, ac ni ddygir hwynt i gyflwr o dragwyddol orphwysdra drwy ddiddymiad. Digon gwir y cant eu dinystrio: ond eu dinystr a fydd yn ddinystr tragwyddol, (2 Thes. i. 9.); dinystr eu bawddfyd, ond nid eu hanfod. Gan hyny nid yw yr hyn a ddinystrir yn cael ei ddiddymu, " A ddaethost ti i'n difetha ni?" eb y diafol wrth Iesu Grist, Luc iv. 34. Mae ar y cythreuliaid ofn cael eu poeni, ond nid ofn cael eu diddymu, Math. viii. 29, " A ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser? Digon gwir mai cyflwr o farwolaeth yw cyflwr y colledigion: oud y cyfryw farwolaeth ydyw, ag sydd ddim amgen na gwrthwyneb i fywyd dedwydd, fel y mae yn amlwg oddiwrth olygiad arall ar eu cyflwr, yr hyn sydd o anghenrheidrwydd yn cynnwys tragywyddol fod, fel y dangoswyd eisoes. Fel y mae y rhai sydd yn feirw mewn pechodau, yn feirw tu ag at Dduw a sancteiddrwydd, etto yn fyw i bechod; felly y rhai sydd yn meirw yn uffern, maent yn byw, ond yn ddidoledig oddiwrth Dduw, a'i ffafr, ymha un y mae bywyd, Psal. xxx. 5. Hwy a fyddant yn wastadol dan loesau angau; yn marw beunydd, ond heb farw byth i fod yn hollol ddi-fywyd. Mor ddymunol a fyddai y cyfryw farwolaeth iddynt! eithr fe ffy oddiwrthynt am byth. Pe gallai y naill ladd y llall yno, neu pe gallent, â'u dwylaw eu hunain, rwygo eu hunain yn ddarnau marwol, byddai eu trueni ar ben yn ebrwydd: ond yno y bydd raid iddynt hwy fyw; y rhai a ddewisasant angau, ac a wrthodasant fywyd; canys yno y mae angau yn byw, ac nid yw y diwedd byth yn dechreu.

2*il*. Fe erys y felldith arnynt yn dragywydd fel cadwen ddiddiwedd, i'w dal yn y tân tragywyddol; cadwen na ryddheir byth, wedi ei sicrhau o'u hamgylch, drwy ddedryd ofnadwy y farn dragywyddol. Y gadwen hon, pa un sydd yn herio cyd-allu y cythreuliaid sydd yn rhwym wrthi, y mae yn rhy gref i'w thori gan ddynion, wedi eu hysgymuno yn arswydus, a'u cyflwyno i ddistryw, nis gellir byth eu hadferu i unrhyw ddyben arall.

3*ydd*, Bydd eu cosp yn dragywyddol: Math. 25 46. " Y rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol " Hwy a ddidolir am byth oddiwrth Dduw a Christ, ac o gymdeithas yr angylion sanctaidd a'r saint; rhyngddynt a pha rai y sicrheir gagendor mawr, Luc xv. 26. " Rhyngom ni a chwithau," medd Abraham yn y ddameg wrth y gwr goludog yn uffern,

yn sefyll yn lle pechaduriaid, Psal. xxii. 14. "Fy nghalon sydd fel cwyr, hi a doddodd ynghanol fy mherfedd?"—Fe lenwir eu meddwl â dychryniadau arswydus rhag llid anghymmodlon Duw: a phob peth a allont feddwl am dano, a fu, y sydd, ac a fydd, ni wna ond chwanegu eu penyd a'u hing. Fe groesir eu hewyllys yn mhob peth yn dragywydd: fel yr oedd eu hewyllys hwy yn wastad yn groes i ewyllys gorchymynol Duw; felly Duw, yn ei ymddygiad tu ag attynt hwythau, yn y byd arall, a geidw ryfel â'u hewyllys byth. Ni chant yr hyn a ddymunant yn y mesur lleiaf; ond yr hyn ni chwennychant a fwrir arnynt yn ddïochelyd. Ac o ganlyniad ni thardd un serch ddymunol yn eu calon mwyach: eu hoffder o foddlondeb, llawenydd, a hyfrydwch, mewn unrhyw wrthddrych, beth bynag a fyddo, a ddiwreiddir; a hwy a lenwir o lid, digofaint a chynddaredd yn erbyn Duw, hwy eu hunain, a'u cyd-greaduriaid, pa un bynag a'i dedwydd yn y nef, a'i gresynol yn uffern fel hwy eu hunain. Hwy a suddir mewn gofid, a arteithir â chur, a lenwir â dychryn, a archollir hyd y galon gan ddrygnawsedd, ac a frathir beunydd gan anobaith; yr hyn a bâr iddynt wylo a rhingcian eu dannedd a chablu yn dragywydd, Math xxii. 13, "Rhwymwch ei draed a'i ddwylaw, a chymmerwch ef ymaith, a theflwch i'r tywyllwch eithaf; yno y bydd wylofain a rhingcian dannedd." Dad. xvi. 21. "A chenllysg mawr, fel talentau a syrthiasant o'r nef ar ddynion: a dynion a gablasant Dduw am bla'r cenllysg; oblegid mawr iawn ydoedd eu pla hwynt." Bydd cydwybod megys pryf i'w cnoi a'u hysu; atgno meddwl am eu pechodau a ymeifl ynddynt, ac a'u poenydia yn dragywydd, ac ni allant ymysgwyd oddiwrtho, fel yr arferent gynt; canys "yn uffern—nid yw eu pryf yn marw," Marc ix. 45, 46. Ni bydd eu cof o ddim defnydd ond i chwanegu eu poen, a phob adfyfyriad newydd a ddwg loes arall o ing, Luc xvi. 25, "Ac Abraham a ddywedodd, (sef wrth y gwr goludog yn uffern,) Ha fab, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd."

2. Mae poenau uffern yn llïosog. Bwriwch fod dyn, ar yr un pryd, dan arteithiau, y troedwst, y graeanwst, a phob afiechyd a phoenau a gyd-gyfarfu erioed yn yr un corph; ni byddai poen y cyfryw ond ysgafn mewn cymhariaeth i boenau y colledigion. Canys megys y mae pob peth da a dymunol yn absennol o uffern, felly y mae pob drygau yn cydlifo yno; canys bydd holl effeithiau pechod a'r felldith yn cyfarfod yno

wedi'r farn ddiweddaf, Dad. xx. 14, " Marwolaeth ac uffern a fwriwyd i'r llyn o dân." Yno y cant garchar na ddiangant byth o hono; llyn o dân, yn mha un y byddant yn nofio ac yn llosgi byth; pwll na chant byth waelod iddo. Y pryf ni bydd marw a ymborth arnynt fel ar gyrph wedi eu claddu: y tân ni ddiffydd a'u goddeithia fel cyrph a losger. Eu llygaid a gedwir mewn tywyllwch du, heb y llewyrch cysurus lleiaf o oleuni; a'u clustiau a lenwir âg oernad y gethern uffernol. Ni chant archwaethu dim ond gwinegr digofaint Duw, gwaddod cwpan ei lidiawgrwydd. Drygsawr y llyn brwmstan llosgiedig a fydd yr arogl yno; a hwy a gant deimlo eithaf poen yn oes oesoedd.

3. Poenau mwyaf arteithiol ac angerddol o fyddant, y rhai a barant " wylofain a rhingcian dannedd," Math. xiii. 42. a xxii. 13. Fe eu darlunir i ni dan gyffelybrwydd loesau esgor, y rhai sydd yn dra llymion a dygn. Felly y dywed y gwr goludog yn uffern, Luc xvi. 24, " Fe'm poenir" (hyny yw, fel un mewn gwewyr esgor) " yn y fflam hon." O loesau dychrynllyd! gwewyr ofnadwy, yn y rhai y bydd enaid a chorph yn yr ing ynghyd! gwewyr diymwared, diobaith, a diddiwedd! Mae y gair a arferir am uffern, Math. v 22. ac amrywiol fanau ereill o'r Testament newydd, yn briodol yn arwyddo Glyn Hinnom: o herwydd bod yr enw yn cael ei gymmeryd oddiwrth ddyffryn meibion Hinnom, yn yr hwn yr oedd Tophet, (2 Bren. xxiii. 10), lle y byddai eilunaddolwyr yn offrymu eu plant i Moloch. Dywedir mai delw fawr o bres ydoedd hwn, a breichiau fel dyn; yr hwn wedi ei boethi â thân o'i fewn, dodid y plentyn rhwng breichiau y ddelw: ac fel na chlywai y rhieni ysgrechiadau y plant wrth losgi i farwolaeth, hwy a gurent dabyrddau tra y parhai yr offrymiad arswydus; ac oddiwrth hyny y galwyd y lle Tophet. Fel hyn y mae dygnedd uffern-boenau yn cael eu darlunio i ni. Fe oddefodd rhai arteithiau gorthrwm ar y ddaear, gydâg ystyfnigrwydd aruthrol, a dewredd cofn: ond fe balla dewredd dynion, pan syrthiont i ddwylaw y Duw byw, ac heb obaith byth gael diangfa. Y mae yn wir y bydd graddau o boenau yn uffern; " esmwythach fydd i Tyrus a Sidon," nag i Corazin a Bethsaida, Math. xi. 21, 22. Eithr y mae y baich lleiaf o ddigofaint yno yn rhy drwm i'w ddwyn; canys pa fodd y dichon calon y creadur oddef, na'i ddwylaw gael grym, pan y bydd Duw ei hun yn dân ysol iddo? Pan rwymer yr efrau yn ysgubau i'w llwyr losgi, fe fydd ysgubau

o gybyddion, o feddwon, o dyngwyr, o odinebwyr, o ragrithwyr ffuifiol, o anghredinwyr, ac o ddirmygwyr yr efengyl, a'r cyffelyb: a phan fwrir y gwahanol ysgubau i dan uffern, fe lysg rhai yn fwy tanbaid nag ereill, yn ol fel y byddo eu pechodau yn fwy ysgeler nag ereill: fe ennyn fflam danbeitiach mewn ysgub o rai drwg-fucheddol nag mewn ysgub o foesolwyr diras: fe fydd y ffwrn yn boethach i'r rhai a bechasant yn erbyn goleuni, nag i'r rhai a fu byw yn y tywyllwch, Luc xii. 47, 48, "A'r gwas hwnw, yr hwn a wybu ewyllys ei arglwydd, ac nid ymbarotodd, ac ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef, a gurir â llawer ffonnod. Eithr yr hwn ni wybu, ac a wnaeth beth yn haeddu ffonnodiau, a gurir ag ychydig ffonnodiau." Eithr y ddedryd gyffredinol iddynt oll, (Math. xiii. 30.) "Rhwymwch hwy yn ysgubau i'w llwyr-losgi," sydd yn dangos tanbeidrwydd a dygnedd y poenau uffernol i'r radd eithaf.

4. Hwy a fyddant yn ddidor: ni bydd dim arbed yno; dim gorphwysdra, na fydd am funud. "Hwy a boenir ddydd a nos yn oes oesoedd," Dad. xx. 10, Nid oes nemawr mor helbulus yn y byd yma, na byddant yn cael gorphwysdra weithiau; ond ni chaiff y colledigion ddim; hwy a gymmerasant eu hesmwythdra yn yr amser yr oedd Duw wedi ei bennodi i weithio. Nid oes nemawr ystormydd i'w gweled na bo rhyw yspaid rhwng y cawodydd: ond ni bydd dim tor ar yr ystorm a ddisgyn ar yr annuwiolion yn uffern. Yno dyfnder a eilw ar ddyfnder, a thonau digofaint yn wastadol a dreigla drostynt. Yno y nefoedd a fydd yn wastad yn ddu iddynt, a hi a fydd yn nos dragywyddol iddynt, ond heb ddim gorphwysdra, Dad. xiv. 11. "Nid ydynt hwy yn cael gorphwysdra ddydd na nos"

5. Ni thosturir wrthynt. Mae y cospedigaethau a rodder ar y drwgweithredwyr penaf ar y ddaear, yn ennill peth tosturi oddiwrth y rhai a'u gwelont yn eu poenau: ond ni thosturia neb wrth y colledigion. Ni thosturia Duw wrthynt, eithr efe "a chwardd yn eu dïaledd hwynt," Diar. i. 26. Y dyrfa fendigedig yn y nef a lawenychant yn nghyflawniad cyfiawn farn Duw, ac a ganant tra byddo y mwg yn codi yn oes oesoedd, Dad. xix. 3, "Ac eilwaith y dywedasant, Aleluia: A'i mwg hi a gododd yn oes oesoedd." Nis gellir dysgwyl tosturi oddiwrth y dïafol a'i angylion, y rhai sydd yn ymhyfrydu yn ninystr dynion, ac ydynt ac a fyddant byth heb ddim tosturi ynddynt. Ac ni thosturia y naill wrth y

llall ychwaith yno, lle y mae pob un yn wylofain ac yn rhingcian ei ddannedd, dan ei ing a'i boen annyoddefol ei hun. Serch naturiol a ddiffydd yno: y rhïeni ni charant eu plant, na phlant eu rhïeni, ni thosturia y fam wrth y ferch yn y fflamiau hyny, ac ni thosturia y ferch wrth y fam; y mab ni ofala am ei dad yno; na'r gweinidog am ei feistr, lle y bydd pob un yn gruddfan dan ei benyd ei hun.

*Yn Olaf*, I lawn orphen eu trueni, fe fydd eu poenau yn dragywyddol, Dad. xiv. 11. "A mwg eu poenedigaeth hwy sydd yn myned i fynu yn oes oesoedd." Och! y fath gyflwr dychrynllyd yw hwn, sef poenydio yn yr holl gorph a'r enaid, a hyny nid ag un math o boen, eithr llawer; i gyd yn eithaf arteithiol, i gyd yn ddidor, ac heb ddim tosturi oddiwrth neb! pa galon a ddichon amgyffred y cyfryw bethau yn ddiarswyd? Ond er hyny, pe byddai y cyflwr truenusaf hwn ryw bryd i ddarfod, fe roddai hyny ryw gysur; ond poenau y colledigion ni ddarfyddant; am hyn, mwy rhagllaw.

DEFNYDD. Dysgwch oddiyma, (1.) Ddrwg pechod. Ffrwd ydyw a ddwg y pechadur i waered nes ei lyngcu i fynu mewn môr o lid. Mae pleserau pechod yn rhy ddrud i'w prynu â llosgfeydd tragywyddol. Pa lesâd a wnae gwisg borphor y gwr goludog, a'i fywioliaeth helaethwych, pan y gwisgid ef yn uffern â fflamiau porphor, heb ddiferyn o ddwr i oeri ei dafod? Och! fod dynion yn medru anwesu eu hunain mewn pechod yr hwn a fydd mor chwerw yn y diwedd! eu bod yn yfed mor awyddus o'r fath gwpan gwenwynig, a choleddu y sarph yn eu mynwesau, a'u brath hyd y galon, ac a gnoa eu coluddion allan yn y diwedd! (2.) Pa fath Dduw y mae a wnelom ag ef; y fath gasineb sydd ganddo at bechod, ac mor llym y cospa efe ef. Gwybyddwch fod Duw yn berffaith gyfiawn yn gystal ag yn berffaith drugarog, ac na feddyliwch ei fod yn debyg i chwi eich hunain: ymaith a'r camgymeriad marwol hwnw cyn y byddo yn rhy ddiweddar, Psal. l. 21, 22, "Tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun, ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid. Deallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw, rhag i mi eich rhwygo fel na byddo gwaredydd:" Y tân a barotowyd i ddiafol a'i angylion, er tywylled yw, a ddengys fod Duw yn ddïalydd llym ar bechod. *Yn olaf*, Yr anghenrheidrwydd anhepgorol o ffoi at Iesu Grist drwy ffydd; a'r unrhyw anghenrheidrwydd am edifeirwch a sancteiddrwydd calon a buch-

edd. Y mae dialydd y gwaed yn dy ddilyn, O bechadur! brysia a diangc i'r ddinas noddfa. Ymolch yn y ffynon o waed y Cyfryngwr, fel na threngych yn y llyn o dân. Agor dy galon iddo, rhag i'r pwll gau ei safn am danat. Gâd dy bechodau, onidê hwy a'th andwyant: lladd hwynt onidê hwy a fyddant yn angau i ti byth bythoedd.

Na fydded i ofnau tân uffern dy arwain i galedu dy galon etto yn ychwaneg, fel y gwna llawer: os coleddi y meddwl annuwiol hwnw, sef, "Nid oes obaith," Ier. ii. 25., yr hyn sydd fe allai yn fwy cyffredin yn mhlith gwrandawyr yr efengyl, nag y mae llawer yn meddwl. Ond y mae gobaith i'r gwaethaf o bechaduriaid, a ddel at Iesu Grist. Os nad oes ynot ddim cymhwysderau da, (fel yn ddiammeu na ddichon fod mewn dyn anianol, na dim mewn neb ond a dderbynier oddiwrth Grist,) gwybydd na rwymodd efe dy dderbyniad wrth dy gymhwysderau da: cymmer di ef a'i iechydwriaeth, sydd yn cael eu cynnyg yn rhad i bawb y delo yr efengyl attynt. "Yr hwn sydd yn ewyllysio, cymmered o dwfr y bywyd yn rhad," Dad. xxii. 17.—"Yr hwn a ddel attaf fi, ni's bwriaf ef allan ddim," Ioan. vi. 37. Creadur pechadurus ydwyt, y mae yn wir, ac ni elli edifarhâu: yr wyt yn halogedig, ac ni elli wnëyd dy hun yn sanctaidd: ie, ti a amcanaist edifarhâu, a bod yn sanctaidd, eithr er hyn ti a fethaist edifarhâu na diwygio, nac ymsancteiddio, ac am hyny, "Ti a ddywedaist, Nid oes obaith. Nac oes, canys cerais dieithriaid, ac ar eu hol hwynt yr af fi." Yn wir nid yw yn rhyfedd na lwyddaist yn ol dy ddysgwyliad, am i ti bob amser ddechreu dy waith o chwith. Eithr yn flaenaf oll, anrhydedda di Dduw, drwy gredu y dystiolaeth a dystiolaethodd efe am ei Fab, sef bod bywyd tragywyddol ynddo ef: ac anrhydedda Fab Duw, drwy gredu ynddo ef, hyny yw ei gofleidio, a derbyn cynnygiad rhad yr efengyl o Grist a'i iachawdwriaeth ef i'th achub oddiwrth dy bechodau, ac oddiwrth ddigofaint; gan ymddiried iddo ef yn hyderus am gyfiawnder i'th gyfiawnhâu, ac hefyd am sancteiddhâd; gan wybod ddarfod "ei wneuthur ef i ni gan Duw yn gyfiawnder ac yn sancteiddrwydd," 1 Cor. 1 30. Gan hyny, os gelli roi cymmaint cred i air Duw ag a roddit ar air gwr gonest a gynnygio i ti anrheg, gan ddywedyd, Cymmer, ac eiddo ti yw; ti a elli gredu fod Duw yn Dduw i ti, Crist yn eiddo ti, ei iachawdwriaeth yn eiddo ti, maddeuwyd i ti dy bechod, y mae i ti ynddo ef nerth i edifarhâu, ac i fyw yn sanctaidd; canys y mae yr holl bethau hyn yn cael eu cynnyg

i ti yn rhad yn yr efengyl. Trwy gredu yn Mab Duw, ti a gyfiawnheir, a'r felldith a symudir. A thra y byddo hon yn gorphwys arnat ti, pa fodd y dichon i ti ddwyn ffrwyth i sancteiddrwydd? Eithr gwedi symud y felldith, y mae y farwolaeth yr hon a gymmerodd afael ynot yn yr Adda cyntaf, (yn ol y bygythiad, Gen. ii. 17.) yn cael ei chymmeryd ymaith. Ac o ganlyniad i hyn, ti a gei weled rhwymau anwiredd (y rhai sydd yn awr yn dy ddal yn gaeth mewn anedifeirwch) wedi eu dryllio yn chwilfriw, fell rhwymau marwolaeth; ac yna y gelli edifarhâu yn wir o'r galon: ti a gei yspryd y bywyd yn ol i'th enaid ar ymadawiad pa un y daeth marwolaeth i mewn yn y dechreu; ac felly o hyny allan y galluogir di i fyw i gyfiawnder. Nid yw cyflwr neb mor ddrwg nad ellir ei wellhâu fel hyn, mewn amser, fel y byddo yn berffaith dda i dragywyddoldeb: ac nid yw cyflwr neb mor dda, mewn un ffordd amgen, nad andwyir ef mewn amser ac i dragywyddoldeb.

III. Y colledigion a gant gymdeithas cythreuliaid yn eu cyflwr truenus yn uffern: oblegid rhaid iddynt fyned i'r "tân a barotowyd i ddïafol a'i angylion." O gymdeithas ofnadwy! O gymmanfa ddychrynllyd! pwy a ddewisai drigo mewn palas lle bo cythreuliaid yn tramwy? Bod i un gael ei gaethiwo i'r man hyfrydaf o'r ddaear, gydâ'r diafol a'i ellyllon uffernol, a fyddai yn gaethiwed mwyaf arswydus. O fel y pallai calonau dynion, ac y safai eu gwallt ar eu pen, pan y gwelent eu hunain yn y cyfryw gyflwr wedi eu hamgylchu gan yr haid uffernol! Och och! pa faint mwy dychrynllyd a fydd iddynt gael eu bwrw gydâ'r cythreuliaid i'r un tân, eu cloi i fynu gydâ hwynt yn yr un dyfngell, a'u cau i fynu yn yr un pwll! Nid ydyw bod i un gael ei gau mewn ffau llewod rhuadwy, a chael ei wregysu o amgylch â seirph, a'i gylchynu gan aspiaid gwenwynig, ac i'w ymysgaroedd gael eu bwyta gan wiberod; ïe, ni byddai hyn oll ar unwaith, ond cymhariaeth rhy wael i ddangos trueni y colledigion, pan eu cauer i fynu yn uffern gydâ'r dïafol a'i angylion. Y maent yn awr yn myned oddiamgylch gan geisio y neb a allont ei lyngcu: eithr yna y cyfyngir hwynt i'w ffau eu hunain, gydâ'u hysglyfaeth. Hwy a lenwir hyd yr ymyl â llid Duw, a derbyniant eu cyflawn benyd, (Math. viii. 29.) rhag yr hon y maent yn crynu wrth ei dysgwyl, (Iago ii. 19.) yna y bwrir hwynt i'r tân a barotowyd iddynt. O fel y rhua ac y rhwyga y llewod hyn! ac y chwyth-leisia y seirph yma! ac y chwyda y dreigiau hyn dân! y fath ing, arswydus a ymeifl yn y coll-

edigion, pan y gwelont eu hunain yn y llyn o dân, gyd â'r diafol yr hwn a'u hudodd hwynt: wedi eu tynu yno gertydd lliuynau sidanaidd temtasiynau, gan yr ysprydion drwg hyn; ac wedi eu rhwymo gydâ hwynt mewn cadwynau tragywyddol dan dywyllwch! Dad. xx. 10, " A diafol, yr hwn oedd yn eu twyllo hwynt, a fwriwyd i'r llyn o dân a brwmstan, lle y mae y bwystfil â'r gau-brophwyd; a hwy a boenir ddydd a nos, yn oes oesoedd."

O nad ystyriai dynion hyn mewn pryd, nad ymwrthodent â'r diafol a'i chwantau, a glynu wrth yr Arglwydd mewn ffydd a sancteiddrwydd. Pa ham y dewisa dynion y cyfryw gyfeillion yn y byd yma, ac yr ymhyfrydant yn y cyfryw gymdeithasau, na ddymunent gyfeillachu â hwynt yn y byd arall? Y rhai ni charant gyfeillach y saint ar y ddaear, ni chant ddim o hono yn nhragywyddoldeb: eithr megys mai cymdeithion annuwiol a hoffent yn y byd hwn, hwy a gant ddigon yn y byd a ddaw; pan y caffont dragywyddoleb i'w dreulio ynghymdeithas ruddfanus a chableddus y cythreuliaid a'r damnedigion yn uffern. Yytyried y rhei'ny yn ddifrifol sydd yn arferyd galw ar *ddiawl i'w cipio*, y bydd y gymdeithas a wahoddant mor fynych yn ofnadwy yn y diwedd, pan y delo.

IV. Ac, *yn olaf*, Gadewch i ni ystyried tragywyddol barhâd y cwbl, truenus gyflwr diddiwedd y colledigion yn uffern.

*Yn gyntaf*, Pe medrwn, mi a ddangoswn beth yw tragywyddoldeb; sef tragywyddoldeb y creadur. Eithr pwy a dichon fesur dyfroedd y môr? pwy a ddichon rifo dyddiau, blynyddoedd, ac oesoedd tragywyddoldeb, y rhai sydd yn anfeidrol fwy lliosog na defnynau yr dyfnder mawr? Nis gall neb amgyffred tragywyddoldeb ond y Duw tragywyddol. Môr ydyw tragywyddoldeb, na's gwelwn byth lân iddo; dyfnder ydyw, na chawn byth waelod iddo; dyryswch, na's gallwn byth ddyfod yn rhydd o hono, nac yn dragywydd ddyfod o'i hyd i'r ddôr. Gellir dywedyd dau beth am dano, (1.) Y mae dechreu iddo. Nid oes dim dechreu i dragywyddoldeb Duw, ond y mae dechreu i dragywyddoldeb y creadur. Fe fu amser pan nad oedd un llyn o dân; a'r rhai sydd wedi bod yno ers miloedd o flynyddoedd, a fuant unwaith mewn amser fel yr ydym ni yn awr. Ond, (2.) Ni bydd byth ddiwedd iddo. Mae y cyntaf a aeth i'r tragywyddol wae, mor belled oddiwrth ei ddiwedd, ag y bydd yr olaf a â yno ar ei fynediad i mewn

yno. Mae y rhai a nofiasant bellaf i'r eigion, mor belled oddiwrth gyrhaedd y tir, ag oeddynt y funud gyntaf yr aethant iddo: ac ymhen miloedd o oesoedd gwedi hyn, hwy a fyddant mor belled oddiwrtho ag erioed. Gan hyny parhâd ydyw y tragywyddoldeb sydd o'n blaen, ag iddo ddechreu, ond heb ddiwedd. Dechreu heb ganol ydyw, a dechreu heb ddiwedd. Ar ol miliynau o flynyddoedd ni bydd ond dechreu. *Llid a fydd*, a fydd llid Duw yn uffern byth. Eithr nid oes canol yn nhragywyddoldeb. Pan elo heibio filiynau o oesoedd yn uffern, ni bydd dim cyfartalwch rhwng yr hyn a fydd wedi myned heibio â'r hyn fydd yn ol: na fydd, mwy nag sydd rhwng diferyn o ddwfr a syrthio oddiwrth ben bys, â'r holl ddyfroedd sydd yn y môr. Nid oes ddiwedd iddo; tra bo Duw bydd yntau. Mynediad i mewn ydyw heb fynediad allan, oesoedd olynol diddiwedd, awr-wydr yn rhedeg yn wastad, heb byth redeg allan.

Ystyriwch fel y mae oriau, dyddiau, misoedd, a blynyddoedd y naill yn dilyn y llall; a meddyliwch am dragywyddoldeb, lle y mae olyniad gwastadol heb ddiwedd. Pan eloch allan yn y nos, a gweled sêr y nefoedd, fel y maent yn aneirif, meddyliwch am oesoedd tragywyddoldeb; gan gofio ar yr un pryd, fod rhifedi pennodol o ser, ond nid oes rhif ar oesoedd tragywyddoldeb Pan weloch ddwfr yn rhedeg, meddyliwch mor ofer a fyddai i chwi eistedd i lawr ar ei fin, i ddysgwyl iddo redeg i gyd heibio, fel y galloch fyned drosodd; gwelwch fel y mae dwfr o'r newydd yn dyfod ar ol yr un a aeth heibio: yma y gwelwch ddarluniad o dragywyddoldeb, yr hwn sydd afon na sych, byth i fynu. Mae gan y rhai sydd yn gwisgo modrwyau, ddarlun o dragywydoldeb am eu bysedd; ac y mae gan y rhai sydd yn trin y droell, gynllun o dragywyddoldeb o'u blaen; canys edrychont ar y man y mynont i'r fodrwy neu'r olwyn, hwy a welant ran arall tu hwnt i hyny, ac ar ba funud bynag o dragywyddoldeb y syllioch, y mae o hyd un arall tu hwnt iddo. Pan fyddoch yn rhodio yn y meusydd, a gweled gwair ar hyd y tir, na's dichon un dyn eu rhifo, meddyliwch ynoch eich hunain, pan el heibio gynnifer o filoedd o flynyddoedd ag sydd o wellt yn y maesydd fe fyddai diwedd i'r rhei'ny ryw bryd; ond ni fydd diwedd i dragywyddoldeb. Pan edrychoch ar fynydd, bwriwch yn eich meddwl, pa hyd y byddai yn cael ei symud, pe deuai aderyn bach ond unwaith bob mil o flynyddoedd, a chymmeryd ymaith un llwchyn; fe symudid y mynydd ryw bryd

felly, ac a ddarfyddai; ond ni dderfydd tragywyddoldeb byth. Meddyliwch yr un peth am holl fynyddoedd y byd; ie, am y byd i gyd yn grwn. Nid yw yr holl ronynau o ba rai y mae yr holl ddaear yn gynnwysedig ddim yn aneirif; am hyny fe gymmerid y gronyn olaf ymaith yn y diwedd, yn y modd y crybwyllwyd: ond pan y deuai y gorchwyl annyben hwn i ben, ni byddai tragywyddoldeb, mewn effaith, ond dechreu.

Dyma rai darluniadau breision o dragywyddoldeb; ac yn awr, ychwanegwch drueni a gwae at y tragywyddoldeb hwn, a pha dafod a ddichon ei ddarlunio! pa galon a ddichon ei ddirnad! ymha glorian y gellir pwyso y cyfryw drueni a gwae?

*Yn ail*, Bwriwn olwg ar y pethau sydd yn dragywyddol ynghyflwr y colledigion yn uffern. Beth bynag sydd yn gynnwysedig yn y ddedryd ofnadwy, mewn perthynas i'w cyflwr tragywyddol, mae'r cwbl yn ddiddiwedd: gan hyny, mae holl ddefnyddiau alaethus eu cyflwr gresynol, yn dragywyddol; ni ddarfyddant byth. Mae y testun yn crybwyll yn bennodol fod y tân i ba un y maent yn myned, yn dan tragywyddol. Ac y mae ein Harglwydd yn mynegi i ni mewn lle arall, nad yw y tân byth yn diffodd yn uffern, (Marc ix. 43.); gyda golwg ar lyn Hinnom, yn yr hwn, heblaw y tân a grybwyllwyd eisoes, i losgi y plant i Moloch, yr oedd tân arall yn llosgi yn wastadol, i ddifa cyrph meirw a budreddi Ierusalem; felly mae yr ysgrythyr, wrth ddarlunio tân uffern drwy dân y glyn hwnw, yn dangos ei fod nid yn unig yn dra thanbaid, eithr hefyd yn dragywyddol. Gan hyny, yn gymmaint ag y bydd raid i'r colledigion, megys rhai melldigedig, fyned i'r tân tragywyddol, y mae yn amlwg,

1af, Y bydd y colledigion eu hunain yn dragywyddol; hwy a fyddant mewn bod yn oes oesoedd, ac ni ddystrywir ac ni ddiddymir eu sylwedd byth. I ba ddyben y bydd y tân yn dragywyddol, os na fydd y rhai a fwrir iddo yn dragywyddol hefyd! Y mae yn eglur fod parhâd y tân yn chwanegu trueni y colledigion; a diau, os diddymir hwynt, neu os difodir eu sylwedd, na bydd o ddim gwahaniaeth iddynt hwy, pa un a fydd y tân yn dragywyddol, ai nis bydd. Iё, hwy a ant i dân tragywyddol, ac a gospir ynddo yn dragywyddol; Math. xxv 46, "Y rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol." Fel hyn y bydd cyflawniad y ddedryd yn dangos yn ddilys ei harwyddocâd Mae yn rhaid i'r pryf nad yw yn marw gael gwrthddrych i fyw ynddo: y rhai ni bydd gorphwysdra iddynt ddydd na nôs, (Dad. xiv. 11.), ond a

boenir ddydd a nos yn oes oesoedd, (pen. xx. 10.), yn sicr a fyddant mewn bod byth bythoedd, ac ni ddygir hwynt i gyflwr o dragwydd-l orphwysdra drwy ddiddymiad. Digon gwir y cant eu dinystrio: ond eu dinystr a fydd yn ddinystr tragwyddol, (2 Thes. i. 9.); dinystr eu hawddfyd, ond nid eu hanfod. Gan hyny nid yw yr hyn a ddinystrir yn cael ei ddiddymu, "A ddaethost ti i'n difetha ni?" eb y diafol wrth Iesu Grist, Luc iv. 34. Mae ar y cythreuliaid ofn cael eu poeni, ond nid ofn cael eu diddymu, Math. viii. 29, "A ddaethost ti yma i'n poeni ni cyn yr amser? Digon gwir mai cyflwr o farwolaeth yw cyflwr y colledigion: ond y cyfryw farwolaeth ydyw, ag sydd ddim amgen na gwrthwyneb i fywyd dedwydd, fel y mae yn amlwg oddiwrth olygiad arall ar eu cyflwr, yr hyn sydd o anghenrheidrwydd yn cynnwys tragywyddol fod, fel y dangoswyd eisoes. Fel y mae y rhai sydd yn feirw mewn pechodau, yn feirw tu ag at Dduw a sancteiddrwydd, etto yn fyw i bechod; felly y rhai sydd yn meirw yn uffern, maent yn byw, ond yn ddidoledig oddiwrth Dduw, a'i ffafr, ymha un y mae bywyd, Psal. xxx. 5. Hwy a fyddant yn wastadol dan loesau angau; yn marw beunydd, ond heb farw byth i fod yn hollol ddi-fywyd. Mor ddymunol a fyddai y cyfryw farwolaeth iddynt! eithr fe ffy oddiwrthynt am byth. Pe gallai y naill ladd y llall yno, neu pe gallent, â'u dwylaw eu hunain, rwygo eu hunain yn ddarnau marwol, byddai eu trueni ar ben yn ebrwydd: ond yno y bydd raid iddynt hwy fyw; y rhai a ddewisasant angau, ac a wrthodasant fywyd; canys yno y mae angau yn byw, ac nid yw y diwedd byth yn dechreu.

2*il*. Fe erys y felldith arnynt yn dragywydd fel cadwen ddiddiwedd, i'w dal yn y tân tragywyddol; cadwen na ryddheir byth, wedi ei sicrhau o'u hamgylch, drwy ddedryd ofnadwy y farn dragywyddol. Y gadwen hon, pa un sydd yn herio cyd-allu y cythreuliaid sydd yn rhwym wrthi, y mae yn rhy gref i'w thori gan ddynion, wedi eu hysgymuno yn arswydus, a'u cyflwyno i ddistryw, nis gellir byth eu hadferu i unrhyw ddyben arall.

3*ydd*, Bydd eu cosp yn dragywyddol: Math. 25 46. "Y rhai hyn a ant i gospedigaeth dragywyddol" Hwy a ddidolir am byth oddiwrth Dduw a Christ, ac o gymdeithas yr angylion sanctaidd a'r saint; rhyngddynt a pha rai y sicrheir gagendor mawr, Luc xv. 26. "Rhyngom ni a chwithau," medd Abraham yn y ddameg wrth y gwr goludog yn uffern,

" y sicrhâwyd gagendor: fel na allo y rhai a fynnent dramwy oddi yma attoch chwi; na'r rhai oddi yna dramwy attom ni." Hwy a gânt gymdeithas ofnadwy y diafol a'i angylion am byth. Ni bydd dim newid cymdeithion yn oes oesoedd, yn yr ardal dywell. Eu poen yn y tân a fydd yn dragywyddol: rhaid iddynt fyw ynddo byth. Mae amryw awdwyr, hen a diweddar yn mynegi i ni am ddaear-lin, neu wallt salamandr, fod y llïain a wnäer o hono, pan y bwrier i'r tân, mor belled oddiwrth gael ei losgi neu ei ddifa, fel na wna ddim ond glanhâu, fel y gwna pethau ereill wrth eu golchi. Ond pa fodd bynag am hyny, mae yn sicr y caiff y colledigion eu poenydio byth yn uffern dân heb ddifa eu sylwedd, Dad. xx. 10. Ac yn wir nid yw y tân yn difetha dim eithr yn unig digorphori. O ba natur bynag y mae tân uffern, y mae yn ddiammeu y gall yr un Duw ag a gadwodd gyrph y tri llangc rhag llosgi yn ffwrn danllyd Nebuchodonosor, gadw hefyd gyrph y colledigion rhag y cyfryw ddigorphoriad yn nhân uffern, ag a bair ddiddymiad bywyd.

*Yn olaf*, Fe fydd eu gwybodaeth a'u teimlad o'u trueni yn dragywyddol, a hwy a gânt wybod yn sicr y bydd yn dragywyddol. Mor ddymunol a fyddai ganddynt pe clöid eu teimladau am byth, ac y collid eu gwybodaeth o'u trueni! fel y mae yn rhesymol i ni feddwl am y rhai sy'n dyoddef cosp marwolaeth ar y ddaear, eu bod felly i raddau helaeth: ac fel y mae rhai ynfydion yn eu hamgylchiad truenus: ond nid yw hyny yn gyson ag ystyr, *poeni yn oes oesoedd, prŷf nad yw yn marw*. Na, fe fydd ganddynt deimlad bywiog o'u trueni, a'r argraffiadau dwysaf o ddigofaint Duw yn eu herbyn. A'r crybwylliad arswydus hwnw am dragywyddoldeb eu poenau, a rydd y Barnwr yn eu dedryd, a rydd y fath argraffiadau o barhad eu truenus gyflwr ar eu meddyliau, nas gallant byth ymddïosg oddiwrtho, yr hyn a gwblhâ eu trueni. Hyn a'u lleinw ag anobaith diddarfod; a nwydau mwyaf arteithiol, y rhai a rwygant eu calonau megys yn fil o ddarnau. Gweled llifeiriaint o ddigofaint yn dyfod yn wastadol, heb beidio byth; bod mewn penyd beunydd, a chyd â hyny wybod, na chânt byth bythoedd eu rhyddhâu, hyn a wna drueni y colledigion yn gyflawn. Os yw " gobaith a oeder yn gwanhâu y galon," Diar. xii 12., pa mor arteithiol fydd gobaith wedi ei ddiwreiddio, a'i lladd yn hollol, a'i chladdu am byth allan o olwg y crëadur! Hyn a'u lleinw â llid a chynddaredd yn erbyn Duw, yr hwn y gwyddant ei fod

yn elyn anghymmodol iddynt: a thano y rhuant fel teirw gwylltion mewn magl, ac a leinw y pwll a chableddau yn ddiddiwedd.

*Yn olaf;* Yma y gallwn ddangos rhesymoldeb tragywyddol gosp y colledigion: eithr gan ddarfod i mi lefaru eisioes am hyn wrth amddiffyn cyfiawnder Duw ynghosp dragywyddol dynion yn eu cyflwr natur, ni chaf ond dwyn ar gof i chwi dri o bethau: (1.) Y mae anfeidrol fawrhydi yr hwn y troseddwyd i'w erbyn, yn galw am gospi yn anfeidrol, er mwyn amddiffyn ei anrhydedd; yn gymmaint a bod haeddiant pechod yn chwanegu yn ol urddas a rhagoroldeb y neb y pecher i'w erbyn. Y blaid a ddigiwyd yw Duw, y daioni penaf; y troseddwr sydd bryf gwael, o ran perffeithrwydd yn anfeidrol islaw Duw, i'r hwn y mae yn ddyledus am bob peth fu ganddo erioed, yn tueddu at ddaioni neu berffeithrwydd o un rhyw. Y mae hyn gan hyny yn dangos fod y pechadur yn haeddu cael ei gospi â chosp anfeidrol; yr hon nis gall fod ynddo et yn anfeidrol mewn gwerth, am hyn y mae yn rhaid iddi fod felly mewn parhâd, hyny yw, yn dragywyddol. Mae pechod yn fath o ddrwg anfeidrol, fel y mae yn yspeilio Duw anfeidrol; ac ni chymmerir yr euogrwydd na'r halogrwydd o hono byth ymaith, eithr a bery yn oes oesoedd, oddieithr i Dduw ei hun o'i drugaredd ei symud. Y mae Duw, yr hwn a ddigiwyd, yn dragywyddol, ei hanfod ni dderfydd byth: mae'r enaid pechadurus yn anfarwol, a'r dyn a fydd byw byth: a chan fod y pechadur yn rhy wan (Rhuf. v. 6.) i roddi iawn am ei fai, nis gall byth symud y trosedd; ac am hyny efe a erys, oddieithr i Dduw ei hun ei symud, fel yn yr etholedigion, drwy waed ei Fab. Gan hyny, gan fod y blaid y troseddwyd yn ei herbyn, y troseddwr, a'r trosedd, yn parhâu byth, mae yn rhaid i'r gosp barhâu byth. (2.) Fe fuasai y pechadur yn myned ymlaen yn ei yrfa o annog Duw i ddigofaint yn ddiddiwedd, oni buasai i Dduw ei attal drwy farwolaeth. Cyhyd ag y gallasant wrthryfela yn ei erbyn yn y byd, hwy a wnaethant; ac am hyny y mae yn gyfiawn iddo yntau ryfela yn eu herbyn hwythau tra y byddo mewn bod; hyny yw am byth. Duw, yr hwn a farn ewyllys, bwriadau, a thueddiadau y galon, a fedr ymddwyn yn gymhwys tu ag at bechaduriaid wrth eu cospi, fel yr ymddygasent hwy tu ag atto yntau wrth bechu. *Yn olaf,* (er nad wyf yn gosod pwys y mater yn hyn, etto,) Fe fyddai yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r colledigion ddyoddef yn dragywydd, oblegid y bydd-

a ddywedwyd am berygl y pechadur anedifeiriol, ac na fynegwyd yr hanner. Fe fydd tragywyddoldeb yn yspaid ddigon maith i ddwyn ymlaen yr edifeirwch a oedwyd, i alaru am yr ynfydrwydd, pan fyddo yn rhy ddiweddar; ac mewn cyflwr anfeddyginiaethol, i ddolefain y dymuniadau difudd hyn, 'O nas genasid fi erioed! na buasai y bru yn fedd i mi, ac na welswn byth mo'r haul! O na buaswn yn cymmeryd rhybydd mewn pryd, ac yn ffoi rhag y digofaint hwn, tra yr oedd drws trugaredd yn agored i mi! O na buaswn erioed heb glywed yr efengyl, na buaswn yn byw yn rhyw gongl o'r ddaear lle na chrybwyllwyd erioed am Iachawdwr a'r iachawdwriaeth fawr!' Ond y cwbl yn ofer. Yr hyn a wnaethpwyd nis gellir ei ddadwneyd; y cyfleusdra a goller, nis gellir byth ei adferu; yr amser a aeth heibio, nis gellir ei alw yn ol. Gan hyny defnyddiwch amser tra y mae genych; ac na andwywch eich hunain yn wirfoddol, drwy gau eich clustiau yn erbyn galwad yr efengyl.

Ac yn awr, os ewyllysiwch gael eich achub rhag y llid a *fydd*, ac nad eloch i'r lle poenus hwn; na orphwyswch yn eich cyflwr natur! credwch mor bechadurus a thruenus ydyw, ac ymdrechwch am fyned allan o hono ar frys, a ffoi at Iesu Grist drwy ffydd. Pechod ynoch chwi ydyw had uffern: ac oni symudir yr euogrwydd a'r gallu llywodraethol o hono, mewn amser, hwy a'ch dygant i ail farwolaeth yn nhragywyddoldeb. Nid oes un ffordd i gael eu symud, ond drwy dderbyn Crist, fel y mae yn cael ei gynnyg yn yr efengyl, er cyfiawnhâd a sancteiddhâd: ac y mae efe yn cael ei gynnyg i chwi yn awr yngbyd a'i holl iechydwriaeth, Dad. xxii. 12, 17, "Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys, a'm gwobr sydd gydâ mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef. Ac y mae yr Yspryd a'r brïodasferch yn dywedyd, Dyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Dyred. A'r hwn sydd â syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad." Iesu Grist yw Cyfryngwr y tangnefedd, a Ffynnon y sancteiddrwydd: efe sydd yn ein hachub ni rhag y digofaint sydd ar ddyfod. "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr yspryd, Rhuf. viii. 1. Ac y mae dychryniadau uffern yn gystal a llawenydd y nef, yn cael eu gosod o'ch blaen, i'ch deffroi i'w dderbyn ef yn ewyllysgar yngbyd a'i holl iechydwriaeth; ac i'ch cadarnhâu yn ffordd ffydd a sancteiddrwydd, trwy ba un yn unig y gellwch ddiangc rhag y tan tragywyddol. Bydded i'r Arglwydd ei hun eu gwneuthur yn effeithiol i'r dyben hwnw!

Hyd yma am gyflwr tragywyddol dyn; yr hwn, am ei fod yn dragywyddol, ni ddichon fod byth yr un ar ei ol.

DIWEDD.

# TRAETHAWD;

Yn cynnwys

*DISGRIFIAD*

o

# Natur Cyfraith Dduw,

Ynghyd â'r

ANMHOSIBLRWYDD O I DDYN EI CHADW YN BERFFAITH

Ar ol y Cwymp,

YN MHA GYFLWR BYNNAG Y BYDDO

YN Y BYWYD HWN.

Gwedi ei gymmeryd allan o

"*Gorph Duwinyddiaeth*"

Y DIWEDDAR BARCHEDIG A'R DYSGEDIG

THOMAS BOSTON,

*A'i gyfieithu i'r Gymraeg, er lles y Cymry un-iaith,*

GAN D. W.

*YR AIL ARGRAPHIAD.*

Aberhonddu:

ARGRAPHWYD GAN W. WILLIAMS, HEOL-Y-LLONGAU.

1820.

a ddywedwyd am berygl y pechadur anedifeiriol, ac ni fynegwyd yr hanner. Fe fydd tragywyddoldeb yn yspaid ddigon maith i ddwyn ymlaen yr edifeirwch a oedwyd, i alaru am yr ynfydrwydd, pan fyddo yn rhy ddiweddar; ac mewn cyflwr anfeddyginiaethol, i ddolefain y dymuniadau difudd hyn, 'O nas genasid fi erioed! na buasai y bru yn fedd i mi, ac na welswn byth mo'r haul! O na buaswn yn cymmeryd rhybydd mewn pryd, ac yn ffoi rhag y digofaint hwn, tra yr oedd drws trugaredd yn agored i mi! O na buaswn erioed heb glywed yr efengyl, na buaswn yn byw yn rhyw gongl o'r ddaear lle na chrybwyllwyd erioed am Iachawdwr a'r iachawdwriaeth fawr!' Ond y cwbl yn ofer. Yr hyn a wnaethpwyd nis gellir ei ddadwnëyd; y cyfleusdra a goller, nis gellir byth ei adferu; yr amser a aeth heibio, nis gellir ei alw yn ol. Gan hyny defnyddiwch amser tra y mae genych; ac na andwywch eich hunain yn wirfoddol, drwy gau eich clustiau yn erbyn galwad yr efengyl.

Ac yn awr, os ewyllysiwch gael eich achub rhag y llid a *fydd*, ac nad eloch i'r lle poenus hwn; na orphwyswch yn eich cyflwr natur! credwch mor bechadurus a thruenus ydyw, ac ymdrechwch am fyned allan o hono ar frys, a ffoi at Iesu Grist drwy ffydd. Pechod ynoch chwi ydyw had uffern: ac oni symudir yr euogrwydd a'r gallu llywodraethol o hono, mewn amser, hwy a'ch dygant i ail farwolaeth yn nhragywyddoldeb. Nid oes un ffordd i gael eu symud, ond drwy dderbyn Crist, fel y mae yn cael ei gynnyg yn yr efengyl, er cyfiawnhâd a sancteiddhâd: ac y mae efe yn cael ei gynnyg i chwi yn awr ynghyd a'i holl iechydwriaeth, Dad. xxii. 12, 17, "Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys, a'm gwobr sydd gydâ mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef. Ac y mae yr Yspryd a'r brïodasferch yn dywedyd, Dyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Dyred. A'r hwn sydd â syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad." Iesu Grist yw Cyfryngwr y tangnefedd, a Ffynnon y sancteiddrwydd: efe sydd yn ein hachub ni rhag y digofaint sydd ar ddyfod. "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr yspryd, Rhuf. viii. 1. Ac y mae dychryniadau uffern yn gystal a llawenydd y nef, yn cael eu gosod o'ch blaen, i'ch deffroi i'w dderbyn ef yn ewyllysgar ynghyd a'i holl iechydwriaeth; ac i'ch cadarnhâu yn ffordd ffydd a sancteiddrwydd, trwy ba un yn unig y gellwch ddïangc rhag y tan tragywyddol. Bydded i'r Arglwydd ei hun eu gwneuthur yn effeithiol i'r dyben hwnw!

Hyd yma am gyflwr tragywyddol dyn; yr hwn, am ei fod yn dragywyddol, ni ddichon fod byth yr un ar ei ol.

*DIWEDD.*

# TRAETHAWD;

Yn cynnwys

*DISGRIFIAD*

o'r

# Natur Cyfraith Dduw,

Ynghyd â'r

ANMHOSIBLRWYDD O I DDYN EI CHADW YN BERFFAITH

Ar ol y Cwymp,

YN MHA GYFLWR BYNNAG Y BYDDO

YN Y BYWYD HWN.

Gwedi ei gymmeryd allan o

"*Gorph Duwinyddiaeth*"

Y DIWEDDAR BARCHEDIG A'R DYSGEDIG

THOMAS BOSTON,

*A'i gyfieithu i'r Gymraeg, er lles y Cymry un-iaith,*

GAN D. W.

*YR AIL ARGRAPHIAD.*

Aberhonddu:

ARGRAPHWYD GAN W. WILLIAMS, HEOL-Y-LLONGAU.

1820.

ydditol, ac yn torri y gorchymynion.

IV. Cadarnhau y pwngc, nad yw perffeithrwydd yn gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn.

V. Rhoddi y rheswm o'r oruchwiliaeth hon.

VI. Cymhwyso.

I. Mi a ddangosaf beth yw perffeithrwydd deddfol, neu berffaith gadw y gorchymynion. Y mae yn berffaith gydffurfiad â holl orchymynion Duw, yn y galon a'r fuchedd; ac yn cynnwys,

Yn 1. Perffeithrwydd yn egwyddor y weithred. Mat. 22. 37. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid." O herwydd oni bydd y galon a'r enaid yn ddi bechod, ac yn bur, megis yr oedd yn Adda cyn y cwymp, ac yn Nghrist, (ac nid yn aflan megis y mae ein natur ni) ni ddichon fod perffaith gadw ar orchymynion Duw; fe aflanhâ ein halogedigaeth yr oll a wnelom.

2. Perffeithrwydd o ran rhanau yr ufudd-dod. Ni ellir cael gadael un rhan ar ol; rhaid i bob gorchymyn gael ei gadw o ba natur bynnag y byddo: "Canys ysgrifenwyd, melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Gal. 3. 10.

Os bydd un ar ol, y mae yr oll ar ol, y mae yr oll gwedi eu anafu. Iago 2. 10. "Canys pwy bynnag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl."

3. Perffeithrwydd o ran graddau'r ufudd-dod yn mhob rhan. Mat. 22. 37. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl." Nid yw uniondeb y dymuniad yn ddigon y'ngolwg y gyfraith: y mae yn rhaid cyrhaedd y gradd uchaf mewn ufudd-dod yn mhob peth, neu fod yn fyr o berffeithrwydd.

4. Perffeithrwydd yn y parhâd o'r ufudd-dod. Gal. 3. 10. "Melldigedig yw pob dyn nid yw yn aros yn yr holl bethau yn ddi wrthgiliad, ac yn ddi syrthiad hyd y diwedd." O herwydd mae un llithriad ar ol gyrfa o ufudd-dod yn anafu'r cwbl.

II. Ni a ystyriwn y cyrhaeddiad o'r perffeithrwydd hwn.

Yn 1. Yr oedd Adda, cyn y cwymp, yn alluog i gadw y gorchymynion yn berffaith, o herwydd i Dduw ei wneuthur ef yn uniawn. Preg. 7. 29. O ganlyniad efe a all-

asai gyrhaeddyd y perffeithrwydd hwn. Y gyfraith honno oedd y rheol i ufudd-dod cyfammodol Adda; a pherffaith ufudd-dod iddi, oedd yr ammod yn y cyfammod hwnnw, yr hyn ni's gall'sai Duw ei gynnyg iddo, oni buasai ei fod wedi rhoddi gallu digonol iddo i'w chyflawni.

2. Yr oedd y dyn Crist, yr hwn nid oedd ddyn yn unig, eithr Duw-ddyn, nid yn unig yn alluog i gadw y gyfraith yn berffaith, eithr efe a'i cadwodd mewn gwirionedd. Efe a gyflawnodd yr hyn y methodd yr Adda cyntaf ynddo, yn neddf-le yr etholedigion, er eu hiechydwriaeth: a thyma yr oll o helaethder perffeithrwydd deddfol. Yr oedd ei ufudd-dod ef yn berffaith. Yn 1. yn yr egwyddor. Heb. 7. 26. Yn " Sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid." 2. Yn y rhanau o hono. Mat. 3. 15. " y mae yn weddus i ni gyflawnu pob cyfiawnder." 3. Yn y graddau o hono. Ioan 15. 13. " Cariad mwy nâ hwn nid oes gan neb; sef bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion." 4. Yn y parhâd o hono. Phil. 2. 8. " Gan fod yn ufudd hyd angau.

3. Y mae y saint yn y nefoedd yn alluog i ufuddhau, ac yn gweithredu yn berffaith gyd-unol âg ewyllys Duw: fel er nad yw y saint yn cyrhaedd perffeithrwydd yn y byd hwn, er hynny fe gaiff holl blant Duw ei feddiannu ef yn gyflawn yn y byd a ddaw, lle y dywedir fod yspryd-oedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd. Heb. 12. 23. " Ac yno y byddant yn gyflawn rydd oddiwrth bechod, mewn cyflwr anmhosibl iddynt bechu mwy.

4. Ond oddiar pan syrthiodd Adda, nid oes un dyn, a dyn yn unig, tra y byddo yn y bywyd hwn, yn feddiannol ar allu o hono ei hun, na thrwy un gras a roddir iddo, i gadw y gorchymynion yn berffaith. O hono ei hun ni's gall ei wneuthur, ac nid oes y fath fesur o râs yn cael ei roddi i neb yn y bywyd hwn ac a'u galluoga i hynny: "Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro." Iago 3. 2. Y mae'r anallu hwn yn y saint, o herwydd y gweddillion o lygredd sydd yn aros y'mhob un o honynt yn y sefyllfa farwol hon. Rhuf. 3. 27. " Eithr yr wyf yn gweled deddf arall yn fy aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf fy meddwl, ac yn fy nghaethiwo i ddeddf pechod, yr hon sydd yn fy aelodau." Oddiwrth yr hon y maent yn hiraethu yn angerddol am gael ei gwaredu.

Rhuf. 7. 24. "Ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon! Nid oes un addewid 'n y Bibl y byddai i râs cymmaint gael ei roddi i'r creddyn ac a'i galluogai ef i gadw gorchymynion Duw yn berffaith; ac ni byddai iddo gael ei roddi yn beth cydunol â chynnydd ysprydol, yr hwn a gymharir i gynnydd naturiol yn raddol: ac y mae'n sicr nad yw y saint yn cyrhaedd eu cyflawn faintioli hyd oni ddelont i drigfanau gwynfyd! Thes. 3. 13.

III. Mi a gaf ddangos pa fodd y mae y saint yn pechu yn feunyddiol, ac yn torri gorchymynion Duw.

Ac yma mi a ystyriaf,

Yn 1. Pa sawl ffordd y gellir torri y gorchymynion.

2. Yn mha ystyr y mae y saint yn pechu yn feunyddiol.

3. Pa fodd y mae y ffaeleddau hynny o'u heiddo, yn torri y gorchymynion.

Yn I. Yr wyf i ddangos pa sawl ffordd y gellir torri y gorchymynion. Fe ellir eu torri mewn tair ffordd; mewn gweithredoedd, geiriau, a meddyliau.

Yn 1. Mewn gweithredoedd, trwy wneud yn wrthwyneb i'r gorchymyn, neu beidio gwneud yr hyn a orchymynir. Gorchymynion Duw yw y rheol i fywyd ac ymarweddiad allanol dynion; a pha beth bynnag yr ydym yn ei wneud, neu yn ei esgeuluso, yn groes i'r gyfraith, y mae yn bechod, pa un bynnag fyddo ai cyhoedd ai dirgel. Psalm. 14. 2, 3.

2. Mewn geiriau, un ai trwy ddweud yr hyn ni ddylem, neu beidio dweud yr hyn a ddylem; neu ddweud yr hyn a ddylem heb fod yn y modd gorchymynol. (Y mae'r un peth i'w ddywedyd am weithredoedd.) Y mae gorchymynion Duw yn rheoli'n tafodau, ac yn dywedyd wrthym pa beth i ddywedyd, a pha fodd i ddywedyd, a pha beth na ddywedom. A thrwy esgeuluso y rheol hon y mae y tafod yn myned yn "dân, yn fyd o anghyfiawnder." Iago 3, 6.

3. Mewn meddyliau. Yma y mae cyfraith Dduw yn myned y tu draw i gyfreithiau dynion yn ei holl rywogaethau; o herwydd y mae ein meddyliau yn agored i Dduw (yr hwn sydd yn hollwybodol) fel ein geiriau a'n gweithredoedd. Heb. 4. 13. "Eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn son," ac yn ddarostyngedig i'w gyfraith. O herwydd, medd *Crist*, Mat. 5. 28. "Pob un ar sydd yn edrych ar

wraig i'w chwennychu hi, sydd wedi gwneuthur eisioes odineb â hi yn ei galon." Felly fe ddichon un bechu trwy feddwl y pethau ni ddylai, trwy esgeuluso meddyliau da, a thrwy beidio rheoli meddyliau da yn y modd gofynol yn ol y gyfraith.

II. Mi a ddangosaf pa fodd y mae y saint yn pechu yn feunyddiol, mewn meddwl, gair, a gweithred.

Yn 1. Yn naccaol. Nid yw y saint yn syrthio yn feunyddiol i bechodau gwarthus, yn erbyn llythyren y gyfraith, mewn meddwl, gair, na gweithred. Fe wna Duw ddi-arddel y rhai hynny y sydd yn llettya meddyliau aflan yn feunyddiol; yn tyngu yn feunyddiol, yn dywedyd celwydd yn feunyddiol, yn gwneud pethau anghyfiawn, ac yn esgeuluso addoliad Duw yn feunyddiol; ni chydnebydd Duw y cyfryw o nifer ei saint. Gal. 5. 12, 21. "Hefyd amlwg yw gweithredoedd y cnawd; y rhai yw, tor-priodas, godineb, aflendid, anlladrwydd, delw-addoliaeth, swyn-gyfaredd, casineb, cynhenau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiau, cynfigenau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn: am y rhai yr wyf fi yn rhag-ddywedyd wrthych, megis ag y rhag-ddywedais, na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw." Nid yw y fath frychau a'r rhai hyn yn frychau pobl Dduw. Y mae preswylfod Crist trwy yr yspryd ynddynt, y diorseddiad ar lywodraeth pechod ynddynt trwy awdurdod dwyfol ras, y'nghyd â greddfol dynerwch eu cydwybod hwy a'u gwiliadwriaeth, yn eu hattal rhag y ffordd ffiaidd hon o fyw. Ond yn

2. Yn gadarnhaol. Heblaw y gall y saint gael eu gyrru i bechodau gwarthus mewn meddwl, gair, a gweithred, weithiau trwy ddiofalwch, gwendid, a thrais y demtasiwn, yr hyn sydd lwyth gorthrwm ar eu heneidiau. Y maent yn pechu bob dydd mewn meddwl, gair, a gweithred, pan y maent yn gwylio fanylaf, ac yn cael fwyaf o gynnorthwyon dwyfol. Pa ddiwrnod sydd yn myned trosodd, os heb feddyliau gwarthus, nid heb feddyliau ofer, os heb eiriau drygionus, nid heb eiriau ofer; neu pa amser yw hwnnw y mae pob peth yn cael ei wneud y mae y ddeddf yn ei orchymyn, a phob peth heb ei wneud ag y mae yn ei wahardd, er na ddichon y byd nodi allan y golled? Heblaw hynny, pa feddwl da sydd

yn cael ei feddwl; pa air da sydd yn cael ei ddywedyd; pa weithred dda sydd yn cael ei gwneuthur gan y saint mor bûr fel na wêl y gyfraith sanctaidd wâll yn y cyflawniad?

III. Yr wyf i ddangos pa fodd y mae y ffaeleddau hyn o'u heiddo, yn torri y gorchymynion, tra y maent hwy yn ymegnio yn ddifrifol i ufuddhau iddynt. Y gyfraith foesol yw tragywyddol reol cyfiawnder; ac y'mha gyflwr bynnag y byddo'r creadur, y mae e'n rhwym i ufuddhau i'w greawdwr; pa un bynnag ai mewn cyflwr natur neu ras—mewn cyflwr o ogoniant neu ddamnedigaeth. Er nad yw perffeithrwydd yn gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn, etto y mae yn ddyledswydd ar y saint, fel y mae ar eraill, i ufuddhau yn berffaith. Mat. 5. 48. "Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, megis y mae eich Tad yn hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Felly mae pob diffyg o gyrhaedd y perffeithrwydd hwn yn bechod ynddynt, ac yn angenrheidiol iddo gael ei ddilëu â gwaed Crist.

Ac fel hyn y mae dynion yn feunyddiol yn torri gorchymynion Duw, mewn meddwl, gair, a gweithred; yr hon yw yr unig ffordd y mae yn bosibl i droseddu y gyfraith ddwyfol; ac y mae ein gwaith yn gwneud felly, yn profi uniondeb y cyhuddiad y mae yr Arglwydd yn ei ddwyn yn erbyn dynion, yn y geiriau hyn: "Gwnaethost yr hyn oedd ddrwg hyd y gellaist." Jer. 3. 5.

IV. Mi gaf yn awr gadarnhau y pwngc, nad yw perffeithrwydd yn gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn.

Yn 1. Y mae yr ysgrythur yn tystiolaethu nad oes un dyn yn ddi bechod: 1 Bren. 8. 46. "Canys nid oes dyn ni phecha;" a hynny, "Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro." Iago 3. 2. Os barna neb fod perffeithrwydd ynddo ef ei hun, y mae yspryd Duw yn dywedyd ei fod yn ei dwyllo ei hun, 1 Ioan 1. 8. Gwelwch ofyniad di fodd i'w atteb. Diar. 29. 9. "Pwy a ddichon ddywedyd, Mi a lanhêais fy nghalon, glân wyf oddiwrth fy mhechod?

2. Y mae yn y goreu o ddynion egwyddor bechadurus yn cydhanfodi â'r egwyddor sanctaidd, yr hyn sydd yn peri fod y rhyfel ysprydol yn yr enaid yn ddi ddarfod, hyd oni ddelo angau i roddi ei ergyd marwol i wahanu *rhyngddynt*. Gal. 5. 17. "Canys y mae y cnawd yn *chwennychu* yn erbyn yr yspryd, a'r yspryd yn erbyn

cnawd; a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynnag a ewyllysioch."

3. Yr ydym yn cael ein dysgu i weddio yn wastad am faddeuant. Mat. 6. 12. "A maddeu i ni ein dyledion." Nid oes angen maddeuant ar greaduriaid di bechod. Y mae hyn yn profi yn amlwg fod pawb yn pechu, a thrwy hynny yn methu cyrhaedd perffaith ufudd-dod.

4. Ac yn ddiweddaf,—Ystyriwch ysprydolrwydd a helaethrwydd y gyfraith; a chymharwch hynny â gwendid dynol, ac yna y gwelwch yn eglur, fod perffeithrwydd yn anghyraeddadwy yn y bywyd hwn. Oddi yma y mae yn amlwg, fod y rhai a olygant eu hunain yn berffaith yn y bywyd hwn, yn ddieithriaid i ysprydolrwydd y gyfraith: o herwydd pe y golygent y matter yn uniawn, hwy a fyddent yn mhell oddiwrth freuddwydio eu bod wedi cyrhaedd perffeithrwydd, yr hyn ni's cyrhaeddodd un dyn, a dyn yn unig, yn y bywyd hwn.

*Gwrthddadl.*—Yr oedd Noah yn berffaith. Gen. 6. 9. Yr oedd Job yn berffaith. Job 1. 8.

*Atteb.*—Yr oeddent hwy, a phawb o'r saint, yn feddiannol ar berffeithrwydd efangylaidd, yr hyn yw perffeithrwydd mewn rhanau. Yr oedd ganddynt berffeithrwydd cymhariaethol; hynny yw, yr oeddent yn fwy sanctaidd a gwiliadwrus na neb arall. Eithr nad oeddent yn berffaith sanctaidd yn ol y gyfraith, sydd amlwg y'ngwaith Noah yn meddwi, a Job yn amhwyllo. A pha le y mae y sant hwnnw y cawn ei hanes ef yn yr Ysgrythur, heb fod rhyw anmherffeithrwydd yn cael ei briodoli iddo, i ystaenio mawredd pob godidowgrwydd?

*Gwrth.*—Oni ddywedir yn 1 Ioan 3, 9. Pob un a anec o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod?

*At.*—Nid meddwl y geiriau yw, nad yw y saint yn pechu un amser; eithr nad ydynt yn pechu gydâ chyflawn gydsyniad yr ewyllys; nad ydynt yn cymmeryd pleser a difyrrwch ynddo; nad ydynt yn gwneuthur crefft o bechu, megis y mae dynion di adgenhedledig yn gwneuthur; ac nid ydynt yn pechu y pechod i farwolaeth. 1 Ioan 5. 18.

*Gwrth.*—Ond gan ei fod yn anmhosibl i roddi perffaith ufudd-dod i'r gyfraith, pa fodd y mae yn gydunol â chyfiawnder a doethineb Duw, i ofyn oddiwrthym yr hyn nid oes gennym allu i'w gyflawni?

*At.*—Y mae cyfraith Dduw yn gyfiawn, ac yr oedd yn bosibl i ddyn ei chyflawni yn ei gyflwr creadigol; ac nid oes un ddyledswydd yn cael ei gofyn oddi wrthym ni yn bresennol, ond yr hyn a gynnysgaeddodd Duw ni â gallu digonol yn ein creadigaeth i'w chyflawni. Etto, yn ein cyflwr syrthiedig a llygredig, y mae perffaith ufudd-dod gwedi dyfod yn anwneuthuradwy, trwy ein gwendid a'n gwrthwynebiad ni i'n dyledswydd. Ac ni ddichon iddo fod yn anghyfiawnder yn Nuw iddo ofyn oddi wrthym ni yr hyn sydd yn anmhosibl i ni ei gyflawni, pan y mae yr anmhosiblrwydd yn deilliaw oddiwrth ein hamryfusedd ni. Nid Duw, eithr nyni ein hunain, sydd wedi gwneuthur y perffaith sylwiad o'i gyfraith ef yn anmhosibl; ac er i ni wastraffu ein golud, a myned yn doredig ac yn dlawd, etto, efe a all, mewn cyfiawnder, fynnu y ddyled honno o ufudd-dod oddi wrthym ni, yr hon sydd gyfiawn ddyledus arnom iddo.

*Gwrth.*—Ond onid yw y credinwyr gwedi eu gwaredu oddiwrth awdurdod orchymynol a chollfarnol y gyfraith, pa fodd, gan hynny, y maent hwy yn rhwym i roddi un ufudd-dod iddi?

*At.*—Y mae y credinwyr yn ddiau, gwedi eu gwaredu yn gystal oddiwrth awdurdod orchymynol- y gyfraith a'i hawdurdod gollfarnol hi, a'i hystyried hi yn unig fel y mae hi yn rheol yn y cyfammod gweithredoedd, yr hwn sydd yn gofyn ufudd-dod iddi er cyfiawnhâd; eithr nid ydynt mewn un modd gwedi eu rhyddhau oddi wrthi, fel y mae hi'n gyfraith Crist, neu'n rheol i ddyledswyddau. O herwydd y gyfraith foesol yw trag'wyddol reol cyfiawnder, ac ad'sgrifen y perffeithiau dwyfol, yr hon y mae pob credadyn yn rhwym o ganlyn yn eu hol, a gofyn am faddeuant, er mwyn gwaed Iesu, o'i holl fyrdra yn ufuddhau iddi; o herwydd heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd.

Y mae sancteiddrwydd personol mor angenrheidiol i'r meddiant o ogoniant, neu'r cyflwr o berffaith sancteiddrwydd a happusrwydd, ag yw y boreu oleuni i ganol-ddydd, gwrês, a disgleirdeb; ag yw enaid rhesymol i ddyn i'w wneud yn synhwyrol, yn iachus, yn gadarn, a'i ddwyn ef i'w gyflawn faintioli; ag yw'r achos i'r effaith; ag yw y rhan o beth i'r oll o hono; ac mor angenrheidiol ag yw'r ysgogiad i brofi'r bywyd. Ac y mae'r dev

gorchymyn, yr hyn yw sylwedd cyfraith natur, a d
luniad o ddelw Duw, a pheledr o'i sancteiddrwydd
yn gweddu i fod yn rheol bywyd i ddyn, yn ddi-gyfnew
byth, yn mha gyflwr, dan ba gyfammod, yn mha amgylc
iad bynnag y byddo efe, nid dim ond cyflawn ddistry
iad a difodiad o'r natur ddynol a ddichon ei rhyddh
oddiwrth y gwasanaeth hwn; gan fod yn anghyfnewid
yn ei ddelw a'i sancteiddrwydd. Oddi yma'r ymdden
ys nad yw bod y gorchymynion yn rheol bywyd i Ad
a'i hiliogaeth yn ymddibenu ar eu bod yn rheol iddy
dan y cyfammod gweithredoedd: eithr hwy a fuasent
rheol bywyd iddynt, pe na buasai y fath gyfammod erio
mewn bod; pa fath gyfammod bynnag a fuasid yn ei
wain i mewn, pa un ai o weithredoedd neu o râs, a p
ffurf bynnag a fuasid yn ei osod arnynt, yr oedd y gorc
ymynion yn gweddu, er hynny, i fod byth yn rheol bywy
Ni all'sai un cyfammod, nac un ffurf, pa fath bynnag
fuasai, byth golledu'r gorch'mynion o'u brenhinol urdd
rwydd.

V. Mi gaf roddi'r rheswm o'r oruchwyliaeth hon.
allai Duw wneuthur y saint yn berffaith yn munud
troëdigaeth. Nid yw yn gwneuthur hynny. Felly
mae yn rhyngu bodd yn ei olwg. Amryw bethau a
ygir fel achos o hyn; ond y peth mwyaf tebygol mai
diben yw dyrchafu rhadlonrwydd a gallu grâs yn fw
Eph. 2. 4, 7. "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o dr
garedd, o herwydd ei fawr gariad, trwy yr hwn y caro
efe ni, fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai ragor
olud ei ras ef, trwy ei gymmwynasgarwch i ni y'Nghri
Iesu." Y mwyaf o bechodau a faddeuir i'r pechadur,
mwyaf i gyd yw yntau yn nyled Crist. Pa amlaf y b
ddo'r gwreiddyn pechod yn ymddangos yn natur un,
mwyaf i gyd y mae gallu gras yn ymddangos yn y
wreiddiad o hono. Y mae yn ddiau, yn ogoniant i
llong-lywydd mawr ni, ei fod yn dyfod â'r llong ddryl
iedig i dir trwy gynnifer o beryglon.

*Gocheliad.*—Na cham-arferwch yr athrawiaeth h
trwy feddwl yn ysgafn am bechod o'i herwydd hi. P
chod yw'r clefyd gwaethaf o'r holl glefydau, o'r hwn
mae'r rhan amlaf yn marw, ac nid oes un dyn yn cyfla
wella o hono hyd oni byddo marw. Na wnewch
*ffordd i uffern* yn esmwythach, o herwydd yr anhaw

au sydd yn y ffordd i'r nef; o herwydd efe a fydd iddynt hwy y sydd yn ymegnio at berffeithrwydd yma, ei gael ef yn angau, pan y byddoch chwi sydd yn eistedd yn llonydd wrth eich melus-chwant, yn cael eich dwyn i wared gydâ'r llifeiriant i drag'wyddol ddinystr.

Na fydded i chwi feithrin unrhyw felus-chwant neillduol, o herwydd nad yw'r saint yn berffaith: o herwydd y mae'r saint oll yn berffaith mewn rhanau, er nad mewn graddau; mor berffaith a'u bod yn casau pob pechod gwybodus iddynt, Psalm 119. 128.

VI. Y cymhwysiad. Yn 1. Nid oes un cyfiawnhad, cymmeriad, na heddwch â Duw, i'w gael trwy ein gweithredoedd ein hunain. Psalm 143. 2. "O herwydd ni chyfiawnhaer neb byw yn dy olwg di." Llawer llai y dichon fod gweithredoedd o or-haeddiant. Y mae'n rhaid i ni gael ein cyfiawnhau trwy gyfiawnder Crist, trwy ffydd, neu fod byth heb ein cyfiawnhau.

2. Pa beth bynnag yw eich cyrhaeddiadau, na fyddwch falch arnynt; fe ddylai eich byrdra a'ch angenion eich cadw'n ostyngedig bob amser. Y mae'r canghenau diffrywth yn ben-uchel, pan y mae'r canghenau ffrwythlawn yn plygu eu penau i lawr.

3. Anrhaethadwy resynol yw cyflwr yr anghredinwyr. Y maent heb Grist; y mae'n rhaid iddynt sefyll neu syrthio yn ol y gyfraith, ac y mae'n gyflawn tu hwnt i'w gallu i'w chadw hi.

4. Dygwch feichiau eich gilydd; o herwydd y mae pob dyn yn troseddu. Yr ydym mewn yspytty, (neu *hospital*) lle y mae'r rhan amlaf yn marw o'u clefyd, ac nid yw'r rhai goreu ond mewn ffordd o wellhad.

5. Ac yn ddiweddaf, Bydded i'r saint ymorchestol hiraethu am y nef, canys yno y bydd i'r perffeithrwydd y byddai'n llawen ganddynt ei fwynhau, gael ei feddiannu, ac nid cyn hynny. Ac fe ddichon hyn eu cysuro hwy dan eu holl ofidiau a'u ffaeleddau, y rhai y maent yn galaru yn yr olwg arnynt; sef y cânt, yn y byd a ddaw, gyrhaedd y cyflawn berffeithrwydd mewn sancteiddrwydd y maent yn hiraethu am dano.

DIWEDD.

W. WILLIAMS, ARGRAPHYDD, ABERHONDDU.

GENERAL LIBRARY - U.C. BERKELEY

B000883131